

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



600092065S

LLYFR

ATHRAWIAETH

A

CHYFAMMODAU

PERTHYNOL I

EGLWYS IESU GRIST

O

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF;

A GASGLWYD O

DDADGUDDIADAU DUW.

GAN JOSEPH SMITH, LLYWYDD.

WEDI EI GYFIEITHU O'R AIL ARGRAFFIAD EWROPAIDD,

GAN JOHN DAVIS.

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWYD AC AR WERTH GAN J. DAVIS, GEORGETOWN;

AR WERTH HEFYD

Gan y Saint yn gyffredinol, a llawer o Lyfrwerthwyr,
trwy y Deau a'r Gogledd.

1851.

110. d. 376.

ENTERED AT STATIONERS' HALL.

MERTHYR-TYDFIL: ARGRAFFWYD GAN JOHN DAVIS.

MYNEGAI.

MYNEGAI PR DARLITHIAU AR FFYDD.

		Tud.
1	Darlith - - - - -	1
2	Darlith - - - - -	7
3	Darlith - - - - -	26
4	Darlith - - - - -	34
5	Darlith - - - - -	41
6	Darlith - - - - -	46
7	Darlith - - - - -	50

MYNEGAI O AMSERYDDIAD YR AIL RAN.

Dos			Tud.
30	Dadguddiad i J. Smith, ieu. . .	Gor. 1828	157
31	Dadguddiad i J. Smith, hen. . .	Chw. 1829	158
32	Dadguddiad i J. Smith, ieu., a M. Harris	Maw. „	159
8	Dadguddiad i O. Cowdery a J. Smith, ieu.	Ebrill, „	100
33	Dadguddiad ynghylch pa un a arosodd Ioan ar y ddaear . . .	Ebrill, „	162
34	Dadguddiad i Oliver Cowdery . .	Ebrill, „	162
35	Dadguddiad ynghylch cyfieithu, i O. Cowdery	Ebrill, „	163
36	Dadguddiad ynghylch colli peth o Lyfr Mormon	Mai, „	164
37	Dadguddiad i H. Smith . . .	Mai, „	169
38	Dadguddiad i J. Knight, hen. . .	Mai, „	171
39	Dadguddiad i D. Whitmer . .	Meh. „	172
40	Dadguddiad i J. Whitmer . .	Meh. „	173
41	Dadguddiad i P. Whitmer, ieu. . .	Meh. „	173
42	Dadguddiad i O. Cowdery, D. Whitmer, a Martin Harris . . .	Meh. „	174

Dos.			Tud.
43	Dadguddiad i ddewis Deuddeg	Meh. 1829	175
44	Dadguddiad i M. Harris	Maw. 1830	178
2	Dadguddiad ynghylch Llywodraeth Eglwysig	Ebrill 6, „	63
46	Dadguddiad i Joseph Smith, ieu.	Ebrill 6, „	181
47	Dadguddiad ynghylch Ail-fedydd	Ebrill, „	182
45	Dadguddiad i O. Cowdery, H. Smith, a S. H. Smith, &c.	Ebrill, „	180
9	Dadguddiad i J. Smith, ieu. ac O. Cowdery	Gorph. „	103
48	Dadguddiad i Emma Smith	Gorph. „	183
49	Dadguddiad i J Smith, ieu., O. Cowdery, a J. Whitmer	Gorph. „	184
50	Dadguddiad ynghylch y Sacrament, gwahanran 1af	Awst, „	184
50	Dadguddiad ynghylch yr un peth, gwahanran 2 a 3	Medi, „	185
51	Dadguddiad i O. Cowdery a'r Eglwys	Medi, „	186
10	Dadguddiad i chwech o Henuriaid	Medi, „	105
52	Dadguddiad i D. Whitmer, P. Whitmer, ieu., a J. Whitmer	Medi, „	187
53	Dadguddiad i T. B. Marsh	Medi, „	188
54	Dadguddiad i P. P. Pratt a Z. Peterson	Hyd. „	189
55	Dadguddiad i E. Thayre ac N. Sweet	Hyd. „	190
56	Dadguddiad i O. Pratt	Tach. „	191
11	Dadguddiad i J. Smith, ieu., a S. Rigdon	Rhag. „	109
57	Dadguddiad i E. Partridge	Rhag. „	192
58	Dadguddiad i J. Smith, ieu., a S. Rigdon	Rhag. „	192
12	Dadguddiad i'r Eglwys	Ion. 2,1831	111
59	Dadguddiad i J. Covill	Ion. 5, „	193
60	Dadguddiad ynghylch J. Covill	Ion. „	195
61	Dadguddiad i benodi E. Partridge yn esgob	Chw. 4, „	195
13	Dadguddiad ynghylch Cyfreithiau yr Eglwys	Chw. 9, „	114
14	Dadguddiad i'r Eglwys	Chwef. „	120
62	Dadguddiad i alw yr Henuriaid ynghyd	Chwef. „	196
15	Dadguddiad ynghylch Prophwydoliaeth	Maw. 7, „	123
16	Dadguddiad ynghylch y Doniau	Maw. 8, „	128
63	Dadguddiad i J. Smith, ieu., a J. Whitmer	Maw. 8, „	197
64	Dadguddiad er sefydlu rhai teuluoedd am yr amser presennol	Mawrth „	197
65	Dadguddiad ynghylch y Crynwyr	Mawrth „	198
17	Dadguddiad ynghylch yr Ysbryd	Mai, „	130
23	Dadguddiad i E. Partridge yn nghylch cangen Colesville, yn Thompson	Mai, „	149
66	Dadguddiad ynghylch danfon Henuriaid i Missouri	Meh. 7, „	200
67	Dadguddiad i S. Gilbert	Meh. „	202
68	Dadguddiad i Newel Knight	Meh. „	203

Dos.			Tud.
69	Dadguddiad i W. W. Phelps . .	Meh. 1831	204
70	Dadguddiad i T. B. Marsh ac E. Thayre .	Meh. „	205
27	Dadguddiad ynghylch lle Seion . .	Gorph. „	154
18	Dadguddiad ynghylch Trallodion Seion .	Awst, „	133
19	Dadguddiad ynghylch y Sabboth .	Awst 7, „	137
71	Dadguddiad i rai dynion i ddychwelyd o Missouri	Awst 8, „	206
72	Dadguddiad ynghylch Dystrywiadau ar y Dyfroedd	Awst 12,„	208
73	Dadguddiad i rai Henuriaid ar làn y Missouri	Awst 13,„	211
20	Dadguddiad i'r Eglwys yn Kirtland .	Awst, „	139
21	Dadguddiad a roddwyd yn Kirtland .	Medi 11 „	143
24	Dadguddiad ynghylch Gweddi . .	Hyd. „	150
75	Dadguddiad i W. E. M'Lellin . .	Hyd. „	212
1	Dadguddiad ynghylch Rhagymadrodd yr Arglwydd i'r llyfr hwn . .	Tach. 1, „	60
25	Dadguddiad ynghylch Tystiolaeth y Gorchymynion	Tach. „	151
22	Dadguddiad i O. Hyde, L. a L. Johnson, W. E. M'Lellin, ac awgrymiadau ar Gyfraith	Tach. „	146
108	Dadguddiad, neu Attodiad . .	Tach. 3, „	295
28	Dadguddiad i O. Cowdery a J. Whitmer	Tach. „	155
26	Dadguddiad ynghylch Goruchwyliaethau	Tach. „	152
91	Dadguddiad i J. Smith, ieu., a S. Rigdon	Tach. „	238
90	Dadguddiad ynghylch penodi esgob yn Kirtland	Rhag. 4, „	236
29	Dadguddiad ynghylch dyledswydd Henuriaid hyd y Gynnadledd . .	Ion.10,1832	156
74	Dadguddiad yn eglurhad ar y Corinthiaid	Ion. „	211
88	Dadguddiad i amryw Henuriaid yn Amherst	Ion. 25, „	233
92	Dadguddiad neu Weledigaeth . .	Feb. 16, „	239
76	Dadguddiad ynghylch Urdd Enoch .	Mawrth„	213
77	Dadguddiad i Jared Carter . .	Mawrth„	215
78	Dadguddiad i S. Burnett . .	Mawrth„	215
79	Dadguddiad i J. Murdock . .	Mawrth„	216
80	Dadguddiad i F. G. Williams . .	Mawrth„	216
87	Dadguddiad ynghylch Urdd Enoch .	Ebr. 26,„	231
89	Dadguddiad mewn ychwanegiad at y gyfraith	Ebr. 30,„	236
4	Dadguddiad ynghylch yr Offeiriadaeth .	Me.22, 23,„	77
6	Dadguddiad ynghylch Dammeg y Gwenith, &c.	Rhag. 6,„	88
7	Dadguddiad a elwir deilen yr olewwydden	Rhag.27,„	89
81	Dadguddiad Gair Doethineb . .	Ch.27,1833	217
85	Dadguddiad ynghylch allweddau y deyrnas	Maw. 8, „	225

Dos.			Tud.
93	Dadguddiad ynghylch yr Apocrypha .	Maw9,1833	246
94	Dadguddiad ynghylch urdd Enoch, &c. .	Maw.15 „	246
83	Dadguddiad am dystiolaeth Ioan am Grist	Mai 6, „	221
84	Dadguddiad ynghylch adeiladu tai yr Arglwydd	Mai 6, „	224
96	Dadguddiad ynghylch Ceryddu . .	Meh. „	248
97	Dadguddiad yn dangos urdd Estynfa Enoch	Meh. 4, „	249
82	Dadguddiad ynghylch Ysgol yn Seion .	Awst 2, „	219
86	Dadguddiad ynghylch Cyfreithiau yr Henafiaid	Awst 6, „	228
95	Dadguddiad i J. Smith a S. Rigdon yn Perrysburgh	Hyd. 12 „	247
98	Dadguddiad ynghylch Dammeg am Seion	Rhag.16 „	250
5	Cydgorffoliad yr Uchel Gynghor . .	Ch.17,1834,	85
101	Dadguddiad ynghylch Gwaredigaeth Seion trwy allu	Chw.24, „	264
99	Dadguddiad ynghylch urdd Enoch i'r tlawd	Ebr. 23, „	257
102	Dadguddiad a roddwyd ar Afon Bysgota, Missouri	Meh. 22 „	266
100	Dadguddiad i Warren A. Cowdery .	Tach. „	263
3	Corwmau o Offeiriadaeth . .		69
104	Dadguddiad i T. B. Marsh, ynghylch y Deuddeg	Gor 23,1837	282
107	Dadguddiad ynghylch y Degwm .	Gor. 8, 1838	294
103	Dadguddiad ynghylch y Deml a Thŷ Nauvoo	Ion.19,1841	269
105	Anerchiad J. Smith . . .	Medi 1,1842	285
106	Anerchiad J. Smith . . .	Medi 6, „	287
109	Priodas		299
110	Llywodraethau a chyfreithiau yn gyffredinol		301
111	Merthyrdod Joseph ac Hyrum Smith .		303

MYNEGAI.

	Tud.	Gwa.
Achosion o apeliad mewn barn	87	11
Adeiladu y Tabernacl a'r Deml, rhesymau dros	273	12
Addewid Duw i'r ffyddlawn	82	15
Addewid yn cael ei gwneuthur i'r eglwys	214	3
Addewid o fywyd tragywyddol	90	2
Addewidion i Seion	251	4
Allweddau, pwy sydd yn eu dal	185	2
Ammodau iachawdwriaeth	64	5
Anerchiad i'r rhai a ewyllysiant wasanaethu yr Arglwydd	172	4
Anerchiad gydag addewidion	172	1
Anerchiad gydag addewidion	173	1
Anerchiad gydag addewidion	173	1
Anerchiad i'r Deuddeg	176	5
Anerchiad at y Saint yn Nauvoo, gan Joseph Smith, Medi 1, 1842	285	1
Anerchiad at y Saint yn Nauvoo, gan Joseph Smith, Medi 6, 1842	287	1
Annogaeth i ddyledswydd	76	44
Annogaeth i geisio y doniau	128	4
Annogaeth i ffyddlondeb	185	3
Anghyfanedd-dra yn cael ei gyhoeddi trwy ffoedigaeth	141	9
Angylion gweinyddol y dyddiau diweddaf	292	20
Apocrypha, dadguddiad yn ei gylch	246	1
Attodiad	295	1
Apostolion i farnu tŷ Israel	106	3
Archoffeiriaid i weinyddu megys Esgobion	147	2
Archoffeiriaid neu Esgobion, pa fodd i'w profi	148	3
Ar dderbyniad trawsder	104	7
Arglwydd y Sabaoth, ei ddeongliad	248	1
Arweiniad yr Ysbryd yn Ysgrythyr	146	1
Arwydd-geiswyr	139	2
Arwyddion i ganlyn y credinwyr	80	11
Arwyddion y dyddiau diweddaf	191	2
Awdurdod Corwmau	70	11
Awdurdod yr Offeiriadaeth	146	1
Awdurdod yr Offeiriadaeth	216	1
Babilon, ei thrigolion i gael eu dystrywio	145	5
Babilon	96	26
Balchder calon yn cael ei wahardd	117	12
Barnedigaethau Duw	106	5
Barn yn cael ei gadael i Dduw.	195	1
Barn Duw ar y gelyn	274	15

	Tud.	Gwa.
Barn Duw ddim yn cael ei rhoddi oll i ddyn	107	8
Baurak Ale	268	5
Bedydd, pa fodd i'w weinyddu	67	21
Bedydd yn anghenrheidiol er iachawdwriaeth	81	12
Bedyddio dros y meirw, yn gymmeradwy yn y Deml yn unig	272	11
Bedyddio dros y meirw	286	5
Bedyddio dros y meirw, ei natur	289	8
Bedyddfan	290	13
Bendithion ufydd-dod	138	4
Bendithio bara, ei ddull	68	22
Bendithio gwin, ei ddull	68	23
Bendithion ffyddlondeb	81	13
Bendith ar y tir	168	11
Bendith ar y tlodion a'r rhai cystuddiedig eu calon	206	6
Blynyddoedd cyfrifoldeb	67	20
Brodyr i gynnorthwyo eu gilydd	187	2
Bwriadau Duw tuag at ei eglwys	273	13
Byddin Duw	269	9
Calonau breninoedd a llywodraethwyr yn cael eu tyneru	270	2
Cân Seion	83	17
Cant i fyned i fyny i Seion	265	6
Caethiwed yn cael ei gondemnio	255	10
Cangen o dŷ Israel	168	15
Cariad	83	19
Cariad Crist	191	1
Celwydd yn cael ei wahardd	115	7
Cenadiaeth am dymmor	238	1
Cenadiaeth at y Lamaniaid	189	1
Cerydd yn anghenrheidiol	208	2
Cleddyf Laban yn cael ei grybwyll	174	1
Cofiaduron bedyddio dros y meirw	288	3
Cof-lyfrau yn cael eu cadw yn ol	102	12
Cof-lyfr i gael ei gadw	181	1
Cofres o enwau ychwanegol i'w danfon i'r Gynnadledd	68	25
Cosp dragywyddol	178	1
Crist, goleu yr haul, lloer, &c.	90	2
Crist yn ddeddf-roddwr ei bobl	112	5
Crist yn dyoddef poen pob dyn	175	3
Crist y gwir oleuni	221	1
Crist ddim yn derbyn cyflawnder ar y cyntaf	221	2
Crynwyr, cenadiaeth i'r	198	1
Cydgorffoliad yn anghenrheidiol	214	2
Cuddio talentau	206	1
Cydraddoldeb	199	3
Cydraddoldeb	213	1
Cyfammod yr Offeiriadaeth, dim maddeuant am ei dori		6
Cyfarfodydd, pa fodd i'w dwyn yn mla	65	9

	Tud.	Gwa.
Cyfarfodydd, pa fodd i'w dwyn yn mlaen	128	1
Cyfarwyddwyr gwyrthiol yn cael eu crybwyll	174	1
Cyfieithad Newydd o'r Ysgrythyr yn cael ei grybwyll	278	28
Cyfieithu i'w attal am dymmor	192	1
Cyfoeth i'r Saint	114	9
Cyflawnder yr Efengyl trwy Joseph Smith	110	4
Cyflawnder tystiolaeth Ioan ar ol hyn	221	1
Cyflawnder yr Efengyl trwy rodd tafodau	226	4
Cyfreithiau y tir i'w cadw	134	5
Cyfreithiau ynghylch gelynion	229	5
Cyfreithiau tymmorol, a roddwyd i ddyn	107	9
Cyfraith goruchwyliaeth	153	3
Cyfrifon o oruchwyliaethau i'w danfon i Seion	156	2
Cyhoeddiad at freninoedd y byd, &c.	269	1
Cymhwysder i dalu eiddo	280	35
Cymmeryd enw Crist yn anghenrheidiol	176	4
Cynllun barn	201	5
Cynnadleddau, pa bryd i'w cynnal	66	13
Cynnadleddau, swyddogion i'w danfon iddynt	68	25
Cynnysgaethiad mawr wedi ei barotoi	267	3
Cynghor mewn barn	86	8
Cyrff i gael eu bywhau trwy ogoniant	91	6
Chwerthin lawer yn bechod	138	4
Chwerthin, gormodedd	94	19
Dadguddiad, pa le i'w gael	87	10
Dadguddiadau, trwy bwy eu rhoddir	120	1
Dadguddiad tra phwysig, y mynedol a'r dyfodol	123	1
Dadguddiad ynghylch llafnau Llyfr Mormon	173	1
Dadguddiad ynghylch y Deuddeg Apostol	175	1
Dadguddiad ynghylch bedyddiadau blaenorol	182	1
Dadguddiadau i'w derbyn gan y prophwyd yn unig	186	2
Dadguddiad ynghylch y Crynwyr	198	1
Dadguddiad ynghylch John C. Bennett	271	6
Dadguddiad ynghylch Tŷ Nauvoo	272	9
Dadguddiad ynghylch cymmeriad y Llaw-ysgrifen	157	1
Dadguddiad ynghylch cymmeriad y Llaw-ysgrifen	164	1
Dadguddiad ynghylch y Degwm	294	1
Dadguddiadau gau	187	4
Dammeg	253	6
Danfon trysorau i Seion	142	13
Dau neu dri wedi ymgynnull ynghyd	103	15
Dealltwriaeth ddim yn grëedig na gwneuthuredig	222	5
Deiliaid bedydd	65	7
Defnyddiad eiddo	276	20
Difrifoldeb ac addfwynder yn anghenrheidiol	247	2
Digllonedd yr Arglwydd yn erbyn y gwrthryfelgar	205	1
Digo[illegible]b fesur	264	1
Dinas Seion, ei ne	154	1

	Tud.	Gwa.
Dinystrydd yn cael ei ddanfon allan	267	4
Doethineb yn anghenrheidiol wrth bregethu	178	2
Doethineb i gael ei chwilio	98	36
Doethineb i gael ei chwilio	101	3
Doethineb i'w geisio o flaen cyfoeth	170	3
Doniau goreu i'w deisyf	128	4
Duw a gyfoda ddyn i fyny	264	3
Duw yn cydnabod gweithredoedd y Saint pan yn ffyddlawn.	265	5
Duw wedi parotoi cynnysgaeth fawr	267	3
Duw yn galw y gweiniaid	110	4
Duw yn galw ei orchymynion yn ol	205	2
Duw a dynera galonau y bobl	262	13
Duw sydd yn rhoddi cyfreithiau	92	11
Duw yn gofyn i'w bobl barchu y tlodion	258	2
Duwinyddiaeth, pa beth yw	4	1
Dybenion yr ymgasgliad	133	3
Dychweliad y Deg Llwyth	296	6
Dydd o rybydd	142	15
Dydd yr Arglwydd yn agoshau	263	2
Dydd dïal yn dyfod	284	9
Dydd mawr yr Arglwydd	121	5
Dydd Sabboth, pa fodd i'w gadw	137	2
Dydd Sabboth, pa fodd i'w gadw	138	3
Dydd Sabboth, pa fodd i'w gadw yn Seion	148	4
Dydd Aberth	145	5
Dydd degymu	145	5
Dyeithriaid mewn cyfarfodydd	128	2
Dyledswyddau Henuriaid, &c.	65	8
Dyledswyddau y Deuddeg	71	12
Dyledswydd y Deg a thrigain	71	13
Dyledswydd yr Offeiriadaeth	216	1
Dyledswydd personau neillduol	180	1
Dyledswydd rhieni yn Seion	148	4
Dyledswydd Offeiriad	65	10
Dyledswydd Dysgawdwr	66	11
Dyledswydd Aelodau	67	18
Dyledswydd pan wrthodir	82	16
Dyledswydd Dysgawdwyr a Diaconiaid	84	22
Dyledswyddau Esgob	237	3
Dynion i beidio adeiladu ar sylfaeni ereill	201	7
Dynion doeth a da i'w dal i fyny	228	2
Dyn yn y dechreuad gyda Duw	222	5
Dyscyblion, pa fodd i'w hadnabod	195	2
Dyoddefiadau yn ganlynol i drosedd	250	1
Dywedyd yn ddrwg yn cael ei wahardd	115	7
Dystawrwydd yn y nef	96	27
Edifeirwch i gael ei bregethu	170	4

	Tud.	Gwa.
Eglurhad ar 1 Corinthiaid, vii, 14	211	1
Eglwys Crist yr unig un	61	5
Eglwys Crist yn y dyddiau diweddaf, ei chyfodiad	63	1
Eglwys Crist pan ei sefydlwyd	181	1
Eglwys y Cyntaf-anedig	222	4
Eglwys Crist i farnu y cenedloedd	146	7
Elfenau yn dragywyddol	222	5
Emma Smith, dadguddiad i	183	1
Enoch, dadguddiad i	231	1
Enoch, dadguddiad i	246	1
Enoch, dadguddiad i	257	1
Enoch, dadguddiad i, ynghylch urdd Dinas Seion	249	1
Enw Iesu Grist	176	4
Erlidigaeth, yr achos o	264	1
Ffydd, darlith ar, pa beth yw	1	
Ffydd, darlith ar, Y gwrthddrych ar ba un y gorphwysa	7	
Ffydd, darlith ar, ynghylch priodoleddau Duw	26	
Ffydd, darlith ar	34	
Ffydd, darlith ar, Y Duwdod	41	
Ffydd, darlith ar	46	
Ffydd, darlith ar, ei heffeithiau	50	
Ffydd, ddim yn dyfod trwy arwyddion	139	3
Galwad ar y Saint i adeiladu y Deml	272	10
Gallu yr Offeiriadaeth Aaronaidd	70	10
Gallu yr Offeiriadaeth Aronaidd	70	10
Gallu i selio yn cael ei roddi	60	2
Glendid yn cael ei orchymyn	117	12
Godineb	140	5
Godineb yn cael ei gondemnio	115	7
Godinebwyr, pa fodd eu bernir	119	22
Gogoniant Duw, pa beth yw	223	6
Gogoniant yr oruchwyliaeth ddiweddaf	291	18
Goleuni, gallu Duw	90	3
Golchi traed	100	46
Gonestrwydd a chydraddoldeb	149	2
Gorchymyn i'r Henuriaid	193	2
Gorchymyn i adeiladu Teml	294	3
Gorchymynion i'w hufyddhau	98	38
Goruchwyliaeth Dyn	222	5
Gosod dwylaw ar làn y dwfr	200	3
Gostyngeiddrwydd ac edifeirwch yn anghenrheidiol	203	1
Gwadu yr Ysbryd wedi ei dderbyn, nis gellir ei faddeu	241	4
Gwahardd i briodi, nid o Dduw	199	3
Gwae y tlodion digystuddiedig eu hysbryd	206	5
Gwae y cyfoethog a'r annhrugarog	206	5
Gwaith Duw nis gellir ei rwystro	157	1
Gwan yn y ffydd i gyd-ymddwyn ag ef	117	13

	Tud.	Gwa.
Gwasanaeth yn cael ei ofyn gan yr Arglwydd	137	2
Gweddi, dadguddiad ynghylch, ei thestunau	150	1
Gweddiau y tadau yn cael eu hateb	168	12
Gweision yr Arglwydd i gael eu hordeinio	159	3
Gweision yr Arglwydd wedi eu danfon i ddysgu	121	4
Gweision yr Arglwydd i lafurio â'u holl nerth	233	1
Gweision yr Arglwydd, eu dyledswydd	234	3
Gweithwyr yn cael eu hannog i ddiwydrwydd	169	2
Gweled Duw	152	3
Gwenith a'r Efrau, dadguddiad yn eu hegluro	88	1
Gweledigaeth	239	1
Gwerth eneidiau yn fawr yn ngolwg Duw	175	3
Gwersyll Seion	268	5
Gwirionedd, ei brawf	151	2
Gwirionedd, pa beth yw	222	4
Gwirionedd yn annibynol	222	5
Gwisgoedd i fod yn syml	117	12
Gwrthgilwyr i dderbyn y melldithion trymaf	195	1
Haint yn cael ei ddwyn trwy frys	140	8
Henuriaid, eu dyledswydd	156	1
Henuriaid i gymmeryd offeiriaid gyda hwynt	83	20
Hyrum Smith yn cael ei benodi yn batriarch, &c.	278	29
Hyrum Smith yn cael ei garu gan Dduw am ei uniondeb	271	5
Idumea y byd	62	6
Iesu Grist, i ddwyn tystiolaeth o	146	1
Ioan Fedyddiwr wedi ei ordeinio	78	4
Ioan yr Apostol, dadguddiad ynghylch	162	1
Israel, triniaethau Duw tuag atynt	78	4
Jacob i flaguro o flaen dyfodiad yr Arglwydd	199	5
Joseph Smith wedi ei ysbrydoli	181	2
Joseph Smith, hen., gydag Abraham	271	7
Lladrata yn cael ei wahardd	115	7
Llafnau Nephi	167	9
Llofrudd, nid oes iddo faddeuant	115	6
Llw a chyfammod Duw yn cael eu derbyn gan yr offeiriadaeth	78	6
Llyfr Mormon, pa beth yw	63	2
Llyfr Mormon, ffydd ynddo yn anghenrheidiol	80	8
Llyfr Mormon a'r Ysgrythyr wedi eu rhoi er addysg	190	3
Llygad yn unig	94	18
Llywodraeth a Chyfreithiau	301	1
Llywyddion, pa fodd i'w hordeinio	67	17
Llywyddion	70	11
Llywydd y diaconiaid, ei ddyledswydd	75	38
Llywydd y dysgawdwyr, ei ddyledswydd	75	39
Llywydd yr offeiriaid, ei ddyledswydd	75	40

	Tud.	Gwa.
Llywydd yr henuriaid, ei ddyledswydd	76	41
Llywydd yr archoffeiriadaeth, ei ddyledswydd	76	42
Llywyddion y Degau a thrigain	76	43
Mab y dyn ddim i ddyfod fel benyw	199	4
Maddeuant	143	2
Maddeugarwch yn cael ei ddysgu	231	7
Marchogaeth ceffylau, &c., mewn gostyngeiddrwydd	211	3
Marw i'r Arglwydd	117	12
Meddiant gormodol, pa fodd i'w ddefnyddio	117	14
Meddiant i'w ranu	180	5
Meddwl yr Ysbryd, pa fodd i'w adnabod	164	3
Melldith yn lle bendith	104	6
Merthyrdod Joseph ac Hyrum Smith	303	1
Milflwyddiant, dim beddau ynddo	142	13
Milflwyddiant	251	5
Morwynion Ffol	142	13
Musgrellni ac aflendid	226	5
Musgrellni yn cael ei gondemnio	134	6
Myfyriad llyfrau, ieithoedd, &c.	226	5
Mynteioedd o ddegau, o ugeiniau, &c., i'w codi	265	6
Na ofynwch am wyrthiau	104	6
Na ddifenwch yn erbyn difenwyr	188	3
Neillduolion ordeiniad	67	16
Neb i ofni rhoddi ei fywyd i lawr	265	6
Neb yn rhydd o'r cynghor	75	36
Nid oes eangder lle nid oes teyrnas	92	9
Ni raid i'r cyfiawn ofni	168	13
Ofer-siarad a chwerthin, &c.	98	37
Offeiriadaeth Melchisedec ac Aaron	69	1
Offeiriadaeth Moses, pa fodd ei derbyniwyd	77	2
Offeiriadaeth Melchisedec, ei gallu	69	3
Offeiriadaeth Melchisedec	70	9
Ordeiniad yn anghenrheidiol	115	4
Pa fodd i adnabod dyscyblion	82	16
Pa fodd i fod yn barod erbyn pob peth	95	21
Pa fodd i ymddwyn at y claf a'r gwan ei frydd	117	12
Parhad i'r diwedd yn anghenrheidiol	203	3
Parotöad er cael pethau tragywyddol	213	1
Pechu yn erbyn goleuni	231	1
Peidio llefaru ynghylch tybiau	179	4
Peidio pregethu heb yr ysbryd	115	5
Peidio cellwair â phethau santaidd	101	5
Pethau amnhosibl ddim yn cael eu gofyn	274	15
Penodiad Esgob	236	1
Penodiad Swyddogion yn yr Offeiriadaeth	280	37
Perygl ar y dyfroedd	208	1
Pethau bychain i'w gwneyd mewn ffordd fach	87	12

	Tud.	Gwa.
Plant i gael eu bendithio	67	19
Plant i dderbyn addysg	204	2
Plant wedi eu prynu oddiar sylfaeniad y byd	108	13
Pob dyn i feindio ei fusnes ei hun	84	21
Pob Gwirionedd sydd Oleuni ac Ysbryd	79	7
Pob priodoleddau a ymlynant wrth eiddo eu hunain	92	10
Pob peth o Dduw	92	10
Pob peth i'w wneyd trwy gydsyniad cyffredin	184	1
Pobl Dduw a lwyddant	264	2
Prawf o bob ysbrydion dan y nefoedd	201	5
Pregethu i fod mewn tiriondeb a llarieidd-dra	114	9
Pregethu i fod i'r Lamaniaid	186	3
Priodas yn ordeiniedig i ddyn	199	3
Priodas	299	1
Prynedigaeth y rhai hyny ydynt eiddo Crist	96	28
Pryniad tiroedd	197	2
Puteinwyr, pa fodd i ymddwyn tuag atynt	119	20
Pwy ddylai gael eu hordeinio	142	15
Pwy a elwir i wasanaethu Duw	158	1
R. D. Foster, dadguddiad yn ei gylch	280	34
Rhagorfraint yr uniawn	208	1
Rhagymadrodd i orchymynion yr Arglwydd	60	1
Rhaid i bawb edifarhau a chredu	64	6
Rhanau yn Nhŷ Nauvoo, swm y	275	19
Rhyfeloedd yn cael eu harfaethu	141	9
Sacrament, pa fodd i'w weinyddu	68	22
Sacrament, cyfranogi o'r	184	1
Saint i gydgorffoli eu hunain yn ol y gyfraith	196	2
Saint yn cael eu cyfiawnhau wrth ddal i fyny y gyfraith	228	2
Saint anffyddlawn i gael eu gorchfygu	264	2
Saint i ddeisyf heddwch	269	11
Saint i hawlio yr hyn a ddygwyd oddi arnynt	256	13
Sefyllfa y rhai hyny a dorir allan o'r eglwys	130	3
Segurwyr yn anfoddloni yr Arglwydd	148	4
Segurdod yn cael ei wahardd	117	12
Segurwr ddim i gael lle yn yr eglwys	235	5
Seguro amser ymaith	207	3
Seion yn arwydd i'r bobloedd	146	8
Seion Enoch yn cael ei chymmeryd gan Grist	111	1
Seion i flaguro o flaen dyfodiad yr Arglwydd	199	5
Sidney Rigdon, dadguddiad iddo	279	32
Swyddogion, pa fodd i'w hordeinio	66	12
Swydd Esgob	74	33
Symudiad aelodau	68	26
Syrthio oddiwrth râs yn bosibl	64	6
Taer-erfyn ar lywodraethwyr	256	12
Teitlau Joseph Smith	181	

	Tud.	Gwa.
Teml, gorchymynion i'w hadeiladu	249	3
Teml a Thŷ Nauvoo, dadguddiad am danynt	275	18
Teuluoedd i gael eu cynnal	235	4
Teyrnasiad o fil o flynyddoedd	105	2
Teyrnasoedd yn cael eu cyffelybu i faes	93	13
Thomas B. Marsh, dadguddiad i	282	1
Tir i gael ei brynu	136	11
Tiroedd i gael eu prynu	140	8
Tiroedd i gael eu prynu	254	9
Tlodion i gael gweini iddynt	116	8
Tlodion i gael gweini iddynt	196	3
Trachwant yn cael ei wahardd	179	3
Trallod, ar ei ol y daw y fendith	264	3
Trefn yr offeiriadaeth oddiar Adda	72	19
Trefn mewn ymgynnulliadau	98	37
Trefn Ysgol y Prophwydi	99	39
Troseddau yn rhwystro gwaredigaeth	267	2
Troseddiadau, pa fodd i ymddwyn atynt	119	23
Troseddwyr	143	2
Troseddwyr, pa fodd i ymddwyn atynt	68	24
Trwyddedi, pa fodd i'w derbyn	66	14
Twyllo a chynllwyno i ddal, yn cael ei ddysgu gan y diafol	166	3
Tŷ i'w adeiladu i'r Arglwydd	210	3
Tyst-ysgrif yn anghenrheidiol	238	5
Tystiolaeth daeargrynfäau, &c,	96	25
Tystiolaeth yn anghenrheidiol	174	2
Tystiolaeth Ioan	221	2
Uchel Gynghor yn Kirtland yn cael ei gorffoli	85	1
Uchel Gynghorau sefydlog yn Seion	72	14
Udgorn yr Archangel	107	7
Ufydd-dod yn anghenrheidiol er cymmeradwyaeth	201	4
Ufydd-dod yn anghenrheidiol	274	14
Ufydd-dod a wna Seion yn ofnadwy	220	5
Undeb yn anghenrheidiol	113	6
Urim a Thummin yn cael ei grybwyll	174	1
Y byd yn addfedu mewn drygioni	175	2
Y canlyniadau o gadw gorchymynion Duw	222	4
Y dyfroedd yn cael eu bendithio yn y dechreuad	209	3
Y drygionus yn lladd y drygionus	141	9
Y Dyddanydd yn addewid o fywyd tragywyddol	90	2
Y Dyddanydd yn dwyn tystiolaeth	115	5
Y ddaear yn cael ei gweddnewidio	140	6
Y ddaear yn goddef cyfraith nefol	91	6
Y ddaear yn etifeddiaeth y Saint	112	4
Y ddwyfroneg, son am	174	1
Y fuddugoliaeth olaf ar Satan	97	35
Y ffyddlawn i'w wneuthur yn gryf	213	4

	Tud.	Gwa.
Y Ffyddlawn a gânt allu	269	10
Y gwahaniaeth rhwng yr Archoffeiriaid teithiol, a'r Uchel Gynghor Teithiol	88	13
Y gwahaniaeth rhwng corwm o henuriaid a'r deg a thrigain	282	44
Y gwrthryfelgar i'w dori allan o Seion	146	7
Y gwrthryfelgar ddim o Ephraim	146	7
Y Lamaniaid i flaguro fel y rhosyn cyn y delo yr Arglwydd	199	5
Y llariaidd i gael ei wneyd yn gryf	201	4
Ymddiried yn Nuw	81	14
Ymarferiad o rinwedd a santeiddrwydd yn cael ei orchymyn	129	9
Ymattal oddiwrth fwydydd ddim o Dduw	199	3
Ymddiriedwch yn yr Ysbryd	170	6
Y pwys o achub un enaid	175	3
Y pummed angel yn cyflwyno yr efengyl	97	31
Yr Arglwydd yn profi hyd angeu	229	3
Yr Arglwydd yn dyrysu y drygionus	167	9
Yr Arglwydd yn galw ei orchymynion yn ol	205	2
Yr anghenrheidrwydd am demtasiwn	108	10
Yr anghenrheidrwydd am lafur	194	5
Yr anghenrheidrwydd o weini i'r tlawd	267	2
Yr anghenrheidrwydd o undeb rhwng y byw a'r meirw	291	18
Yr Efengyl i'w phregethu gydag arwyddion i'r hollfyd	137	15
Yr Efengyl	190	2
Yr Efengyl	193	2
Yr hwn sydd yn lladd, pa ffodd i ymddwyn ato	119	21
Yr hwn sydd ganddo, ac ni rydd i'r tlawd, a gaiff fyned i uffern	258	2
Yr Offeiriadaeth Aaronaidd yn dragywyddol	77	3
Yr Ymgasgliad	251	5
Yr Ymgasgliad ddim i fod mewn brys	136	12
Yr unfed awr ar ddeg	190	1
Yr Ysbryd yn cael ei attal oddiwrth y byd	141	9
Y rhai sydd yn cael eu bendithio wrth ymgasglu	137	1
Ysbrydion gau, dadguddiad ynghylch	130	1
Ysbrydion gau, pa fodd i'w hadnabod	132	7
Ysbrydion gau, pa fodd i ymddwyn atynt	132	7
Ysbryd dadguddiad	162	1
Ysbryd a chorff yn enaid dyn	90	4
Ysbrydion dan gondemniad	97	29
Ysbryd gwirionedd o Dduw	222	4
Ysbrydion yn ddiniwed yn y dechreuad	223	6
Ysgol yn Seion	219	2
Ysgrythyrau yn gyfraith yr eglwys	118	16
Ysgwyd y llwch oddiwrth y traed	207	4
Yspeilwyr a lladron, pa fodd i ymddwyn atynt	119	22

DARLITHIAU AR FFYDD.

DARLITH GYNTAF.—DOSRAN I.

Ar Athrawiaeth Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a draddodwyd yn wreiddiol o flaen Dosparth o Henuriaid, yn Kirtland, Ohio.

1. Gan mai ffydd yw yr egwyddor gyntaf mewn crefydd ddadguddiedig, a sylfaen pob cyfiawnder, y mae o ganlyniad yn hawlio y lle cyntaf mewn cwrs o ddarlithiau a fwriedir er iawn ddeall athrawiaeth Iesu Grist.

2. Wrth ymdrin â'r pwnc o ffydd, cawn gadw at y drefn ganlynol :—

3. Yn gyntaf,—Ffydd ei hunan—pa beth ydyw?

4. Yn ail,—Y gwrthddrych ar ba un y gorphwysa. Ac

5. Yn drydydd,—Yr effeithiau a ddylifant oddiwrthi.

6. Yn gysson â'r drefn hon, y mae genym yn gyntaf i sylwi pa beth yw ffydd.

7. Mae awdwr yr epistol at yr Hebreaid, yn yr unfed bennod ar ddeg o'r epistol hwnw, a'r adnod gyntaf, yn rhoddi yr eglurhad canlynol ar y gair *ffydd:*—

8. "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled."

9. Oddiwrth hyn dysgwn mai ffydd yw y sicrwydd sydd gan ddynion o fodoliaeth pethau na welsant, a'r egwyddor o weithrediad yn mhob bod deallgar.

10. Pe buasai dynion yn iawn ystyried eu hunain, a throi eu meddyliau a'u myfyrdodau at weithrediadau eu meddwl eu hun, canfyddent yn union mai ffydd, a ffydd yn unig, yw yr achos

symudol o bob gweithrediad ynddynt; ac hebddi byddai y meddwl a'r corff mewn sefyllfa ddifywyd, a pheidiai eu holl ymdrechiadau, yn gorfforol a meddyliol.

11. Pe troai y dosparth yma yn ol, ac edrych ar hanes eu bywyd, o'r amser cyntaf y gallent gofio, a gofyn iddynt eu hunain pa egwyddor a'u cynhyrfodd i weithredu, neu pa beth a roddodd nerth a bywiogrwydd yn eu holl anturiaethau, galwadau, a gorchwylion cyfreithlawn, pa beth fyddai yr ateb? Ai nid y sicrwydd a feddem am bethau nad oeddem wedi weled etto, a fyddai? Ai nid y gobaith a feddech, mewn canlyniad i'ch ffydd mewn bodoliaeth pethau anweledig, a'ch cynhyrfodd chwi i weithredu ac ymdrechu er mwyn eu meddiannu? Ai nid ydych chwi yn ymddibynu ar eich ffydd, neu gred, er cyrhaedd pob gwybodaeth, doethineb, a newyddion? A wnelech chwi ymdrechu i gyrhaedd doethineb a newyddion, oni buasai eich bod yn credu y gallech eu cael? A wnelech chwi hau, pe byddech heb gredu y cawsech fedi? A wnelech chwi blanu, pe credasech na chawsech gasglu o'r ffrwyth? A wnelech chwi geisio, pe na chredasech y caech? A wnelech chwi chwilio, oddieithr eich bod yn credu y cawsech afael? Neu, a wnelech chwi guro, oddieithr eich bod yn credu y buasid yn agor i chwi? Mewn gair, a oes rhywbeth a allech chwi fod wedi ei wneyd, yn gorfforol neu feddyliol, pe buasech heb gredu yn flaenorol? Ai nid yw eich ymdrechiadau o bob math, yn ymddibynol ar eich ffydd? Neu, a allwn ni ofyn, pa beth sydd genych, neu a fu genych, ag na chafwyd trwy weithrediad eich ffydd? Ai nid yw eich bwyd, eich gwisgoedd, eich lletty,—oll yn deillio trwy ffydd? Adfyfyriwch, a holwch eich hunain os nad yw y pethau hyn felly.—Trowch eich meddylddrychau ar eich meddwl eich hunain, ac edrychwch os mai nid ffydd yw yr achos symudol o bob gweithrediad ynoch; ac os mai hi yw yr achos symudol ynoch chwi, paham nad yn mhob bod deallgar arall hefyd?

12. A chan mai ffydd yw yr achos symudol o bob gweithrediad mewn pethau tymmorol, felly hefyd mewn pethau ysbrydol; canys y mae'r Iachawdwr wedi dweyd, a hyny yn wirioneddol, mai y neb a *gredo* ac a fedyddier, a fydd cadwedig. Marc xvi, 16.

13. Fel ag yr ydym yn derbyn pob bendithion tymmorol trwy ffydd, efelly yn yr un modd y derbyniwn trwy ffydd yr holl fendithion ysbrydol ag yr ydym yn dderbyn. Ond y mae ffydd

nid yn unig yn egwyddor o weithrediad, ond o allu hefyd, yn mhob bod deallgar, pa un bynag ai yn y nefoedd ai ar y ddaear. Fel hyn y dywed awdwr yr epistol at yr Hebreaid, xi, 3 :—

14. "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir."

15. Wrth hyn y deallwn mai yr egwyddor o allu a fodolai yn mynwes Duw, trwy yr hon y lluniwyd y bydoedd, oedd ffydd ; ac mai o herwydd yr egwyddor hon o allu yn bodoli yn y Duwdod, y mae pob peth creuedig yn bodoli ; fel ag y mae pob peth yn y nefoedd, ar y ddaear, neu odditan y ddaear, yn bodoli o herwydd ffydd fel ag y bodolai ynddo Ef.

16. Oni buasai yr egwyddor o ffydd, ni fuasai y bydoedd byth yn cael eu llunio, ac ni chawsai dyn ei wneuthur o bridd. Hon yw yr egwyddor trwy ba un y mae'r Jehofa yn gweithio, a thrwy yr hon y mae yn gweithredu gallu dros bethau tymmorol yn gystal â thragywyddol.—Cymmerwch yr egwyddor neu'r briodoliaeth hon—o herwydd y mae yn briodoliaeth—oddiwrth y Duwdod, a darfyddai fodoli.

17. Pwy na all weled, os lluniodd Duw y bydoedd trwy ffydd, nad trwy ffydd hefyd y mae efe yn gweithredu gallu arnynt, ac mai ffydd yw yr egwyddor o allu? ac os mai yr egwyddor o allu, y mae yn rhaid ei bod mewn dyn yn gystal ag yn y Duwdod ? Dyma dystiolaeth yr holl ysgrifenwyr ysbrydoledig, a'r wers a fuont hwy yn ymdrechu ei dysgu i ddyn.

18. Dywed yr Iachawdwr (Mathew xvii, 19, 20), wrth egluro yr achos nad allai ei ddyscyblion fwrw y cythraul allan, mai o herwydd eu hanghrediniaeth oedd ; "canys yn wir y dywedaf i chwi, Pe bai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symud oddiyma draw, ac efe a symudai ; ac ni fydd dim anmhosibl i chwi."

19. Y mae Moroni, pan yn talfyru a chrynhoi cof-lyfrau ei dad, yn rhoddi i ni yr hanes canlynol o ffydd yn egwyddor o allu. Dywed, yn nhud. 540, mai ffydd Alma ac Amulek a achosodd i furiau y carchar ddryllio, fel y desgrifir yn nhud. 251 ; mai ffydd Nephi a Lehi a achosodd gyfnewidiad i gael ei weithredu yn nghalonau y Lamaniaid, pan y cawsant eu gorchuddio gan yr Ysbryd Glân a chan dân, fel y gwelir yn nhud. 403 ; ac mai trwy ffydd y symudwyd y mynydd Zerin pan

lefarodd brawd Jared yn enw yr Arglwydd. Gwel hefyd tud. 541, o'r ail argraffiad Seisnig.

20. Mewn ychwanegiad at hyn dywedir yn Hebreaid xi, 32—35, i Gedeon, Barac, Samson, Jephthae, Dafydd, Samuel, a'r prophwydi, trwy ffydd, oresgyn teyrnasoedd, gwneuthur cyfiawnder, cael addewidion, cau safnau llewod, diffodd angerdd y tân, dianc rhag min y cleddyf, cael eu nerthu o wendid, eu gwneyd yn gryfion mewn rhyfel, a gyru byddinoedd yr estroniaid i gilio, a gwragedd i dderbyn eu meirw trwy adgyfodiad, &c., &c.

21. Josua hefyd, yn ngolwg holl Israel, a orchymynodd i'r haul a'r lleuad sefyll; a bu felly. Josuah x, 12.

22. Yr ydym yn deall yma, fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn dweyd fod yr holl bethau hyn yn cael eu cyflawni trwy ffydd. Trwy ffydd y lluniwyd y bydoedd. Llefarodd Duw, clywodd *chaos*, a daeth y bydoedd i drefn trwy y ffydd ag oedd ynddo Ef. Efelly gyda dyn hefyd; llefarodd trwy ffydd yn enw Duw, a safodd yr haul, ufyddhaodd y lleuad, symudodd y mynyddoedd, cwympodd carcharau, cauwyd safnau llewod, collodd y galon ddynol eu heiddigedd, tân ei angerdd, byddinoedd eu gallu, y cleddyf ei ddychryn, ac angeu ei awdurdod; a'r cyfan o hyn trwy y ffydd ag oedd ynddynt hwy.

23. Oni buasai y ffydd ag oedd mewn dyn, gallent fod wedi llefaru wrth yr haul, y lleuad, y mynyddoedd, carcharau, y galon ddynol, y tân, y byddinoedd, y cleddyf, ac wrth angau, yn ofer!

24. Ffydd, ynte, yw yr egwyddor fawr lywodraethol gyntaf ag sydd â gallu, rheolaeth, ac awdurdod ar bob peth; trwyddi y maent yn bodoli, trwyddi y maent yn cael eu dal i fyny, trwyddi y maent yn cael eu cyfnewid, neu trwyddi y maent yn aros, yn unol ag ewyllys Duw. Hebddi nid oes dim gallu, ac heb allu ni allai fod creadigaeth na bodoliaeth!

GOFYNIADAU AC ATEBION AR YR EGWYDDORION BLAENOROL.

Pa beth yw Duwinyddiaeth? Y gelfyddyd ddadguddiedig ydyw, ag sydd yn traethu am fodoliaeth a phriodoliaethau Duw,—ei berthynasau â ni,—goruchwyliaethau ei ragluniaeth,—ei ewyllys mewn perthynas i'n gweithredoedd,—a'i ddybenion mewn perthynas i'n diwedd. Geiriadur Duwinyddol Buck, tud. 582.

Beth yw yr egwyddor gyntaf yn y gelfyddyd ddadguddiedig hon? Ffydd. Dosran i, 1.

Paham y mae ffydd yn egwyddor gyntaf yn y gelfyddyd ddadguddiedig hon? Am mai hi yw sylfaen pob cyfiawnder. Hebreaid xi, 6. Heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu bodd Duw. 1 Ioan iii, 7. Blant bychain, na thwylled neb chwi: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megys y mae yntef (Duw) yn gyfiawn. Dosran i, 1.

Pa drefn a ddylid ei dilyn wrth gyflwyno y pwnc o ffydd? Yn gyntaf, dylid dangos pa beth yw ffydd. Dosran i, 3. Yn ail, y gwrthddrych ar ba un y mae yn ymorphwys. Dosran i, 4. Ac yn drydydd, yr effeithiau a ddeilliant oddiwrthi. Dosran i, 5.

Beth yw ffydd? Ffydd yw sicrwydd y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a thystiolaeth o'r pethau nid ydys yn eu gweled (Hebreaid xi, 1); hyny yw, ffydd yw y sicrwydd sydd genym o fodoliaeth pethau anweledig. A chan mai hi yw y sicrwydd sydd genym o fodoliaeth pethau anweledig, rhaid mai hi yw egwyddor gweithrediad yn mhob bodau deallgar. Hebreaid xi, 3. Trwy ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw. Dosran i, 8, 9.

Pa fodd yr ydych yn profi mai ffydd yw egwyddor gweithrediad yn mhob bodau deallgar? Yn gyntaf, trwy ystyried yn ddyledus weithrediadau fy meddwl fy hun; ac yn ail, trwy dystiolaeth uniongyrchol yr ysgrythyr. Hebreaid xi, 7. Trwy ffydd, Noah, wedi ei rybyddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid etto, gyda pharchedig ofn a ddarparodd arch i achub ei dŷ: trwy yr hon y condemniodd efe y byd, ac a wnaethwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd. Hebreaid xi, 8. Trwy ffydd, Abraham, pan ei galwyd, a ufyddhaodd, gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned. Hebreaid xi, 9. Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir dyeithr, gan drigo mewn lluestai gydag Isaac a Jacob, cyd-etifeddion o'r un addewid. Hebreaid xi, 27. Trwy ffydd y gadawodd Moses yr Aifft, heb ofni llid y brenin; canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig. Dosran i, 10, 11.

Onid ffydd yw yr egwyddor o weithrediad mewn pethau ysbrydol yn gystal â rhai tymmorol? Ië.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Hebreaid xi, 6. Heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu bodd Duw. Marc xvi, 16. Y neb a gredo, ac a fedyddier, a fydd cadwedig. Rhufeiniaid iv, 16. Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras, fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl hâd; nid yn unig i'r hwn sydd o'r ddeddf, ond hefyd i'r hwn sydd o ffydd Abraham, yr hwn yw ein tad ni oll. Dosran i, 12, 13.

A yw ffydd yn rhywbeth arall heblaw yr egwyddor o weithrediad? Ydyw.

Pa beth ydyw? Hi yw'r egwyddor o allu hefyd. Dosran i, 13.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Yn gyntaf, hi yw yr egwyddor o allu yn y Duwdod yn gystal ag mewn dyn. Hebreaid xi, 3. Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir. Dosran i, 14, 15, 16. Yn ail, hi yw yr egwyddor o allu mewn dyn hefyd. Llyfr Mormon, tud. 251. Alma ac Amulek a waredir o garchar. Yr un, tud. 403. Nephi a Lehi, ynghyd â'r Lamaniaid, a orchuddir â'r Ysbryd. Yr un, tud. 541. Y mynydd Zerin, trwy ffydd brawd Jared, a symudir. Josuah x, 12. Llefarodd Josuah wrth yr Arglwydd y dydd y rhoddodd yr Arglwydd yr Amoriaid o flaen meibion Israel; ac efe a ddywedodd yn ngolwg Israel, O haul, aros yn Gibeon; a thithau leuad yn nyffryn Ajalon. Josuah x, 13. A'r haul a arosodd, a'r lleuad a safodd, nes i'r genedl ddial ar eu gelynion. Onid yw hyn yn ysgrifenedig yn llyfr Jaser? Felly yr haul a safodd yn nghanol y nefoedd, ac ni frysiodd i fachludo dros ddiwrnod cyfan. Mathew xvii, 19. Yna y daeth y dyscyblion at yr Iesu o'r neilldu, ac a ddywedasant, Paham na allem ni ei fwrw ef allan? Mathew xvii, 20. A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Oblegid eich anghrediniaeth; canys yn wir y dywedaf i chwi, Pe bai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symud oddiyma draw, ac efe a symudai; ac ni bydd dim anmhosibl i chwi. Hebreaid xi, 32. A pheth mwy a ddywedaf? canys yr amser a ballai i mi fynegi am Gedeon, am Barac, am Samson, ac am Japhthae; am Dafydd hefyd, a Samuel, a'r prophwydi (Hebreaid xi, 33); y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod (Hebreaid xi, 34), a ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio. Hebreaid xi, 35. Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad; ac ereill a ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell. Dosran i, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22.

Pa fodd yr ydych yn darlunio ffydd yn ei hystyr mwyaf annherfynol? Ffydd yw yr egwyddor fawr lywodraethol gyntaf ag sydd yn meddu gallu, llywodraeth, ac awdurdod dros bob peth. Dosran i, 24.

Pa fodd yr ydych yn trosglwyddo i'r deall yn fwy eglur mai ffydd yw yr egwyddor fawr lywodraethol gyntaf ag sydd yn meddu gallu, llywodraeth, ac awdurdod dros bob peth? Trwy ffydd y maent yn bodoli, trwyddi hi y maent yn cael eu cynnal i fyny, trwyddi hi y maent yn cael eu newid, neu trwyddi hi y maent yn aros, yn unol ag ewyllys Duw; ac heb ffydd nid oes dim gallu, ac heb allu nis gallai fod creadigaeth na bodoliaeth. Dosran i, 24.

DARLITH AIL.—DOSRAN II.

1. Wedi dangos yn ein darlith flaenorol "ffydd ei hunan—pa beth ydyw," cawn fyned yn mlaen i ddangos, yn ail, y gwrthddrych ar ba un y gorphwysa.

2. Yr ydym yn sylwi yma mai Duw yw yr unig lywodraethwr uchel a'r bod annibynol, yn yr hwn y mae pob cyfiawnder, a pherffeithrwydd yn bodoli, yr hwn sydd yn hollalluog, hollbresennol, a hollwybodol; heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes; ac mai ynddo ef y mae pob rhodd dda ac egwyddor dda yn bodoli; ac mai efe yw tad y goleuni; ynddo ef y mae yr egwyddor o ffydd yn bodoli yn annibynol, ac efe yw y gwrthddrych yn yr hwn y mae ffydd pob bod rhesymol a chyfrifol arall yn canol-bwyntio am fywyd ac iachawdwriaeth.

3. Mewn trefn i osod allan y rhan hon o'r pwnc mewn modd goleu ac eglur, bydd yn anghenrheidiol myned yn ol i ddangos y tystiolaethau y mae dynolryw wedi gael, a'r sylfaen ar ba un mae y tystiolaethau hyn yn cael, neu wedi cael eu hadeiladu oddiar y cread, i gredu yn modoliaeth Duw.

4. Nid y tystiolaethau hyny a amlygir yn ngwaith y greadigaeth, y rhai a ganfyddwn â'n llygaid naturiol yn barhaus, yw y rhai a feddyliwn. Yr ydym yn ymwybodol, yn ol dadguddiad Iesu Grist, fod gwaith y greadigaeth yn ei holl ddulliau a'i amryw-iaethau, yn dangos yn eglur ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod. Rhuf. i, 20. "Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg; sef ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod." Ond meddyliwn y tystiolaethau hyny trwy y rhai y cyflwynwyd i feddyliau dynion y meddylddrychau cyntaf o fodoliaeth Duw a greodd bob peth.

5. Cawn frysio yn awr i edrych ar sefyllfa dyn yn ei gread cyntaf. Y mae Moses, yr hanesydd, wedi rhoddi i ni yr hanes canlynol am dano yn y bennod gyntaf o lyfr Genesis, yn dechreu yn yr 20fed adnod, ac yn diweddu yn y 30ain. Copïwn o'r cyfieithad newydd.

6. "A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth yr Unig Anedig, yr hwn oedd gydag ef o'r dechreuad, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, yn ol ein llun ein hunain; a hyny a wnaethwyd.

7. "A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd, Bydded iddynt arglwyddiaethu ar bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar yr anifeiliaid, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear.

8. "Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, yn ol llun yr Unig Anedig y creodd efe ef; yn wrryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt. A Duw a'u bendithiodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi; ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear.

9. "A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth ddyn, Wele, mi a roddais i chwi bob llysieuyn yn hadu had, yr hwn sydd ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn y mae ynddo ffrwyth pren yn hadu had, i fod yn fwyd i chwi."

10. Etto, Genesis ii, 15, 16, 17, 18, 19, 20. "A'r Arglwydd Dduw a gymmerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi. A'r Arglwydd Dduw a orchymynodd i'r dyn, gan ddywedyd, O bob pren o'r ardd gan fwyta y gellwch fwyta: ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwytewch o hono, ac na chyffwrddwch ag ef; er hyny, gellwch ddewis drosoch eich hun, o herwydd y mae yn cael ei roddi i chwi, ond cofiwch fy mod i yn ei wahardd, oblegid yn y dydd y bwytewch chwi o hono, gan farw y byddwch farw.

11. "A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda, i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy. * * * A pha fodd bynag yr enwodd Adda bob peth byw, hyny fu ei enw ef. Ac Adda a enwodd enwau ar yr holl anifeiliaid, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar holl fwystfilod y maes."

12. Oddiwrth y pethau blaenorol, deuwn i wybod sefyllfa dyn yn ei gread cyntaf, y wybodaeth â'r hon y cafodd ei gynnysgaethu, a'r sefyllfa uchel a dyrchafedig yn yr hon y gosodwyd ef ynddi—arglwydd a llywodraethwr pob peth ar y ddaear; ac ar yr un pryd yn mwynhau cymdeithas a chyfeillach â'i Wneuthurwr, heb un lèn i wahanu rhyngddynt. Yn nesaf, awn yn mlaen i sylwi ar yr hanes a roddir o'i gwymp, a'i anfoniad allan o ardd Eden, ac o bresennoldeb yr Arglwydd.

13. Ychwanega Moses:—"A hwy (Adda ac Efa) a glywsant

lais yr Arglwydd Dduw, pan oeddynt yn rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd; ac ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw, yn mysg prenau yr ardd. A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le yr ydych chwi yn myned? Yntau a ddywedodd, Eich llais a glywais yn yr ardd; a mi a ofnais, oblegid mi a welais fy mod yn noeth, ac a ymguddiais.

14. "A dywedodd yr Arglwydd Dduw wrth Adda, Pwy a fynegodd i chwi eich bod yn noeth? Ai o'r pren y gorchymynaswn i chwi na fwytaech o hono, y bwytasoch? Os felly, gan farw y byddwch farw! A'r dyn a atebodd, Y wraig a roddasoch i mi, ac y gorchymynasoch iddi aros gyda mi, a roddodd i mi o ffrwyth y pren, a mi a fwyteais.

15. "A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y wraig, Pa beth yw hyn yr ydych chwi wedi wneyd? A'r wraig a ddywedodd, Y sarff a'm twyllodd, a bwyta a wnaethym

16. "Ac etto, yr Arglwydd a ddywedodd wrth y wraig, gan amlhau yr amlhaf eich poenau chwi a'ch beichiogi: mewn poen y dygwch blant; a'ch dymuniad fydd at eich gwr, ac efe a lywodraetha arnoch chwi.

17. "A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth Adda, Am wrandaw o honoch ar lais eich gwraig, a bwyta o ffrwyth y pren am yr hwn y gorchymynaswn i chwi, gan ddywedyd, Na fwytewch o hono; melldigedig fydd y ddaear o'ch achos chwi: trwy lafur y bwytewch o honi holl ddyddiau eich einioes. Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i chwi; a llysiau y maes a fwytewch chwi. Trwy chwys eich wyneb y bwytewch fara, hyd pan ddychwelwch i'r ddaear;—oblegid gan farw y byddwch farw—oblegid o honi y cymmerwyd chwi; o herwydd pridd oeddych, ac i'r pridd y dychwelwch." Canlynwyd hyn yn uniongyrchol â chyflawniad o'r hyn a grybwyllasom o'r blaen. Gyrwyd neu danfonwyd y dyn allan o Eden.

18. Mae dau beth o bwys yn cael eu dangos yn y dyfyniadau blaenorol. Yn gyntaf, wedi i ddyn gael ei greu, ni chafodd ei adael heb wybodaeth a dealltwriaeth, i grwydro mewn tywyllwch a threulio ei einioes mewn anwybodaeth ac ammheuaeth (ar y pwynt mawr a dyddorol a effeithiai ei ddedwyddwch), mewn perthynas i'r ffaith eglur gan bwy y crewyd ef; neu i bwy yr oedd yn gyfrifol am ei ymddygiad. Ymddyddanai

Duw ag ef wyneb yn wyneb. Yn ei bresennoldeb yr oedd yn cael caniatâd i sefyll, ac o'i enau ei hun yr oedd yn cael caniatâd i dderbyn dysgeidiaeth. Clywodd ei lais—rhodiodd o'i flaen—a syllodd ar ei ogoniant—tra yr oedd gwybodaeth yn agor ei ddealltwriaeth, a'i alluogi i roi enwau ar y llu dirfawr o weithredoedd ei Wneuthurwr.

19. Yn ail, yr ydym wedi gweled, er i ddyn droseddu, nad oedd ei drosedd yn ei amddifadu o'r wybodaeth flaenorol â'r hon y cynnysgaethwyd ef mewn perthynas i fodoliaeth a gogoniant ei Greawdwr; oblegid nid cynt y clywodd ei lais, nag yr ymdrechodd ymguddio o'i ŵydd.

20. Wedi dangos, ynte, yn y lle blaenaf, i Dduw ddechreu cyfrinachu â dyn yn uniongyrchol wedi iddo "anadlu yn ei ffroenau ef anadl einioes," ac na pheidiodd wneuthur ei hun yn adnabyddus iddo, hyd y nod wedi ei gwymp; cawn frysio i ddangos yn nesaf, er iddo gael ei ddanfon allan o ardd Eden, nad oedd ei wybodaeth o fodoliaeth Duw wedi ei cholli, ac na ddarfyddodd Duw amlygu ei ewyllys iddo.

21. Yn nesaf cawn fyned yn mlaen i ddangos yr hanes am y dadguddiad uniongyrchol a dderbyniai dyn wedi cael ei yru o Eden, a chopïo yn mhellach o'r cyfieithad newydd:—

22. "Ar ol i Adda gael ei yru allan o'r ardd, dechreuodd lafurio y ddaear, a llywodraethu ar holl anifeiliaid y maes, a bwyta ei fara trwy chwys ei wyneb, fel y gorchymynodd yr Arglwydd iddo; a galwodd ef ar enw yr Arglwydd, ac felly y gwnaeth Efa ei wraig hefyd. A chlywsant hwy lais yr Arglwydd, o'r ffordd a arweiniai i ardd Eden, yn llefaru wrthynt, ac ni welsant ef, oblegid yr oeddynt wedi eu cau allan o'i bresennoldeb: ond efe a roddodd iddynt orchymynion i addoli yr Arglwydd eu Duw, ac offrymu y blaenffrwyth o'u deadelloedd yn offrwm i'r Arglwydd. A bu Adda yn ufydd i'r gorchymyn.

23. "Ac ar ol llawer o ddyddiau ymddangosodd angel yr Arglwydd i Adda, gan ddywedyd, Paham yr ydych chwi yn offrymu aberthau i'r Arglwydd? Ac Adda a ddywedodd wrtho, Nid wyf yn gwybod; ond mae'r Arglwydd wedi gorchymyn i mi offrymu aberthau.

24. "A'r angel a ddywedodd wrtho, Mae y peth hwn yn gyffelybiaeth i aberthiad Cyntaf Anedig y Tad, yr hwn sydd

yn llawn gras a gwirionedd. A bydded i chwi wneyd pob peth a wneloch yn enw y Mab, a bydded i chwi edifarhau a galw ar Dduw yn ei enw ef dros byth. Yn y dydd hwnw yr Ysbryd Glân a ddisgynodd ar Adda, a dygodd dystiolaeth o'r Tad a'r Mab."

25. Mae y dyfyniad neu y crynodeb olaf hwn yn dangos y ffaith bwysig hon, i'n rhieni cyntaf, er iddynt gael eu gyru allan o ardd Eden, ac hyd y nod eu gwahanu oddiwrth bresennoldeb Duw gan lèn, etto meddent wybodaeth o hyd am ei fodoliaeth, a hyny yn ddigonol i'w hannog i alw arno. Ac yn mhellach, mai nid cynt y cafodd trefn achub ei dadguddio i ddyn, ac iddo yntau ddechreu galw ar Dduw, nag y rhoddwyd yr Ysbryd Glân, yn dwyn tystiolaeth o'r Tad a'r Mab.

26. Y mae Moses hefyd yn rhoddi hanes i ni, yn y bedwerydd o Genesis, am drosedd Cain, a chyfiawnder Abel, ac am ddadguddiadau Duw iddynt. Dywed, "wedi talm o ddyddiau i Cain ddwyn o ffrwyth y ddaear offrwm i'r Arglwydd. Ac Abel yntau a ddyg o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt. A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm: ond nid edrychodd efe ar Cain, nac ar ei offrwm ef. Yn awr Satan a wybu hyn, a boddlonwyd ef. A digllonodd Cain yn ddirfawr, fel y syrthiodd ei wynebpryd. A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Cain, Paham y llidiasoch? paham y syrthiodd eich gwynebpryd? Os da y gwnewch, oni chewch oruchafiaeth? ac oni wnewch yn dda, pechod a orwedd wrth y drws; ac y mae Satan yn dymuno eich cael chwi; ac oni wrandewch ar fy ngorchymynion, rhoddaf chwi i fyny, a bydd i chwi megys yr ewyllysio efe.

27. "A Chain a aeth allan i'r maes, ac a ymddyddanodd â'i frawd Abel. A thra yr oeddynt yn y maes, Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac a'i lladdodd ef. A gorfoleddodd Cain yn yr hyn a wnaeth, gan ddywedyd, Yr wyf yn rhydd; yn awr diau y daw deadelloedd fy mrawd i'm dwylaw i.

28. "Ond yr Arglwydd a ddywedodd wrth Cain, Pa le y mae Abel, eich brawd? Yntau a ddywedodd, Nis gwn; ai ceidwad fy mrawd ydwyf fi? A dywedodd yr Arglwydd, Beth a wnaethoch? llef gwaed eich brawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear. Ac yn awr melldithir chwi o'r ddaear, yr hon a agorodd ei safn i dderbyn gwaed eich brawd o'ch llaw

chwi. Pan lafuriech y ddaear, ni ychwanega hi roddi ei ffrwyth i chwi; gwibiad a chrwydriad fyddwch ar y ddaear.

29. "A Chain a ddywedodd wrth yr Arglwydd, Satan a'm temtiodd oblegid deadelloedd fy mrawd. Ac yr oeddwn yn ddigllawn hefyd; oblegid i'w offrwm ef gael ei gymmeradwyo, a'm heiddo innau ddim. Mae fy nghosp yn fwy nag y gallaf ddyoddef. Wele, gyrasoch fy heddyw allan o wyddfod dynion, ac o'ch presennoldeb chwithau hefyd y'm cuddir: a gwibiad a chrwydriad fyddaf ar y ddaear; a phwy bynag a'm caffo, a'm lladd o herwydd fy adduned, canys nid yw y pethau hyn yn guddiedig oddiwrth yr Arglwydd. A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Am hyny y dïelir yn saith dyblyg ar bwy bynag a laddo Cain. A'r Arglwydd a osododd nôd ar Cain, rhag i neb a'i caffai ei ladd ef."

30. Dyben y dyfyniadau blaenorol yw dangos i'r dosparth hwn y ffordd trwy yr hon y daeth dynolryw yn adnabyddus gyntaf o fodoliaeth Duw; mai trwy amlygiad o eiddo Duw i ddyn y daeth; ac i Dduw barhau, ar ol troseddiad dyn, i amlygu ei hunan iddo ac i'w had; ac, er eu bod wedi eu gwahanu o'u wyddfod uniongyrchol, fel nas gallent weled ei wyneb, etto parhausant i glywed ei lais.

31. Wedi i Adda fel hyn gael adnabyddiaeth o Dduw, trosglwyddodd y wybodaeth a gafodd i'w had; a thrwy y moddion hyn y cyflwynwyd y dyb gyntaf i'w meddyliau o fod Duw yn bodoli, yr hyn a osodai sylfaen er iddynt weithredu eu ffydd, trwy yr hon y gallent gyrhaedd gwybodaeth o'i gymmeriad ac hefyd o'i ogoniant.

32. Nid yn unig fe roddwyd amlygiad i Adda o fodoliaeth Duw; ond y mae Moses yn ein hysbysu, fel ag y dyfynasom o'r blaen, fod Duw wedi ymddarostwng i ymddyddan â Chain ar ol ei drosedd mawr o ladd ei frawd, a bod Cain yn gwybod mai yr Arglwydd oedd yn ymddyddan ag ef: felly, pan gafodd ef ei yru allan o wyddfod ei frodyr, cariodd gydag ef y wybodaeth o fodoliaeth Duw; a thrwy y moddion hyn, yn ddiammau, daeth ei had yn adnabyddus o'r ffaith fod y fath fod yn bodoli.

33. Gallwn ddysgu oddiwrth hyn fod yr holl hil ddynol, yn oes foreuol eu bodoliaeth, yn eu holl wahanol ddosparthiadau, â'r wybodaeth hon wedi eu lledaenu yn eu plith; fel ag y daeth bodoliaeth Duw yn wrthddrych ffydd yn oes foreuol y byd.

A'r amlygiadau a feddai y dynion hyn o fodoliaeth Duw, oedd tystiolaeth eu tadau yn y lle cyntaf.

34. Yr achos ein bod fel hyn wedi bod mor fanwl ar y rhan hon o'n pwnc yw, fel y gallo'r dosparth hwn weled trwy ba ffordd yr oedd Duw yn dyfod yn wrthddrych ffydd yn mhlith dynion ar ol y cwymp; a pha beth oedd yn cynhyrfu ffydd llaweroedd i deimlo ar ei ol—i chwilio am wybodaeth o'i gymmeriad, perffeithrwydd, a'i briodoliaethau, hyd nes y daethent i wybodaeth helaeth o hono, ac nid yn unig i gyfrinachu ag ef, a gweled ei ogoniant, ond i fod yn gyfranog o'i allu, a sefyll yn ei wyddfod.

35. Bydded i'r dosparth hwn sylwi yn neillduol, ar y dystiolaeth a feddai y dynion yma o fodoliaeth Duw, mai tystiolaeth dyn ydoedd; o herwydd yn flaenorol i'r amser y cafodd rhai o hiliogaeth Adda amlygrwydd o Dduw eu hunain, yr oedd Adda, eu tad cyffredinol, wedi tystiolaethu wrthynt am fodoliaeth Duw, ac am ei dragywyddol allu a'i Dduwdod.

36. Er enghraifft, yr oedd Abel, cyn iddo dderbyn sicrwydd o'r nefoedd fod ei offrwm yn gymmeradwy gan Dduw, wedi derbyn y wybodaeth bwysig oddiwrth ei dad, fod y fath fôd yn bodoli, yr hwn oedd wedi creu ac yn cynnal pob peth i fyny. Nis gall ychwaith fod ammheuaeth yn bodoli yn meddwl unrhyw berson, nad Adda oedd y cyntaf a gyflwynodd y wybodaeth o fodoliaeth Duw i'w hiliogaeth; ac nad yw holl ffydd y byd, o'r amser hwnw i lawr hyd yn bresennol, i ryw radd yn ddibynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd gyntaf iddynt gan eu tad cyffredinol; ac y mae wedi ei chyflwyno i lawr i'r dydd a'r genedlaeth yn mha rai yr ydym ni yn byw, fel y cawn ddangos oddiar wyneb yr oraclau dwyfol.

37. Yn gyntaf, yr oedd Adda yn 130 mlwydd oed pan y cafodd Seth ei eni. Gen. v, 3. A dyddiau Adda, wedi iddo genedlu Seth, oedd 800 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 930 mlwydd oed pan y bu farw. Gen. v, 4, 5. Yr oedd Seth yn 105 pan anwyd Enos (adn. 6); Enos yn 90 pan anwyd Cenan (adn. 9); Cenan yn 70 pan anwyd Mahalaleel (adn. 12); Mahalaleel yn 65 pan anwyd Jered (adn. 15); Jered yn 162 pan anwyd Enoch (adn. 18); Enoch yn 65 pan anwyd Methuselah (adn. 21); Methuselah yn 187 pan anwyd Lamech (adn. 25); Lamech yn 182 pan anwyd Noah (adn. 28).

38. Oddiwrth yr hanes hyn ymddengys fod Lamech, y nawfed o Adda, a thad Noah, yn 56 mlwydd oed pan fu farw Adda; Methuselah, yn 243; Enoch, yn 308; Jered, yn 470; Mahalaleel, yn 535; Cenan, yn 605; Enos, yn 695; a Seth, yn 800.

39. Felly yr oedd Lamech, tad Noah, Methuselah, Enoch, Jered, Mahalaleel, Cenan, Enos, Seth, ac Adda, yn byw oll yr un pryd, a thu hwnt i bob dadl, yn bregethwyr cyflawnder.

40. Hysbysa Moses i ni yn mhellach i Seth fyw wedi iddo genedlu Enos, 807 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 912 mlwydd oed pan y bu farw. Gen. v, 7, 8. Ac Enos a fu byw wedi iddo genedlu Cenan, 815 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 805 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 10, 11). A bu Cenan fyw wedi iddo genedlu Mahalaleel, 840 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 910 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 13, 14). A Mahalaleel a fu byw wedi iddo genedlu Jered, 830 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 895 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 16, 17). A Jered a fu byw wedi iddo genedlu Enoch, 800 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 962 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 19, 20). Ac Enoch a rodiodd gyda Duw wedi iddo genedlu Methuselah, 300 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 365 mlwydd oed pan y cymmerwyd ef i fyny (adn. 22, 23).* A Methuselah a fu byw wedi iddo genedlu Lamech, 782 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 969 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 26, 27). A Lamech a fu byw wedi iddo genedlu Noah, 595 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 777 mlwydd oed pan y bu farw (adn. 30, 31).

41. Yn unol â'r cyfrif hwn, bu Adda farw yn y 930 flwyddyn o oedran y byd; cymmerwyd Enoch yn y 987; bu farw Seth yn y 1042; Enos yn y 1140; Cenan yn y 1235; Mahalaleel yn y 1290; Jered yn y 1422; Lamech yn y 1651; a Methuselah yn y 1656, yn yr hon flwyddyn y daeth y diluw.

42. Felly yr oedd Noah yn 84 mlwydd oed pan fu farw Enos, 176 pan fu farw Cenan, 234 pan fu farw Mahalaleel, 366 pan fu farw Jered, 595 pan fu farw Lamech, a 600 pan fu farw Methuselah.

43. Oddiwrth hyn gallwn weled fod Enos, Cenan, Mahalaleel, Jered, Methuselah, Lamech, a Noah, oll yn byw ar y ddaear

* Yn ol yr hen Destament. Am oedran Enoch, edrycher Cyfammodau a Gorchymynion. Dosran iii, 24.

yr un pryd; a bod Enos, Cenan, Mahalaleel, Jered, Methuselah, a Lamech, oll yn adnabyddus o Adda a Noah.

44. Mae yn hawdd ddigon i weled, oddiwrth y pethau blaenorol, nid yn unig pa fodd y daeth gwybodaeth o Dduw i'r byd, ond ar ba egwyddor yr oedd yn cael ei chadw; oddiar yr amser y rhoddwyd hi gyntaf, cadwyd hi yn meddyliau dynion cyfiawn, y rhai a'i dysgent nid yn unig i'w hiliogaeth, ond i'r byd: fel nad oedd anghen am ddadguddiad newydd i ddyn, oddiar gread Adda hyd Noah, er rhoddi iddynt feddylddrych neu dyb o fodoliaeth rhyw Dduw, ac nid yn unig rhyw Dduw, ond y gwir a'r bywiol Dduw.

45. Wedi olrhain amseryddiaeth y byd o Adda hyd Noah, cawn yn awr ei olrhain o Noah i Abraham. Yr oedd Noah yn 502 mlwydd oed pan y ganwyd Sem; yn mhen 98 mlynedd wedi hyny daeth y diluw, yr hyn a wnai oedran Noah yn 600 mlwydd. Ac hysbysir ni gan Moses i Noah fyw ar ol y diluw 350 mlynedd, yr hyn a'i gwnai yn 950 pan y bu farw. Genesis ix, 28, 29.

46. Yr oedd Sem yn 100 mlwydd oed pan anwyd Arphaxad. Genesis xi, 10. Yr oedd Arphaxad yn 35 pan anwyd Selah (xi, 12); Selah yn 30 pan anwyd Heber (xi, 14); Heber yn 34 pan anwyd Peleg, yn nyddiau yr hwn y rhanwyd y ddaear (xi, 16); Peleg yn 30 pan anwyd Reu (xi, 18); Reu yn 32 pan anwyd Serug (xi, 20); Serug yn 30 pan anwyd Nachor (xi, 22); Nachor yn 29 pan anwyd Terah (xi, 24); Terah yn 70 pan anwyd Haran ac Abraham (xi, 26).

47. Mae rhyw anhawsdra yn yr hanes a rydd Moses am enedigaeth Abraham. Tybia rhai na chafodd Abraham ei eni nes yr oedd Terah yn 130 mlwydd oed. Tynir y casgliad hwn o amrywiol fanau o'r ysgrythyrau, y rhai nid ydynt o un dyben i ni yn bresennol i'w dyfynu. Nid yw ychwaith o un pwys i ni, pa un a oedd Abraham wedi ei eni pan oedd Terah yn 70 mlwydd oed, neu 130. Ond fel na byddo un ammheuaeth yn gorphwys ar feddwl neb, mewn perthynas i'r pwnc sydd fwyaf neillduol dan ein sylw, wrth roddi yr amseryddiaeth presennol, cawn ddyddio genedigaeth Abraham yn ol y gyfnod olaf, hyny yw pan oedd Terah yn 130 mlwydd oed. Ymddengys oddiwrth y cyfrif hwn, fod o'r diluw hyd enedigaeth Abraham 352 o flynyddoedd.

48. Dywed Moses wrthym i Sem fyw wedi iddo genedlu Arphaxad, 500 (Genesis xi, 11); hyn wedi ei ychwanegu at 100 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Arphaxad, a'i gwna yn 600 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Arphaxad fyw wedi iddo genedlu Selah, 403 mlynedd (xi, 13); hyn wedi ei ychwanegu at 35 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Selah, a'i gwna yn 438 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Selah fyw wedi iddo genedlu Heber, 403 mlynedd (xi, 15); hyn wedi ei ychwanegu at 30 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Heber, a'i gwna yn 433 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Heber fyw wedi iddo genedlu Peleg, 430 mlynedd (xi, 17); hyn wedi ei ychwanegu at 34 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Peleg, a'i gwna yn 464 pan y bu farw. Bu Peleg fyw wedi iddo genedlu Reu, 209 mlynedd (xi, 19); hyn wedi ei ychwanegu at 30 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Reu, a'i gwna yn 239 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Reu fyw wedi iddo genedlu Serug, 207 mlynedd (xi, 21); hyn wedi ei ychwanegu at 32 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Serug, a'i gwna yn 239 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Serug fyw wedi iddo genedlu Nachor, 200 mlynedd (xi, 23); hyn wedi ei ychwanegu at 30 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Nachor, a'i gwna yn 230 mlwydd oed pan y bu farw. Bu Nachor fyw wedi iddo genedlu Terah, 119 mlynedd (xi, 25); hyn wedi ei ychwanegu at 29 mlynedd, yr hyn oedd ei oedran pan anwyd Terah, a'i gwna yn 148 mlwydd oed pan y bu farw. Yr oedd Terah yn 130 mlwydd oed pan anwyd Abraham, a meddylir iddo fyw 75 mlynedd ar ol ei enedigaeth, yr hyn a'i gwna yn 225 mlwydd oed pan y bu farw.

49. Yn unol â'r cyfrif diweddaf hwn, bu Peleg farw yn y 1996 flwyddyn o oedran y byd, Nachor yn y 1997, a Noah yn y 2006. Felly, bu Peleg, yn nyddiau yr hwn y rhanwyd y ddaear, a Nachor, tadcu Abraham, eill dau farw o flaen Noah—y cyntaf yn 239 mlwydd oed, a'r olaf yn 148; a phwy na all weled fod yn rhaid eu bod wedi cael adnabyddiaeth hir ac agos o Noah?

50. Bu Reu farw yn y 2026 flwyddyn o oedran y byd, Serug yn y 2049, Terah yn y 2083, Arphaxad yn y 2096, Selah yn y 2126, Sem yn y 2158, Abraham yn y 2183, ac Heber yn y 2187, yr hyn oedd bedair blynedd ar ol marwolaeth Abraham. Ac Heber oedd y pedwerydd o Noah.

51. Yr oedd Nachor, brawd Abraham, yn 58 mlwydd oed pan y bu Noah farw, Terah yn 128, Sarug yn 187, Reu yn 219, Heber yn 283, Selah yn 313, Arphaxad yn 344, a Sem yn 448.

52. Ymddengys oddiwrth y cyfrif hyn, fod Nachor, brawd Abraham, Terah, Nachor, Serug, Reu, Peleg, Heber, Selah, Arphaxad, Sem, a Noah, oll yn byw ar y ddaear yr un pryd; a bod Abraham yn 18 mlwydd oed pan fu farw Reu, 41 pan fu farw Serug a'i frawd Nachor, 75 pan fu farw Terah, 88 pan fu farw Arphaxad, 118 pan fu farw Selah, 150 pan fu farw Sem, ac i Heber fyw bedair blynedd ar ol marwolaeth Abraham. A bod Sem, Arphaxad, Selah, Heber, Reu, Serug, Terah, a Nachor, brawd Abraham, ac Abraham, oll yn byw yr un pryd. A bod Nachor, brawd Abraham, Terah, Serug, Reu, Heber, Selah, Arphaxad, a Sem, oll yn adnabyddus o Noah ac Abraham.

53. Yn awr yr ydym wedi olrhain amseryddiaeth y byd, yn unol â'r hanes a roddir yn ein beibl presennol, o Adda hyd Abraham, ac wedi penderfynu yn eglur tuhwnt i bob dadl, nad oedd un anhawsdra i gadw y wybodaeth o Dduw yn y byd o greadigaeth Adda, a'r amlygrwydd a roddwyd i'w hiliogaeth uniongyrchol, megys y dangoswyd yn y rhan flaenaf o'r ddarlith hon, fel y gall y myfyrwyr yn y dosparth hwn beidio gadael un ammheuaeth yn eu meddyliau ar y pwnc hwn; o herwydd gallant ganfod yn rhwydd ei bod yn anmhosibl iddi fod fel arall, ond fod yn rhaid fod gwybodaeth o fodoliaeth Duw yn parhau o dad i fab, fel mater o draddoddiad o leiaf; canys ni allwn dybied fod gwybodaeth o ffaith bwysig fel hyn yn bodoli yn meddwl neb o'r personau crybwylledig, heb eu bod yn ei gwneuthur yn hysbys i'w hiliogaeth.

54. Yr ydym yn awr wedi dangos pa fodd y daeth y dyb gyntaf i fodoli yn meddwl unrhyw ddyn fod y fath fôd â Duw i'w gael, yr hwn oedd wedi creu ac yn cynnal pob peth; mai o achos yr amlygrwydd a roddodd efe gyntaf i'n tad Adda, pan y safodd yn ei bresennoldeb, ac yr ymddyddanodd ag ef wyneb yn wyneb, yn yr amser y cafodd ei greu.

55. Gadewch i ni sylwi yma mai wedi i ryw gyfran o'r teulu dynol gael ei gwneyd yn wybodus o'r ffaith bwysig o fod Duw yn bodoli, yr hwn sydd wedi creu ac yn cynnal pob peth, bydd helaethrwydd eu gwybodaeth am ei gymmeriad a'i ogoniant yn ymddibynu ar eu diwydrwydd a'u ffyddlondeb yn ei geisio, nes

fel Enoch, brawd Jered, a Moses, i feddu ffydd yn Nuw, a gallu i'w weled ef wyneb yn wyneb.

56. Yr ydym yn awr wedi gosod allan yn eglur pa fodd y mae, a pha fodd yr oedd, Duw yn dyfod yn wrthddrych ffydd i fodau rhesymol; ac hefyd, ar ba sylfaen y gosodwyd y dystiolaeth ag oedd yn annog y Saint cyntefig i chwilio yn ddiwyd am, a chyrhaedd gwybodaeth o ogoniant Duw; ac yr ydym wedi canfod mai tystiolaeth ddynol, a thystiolaeth ddynol yn unig, oedd yn achosi yr ymchwiliad hwn, yn y lle cyntaf, yn eu meddyliau. Y grediniaeth ydoedd a roddent i dystiolaeth eu tadau: ac wedi i'r dystiolaeth hon gynhyrfu eu meddyliau i chwilio am wybodaeth o Dduw, yr oedd yr ymchwiliad yn fynych yn terfynu, ïe, yn wastad yn terfynu, pan yn cael ei ddefnyddio yn iawn, yn y darganfyddiadau mwyaf gogoneddus ac mewn sicrwydd tragywyddol.

GOFYNIADAU AC ATEBION AR YR EGWYDDORION BLAENOROL.

A oes rhyw fòd ag sydd yn meddu ffydd ynddo ei hun, yn anymddibynol? Oes.

Pwy yw hwnw? Duw ydyw.

Pa fodd yr ydych yn profi fod gan Dduw ffydd ynddo ei hun yn anymddibynol? O herwydd ei fod yn hollalluog, hollbresennol, ac hollwybodol; heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes, ac ynddo ef y mae pob cyflawnder yn preswylio. Ephesiaid i, 23. Yr hon yw ei gorff ef, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll. Colosiaid i, 19. Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef. Dosran ii, 2.

Ai efe yw y gwrthddrych yn yr hwn y mae ffydd pob bodau rhesymol a chyfrifol yn canolbwyntio, am fywyd ac iachawdwriaeth? Ië.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Esaiah xlv, 22. Trowch eich wynebau ataf fi, holl gŷrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall. Rhufeiniaid xi, 34, 35, 36. Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd? neu pwy a fu gynghorwr iddo ef? neu pwy a roddodd iddo ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo ef drachefn? Canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth: iddo ef y byddo y gogoniant yn dragywydd. Amen. Esaiah xl, o'r 9fed hyd y 18fed. Dring rhagot, yr efengyles Seion (neu, ti sydd yn efengylu i Seion), i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O efengyles Jerusalem (neu, O ti sydd yn efengylu i Jerusalem); dyrchafa, nac ofna; dywed wrth ddinasoedd Juda,

Wele eich Duw chwi. Wele, yr Arglwydd eich Duw a ddaw â llaw gadarn (neu, yn erbyn y cadarn), a'i fraich a lywodraetha drosto; wele, ei wobr gydag ef, a'i waith o'i flaen, (neu ei wobr am ei waith). Fel bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl ei ŵyn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goledda y mamogiaid. Pwy a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau? Pwy a gyfarwyddodd Ysbryd yr Arglwydd, ac yn ŵr o'i gynghor a'i cyfarwyddodd ef? A phwy yr ymgynghorodd efe, ïe, pwy a'i cyfarwyddodd, ac a'i dysgodd yn llwybr barn, ac a ddysgodd iddo wybodaeth, ac a ddangosodd iddo ffordd dealltwriaeth? Wele, y cenedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel mân lwch y clorianau; wele, fel brycheuyn y cymmer efe yr ynysoedd i fyny. Ac nid digon Libanus i gynneu tân; nid digon ei fwystfilod ychwaith yn boethoffrwm. Yr holl genedloedd ydynt megys diddim ger ei fron ef; yn llai nâ dim, ac nâ gwagedd, y cyfrifwyd hwynt ganddo. Jeremiah li, 15, 16. Efe (yr Arglwydd) a wnaeth y ddaear trwy ei nerth, ac a sicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, ac a daenodd y nefoedd trwy ei ddeall. Pan roddo efe ei lef, y mae twrf dyfroedd yn y nefoedd, ac y mae efe yn codi'r niwloedd o eithaf y ddaear; ac efe sydd yn gwneuthur y mellt gyda'r gwlaw, ac yn dwyn y gwynt allan o'i drysorau. 1 Corinthiaid viii, 6. Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef. Dosran ii, 2.

Pa fodd y daeth dynion gyntaf i'r wybodaeth o fodoliaeth Duw, fel ag i ymarferyd ffydd ynddo ef? I'r dyben o ateb y gofyniad hwn, bydd yn anghenrheidiol i fyned yn ol, a chwilio dyn yn ei greadigaeth; yr amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd ef, a'r wybodaeth a gafodd am Dduw. Dosran ii, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11.—Yn gyntaf, pan grëwyd dyn, efe a safai yn mhresennoldeb Duw. Genesis i, 27, 28. Oddiwrth hyn yr ydym yn dysgu fod dyn, yn ei greadigaeth, yn sefyll yn mhresennoldeb ei Dduw, a bod ganddo y wybodaeth fwyaf berffaith o'i fodoliaeth.—Yn ail, Duw a ymddyddanodd ag ef ar ol ei drosedd. Genesis iii, o'r 8fed hyd y 22ain. Dosran ii, 13, 14, 15, 16, 17. Oddiwrth hyn yr ydym yn dysgu, er i ddyn droseddu, na chafodd ei amddifadu o'r wybodaeth flaenorol ag oedd ganddo o fodoliaeth Duw. Dosran ii, 19.—Yn drydydd, Duw a ymddyddanodd â dyn wedi iddo ei ŷru allan o'r ardd. Dosran ii, 22, 23, 24, 25. Yn bedwerydd, Duw a ymddyddanodd â Chain wedi iddo ladd Abel. Genesis iv, o'r 4ydd hyd y 6fed. Dosran ii, 26, 27, 28, 29.

Pa beth yw dyben y dyfyniad blaenorol? Ei ddyben yw, fel y galler gweled yn eglur pa fodd y darfu i'r meddylddrychau cyntaf ddyfod i feddyliau dynion am fodoliaeth Duw, a pha

mor helaeth y cafodd y wybodaeth hon ei thaenu yn mhlith disgynyddion uniongyrchol Adda. Dosran ii, 30, 31, 32, 33.

Pa dystiolaeth oedd gan ddisgynyddion uniongyrchol Adda, er prawf o fodoliaeth Duw? Tystiolaeth eu tad. Wedi iddynt gael eu hysbysu o'i fodoliaeth, trwy dystiolaeth eu tad, yr oeddynt yn ymddibynol ar yr ymarferiad o'u ffydd eu hunain, am wybodaeth o'i gymmeriad, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau. Dosran ii, 23, 24, 25, 26.

A gafodd neb arall o'r teulu dynol, heblaw Adda, wybodaeth o fodoliaeth Duw, yn y lle cyntaf, trwy unrhyw foddion ereill heblaw tystiolaeth ddynol? Na chawsant. Canys cyn yr amser y gallent hwy gael amlygiad drostynt eu hunain, yr oedd y ffaith oll-bwysfawr wedi cael ei hysbysu iddynt gan eu tad cyffredin; ac felly, o dad i blentyn, cafodd y wybodaeth ei hysbysu mor helaeth ag oedd y wybodaeth o'i fodoliaeth yn adnabyddus; o herwydd trwy y moddion hyn, yn y lle cyntaf, y cafodd dynion wybodaeth o'i fodoliaeth. Dosran ii, 35, 36.

Pa fodd yr ydych yn gwybod i'r wybodaeth o fodoliaeth Duw gael ei hysbysu yn y modd hwn, trwy wahanol oesoedd y byd? Trwy yr amseryddiaeth a gafwyd trwy ddadgudd-iadau Duw.

Pa fodd yr ydych yn rhanu yr amseryddiaeth hwnw, i'r dyben o'i drosglwyddo i'r deall yn eglur? I ddwy ran.—Yn gyntaf, trwy gynnwys y cyfnod hwnw o'r byd o Adda i Noah; ac yn ail, o Noah i Abraham; oddiar y cyfryw gyfnod y mae y wybodaeth o fodoliaeth Duw wedi bod mor gyffredinol, fel nad yw yn fater o ddadl pa fodd y mae y meddylddrych am ei fodoliaeth wedi cael ei gadw yn y byd.

Pa gynnifer o ddynion cyfiawn hynod a fuont byw o Adda i Noah? Naw; yr hyn a gynnwysa Abel, yr hwn a laddwyd gan ei frawd.

Beth yw eu henwau? Abel, Seth, Enos, Cainan, Mahalaleel, Jered, Enoch, Methuselah, a Lamech.

Beth oedd oedran Adda pan anwyd Seth? Cant a deg mlynedd ar hugain. Genesis v, 3.

Pa sawl blwyddyn y bu Adda fyw wedi genedigaeth Seth? Wyth can mlynedd. Genesis v, 4.

Beth oedd oedran Adda pan fu efe farw? Naw cant a deng mlynedd ar hugain. Genesis v, 5.

Beth oedd oedran Seth pan anwyd Enos? Cant a phum mlynedd. Genesis v, 6.

Beth oedd oedran Enos pan anwyd Cainan? Deng mlynedd a phedwar ugain. Genesis v, 9.

Beth oedd oedran Cainan pan anwyd Mahalaleel? Deng mlynedd a thrugain. Genesis v, 12.

Beth oedd oedran Mahalaleel pan anwyd Jered? Pum mlynedd a thrugain. Genesis v, 15.

Beth oedd oedran Jered pan anwyd Enoch? Cant a dwy flynedd a thrugain. Genesis v, 18.

Beth oedd oedran Enoch pan anwyd Methuselah ? Pum mlynedd a thrugain. Genesis v, 21.

Beth oedd oedran Methuselah pan anwyd Lamech ? Cant a phedwar ugain a saith mlynedd. Genesis v, 25.

Beth oedd oedran Lamech pan anwyd Noah ? Cant a phedwar ugain a dwy flynedd. Genesis v, 28.—Am yr amseryddiaeth hwn, gweler dosran ii, 37.

Pa faint o flynyddoedd, yn ol y cyfrif hwn, oedd o Adda hyd Noah ? Un fil ac un flynedd ar bymtheg a deugain.

Beth oedd oedran Lamech pan fu Adda farw ? Lamech, y nawfed o Adda (a chynnwys Abel), a thad Noah, oedd yn un flwydd ar bymtheg a deugain oed pan fu farw Adda.

Beth oedd oedran Methuselah ? Dau gant a thair blynedd a deugain.

Beth oedd oedran Enoch ? Tri chant ac wyth mlwydd.

Beth oedd oedran Jered ? Pedwar cant a deng mlynedd a thrugain.

Beth oedd oedran Mahalaleel ? Pum cant a phymtheg mlynedd ar hugain.

Beth oedd oedran Cainan ? Chwech cant a phum mlynedd.

Beth oedd oedran Enos ? Chwech cant a phedwar ugain a phymtheg mlynedd.

Beth oedd oedran Seth ? Wyth gan mlynedd.—Am y rhan hon o'r cyfrif, gweler dosran ii, 38.

Pa gynnifer o'r dynion hynod hyn oeddynt yn cydoesi ag Adda ? Naw.

Beth yw eu henwau ? Abel, Seth, Enos, Cainan, Mahalaleel, Jered, Enoch, Methuselah, a Lamech. Dosran ii, 39.

Pa gyhyd y bu Seth byw wedi genedigaeth Enos? Wyth cant a saith mlynedd. Genesis v, 7.

Beth oedd oedran Seth pan fu efe farw ? Naw cant a deuddeg mlynedd. Genesis v, 8.

Pa gyhyd y bu Enos byw wedi genedigaeth Cainan ? Wyth cant a phymtheg mlynedd. Genesis v, 10.

Beth oedd oedran Enos pan fu efe farw ? Naw cant a phum mlynedd. Genesis v, 11.

Pa gyhyd y bu Cainan byw wedi genedigaeth Mahalaleel ? Wyth cant a deugain mlynedd. Genesis v, 13.

Beth oedd oedran Cainan pan fu efe farw ? Naw cant a deng mlynedd. Genesis v, 14.

Pa gyhyd y bu Mahalaleel byw wedi genedigaeth Jered ? Wyth cant a deng mlynedd ar hugain. Genesis v, 16.

Beth oedd oedran Mahalaleel pan fu efe farw ? Wyth cant a phedwar ugain a phymtheg mlynedd. Genesis v, 17.

Pa gyhyd y bu Jered byw wedi genedigaeth Enoch ? Wyth can mlynedd. Genesis v, 19.

Beth oedd oedran Jered pan fu efe farw ? Naw cant a dwy flynedd a thrugain. Genesis v, 20.

Pa gyhyd y rhodiodd Enoch gyda Duw wedi genedigaeth Methuselah ? Tri chan mlynedd. Genesis v, 22.

Beth oedd oedran Enoch pan gymmerwyd ef i'r nefoedd ? Tri chant a phum mlynedd a thrugain. Genesis v, 23.

Pa gyhyd y bu Methuselah byw wedi genedigaeth Lamech ? Saith cant a dwy flynedd a phedwar ugain. Genesis v, 26.

Beth oedd oedran Methuselah pan fu efe farw ? Naw cant a naw mlynedd a thrugain. Genesis v, 27.

Pa gyhyd y bu Lamech byw wedi genedigaeth Noah ? Pum cant a phymtheg mlynedd a phedwar ugain. Genesis v, 30.

Beth oedd oedran Lamech pan fu efe farw ? Saith cant a dwy flynedd ar bymtheg a thrugain. Genesis v, 31.—Am y rhan olaf hon o'r cyfrif, gweler dosran ii, 40.

Yn mha flwyddyn o oes y byd y bu Adda farw ? Yn y naw cant a'r ddegfed flynedd ar hugain.

Yn mha flwyddyn y symudwyd Enoch ? Yn y naw cant a'r seithfed flynedd a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn y bu Seth farw ? Yn yr un fil a'r ddwyfed flynedd a deugain.

Yn mha flwyddyn y bu Enos farw ? Yn yr un fil un cant a'r ddeugeinfed flynedd.

Yn mha flwyddyn y bu Cainan farw ? Yn yr un fil dau cant a'r bymthegfed flynedd ar hugain.

Yn mha flwyddyn y bu Mahalaleel farw ? Yn yr un fil dau cant a'r ddegfed flynedd a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn y bu Jered farw ? Yn yr un fil pedwar cant a'r ddwyfed flynedd ar hugain.

Yn mha flwyddyn y bu Lamech farw ? Yn yr un fil chwech cant a'r unfed flynedd ar ddeg a deugain.

Yn mha flwyddyn y bu Methuselah farw ? Yn yr un fil chwech cant a'r unfed flynedd ar bymtheg a deugain.—Am y cyfrif hwn, gweler dosran ii, 41.

Beth oedd oedran Noah pan fu Enos farw ? Pedair blynedd a phedwar ugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Cainan farw ? Cant a phedair blynedd ar bymtheg a thrugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Mahalaleel farw ? Dau cant a phedair blynedd ar ddeg ar hugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Jered farw ? Tri chant a chwech mlynedd a thrugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Lamech farw ? Pum cant a phymtheg mlynedd a phedwar ugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Methuselah farw ? Chwe chan mlynedd.—Gweler dosran ii, 42, am y cyfrif olaf hwn.

Pa nifer o'r dynion hyny, a fuont byw yn nyddiau Noah ? Chwech.

Beth yw eu henwau ? Enos, Cainan, Mahalaleel, Jered, Methuselah, a Lamech. Dosran ii, 43.

Pa nifer o honynt oedd yn cydoesi ag Adda a Noah ill dau ? Chwech.

Beth yw eu henwau ? Enos, Cainan, Mahalaleel, Jered, Methuselah, a Lamech. Dosran ii, 43.

Yn ol yr hanes blaenorol, pa fodd y darfu i'r wybodaeth o fodoliaeth Duw gael ei gosod gyntaf yn meddyliau dynion? Trwy yr amlygiad a wnaed i'n tad Adda, pan oedd efe yn mhresennoldeb Duw, cyn a thra yr oedd efe yn Eden. Dosran ii, 44.

Pa fodd y cafodd y wybodaeth o fodoliaeth Duw ei thaenu yn mhlith trigolion y byd? Trwy draddodiad, o dad i fab. Dosran ii, 44.

Beth oedd oedran Noah pan anwyd Sem? Pum cant a dwy flynedd. Genesis v, 32. xi, 10.

Pa faint o flynyddoedd oedd o enedigaeth Sem hyd y diluw? Pedwar ugain a thair ar bymtheg.

Faint o flynyddoedd y bu Noah byw wedi y diluw? Tri chant a deg a deugain. Genesis ix, 28.

Beth oedd oedran Noah pan fu efe farw? Naw cant a deng mlynedd a deugain. Genesis ix, 29. Dosran ii, 45.

Beth oedd oedran Sem pan anwyd Arphaxad? Can mlynedd. Genesis xi, 10.

Beth oedd oedran Arphaxad pan anwyd Selah? Pymtheg mlynedd ar hugain. Genesis xi, 12.

Beth oedd oedran Selah pan anwyd Heber? Deng mlynedd ar hugain. Genesis xi, 16.

Beth oedd oedran Heber pan anwyd Peleg? Pedair blynedd ar ddeg ar hugain. Genesis xi, 16.

Beth oedd oedran Peleg pan anwyd Reu? Deng mlynedd ar hugain. Genesis xi, 18.

Beth oedd oedran Reu pan anwyd Serug? Deuddeg mlynedd ar hugain. Genesis xi, 20.

Beth oedd oedran Serug pan anwyd Nachor? Deng mlynedd ar hugain. Genesis xi, 22.

Beth oedd oedran Nachor pan anwyd Terah? Naw mlynedd ar hugain. Genesis xi, 24.

Beth oedd oedran Terah pan anwyd Nachor (brawd Abraham)? Deng mlynedd a thrugain. Genesis xi, 26.

Beth oedd oedran Terah pan anwyd Abraham? Rhai a feddyliant mai cant a deng mlynedd ar hugain, ac ereill mai trugain a deg. Genesis xii, 4. xi, 26. Dosran ii, 46.

Beth oedd nifer y blynyddoedd o'r diluw hyd enedigaeth Abraham? A thybied i Abraham gael ei eni pan oedd Terah yn gant a deng mlwydd ar hugain oed, yr oedd eu nifer yn dri chant a deuddeg mlynedd a deugain; ond os cafodd ei eni pan oedd yn ddeng mlynedd a thrugain oed, eu nifer oedd dau cant a phedwar ugain a deuddeg mlynedd. Dosran ii, 47.

Pa gyhyd y bu Sem byw wedi genedigaeth Arphaxad? Pum can mlynedd. Genesis xi, 11.

Beth oedd oedran Sem pan y bu efe farw? Chwe chan mlynedd. Genesis xi, 11.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Arphaxad byw wedi genedigaeth Selah? Pedwar cant a thair blynedd. Genesis xi, 13.

Beth oedd oedran Arphaxad pan fu efe farw? Pedwar cant a deunaw mlynedd ar hugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Selah byw wedi genedigaeth Heber? Pedwar cant a thair blynedd.

Beth oedd oedran Selah pan fu efe farw? Pedwar cant a thair blynedd ar ddeg ar hugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Heber byw wedi genedigaeth Peleg? Pedwar cant a deng mlynedd ar hugain. Genesis xi, 17.

Beth oedd oedran Heber pan fu efe farw? Pedwar cant a phedair blynedd a thrugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Peleg byw wedi genedigaeth Reu? Dau cant a naw mlynedd. Genesis xi, 19.

Beth oedd oedran Peleg pan fu efe farw? Dau cant a phedair blynedd ar bymtheg ar hugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Reu byw wedi genedigaeth Serug? Dau cant a saith mlynedd. Genesis xi, 21.

Beth oedd oedran Reu pan fu efe farw? Dau cant a phedair blynedd ar bymtheg ar hugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Serug byw wedi genedigaeth Nachor? Dau can mlynedd. Genesis xi, 23.

Beth oedd oedran Serug pan fu efe farw? Dan cant a deng mlynedd ar hugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Nachor byw wedi genedigaeth Terah? Cant a phedair blynedd ar bymtheg. Genesis xi, 25.

Beth oedd oedran Nachor pan fu efe farw? Cant ac wyth mlynedd a deugain.

Pa nifer o flynyddoedd y bu Terah byw wedi genedgiaeth Abraham? A thybied fod Terah yn gant a deng mlwydd ar hugain oed pan anwyd Abraham, bu fyw bymtheg mlynedd a thrugain; ond os cafodd Abraham ei eni pan oedd Terah yn ddeng mlwydd a thrugain oed, bu fyw gant a phymtheg mlynedd ar hugain.

Beth oedd oedran Terah pan fu efe farw? Dau cant a phum mlynedd. Genesis xi, 32.—Am y cyfrif hwn o enedigaeth Arphaxad hyd farwolaeth Terah, gweler dosran ii, 48.

Yn mha flwyddyn o oes y byd y bu Peleg farw? Yn ol yr amseryddiaeth blaenorol, efe a fu farw yn yr un fil naw cant a'r unfed flynedd ar bymtheg a phedwar ugain o oes y byd.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Nachor farw? Yn yr un fil naw cant a'r ddwyfed flynedd ar bymtheg a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Noah farw? Yn y ddwy fil a chwechfed.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Reu farw? Yn y ddwy fil a chwechfed ar hugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Serug farw? Yn y ddwy fil a nawfed a deugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Terah farw? Yn y ddwy fil a thrydedd a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Arphaxad farw? Yn y ddwy fil a'r unfed ar bymtheg a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Selah farw? Yn y ddwy fil un cant a'r chwechfed ar hugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Abraham farw? Yn y ddwy fil un cant a'r drydedd a phedwar ugain.

Yn mha flwyddyn o'r byd y bu Heber farw? Yn y ddwy fil un cant a'r seithfed a phedwar ugain.—Am y cyfrif hwn o'r flwyddyn o oed y byd yn mha un y bu y dynion hyn farw, gweler dosran ii, 49, 50.

Beth oedd oedran Nachor (brawd Abraham) pan fu Noah farw? Deunaw mlwydd a deugain.

Beth oedd oedran Terah? Cant ac wyth mlwydd ar hugain.

Beth oedd oedran Serug? Cant a phedwar ugain a saith.

Beth oedd oedran Reu? Dau cant a phedair ar bymtheg.

Beth oedd oedran Heber? Dau cant a phedwar ugain a thair.

Beth oedd oedran Selah? Tri chant a thair ar ddeg.

Beth oedd oedran Arphaxad? Tri chant ac wyth a deugain.

Beth oedd oedran Sem? Pedwar cant ac wyth a deugain.—Am y cyfrif olaf hwn, gweler dosran ii, 51.

Beth oedd oedran Abraham pan fu Reu farw? Deunaw mlwydd, os cafodd ei eni pan oedd Terah yn gant a deng mlwydd ar hugain oed.

Beth oedd ei oedran pan fu Serug a Nachor (brawd Abraham) farw? Un mlwydd a deugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Terah farw? Pymtheg mlwydd a thrugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Arphaxad farw? Wyth mlwydd a phedwar ugain.

Beth oedd ei oedran pan fu Selah farw? Cant a deunaw mlwydd.

Beth oedd ei oedran pan fu Sem farw? Cant a deg mlwydd a deugain.—Am hyn, gweler dosran ii, 52.

Pa faint o gymmeriadau nodedig a fuont byw o Noah hyd Abraham? Deg.

Beth yw eu henwau? Sem, Arphaxad, Selah, Heber, Peleg, Reu, Serug, Nachor, Terah, a Nachor (brawd Abraham). Dosran ii, 52.

Faint o'r rhai hyn a fuont yn cydoesi â Noah? Yr oll o honynt.

Faint ag Abraham? Wyth.

Beth yw eu henwau? Nachor (brawd Abraham), Terah, Serug, Reu, Heber, Selah, Arphaxad, a Sem. Dosran ii, 52.

Faint oedd yn gydoeswyr â Noah ac Abraham ill dau? Wyth.

Beth yw eu henwau? Sem, Arphaxad, Selah, Heber, Reu, Serug, Terah, a Nachor (brawd Abraham). Dosran ii, 52.

A fu rhai o'r dynion hyn farw o flaen Noah? Do.

Pwy oeddynt hwy? Peleg, yn nyddiau yr hwn y rhanwyd y ddaear, a Nachor (tadcu Abraham). Dosran ii, 49.

A fu rhyw un o honynt byw yn hŵy nag Abraham? Do, un o honynt. Dosran ii, 50.

Pwy oedd ef? Heber, y pedwerydd o Noah. Dosran ii, 50.

Yn nyddiau pwy y rhanwyd y ddaear? Yn nyddiau Peleg.

Pa le yr ydym yn cael yr hanes i'r ddaear gael ei rhanu yn nyddiau Peleg? Genesis x, 25.

A ellwch chwi adrodd yr adnod? Ac i Heber y ganwyd dau o feibion; enw un oedd Peleg, o herwydd yn ei ddyddiau ef y rhanwyd y ddaear.

Pa dystiolaeth sydd gan ddynion, yn y lle cyntaf, fod Duw? Tystiolaeth ddynol, a thystiolaeth ddynol yn unig. Dosran ii, 56.

Beth gynhyrfodd yr hen saint i chwilio yn ddyfal am wybodaeth o ogoniant Duw, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau? Y grediniaeth a roddent i dystiolaeth eu tadau. Dosran ii, 56.

Pa fodd y mae dynion yn cael gwybodaeth o ogoniant Duw, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau? Trwy ddiofrydu eu hunain i'w wasanaeth ef, trwy weddio ac erfyn yn ddiorphwys, gan gryfâu eu ffydd ynddo, hyd oni chaffont, fel Enoch, brawd Jered, a Moses, amlygiad o Dduw iddynt eu hunain. Dosran ii, 55.

A yw y wybodaeth o fodoliaeth Duw ond yn fater o draddodiad, wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth ddynol yn unig, hyd oni dderbynio dynion amlygiad o Dduw iddynt eu hunain? Ydyw.

Pa fodd y profwch hyny? Trwy yr oll o ddarlith gyntaf yr ail ddosran.

DARLITH DRYDYDD.—DOSRAN III.

1. Yr ydym wedi dangos yn yr ail ddarlith, pa fodd y daeth gwybodaeth o fodoliaeth Duw i'r byd, a thrwy ba foddion y cyflwynwyd y meddylddrychau cyntaf i feddwl dynion fod y fath fôd yn ddiau yn bodoli; ac mai trwy y wybodaeth am ei fodoliaeth y cafwyd sail i weithredu ffydd ynddo, fel yr unig fôd yn yr hwn y gallai ffydd ganolbwyntio am fywyd ac iachawdwriaeth; o herwydd ni allai ffydd ganolbwyntio mewn bôd nad oes genym un meddylddrych yn ei gylch, canys y mae meddylddrych am ei fodoliaeth yn y lle cyntaf, yn hanfodol er gweithredu ffydd ynddo. Rhufeiniaid x, 14. "Pa fodd gan hyny y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo? a pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? a pha fodd y clywant heb bregethwr" (neu un wedi ei ddanfon i ddweyd wrthynt)?

Felly, ynte, mae ffydd yn dyfod trwy glywed gair Duw. Cyfieithad newydd.

2. Gwnawn sylwi yma fod tri pheth yn anghenrheidiol, cyn y gall un bod rhesymol a gwybodus weithredu ffydd yn Nuw er cael bywyd ac iachawdwriaeth.

3. Yn gyntaf, y meddylddrych o'i fod yn gwirioneddol fodoli.

4. Yn ail, meddylddrych *cywir* am ei gymmeriad, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau.

5. Yn drydydd, gwybodaeth drwyadl fod y dull o fywyd ag y mae ef yn ddilyn, yn unol â'i ewyllys. Oblegid heb adnabyddiaeth o'r tair ffaith bwysig hyn, bydd raid fod ffydd pob bod rhesymol yn anmherffaith a diffrwyth: ond gyda'r dealltwriaeth hyny, geill ddyfod yn berffaith a ffrwythlawn, yn llawn cyfiawnder, er clod a gogoniant i Dduw y Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

6. Wedi dyfod yn adnabyddus o'r ffordd y daeth y meddylddrych am ei fodoliaeth i'r byd, yn gystal â'r ffaith am ei fodoliaeth, awn yn mlaen i sylwi ar ei gymmeriad, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau, fel y gallo'r dosparth yma weled, nid yn unig y tir sydd ganddynt i weithredu ffydd ynddo ef, er bywyd ac iachawdwriaeth, ond y rhesymau a all yr holl fyd hefyd, mor bell ag y mae y meddylddrych am ei fodoliaeth wedi cyrhaedd, feddu er gweithredu ffydd ynddo ef, yr hwn yw Tad pob peth byw.

7. Megys ag yr ydym wedi bod yn ddyledus i ddadguddiad a roddodd Duw o hono ei hun i'w greaduriaid, yn y lle cyntaf, am y meddylddrych o'i fodoliaeth; felly yn yr un modd yr ydym yn ddyledus i'r dadguddiadau a roddodd efe i ni am ddealltwriaeth gywir o'i gymmeriad, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau; oblegid, heb y dadguddiadau a roddodd efe i ni, nis gallai un dyn trwy chwilio gael allan Dduw. Job xi, 7, 8, 9. 1 Corinthiaid ii, 9, 10, 11. "Eithr fel y mae yn ysgrifenedig, Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef; eithr Duw a'u heglurodd i ni trwy ei Ysbryd; canys yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth, ïe, dyfnion bethau Duw hefyd. Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond ysbryd dyn yr hwn sydd ynddo ef? Felly hefyd, pethau Duw nid edwyn neb, ond Ysbryd Duw."

8. Wedi dweyd cymmaint â hyna, awn yn mlaen i sylwi ar y cymmeriad a roddodd y dadguddiadau o Dduw.

9. Mae Moses yn rhoddi yr hanes canlynol yn Exodus xxxiv, 6. "A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd." Salm ciii, 6, 7, 8. "Yr Arglwydd sydd yn gwneuthur cyfiawnder a barn i'r rhai gorthrymedig oll. Hysbysodd ei ffyrdd i Moses; ei weithredoedd i feibion Israel. Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarogrwydd." Salm ciii, 17, 18. "Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef, a'i gyfiawnder i blant eu plant, i'r sawl a gadwant ei gyfammod ef, ac a gofiant ei orchymynion i'w gwneuthur." Salm xc, 2. "Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a ffurfio o honoch y ddaear a'r byd, hyd y nod o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, chwi ydych Dduw." Hebreaid i, 10, 11, 12. "A chwychwi, Arglwydd, yn y dechreuad a sylfaenasoch y ddaear; a gwaith eich dwylaw chwi yw y nefoedd: hwynt-hwy a ddarfyddant, ond chwychwi sydd yn parhau; a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; ac megys gwisg y plygwch chwi hwynt, a hwy a newidir; ond chwychwi yr un ydych, a'ch blynyddoedd ni phallant." Iago i, 17. "Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddiwrth Dad y goleuni, gyda'r hwn nid oes cyfnewidiad, na chysgod troedigaeth." Malachi iii, 6. "Canys myfi yr Arglwydd ni'm newidir; am hyny, ni ddyfethwyd chwi, meibion Jacob.

10. Llyfr Gorchymynion, pennod ii, yn dechreu yn y drydedd linell o'r rhan-ymadrodd cyntaf. "Oblegid nid yw yr Arglwydd yn rhodio ar hyd llwybrau ceimion, nac ychwaith yn troi ar y deheu na'r aswy, nac yn gwyro oddiwrth yr hyn y mae wedi ddweyd; am hyny, mae ei lwybrau yn uniawn, a'i yrfa yn un cylchdro tragywyddol." Llyfr Gorchymynion, pennod xxxvii, 1. "Gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw, hyd y nod Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, gyrfa yr hwn sydd yn un cylchdro tragywyddol, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd."

11. Numeri xxiii, 19. "Nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd; na mab dyn, i edifarhau." 1 Ioan iv, 8. "Yr hwn nid

yw yn caru, ni adnabu Dduw; oblegid Duw, cariad yw." Actau x, 34. "Yna yr agorodd Pedr ei enau, ac a ddywedodd, Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo ef."

12. Oddiwrth y tystiolaethau blaenorol dysgwn y pethau canlynol mewn perthynas i gymmeriad Duw.

13. Yn gyntaf, ei fod ef yn Dduw cyn i'r byd gael ei greu, ac mai yr un Duw oedd efe wedi iddo gael ei greu.

14. Yn ail, ei fod ef yn drugarog a graslawn, hwyrfrydig i lid, a llawn daioni, a'i fod ef felly o dragywyddoldeb, a bydd hyd dragywyddoldeb.

15. Yn drydydd, nad ydyw yn cyfnewid, ac nad oes troedigaeth yn perthyn iddo; ond mai yr un ydyw o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd; a bod ei yrfa yn un cylchdro tragywyddol, heb un gwyrad.

16. Yn bedwerydd, ei fod yn Dduw geirwir, ac nas gall fod yn gelwyddog.

17. Yn bummed, nad yw ddim yn dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ofni Duw, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo ef.

18. Yn chwechfed, mai cariad yw.

19. Mae adnabyddiaeth o'r priodoliaethau hyn yn y cymmeriad dwyfol, yn anhebgorol anghenrheidiol, mewn trefn i ffydd unrhyw fod rhesymol allu canolbwyntio ynddo ef am fywyd ac iachawdwriaeth. Oblegid, os na chredai, yn y lle cyntaf, ei fod ef yn Dduw, hyny yw, creawdwr a chynnaliwr pob peth, nis gallai *ganolbwyntio* ei ffydd ynddo ef am fywyd ac iachawdwriaeth, rhag ofn y byddai i rywun mwy nag ef groesi ei holl drefniadau, ac y buasai yntau, fel duwiau y paganiaid, yn analluog i gyflawni ei addewidion; ond pan welir ei fod yn Dduw dros bawb, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, yn greawdwr a chynnaliwr pob peth, nis gall y fath ofn fodoli yn meddwl y rhai hyny sydd yn gosod eu hymddiried ynddo ef, ac felly yn y peth hwn gall eu ffydd fod yn ddianwadal.

20. Ond yn ail, oni buasai ei fod ef yn drugarog a graslawn, yn hwyrfrydig i lid, hir-ymarhous, a llawn daioni, y fath ydyw gwendid y natur ddynol, ac mor fawr ydyw breuder ac anmherffeithrwydd dynion, fel oni bai eu bod yn credu fod y rhagor-

iaethau hyn yn bodoli yn y cymmeriad dwyfol, ni allai y ffydd anghenrheidiol er iachawdwriaeth byth fodoli; o herwydd cymmerai ammheuaeth le ffydd, a byddai y cyfryw sydd yn ymwybodol o'u gwendid a'u sefyllfa agored i bechu, mewn ammheuaeth parhaus ynghylch iachawdwriaeth, oni buasai y meddylddrych a feddant am ragoroldeb cymmeriad Duw, ei fod yn hwyrfrydig i lid ac yn hir ei amynedd, ac o natur faddeugar, ac yn maddeu anwiredd, camwedd, a phechod. Mae meddylddrych o'r ffeithiau hyn yn symud ymaith ammheuaeth, ac yn gwneyd ffydd yn neillduol o gryf.

21. Ond y mae yr un mor anghenrheidiol fod gan ddynion y meddylddrych o'i fod yn Dduw anghyfnewidiol, er mwyn cael ffydd ynddo, ag ydyw cael y meddylddrych o'i fod yn raslawn ac yn hir-ymarhous; o herwydd heb y meddylddrych o anghyfnewidioldeb yn nghymmeriad y Duwdod, cymmerai ammheuaeth le ffydd. Ond pan yn meddu y meddylddrych nad yw yn gyfnewidiol, y mae ffydd yn cydio gafael ar y rhagoriaethau sydd yn ei gymmeriad gydag ymddiried diysgog, gan gredu ei fod ef yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd, a bod ei yrfa yn un cylchdro tragywyddol.

22. Ac etto, mae y meddylddrych o'i fod yn Dduw geirwir a digelwyddog, yr un mor anghenrheidiol er gweithredu ffydd ynddo â'r meddylddrych o'i anghyfnewidioldeb. Oblegid heb y meddylddrych o'i fod yn Dduw geirwir a digelwyddog, nid allai yr ymddiried anghenrheidiol yn ei air, er gweithredu ffydd ynddo, byth fodoli. Ond trwy feddu y meddylddrych nad dyn ydyw, i ddywedyd celwydd, y mae yn rhoi gallu i feddyliau dynion i weithredu ffydd ynddo.

23. Ond y mae yn anghenrheidiol hefyd fod gan ddynion y meddylddrych nad ydyw ef yn dderbyniwr wyneb, oblegid er meddu y meddylddrych o'r holl ragoriaethau ereill yn ei gymmeriad, a'r un hon yn eisieu, nis gallai dynion weithredu ffydd ynddo ef; o herwydd pe byddai yn dderbyniwr wyneb, nis gallent ddweyd beth fyddai eu breintiau, na pha fodd yr awdurdodwyd hwynt i weithredu ffydd ynddo, neu pa un a awdurdodwyd hwynt i wneyd hyny erioed, eithr byddai raid fod y cyfan yn ddyryswch; ond nid cynt y mae meddyliau dynion yn dyfod yn adnabyddus o'r gwirionedd ar y pwynt hwn o'i fod yn ddidderbyn wyneb, nag y gwelant fod ganddynt

awdurdod trwy ffydd i ddal gafael ar fywyd tragywyddol, rhodd fwyaf y nef, o herwydd nid yw Duw dderbyniwr wyneb, a bod pob dyn yn mhob cenedl yn meddu yr un ragorfraint.

24. Ac yn ddiweddaf, ond nid y lleiaf pwysig er gweithredu ffydd yn Nuw, yw y meddylddrych mai cariad yw; oblegid er meddu yr holl ragoriaethau ereill yn ei gymmeriad, heb yr un hon i ddylanwadu arnynt, nis gallent gael y fath lywodraeth rymus ar feddyliau dynion; ond pan fyddo y meddylddrych wedi ei blanu yn y meddwl mai cariad yw, pwy nad all weled y tir cyfiawn sydd gan ddynion o bob cenedl, llwyth, ac iaith, er gweithredu ffydd yn Nuw, fel ag i gyrhaedd bywyd tragywyddol.

25. Oddiwrth y desgrifiad uchod o gymmeriad y Duwdod, a roddir iddo yn y dadguddiadau i ddynion, fe welwn fod sylfaen gadarn er gweithredu ffydd ynddo ef yn mhlith pob pobl, cenedl, a llwyth, o oes i oes, ac o genedlaeth i genedlaeth.

26. Gadewch i ni sylwi yma mai y blaenorol yw y cymmeriad a roddir i Dduw yn ei ddadguddiadau i Saint y dyddiau gynt, ac mai hyny hefyd yw y cymmeriad a roddir iddo yn ei ddadguddiadau i Saint y Dyddiau Diweddaf, fel ag y mae saint y dyddiau cyntefig, a rhai y dyddiau diweddaf, yr un fath yn y peth hyn; medda Saint y Dyddiau Diweddaf gystal seiliau i weithredu ffydd yn Nuw, â Saint y dyddiau gynt, oblegid yr un cymmeriad a roddir iddo i'r naill a'r llall.

GOFYNIADAU AC ATEBION AR YR EGWYDDORION BLAENOROL.

Beth a ddangoswyd yn yr ail ddarlith? Dangoswyd pa fodd y daeth y wybodaeth am y bodoliaeth o Dduw i'r byd. Dosran iii, 1.

Beth yw effaith y meddylddrych o'i fodoliaeth yn mhlith dynion? Mae yn gosod sylfaen ymarferiad ffydd ynddo ef. Dosran iii, 1.

A yw y meddylddrych o'i fodoliaeth, yn y lle cyntaf, yn anghenrheidiol i'r dyben o ymarferiad ffydd ynddo ef. Ydyw. Dosran iii, 1.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Trwy y ddegfed bennod o Rhufeiniaid, a'r bedwaredd adnod ar ddeg. Dosran iii, 1.

Faint o bethau sydd yn anghenrheidiol i ni eu deall, ynghylch y Duwdod a'n perthynas ag ef, i'r dyben i ni ymarferyd ffydd ynddo am fywyd ac iachawdwriaeth? Tri. Dosran iii, 2.

Beth yw y pethau hyny? Yn gyntaf, fod Duw mewn gwirionedd yn bodoli; yn ail, cael meddylddrychau cywir am ei gymmeriad, ei berffeithderau, a'i briodoliaethau; ac yn drydydd, fod y llwybr ag ydym ni yn ddilyn yn unol â'i feddwl a'i ewyllys ef. Dosran iii, 3, 4, 5.

A fyddai i'r meddylddrych am un neu ddau o'r pethau blaenorol, alluogi dyn i ymarferyd ffydd yn Nuw? Na fyddai, canys heb y meddylddrych am danynt oll, ffydd a fyddai yn anmherffaith a diffrwyth. Dosran iii, 5.

A fyddai i'r meddylddrych am y tri pheth hyn osod sylfaen sicr i ymarferyd ffydd yn Nuw, fel ag i gael bywyd ac iachawdwriaeth? Byddai; canys trwy y meddylddrych am y tri pheth hyn, ffydd a ddeuai yn berffaith a ffrwythlawn, yn oludog mewn cyfiawnder er mawl a gogoniant i Dduw. Dosran iii, 5,

Pa fodd yr ydym ni i gael ein gwneyd yn adnabyddus â'r pethau rhag-grybwylledig mewn perthynas i'r Duwdod, ac mewn perthynas i ni ein hunain? Trwy ddadguddiad. Dosran iii, 6.

A ellid cael y pethau hyn allan trwy unrhyw foddion ereill heblaw dadguddiad? Na ellid.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Trwy yr ysgrythyrau. Job xi, 7, 8, 9. 1 Corinthiaid ii, 9, 10, 11. Dosran iii, 7.

Pa bethau ydym yn ddysgu yn nadguddiadau Duw mewn perthynas i'w gymmeriad? Yr ydym yn dysgu y chwech peth canlynol. Yn gyntaf, ei fod ef yn Dduw cyn i'r byd gael ei greu, ac yr un Duw ag ydoedd efe wedi iddo gael ei greu. Yn ail, ei fod ef yn drugarog a graslawn, yn hwyrfrydig i ddig, ac yn llawn daioni; ac ei fod felly o dragywyddoldeb, ac y bydd felly i dragywyddoldeb. Yn drydedd, ei fod yn anghyfnewidiol, heb un tröedigaeth ynddo, a bod ei yrfa yn un cylch tragywyddol. Yn bedwerydd, ei fod ef yn Dduw geirwir, ac nas gall ddywedyd celwydd. Yn bummed, nad yw efe yn dderbyniwr wyneb; ac yn chweched, mai çariad yw. Dosran iii, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18.

Pa le yr ydych yn cael y dadguddiadau a roddant i ni y meddylddrych hwn am gymmeriad y Duwdod? Yn y beibl a llyfr gorchymynion, a nodir hwynt yn y drydedd ddarlith. Dosran iii, 9, 10, 11.

Pa effaith a gelai ar unrhyw fôd rhesymol, pe na bai ganddo feddylddrych fod yr Arglwydd yn Dduw, yn greawdwr a chynnaliwr pob peth? Byddai i hyny ei attal rhag ymarferyd ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth.

Paham y byddai i hyny ei attal rhag ymarferyd ffydd yn Nuw? O herwydd y byddai fel y paganiaid, heb wybod nas gellai fod rhyw fôd yn fwy a galluocach nag ef, ac felly y gellai gael ei rwystro rhag cyflawni ei addewidion. Dosran iii, 19.

A yw y meddylddrych hwn yn rhwystro y cyfryw ammheuaeth? Ydyw; canys y dynion ag ydynt yn meddu y medd-

ylddrych hwn a alluogir trwyddo i ymarferyd ffydd heb yr ammheuaeth hwn. Dosran iii, 19.

Onid yw hefyd yn anghenrheidiol i gael y meddylddrych fod Duw yn drugarog a graslawn, yn hir ei amynedd, ac yn llawn o ddaioni? Ydyw. Dosran iii, 20.

Paham y mae hyny yn anghenrheidiol? O herwydd gwendid ac anmherffeithrwydd y natur ddynol, a ffaeleddau mawrion dyn; canys y cyfryw yw gwendid dyn, a'r cyfryw yw ei ffaeleddau, fel y mae yn agored i bechu yn wastadol, ac oni bai fod Duw yn hir ei amynedd, yn llawn tosturi, yn raslawn a thrugarog, ac o duedd faddeugar, byddai i ddyn gael eu dori ymaith oddi ger ei fron, ac o achos hyny byddai mewn ammheuaeth parhaus, ac nis gallai ymarferyd ffydd; canys lle y mae ammheuaeth, nid oes gan ffydd allu yno; ond trwy fod dyn yn credu fod Duw yn llawn tosturi a maddeugarwch, yn hir ei amynedd ac yn hwyrfrydig i ddig, gall ymarferyd ffydd ynddo, a gorchfygu ammheuaeth, fel ag i fod yn dra chryf. Dosran iii, 20.

Onid yw yr un mor anghenrheidiol i ddyn gael meddylddrych fod Duw yn anghyfnewidiol, ac nad oes tröedigaeth ynddo, i'r dyben o ymarferyd ffydd ynddo i fywyd ac iachawdwriaeth? Ydyw; oblegid heb hyn, ni allai wybod pa mor fuan y gellai trugaredd Duw droi yn greulondeb, ei hir amynedd droi yn fyrbwylldra, a'i gariad droi yn gasineb; ac o achos y cyfryw ammheuaeth, byddai dyn yn analluog i ymarferyd ffydd ynddo ef; ond trwy ei fod yn meddu ar y meddylddrych ei fod yn anghyfnewidiol, gall dyn osod ei ffydd ynddo yn wastadol, gan gredu ei fod ef ddoe yr hyn yw heddyw, ac y bydd felly yn oes oesoedd. Dosran iii, 21.

Onid yw yn anghenrheidiol hefyd i ddynion gael meddylddrych fod Duw yn fôd geirwir, cyn y gallant gael perffaith ffydd ynddo? Ydyw; canys os na fydd gan ddynion y meddylddrych hwn, nis gallant ymddiried yn ei air; ac heb fod yn alluog i ymddiried yn ei air, nis gallant gael ffydd ynddo; ond gan gredu ei fod yn Dduw geirwir, ac nas gall ei air fethu, gall eu ffydd ymorphwys arno heb un ammheuaeth. Dosran iii, 22.

A ellai dyn ymarferyd ffydd yn Nuw, fel ag i gael bywyd tragywyddol, oddieithr iddo gredu nad yw Duw yn dderbyniwr wyneb? Na ellai; canys heb y meddylddrych hwn, nis gellai wybod yn sicr mai ei ragorfraint yw gwneuthur felly; ac mewn canlyniad i'r ammheuaeth hwnw, nis gellai ei ffydd fod yn ddigon cryf i'w achub. Dosran iii, 23.

A fyddai yn bosibl i ddyn ymarferyd ffydd yn Nuw, fel ag i gael ei achub, oddieithr iddo gael y meddylddrych mai cariad yw Duw? Na fyddai; o herwydd nis gellai dyn garu Duw, oddieithr fod ganddo y meddylddrych mai cariad yw Duw; ac oddieithr iddo garu Duw, nis gellai fod ganddo ffydd ynddo. Dosran iii, 24.

Beth mae y darluniad a rodda yr ysgrifenwyr santaidd o gymmeriad y Duwdod yn tueddu i'w wneuthur? Mae yn

tueddu i osod sylfaen er ymarferiad ffydd ynddo, mor bell ag y mae y wybodaeth yn cyrhaedd yn mhlith pob pobl, tafodau, ieithoedd, llwythau, a chenedlaethau, a hyny o oes i oes, ac o genedlaeth i genedlaeth. Dosran iii, 25.

A yw y cymmeriad ag y mae Duw wedi roddi o hono ei hun, yn unffurf, neu yn gydweddawl? Ydyw, yn ei holl ddadgudd-iadau, pa un ai i Saint y Dyddiau gynt, neu i Saint y Dyddiau Diweddaf, fel y mae ganddynt oll awdurdod i ymarferyd ffydd ynddo ef, a dysgwyl trwy yr ymarferiad o'u ffydd, i fwynhau yr un bendithion. Dosran iii, 26.

DARLITH BEDWERYDD.—DOSRAN IV.

1. Wedi dangos yn y drydedd ddarlith, fod meddylddrychau cywir o gymmeriad Duw yn anghenrheidiol er gweithredu ffydd ynddo i fywyd ac iachawdwriaeth; ac mai heb feddyl-ddrychau cywir o'i gymmeriad, nad allai meddyliau dynion gael digon o allu gyda Duw er gweithredu y ffydd anghenrheid-iol i fwynhau bywyd tragywyddol; a bod meddylddrychau cywir o'i gymmeriad yn gosod sylfaen, mor bell ag y mae ei gymmeriad yn perthyn, er gweithredu ffydd, fel ag i fwynhau cyflawnder bendithion efengyl Iesu Grist, hyd y nod hòno o ogoniant tragywyddol;—cawn yn awr fyned yn mlaen i ddangos y cyssylltiad sydd rhwng meddylddrychau cywir o briodoliaethau Duw, a gweithrediad ffydd ynddo i fywyd tragywyddol.

2. Gadewch i ni sylwi yma, mai y gwir fwriad ag oedd gan Dduw y nef mewn golwg wrth wneuthur y teulu dynol yn adnabyddus o'i briodoliaethau, oedd, fel y gallent hwy, trwy y meddylddrychau o fodoliaeth ei briodoliaethau, gael eu galluogi i weithredu ffydd ynddo, a thrwy weithrediad ffydd ynddo, i allu cyrhaedd bywyd tragywyddol; o herwydd heb y meddyl-ddrych o fodoliaeth y priodoliaethau sydd yn perthyn i Dduw, ni allai meddyliau dynion gael gallu i weithredu ffydd ynddo, fel ag i ddal gafael ar fywyd tragywyddol. Yr oedd Duw y nefoedd, trwy ddeall yn berffaith gyfansoddiad y natur ddynol a gwendid dyn, yn gwybod pa beth oedd eisieu ei ddadguddio, a pha feddylddrychau oedd raid eu planu yn eu meddylian, mewn trefn iddynt gael eu galluogi i weithredu ffydd ynddo i fywyd tragywyddol.

3. Wedi dweyd cymmaint â hyna, awn yn mlaen i sylwi ar briodoliaethau Duw, fel eu darlunir yn ei ddadguddiadau i'r teulu dynol, ac i ddangos mor anghenrheidiol yw meddylddrychau cywir o'i briodoliaethau, er galluogi dynion i weithredu ffydd ynddo; oblegid heb fod y meddylddrychau hyn wedi eu planu yn meddyliau dynion, buasai allan o allu unrhyw berson neu bersonau i weithredu ffydd yn Nuw, fel ag i gyrhaedd bywyd tragywyddol. Felly yr oedd y cyfrinachau dwyfol a wnaed i ddyn yn y lle cyntaf, wedi eu bwriadu i sefydlu yn eu meddyliau y meddylddrychau anghenrheidiol er eu galluogi hwy i weithredu ffydd yn Nuw, a thrwy y moddion hyn i fod yn gyfanogion o'i ogoniant.

4. Mae genym, yn y dadguddiadau a roddodd efe i'r teulu dynol, yr hanes canlynol o'i briodoliaethau.

5. Yn gyntaf—Gwybodaeth. Actau xv, 18. "Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed." Esaiah xlvi, 9, 10. "Cofiwch y pethau gynt erioed; canys myfi ydwyf Dduw, ac nid neb arall; Duw ydwyf, ac heb fy math; *yn mynegi y diwedd o'r dechreu*, ac er cynt yr hyn ni wnaed etto, yn dywedyd, Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf."

6. Yn ail—Ffydd neu Allu. Hebreaid xi, 3. "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw." Genesis i, 1. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Esaiah xiv, 24, 27. "Tyngodd Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd, Diau megys yr amcenais, felly y bydd; ac fel y bwriedais, hyny a saif. O herwydd Arglwydd y lluoedd a'i bwriadodd, a phwy a'i diddyma? ei law ef hefyd a estynwyd, a phwy a'i try yn ol?"

7. Yn drydydd—Cyfiawnder. Salm lxxxix, 14. "Cyfiawnder a barn yw trigfa dy orsedd-fainc." Esaiah xlv, 21. "Mynegwch, a nesêwch hwynt; cyd-ymgynghorant hefyd: pwy a draethodd hyn er cynt? onid myfi yr Arglwydd? ac nid oes Duw arall ond myfi; yn Dduw cyfiawn, ac yn Achubydd." Sephaniah iii, 5. "Yr Arglwydd cyfiawn sydd yn ei chanol." Zechariah ix, 9. "Bydd lawen iawn, ti ferch Seion; a chrechwena, ha ferch Jerusalem; wele, dy frenin yn dyfod atat; cyfiawn ac achubydd yw efe."

8. Yn bedwerydd—Barn. Salm lxxxix, 14. "Cyfiawnder a barn yw trigfa dy orseddfainc." Deuteronomium xxxii, 4. "Efe yw y

Graig; perffaith yw ei weithred; canys ei holl ffyrdd ydynt farn: Duw gwirionedd, ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe." Salm ix, 7. "Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd: efe a barotôdd ei orseddfainc i farn." Salm ix, 16. "Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna."

9. Yn bummed—Trugaredd. Salm lxxxix, 14. "Trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb." Exodus xxxiv, 6. "A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn." Nehemiah ix, 17. "Etto ti ydwyt Dduw parod i faddeu, graslawn, a thrugarog."

10. Ac yn chwechfed—Gwirionedd. Salm lxxxiv, 14. Trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb." Exodus xxxiv, 6. "Hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd." Deuteronomium xxxii, 4. "Efe yw y Graig; perffaith yw ei weithred; canys ei holl ffyrdd ydynt farn: Duw gwirionedd, ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe." Salm xxxi, 5. "I'th law y gorchymynaf fy ysbryd; gwaredaist fi, O Arglwydd Dduw y gwirionedd."

11. Gyda chydig o adfyfyriad gellir gweled, fod y meddylddrych o fodoliaeth y priodoliaethau hyn yn y Duwdod yn anghenrheidiol er galluogi unrhyw fod rhesymol i weithredu ffydd ynddo ef; o herwydd heb y meddylddrych o fodoliaeth y priodoliaethau hyn yn y Duwdod, ni allai dynion weithredu ffydd ynddo i fywyd ac iachawdwriaeth; gan weled mai heb y wybodaeth o bob peth, ni allasai Duw achub unrhyw gyfran o'i greaduriaid; o herwydd trwy y wybodaeth sydd ganddo ef o bob peth, o'r dechreu i'r diwedd, y mae yn cael ei alluogi i roddi y dealltwriaeth hwnw i'w greaduriaid, trwy yr hwn y gwneir hwynt yn gyfranogion o fywyd tragywyddol; ac oni bai fod y meddylddrych yn bodoli yn meddyliau dynion, fod Duw yn meddu pob gwybodaeth, ni fuasai yn bosibl iddynt weithredu ffydd ynddo ef.

12. Ac nid yw yn llai anghenrheidiol fod gan ddynion y meddylddrych o'r briodoliaeth o allu yn y Duwdod; o herwydd oni bai fod gan Dduw allu dros bob peth, a'i fod yn alluog trwy ei allu i lywodraethu pob peth, a thrwy hyny waredu ei greaduriaid ag sydd yn ymddiried ynddo ef, rhag gallu pob bodau a allent ymgeisio eu dinystrio, pa un bynag ai yn y nefoedd, ar y ddaear, neu yn uffern, ni allasai dynion gael eu hachub. Ond

tra fyddo y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon wedi ei phlanu yn y meddwl, teimla dynion fel pe na byddai ganddynt ddim i'w ofni, y rhai sydd yn ymddiried yn Nuw, gan gredu fod ganddo ef allu i achub pawb sydd yn dyfod ato hyd yr eithaf.

13. Mae yn anghenrheidiol hefyd, mewn trefn i weithredu ffydd yn Nuw i fywyd ac iachawdwriaeth, fod gan ddynion y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth o gyfiawnder ynddo; o herwydd heb y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon yn y Duwdod, ni allai dynion gael ymddiried digonol i roddi eu hunain dan ei arweiniad a'i gyfarwyddyd; o herwydd llenwid hwynt ag ofn ac ammheuaeth, rhag i farnwr yr holl ddaear beidio gwneyd yn iawn; ac felly, gwnai ofn neu ammheuaeth, yn bodoli yn y meddwl, rwystro y posiblrwydd o weithrediad ffydd ynddo ef er bywyd ac iachawdwriaeth. Ond wedi i'r meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth o gyfiawnder yn y Duwdod, gael ei blanu yn deg yn y meddwl, nid yw yn rhoi lle i ammheuaeth fyned i'r galon, a galluogir y meddwl i daflu ei hun ar yr Hollalluog heb ofn ac heb ammheuaeth, a chyda'r ymddiried mwyaf diysgog, gan gredu y gweithreda barnwr yr holl ddaear yn uniawn.

14. Mae hefyd o gymmaint pwys fod gan ddynion y meddylddrych o'r briodoliaeth o farn yn Nuw, fel y gallont weithredu ffydd ynddo er bywyd ac iachawdwriaeth; o herwydd heb y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon yn y Duwdod, byddai yn anmhosibl i ddynion weithredu ffydd ynddo ef er bywyd ac iachawdwriaeth, gan weled mai trwy weithrediad y briodoliaeth hon y mae'r ffyddlawn yn Nghrist Iesu yn cael eu gwaredu allan o ddwylaw y rhai hyny sydd yn ceisio eu dinystrio; o herwydd pe na ddeuai Duw allan mewn barn gyflym yn erbyn gweithredwyr anwiredd a galluoedd y tywyllwch, ni allai ei saint ef gael eu hachub; o herwydd trwy farn y mae'r Arglwydd yn gwaredu ei saint allan o ddwylaw eu gelynion, a'r sawl sydd yn gwrthod efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Ond nid cynt y mae'r meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon yn cael ei blanu yn meddyliau dynion, nag y mae yn rhoi gallu i'r meddwl er gweithredu ffydd ac ymddiried yn Nuw, a galluogir hwynt trwy ffydd i ddal gafael ar yr addewidion a osodir o'u blaen, a myned trwy yr holl helbulon a'r trallodion

sydd yn agored i'w cyfarfod o achos yr erlidigaeth oddiwrth y sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufyddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, gan gredu y daw yr Arglwydd mewn pryd allan mewn barn gyflym yn erbyn eu gelynion, ac y cânt eu tori ymaith o'i flaen ef, ac y bydd iddo yn ei amser da ei hun eu dwyn hwythau ymaith yn goncwerwyr, a mwy nâ choncwerwyr yn mhob peth.

15. Ac etto, y mae yr un mor bwysig fod gan ddynion y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth o drugaredd yn y Duwdod, mewn trefn i weithredu ffydd ynddo ef er bywyd ac iachawdwriaeth; o herwydd heb y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon yn y Duwdod, byddai i ysbrydoedd y saint lesgâu yn nghanol y trallodion, y blinderau, a'r erlidigaethau sydd ganddynt i ddyoddef yn achos cyfiawnder. Ond pan fyddo y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon unwaith wedi ei sefydlu yn y meddwl, y mae yn rhoi bywyd a nerth i ysbrydoedd y saint, gan gredu y bydd i drugaredd Duw gael ei dywallt arnynt yn nghanol eu trallodau, ac y trugarha ef wrthynt yn eu dyoddefiadau, ac y bydd i drugaredd Duw gydio gafael ynddynt a'u sicrhau yn mreichiau ei gariad, fel y derbyniont wobr gyflawn am eu holl ddyoddefiadau.

16. Ac yn ddiweddaf, ond nid yn llai pwysig er gweithredu ffydd yn Nuw, yw y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth o wirionedd ynddo; o herwydd heb y meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon, ni fyddai gan feddwl dyn ddim ar ba un y gallai orphwys gyda sicrwydd—byddai y cyfan yn ddyryswch ac ammheuaeth. Ond gyda'r meddylddrych o fodoliaeth y briodoliaeth hon yn y Duwdod yn y meddwl, y mae'r holl addysgiadau, cyfarwyddiadau, addewidion, a'r bendithion yn dyfod yn bethau sylweddol, ac y mae'r meddwl yn cael ei alluogi i ddal gafael ynddynt gyda sicrwydd ac ymddiried, gan gredu fod y pethau hyn, a phob peth a ddywedodd Duw, i gael eu cyflawni yn eu hamser; a bod yr holl felldithion, bygythiadau, a'r barnedigaethau, a gyhoeddwyd ar benau yr anghyfiawnion, i gael eu gweinyddu yn amser Duw: ac o herwydd ei wirionedd a'i eirwiredd ef, mae y meddwl yn canfod ei waredigaeth a'i iachawdwriaeth megys yn sicr.

17. Gadewch i'r meddwl un waith adfyfyrio yn bwyllog a difrifol ar y meddylddrychau o fodoliaeth y priodoliaethau

rhag-grybwylledig yn y Duwdod, a gwelir, mor bell ag y mae ei briodoliaethau yn dal cyssylltiad, fod sylfaen safadwy wedi ei gosod er gweithredu ffydd ynddo ef er bywyd ac iachawdwriaeth. O herwydd gan fod Duw yn meddu y briodoliaeth o wybodaeth, gall wneuthur yn adnabyddus i'w saint bob peth anghenrheidiol er eu hiachawdwriaeth; a chan ei fod yn meddu y briodoliaeth o allu, mae yn alluog drwy hyny i'w gwaredu oddiwrth allu pob gelynion; a chan weled, hefyd, fod cyfiawnder yn briodoliaeth o'r Duwdod, ymddyga tuag atynt ar yr egwyddor o gyfiawnder ac uniondeb, a rhoddir iddynt wobr gyfiawn am eu holl flinderau a'u dyoddefiadau o achos y gwirionedd. A chan fod barn yn briodoliaeth o'r Duwdod hefyd, gall ei saint feddu yr ymddiried mwyaf diysgog y cânt mewn amser cyfaddas waredigaeth gyflawn o ddwylaw eu holl elynion, a buddugoliaeth drwyadl ar bawb a fu yn ceisio eu niweidio a'u dystrywio. A chan fod trugaredd hefyd yn briodoliaeth o'r Duwdod, gall ei saint feddu ymddiried y caiff ei weithredu tuag atynt hwy, a thrwy weithrediad y briodoliaeth hono tuag atynt hwy, bydd cysur a dyddanwch yn cael eu gweinyddu iddynt yn helaeth, yn nghanol eu holl flinderau a'u helbulon. Ac, yn ddiweddaf, gan wybod fod gwirionedd yn briodoliaeth o'r Duwdod, mae'r meddwl yn cael ei arwain i orfoleddu yn nghanol ei holl dreialon a'i demtasiynau, mewn gobaith o'r gogoniant hwnw a ddygir yn nadguddiad Iesu Grist, ac yn ngolwg y goron hono a osodir ar benau y saint yn y dydd y cyfrano yr Arglwydd wobrwyon iddynt, ac mewn dysgwyliad o'r pwys tragywyddol o ogoniant a addawodd yr Arglwydd dywallt arnynt, pan y dwg efe hwynt i ganol ei orseddfainc i drigo yn ei wyddfod yn dragywyddol.

18. Mewn golwg, ynte, o fodoliaeth y priodoliaethau hyn, gall ffydd y saint ddyfod yn rhyfeddol o gryf, yn llawn cyfiawnder er mawl a gogoniant i Dduw, a gall ymorchestu ei dylanwad galluog wrth chwilio am ddoethineb a dealltwriaeth, nes y byddo wedi cael gwybodaeth o bob peth perthynol i fywyd ac iachawdwriaeth.

19. Y fath, ynte, yw y sylfaen sydd wedi ei gosod, trwy ddadguddiad o briodoliaethau Duw, er gweithredu ffydd ynddo er bywyd ac iachawdwriaeth; a chan weled mai priodoliaethau y Duwdod yw y rhai hyn, eu bod yn anghyfnewidiol—yr un

ddoe, heddyw, ac yn dragywydd—yr hyn sydd yn rhoddi i feddyliau Saint y Dyddiau Diweddaf yr un gallu ac awdurdod i weithredu ffydd yn Nuw, ag a feddai Saint y dyddiau gynt; fel ag y mae'r holl saint yn y pethau hyn, wedi bod, ac yn bod, a pharhant i fod yn debyg hyd ddiwedd amser; o herwydd nid yw Duw yn cyfnewid, o ganlyniad mae ei briodoliaethau a'i gymmeriad yn parhau yr un fath dros byth. A chan mai trwy ddadguddiad y rhai hyn y mae sylfaen wedi ei gosod er gweithredu ffydd yn Nuw i fywyd ac iachawdwriaeth, mae y sylfaen, o ganlyniad, er gweithredu ffydd wedi bod, yn bod, ac i barhau byth i fod yr un; fel ag y mae pawb wedi cael, ac i gael, braint gyfartal.

GOFYNIADAU AC ATEBION AR YR EGWYDDORION BLAENOROL.

Pa beth a ddangoswyd yn y drydedd ddarlith? Dangoswyd fod meddylddrychau cywir am gymmeriad Duw yn anghenrheidiol i'r dyben o ymarfer ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth; ac heb feddylddrychau cywir am ei gymmeriad, nas gallai dynion gael gallu i ymarfer ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth; ond fod meddylddrychau cywir am ei gymmeriad, mor bell ag yr oedd ei gymmeriad yn perthyn i'r ymarferiad o ffydd ynddo ef, yn gosod sylfaen sicr i'r ymarferiad o honi. Dosran iv, 1.

Pa ddyben oedd gan Dduw y nefoedd wrth ddadguddio ei briodoliaethau i ddynion? Fel y byddai iddynt, trwy adnabyddiaeth o'i briodoliaethau, gael eu galluogi i ymarfer ffydd ynddo ef, fel ag i gael bywyd tragywyddol. Dosran iv, 2.

A ellai dynion ymarfer ffydd yn Nuw heb adnabyddiaeth o'i briodoliaethau, fel ag i fod yn alluog i gymmeryd gafael ar fywyd tragywyddol? Na allent. Dosran iv, 2, 3.

Pa hysbysiaeth a roddir am briodoliaethau Duw yn ei ddadguddiadau? Yn gyntaf, Gwybodaeth; yn ail, Ffydd neu Allu; yn drydydd, Cyfiawnder; yn bedwerydd, Barn; yn bummed, Trugaredd; ac yn chwechfed, Gwirionedd. Dosran iv, 4, 5, 6, 7, 8, 9, a 10.

Pa le y mae y dadguddiadau i'w cael, a roddant yr hysbysiaeth hwn am briodoliaethau Duw? Yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd, a choffheir hwynt yn y bedwaredd ddarlith, y bummed, chwechfed, seithfed, wythfed, nawfed, a'r degfed gwahanran.*

A yw y meddylddrych o fodoliaeth y priodoliaethau hyny yn y Duwdod, yn anghenrheidiol i'r dyben o alluogi unrhyw fôd

* Bydded i'r myfyriwr sylwi yn fanwl ar y gwahanranau hyn, a'u trysori yn ei gof.

rhesymol i ymarfer ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth ? Ydyw.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny ? Trwy yr unfed ar ddeg, y ddeuddegfed, y drydedd ar ddeg, y bedwaredd ar ddeg, y bymthegfed, a'r unfed ar bymtheg wahanran yn y ddarlith hon.*

A yw y meddylddrych o fodoliaeth y priodoliaethau hyn yn y Duwdod, mor bell ag y perthyna i'w briodoliaethau, yn galluogi bôd rhesymol i ymarfer ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth ? Ydyw.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny ? Trwy y ddwyfed ar bymtheg a'r ddeunawfed wahanran.*

A oes gan Saint y Dyddiau Diweddaf gymmaint o awdurdod wedi ei roddi iddynt, trwy y dadguddiad o briodoliaethau Duw, i ymarfer ffydd ynddo ef, ag oedd gan Saint y Dyddiau gynt? Oes.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny ? Trwy y bedwaredd wahanran ar bymtheg yn y ddarlith hon.*

DARLITH BUMMED.—DOSRAN V.

1. Yn ein darlithiau blaenorol sylwasom ar fodoliaeth, cymmeriad, perffeithderau, a phriodoliaethau Duw. Yr hyn a feddyliwn wrth berffeithderau yw, y perffeithderau sydd yn perthyn i holl briodoliaethau ei natnr. Cawn lefaru, yn y ddarlith hon, am y Duwdod—meddyliwn y Tad, Mab, a'r Ysbryd Glân.

2. Y mae dau berson ag sydd yn cyfansoddi y gallu mawr, digyffelyb, llywodraethol, a goruchel, dros bob peth—trwy y rhai y crewyd ac y gwnaethpwyd pob peth a'r a grewyd ac a wnaethpwyd, pa un bynag ai gweledig ai anweledig—pa un bynag ai yn y nefoedd, ar y ddaear, neu yn y ddaear, odditan y ddaear, neu trwy y gwagle annherfynol. Hwynt-hwy yw y Tad a'r Mab—mae y Tad yn berson o ysbryd, gogoniant, a gallu, yn meddu pob perffeithrwydd a chyflawnder—mae y Mab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, person o dabernacl, wedi ei wneuthur neu ei lunio yn debyg i ddyn, neu yn null a delw dyn, neu yn hytrach lluniwyd dyn yn ol ei lun a'i ddelw ef; mae efe hefyd yn wir lun a delw person y Tad, yn meddu holl gyflawnder y Tad, neu yr un cyflawnder gyda'r Tad ; wedi ei genedlu o hono, a'i ordeinio er cyn seiliad y byd i fod yn iawn dros bechodau y sawl a gredai yn ei enw, a gelwir ef yn Fab o herwydd y

* Bydded i'r myfyriwr sylwi yn fanwl ar y gwahanranau hyn, a'u trysori yn ei gof.

cnawd—ac ymostyngodd mewn dyoddefiadau yn îs nag y gallai dyn ddyoddef; neu, mewn geiriau ereill, dyoddefodd ddyoddefiadau mwy, a gosodwyd ef yn agored i wrthwynebiadau mwy nerthol nag y gallai un dyn fod. Ond er hyny oll, cadwodd gyfraith Duw, ac arosodd heb bechod, gan ddangos trwy hyny ei fod yn ngallu dyn i gadw y gyfraith ac aros hefyd heb bechod; ac hefyd, mai trwyddo ef y gallai barn gyfiawn ddyfod ar bob cnawd, ac fel y buasai i bawb na rodient yn ol cyfraith Duw, gael eu condemnio yn gyfiawn gan y gyfraith, ac i fod heb un esgus dros eu pechodau. Ac efe yn unig-anedig y Tad, yn llawn gras a gwirionedd, ac wedi gorchfygu, a dderbyniodd gyflawnder o ogoniant y Tad—gan feddu yr un meddwl gyda'r Tad, yr hwn feddwl yw yr Ysbryd Glân, ag sydd yn dwyn tystiolaeth o'r Tad a'r Mab, a'r tri hyn un ydynt; neu, mewn geiriau ereill, mae y tri hyn yn cyfansoddi y gallu mawr, digyffelyb, llywodraethol, a goruchel dros bob peth; trwy y rhai y crewyd ac y gwnaethpwyd pob peth a'r a grewyd ac a wnaethpwyd, a'r tri hyn sydd yn cyfansoddi y Duwdod, ac un ydynt; mae y Tad a'r Mab yn meddu yr un meddwl, yr un doethineb, gogoniant, gallu, a chyflawnder—yn llanw oll yn oll; y Mab wedi ei lanw â chyflawnder o'r meddwl, gogoniant, a gallu; neu, mewn geiriau ereill, ag ysbryd, gogoniant, a gallu y Tad—yn meddu pob gwybodaeth a gogoniant, a'r un deyrnas—yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ar wir lun a delw y Tad, yn gyfryngwr dros ddyn—wedi ei lanw â chyflawnder meddwl y Tad; neu, mewn geiriau ereill, ag ysbryd y Tad, yr hwn ysbryd a dywelltir i waered ar bawb a gredant yn ei enw ac a gadwant ei orchymynion; a'r holl rai hyny a gadwant ei orchymynion a gynnyddant o ras i ras, a deuant yn etifeddion o deyrnas nefoedd, a chyd-etifeddion ag Iesu Grist; yn meddu yr un meddwl, wedi eu cyfnewid i'r un llun a delw, hyd y nod ei wir lun Ef sydd yn llanw oll yn oll; wedi eu llanw â chyflawnder ei ogoniant, a dyfod yn un ynddo ef, megys y mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn un.

3. Oddiwrth yr hanes blaenorol am y Duwdod, yr hwn a roddir yn ei ddadguddiadau, mae y saint wedi gosod sylfaen safadwy er gweithredu ffydd i fywyd ac iachawdwriaeth, trwy iawn a chyfryngdod Iesu Grist; trwy waed yr hwn y maent yn cael maddeuant pechodau, ac hefyd wobr sicr wedi ei

thrysori iddynt yn y nefoedd, hyd y nod i gyfranogi o gyflawnder y Tad a'r Mab trwy yr Ysbryd. Megys y mae'r Mab yn cyfranogi o gyflawnder y Tad trwy yr Ysbryd, felly y mae'r saint, trwy yr un Ysbryd, i fod yn gyfranogion o'r un cyflawnder, i fwynhau yr un gogoniant; o herwydd megys y mae'r Tad a'r Mab yn un, felly, mewn cyffelyb fodd, y mae'r saint i fod yn un ynddynt hwy. Trwy gariad y Tad, cyfryngdod Iesu Grist, a dawn yr Ysbryd Glân, y maent hwy i fod yn etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion ag Iesu Grist.

GOFYNIADAU AC ATEBION AR YR EGWYDDORION BLAENOROL.

Am ba bethau y mae y darlithiau blaenorol yn traethu? Am fodoliaeth, perffeithderau, a phriodoliaethau y Duwdod. Dosran v, 1.

Beth ydym ni i'w ddeall wrth berffeithderau y Duwdod? Y perffeithderau sydd yn perthyn i'w briodoliaethau.

Pa sawl person sydd yn y Duwdod? Dau; y Tad a'r Mab. Dosran v, 1.

Pa fodd yr ydych yn profi fod dau berson yn y Duwdod? Trwy yr ysgrythyrau. Genesis i, 26. Hefyd Dosran ii, 6. A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth yr Unig-anedig, yr hwn oedd gydag ef o'r dechreuad, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain,—a hyny a wnaed. Genesis iii, 22. A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth yr Unig-anedig, Wele y dyn sydd megys un o honom ni, i wybod da a drwg. Ioan xvii, 5. Ac yr awr hon, O Dad, gogonedda di fyfi gyda thi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd. Dosran v, 2.

Pa beth yw y Tad? Person o ogoniant ac o allu ydyw ef. Dosran v, 2.

Pa fodd yr ydych yn profi fod y Tad yn berson o ogoniant ac o allu? Esaiah lx, 19. Ni fydd yr haul i ti mwyach yn oleuni y dydd, a'r lleuad ni oleua yn llewyrch i ti; eithr yr Arglwydd fydd i ti yn oleuni tragywyddol, a'th Dduw yn ogoniant i ti. 1 Cronicl xxix, 11. I ti, Arglwydd, y mae mawredd, a gallu, a gogoniant. Salm xxix, 3. Llef yr Arglwydd sydd ar y dyfroedd; Duw y gogoniant a darana. Salm lxxix, 9. Cynnorthwya ni, O Dduw ein hiachawdwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw. Rhufeiniaid i, 23. Ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig. Yn ail, o Allu. 1 Cronicl xxix, 11. I ti, Arglwydd, y mae mawredd, a gallu, a gogoniant. Jeremiah xxxii, 17. O Arglwydd Dduw, wele, ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear â'th fawr allu, ac â'th fraich estynedig; nid oes dim rhy anhawdd i ti. Deuteronomium iv, 37. Ac o achos iddo garu dy dadau, am hyny y

dewisodd efe eu hâd hwynt ar eu hol; ac a'th ddyg di o'i flaen, â'i fawr allu. 2 Samuel xxii, 33. Duw yw fy nghadernid a'm nerth. Job xxvi, yn dechreu gyda'r 7fed adnod, hyd ddiwedd y bennod. Y mae efe yn taenu y gogledd ar y gwagle, ac yn crogi y ddaear ar ddiddim. Y mae efe yn rhwymo y dyfroedd yn ei gymylau tewion; ac nid yw y cwmwl yn hollti danynt hwy. Y mae efe yn attal wyneb ei orseddfainc, ac yn taenu ei gwmwl arni hi. Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau, nes dybenu goleuni a thywyllwch. Y mae colofnau y nefoedd yn crynu, ac yn synu wrth ei gerydd ef. Efe a rana y môr â'i nerth, ac a dery falchder â'i ddoethineb. Efe a addurnodd y nefoedd â'i ysbryd; ei law ef a luniodd y sarff dorchog. Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef; ond mor fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! Ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?

Pa beth yw y Mab? Yn gyntaf, y mae efe yn berson o dabernacl (neu babell). Dosran v, 2.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Ioan xiv, 9, 10, 11. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad? Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau. Yn ail,—a chan ei fod yn berson o dabernacl, efe a wnaed neu a ffurfiwyd yn debyg i ddyn, neu yr oedd yn ffurf a chyffelybiaeth dyn. Dosran v, 2. Philippiaid ii, 5, 6, 7, 8. Canys bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu; yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion; a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufydd hyd angeu, ïe, angeu y groes. Hebreaid ii, 14, 16. Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntef hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau. Canys ni chymmerodd efe naturiaeth angylion; eithr hâd Abraham a gymmerodd efe. Yn drydydd,—y mae efe hefyd yn nghyffelybiaeth person y Tad. Dosran v, 2. Hebreaid i, 1, 2, 3. Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab; yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd; yr hwn, ac efe yn ddyscleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef. Etto, Philippiaid ii, 5, 6. Bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu; yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw.

Ai gan y Tad a'r Mab y crewyd ac y gwnaed pob peth a

grewyd ac a wnaed? Ië. Colossiaid i, 15, 16, 17. Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntaf-anedig pob creadur; canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grewyd trwyddo ef, ac erddo ef. Ac y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Genesis i, 1. Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. Hebreaid i, 1, 2. Yn y dyddiau diweddaf hyn, efe (Duw) a lefarodd wrthym ni yn ei Fab; yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd.

A yw efe yn meddiannu cyflawnder y Tad? Ydyw. Colossiaid i, 19; ii, 9. Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef. Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol. Ephesiaid i, 23. Yr hon yw ei gorff ef (Crist), ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll.

Paham y galwyd ef y Mab? O herwydd y cnawd. Luc i, 35. Y peth santaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw. Matthew iii, 16, 17. A'r Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fyny o'r dwfr; ac wele y nefoedd a agorodd iddo, ac efe (Ioan) a welodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen, ac yn dyfod arno ef. Ac wele, lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.

A ordeiniwyd ef gan y Tad, er cyn seiliad y byd, i fod yn Iawn dros bechodau pawb a gredant yn ei enw ef? Do. 1 Pedr i, 18, 19, 20. Gan wybod nad â phethau llygredig, megys arian neu aur, y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad, yr hon a gawsoch trwy draddodiad y tadau; eithr â gwerthfawr waed Crist, megys oen difeius a difrycheulyd; yr hwn yn wir a rag-ordeiniwyd cyn sylfaenu y byd, eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddaf er eich mwyn chwi. Dadguddiad xiii, 8. A holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef (y bwystfil), y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen, yr hwn a laddwyd er dechreuad y byd. 1 Corinthiaid ii, 7. Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch, sef y ddoethineb guddiedig, yr hon a rag-ordeiniodd Duw cyn yr oesoedd, i'n gogoniant ni.

A yw y Tad a'r Mab yn meddiannu yr un meddwl? Ydynt. Ioan v, 30. Ni allaf fi (Crist) wneuthur dim o honof fy hunan; fel yr ydwyf yn clywed, yr ydwyf yn barnu; a'm barn i sydd gyfiawn, canys nid ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i. Ioan vi, 38. Canys myfi (Crist) a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd. Ioan x, 30. Myfi (Crist) a'r Tad un ydym.

Beth yw y meddwl hwn? Yr Ysbryd Glân. Ioan xv, 26. Eithr pan ddel y Dyddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tad, sef Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddi-

wrth y Tad, efe a dystiolaetha am danaf fi (Crist). Galatiaid iv, 6. Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi.

A yw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn cyfansoddi y Duwdod? Ydynt. Dosran v. 2.*

A yw y credadyn yn Nghrist Iesu, trwy ddawn yr Ysbryd, yn dyfod yn un â'r Tad a'r Mab, fel y mae y Tad a'r Mab yn un? Ydyw. Ioan xvii, 20, 21. Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn (yr apostolion) yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi, trwy eu hymadrodd hwynt; fel y byddont oll yn un; megys yr wyt ti y Tad ynof fi, a minnau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni; fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i.

A yw yr hysbysiaeth blaenorol am y Duwdod yn gosod sylfaen sicr er ymarferiad ffydd ynddo ef i fywyd ac iachawdwriaeth? Ydyw.

Pa fodd yr ydych yn profi hyny? Trwy y drydedd wahanran o'r ddarlith hon.*

DARLITH CHWECHFED.—DOSRAN VI.

1. Wedi sylwi yn y darlithiau blaenorol ynghylch y meddyl-ddrychau o gymmeriad, perffeithderau, a phriodoliaethau Duw; cawn yn nesaf sylwi ynghylch y wybodaeth sydd yn rhaid i bersonau gael, fod y dull o fywyd a ddilynant yn unol ag ewyllys Duw, fel y byddont yn cael eu galluogi i weithredu ffydd ynddo i fywyd ac iachawdwriaeth.

2. Mae y wybodaeth hon yn llanw lle pwysig mewn crefydd ddadguddiedig; oblegid trwyddi y galluogid yr henafiaid i ddyoddef megys yn gweled yr hwn sydd yn anweledig. Mae gwybodaeth wirioneddol i unrhyw berson fod y dull o fywyd a ddilyna yn unol ag ewyllys Duw, yn anghenrheidiol anhebgorol er ei alluogi i gael yr ymddiried hwnw yn Nuw, heb yr hwn ni all neb gyrhaedd bywyd tragywyddol. Hyn oedd yn galluogi y saint cyntefig i ddyoddef eu holl flinderau a'u herlidigaethau, ac i fod yn llawen pan yr yspeilid hwy o'u meddiannau, gan wybod (nid credu yn unig) fod ganddynt hwy olud mwy parhaus. Hebreaid x, 34.

3. Gan eu bod yn meddu sicrwydd eu bod yn dilyn dull ag oedd yn unol ag ewyllys Duw, galluogid hwynt i gymmeryd, nid yn unig yspeiliad eu nwyddau a dystrywiad eu heiddo, yn

* Bydded i'r myfyriwr drysori y gwahanranau hyn yn ei gof.

llawen, ond hefyd i ddyoddef marwolaeth yn ei ddulliau erchyllaf; gan wybod (nid credu yn unig) fod ganddynt, pan fyddo eu daearol dŷ o'r babell hon yn ymddattod, adeilad gan Dduw, tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd. 2 Corinthiaid v, 1.

4. Y fath oedd, ac a fydd o hyd, sefyllfa saint Duw, fel os na fydd ganddynt wybodaeth eglur fod y dull a ddilynant yn unol ag ewyllys Duw, ânt yn anesmwyth yn eu meddyliau, a diffygiant: o herwydd y fath ydyw y gwrthwynebiad sydd wedi bod, ac i fod o hyd, yn nghalonau anghredinwyr a'r sawl nad adwaenant Dduw, yn erbyn efengyl bur a dihalog y nefoedd (yr unig beth sydd yn sicrhau bywyd tragywyddol), fel yr erlidiant hyd yr eithaf bawb a addolant Dduw yn ol ei ddadguddiadau, a dderbyniant y gwirionedd yn y cariad o hono, ac a ymddarostyngant eu hunain i gymmeryd eu harwain a'u cyfarwyddo gan eu hewyllys; ac y gyrant hwynt i'r fath eithafoedd, fel nad allai dim yn fyr o wybodaeth sicr o'u bod yn anwyliaid y nefoedd, a'u bod wedi derbyn y cynllun hwnw a sefydlodd Duw er achub dyn, eu galluogi hwynt i weithredu yr ymddiried hwnw ynddo sydd yn anghenrheidiol iddynt er gorchfygu y byd, a meddu y goron hono o ogoniant a roddir yn nghadw i'r rhai a ofnant Dduw.

5. Er i ddyn roddi i lawr ei gyfan, ei gymmeriad a'i air da, ei anrhydedd a'i ganmoliaeth, ei enw da yn mhlith dynion, ei dai, ei diroedd, ei frodyr a'i chwiorydd, ei wraig a'i blant, ac hyd y nod ei fywyd ei hun hefyd—yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled er mwyn godidogrwydd gwybodaeth Iesu Grist—gofyna fwy nag yn unig grediniaeth neu dybiaeth ei fod yn gwneuthur ewyllys Duw; ond gwybodaeth sicr, yn gwirio y caiff, wedi i'r dyoddefiadau hyn ddarfod, fyned i mewn i dragywyddol orphwysfa, a bod yn gyfranog o ogoniant Duw.

6. O herwydd os na fydd person yn gwybod ei fod yn rhodio yn ol ewyllys Duw, buasai yn taflu sarhad ar urddas y Creawdwr, pe dywedai y byddai efe yn gyfranogwr o'i ogoniant pan fyddai wedi darfod â phethau y bywyd hwn. Ond pan fyddo ganddo y wybodaeth hon, ac yn gwybod yn ddiammheuol ei fod yn gwneuthur ewyllys Duw, gall ei ymddiried fod yr un mor gryf y bydd yn gyfranogwr o ogoniant Duw.

7. Gadewch i ni sylwi yma, nad yw crefydd na ofyno aberth-

iad o bob peth, byth yn meddu digon o allu i gynnyrchu y ffydd anghenrheidiol i fywyd ac iachawdwriaeth; o herwydd, oddiar fodoliaeth cyntaf dyn, ni ellid byth meddu y ffydd anghenrheidiol er mwynhau bywyd ac iachawdwriaeth, heb aberthiad o bob peth daearol. Trwy yr aberthiad hwn, a hwn yn unig, y mae Duw wedi ordeinio i ddynion fwynhau bywyd tragywyddol; a thrwy gyfrwng yr aberthiad o bob peth, y mae dynion yn gwybod eu bod yn gwneuthur y pethau sydd yn gymmeradwy yn ngolwg Duw. Pan fyddo dyn yn cynnyg aberthu pob peth sydd ganddo er mwyn y gwirionedd, heb hyd y nod arbed ei fywyd, a chredu gerbron Duw ei fod wedi ei alw i wneyd yr aberthiad hwn oblegid ei fod yn ceisio gwneuthur ei ewyllys, y mae yn gwybod, yn ddiammheuol, fod ac y gwna Duw dderbyn ei aberth a'i offrwm, ac nad yw wedi, ac na wna, geisio ei wyneb ef yn ofer. Dan yr amgylchiadau hyn, ynte, gall efe gyrhaedd y ffydd anghenrheidiol er iddo ddal gafael ar fywyd tragywyddol.

8. Ofer yw i bersonau ddychymmygu iddynt eu hunain eu bod yn etifeddion gyda'r rhai hyny, neu y gallant fod yn etifeddion gyda hwynt, ag sydd wedi offrymu eu holl eiddo yn aberth, a thrwy hyny feddu ffydd yn Nuw a ffafr gydag ef, fel ag i gyrhaedd bywyd tragywyddol, os na fydd iddynt hwy, yn yr un modd, offrymu iddo ef yr un aberth, a thrwy yr aberth hwnw, gyrhaedd y wybodaeth o'u bod wedi eu cymmeradwyo ganddo ef.

9. Wrth offrymu aberthau y cafodd Abel, y merthyr cyntaf, wybodaeth o'i gymmeradwyaeth gyda Duw. Ac o ddyddiau Abel gyfiawn hyd yr amser presennol, mae y wybodaeth sydd gan ddynion eu bod yn gymmeradwy yn ngolwg Duw, yn cael ei meddu trwy offrymu aberth. Ac yn y dyddiau diweddaf, cyn y delo yr Arglwydd, y mae efe i gasglu ynghyd ei saint ag sydd wedi gwneuthur cyfammod ag ef, trwy aberth. Salm l, 3, 4, 5. "Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd ddystaw: tân a ysa o'i flaen ef, a thymhestl ddirfawr fydd o'i amgylch. Geilw ar y nefoedd oddiuchod, ac ar y ddaear, i farnu ei bobl. Cesglwch fy saint ynghyd ataf fi, *y* rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth."

10. Y rhai hyny, ynte, sydd yn gwneuthur yr aberth. a gânt y dystiolaeth o fod eu dull yn gymmeradwy yn ngolwg Duw;

a'r rhai hyny sydd â'r dystiolaeth hon ganddynt, a gânt ffydd i ddal gafael ar fywyd tragywyddol, ac a alluogir, trwy ffydd, i barhau hyd y diwedd, ac i dderbyn y goron a gedwir i'r rhai a garant ymddangosiad yr Arglwydd Iesu Grist. Ond ni all y rhai hyny nad ydynt yn gwneyd yr aberthiad fwynhau y ffydd hon, o herwydd y mae dynion yn ddibynol ar yr aberthiad hwn mewn trefn i feddu y ffydd hon: o ganlyniad, ni allant ddal gafael ar fywyd tragywyddol, o herwydd nid yw dadguddiadau Duw yn sicrhau iddynt yr awdurdod i wneuthur felly, ac heb y sicrwydd hwn ni allai ffydd fodoli.

11. Darfu i'r holl saint am y rhai y mae genym hanes yn holl ddadguddiadau Duw sydd mewn bod, gyrhaedd y wybodaeth a feddent o'u cymmeradwyaeth yn ei olwg, trwy yr aberth a offryment iddo ef; a thrwy y wybodaeth a gyrhaeddwyd fel hyn, daeth eu ffydd yn ddigon cryf i ddal gafael yn yr addewid o fywyd tragywyddol, ac i ddyoddef megys yn gweled yr hwn sydd yn anweledig; a galluogwyd hwynt trwy ffydd, i ymladd â galluoedd y tywyllwch, ymdrechu yn erbyn dichellion y gwrthwynebwr, gorchfygu y byd, a chyrhaedd amcan eu ffydd, hyd y nod iachawdwriaeth eu heneidiau.

12. Ond y rhai hyny nad ydynt wedi gwneyd yr aberthiad hwn i Dduw, ni wyddant fod y llwybr a ddilynant yn gymmeradwy yn ei olwg; canys pa beth bynag oedd eu crediniaeth neu eu barn, yr oedd yn fater o ammheuaeth ac ansicrwydd yn eu meddwl; a lle byddo ammheuaeth ac ansicrwydd, nid yw ffydd yno, ac nis gall fod. O herwydd nid yw ammheuaeth a ffydd yn bodoli yn yr un person ar yr un amser; felly nid all personau sydd â'u meddyliau dan ammheuon ac ofnau, feddu ymddiried diysgog; a lle na byddo ymddiried diysgog, y mae ffydd yno yn wan; a lle byddo ffydd yn wan, ni fydd y personau yn alluog i ymdrechu yn erbyn y gwrthwynebiadau, y trallodion, a'r blinderau a gyfarfyddant, mewn trefn i fod yn etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ Iesu; ac ânt yn flinedig yn eu meddyliau, a chaiff y gwrthwynebwr allu drostynt i'w dystrywio hwynt.

Mae y ddarlith hon mor ddealladwy, a'r ffeithiau a osodir allan mor hunan-eglur, fel yr ystyrir yn beth afreidiol i wneyd holiadau ac atebion arni; gan hyny, cyfarwyddir y myfyriwr i drysori y cyfan yn ei gof.

DARLITH SEITHFED.—DOSRAN VII.

1. Yn y darlithiau blaenorol yr ydym wedi sylwi pa beth oedd ffydd, a'r gwrthddrych ar ba un y gorphwysai. Yn unol â'n cynllun, awn yn awr yn mlaen i lefaru am ei heffeithiau.

2. Gan ein bod wedi gweled mewn darlithiau blaenorol, mai ffydd oedd yr egwyddor o weithrediad ac o allu yn mhob bod deallgar, yn y nefoedd ac ar y ddaear, ni ddysgwylir i ni, mewn darlith o'r fath hyn, gynnyg dadguddio ei holl effeithiau; nid yw ychwaith yn anghenrheidiol i'n dyben i wneuthur felly, oblegid buasai yn cynnwys pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, ac yn amgylchynu holl greadigaethau Duw, ynghyd â'u holl amrywiaethau diddiwedd; o herwydd ni ffurfiwyd un byd etto na ffurfiwyd trwy ffydd, ac ni fu ychwaith un bod deallgar ar un o greadigaethau Duw, yr hwn ni ddaeth yno trwy ffydd fel ag y bodolai ynddo ef ei hun neu mewn rhyw fod arall; ni fu cyfnewidiad na chwyldroad yn un o greadigaethau Duw, na effeithiwyd trwy ffydd; ac ni fydd cyfnewidiad na chwyldroad, os na effeithir ef yn yr un dull, yn un o greadigaethau eang yr Hollalluog, o herwydd trwy ffydd y mae y Duwdod yn gweithio.

3. Gadewch i ni yma gynnyg rhyw eglurhad mewn perthynas i ffydd, fel y byddo i'n meddwl gael ei amgyffred yn eglur. Gofynwn, ynte, pa beth sydd i ni ei ddeall wrth fod dyn yn gweithio trwy ffydd? Atebwn—yr ydym yn deall, pan fyddo dyn yn gweithio trwy ffydd, ei fod yn gweithio trwy ymegniad meddyliol, yn lle trwy allu corfforol. Trwy eiriau, yn lle ymdrechu â'i alluoedd corfforol, y mae pob bod yn gweithio pan y mae yn gweithio trwy ffydd. Dywedodd Duw, "Bydded goleuni, a goleuni a fu." Llefarodd Joshua, a'r goleuadau mawrion a greodd Duw a safasant yn llonydd. Gorchymynodd Elias, a chauwyd y nefoedd am yr yspaid o dair blynedd a chwe mis, fel na wlawiodd ddim; gorchymynodd drachefn, a'r nefoedd a ollyngodd wlaw i waered. Gwnaed hyn oll trwy ffydd. A dywed yr Iachawdwr, "Pe byddai genych ffydd gymmaint â gronyn o hâd mwstardd, chwi a ellwch ddywedyd wrth y sycamorwydden hon, Ymddadwreiddia, a phlaner di yn y môr: a hi a ufyddhäai i chwi." Mae ffydd, ynte, yn

gweithio trwy eiriau; a thrwy y rhai hyn yr oedd, ac y bydd, ei gweithredoedd mwyaf nerthol yn cael eu cyflawni.

4. Yn ddiau ni ofynir genym i brofi mai dyma yr egwyddor ar ba un y mae holl dragywyddoldeb wedi, ac etto i, weithredu; o herwydd rhaid i bob meddwl ystyriol wybod, mai trwy y gallu hwn y mae holl luoedd y nefoedd yn cyflawni eu gweithredoedd o ryfeddod, mawredd, a gogoniant. Symuda angylion o le i le trwy rinwedd y gallu hwn; trwyddo y gall-uogir hwynt i ddisgyn o'r nefoedd i'r ddaear; ac oni buasai y gallu o ffydd, ni allent byth fod yn ysbrydion gwasanaethgar i'r rhai a fyddent etifeddion iachawdwriaeth, ac ni allent ychwaith weithredu fel cenadon nefol, oblegid byddent yn amddifad o'r gallu anghenrheidiol er eu galluogi i wneuthur ewyllys Duw.

5. Nid yw ond yn anghenrheidiol i ni ddweyd fod yr holl greadigaeth weledig, fel ag y mae yn bodoli yn awr, yn effaith ffydd. Trwy ffydd y cafodd ei ffurfio, a thrwy allu ffydd y mae yn parhau yn ei ffurf sefydledig, a thrwyddi y mae'r planedau yn symud oddiamgylch eu cylchdroadau a gwreichioni allan eu gogoniant. Felly, ynte, ffydd yn ddiau yw yr egwyddor gyntaf yn y wyddoreg o DDUWINYDDIAETH, ac wedi ei deall arweinia y meddwl yn ol at y dechreuad, ac a'i caria yn mlaen at y diwedd; neu, mewn geiriau ereill, o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb.

6. Gan mai ffydd, ynte, yw yr egwyddor trwy yr hon y mae'r lluoedd nefol yn cyflawni eu gweithredoedd, a thrwy yr hon y maent yn mwynhau eu holl ddedwyddwch, gallem ddysgwyl ei chael wedi ei gosod allan mewn dadguddiad oddiwrth Dduw, fel yr egwyddor ar ba un y rhaid i'w greaduriaid ef i lawr yma weithredu, mewn trefn i gyrhaedd y dedwyddwch a fwynheir gan y saint yn y byd tragywyddol; ac y buasai Duw, pan gymmerai arno i gyfodi dynion i fyny er mwynhad iddo ei hunan, yn dysgu iddynt yr anghenrheidrwydd o fyw wrth ffydd, a'r anmhosiblrwydd oedd i fwynhau dedwyddwch tragywyddol hebddi, gan weled fod holl effeithiau tragywyddoldeb yn effeithiau ffydd.

7. Gan hyny dywedir, ac yn briodol hefyd, mai heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw. Pe gofynid—paham y mae yn anmhosibl i ryngu bodd Duw heb ffydd? yr ateb a fyddai

—o herwydd heb ffydd anmhosibl yw i ddynion gael eu hachub; a chan fod Duw yn ewyllysio iachawdwriaeth dyn, mae yn rhaid iddo, wrth gwrs, ewyllysio fod ganddynt ffydd; ac ni ellid rhyngu ei fodd heb fod hyny ganddynt, neu ynte boddlonid ef yn eu dystryw.

8. Oddiwrth hyn gallwn ddysgu, fod yr amrywiol annogaethau a roddwyd trwy ddynion ysbrydoledig, i'r rhai hyny a dderbyniasant air yr Arglwydd er cael ffydd ynddo, ddim yn bethau canolig a chyffredin, ond yn bethau goreu o bob peth, a hyny oedd—o herwydd hebddi nid oedd iachawdwriaeth, yn y byd yma, nac yn yr hwn sydd i ddyfod. Pan ddechreuo dynion fyw trwy ffydd, dechreuant ddyfod yn agos at Dduw; a phan fyddo ffydd wedi ei pherffeithio maent yn debyg iddo; ac o herwydd ei fod ef wedi ei achub, maent hwythau wedi eu hachub hefyd; oblegid byddant hwy yn yr un sefyllfa ag y bydd efe ynddi, canys y maent wedi dyfod ato ef; a phan ymddangoso efe byddant yn debyg iddo, oblegid gwelant ef megys ag y mae.

9. Fel y mae'r holl greadigaeth weledig yn effaith ffydd, felly y mae iachawdwriaeth hefyd—meddyliwn iachawdwriaeth yn ei ystyr mwyaf cynnwysfawr, pa un bynag ai tymmorol neu ysbrydol. Mewn trefn i osod y pwnc hwn yn eglur o flaen y meddwl, gadewch i ni ofyn pa sefyllfa y rhaid i berson fod ynddi er cael ei achub? neu pa beth yw y gwahaniaeth rhwng dyn wedi ei achub a dyn heb ei achub? Atebwn, oddiwrth yr hyn a welsom yn flaenorol am y bydoedd nefol, mae yn rhaid eu bod yn bersonau a all weithio trwy ffydd, ac yn rhai sydd yn alluog, trwy ffydd, i fod yn ysbrydion gwasanaethgar i'r rhai a gânt fod yn etifeddion iachawdwriaeth; a rhaid iddynt gael ffydd er eu galluogi i weithredu yn mhresennoldeb Duw, onide ni allant gael eu hachub. A'r hyn sydd yn cyfansoddi y gwir wahaniaeth rhwng person wedi ei achub ac un heb ei achub yw—y gwahaniaeth yn ngradd ei ffydd—mae ffydd un wedi dyfod yn ddigon perffaith i gydio mewn bywyd tragywyddol, ac nid ydyw eiddo y llall. Ond i fod dipyn yn fwy manwl, gadewch i ni ofyn—pa le y cawn afael ar gynddelw, i lun yr hwn y gellir ein tebygoli, mewn trefn i ni gael ein gwneyd yn gyfranogion o fywyd ac iachawdwriaeth? neu, mewn geiriau ereill, pa le y cawn afael ar fod wedi ei achub?

o herwydd os cawn atael mewn bod wedi ei achub, gallwn gael gwybod heb lawer o anhawsdra beth raid i ereill fod er cael eu hachub. Tybiwn na fydd yn fater o ddadl, na all dau fod sydd yn annhebyg i'w gilydd gael eu hachub; o herwydd yr hyn sydd yn cyfansoddi iachawdwriaeth un, a gyfansodda iachawdwriaeth pob creadur a achubir; ac os cawn afael mewn un bod wedi ei achub yn yr holl greadigaeth, gallwn weled beth raid i bawb ereill fod, neu fod heb eu hachub. Gofynwn, ynte, pa le mae y cynddelw? neu pa le mae y bod sydd wedi ei achub? Yr ydym yn penderfynu, ynghylch yr ateb i'r cwestiwn hwn, na fydd un ddadl yn mhlith neb sydd yn credu y Beibl, mai Crist ydyw: cytuna pawb yn hyn, mai efe yw y cynddelw neu safon iachawdwriaeth; neu mewn geiriau ereill, ei fod yn fôd wedi ei achub. A phe byddai i ni barhau ein cwestiyno, a gofyn pa fodd y mae efe wedi ei achub? yr ateb fyddai—o herwydd ei fod yn fôd cyfiawn a santaidd; a phe byddai mewn rhywbeth yn wahanol i'r hyn ydyw, ni chawsai ei achub; o herwydd y mae ei achubiaeth yn ymddibynu ar ei fod yn gymhwys yr hyn ydyw, a dim arall; o herwydd pe byddai yn bosibl iddo gyfnewid yn y radd leiaf, mor sier y pallai ei iachawdwriaeth, ac y collai ei holl lywodraeth, gallu, awdurdod, a gogoniant, yr hyn sydd yn cyfansoddi iachawdwriaeth; oblegid y mae iachawdwriaeth yn gynnwysedig yn y gogoniant, awdurdod, mawredd, gallu, a'r llywodraeth a fedda y Jehofa, ac nid mewn dim arall; ac ni all un bod ei feddu ond ei hunan, neu un tebyg iddo. Fel hyn y dywed Ioan, yn ei epistol cyntaf, y drydedd bennod, a'r ail a'r drydedd adnod, "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; obegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae. Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur." Paham puro ei hun, megys y mae yntau yn bur? O herwydd, os na wnant, ni allant fod yn debyg iddo.

10. Dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Lefiticus xix, 2, "Llefara wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, a dywed wrthynt, Byddwch santaidd; canys santaidd ydwyf fi, yr Arglwydd eich Duw chwi." A dywed Pedr, epistol cyntaf, i, 15, 16, "Eithr megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn santaidd,

byddwch chwithau hefyd santaidd yn mhob ymarweddiad: oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch santaidd; canys santaidd ydwyf fi." A'r Iachawdwr a ddywed, Mathew v, 48, "Byddwch chwithau yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith."—Pe gofynai rhywun, beth yw'r achos o'r holl ddywediadau hyn? mae'r ateb i'w gael oddiwrth yr hyn a ddyfynwyd yn flaenorol o epistol Ioan, sef pan ymddangoso efe (yr Arglwydd), y bydd ei saint yn gyffelyb iddo; ac os na fyddant hwy yn santaidd, megys y mae yntau yn santaidd, ac yn berffaith, megys y mae yntau yn berffaith, ni allant fod yn debyg iddo; oblegid ni all un bod fwynhau ei ogoniant heb feddu ei berffeithderau a'i santeiddrwydd, ddim mwy nag y gallai deyrnasu yn ei deyrnas heb ei allu.

11. Mae hyn yn gosod allan yn eglur briodoldeb dywediad yr Iachawdwr, sydd yn ysgrifenedig yn nhystiolaeth Ioan, xiv, 12, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy nâ'r rhai hyn a wna efe: oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad." Trwy gymmeryd hyn mewn cyssylltiad â rhai o'r dywediadau yn ngweddi yr Iachawdwr, ysgrifenedig yn y ddwyfed bennod ar bymtheg, rhoddir eglurhâd mawr ar ei ymadroddion. Dywed yn y 20, 21, 22, 23, a'r 24 adnod, "Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt: fel y byddont oll yn un; megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni: fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i. A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, ac fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist i, a charu o honot hwynt, megys y ceraist fi. Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi: oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd."

12. Mae yr holl ddywediadau hyn, wedi eu gosod ynghyd, yn rhoddi darluniad mor eglur o sefyllfa y saint gogoneddedig ag y gallai iaith roddi—y gweithredoedd a wnaeth yr Iesu yr oeddynt hwy i'w gwneyd, a gweithredoedd mwy nâ'r rhai hyny a wnaeth efe yn eu plith a gawsent hwy gyflawni, a hyny

herwydd ei fod ef yn myned at y Tad. Nid yw efe yn dweyd y caent wneyd y gweithredoedd hyn mewn amser; ond y caent wneyd gweithredoedd mwy, o herwydd ei fod yn myned at y Tad. Dywed yn y 24ain adnod—"Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant." Mae y dywediadau hyn, trwy eu cymmeryd yn gyssylltiedig, yn ei wneyd yn eithaf eglur, am y gweithredoedd mwy ag oedd y rhai hyny a gredent yn ei enw ef i'w cyflawni, mai yn nhragywyddoldeb yr oeddynt i gael eu cyflawni, lle yr oedd ef yn myned, a lle y gallent hwy weled ei ogoniant. Yr oedd wedi dweyd mewn rhan arall o'i weddi, ei fod yn dymuno ar ei Dad fod i'r rhai hyny a gredent ynddo ef, gael bod yn un ynddo ef, megys ag yr oedd efe a'r Tad yn un yn eu gilydd. Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn (yr Apostolion) yn unig, ond hefyd dros y rhai a gredant ynof fi trwy eu geiriau hwynt, fel y byddont hwythau oll yn un; hyny yw, y rhai a gredent ynddo ef trwy eiriau yr apostolion, yn gystal â'r apostolion eu hunain, fel y byddent oll yn un, megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni.

13. Pa iaith a all fod yn eglurach nâ hon? Mae yn ddiau fod yr Iachawdwr yn golygu ei fod yn cael ei ddeall gan ei ddyscyblion, a llefarodd fel y gallent ei ddeall ef; o herwydd y mae yn mynegi wrth ei Dad, mewn iaith anhawdd ei chamsynied, ei fod am i'w ddyscyblion, hyd y nod yr oll o honynt, i fod fel efe ei hun a'r Tad, oblegid fel yr oedd efe a'r Tad yn un, y gallent hwythau fod yn un gyda hwynt. Ac y mae yr hyn a ddywedir yn y 22ain adnod yn tueddu i sefydlu y grediniaeth hon yn fwy sicr, os oes anghen am rywbeth i'w sefydlu. Dywed, —"A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy, fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un." Fel pe dywedai, oddieithr iddynt gael y gogoniant a roddodd y Tad iddo ef, ni allent fod yn un gyda hwynt; o herwydd dywed iddo roddi iddynt y gogoniant a roddodd y Tad iddo ef, fel y gallent fod yn un; neu mewn geiriau ereill, i'w gwneuthur yn un.

14. Mae hyn yn llanw i fyny y mesur o hysbysrwydd ar y pwnc hwn, ac yn dangos yn dra eglur, fod yr Iachawdwr yn dymuno i'w ddyscyblion ddeall, eu bod i fod yn gyfranogwyr gydag ef yn mhob peth, heb eithrio hyd y nod ei ogoniant.

15. Nid yw braidd yn anghenrheidiol yma i sylwi ar yr hyn a sylwasom arno yn flaenorol, fod y gogoniant sydd gan y Tad a'r Mab, yn bodoli o herwydd eu bod yn fodau cyfiawn a sanctaidd; a phe byddent yn ddiffygiol mewn un briodoliaeth neu berffeithrwydd a feddant, ni allent hwy byth fwynhau y gogoniant sydd ganddynt, o herwydd y mae yn ofynol eu bod hwy yn gymhwys y peth ydynt mewn trefn i'w fwynhau; ac os rhydd yr Iachawdwr y gogoniant hwn i rywrai ereill, rhaid iddo wneuthur hyny yn y ffordd a ddesgrifir yn ei weddi ef at ei Dad—trwy eu gwneuthur hwy yn un ynddo ef, megys y mae ef a'r Tad yn un. Wrth wneuthur felly byddai yn rhoddi iddynt hwy y gogoniant a roddodd ei Dad iddo ef; a phan fyddo ei ddyscyblion yn cael eu gwneuthur yn un gyda'r Tad a'r Mab, megys y mae'r Tad a'r Mab yn un, pwy na wel briodoldeb dywediad yr Iachawdwr—"Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, chwithau hefyd a'u gwnewch, a mwy na'r rhai hyn a wnewch chwi; oblegid yr wyf fi yn myned at y Tad."

16. Mae yr addysgiadau hyn o eiddo yr Iachawdwr yn dangos yn eglur i ni natur yr iachawdwriaeth, a pha beth a gynnygiodd efe i'r teulu dynol pan y cynnygiodd eu hachub hwynt—iddo gynnyg eu gwneuthur hwynt yn debyg iddo ei hunan, ac yr oedd efe yn debyg i'w Dad, cynddelw mawr yr holl fodau achubol; a bod unrhyw gyfran o'r teulu dynol yn cael eu tebygoli i'w llun hwynt, yw eu hachub; a bod yn annhebyg iddynt yw eu dystrywio; ac ar y pegwn mawr hwn y mae drws yr iachawdwriaeth yn troi.

17. Pwy na wel, ynte, nad iachawdwriaeth yw effaith ffydd? o herwydd, fel ag yr ydym wedi sylwi yn flaenorol, mae yr holl fodau nefol yn gweithredu ar yr egwyddor hon; ac oblegid eu bod yn alluog i wneuthur felly y maent yn cael eu hachub, canys ni allai dim heblaw hyn eu hachub hwynt. Ac hon yw y wers y mae Duw y nefoedd, trwy enau ei holl brophwydi sanctaidd, yn ymdrechu ddysgu i'r byd. O achos hyny y dywedir wrthym, mai heb ffydd anmhosibl i'w rhyngu bodd Duw; a bod iachawdwriaeth o ffydd, fel y byddai yn ol gras, fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had. Rhufeiniaid iv, 16. Ac Israel, yr hwn oedd yn dilyn deddf cyfiawnder, ni chyrhaeddodd ddeddf cyfiawnder. Paham? Am nad oeddynt yn ei cheisio trwy

ffydd, ond megys trwy weithredoedd y ddeddf; canys hwy a dramgwyddasant wrth y maen tramgwydd. Rhufeiniaid ix, 31, 32. A dywedodd yr Iesu wrth y dyn a ddygodd ei fab ato, i fwrw allan y cythraul oedd yn ei boeni, "Os gelli di gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo." Marc ix, 23. Mae yr ysgrythyrau hyn, ynghyd â lluoedd o rai ereill a ellid ddyfynu, yn gosod allan yn eglur y goleu yn yr hwn yr oedd yr Iachawdwr, yn gystal â Saint y Dyddiau gynt, yn edrych ar gynllun iachawdwriaeth. Ei fod yn gyfundraeth o ffydd—dechreua gyda ffydd, a pharha trwy ffydd; a phob bendith a geir mewn cyssylltiad â hi, effaith ffydd ydyw, pa un a berthyna i'r bywyd hwn neu i'r hwn a ddaw. I hyn y mae holl ddadguddiadau Duw yn dwyn tystiolaeth. Os oedd plant yr addewid yn bod, effeithiau ffydd oeddynt, heb eithrio hyd y nod Iachawdwr y byd. "Bendigedig yw yr hon a gredodd," meddai Elizabeth wrth Mair, pan yr aeth i ymweled â hi; "canys bydd cyflawniad o'r pethau a ddywedwyd wrthi gan yr Arglwydd." Luc i, 45. Ac nid oedd genedigaeth Ioan Fedyddiwr yn llai mater o ffydd; o herwydd er i'w dad Zacharias gredu, cafodd ei daro yn fud. A thrwy yr holl hanes o ddyfais bywyd ac iachawdwriaeth, mater o ffydd ydyw; yr oedd pob dyn yn derbyn yn ol ei ffydd—yn ol fel yr oedd ei ffydd, felly yr oedd ei fendithion a'i ragorfreintiau; ac nid oedd dim yn cael ei attal oddiwrtho pan fyddai ei ffydd yn ddigonol i'w dderbyn. Gallai gau safnau llewod, diffodd angerdd tân, dianc rhag min y cleddyf, dod yn gryf mewn rhyfel, a gyru byddinoedd i ffoi; gallai gwragedd, trwy eu ffydd, dderbyn eu plant meirwon eilwaith; mewn gair, nid oedd dim yn anmhosibl gyda'r rhai a feddent ffydd. Yr oedd pob peth yn ddarostyngedig i Saint y dyddiau gynt, yn ol fel yr oedd eu ffydd. Trwy eu ffydd y gallent gael gweledigaethau nefol, gweinyddiad angylion, cael gwybodaeth am ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, am gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, am Dduw, Barnwr pawb, am Iesu Cyfryngwr y testament newydd, a dyfod yn adnabyddus â'r drydedd nef, clywed a gweled pethau ag oedd nid yn unig yn annhraethadwy, ond yn anghyfreithlawn i'w mynegi. Y mae Pedr, wrth edrych ar allu ffydd, yn ei ail epistol, pennod gyntaf, y gyntaf, yr ail, a'r drydedd adnod, yn dweyd wrth Saint y dyddiau gynt—"Gras i

chwi a thangnefedd a amlhaer, trwy adnabod Duw, a Iesu Grist ein Harglwydd ni; megys y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd." Yn ei epistol cyntaf, pennod gyntaf, y drydedd, pedwaredd, a'r bummed adnod, dywed, "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd a'n hadgenedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw; i etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd i chwi, y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i iachawdwriaeth, parod i'w ddadguddio yn yr amser diweddaf."

18. Mae y dywediadau hyn, wedi eu gosod ynghyd, yn dangos golygiadau yr apostol yn dra eglur, fel na ellir cael lle i gamsynied yn meddwl un dyn. Dywed fod pob peth sydd yn perthyn i fywyd a duwioldeb wedi ei roddi trwy y wybodaeth o Dduw a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Ac os gofynir y cwestiwn, pa fodd yr oeddynt i gael gwybodaeth o Dduw? (o herwydd y mae llawer o wahaniaeth rhwng credu yn Nuw a'i adnabod—y mae gwybodaeth yn cynnwys mwy nâ ffydd. A sylwch, fod pob peth perthynol i fywyd a duwioldeb yn cael ei roddi trwy y wybodaeth o Dduw) y mae yr ateb yn cael ei roddi—trwy ffydd yr oeddynt i gael y wybodaeth hon; a thrwy gael gallu trwy ffydd i gael y wybodaeth o Dduw, gallant gael pob peth arall perthynol i fywyd a duwioldeb.

19. Oddiwrth y dywediadau hyn o eiddo yr apostol, dysgwn mai trwy gael y wybodaeth o Dduw yr oedd dynion yn cael gwybodaeth o bob peth perthynol i fywyd a duwioldeb—a'r wybodaeth hon oedd effaith ffydd; felly, y mae pob peth perthynol i fywyd a duwioldeb yn effeithiau ffydd.

20. Oddiwrth hyn gallwn ymestyn mor bell ag y bydd angylchiadau yn gofyn, pa un bynag ai ar y ddaear neu yn y nefoedd, a chawn allan mai tystiolaeth yr holl ddynion ysbrydoledig, neu'r cenadon nefol, yw fod pob peth perthynol i fywyd ac iachawdwriaeth yn effeithiau ffydd, ac nid dim arall; palla dysgeidiaeth, doethineb, callineb, a phob peth arall fel moddion iachawdwriaeth, ond ffydd.—Dyma yr achos fod pysgotwyr Galilea yn gallu dysgu y byd—o herwydd eu bod yn ceisio trwy ffydd, ac yn cael trwy ffydd. A hyn yw yr achos fod

Paul yn cyfrif pob peth yn dom ac yn sorod—y pethau oedd gynt yn elw iddo, a gyfrifodd efe yn golled; ïe, a chyfrifodd bob peth yn golled, o herwydd ardderchogrwydd gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd. Philipiaid iii, 7, 8, 9, a 10. O herwydd, er meddu y ffydd trwy yr hon y gallai fwynhau gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd, cafodd ef ddyoddef y colled o bob peth; hyn yw yr achos fod Saint y dyddiau gynt yn gwybod mwy, ac yn deall mwy am y nefoedd ac am bethau nefol, na phawb ereill ynghyd, oblegid mae yr hysbysrwydd hyn yn effaith ffydd—nid yw idd ei gyrhaedd mewn un modd arall. A hyn yw yr achos fod dynion, mor fuan ag y collant eu ffydd, yn rhedeg i ymrysonau, cynhenau, tywyllwch, ac anhawsderau; o herwydd mae y wybodaeth sydd yn tueddu i fywyd yn diflanu gyda ffydd, ond yn dychwelyd pan ddychwelo ffydd; oblegid pan y mae ffydd yn dyfod, mae yn dwyn ei gosgordd o gydymdeithion gyda hi—apostolion, prophwydi, efengylwyr, bugeiliaid, athrawon, doniau, doethineb, gwybodaeth, gwyrthiau, iechyd, tafodau, cyfieithad tafodau, &c. Mae yr holl rai hyn yn ymddangos pan y byddo ffydd yn ymddangos ar y ddaear, ac yn diflanu pan y byddo hi yn diflanu oddiar y ddaear; oblegid dyma effeithiau ffydd, ac y maent wedi bod, a byddant o hyd, yn ei chanlyn. O herwydd lle byddo ffydd, yno bydd y wybodaeth o Dduw hefyd, ynghyd â phob peth perthynol iddi—dadguddiadau, gweledigaethau, a breuddwydion, yn gystal â phob peth anghenrheidiol, mewn trefn i'r meddianwyr o ffydd gael eu perffeithio, a chael iachawdwriaeth; oblegid rhaid i Dduw gyfnewid, onide gwna ffydd lwyddo gydag ef. A gwna yr hwn a'i meddianno, gyrhaedd trwyddi bob gwybodaeth a doethineb anghenrheidiol, hyd nes yr adwaeno Dduw, a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a anfonodd efe—adwaen y cyfryw yw bywyd tragywyddol. Amen.

CYFAMMODAU A GORCHYMYNION.

DOSRAN I.

Cyfammodau a Gorchymynion yr Arglwydd, i'w Weision o Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf.

1. Gwrandewch, O chwi bobl fy eglwys, medd ei lais ef sydd yn preswylio yn yr uchelder, a llygaid yr hwn sydd ar bob dyn; ïe, yn wir yr wyf yn dywedyd, gwrandewch chwi bobl o bell, a chwi sydd ar ynysoedd y môr, gwrandewch ynghyd; canys yn wir llais yr Arglwydd sydd at bob dyn, ac nid oes neb i ddianc, ac nid oes un llygad ag ni chaiff weled, na chlust ag ni chaiff glywed, na chalon ag ni chaiff ei thrywanu; a'r gwrthryfelwyr a gant eu trywanu â gofid lawer, canys eu drygioni a gyhoeddir ar benau y tai, a'u gweithredoedd dirgel a ddadguddir; a llais y rhybydd a fydd at bob pobl, trwy eneuau fy nyscyblion, y rhai a ddewisais yn y dyddiau diweddaf hyn, a hwy a ânt allan, ac ni fydd neb a'u hattal, canys myfi yr Arglwydd a'u gorchymynais hwynt.

2. Wele, hwn yw fy awdurdod, ac awdurdod fy ngweision, a'm rhagymadrodd i lyfr fy ngorchymynion, y rhai a roddais iddynt i'w cyhoeddi i chwi, O drigolion y ddaear: gan hyny, ofnwch a chrynwch, O chwi bobl, canys yr hyn a arfaethais i yr Arglwydd ynddynt a gaiff ei gyflawni. Ac yn wir, yr wyf yn dywedyd i chwi, y bydd iddynt hwy a ânt allan, i ddwyn y newyddion hyn i drigolion y ddaear, gael awdurdod i selio ar y ddaear ac yn y nef, yr anghrediniol a'r gwrthryfelgar; ïe, yn wir, i'w selio i fyny hyd y dydd y bydd i ddigofaint Duw gael ei dywallt allan heb fesur ar y drygionus; hyd y

dydd pan ddaw yr Arglwydd i dalu i bob dyn yn ol ei waith, a mesur i bob dyn yn ol y mesur â pha un y mesurodd efe i'w gyd-ddyn.

3. O herwydd paham, llais yr Arglwydd sydd at derfynau y ddaear, fel y byddo i bawb a wrandawant gael clywed: ymbarotôwch chwi, ymbarotôwch chwi erbyn yr hyn sydd i ddyfod, canys y mae yr Arglwydd yn agos; a digofaint yr Arglwydd sydd wedi ei ennyn, a'i gleddyf wedi ei drochi yn y nef, a bydd iddo syrthio ar drigolion y ddaear; a braich yr Arglwydd a ddadguddir; ac y mae'r dydd yn dyfod, pan y bydd i'r rhai na fynant wrandaw ar lais yr Arglwydd, nac ar lais ei weision, ac nad ystyriant eiriau y prophwydi a'r apostolion, gael eu tori ymaith o blith y bobl: canys y maent wedi cyfeiliorni oddiwrth fy ordinhadau, ac wedi tori fy nghyfammod tragywyddol; nid ydynt yn ceisio yr Arglwydd i sefydlu ei gyfiawnder, ond pob dyn a rodia yn ei ffordd ei hun, ac yn ol delw ei dduw ei hun, delw yr hwn sydd mewn cyffelybiaeth i'r byd, a sylwedd yr hwn sydd eiddo eilun, yr hwn a heneiddia ac a drenga yn Babilon, ïe, Babilon fawr, yr hon a syrthia.

4. O herwydd paham, myfi yr Arglwydd, gan wybod yr adfyd a ddaw ar drigolion y ddaear, a elwais ar fy ngwas Joseph Smith, ieu., ac a leferais wrtho ef o'r nef, ac a roddais iddo orchymynion; ac hefyd rhoddais orchymynion i ereill, ar fod iddynt gyhoeddi y pethau hyn i'r byd; a hyn oll fel y cyflawnid yr hyn a ysgrifenwyd gan y prophwydi; gweinion bethau y byd a ddeuant allan, ac a dorant i lawr y cedyrn a'r rhai cryfion, fel na fyddo i ddyn roddi cynghor i'w gyd-ddyn, nac ymddiried mewn braich o gnawd, ond fel y byddo i bob dyn lefaru yn enw Duw yr Arglwydd, ïe, Iachawdwr y byd; fel y byddo i ffydd hefyd gynnyddu ar y ddaear; fel y bydd i'm cyfammod tragywyddol gael ei sefydlu; fel y byddo i gyflawnder fy efengyl gael ei gyhoeddi gan y gwan a'r dystadl hyd derfynau y byd, a cherbron breninoedd a llywiawdwyr.

5. Wele, myfi ydwyf Dduw, ac a'i lleferais: y gorchymynion hyn ydynt oddiwrthyf fi, ac a roddwyd i'm gweision yn eu gwendid, yn ol dull eu hiaith, fel y delent i ddealltwriaeth; ac yn gymmaint ag iddynt gyfeiliorni, fel y gwybyddent hyny; ac yn gymmaint â'u bod yn ceisio doethineb, y celent eu hy-

fforddi: ac yn gymmaint â'u bod wedi pechu, y celent eu ceryddu, fel yr edifarhaent: ac yn gymmaint â'u bod yn ostyngedig, y celent eu gwneuthur yn gryfion, a'u bendithio o'r uchelder, a derbyn gwybodaeth o amser i amser. Ac wedi y derbynient gof-ysgrif y Nephiaid, ïe, hyd y nod y celai fy ngwas Joseph Smith, ieu., allu i gyfieithu, trwy drugaredd Duw, a thrwy allu Duw, Lyfr Mormon; ac hefyd y byddai i'r rhai y rhoddwyd y gorchymynion hyn iddynt, gael gallu i osod sylfaen yr eglwys hon, a'i dwyn allan o aneglurder ac allan o dywyllwch, yr unig wir a bywiol eglwys ar wyneb yr holl ddaear, â'r hon yr wyf fi, yr Arglwydd, yn llwyr foddlawn, a llefaru wrth yr eglwys yn gynnulledigol, ac nid yn unigol, canys myfi yr Arglwydd nis gallaf edrych ar bechod gydag un gradd o gymmeradwyaeth; er hyny, yr hwn a edifarha ac a wna orchymynion yr Arglwydd a gaiff faddeuant; a'r hwn nid edifarha, oddiwrtho ef y cymmerir hyd y nod y goleuni a dderbyniodd, canys nid ymrysona fy Ysbryd i â dyn yn dragywydd, medd Arglwydd y Lluoedd.

6. Ac etto, yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, O drigolion y ddaear, myfi yr Arglwydd wyf yn foddlawn i wneyd y pethau hyn yn hysbys i bob cnawd, canys nid wyf fi yn dderbyniwr wyneb, ac yr wyf yn ewyllysio i bob dyn wybod fod y dydd yn agoshau yn gyflym; nid yw yr awr etto, ond y mae yn agos wrth law, pryd y bydd i heddwch gael ei gymmeryd oddiar y ddaear, ac y bydd i'r diafol gael gallu ar ei lywodraeth ei hun; ac hefyd yr Arglwydd a gaiff allu dros ei saint, ac a deyrnasa yn eu canol, a disgyna mewn barn ar Idumea, neu y byd.

7. Chwiliwch y gorchymynion hyn, canys gwir ydynt a ffyddlawn, a'r prophwydoliaethau a'r addewidion sydd ynddynt a gyflawnir oll.

8. Yr hyn a leferais i yr Arglwydd, a leferais, ac nid wyf yn esgusodi fy hun: ac er i'r nefoedd a'r ddaear fyned heibio, fy ngair nid â heibio ddim, ond a gaiff ei gyflawni oll, pa un ai trwy fy llais i neu trwy lais fy ngweision, yr un ydyw; canys wele, a llyna, yr Arglwydd sydd Dduw, a'r Ysbryd a ddyga dystiolaeth, ac y mae y dystiolaeth yn wir, a'r gwirionedd a barha yn oes oesoedd. Amen.

DOSRAN II.

1. Cyfodiad eglwys Crist yn y dyddiau diweddaf hyn, sef un fil wyth cant a deng mlynedd ar hugain wedi dyfodiad ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist yn y cnawd, wedi ei threfnu a'i sefydlu yn rheolaidd yn unol â chyfreithiau ein gwlad, trwy ewyllys a gorchymynion Duw, yn y pedwerydd mis, ac ar y chweched dydd o'r mis a elwir Ebrill; sef y gorchymynion a roddwyd i Joseph Smith, ieu., yr hwn a alwyd gan Dduw, ac a ordeiniwyd yn apostol Iesu Grist, i fod yr henuriad cyntaf o'r eglwys hon; ac i Oliver Cowdery, yr hwn hefyd a alwyd gan Dduw yn apostol Iesu Grist, i fod yr ail henuriad o'r eglwys hon, ac a ordeiniwyd dan ei law ef; a hyn yn ol gras ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, i'r hwn y byddo pob gogoniant yn awr ac yn dragywydd. Amen.

2. Gwedi iddo gael ei wîr egluro i'r henuriad cyntaf hwn, iddo ef dderbyn maddeuant o'i bechodau, efe a ymddyrysodd eilwaith yn ngwagedd y byd; ond wedi edifarhau, ac ymostwng yn ddiragrith, trwy ffydd, Duw a weinyddodd iddo trwy angel santaidd, gwynebpryd yr hwn oedd fel mellt, a'i wisgoedd yn bur ac yn wŷn tu hwnt i bob gwyndra arall; ac a roddodd iddo ef orchymynion, y rhai a'i hysbrydolasant; ac a roddodd iddo allu o'r uchelder, trwy foddion a ragddarparesid, i gyfieithu Llyfr Mormon, yr hwn a gynnwysa gofysgrif am bobl syrthiedig, a chyflawnder efengyl Iesu Grist at y Cenedloedd ac at yr Iuddewon hefyd, yr hon a roddwyd trwy ysbrydoliaeth, ac a gadarnheir i ereill trwy weinidogaeth angylion, ac a gyhoeddir i'r byd ganddynt hwy, yn profi i'r byd fod yr ysgrythyrau santaidd yn wir, a bod Duw yn ysbrydoli dynion, ac yn eu galw at ei waith santaidd, yn yr oes a'r genedlaeth hon, yn gystal ag yn y cenedlaethau gynt, yn dangos trwy hyny ei fod ef yr un Duw ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Amen.

3. Gan hyny, a chenym gymmaint o dystion, trwyddynt hwy y bernir y byd, ïe, cymmaint ag a ddeuant yn ol llaw i wybodaeth o'r gwaith hwn; a'r rhai a'i derbyniant mewn ffydd, ac a weithredant gyfiawnder, a dderbyniant goron bywyd tragywyddol; ond y rhai a galedant eu calonau mewn anghredinlaeth, ac a'i gwrthodant, bydd iddo droi i'w condemniad eu hunain, canys yr Arglwydd Dduw a'i llefarodd; ac yr ydym

ni, henuriaid yr eglwys, wedi clywed ac yn dwyn tystiolaeth i eiriau y Mawrhydi gogoneddus yn yr uchelder, i'r hwn y byddo gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

4. Trwy y pethau hyn yr ydym yn gwybod fod Duw yn y nef, yr hwn sydd yn anfeidrol a thragywyddol, o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb yr un Duw anghyfnewidiol, creawdwr y nef a'r ddaear, a phob peth sydd ynddynt; ac iddo ef greu dyn, yn wrryw a benyw, yn ol ei ddelw ac ar ei lun ei hun y creodd efe hwynt, ac a roddodd iddynt orchymynion iddynt ei garu a'i wasanaethu ef, yr unig wir a bywiol Dduw, ac mai efe yn unig a addolent. Ond trwy droseddu y cyfreithiau santaidd hyny, aeth dyn yn gnawdol a chythreulig, ac yn ddyn syrthiedig.

5. O herwydd paham, yr Hollalluog Dduw a roddodd ei unig-anedig Fab, fel y mae yn ysgrifenedig yn yr ysgrythyrau a roddwyd am dano ef. Efe a ddyoddefodd demtasiynau, ond ni roddodd un gwrandawiad iddynt; efe a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a adgyfododd y trydydd dydd; ac a esgynodd i'r nef, i eistedd ar ddeheulaw y Tad, i lywodraethu gyda gallu hollalluog yn ol ewyllys y Tad, fel y byddai i bwy bynag a gredent, a chael eu bedyddio yn ei enw santaidd ef, a pharhau mewn ffydd hyd y diwedd, gael eu hachub; nid yn unig y rhai hyny a gredent ar ol ei ddyfodiad yn nghyflawnder yr amser, yn y cnawd, ond pawb o'r dechreuad, ag oeddynt cyn ei ddyfodiad ef yn credu yn ngeiriau y prophwydi santaidd, y rhai a lefarasant fel y cynhyrfwyd trwy ddawn yr Ysbryd Glân, yr hwn a dystiolaetha yn wirioneddol am dano ef yn mhob peth, y celent fywyd tragywyddol, yn gystal â phawb a ddelent wedi hyny, y rhai a gredent yn noniau a galwadau Duw trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn tystiolaethu am y Tad ac am y Mab; a'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân hyn ydynt un Duw, anfeidrol a thragywyddol, yn ddiddiwedd. Amen.

6. Ac yr ydym yn gwybod fod yn rhaid i bob dyn edifarhau a chredu yn enw Iesu Grist, ac addoli y Tad yn ei enw ef, a pharhau mewn ffydd yn ei enw hyd y diwedd, onite nis gallant gael eu hachub yn nheyrnas Dduw. Ac yr ydym yn gwybod fod cyfiawnhad trwy ras ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, yn gyfiawn a chywir; a gwyddom hefyd, fod santeiddiad trwy ras ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, yn gyfiawn

a chywir i bawb ag ydynt yn caru ac yn gwasanaethu Duw â'u holl allu, eu holl galon, a'u holl nerth. Ond y mae yn bosibl i ddyn syrthio oddiwrth ras, ac ymadael â'r bywiol Dduw; gan hyny, bydded yr eglwys yn wyliadwrus, ac yn ddyfal mewn gweddi, rhag iddynt syrthio i demtasiynau; ïe, a bydded yr holl rai a santeiddiwyd yn wyliadwrus hefyd. Ac yr ydym ni yn gwybod fod y pethau hyn yn wir, ac yn unol â dadguddiadau Ioan, heb ychwanegu dim at, na thynu dim oddiwrth brophwydoliaeth ei lyfr ef, yr ysgrythyrau santaidd, neu ddadguddiadau Duw, y rhai a ddeuant yn ol llaw trwy ddawn a gallu yr Ysbryd Glân, llais Duw, neu weinidogaeth angylion. A'r Arglwydd Dduw a'i llefarodd; ac i'w enw santaidd ef y byddo yr anrhydedd, y gallu, a'r gogoniant, yn awr ac yn dragywydd. Amen.

7. *Ac etto, mewn ffordd o orchymyn i'r eglwys mewn perthynas i'r modd o fedydd.*—Pawb a ymostyngant gerbron Duw, ac a ddymunant gael eu bedyddio a dyfod allan â chalonau drylliog ac ysbryd edifeiriol, ac a dystiolaethant gerbron yr eglwys eu bod hwy yn edifarhau yn wirioneddol am eu holl bechodau, a'u bod yn foddlawn cymmeryd arnynt enw Iesu Grist, gyda phenderfyniad i'w wasanaethu ef hyd y diwedd, ac a ddangosant yn wirioneddol trwy eu gweithredoedd eu bod wedi derbyn ysbryd Crist er maddeuant eu pechodau, a gant eu derbyn trwy fedydd i'w eglwys ef.

8. *Dyledswydd henuriaid, offeiriaid, dysgawdwyr, diaconiaid, ac aelodau eglwys Crist.*—Mae apostol yn henuriad, a'i ddyledswydd ef yw bedyddio ac ordeinio henuriaid, offeiriaid, dysgawdwyr, a diaconiaid ereill, a gweinyddu bara a gwin,—yr arwyddion o gnawd a gwaed Crist,—a chadarnhau y rhai a fedyddir i'r eglwys, trwy arddodiad dwylaw er y bedydd tân a'r Ysbryd Glân, yn unol â'r ysgrythyrau; ac i ddysgu, esbonio, cynghori, bedyddio, a gwylio dros yr eglwys; ac i gadarnhau yr eglwys trwy arddodiad dwylaw, a rhoddiad yr Ysbryd Glân, a chymmeryd y flaenoriaeth yn mhob cyfarfodydd.

9. Yr henuriaid ydynt i ddwyn yn mlaen y cyfarfodydd fel y maent yn cael eu tywys gan yr Ysbryd Glân, yn unol â gorchymynion a dadguddiadau Duw.

10. Dyledswydd yr offeiriaid yw pregethu, dysgu, esbonio, cynghori, a bedyddio, a gweinyddu y sacrament, ac ymweled

â thŷ pob aelod, a'u cynghori i weddio ar lafar ac yn ddirgel, a gofalu am bob dyledswyddau teuluaidd; a gall hefyd ordeinio offeiriaid, dysgawdwyr, a diaconiaid ereill. Ac efe sydd i flaenori mewn cyfarfodydd, pan na fydd un henuriad yn bresennol; ond pan fydd henuriad yn bresennol, nid yw ond i bregethu, dysgu, esbonio, cynghori, a bedyddio, ac ymweled â thŷ pob aelod, gan eu hannog i weddio ar lafar ac yn ddirgel, a gofalu am bob dyledswyddau teuluaidd. Yn yr holl ddyledswyddau hyn, y mae yr offeiriad i gynnorthwyo yr henuriad, os bydd achos yn gofyn.

11. Dyledswydd y dysgawdwr yw gwylio dros yr eglwys yn wastadol, a bod gyda hwynt a'u nerthu, a gweled nad oes dim drygioni yn yr eglwys,—dim caledwch tuag at eu gilydd, —dim dywedyd celwydd, athrodi, na llefaru yn ddrwg; a gweled fod yr eglwys yn cyd-gyfarfod yn fynych, ac hefyd gweled fod yr holl aelodau yn gwneyd eu dyledswydd; ac efe sydd i gymmeryd y blaen mewn cyfarfodydd yn absennoldeb yr henuriad neu yr offeiriad,—ac y mae efe i gael ei gynnorthwyo yn wastad, yn ei holl ddyledswyddau yn yr eglwys, gan y diaconiaid, os bydd achos yn gofyn; ond nid oes gan ddysgawdwyr na diaconiaid awdurdod i fedyddio, gweinyddu y sacrament, na gosod dwylaw; er hyny, y maent i rybyddio, esbonio, cynghori, a dysgu, a gwahodd pawb i ddyfod at Grist.

12. Pob henuriad, offeiriad, dysgawdwr, neu ddiacon, sydd i gael ei ordeinio yn ol doniau a galwadau Duw iddo ef; ac y mae i gael ei ordeinio trwy allu yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn yr un a'i hordeinia ef.

13. Yr amrywiol henuriaid, yn cynnwys yr eglwys hon i Grist, ydynt i gyfarfod mewn cynnadledd unwaith mewn tri mis, neu o amser i amser fel y byddo y cyfryw gynnadleddau yn cyfarwyddo ac yn penodi, a'r cyfryw gynnadleddau ydynt i wneyd pob gwaith eglwysig ag a fyddo yn anghenrheidiol i'w wneyd ar y pryd.

14. Yr henuriaid ydynt i dderbyn eu trwyddedi *(licenses)* oddiwrth henuriaid ereill, trwy bleidlais yr eglwys y perthynant iddi, neu oddiwrth y cynnadleddau.

15. Pob offeiriad, dysgawdwr, neu ddiacon, a ordeinir gan offeiriad, a all gymmeryd ei lythyr ardystiad oddiwrtho ef ar y pryd, a'r cyfryw ardystiad, pan gyflwynir ef i henuriad, a'i

hawdurdoda i gael trwydded, yr hon a'i hawdurdoda i gyflawni dyledswyddau ei alwedigaeth, neu efe a all ei derbyn oddiwrth gynnadledd.

16. Nid oes i un person gael ei ordeinio i unrhyw swydd yn yr eglwys hon, lle y mae cangen o honi wedi ei chorffoli yn rheolaidd, heb bleidlais yr eglwys hono; ond yr henuriaid llywyddol, esgobion teithiol, uchel gynghorwyr, arch-offeiriaid, a'r henuriaid, a allant gael y ragorfraint i ordeinio, lle nad oes un gangen o'r eglwys fel y gellir galw am ei phleidlais.

17. Pob llywydd o'r arch-offeiriadaeth (neu henuriad llywyddol), esgob, uchel gynghorwr, ac arch-offeiriad, sydd i gael ei ordeinio trwy gyfarwyddyd uchel gynghor, neu gynnadledd gyffredinol.

18. *Dyledswydd yr aelodau ar ol iddynt gael eu derbyn trwy fedydd.*—Yr henuriaid neu yr offeiriaid ydynt i gael digon o amser i esbonio i'w dealltwriaeth bob peth perthynol i eglwys Crist, cyn y byddo iddynt gyfranogi o'r sacrament, a chael eu cadarnhau trwy arddodiad dwylaw yr henuriaid, fel y byddo i bob peth gael ei wneuthur mewn trefn. A'r aelodau a gant egluro gerbron yr eglwys, ac hefyd gerbron yr henuriaid, trwy rodiad ac ymarweddiad duwiol, eu bod yn deilwng o hyny, fel y byddo gweithredoedd a ffydd, yn unol â'r ysgrythyrau santaidd,—gan rodio mewn santeiddrwydd gerbron yr Arglwydd.

19. Pob aelod o eglwys Crist a chanddo blant, sydd i'w dwyn at yr henuriaid gerbron yr eglwys, y rhai sydd i osod eu dwylaw arnynt yn enw Iesu Grist, a'u bendithio yn ei enw ef.

20. Nid oes neb i gael ei dderbyn i eglwys Crist, oni fydd wedi cyrhaedd oedran o gyfrifoldeb gerbron Duw, ac yn alluog i edifarhau.

21. Bedydd sydd i gael ei weinyddu yn y drefn ganlynol i bawb a edifarhant:—Y person ag sydd wedi ei alw gan Dduw, ac wedi cael awdurdod oddiwrth Iesu Grist i fedyddio, sydd i fyned i lawr i'r dwfr gyda'r person sydd wedi cyflwyno ei hunan am fedydd, a dywedyd, gan ei anerch ef neu hi wrth ei enw,—Wedi cael fy awdurdodi gan Iesu Grist, yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen. Yna efe a'i trocha ef neu hi yn y dwfr, a deuant allan drachefn o'r dwfr.

22. Mae yn fuddiol i'r eglwys gyfarfod ynghyd yn fynych, i gyfranogi o fara a gwin mewn coffadwriaeth am yr Arglwydd Iesu; a'r henuriad neu yr offeiriad sydd i'w weinyddu, ac yn ol y drefn hon y bydd iddo ei weinyddu:—Efe a gaiff ymostwng ar ei liniau gyda'r eglwys, a galw ar y Tad mewn gweddi ddifrifol, gan ddywedyd,—O Dduw, y Tad tragywyddol, yr ydym yn deisyf arnat yn enw dy Fab, Iesu Grist, i fendithio a santeiddio y bara hwn i eneidiau pawb a gyfranogant o hono, fel y byddo iddynt ei fwyta mewn coffadwriaeth am gorff dy Fab, a thystio wrthyt ti, O Dduw, y Tad tragywyddol, eu bod yn ewyllysgar i gymmeryd arnynt enw dy Fab, a chofio am dano a chadw ei orchymynion a roddodd efe iddynt, fel y byddo iddynt yn wastad gael ei ysbryd ef i fod gyda hwynt. Amen.

23. Y drefn i weinyddu y gwin. Efe a gymmera y cwpan hefyd, ac a ddyweda, O Dduw, y Tad tragywyddol, yr ydym yn deisyf arnat yn enw dy Fab, Iesu Grist, i fendithio a santeiddio y gwin hwn i eneidiau pawb a yfant o hono, fel y byddo iddynt ei wneuthur mewn coffadwriaeth am waed dy Fab, yr hwn a dywalltwyd drostynt hwy; fel y byddo iddynt dystiolaethu i ti, O Dduw, y Tad tragywyddol, eu bod yn wastad yn ei gofio ef, a chael ei ysbryd i fod gyda hwynt. Amen.

24. Unrhyw aelod o eglwys Crist yn troseddu, neu yn cael ei orddiwes mewn bai, a gaiff ymddwyn tuag ato fel y mae yr ysgrythyrau yn cyfarwyddo.

25. Bydd yn ddyledswydd ar yr amrywiol eglwysi a gyfansoddant eglwys Crist, i anfon un neu ragor o'u dysgawdwyr i fod yn bresennol yn yr amrywiol gynnadleddau a gynnelir gan henuriaid yr eglwys, gyda chofres o enwau yr amrywiol aelodau a ymunasant â'r eglwys oddiar y gynnadledd ddiweddaf, neu anfon yn llaw rhyw offeiriad, fel y byddo i gofres reolaidd o holl enwau yr holl eglwys gael ei chadw mewn llyfr gan un o'r henuriaid, sef pwy bynag a benodir gan yr henuriaid ereill o amser i amser; ac hefyd os bydd rhywrai wedi cael eu diaelodi o'r eglwys, fel y byddo i'w henwau gael eu tynu allan o gofres gyffredinol yr eglwys.

26. Pob aelodau yn symud o'r eglwys lle y maent yn preswylio, os byddant yn myned i eglwys lle nad ydynt yn

adnabyddus, ydynt i gymmeryd llythyr o ardystiad eu bod yn aelodau rheolaidd ac yn eu lle, a bod i'r ardystiad hwn gael ei law-nodi gan unrhyw henuriad neu offeiriad, os bydd yr aelod sydd yn derbyn y llythyr yn bersonol adnabyddus â'r henuriad neu yr offeiriad, neu gall gael ei law-nodi gan ddysgawdwyr neu ddiaconiaid yr eglwys.

DOSRAN III.

1. Y mae, yn yr eglwys, ddwy offeiriadaeth, sef un Melchisedec, ac un Aaron, yn cynnwys yr offeiriadaeth Lefiaidd. Paham y mae y gyntaf yn cael ei galw yn offeiriadaeth Melchisedec yw, o herwydd fod Melchisedec yn gyfryw arch-offeiriad mawr. Cyn ei ddydd ef gelwid hi *yr offeiriadaeth santaidd, yn ol urdd Mab Duw;* ond o barch neu anrhydedd i enw y Bod Goruchel, i ochelyd ail-adroddiad rhy fynych o'i enw ef, hwy, yr eglwys, yn yr hen amser, a alwasant yr offeiriadaeth hono yn ol Melchisedec, neu offeiriadaeth Melchisedec.

2. Pob awdurdodau neu swyddau ereill yn yr eglwys ydynt yn ymlynolion i'r offeiriadaeth hon; ond y mae dwy ran neu brif benau,—un yw offeiriadaeth Melchisedec, a'r llall yw yr Aaronaidd, neu yr offeiriadaeth Lefiaidd.

3. Y swydd o henuriad sydd yn dyfod dan offeiriadaeth Melchisedec. Offeiriadaeth Melchisedec sydd yn cadw yr hawl o lywyddiaeth, ac y mae ganddi allu ac awdurdod dros yr holl swyddau yn yr eglwys yn mhob oes o'r byd, i weinyddu mewn pethau ysbrydol.

4. Llywyddiaeth yr arch-offeiriadaeth, yn ol urdd Melchisedec, sydd â hawl i weinyddu yn yr holl swyddau yn yr eglwys.

5. Arch-offeiriaid yn ol urdd offeiriadaeth Melchisedec, sydd â hawl i weinyddu yn eu rhan eu hunain, dan gyfarwyddyd y llywyddiaeth, yn ngweinyddiad pethau ysbrydol; ac hefyd yn y swydd o henuriad, offeiriad (o'r urdd Lefiaidd), dysgawdwr, diacon, ac aelod.

6. Mae gan henuriad hawl i weinyddu yn ei le, pan na fydd yr arch-offeiriad yn bresennol.

7. Yr arch-offeiriad a'r henuriad ydynt i weinyddu mewn

ethau ysbrydol, yn unol â chyfammodau a gorchymynion yr eglwys; ac y mae ganddynt hawl i weinyddu yn yr holl swyddau hyny o eiddo yr eglwys, pan na fydd awdurdodau uwch yn bresennol.

8. Yr ail offeiriadaeth a elwir offeiriadaeth Aaron, o herwydd iddi gael ei rhoddi i Aaron a'i hâd, trwy eu holl genedlaethau. Paham y gelwir hi yr offeiriadaeth leiaf yw, o herwydd ei bod yn ymlynol i'r fwyaf, neu offeiriadaeth Melchisedec, a chanddi awdurdod i weinyddu ordinhadau allanol. Yr esgobaeth yw llywyddiaeth yr offeiriadaeth hon, ac y mae yn dàl allweddau neu awdurdod yr unrhyw. Nid oes un dyn ag hawl gyfreithlawn i'r swydd hon, i ddàl allweddau yr offeiriadaeth hon, oddieithr ei fod yn disgyn yn llythyrenol oddiwrth Aaron. Ond gan fod arch-offeiriad o offeiriadaeth Melchisedec yn meddiannu awdurdod i weinyddu yn yr holl swyddau lleiaf, efe a all weinyddu yn y swydd o esgob, pan nas gellir cael un disgynydd llythyrenol oddiwrth Aaron, os bydd wedi ei alw, ei neillduo, a'i ordeinio i'r awdurdod hon trwy ddwylaw llywyddiaeth offeiriadaeth Melchisedec.

9. Gallu ac awdurdod yr offeiriadaeth uchaf, neu un Melchisedec, sydd i ddàl allweddau holl fendithion ysbrydol yr eglwys,—cael y fraint o dderbyn dirgelion teyrnas nefoedd,—cael y nefoedd wedi eu hagoryd iddynt,—cyfeillachu â chymdeithas gyffredinol ac eglwys y cyntaf-anedig,—a mwynhau cyfeillach a phresennoldeb Duw y Tad, a Iesu, Cyfryngwr y cyfammod newydd.

10. Gallu ac awdurdod y leiaf, neu offeiriadaeth Aaron, yw dàl allweddau gweinyddiaeth angylion, a gweinyddu, mewn ordinhadau allanol, lythyren yr efengyl,—bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau, yn unol â'r cyfammodau a'r gorchymynion.

11. O anghenrheidrwydd y mae llywyddion, neu swyddau llywyddol, yn deilliaw allan o, neu yn cael eu penodi o neu o blith y rhai hyny a ordeinir i'r gwahanol swyddau yn y ddwy offeiriadaeth hyn. O offeiriadaeth Melchisedec, tri arch-offeiriad llywyddol, wedi eu dewis gan y corff, a'u penodi a'u hordeinio i'r swydd hòno, ac yn cael eu cynnal gan ymddiried, ffydd, a gweddi yr eglwys, a ffurfiant gorwm o lywyddiaeth yr eglwys. Y deuddeg cynghorwr teithiol a elwir i fod y deuddeg apostol, neu dystion neillduol o enw Crist yn yr

holl fyd; felly yn gwahaniaethu oddiwrth swyddogion ereill yn yr eglwys yn nyledswyddau eu galwad. A hwy a ffurfiant gorwm, yn gyfartal mewn awdurdod a gallu â'r tri llywydd a grybwyllwyd yn flaenorol. Y deg a thrugain a elwir hefyd i bregethu yr efengyl, ac i fod yn dystion neillduol i'r Cenedloedd, ac yn yr holl fyd. Felly yn gwahaniaethu oddiwrth swyddogion ereill yn yr eglwys yn nyledswyddau eu galwad; a hwy a ffurfiant gorwm yn gyfartal mewn awdurdod ag eiddo y deuddeg tyst neillduol neu apostolion a enwyd yn flaenorol. A phob penderfyniad a wneir gan y naill neu y llall o'r corymau hyn, a raid fod trwy lais unfrydol yr unrhyw; hyny yw, rhaid fod pob aelod yn mhob corwm yn cytuno â'i benderfyniadau, i'r dyben o wneyd eu penderfyniadau o'r un awdurdod a chadernid y naill a'r llall. (Dichon y mwyrif ffurfio corwm, pan fyddo amgylchiadau yn eu gwneyd yn anmhosibl i fod fel arall.) Oni fydd yr achos felly, nid yw eu penderfyniadau yn hawlio yr un bendithion ag oedd penderfyniadau corwm y tri llywydd yn wneuthur gynt, y rhai oeddynt wedi eu hordeinio yn ol urdd Melchisedec, ac a oeddynt yn ddynion cyfiawn a santaidd. Penderfyniadau y corymau hyn, neu un o honynt, ydynt i gael eu gwneuthur mewn pob cyfiawnder, mewn santeiddrwydd a gostyngeiddrwydd calon, llarieidd-dra ac hir-amynedd, ac mewn ffydd a rhinwedd, a gwybodaeth, cymmedroldeb, amynedd, duwioldeb, caredigrwydd brawdol, a chariad; o herwydd yr addewid yw, os bydd y pethau hyn yn aml ynddynt, ni fyddant yn anffrwythlawn yn ngwybodaeth yr Arglwydd Ac os bydd i unrhyw benderfyniad o eiddo y corymau hyn gael ei wneuthur mewn anghyfiawnder, gellir ei ddwyn gerbron cymdeithasfa gyffredinol o'r gwahanol gorymau a gyfansoddant awdurdodau ysbrydol yr eglwys, ac heb hyny nis gall fod un apeliad oddiwrth eu penderfyniad.

12. Y deuddeg ydynt uchel gynghor llywyddol teithiol, i weinyddu yn enw yr Arglwydd, dan gyfarwyddyd llywyddiaeth yr eglwys, yn unol â sefydliad y nef; i adeiladu yr eglwys i fyny, a rheoleiddio holl achosion yr unrhyw yn mhob cenedl; yn gyntaf i'r Cenedloedd, ac yn ail i'r Iuddewon.

13. Y deg a thrugain ydynt i weithredu yn enw yr Arglwydd, dan gyfarwyddyd y deuddeg neu yr uchel gynghor teithiol,

mewn adeiladu yr eglwys i fyny a rheoleiddio holl achosion yr unrhyw yn mhob cenedl,—yn gyntaf i'r Cenedloedd ac yna i'r Iuddewon; y deuddeg yn cael eu danfon allan, yn dàl yr allweddau, i agor y drws trwy gyhoeddiad efengyl Iesu Grist, —ac yn gyntaf i'r Cenedloedd ac yna i'r Iuddewon.

14. Yr uchel gynghorau sefydlog, yn estynfeydd Seion, a ffurfiant gorwm o awdurdod cyfartal, yn achosion yr eglwys, yn eu holl benderfyniadau, â chorwm y llywyddiaeth, neu â'r uchel gynghor teithiol.

15. Yr uchel gynghor yn Seion, a ffurfia gorwm cyfartal mewn awdurdod, yn achosion yr eglwys, yn eu holl benderfyniadau, a chynghorau y deuddeg yn estynfeydd Seion.

16. Dyledswydd yr uchel gynghor teithiol yw galw ar y deg a thrigain, pan fyddont mewn anghen am gynnorthwy, i gyflawni yr amrywiol alwadau am bregethu a gweinyddu yr efengyl, yn lle unrhyw rai ereill.

17. Dyledswydd y deuddeg yn yr holl gangenau mawrion o'r eglwys, yw ordeinio gweinidogion efengylaidd, fel yr hysbysir hwynt iddynt trwy ddadguddiad.

18. Urdd yr offeiriadaeth hon a gadarnhawyd i'w throsglwyddo i lawr o dad i fab, ac a berthyna yn gyfiawn i ddisgynyddion llythyrenol yr had dewisedig, i'r rhai y gwnaed yr addewidion. Yr urdd hon a sefydlwyd yn nyddiau Adda, ac a ddaeth i lawr trwy linach yn y modd canlynol:—

19. O Adda i Seth, yr hwn a ordeiniwyd gan Adda pan oedd yn 69 mlwydd oed, ac a fendithiwyd ganddo dair blynedd cyn ei farwolaeth (sef marwolaeth Adda), ac a dderbyniodd addewid Duw gan ei dad, y byddai ei hiliogaeth yn ddewisedig yr Arglwydd, ac y cedwid hwynt hyd ddiwedd y byd, o herwydd ei fod ef (Seth) yn ddyn perffaith, a'i debygolrwydd yn hollol yr un fath â thebygolrwydd ei dad, yn gymmaint ag yr ymddangosai yn debyg i'w dad yn mhob peth, ac nas gellid ei wahaniaethu oddiwrtho ond yn unig trwy ei oedran.

20. Enos a ordeiniwyd yn 134 mlwydd a phedwar mis oed, trwy law Adda.

21. Duw a alwodd ar Cainan yn yr anialwch, yn y ddeugeinfed flynedd o'i oedran, ac efe a gyfarfu ag Adda ar ei daith i'r lle Shedolamak. Yr oedd ef yn 87 mlwydd oed pan dderbyniodd ei ordeiniad.

22. Yr oedd Mahalaleel yn 496 mlwydd a saith diwrnod oed pan ordeiniwyd ef trwy law Adda, yr hwn hefyd a'i bendithiodd ef.

23. Jared oedd yn 200 mlwydd oed pan ordeiniwyd ef dan law Adda, yr hwn hefyd a'i bendithiodd ef.

24. Enoch oedd yn 25 mlwydd oed pan ordeiniwyd ef dan law Adda, a phan oedd yn 65 Adda a'i bendithiodd ef. Ac efe a welodd yr Arglwydd, ac a rodiodd gydag ef, ac yr oedd yn wastad gerbron ei wyneb; ac efe a rodiodd gyda Duw 365 o flynyddoedd, yn ei wneyd yn 430 mlwydd oed pan symudwyd ef.

25. Methuselah oedd yn 100 mlwydd oed pan ordeiniwyd ef dan law Adda.

26. Lamech oedd yn 32 mlwydd oed pan ordeiniwyd ef dan law Seth.

27. Noah oedd yn 10 mlwydd oed pan ordeiniwyd ef dan law Methuselah.

28. Tair blynedd cyn marwolaeth Adda, efe a alwodd Seth, Enos, Cainan, Mahalaleel, Jared, Enoch, a Methuselah, y rhai oll oeddynt arch-offeiriaid, ynghyd â'r gweddill o'i hiliogaeth ag oeddynt gyfiawn, i ddyffryn Adda-ondi-ahman, ac yno a gyflwynodd arnynt ei fendith olaf. A'r Arglwydd a ymddangosodd iddynt, a hwy a gyfodasant i fyny ac a fendithiasant Adda, ac a'i galwasant ef Michael, y Tywysog, yr Archangel. A'r Arglwydd a weinyddodd gysur i Adda, ac a lefarodd wrtho, Yr wyf wedi dy osod di i fod yn ben,—lluaws o genedloedd a ddeuant o honot ti, ac yr ydwyt ti yn dywysog arnynt dros byth.

29. Ac Adda a safodd i fyny yn nghanol y gynnulleidfa, ac er ei fod wedi ei grymu i lawr gan henaint, yr oedd yn llawn o'r Ysbryd Glân, a rhagfynegodd beth bynag a gyfarfyddai â'i hiliogaeth hyd y genedlaeth ddiweddaf. Yr holl bethau hyn a ysgrifenwyd yn llyfr Enoch, a thystiolaethir am danynt yn yr amser priodol.

30. Hefyd, dyledswydd y deuddeg yw ordeinio a gosod mewn trefn holl swyddogion ereill yr eglwys, yn unol â'r dadguddiad, yr hwn a ddyweda,

31. At eglwys Crist yn nhir Seion, mewn ychwanegiad at y cyfreithiau eglwysig perthynol i achosion yr eglwys,—Yn wir, yr wyf yn dywedyd i chwi, medd Arglwydd y lluoedd, rhaid

yw fod henuriaid llywyddol i lywyddu dros y rhai sydd yn y swydd o henuriad; ac hefyd offeiriaid, i lywyddu dros y rhai sydd yn y swydd o offeiriad; ac hefyd dysgawdwyr, i lywyddu dros y rhai sydd yn y swydd o ddysgawdwr yn yr un modd, ac hefyd y diaconiaid; gan hyny, o ddiacon i ddysgawdwr, ac o ddysgawdwr i offeiriad, ac o offeiriad i henuriad, yn wahanol fel y penodir hwynt, yn unol â chyfammodau a gorchymynion yr eglwys. Yna daw yr arch-offeiriadaeth, yr hon yw y fwyaf o'r cwbl; gan hyny, rhaid yw i un gael eu benodi o'r archoffeiriadaeth i lywyddu dros yr offeiriadaeth, ac efe a elwir llywydd arch-offeiriadaeth yr eglwys; neu, mewn geiriau ereill, yr arch-offeiriad llywyddol dros arch-offeiriadaeth yr eglwys. Oddiwrth y cyfryw y daw gweinyddiad ordinhadau a bendithion ar yr eglwys, trwy arddodiad dwylaw.

32. Gan hyny, nid yw y swydd o esgob yn gyfartal â hi; canys y swydd o esgob sydd yn ngweinyddiad pob pethau tymmorol; er hyny, rhaid i esgob gael ei ddewis o'r archoffeiriadaeth, oddieithr ei fod yn ddisgynydd llythyrenol i Aaron; canys oni fydd efe yn ddisgynydd llythyrenol i Aaron, nis gall ddàl allweddau yr offeiriadaeth hòno. Er hyny, archoffeiriad ag sydd yn ol urdd Melchisedec, a all gael ei osod o'r neilldu i weinyddiaeth pethau tymmorol, gan gael gwybodaeth o honynt trwy ysbryd y gwirionedd, ac hefyd i fod yn farnwr yn Israel, i gyflawni achosion yr eglwys, ac eistedd mewn barn ar droseddwyr, yn ol y dystiolaeth a osodir ger ei fron ef yn unol â'r cyfreithiau, trwy gynnorthwy ei gynghorwyr a ddewisodd efe, neu a ddewisa o blith henuriaid yr eglwys. Hyn yw dyledswydd esgob ag nad yw yn ddisgynydd llythyrenol i Aaron, ond a gafodd ei ordeinio i'r arch-offeiriadaeth yn ol urdd Melchisedec.

33. Felly bydd ef yn farnwr, hyd y nod yn farnwr cyffredin yn mhlith preswylwyr Seion, neu mewn estynfa o Seion, neu mewn unrhyw gangen o'r eglwys lle y gosodir ef o'r neilldu i'r weinidogaeth hon, hyd oni estynir cyffiniau Seion, ac y daw yn anghenrheidiol i gael esgobion neu farnwyr ereill yn Seion, neu ryw le arall; ac yn gymmaint â bod esgobion ereill yn cael eu penodi, hwy a gant weithredu yn yr un swydd.

34. Ond y mae gan ddisgynydd llythyrenol i Aaron hawl gyfreithlawn i lywyddiaeth yr offeiriadaeth hon, i allweddau y

weinidogaeth hon, i weithredu yn y swydd o esgob yn anymddibynol, heb gynghorwyr, oddieithr mewn achos lle y byddo llywydd o'r arch-offeiriadaeth, yn ol urdd Melchisedec, yn cael ei brofi, i eistedd fel barnwr yn Israel. A phenderfyniad y naill neu'r llall o'r cynghorau hyn, yn unol â'r gorchymyn a ddyweda,

35. Etto, yn wir, meddaf i chwi, gorchwylion mwyaf pwysig yr eglwys, ac achosion mwyaf dyrys yr eglwys, yn gymmaint ag nad oes boddlonrwydd i benderfyniad yr esgob neu farnwyr, a gaiff ei drosglwyddo drosodd, a'i ddwyn i fyny i gynghor yr eglwys, gerbron llywyddiaeth yr arch-offeiriadaeth : a llywyddiaeth cynghor yr arch-offeiriadaeth a gaiff awdurdod i alw arch-offeiriaid ereill, nod deuddeg, i gynnorthwyo fel cynghorwyr; ac felly llywyddiaeth yr arch-offeiriadaeth a'i chynghorwyr a gant awdurdod i benderfynu ar dystiolaeth yn unol â chyfreithiau yr eglwys. Ac ar ol y penderfyniad hwn, ni chaiff ei gadw mwyach mewn coffadwriaeth gerbron yr Arglwydd; canys hwn yw cynghor uchelaf eglwys Dduw, a phenderfyniad terfynol ar ddadleuon mewn materion ysbrydol.

36. Nid oes un dyn ag sydd yn perthyn i'r eglwys, yn rhydd oddiwrth y cynghor hwn o eiddo yr eglwys.

37. Ac yn gymmaint ag os bydd i lywydd yr arch-offeiriadaeth droseddu, efe a gaiff ei ddwyn mewn coffadwriaeth gerbron cynghor cyffredin yr eglwys, yr hwn a gaiff ei gynnorthwyo gan ddeuddeg o gynghorwyr yr arch-offeiriadaeth; a'u penderfyniad hwy ar ei ben a gaiff fod yn derfyn ar bob dadl yn ei gylch ef. Fel hyn ni fydd neb yn cael ei esgusodi rhag cyfiawnder a chyfreithiau Duw, fel y byddo i bob peth gael ei wneuthur mewn trefn ac mewn difrifoldeb ger ei fron ef, yn unol â gwirionedd a chyfiawnder.

38. Ac etto, yr wyf yn dywedyd i chwi, dyledswydd llywydd ar swydd diacon yw llywyddu dros ddeuddeg o ddiaconiaid, eistedd mewn cynghor gyda hwynt, a dysgu iddynt eu dyledswydd,—gan adeiladu y naill y llall, fel y rhoddir yn ol y cyfammodau.

39. Ac hefyd dyledswydd y llywydd ar y swydd o ddysgawdwyr yw llywyddu dros bedwar ar hugain o'r dysgawdwyr, ac eistedd mewn cynghor gyda hwynt, gan ddysgu iddynt ddyledswyddau eu swydd, fel y rhoddir yn y cyfammodau.

40. Hefyd dyledswydd y llywydd ar offeiriadaeth Aaron yw

llywyddu dros wyth a deugain o offeiriaid, ac eistedd mewn cynghor gyda hwynt, i ddysgu iddynt ddyledswyddau eu swydd, fel y rhoddir yn y cyfammodau. Mae y llywydd hyn i fod yn esgob; canys hyn yw un o ddyledswyddau yr offeiriadaeth hon.

41. Etto, dyledswydd y llywydd ar swydd yr henuriaid yw llywyddu dros bedwar ugain ac un ar bymtheg o henuriaid, ac eistedd mewn cynghor gyda hwynt, a'u dysgu yn unol â'r cyfammodau. Mae y llywyddiaeth hon yn wahanol oddiwrth lywyddiaeth y deg a thrigain, ac wedi ei bwriadu i'r rhai hyny nad ydynt yn teithio i'r holl fyd.

42. Ac etto, dyledswydd llywydd swydd yr archoffeiriadaeth yw llywyddu dros yr holl eglwys, a bod yn gyffelyb i Moses. Wele yma ddoethineb; ïe, bod yn weledydd, yn ddadguddiwr, yn gyfieithydd, ac yn brophwyd, yn feddiannol ar holl ddoniau Duw, y rhai y mae efe yn roddi i ben yr eglwys.

43. Ac y mae yn ol y weledigaeth, gan ddangos trefn y deg a thrigain, fod iddynt gael saith llywydd i lywyddu drostynt, wedi ei dewis allan o nifer y deg a thrigain; a'r seithfed llywydd o'r llywyddion hyn sydd i lywyddu dros y chwech; a'r saith llywydd hyn ydynt i ddewis deg a thrigain ereill heblaw y deg a thrigain cyntaf, i'r rhai y perthynant, ac y maent i lywyddu drostynt; ac hefyd deg a thrigain ereill, hyd seithwaith deg a thrigain, os bydd gwaith y winllan o anghenrheidrwydd yn gofyn hyny. A'r deg a thrigain hyn ydynt i fod yn weinidogion teithiol at y Cenedloedd yn gyntaf, ac hefyd at yr Iuddewon; yn gymmaint ag nad yw swyddogion ereill yr eglwys, y rhai nid ydynt yn perthyn i'r deuddeg, nac ychwaith i'r deg a thrigain, dan y rwymedigaeth o deithio yn mhlith yr holl genedloedd, ond y maent i deithio fel y byddo eu hamgylchiadau yn caniatâu, er eu bod yn dala swyddau mor uchel a chyfrifol yn yr eglwys.

44. Gan hyny bydded i bob dyn ddysgu ei ddyledswydd, ac ymddwyn yn y swydd i'r hon ei penodwyd, gyda phob diwydrwydd. Yr hwn sydd yn ddiog a gyfrifir yn annheilwng i sefyll; a'r hwn nid yw yn dysgu ei ddyledswydd ac yn dangos ei hunan yn anghymmeradwy, a gyfrifir yn annheilwng i sefyll. Felly boed. Amen.

DOSRAN IV.

Dadguddiad, a roddwyd y 22ain a'r 23ain o Fedi, 1832.

1. Dadguddiad Iesu Grist i'w wasanaethwr Joseph Smith, ieu., a chwech o henuriaid, pan unasant eu calonau, ac y dyrchafasant eu llef i'r uchelder; ïe, gair yr Arglwydd ynghylch ei eglwys, a sefydlwyd yn y dyddiau diweddaf er adferiad ei bobl, fel y llefarodd efe trwy enau ei brophwydi, ac er cydgasglu ei saint i sefyll ar fynydd Seion, yr hon a fydd y ddinas Jerusalem Newydd, yr hon ddinas a gaiff ei hadeiladu, gan ddechreu ar randir y deml, yr hon a benodir gan fys yr Arglwydd, yn nghyffiniau gorllewinol talaeth Missouri, ac a gyssegrir trwy law Joseph Smith, ieu., ac ereill, â pha rai yr oedd yr Arglwydd yn llwyr foddlawn.

2. Yn wir, hyn yw gair yr Arglwydd, y bydd i'r ddinas Jerusalem Newydd gael ei hadeiladu trwy gydgynnulliad y saint yn dechreu yn y lle hwn, ïe, lle y deml, yr hon deml a gaiff ei hadeiladu yn y genedlaeth hon; canys yn wir, ni chaiff y genedlaeth hon fyned heibio hyd oni fyddo i dŷ gael ei adeiladu i'r Arglwydd, a bydd i gwmwl orphwys arno, yr hwn gwmwl a fydd gogoniant yr Arglwydd, yr hwn a lanwa y tŷ. A meibion Moses, yn unol â'r offeiriadaeth santaidd a dderbyniodd efe dan law ei dad-yn-nghyfraith Jethro; a Jethro a'i derbyniodd dan law Caleb; a Chaleb a'i derbyniodd dan law Elihu; ac Elihu dan law Jeremi; a Jeremi dan law Gad; a Gad dan law Esaias; ac Esaias a'i derbyniodd dan law Duw. Esaias hefyd oedd yn byw yn nyddiau Abraham, ac a fendithiwyd ganddo ef,—a'r Abraham hwn a dderbyniodd yr offeiriadaeth oddiwrth Melchisedec, yr hwn a'i derbyniodd hi trwy linach ei deidiau, nod hyd Noah; ac o Noah hyd Enoch, trwy linach eu teidiau; ac o Enoch i Abel, yr hwn a laddwyd trwy fradwriaeth ei frawd, yr hwn a dderbyniodd yr offeiriadaeth trwy orchymynion Duw, trwy law ei dad Adda, yr hwn oedd y dyn cyntaf,—yr hon offeiriadaeth sydd yn parhau yn eglwys Dduw yn mhob cenedlaeth, ac y mae heb ddechreu dyddiau na diwedd blynyddoedd.

3. A'r Arglwydd a gadarnhaodd offeiriadaeth hefyd ar Aaron a'i hâd, trwy eu holl genedlaethau,—yr hon offeiriadaeth hefyd a barha ac a arosa yn dragywydd gyda'r offeiriadaeth ag sydd

yn ol urdd santeiddiolaf Duw; a'r offeiriadaeth fwyaf hon a weinydda yr efengyl, ac a ddalia allwedd dirgeledigaethau y deyrnas, ïe, allwedd y wybodaeth o Dduw; gan hyny, yn ei hordinhadau hi y mae gallu duwioldeb yn egluredig; ac heb ei hordinhadau hi, ac awdurdod yr offeiriadaeth, nid yw gallu duwioldeb yn egluredig i ddynion yn y cnawd; canys heb hon, nis gall un dyn weled wyneb Duw, sef y Tad, a byw.

4. Yn awr, y Moses hwn a ddysgodd yn eglur i blant Israel yn yr anialwch, ac a ddyfal-geisiodd santeiddio ei bobl fel y gallent hwy weled wyneb Duw; ond hwy a galedasant eu calonau, ac nis gallent oddef ei bresennoldeb, gan hyny yr Arglwydd yn ei lid (canys yr oedd ei ddigofaint wedi ennyn yn eu herbyn hwynt) a dyngodd nad elent i mewn i'w orphwysfa ef tra yn yr anialwch, yr hon orphwysfa yw cyflawnder ei ogoniant ef. Gan hyny efe a gymmerodd Moses allan o'u canol hwynt, a'r offeiriadaeth santaidd hefyd; a'r offeiriadaeth leiaf a barhaodd, yr hon offeiriadaeth sydd yn dala allwedd gweinidogaeth angylion a'r efengyl barotöadol, yr hon efengyl yw efengyl edifeirwch a bedydd, a maddeuant pechodau, a chyfraith gorchymynion cnawdol, yr hon y darfu i'r Arglwydd yn ei lid beri i barhau gyda thŷ Aaron yn mhlith plant Israel hyd Ioan, yr hwn a gododd Duw i fyny, wedi ei lanw â'r Ysbryd Glân o grôth ei fam; canys efe a fedyddiwyd tra yr oedd etto yn ei fabandod, ac a ordeiniwyd gan angel Duw pan oedd yn wyth diwrnod oed i'r gallu hwn, i ddymchwelyd teyrnas yr Iuddewon, a gwneuthur yn uniawn ffordd yr Arglwydd o flaen wyneb ei bobl, i'w parotoi erbyn dyfodiad yr Arglwydd, yn llaw yr hwn y rhoddwyd pob gallu.

5. Ac etto, y swydd o henuriad ac esgob ydynt ymlynolion anghenrheidiol perthynol i'r archoffeiriadaeth.—Ac etto, y swyddau o ddysgawdwyr a diaconiaid ydynt ymlynolion anghenrheidiol perthynol i'r offeiriadaeth leiaf, yr hon offeiriadaeth a gadarnhawyd ar Aaron a'i feibion.

6. Gan hyny, fel y dywedais mewn perthynas i feibion Moses, —canys meibion Moses, ac hefyd meibion Aaron, a offrymant offrymau ac aberthau cymmeradwy yn nhŷ yr Arglwydd, yr hwn dŷ a adeiledir i'r Arglwydd yn y genedlaeth hon, yn y lle cyssegredig fel yr wyf wedi penodi; a meibion Moses ac Aaron a lenwir â gogoniant yr Arglwydd, ar fynydd Seion yn nhŷ yr

Arglwydd, plant yr hwn ydych chwi; ac hefyd llawer a elwais i, ac a anfonais allan i adeiladu i fyny fy eglwys; canys pwy bynag sydd yn ffyddlawn hyd at dderbyniad y ddwy offeiriadaeth hyn am ba rai yr wyf wedi llefaru, ac a fawrhant eu galwedigaeth, a santeiddiwyd gan yr Ysbryd i adnewyddiad eu cyrff; deuant yn feibion i Moses ac i Aaron, ac yn hâd Abraham, a'r eglwys a'r deyrnas, ac yn etholedigion Duw; ac hefyd, pawb a dderbyniant yr offeiriadaeth hon a'm derbyniant i, medd yr Arglwydd; canys yr hwn a dderbynio fy ngweision a'm derbynia i; a'r hwn a'm derbynio i a dderbynia fy Nhad; a'r hwn a dderbynio fy Nhad a dderbynia deyrnas fy Nhad; gan hyny yr hyn oll sydd gan fy Nhad a roddir iddo ef, a hyn sydd yn unol â'r llŵ a'r cyfammod a berthyna i'r offeiriadaeth. Gan hyny, pwy bynag a dderbynio yr offeiriadaeth, a dderbynia y llŵ a'r cyfammod hwn o eiddo fy Nhad, yr hwn nis gall efe ei dòri, ac nis gellir ei syflyd; ond pwy bynag a dòro y cyfammod hwn, wedi iddo ei dderbyn ef, ac a droa ymaith yn hollol oddiwrtho, ni chaiff faddeuant pechodau yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. A phawb na ddeuant i'r offeiriadaeth hon a dderbyniasoch chwi, yr hon wyf yn awr yn gadarnhau arnoch chwi ag ydych yn bresennol y dydd hwn, trwy fy llais fy hun allan o'r nefoedd, ac hyd y nod yr wyf wedi rhoddi gorchymyn i'r lluoedd nefolaidd a'm hangylion mewn perthynas i chwi.

7. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn i wylio arnoch eich hunain, a rhoddi sylw manwl i eiriau bywyd tragywyddol; canys chwi a fyddwch byw trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw. Canys gair yr Arglwydd sydd wirionedd, a pha beth bynag sydd wirionedd sydd oleuni, a pha beth bynag sydd oleuni sydd Ysbryd, sef Ysbryd Iesu Grist; a'r Ysbryd a rodda oleuni i bob dyn sydd yn dyfod i'r byd; a'r Ysbryd a oleua bob dyn trwy y byd, sydd yn gwrandaw ar lais yr Ysbryd: a phob un sydd yn gwrandaw ar lais yr Ysbryd, sydd yn dyfod at Dduw, sef y Tad; a'r Tad a'i dysga ef am y cyfammod yr hwn a adnewyddodd ac a gadarnhaodd efe arnoch chwi, yr hwn sydd wedi ei gadarnhau arnoch er eich mwyn chwi, ac nid er eich mwyn chwi yn unig, ond er mwyn yr holl fyd; a'r holl fyd sydd yn gorwedd mewn pechod, ac yn ocheneidio dan dywyllwch a than

gaethiwed pechod; a thrwy hyn yr adnabyddwch eu bod dan gaethiwed pechod, o herwydd nad ydynt yn dyfod ataf fi; canys pwy bynag nad yw yn dyfod ataf fi, sydd dan gaethiwed pechod; a phwy bynag nad yw yn derbyn fy llais, nid yw yn adnabod fy llais, ac nid yw o honof fi; a thrwy hyn yr adnabyddwch y cyfiawn oddiwrth y drygionus, a bod yr holl fyd, hyd y nod yn awr, yn ocheneidio dan bechod a thywyllwch.

8. A'ch meddyliau yn yr amseroedd a aethant heibio a dywyllwyd o herwydd anghrediniaeth, ac o herwydd i chwi ddibrisio y pethau a dderbyniasoch, ac y mae y gwagedd a'r anghrediniaeth hwnw wedi dwyn yr holl fyd dan gondemniad. A'r condemniad hwn a orphwysa ar blant Seion, hyd y nod pawb; a hwy a arosant dan y condemniad hwn hyd onid edifarhaont ac y cofiont y cyfammod newydd, sef Llyfr Mormon a'r gorchymynion blaenorol a roddais iddynt, nid yn unig i ddywedyd, ond i wneuthur yn ol yr hyn a ysgrifenais, fel y dygont ffrwythau addas i deyrnas eu Tad, onite y mae yn aros fflangell a barn i'w tywallt allan ar blant Seion; canys, a gaiff plant y deyrnas halogi fy nhir santaidd? Yn wir, meddaf i chwi, na chant.

9. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi sydd yn awr yn clywed fy ngeiriau, y rhai yw fy llais, Bendigedig ydych chwi, yn gymmaint â'ch bod yn derbyn y pethau hyn; canys mi a faddeuaf i chwi eich pechodau, gyda'r gorchymyn hwn, fod i chwi aros yn ddiysgog yn eich meddyliau mewn difrifoldeb ac ysbryd gweddi, mewn dwyn tystiolaeth i'r holl fyd am y pethau hyny a hysbyswyd i chwi.

10. Gan hyny ewch chwi i'r holl fyd, a pha le bynag nis gallwch fyned, rhaid i chwi anfon, fel y byddo i'r dystiolaeth fyned oddiwrthych chwi i'r holl fyd i bob creadur. Ac fel y dywedais wrth fy apostolion, felly yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, canys chwi yw fy apostolion, sef archoffeiriaid Duw; chwi yw y rhai a roddodd y Tad i mi,—chwi yw fy nghyfeillion; gan hyny, fel y dywedais wrth fy apostolion yr wyf yn dywedyd wrthych chwi etto, y bydd i bob enaid a gredo yn eich geiriau, ac a fedyddier trwy ddwfr er maddeuant pechodau, dderbyn yr Ysbryd Glân,—a'r arwyddion hyn a ganlŷnant y rhai a gredant.

11. Yn fy enw i gwnant lawer o weithredoedd rhyfeddol; yn fy enw i bwriant allan gythreuliaid; yn fy enw i y iachânt y

cleifion; yn fy enw i yr agorant lygaid y deillion, ac yr agorant glustiau y byddariaid; a thafod y mudan a lefara; ac os rhydd neb wenwyn iddynt, ni wna iddynt ddim niwed; ac ni chaiff gwenwyn sarff allu i'w drygu hwynt. Ond gorchymyn yr wyf yn ei roddi iddynt hwy, nad oes iddynt ymffrostio yn y pethau hyn, na'u llefaru gerbron y byd, canys y pethau hyn a roddir i chwi er eich lles ac er iachawdwriaeth.

12. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y rhai na chredant ar eich geiriau chwi, ac na fedyddier mewn dwfr yn fy enw i, er maddeuant o'u pechodau, fel y derbyniont yr Ysbryd Glân, a ddemnir, ac ni chant ddyfod i deyrnas fy Nhad, lle y mae fy Nhad a minnau. A'r dadguddiad hwn i chwi, a'r gorchymyn, sydd mewn grym o'r awr hon ar yr holl fyd, a'r efengyl sydd at bawb sydd heb ei derbyn. Ond, yn wir, yr wyf yn dywedyd wrth bawb y rhoddwyd y deyrnas iddynt, oddiwrthych chwi y rhaid ei phregethu iddynt hwy, fel yr edifarhaont am eu gweithredoedd drygionus blaenorol, canys y maent i'w ceryddu am eu calonau drwg o anghrediniaeth; a'ch brodyr chwi yn Seion, am eu gwrthryfel yn eich erbyn yn yr amser yr anfonais i chwi.

13. Ac etto yr wyf yn dywedyd i chwi, fy nghyfeillion (canys o hyn allan y'ch galwaf chwi yn gyfeillion), y mae yn addas i mi roddi i chwi y gorchymyn hwn, i chwi fod fel fy nghyfeillion yn y dyddiau pan oeddwn gyda hwynt yn teithio i bregethu yr efengyl hon yn fy ngallu, canys ni oddefais iddynt gael côd nac ysgrepan, nac ychwaith ddwy bais; wele, yr wyf yn eich anfon chwi allan i brofi y byd, canys y mae y gweithiwr yn deilwng o'i gyflog. A phob dyn a elo ac a bregetho efengyl hon y deyrnas, ac a barhao yn ffyddlawn yn mhob peth, ni chaiff ddiffygio yn ei feddwl, na thywyllu, nac mewn corff, aelod, na chymmal; ac ni fydd i un o wallt ei ben syrthio i'r llawr yn ddisylw. Ac ni fydd iddynt fyned yn newynog, na sychedu ychwaith.

14. Gan hyny, na feddyliwch am y fory, am yr hyn a fwytäoch, neu yr hyn a yfoch, neu yr hyn a wisgoch; canys ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent hwy yn tyfu; nid ydynt yn llafurio, nac ychwaith yn nyddu; ac nid yw teyrnasoedd y byd hwn, yn eu holl ogoniant, wedi eu trwsio yn debyg i un o'r rhai hyn; canys eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, sydd yn gwybod fod arnoch eisieu yr holl bethau hyn.

Gan hyny, bydded i dranoeth feddwl am ei bethau ei hun. Ac na feddyliwch yn mlaen llaw pa beth a ddywedoch, ond trysorwch yn eich meddyliau yn wastadol eiriau y bywyd, a chaiff ei roddi i chwi bob amser y gyfran hòno a fesurir i bob dyn.

15. Gan hyny, na fydded i un dyn yn eich plith chwi (canys y mae y gorchymyn hwn i'r holl ffyddloniaid a elwir gan Dduw yn ei eglwys i'r weinidogaeth), o'r awr hon gymmeryd côd nac ysgrepan, pan fyddo yn myned allan i gyhoeddi efengyl hon y deyrnas. Wele, yr wyf yn eich anfon chwi i geryddu y byd am eu holl weithredoedd anghyfiawn, ac i'w dysgu hwynt am farn sydd i ddyfod. A phwy bynag a'ch derbynio chwi, yno y byddaf fi hefyd, canys mi a âf o flaen eich wyneb. Myfi a fyddaf ar eich llaw ddeau, ac ar eich llaw aswy, a'm hysbryd a fydd yn eich calonau, a'm hangylion o amgylch ogylch i chwi, i'ch dal i fyny.

16. Pwy bynag a'ch derbynio chwi a'm derbynia i, ac efe a'ch portha chwi, a'ch dillada chwi, ac a rodda i chwi arian. A'r hwn a'ch portho chwi, neu a'ch dillado chwi, neu a roddo i chwi arian, ni chyll ei wobr mewn un modd; a'r hwn ni wnelo y pethau hyn, nid yw yn ddyscybl i mi; wrth hyn yr adnabyddwch fy nyscyblion. Yr hwn ni'ch derbynio, ewch ymaith oddiwrtho yn unig wrthoch eich hunain, a glanhewch eich traed hyd y nod â dwfr, dwfr pur, pa un ai mewn gwres neu oerfel, a dygwch dystiolaeth o hyny i'ch Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, ac na ddychwelwch drachefn at y dyn hwnw. Ac i ba bentref neu ddinas bynag yr eloch, gwnewch yr un modd. Er hyny, chwiliwch yn ddyfal, ac nac arbedwch; a gwae i'r tŷ hwnw, neu y pentref neu y ddinas hòno a'ch gwrthoda chwi, neu eich geiriau, neu eich tystiolaeth am danaf fi. Gwae, meddaf drachefn, i'r tŷ hwnw, neu y pentref neu y ddinas hòno a'ch gwrthoda chwi, neu eich geiriau, neu eich tystiolaeth am danaf fi; canys myfi, yr Hollalluog, a osodais fy nwylaw ar y cenedloedd i'w fflangellu hwynt am eu drygioni; a phläau a ânt allan, ac ni chymmerir hwynt oddiar y ddaear hyd oni orphenwyf fy ngwaith, yr hwn a gwtogir mewn cyflawnder, hyd oni fydd i bawb fy adnabod i, y rhai a arosant, hyd y nod o'r lleiaf i'r mwyaf, a chant eu llanw â gwybodaeth yr Arglwydd, a chant weled lygad yn llygad, a chant gyfodi eu llais, ac â'u llais yn un y canant y gân newydd hon, gan ddywedyd,

17. Yr Arglwydd drachefn a ddygodd Seion;
Yr Arglwydd a waredodd ei bobl, Israel,
Yn ol etholedigaeth gras,
Yr hon a ddygwyd oddiamgylch trwy ffydd
A chyfammod eu teidiau.
Yr Arglwydd a waredodd ei bobl,
A rhwymwyd Satan, ac amser nid yw mwyach;
Yr Arglwydd a gynnullodd bob peth yn un;
Yr Arglwydd a ddygodd Seion i lawr oddiuchod;
Yr Arglwydd a ddygodd Seion i fyny oddi-isod;
Y ddaear a fu mewn gwewyr, a dygodd allan ei nerth;
A gwirionedd a sefydlwyd yn ei hymysgaroedd;
A'r nefoedd a wênasant arni hi;
A gwisgwyd hi â gogoniant ei Duw;
Canys y mae ef yn sefyll yn nghanol ei bobl;
Gogoniant, ac anrhydedd, ac awdurdod, a gallu,
A roddir i'n Duw ni, canys y mae yn llawn o drugaredd;
Cyfiawnder, gras a gwirionedd, ac heddwch,
Yn oes oesoedd. Amen.

18. A thrachefn, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae yn addas i bob dyn sydd yn myned allan i gyhoeddi fy efengyl dragywyddol, yn gymmaint â bod ganddynt deuluoedd, ac y derbyniant arian trwy roddion, fod iddynt eu danfon iddynt hwy neu eu defnyddio er eu cynnaliaeth, fel y cyfarwyddo yr Arglwydd hwynt, canys hyn sydd yn dda yn fy ngolwg i. A phawb sydd heb deuluoedd, ac a dderbyniont arian, anfonent hwynt i fyny i Esgob Seion, neu i'r Esgob yn Ohio, fel y byddo iddynt gael eu cyssegru i ddwyn allan y dadguddiadau a'u hargraffu hwynt, ac i sefydlu Seion.

19. Ac os bydd i ryw ddyn roddi i chwi wisg, neu bâr o ddillad, cymmerwch yr hen rai, a rhoddwch hwynt i'r tlodion, ac ewch i'ch ffordd yn llawen. Ac os bydd rhyw ddyn yn eich plith chwi yn gryf yn yr Ysbryd, cymmered gydag ef yr hwn sydd yn wàn, fel y byddo iddo gael ei adeiladu yn mhob addfwynder, ac fel y delo ef yn gryf hefyd.

20. Gan hyny, cymmerwch gyda chwi y rhai a ordeiniwyd i'r offeiriadaeth leiaf, ac anfonwch hwynt o'ch blaen i wneyd penodiadau, ac i barotôi y ffordd, ac i lanw y penodiadau ag ydych chwi eich hunain yn analluog i'w llanw. Wele, hon yw

y ffordd y darfu i'm hapostolion, yn yr hen ddyddiau gynt, adeiladu fy eglwys i fyny i mi.

21. Gan hyny, bydded i bob dyn sefyll yn ei swydd ei hun, a llafurio yn ei alwedigaeth ei hun; ac na fydded i'r pen ddywedyd wrth y traed, nad yw mewn anghen am y traed, canys heb y traed pa fodd y dichon y corff sefyll? Hefyd, mae y corff mewn anghen o bob aelod, fel y byddo i bawb gael eu cyd-adeiladu, ac fel y byddo i'r corff gael ei gadw yn berffaith.

22. Ac wele yr arch-offeiriaid a ddylent deithio, ac hefyd yr henuriaid, ac hefyd yr offeiriaid lleiaf; ond y diaconiaid a'r dysgawdwyr a ddylent gael eu penodi i wylio dros yr eglwys, i fod yn weinidogion sefydlog i'r eglwys.

23. A'r Esgob, Newel K. Whitney, hefyd a ddylai deithio o amgylch ogylch ac yn mhlith yr holl eglwysi, gan chwilio ar ol y tlawd, i weinyddu i'w hanghenrheidiau, trwy ddarostwng y cyfoethog a'r balch; efe a ddylai hefyd ddefnyddio dirprwywr i gymmeryd gofal a gwneuthur ei waith tymmorol fel y byddo ef yn cyfarwyddo; er hyny, cled yr esgob i ddinas Caerefrog Newydd, hefyd i ddinas Albany, ac hefyd i ddinas Boston, a rhybyddied bobl y dinasoedd hyny â swn yr efengyl, gyda llef uchel, am yr anghyfannedd-dra a'r dinystr hollol sydd yn eu dysgwyl os gwrthodant y pethau hyn; canys os bydd iddynt wrthod y pethau hyn, y mae awr eu barnedigaeth yn agos, a'u tŷ a adewir iddynt yn anghyfannedd. Bydded iddo ymddiried ynof fi, ac ni chaiff ei gywilyddio; ac ni chaiff blewyn o'i ben syrthio i'r llawr yn ddisylw.

24. Ac yn wir meddaf i chwi, y rhai ereill o'm gweision, ewch chwi allan fel y byddo eich amgylchiadau yn caniatâu, yn eich gwahanol alwedigaethau, i'r dinasoedd a'r pentrefi mawrion a nodedig, gan argyhoeddi y byd mewn cyfiawnder am eu holl anghyfiawnderau a'u gweithredoedd annuwiol, gan osod allan yn eglur a deallus anghyfannedd-dra y ffieidd-dra yn y dyddiau diweddaf; canys, â chwi, medd yr Arglwydd Hollalluog, y rhwygaf eu teyrnasoedd! Myfi nid yn unig a ysgydwaf y ddaear, ond y nefoedd serenog hefyd a gânt grynu; canys myfi, yr Arglwydd, a estynais allan fy llaw i gynhyrfu nerthoedd y nef; nis gellwch ei weled yn awr, ond yn mhen ychydig etto chwi a'i canfyddwch, a gwybod fy mod i, ac y deuaf i lywod-

raethu gyda'm pobl. Myfi wyf Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. Amen.

DOSRAN V.

Cofnodau o Gydgorfforiad Uchel Gynghor Eglwys Crist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Kirtland, Chwefror 17, 1834.

1. Y dydd hwn, cynghor cyffredinol o bedwar ar hugain o arch-offeiriaid a ymgynnullodd yn nhŷ Joseph Smith, ieu., trwy ddadguddiad, ac a drefnasant fesurau i gydgorffori Uchel Gynghor Eglwys Crist, yr hwn sydd i gynnwys deuddeg o arch-offeiriaid, ac un neu dri o lywyddion, fel y byddo yr achos yn gofyn. Yr uchel gynghor a benodwyd trwy ddadguddiad, i'r dyben o benderfynu anhawsderau pwysfawr a allent gyfodi yn yr eglwys, y rhai nis gellent gael eu penderfynu gan yr eglwys neu gynghor yr esgobion, er boddlonrwydd i'r pleidiau.

2. Joseph Smith, ieu., Sidney Rigdon, a Frederick G. Williams, a addefwyd yn llywyddion trwy lais y cynghor; a Joseph Smith, hen., John Smith, Joseph Coe, John Johnson, Martin Harris, John S. Carter, Jared Carter, Oliver Cowdery, Samuel H. Smith, Orson Hyde, Sylvester Smith, a Luke Johnson, arch-offeiriaid, a ddewiswyd i fod yn gynghor sefydlog i'r eglwys, trwy lais unfrydol y cynghor. Yna gofynwyd i'r cynghorwyr rhag-grybwylledig pa un a dderbynient eu penodiadau, a pha un a fyddai iddynt weithredu yn y swydd hono yn unol â chyfraith y nef; i'r hyn yr atebasant oll, eu bod yn derbyn eu penodiadau, ac y byddai iddynt lanw eu swyddau yn ol gras Duw a gyfranwyd iddynt.

3. Y nifer a gyfansoddai y cynghor, y rhai a roddasant eu llais yn enw a thros yr eglwys, yn mhenodiad y cynghorwyr rhag-grybwylledig, oedd dri a deugain, fel y canlyn:—Naw arch-offeiriad, dau ar bymtheg o henuriaid, pedwar o offeiriaid, a thri ar ddeg o aelodau.

4. Cytunwyd,—Nas gall yr uchel gynghor gael awdurdod i weithredu heb fod saith o'r cynghorwyr rhag-grybwylledig, neu eu canlynwyr wedi eu penodi yn rheolaidd, yn bresennol. Y saith hyn a gânt awdurdod i benodi arch-offeiriaid ereill, a ystyriant hwy yn deilwng ac yn alluog i weithredu yn lle cynghorwyr absennol.

5. Cytunwyd,—Pryd bynag y byddo gwagle yn dygwydd trwy farwolaeth, symudiad o swydd o herwydd troseddiad, neu symudiad o gyffiniau y llywodraeth eglwysig hon, o un o'r cynghorwyr rhag-grybwylledig, caiff ei lanw trwy benodiad y llywydd neu lywyddion, a'i gadarnhau trwy lais cynghor cyffredinol o arch-offeiriaid, wedi ei gynnull i'r dyben hwnw, i weithredu yn enw yr eglwys.

6. Llywydd yr eglwys, yr hwn hefyd yw llywydd y cynghor, a benodir trwy ddadguddiad, ac a gydnabyddir yn ei weinyddiaeth, trwy lais yr eglwys; ac y mae yn unol ag urddasoldeb ei swydd ef iddo lywyddu ar uchel gynghor yr eglwys; a'i ragorfraint ef yw iddo gael ei gynnorthwyo gan ddau o lywyddion ereill, wedi eu penodi yn yr un modd ag y cafodd ef ei hun ei benodi; ac mewn achos o absennoldeb un neu y ddau o'r rhai a benodwyd i'w gynnorthwyo, bydd ganddo awdurdod i lywyddu dros y cynghor heb un cynnorthwywr; ac os bydd ef ei hun yn absennol, bydd gan y llywyddion ereill awdurdod i lywyddu yn ei le, y ddau, neu un o honynt.

7. Pa bryd bynag y byddo uchel gynghor o eglwys Crist wedi ei gydgorffori yn rheolaidd, yn unol â'r cynllun blaenorol, bydd yn ddyledswydd ar y deuddeg cynghorwr i fwrw coelbrenau trwy rifedi, ac felly mynu gwybod pa un o'r deuddeg sydd i lefaru yn gyntaf, gan ddechreu â nifer un, ac felly yn mlaen yn olynol hyd nifer deuddeg.

8. Pryd bynag yr ymgynnullo y cynghor hwn i weithredu ar unrhyw achos, bydd i'r deuddeg cynghorwr ystyried pa un a yw yn achos anhawdd ai nad yw; os nad yw, dau yn unig o'r cynghorwyr a gant lefaru arno, yn ol y cynllun rhag-ysgrifenedig. Ond os meddylir ei fod yn anhawdd, bydd i bedwar gael eu penodi; ac os yn dra anhawdd, chwech; ond nid oes, mewn unrhyw achos, i fwy nâ chwech gael eu penodi i lefaru. Y cyhuddedig, yn mhob achos, sydd â hawl i un hanner o'r cynghor, i rwystro sarhad neu anghyfiawnder; a'r cynghorwyr a benodir i lefaru gerbron y cynghor, ydynt i gyflwyno yr achos, ar ol holi y dystiolaeth, yn ei liw gwirioneddol, gerbron y cynghor, a phob dyn sydd i lefaru yn ol uniondeb a chyfiawnder. Y cynghorwyr hyny a dynant rifedi cyfnifer, hyny yw 2, 4, 6, 8, 10, a 12, ydynt y rhai sydd i sefyll i fyny o blaid y cyhuddedig, i rwystro sarhad neu anghyfiawnder.

9. Yn mhob achosion, y cyhuddwr a'r cyhuddedig a gant y ragorfraint o lefaru drostynt eu hunain gerbron y cynghor, ar ol i'r tystiolaethau gael eu clywed, ac wedi i'r cynghorwyr a benodwyd i lefaru ar yr achos, orphen eu sylwadau. Wedi i'r tystiolaethau gael eu clywed, ac i'r cynghorwyr, ynghyd â'r cyhuddwr a'r cyhuddedig lefaru, bydd i'r llywydd roddi penderfyniad yn unol â'r ddealltwriaeth a gafodd ef am yr achos, a galw ar y deuddeg cynghorwr i gadarnhau y cyfryw trwy eu llais. Ond os bydd i'r cynghorwyr ereill, y rhai fyddant heb lefaru, neu ryw un o honynt, wedi gwrandaw ar y tystiolaethau a'r dadleuon yn anmhleidiol, ganfod rhyw gamsyniad yn mhenderfyniad y llywydd, gallant ei amlygu, a'r achos a gaiff ail wrandawiad; ac os, wedi ail wrandawiad gofalus, bydd i ryw oleuni ychwanegol gael ei daflu ar yr achos, bydded i'r penderfyniad gael ei newid yn unol â hyny; ond os na fydd i oleuni ychwanegol gael ei roddi, y penderfyniad cyntaf a gaiff sefyll, a bydd gan fwyrif y cynghor awdurdod i benderfynu yr unrhyw.

10. Mewn achosion o anhawsdra, mewn perthynas i athrawiaeth neu egwyddor (os na fydd digon yn ysgrifenedig i wneyd yr achos yn eglur i feddyliau y cynghor), gall y llywydd ymofyn a chael meddwl Duw trwy ddadguddiad.

11. Yr arch-offeiriaid, pan oddicartref, sydd ag awdurdod i alw a chorffoli cynghor yn ol y cynllun blaenorol, i benderfynu anhawsderau, pan fyddo y pleidiau, neu un o honynt, yn gofyn hyny; a'r dywededig gynghor o arch-offeiriaid a gaiff awdurdod i benodi un o'u nifer, i lywyddu ar y cyfryw gynghor dros yr amser hwnw. Bydd yn ddyledswydd ar y cynghor rhagddywededig i anfon yn ddioed, gopi o'u gweithrediadau, ynghyd ag adroddiad cyflawn o'r dystiolaeth gydfynedol â'u penderfyniad, i uchel gynghor eisteddle llywyddiaeth uchaf yr eglwys. Os bydd y pleidiau, neu un o honynt, yn anfoddlawn i benderfyniad y cynghor crybwylledig, gallant apelio at uchel gynghor eisteddle llywyddiaeth uchaf yr eglwys, a chael ail-wrandawiad, a bydd i'r achos gael ei ddwyn yn mlaen yno yn ol y cynllun rhag-ysgrifenedig blaenorol, fel pe na fuasai un penderfyniad wedi cael ei wneuthur.

12. Nid yw y cynghor hwn o arch-offeiriaid oddicartref, i gael ei alw ond yn unig ar yr achosion mwyaf anhawdd o faterion eglwysig; ac nid oes i un achos cyffredin neu arferol, fod

yn ddigonol i alw y cyfryw gynghor.—Yr arch-offeiriaid teithiol a sefydlog oddicartref, ydynt ag awdurdod i ddywedyd pa un a yw yn anghenrheidiol galw y cyfryw gynghor neu beidio.

13. Mae gwahaniaeth rhwng uchel gynghor yr arch-offeiriaid teithiol oddicartref, a'r uchel gynghor teithiol cyfansoddedig o'r deuddeg apostol, yn eu penderfyniadau. Gall fod apeliad oddiwrth benderfyniad y blaenaf, ond oddiwrth benderfyniad yr olaf nid oes un apeliad. Nis gall yr olaf gael ei ammheu ond gan awdurdodau cyffredinol yr eglwys mewn achos o droseddiad.

14. Penderfynwyd, fod gan lywydd neu lywyddion eisteddle llywyddiaeth uchaf yr eglwys, awdurdod i benderfynu pa un a fydd unrhyw achos yr apelir yn ei gylch, yn cyfiawn haeddu ail-wrandawiad, ar ol chwilio yr apeliad, a'r tystiolaethau a'r adroddiadau cydfynedol ag ef.

15. Yna y deuddeg cynghorwr a aethant yn mlaen i fwrw coelbrenau, i gael gwybod pwy a lefarai gyntaf, a dyma y canlyniad, sef,—

1 Oliver Cowdery,	7 John Johnson,
2 Joseph Coe,	8 Orson Hyde,
3 Samuel H. Smith,	9 Jared Carter,
4 Luke Johnson,	10 Joseph Smith, Hen.,
5 John S. Carter,	11 John Smith,
6 Sylvester Smith,	12 Martin Harris.

Wedi gweddi, y gynnadledd a addoedodd.

Oliver Cowdery, } *Ysgrifenyddion.*
Orson Hyde, }

DOSRAN VI.

Dadguddiad yn egluro Dammeg y Gwenith a'r Efrau, Rhagfyr 6, 1832.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy ngweision, am ddammeg y gwenith a'r efrau. Wele, yn wir meddaf, y maes oedd y byd, a'r apostolion oeddynt hauwyr yr had; ac wedi iddynt hwy fyned i gysgu, erlidiwr mawr yr eglwys, y gwrthgiliwr, y butain, ïe, Babilon, yr hon sydd yn gwneuthur pob cenedloedd i yfed o'i chwpan, yn nghalonau y

rhai y mae y gelyn, hyd y nod Satan, yn eistedd i deyrnasu. Wele, efe sydd yn hau yr efrau, o herwydd paham y mae yr efrau yn tagu y gwenith, ac yn erlid yr eglwys i'r anialwch.

2. Ond wele, yn y dyddiau diweddaf, ïe, yn awr, pan y mae yr Arglwydd yn dechreu dwyn allan y gair, ac y mae yr eginyn yn tarddu i fyny ac etto yn dyner. Wele, yn wir meddaf i chwi, yr angylion ydynt yn llefain ar yr Arglwydd ddydd a nos, y rhai ydynt yn barod ac yn dysgwyl cael eu hanfon allan i fedi i lawr y maesydd; ond yr Arglwydd a ddyweda wrthynt, Na thynwch i fyny yr efrau tra y mae yr eginyn etto yn dyner (canys yn wir eich ffydd sydd wàn), rhag i chwi ddystrywio y gwenith hefyd. Gan hyny gadewch i'r gwenith a'r efrau gyddyfu hyd oni fyddo y cynauaf wedi cyflawn addfedu, yna chwi a gasglwch y gwenith allan yn gyntaf o blith yr efrau; ac wedi casglu y gwenith, wele, a llyna! yr efrau a rwymir ynghyd, a'r maes a adewir i'w losgi.

3. Gan hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, gyda pha rai y parhaodd yr offeiriadaeth trwy linach eich teidiau, canys chwi ydych etifeddion cyfreithlawn, yn ol y cnawd, ac y mae wedi bod yn guddiedig oddiwrth y byd gyda Christ yn Nuw; gan hyny y mae eich bywyd chwi a'r offeiriadaeth wedi aros, ac o anghenrheidrwydd i aros, trwoch chwi a'ch llinach, hyd adferiad pob peth, am yr hwn y llefarwyd trwy eneuau yr holl brophwydi santaidd er dechreuad y byd.

4. Gan hyny, gwyn eich byd os parhewch yn fy naioni, yn oleuni i'r Cenedloedd; a thrwy yr offeiriadaeth hon, yn iachawdwr i fy mhobl Israel. Yr Arglwydd a'i dywedodd. Amen.

DOSRAN VII.

Dadguddiad a roddwyd Rhagfyr 27, 1832.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi sydd wedi ymgynnull ynghyd i dderbyn ei ewyllys am danoch chwi. Wele, hyfryd yw hyn yn ngolwg yr Arglwydd, a'r angylion a lawenychant drosoch chwi; clusenau eich gweddiau a ddaethant i fyny i glustiau Arglwydd y Sabaoth, ac y maent wedi eu cofnodi yn llyfr enwau y santeiddiedig; ïe, rhai y byd nefolaidd. O herwydd paham, yr wyf yn awr yn anfon arnoch chwi ddy-

ddanydd arall, ïe, arnoch chwi, fy nghyfeillion, fel yr aroso yn eich calonau, ïe, Glân Ysbryd yr addewid; a'r dyddanydd arall ag wyf fi wedi addaw i'm dyscyblion, yw yr un ag a hysbyswyd yn nhystiolaeth Ioan.

2. Y dyddanydd hwn yw yr addewid ag wyf yn roddi i chwi o fywyd tragywyddol; ïe, gogoniant y deyrnas nefol: yr hwn ogoniant yw hwnw o eiddo eglwys y cyntaf-anedig; ïe, eiddo Duw y santeiddiolaf o bawb, trwy Grist Iesu ei Fab: efe yr hwn a esgynodd i'r uchelder, fel hefyd y disgynodd islaw pob peth; yn gymmaint â'i fod yn amgyffred pob peth, fel y byddai ef yn mhob a thrwy bob peth, yn oleuni y gwirionedd; yr hwn oleuni sydd yn llewyrchu. Hwn yw goleuni Crist. Fel hefyd y mae efe yn yr haul, ac yn oleuni yr haul, a'r gallu trwy yr hwn y gwnaed ef. Fel hefyd y mae efe yn y lloer, ac yn oleuni y lloer, a'r gallu trwy yr hwn y gwnaed hi. Fel hefyd yn oleuni y sêr, a'r gallu trwy yr hwn y gwnaed hwynt. A'r ddaear hefyd, a'i gallu; ïe, y ddaear ar ba un yr ydych chwi yn sefyll.

3. A'r goleuni sydd yr awr hon yn llewyrchu, yr hwn a rodda i chwi oleuni, sydd trwyddo ef sydd yn goleuo eich llygaid chwi, yr hwn yw yr un goleuni ag sydd yn bywiocâu eich dealltwriaeth; yr hwn oleuni sydd yn dyfod allan oddiwrth bresennoldeb Duw i lanw yr holl eangder anfeidrol. Y goleuni ag sydd yn mhob peth; yr hwn sydd yn rhoddi bywyd i bob peth; yr hwn yw y gyfraith yn ol pa un y mae pob peth yn cael eu llywodraethu; ïe, gallu Duw yr hwn sydd yn eistedd ar ei orsedd, yr hwn sydd yn mynwes tragywyddoldeb, yr hwn sydd yn nghanol pob peth.

4. Yn awr, yn wir meddaf i chwi, mai trwy y brynedigaeth a wnaed i chwi y dygir oddiamgylch yr adgyfodiad oddiwrth y meirw. A'r ysbryd a'r corff yw enaid dyn. A'r adgyfodiad oddiwrth y meirw yw prynedigaeth yr enaid; a phrynedigaeth yr enaid sydd trwyddo ef sydd yn bywhau pob peth, yn mynwes yr hwn yr arfaethwyd fod i rai tlodion a llariaidd y ddaear ei hetifeddu. Gan hyny rhaid iddi gael ei santeiddio oddiwrth bob anghyfiawnder, fel y parotöer hi i'r gogoniant nefol; canys wedi iddi lanw mesur ei chreadigaeth, caiff ei choroni â gogoniant, ïe, â phresennoldeb Duw y Tad; fel y byddo i gyrff ag ydynt o'r deyrnas nefol ei meddiannu yn oes oesoedd; canys

i'r dyben hwn y gwnaed ac y crewyd hi, ac i'r dyben hwn y santeiddir hwynt.

5. A hwynt-hwy nad ydynt wedi eu santeiddio trwy y gyfraith ag wyf fi wedi roddi i chwi, sef cyfraith Crist, a raid etifeddu teyrnas arall, sef teyrnas ddaearol, neu deyrnas danddaearol. Canys yr hwn nis dichon oddef cyfraith teyrnas nefol, nis dichon oddef gogoniant nefol; a'r hwn nis dichon oddef cyfraith teyrnas ddaearol, nis dichon oddef gogoniant daearol; a'r hwn nis dichon oddef cyfraith teyrnas dan-ddaearol, nis dichon oddef gogoniant tan-ddaearol; gan hyny nid yw ef yn addas i deyrnas o ogoniant. Gan hyny rhaid iddo oddef teyrnas yr hon nid yw yn deyrnas o ogoniant.

6. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, mae y ddaear yn goddef cyfraith teyrnas nefol, canys y mae yn llanw mesur ei chreadigaeth, ac nid yw yn troseddu y gyfraith. Gan hyny, hi a santeiddir; ïe, er y bydd iddi farw, hi a fywheir drachefn, a chaiff oddef y gogoniant trwy yr hwn y bywheir hi, a'r cyfiawn a gaiff ei hetifeddu; canys er eu bod hwy yn marw, cant gyfodi drachefn yn gorff ysbrydol: hwynt-hwy ag ydynt o ysbryd nefol, a dderbyniant yr un corff, yr hwn oedd yn gorff naturiol; ïe, chwi a dderbyniwch eich cyrff, a'ch gogoniant a fydd y gogoniant hwnw trwy yr hwn y bywheir eich cyrff chwi. Chwi y rhai a fywheir trwy gyfran o'r gogoniant nefol, y pryd hwnw a dderbyniwch o'r unrhyw, ïe, gyflawnder; a hwynt-hwy y rhai a fywheir trwy gyfran o'r gogoniant daearol, y pryd hwnw a dderbyniant o'r unrhyw, ïe, gyflawnder; ac hefyd hwynt-hwy y rhai a fywheir trwy gyfran o'r gogoniant tan-ddaearol, y pryd hwnw a dderbyniant o'r unrhyw, ïe, gyflawnder; a hwynt hwy a arosant a gant hefyd eu bywhau; er hyny hwy a ddychwelant drachefn i'w lle eu hunain, i fwynhau yr hyn y maent yn foddlawn ei dderbyn, o herwydd nad oeddynt yn foddlawn mwynhau yr hyn a allasent dderbyn.

7. Canys pa leshad i ddyn os cynnygir rhodd iddo, ac iddo yntau beidio derbyn y rhodd? Wele, nid yw efe yn llawenhau yn yr hyn a roddir iddo, ac ni lawenha ychwaith ynddo ef yr hwn yw rhoddwr y rhodd.

8. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, yr hyn a lywodraethir gan gyfraith, a gynnelir hefyd gan gyfraith, ac a berffeithir ac a santeiddir gan yr un. Yr hyn sydd yn tòri cyfraith, ac nid

arosa yn ol cyfraith, ond a geisia ddyfod yn gyfraith iddo ei hun, ac a ewyllysia aros mewn pechod, ac a arosa yn hollol mewn pechod, nis dichon gael ei santeiddio trwy gyfraith, nac ychwaith trwy drugaredd, cyfiawnder, na barn. Gan hyny rhaid iddynt aros yn aflan etto.

9. Pob teyrnas sydd â chyfraith wedi ei rhoddi: ac y mae llawer o deyrnasoedd; canys nid oes un eangder yn yr hwn nid oes deyrnas; ac nid oes un deyrnas yn yr hon nid oes eangder, naill ai teyrnas fwy neu lai. Ac i bob teyrnas y rhoddwyd cyfraith; ac i bob cyfraith y mae hefyd derfynau penodol ac ammodau.

10. Pob bodau nad arosant yn yr ammodau hyny, ni chyfiawnheir hwynt; canys dealltwriaeth a ymlyna wrth ddealltwriaeth; doethineb a dderbynia ddoethineb; gwirionedd a gofleidia wirionedd; rhinwedd a gara rinwedd; goleuni a ymlyna wrth oleuni; trugaredd a dosturia wrth drugaredd, ac a hòna ei heiddo ei hun; cyfiawnder a ddilyna ei gwrs, ac a hòna ei eiddo ei hun; barn a â o flaen wyneb yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, ac a lywodraetha ac a gyflawna bob peth; mae ef yn amgyffred pob peth, a phob peth sydd ger ei fron ef, a phob peth sydd oddiamgylch ogylch iddo; ac y mae efe uwchlaw pob peth, ac yn mhob peth, a thrwy bob peth, ac y mae oddiamgylch pob peth; a phob peth sydd trwyddo ef, ac erddo ef, sef Duw, yn oes oesoedd.

11. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, y mae efe wedi rhoddi cyfraith i bob peth, trwy yr hon y maent yn symud yn eu hamserau a'u tymmorau; a'u gyrfaoedd ydynt wedi eu sefydlu; sef gyrfaoedd y nefoedd a'r ddaear, y rhai a gynnwysant y ddaear a'r holl blanedau; a rhoddant oleuni i'w gilydd yn eu hamserau ac yn eu tymmorau, yn eu mynydau, yn eu horiau, yn eu dyddiau, yn eu hwythnosau, yn eu misoedd, yn eu blynyddoedd: yr holl rai hyn ydynt un flwyddyn gyda Duw, ond nid gyda dyn.

12. Y ddaear a dreigla ar ei hadenydd, a'r haul a rodda ei oleuni y dydd, a'r lleuad a rodda ei goleuni y nos, a'r sêr hefyd a roddant eu goleuni, fel y treiglant ar eu hadenydd yn eu gogoniant, yn nghanol gallu Duw. I ba beth y cyffelybaf y teyrnasoedd hyn, fel y dealloch? Wele, yr holl rai hyn ydynt deyrnasoedd, a pha ddyn bynag sydd wedi gweled un neu y

leiaf o honynt, a welodd Dduw yn symud yn ei fawredd a'i allu. Yr wyf yn dywedyd i chwi, y mae wedi ei weled ef; er hyny, efe yr hwn a ddaeth at yr eiddo ei hun, ni chafodd ei amgyffred. Y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, ond nid yw y tywyllwch yn ei amgyffred; er hyny, y mae y dydd yn dyfod pan fydd i chwi amgyffred hyd y nod Duw; gan gael eich bywhau ynddo ef a thrwyddo ef. Yna yr adnabyddwch i chwi fy ngweled i, fy mod i, ac mai myfi yw y gwir oleuni sydd ynoch chwi, a'ch bod chwi ynof fi, onite nis gallech amlhau.

13. Wele, mi a gyffelybaf y teyrnasoedd hyn i ddyn a chanddo faes, ac efe a anfonodd ei weision i'r maes i gloddio yn y maes; ac efe a ddywedodd wrth y cyntaf, Dos di a gweithia yn y maes, ac yn yr awr gyntaf mi a ddeuaf atat, a thi a gai weled llawenydd fy wynebpryd; ac efe a ddywedodd wrth yr ail, Dos dithau hefyd i'r maes, ac yn yr ail awr mi a ymwelaf â thi â llawenydd fy wynebpryd; ac hefyd wrth y trydydd, gan ddywedyd, Mi a ymwelaf â thi; ac wrth y pedwerydd, ac felly yn y blaen hyd y deuddegfed.

14. Ac arglwydd y maes a aeth at y cyntaf yn yr awr gyntaf, ac a arosodd gydag ef yr holl awr hòno, ac efe a wnaed yn llawen â goleuni wynebpryd ei arglwydd; yna efe a aeth ymaith oddiwrth y cyntaf, fel y gellai ymweled â'r ail hefyd, a'r trydydd, a'r pedwerydd, ac felly yn y blaen hyd y deuddegfed; ac felly hwy oll a dderbyniasant oleuni wynebpryd eu harglwydd; pob un yn ei awr, ac yn ei amser, ac yn ei dymmor; gan ddechreu ar y cyntaf, ac felly yn y blaen hyd yr olaf, ac oddiwrth yr olaf at y cyntaf, ac oddiwrth y cyntaf hyd yr olaf; pob un yn ei dro ei hun, hyd ddiwedd ei awr, sef yn ol fel y gorchymynasai ei arglwydd iddo, fel y byddai i'w arglwydd gael ei ogoneddu ynddo ef, ac efe ynddo yntau, fel y byddai iddynt oll gael eu gogoneddu.

15. Gan hyny, i'r ddammeg hon y cyffelybaf yr holl deyrnasoedd hyn, ynghyd â'u trigolion; pob teyrnas yn ei hawr, ac yn ei hamser, ac yn ei thymmor; sef yn ol y gorchymyn a wnaed gan Dduw.

16. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, fy nghyfeillion, yr wyf yn gadael y geiriau hyn gyda chwi, i'w hystyried yn eich calonau gyda'r gorchymyn hwn a roddaf i chwi, Gelwch arnaf

fi tra fyddwyf yn agos; dyneswch ataf fi, a mi a agosâf atoch chwithau; ceisiwch fi yn ddyfal, a chwi a'm cewch; gofynwch, a chwi a dderbyniwch; curwch, ac fe agorir i chwi; beth bynag a ofynoch gan y Tad yn fy enw i, a roddir i chwi, ag sydd yn llesol i chwi; ac os bydd i chwi ofyn rhyw beth nad yw yn llesol i chwi, bydd iddo droi er eich condemniad.

17. Wele yr hyn ydych yn ei glywed sydd fel llais un yn llefain yn yr anialwch,—yn yr anialwch, o herwydd nas gellwch ei weled ef,—fy llais, o herwydd fy llais sydd ysbryd; fy ysbryd sydd wirionedd; gwirionedd a erys, ac nid oes iddo ddiwedd; ac os yw ynoch chwi, efe a amlheir.

18. Ac os bydd eich llygad yn unig at fy ngogoniant i, eich holl gyrff a lenwir â goleuni, ac ni fydd dim tywyllwch ynoch, a'r corff hwnw ag sydd wedi ei lanw â goleuni sydd yn amgyffred pob peth. Gan hyny, santeiddiwch eich hunain, fel y delo eich meddyliau yn unig at Dduw, a'r dyddiau a ddeuant pan gewch ei weled ef; canys efe a ddadlena ei wyneb i chwi, a bydd hyny yn ei amser ei hun, ac yn ei ffordd ei hun, ac yn ol ei ewyllys ei hun.

19. Cofiwch yr addewid fawr ac olaf a wnaethym i chwi; teflwch ymaith eich meddyliau ofer a'ch gormod chwerthin yn mhell oddiwrthych; aroswch chwi, aroswch chwi yn y lle hwn, a gelwch gymmanfa ddifrifol, sef o'r rhai hyny ag ydynt y llafurwyr cyntaf yn y deyrnas olaf hon; a bydded i'r rhai hyny ag ydynt hwy wedi eu rhybyddio yn eu teithiau, alw ar yr Arglwydd, ac ystyried yn eu calonau y rhybydd a dderbyniasant dros dymmor bychan. Wele, a llyna! myfi a ofalaf am eich deadelloedd, a chyfodaf i fyny henuriaid, ac anfonaf atynt hwy.

20. Wele, myfi a frysiaf fy ngwaith yn ei amser; ac yr wyf yn rhoddi i chwi, y rhai ydych y llafurwyr cyntaf yn y deyrnas olaf hon, orchymyn ar fod i chwi ymgynnull ynghyd, a chorffoli eich hunian, a pharotôi eich hunain, a santeiddio eich hunain; ïe, puro eich calonau, a glanhau eich dwylaw a'ch traed ger fy mron i, fel y byddo i mi eich gwneyd yn lân; fel y byddo i mi dystiolaethu wrth eich Tad, a'ch Duw chwi, a'm Duw i, eich bod yn lân oddiwrth waed y genedlaeth ddrygionus hon; fel y byddo i mi gyflawni yr addewid hon, yr addewid fawr ac olaf hon, a wnaethym i chwi, pan yr ewyllysiwyf.

21. Hefyd, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, ar fod i chwi barhau mewn gweddi ac ympryd o'r amser hwn allan. Ac yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, ar fod i chwi ddysgu eich gilydd yn athrawiaeth y deyrnas; dysgwch chwi yn ddiwyd, a'm gras i a'ch dilyna chwi, fel y byddo i chwi gael eich hyfforddi yn fwy perffaith mewn gwybodaeth, mewn egwyddor, mewn athrawiaeth, yn nghyfraith yr efengyl, yn yr holl bethau a berthynant i deyrnas Dduw, ag sydd yn fuddiol i chwi eu deall; am bethau yn y nef, ac yn y ddaear, a than y ddaear; pethau a fu, pethau y sydd, pethau a raid yn fuan ddyfod oddiamgylch; pethau sydd gartref, pethau sydd oddicartref; rhyfeloedd a chythrybliadau y cenedloedd, a'r barnedigaethau sydd ar y tir, a gwybodaeth hefyd o wledydd ac o deyrnasoedd, fel y byddoch yn barod yn mhob peth pan anfonwyf chwi etto i fawrhau yr alwedigaeth i'r hon y'ch gelwais chwi, a'r genadwri â'r hon y'ch awdurdodais chwi.

22. Wele, anfonais chwi i dystiolaethu a rhybyddio y bobl, a gweddus i bob dyn a rybyddiwyd, yw rhybyddio ei gymydog. Gan hyny, gadawir hwynt yn ddiesgus, ac y mae eu pechodau ar eu penau eu hunain. Yr hwn a'm ceisia i yn foreu a'm caiff, ac ni adewir ef.

23. Gan hyny, aroswch chwi, a llafuriwch yn ddiwyd, fel y perffeithier chwi yn eich gweinidogaeth i fyned allan i blith y Cenedloedd am y tro diweddaf, cynnifer ag a enwo genau yr Arglwydd, i rwymo i fyny y gyfraith, a selio i fyny y dystiolaeth, ac i barotôi y saint erbyn awr y farnedigaeth yr hon sydd i ddyfod; fel y diango eu heneidiau rhag llid Duw, anghyfannedd-dra y ffieidd-dra sydd yn aros y drygionus, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Yn wir, meddaf i chwi, bydded i'r rhai nad ydynt yn henuriaid cyntaf, aros yn y winllan hyd oni alwo genau yr Arglwydd hwynt, canys nid yw eu hamser wedi dyfod etto; nid yw eu gwisgoedd yn lân oddiwrth waed y genedlaeth hon.

24. Aroswch chwi yn y rhyddid â'r hwn y'ch gwnaed yn rhyddion; nac ymddyryswch mewn pechod, ond bydded eich dwylaw yn lân, hyd ddyfodiad yr Arglwydd, canys mewn ychydig ddyddiau etto a'r ddaear a gryna, ac a delgyna fel meddwyn; a'r haul a guddia ei wyneb, ac a attalia roddi goleuni, a'r lleuad a drochir mewn gwaed, â'r sêr a ânt yn dra

digllawn, ac a daflant eu hunain i lawr fel ffigysen yn syrthio oddiar ffigyswydden.

25. Ac ar ol eich tystiolaeth chwi y daw llid a digllonedd ar y bobl; canys ar ol eich tystiolaeth chwi y daw tystiolaeth daeargrynfeydd, y rhai a barant riddfanau yn ei chanol hi, a dynion a syrthiant ar y ddaear, ac nis gallant sefyll. Ac hefyd daw tystiolaeth llais taranau, a llais mellt, a llais tymhestloedd, a llais tònau y môr, yn taflu eu hunain dros eu terfynau. A bydd pob peth yn ymderfysgu; ac, yn ddiau, calonau dynion a fethant ynddynt; canys ofn a ddaw ar y bobl; ac angylion a ehedant trwy ganol y nef, yn bloeddio â llef uchel, gan seinio udgorn Duw, a dywedyd, Ymbarotowch chwi, ymbarotowch chwi, O drigolion y ddaear; canys barnedigaeth ein Duw ni a ddaeth: wele, a llyna! mae y Priodfab yn dyfod, ewch allan i'w gyfarfod ef.

26. Ac yn ddiattreg yr ymddangosa arwydd mawr yn y nef, a'r holl bobl a'i gwelant ynghyd. Ac angel arall a seinia ei udgorn, gan ddywedyd, Yr eglwys fawr hòno, mam pob ffieiddra, yr hon a wnaeth i'r holl genedloedd yfed o win digofaint ei phuteindra, yr hon sydd yn erlid saint Duw, ac a dywalltodd eu gwaed hwynt; yr hon sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer, ac ar ynysoedd y môr; wele, hon yw efrau y ddaear, rhwymwyd hi yn ysgubau, ei rhwymau a wnaed yn gryfion, nid oes un dyn a'u dettyd hwy; gan hyny, y mae yn barod i'w llosgi. Ac efe a seinia ei udgorn yn hir ac yn uchel, a'r holl genedloedd a'i clywant ef.

27. A bydd dystawrwydd yn y nef dros yspaid hanner awr, ac yn ddiattreg wedi hyny llèn y nef a ddadblygir, fel y dadblygir memrwn ar ol ei droi i fyny, ac wyneb yr Arglwydd a ddadlenir; a'r saint sydd ar y ddaear, y rhai byw, a newidir, ac a gipir i fyny i'w gyfarfod ef. A'r rhai a hunasant yn eu beddau a ddeuant allan; canys eu beddau a agorir, a hwythau hefyd a gipir i fyny i'w gyfarfod ef yn nghanol colofn y nef: eiddo Crist ydynt, y blaen-ffrwyth: hwynt-hwy y rhai a ddisgynant gydag ef gyntaf, a hwy y rhai ydynt ar y ddaear ac yn eu beddau, y rhai a gipir i fyny yn gyntaf i'w gyfarfod ef: a hyn oll trwy lais sain udgorn angel Duw.

28. Ac wedi hyn, angel arall a seinia, yr hwn yw yr ail udgorn; ac yna daw prynedigaeth y rhai ydynt eiddo Crist yn

ei ddyfodiad ef; y rhai a dderbyniasant eu rhan yn y carchar hwnw a barotöwyd iddynt, fel y byddai iddynt dderbyn yr efengyl, a chael eu barnu yn ol dynion yn y cnawd.

29. A thrachefn, udgorn arall a seinia, yr hwn yw y trydydd udgorn; ac yna daw ysbrydion dynion ag ydynt i'w barnu, ac a geir dan gondemniad; a'r rhai hyn ydynt y gweddill o'r meirw, ac ni fyddant byw mwyach hyd oni orphener y mil blynyddoedd, nac eilwaith, hyd ddiwedd y ddaear.

30. Ac udgorn arall a seinia, yr hwn yw y pedwerydd udgorn, gan ddywedyd, Cafwyd yn mhlith y rhai ag ydynt i aros hyd y dydd mawr ac olaf, sef y diwedd, y rhai a arosant yn aflan etto.

31. Ac udgorn arall a seinia, yr hwn yw y pummed udgorn, yr hwn yw y pummed angel a gyflwyna yr efengyl dragywyddol,—yn ehedeg trwy ganol y nef, at bob cenedl, llwyth, iaith, a phobl; a hyn a fydd sain ei udgorn ef, yn dywedyd wrth bob pobl, yn y nef ac yn y ddaear, ac sydd dan y ddaear; canys pob clust a'i clywa, a phob glin a blyga, a phob tafod a gyffesa, pan glywont sain yr udgorn, gan ddywedyd, Ofnwch Dduw, a rhoddwch ogoniant iddo ef, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, yn oes oesoedd; canys awr ei farnedigaeth ef a ddaeth.

32. A thrachefn, angel arall a seinia ei udgorn, yr hwn yw y chwechfed angel, gan ddywedyd, Hi a syrthiodd, yr hon a wnaeth i'r holl genedloedd yfed o win digofaint ei phuteindra: hi a syrthiodd! a syrthiodd!

33. A thrachefn, angel arall a seinia ei udgorn, yr hwn yw y seithfed angel, gan ddywedyd, Gorphenwyd! gorphenwyd! Oen Duw a orchfygodd, ac a sathrodd y gwinwryf ei hunan; ie, gwinwryf llidiogrwydd digofaint Duw Hollalluog; ac yna yr angylion a goronir â gogoniant ei allu, a'r saint a lenwir â'i ogoniant ef, ac a dderbyniant eu hetifeddiaeth, ac a wneir yn gyfartal ag ef.

34. Ac yna yr angel cyntaf drachefn a seinia ei udgorn, yn nghlustiau pawb byw, ac a ddadguddia weithredoedd dirgel dynion, a nerthol weithredoedd Duw yn y mil blynyddoedd cyntaf.

35. Ac yna yr ail angel a seinia ei udgorn, ac a ddadguddia ddirgel weithredoedd dynion, a meddyliau a bwriadau eu cal-

onau, a nerthol weithredoedd Duw yn yr ail fil blynyddoedd; ac felly yn y blaen, hyd oni fydd i'r seithfed angel seinio ei udgorn; ac efe a saif allan ar y tir ac ar y môr, a thynga yn enw yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, na fydd amser mwyach; a chaiff Satan ei rwymo, yr hen sarff hòno, yr hon a elwir y diafol, ac ni ollyngir ef dros yr yspaid o fil o flynyddoedd. Ac yna efe a ollyngir dros dymmor bychan, fel y cydgasgla ei fyddinoedd: a Michael, y seithfed angel, sef yr archangel, a gasgla ynghyd ei fyddinoedd, sef lluoedd y nef. A'r diafol a gasgla ynghyd ei fyddinoedd, sef lluoedd uffern, ac a ddaw i fyny i ryfela yn erbyn Michael a'i fyddinoedd; ac yna daw rhyfel y Duw mawr; a'r diafol a'i fyddinoedd a deflir ymaith i'w lle eu hunain, fel na chaffont awdurdod dros y saint fyth mwyach; canys Michael a ymladda eu brwydrau, ac a'i gorchfyga ef sydd yn ceisio gorsedd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, sef yr Oen. Hyn yw gogoniant Duw, a'r santeiddiedig; ac ni chant weled marwolaeth mwyach.

36. Gan hyny, yn wir meddaf i chwi, fy nghyfeillion, galwch eich cymmanfa santaidd, fel y gorchymynais i chwi; a chan nad oes ffydd gan bawb, chwiliwch yn ddyfal, a dysgwch i'ch gilydd eiriau doethineb; ïe, chwiliwch eiriau doethineb allan o'r llyfrau goreu; ceisiwch ddysgeidiaeth trwy fyfyrdod, ac hefyd trwy ffydd. Corffolwch eich hunain, parotowch bob peth anghenrheidiol, a sefydlwch dŷ, sef tŷ gweddi, tŷ o ympryd, tŷ o ffydd, tŷ o ddysgeidiaeth, tŷ o ogoniant, tŷ o drefn, a thŷ i Dduw; fel y byddo eich dyfodiad i mewn yn enw yr Arglwydd; fel y byddo eich mynediad allan yn enw yr Arglwydd; fel y byddo eich holl gyfarchiadau yn enw yr Arglwydd, gyda dwylaw derchafedig at y Goruchaf.

37. Gan hyny ymattaliwch oddiwrth eich holl ofer-siarad; oddiwrth bob chwerthin; oddiwrth eich holl chwantau trythyll; oddiwrth eich holl falchder ac ysgafnder meddwl, ac oddiwrth eich holl weithredoedd drygionus. Penodwch yn eich plith eich hunain ddysgawdwr, ac na fydded pawb yn llefarwyr ar unwaith; ond bydded i un lefaru ar y tro, a bydded i ereill wrandaw ar ei eiriau ef, fel wedi i bawb lefaru, y byddo i bawb gael adeiladaeth oddiwrth bawb, ac y byddo i bob dyn gael yr un ragorfraint.

38. Gwelwch eich bod yn caru y naill y llall; peidiwch bod

yn gybyddlyd, dysgwch gyfranu i'ch gilydd fel y mae yr efengyl yn gorchymyn; peidiwch bod yn segur, peidiwch bod yn aflan; peidiwch beio eich gilydd; peidiwch cysgu yn hŵy nag sydd anghenrheidiol; ewch i'ch gwely yn gynnar, fel na fyddoch yn flinedig; codwch yn foreu, fel y byddo i'ch cyrff a'ch meddyliau gael eu bywiocâu; ac uwchlaw pob peth, gwisgwch eich hunain yn rhwymau cariad, megys â chochl, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd ac heddwch; gweddiwch yn ddibaid, fel na fyddo i chwi ddiffygio hyd oni ddelwyf. Wele, a llyna, myfi a ddeuaf yn fuan, ac a'ch derbyniaf chwi ataf fy hun. Amen.

39. A thrachefn, trefn y tŷ a barotowyd i lywyddiaeth ysgol y prophwydi, a sefydlwyd er eu haddysg yn mhob peth sydd yn fuddiol iddynt, sef i holl swyddogion yr eglwys, neu mewn geiriau ereill, y rhai hyny a alwyd i'r weinidogaeth yn yr eglwys, gan ddechreu ar yr arch-offeiriaid, i lawr hyd y nod at y diaconiaid: a hyn a fydd trefn tŷ llywyddiaeth yr ysgol: efe yr hwn a benodir i fod yn llywydd, neu ddysgawdwr, a fydd i'w gael yn sefyll yn ei le, yn y tŷ a barotöir iddo. Gan hyny, efe fydd y cyntaf yn nhŷ Dduw, mewn lle fel y gallo y gynnulleidfa glywed ei eiriau yn ofalus ac eglur, nid gyda llafar uchel. A phan ddelo efe i mewn i dŷ Dduw (canys efe ddylai fod y cyntaf yn y tŷ; wele, hyn sydd hardd, fel y byddo yn siampl).

40. Bydded iddo gyflwyno ei hun mewn gweddi ar ei liniau gerbron Duw, mewn arwydd neu goffadwriaeth o'r cyfammod tragywyddol; a phan ddelo rhywrai i mewn ar ei ol ef, bydded i'r dysgawdwr gyfodi, a chyda dwylaw derchafedig tua'r nef, ïe, yn ddiattreg, gyfarch ei frawd neu ei frodyr â'r geiriau hyn:—

41. A ydwyt ti yn frawd neu yn frodyr? Yr wyf yn eich cyfarch chwi yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, mewn arwydd neu goffadwriaeth o'r cyfammod tragywyddol, ac yn y cyfammod hwnw yr wyf yn eich derbyn chwi i gymdeithas, mewn penderfyniad ag sydd yn sefydlog, yn ddiysgog, ac anghyfnewidiol, i fod eich cyfaill a'ch brawd trwy ras Duw, yn rhwymau cariad, i rodio yn holl orchymynion Duw yn ddiargyhoedd, mewn diolchgarwch, yn oes oesoedd. Amen.

42. Ac efe yr hwn a geir yn annheilwng o'r cyfarchiad hwn,

ni chaiff le yn eich plith chwi; canys nid ydych i oddef i'm ty i gael ei halogi ganddynt hwy.

43. Ac efe yr hwn a ddaw i mewn, ac sydd yn ffyddlawn ger fy mron i, ac sydd frawd, neu os byddant frodyr, hwy a gant gyfarch y llywydd neu ddysgawdwr gyda dwylaw derchafedig tua'r nef, â'r un weddi a chyfammod hwn, neu trwy ddywedyd, Amen, mewn arwydd o'r unrhyw.

44. Wele, yn wir, meddaf i chwi, hwn sydd yn gynllun i chwi o anerchiad i'ch gilydd yn nhŷ Dduw, yn ysgol y prophwydi. A chwi a elwir i wneyd hyn trwy weddi a diolchgarwch, fel y byddo i'r ysbryd roddi ymadrodd yn eich holl gyflawniadau yn nhŷ yr Arglwydd, yn ysgol y prophwydi, fel y delo yn gyssegr, yn dabernacl yr Ysbryd Glân er eich adeiladaeth.

45. Ac ni fydd i chwi dderbyn neb i'ch plith i'r ysgol hon, oddieithr ei fod yn lân oddiwrth waed y genedlaeth hon; ac efe a gaiff ei dderbyn trwy yr ordinhad o olchiad traed, canys i'r dyben hwn y cafodd yr ordinhad o olchiad traed ei sefydlu.

46. A thrachefn, yr ordinhad o olchiad traed sydd i gael ei gweinyddu gan y llywydd, neu henuriad llywyddol yr eglwys. Mae i gael ei dechreu gyda gweddi, ac wedi cyfranogi o fara a gwin, y mae i wregysu ei hunan, yn ol y cynllun a roddwyd yn y drydedd bennod ar ddeg o dystiolaeth Ioan mewn perthynas i mi. Amen.

DOSRAN VIII.

Dadguddiad a roddwyd Ebrill, 1829, *i Oliver Cowdery a Joseph Smith, ieu.*

1. Gwaith mawr a rhyfeddol sydd o gylch dyfod allan at blant dynion. Wele, myfi wyf Dduw, a rhoddwch wrandawiad i'm gair, yr hwn sydd yn fywiol a nerthol, yn llymach nâ chleddyf dau-finiog, hyd wahaniad y cymmalau a'r mêr; gan hyny, rhoddwch wrandawiad i'm geiriau.

2. Wele, y maes sydd eisoes yn wŷn i'r cynauaf, gan hyny pwy bynag a ewyllysia fedi, bydded iddo osod i mewn ei gryman â'i holl nerth, a medi tra y parhao y dydd, fel y byddo iddo drysori i fyny i'w enaid iachawdwriaeth dragywyddol yn

nheyrnas Dduw: ïe, pwy bynag a esyd i mewn ei gryman ac a feda, y mae hwnw wedi ei alw gan Dduw; gan hyny, os gofynwch i mi, chwi a dderbyniwch; os curwch, fe a agorir i chwi.

3. Yn awr, fel yr ydych wedi gofyn, wele, yr wyf yn dywedyd i chwi, cedwch fy ngorchymynion, ac ymdrechwch ddwyn allan a sefydlu achos Seion; na cheisiwch gyfoeth, ond doethineb; ac wele, dirgeledigaethau Duw a eglurir i chwi, ac yna y gwneir chwi yn gyfoethog. Wele, efe yr hwn sydd â bywyd tragywyddol ganddo, sydd yn gyfoethog.

4. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, fel y ceisiwch genyf fi, felly y bydd i chwi; ac os ceisiwch, byddwch yn foddion i wneyd daioni yn y genedlaeth hon. Na lefarwch ddim ond edifeirwch wrth y genedlaeth hon: cedwch fy ngorchymynion, a chynnorthwywch i ddwyn allan fy ngwaith, yn ol fy ngorchymynion, a chwi a fendithir.

5. Wele y mae genyt ddawn, a bendigedig ydwyt o herwydd dy ddawn. Cofia ei bod yn santaidd, ac yn dyfod oddiuchod; ac os bydd i ti chwilio, ti a gai wybod dirgeledigaethau ag ydynt yn fawrion a rhyfeddol; gan hyny defnyddia dy ddawn, fel y byddo i ti gael allan ddirgeledigaethau, fel y byddo i ti ddwyn llawer i wybodaeth y gwirionedd; ïe, argyhoedda hwynt o gyfeiliornad eu ffyrdd. Na wna dy ddawn yn adnabyddus i neb, ond i'r rhai ydynt o'r un ffydd â thi. Na chellwair â phethau santaidd. Os bydd i ti wneuthur daioni, ïe, a pharhau yn ffyddlawn hyd y diwedd, tydi a achubir yn nheyrnas Dduw, yr hyn yw y mwyaf o holl ddoniau Duw; canys nid oes un ddawn yn fwy nâ'r ddawn o iachawdwriaeth.

6. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, bendigedig ydwyt am yr hyn a wnaethost, canys yr ydwyt wedi ceisio genyf fi, ac wele mor fynych ag y ceisiaist, ti a dderbyniaist addysg fy Ysbryd. Pe na buasai felly, ni ddaethit ti i'r lle ag ydwyt yr amser hwn.

7. Wele, tydi a wyddost dy fod wedi ceisio genyf fi, ac i mi oleuo dy feddwl; ac yn awr yr wyf yn dywedyd i ti y pethau hyn, fel y gwypot dy fod wedi cael dy oleuo gan Ysbryd y gwirionedd; ïe, yr wyf yn dywedyd wrthyt, fel y gwypot nad oes neb arall ond Duw sydd yn gwybod dy feddyliau a bwriadau dy galon: yr wyf yn dywedyd wrthyt y pethau hyn

fel tystiolaeth i ti, fod y geiriau neu y gweithredoedd a fuost yn ysgrifenu, yn wirionedd.

8. Gan hyny bydd ddiwyd, ymlyna wrth fy ngwas Joseph, yn ffyddlawn, yn mha amgylchiadau cyfyng bynag y byddo er mwyn y gair. Rhybyddia ef yn ei feiau, ac hefyd derbynia rybydd ganddo ef. Bydd amyneddgar; bydd sobr; bydd gymmedrol; bydded genyt amynedd, ffydd, gobaith, a chariad.

9. Wele, tydi wyt Oliver, ac yr wyf wedi llefaru wrthyt ti o herwydd dy ddymuniadau; gan hyny, trysora y geiriau hyn i fyny yn dy galon. Bydd ffyddlawn a diwyd i gadw gorchymynion Duw, a mi a'th gylchynaf di yn mreichiau fy nghariad.

10. Wele, myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw. Myfi wyf yr hwn a ddaeth at yr eiddo fy hun, a'r eiddo fy hun ni'm derbyniasant. Myfi wyf y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a'r tywyllwch nid yw yn ei amgyffred ef.

11. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, os ewyllysiwch gael tystiolaeth bellach, taflwch eich meddwl ar y nos yr hon y llefasoch arnaf fi yn eich calon, fel y gwybyddech mewn perthynas i wirionedd y pethau hyn. Oni lefarais i heddwch i'ch meddyliau mewn perthynas i'r mater? Pa dystiolaeth fwy a ellwch gael nag oddiwrth Dduw? Ac yn awr, wele, chwi a dderbyniasoch dystiolaeth, canys os mynegais i bethau wrthych nad oes un dyn yn eu gwybod, oni dderbyniasoch dystiolaeth? Ac, wele, yr wyf yn rhoddi i chwi ddawn, os ceisiwch genyf, i gyfieithu hyd y nod megys fy ngwas Joseph.

12. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae cofnodau a gynnwysant lawer o'm hefengyl, y rhai a gadwyd yn ol o herwydd drygioni y bobl; ac yn awr yr wyf yn gorchymyn i chwi, os bydd genych ddymuniadau da,—dymuniad i drysori i chwi eich hunain yn y nef,—yna chwi a gynnorthwywch i ddwyn i'r goleuni, â'ch dawn, y rhanau hyny o'm hysgrythyrau ag sydd wedi cael eu cuddio o herwydd drygioni.

13. Ac yn awr, wele, yr wyf yn rhoddi i chwi, ac hefyd i'm gwas Joseph, allweddau y ddawn hon, a ddyga i oleuni y weinidogaeth hon; ac yn ngenau dau neu dri o dystion y bydd pob gair yn safadwy.

14. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, os gwrthodant fy ngeiriau, a'r rhan hon o'm hefengyl a'm gweinidogaeth, gwyn eich byd chwi, canys nis gallant wneuthur rhagor i chwi nag i mi; ac os

gwnant i chwi, hyd y nod megys ag y gwnaethant i mi, gwyn eich byd, canys chwi a gewch drigo gyda mi mewn gogoniant; ond os na wrthodant fy ngeiriau, y rhai a gant eu sefydlu trwy y dystiolaeth a roddir, gwyn eu byd hwy, ac yna y cewch lawenydd yn ffrwyth eich llafurwaith.

15. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, megys y dywedais wrth fy nyscyblion, lle y byddo dau neu dri wedi ymgynnull ynghyd yn fy enw i, yn mherthynas un peth, wele, yno y byddaf yn eu canol hwynt, felly hefyd yr wyf yn eich canol chwi. Nac ofnwch wneuthur daioni, fy meibion, canys pa beth bynag a hauoch, hyny hefyd a fedwch; gan hyny, os hauwch ddaioni, chwi a fedwch ddaioni hefyd yn wobr i chwi.

16. Gan hyny, nac ofnwch, braidd bychan, i wneuthur daioni; pe bai daear ac uffern yn ymgyssylltu yn eich erbyn, canys os ydych wedi eich adeiladu ar fy Nghraig i, nis gallant lwyddo. Wele, nid wyf yn eich condemnio chwi, ewch i'ch ffordd, ac na phechwch mwyach; cyflawnwch gyda sobrwydd y gwaith a orchymynais i chwi; edrychwch ataf fi yn eich holl feddyliau; nac ammheuwch, nac ofnwch; wele yr archollion a drywanasant fy ystlys, ac hefyd ôl yr hoelion yn fy nwylaw a'm traed; byddwch ffyddlawn, cedwch fy ngorchymynion, a chwi a etifeddwch deyrnas nef. Amen.

DOSRAN IX.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, Gorphenaf, 1830.

1. Wele, tydi a alwyd ac a ddewiswyd i ysgrifenu Llyfr Mormon, ac i'm gweinidogaeth i; a chodais di i fyny allan o'th drallodion, a chynghorais di, canys ti a waredwyd oddiwrth dy holl elynion, a thi a waredwyd oddiwrth awdurdod Satan, ac o dywyllwch! Er hyny, nid ydwyt esgusodol yn dy droseddau; ond etto, dos i'th ffordd, ac na phecha mwyach.

2. Mawrha dy swydd; ac wedi i ti hau dy faesydd a'u diogelu, dos gyda brys at yr eglwys sydd yn Colesville, Fayette, a Manchester, a hwy a'th gynnaliant di; a myfi a'u bendithiaf hwynt yn ysbrydol a thymmorol; ac os na dderbyniant di, myfi a anfonaf arnynt felldith yn lle bendith.

3. A thi a barhei mewn galw ar Dduw yn fy enw i, ac ysgrifenu y pethau a roddir i ti gan y Dyddanydd, ac esbonio pob ysgrythyrau i'r eglwys; a rhoddir i ti y fynyd hono pa beth a lefari ac a ysgrifeni, a hwy a'i gwrandawant, onite myfi a anfonaf arnynt felldith yn lle bendith.

4. Canys ti a gyssegri dy holl wasanaeth yn Seion; ac yn hyn y cei nerth. Bydd amyneddgar mewn gorthrymderau, canys ti a gei lawer; ond dyoddefa hwynt, canys, wele, yr wyf fi gyda thi, ïe, hyd ddiwedd dy ddyddiau. Ac mewn llafurwaith tymmorol ni chei di nerth, canys nid hon yw dy alwad di. Gofala am dy alwad, a thi a gai yr hyn sydd ddigon i fawrhau dy swydd, ac i esbonio yr ysgrythyrau, a pharha mewn gosod dwylaw a chadarnhau yr eglwysi.

5. A'th frawd Oliver a gaiff barhau i ddwyn fy enw i gerbron y byd, ac hefyd i'r eglwys. Ac nid oes iddo dybied y gall ddywedyd digon yn fy achos i; ac wele, yr wyf fi gydag ef hyd y diwedd. Ynof fi y caiff ef ogoniant, ac nid o hono ei hun, pa un ai mewn gwendid ai mewn nerth, pan un ai caeth ai rhydd; a phob amser, ac yn mhob lle, efe a gaiff agor ei enau, a chyhoeddi fy efengyl i megys â llais udgorn, ddydd a nos. Ac mi a roddaf iddo nerth, y cyfryw na sydd yn adnabyddus yn mhlith dynion.

6. Na ofynwch wyrthiau, oddieithr i mi eich gorchymyn chwi, oddieithr i fwrw allan gythreuliaid, iachâu y cleifion, ac yn erbyn seirff gwenwynig, ac yn erbyn gwenwyn marwol; ac nid ydych i wneuthur y pethau hyn, oddieithr iddo gael ei ofyn oddiwrthych gan y rhai a'i dymuna, fel y cyflawnir yr ysgrythyrau; canys yr ydych i wneuthur megys y mae yn ysgrifenedig. Ac i ba le bynag yr eloch i mewn, ac iddynt wrthod eich derbyn yn fy enw i, bydd i chwi adael melldith yn lle bendith, trwy ysgwyd ymaith y llwch oddiwrth eich traed yn eu herbyn hwynt fel tystiolaeth, a glanhau eich traed yn ymyl y ffordd.

7. A daw oddiamgylch, pwy bynag a osodant eu dwylaw arnoch yn draws, chwi a orchymynwch eu taro yn fy enw i; ac, wele, myfi a'u tarawaf hwynt yn ol eich geiriau chwi, yn fy amser priodol fy hunan. A phwy bynag a elont i gyfraith â thi, a gant eu melldithio trwy y gyfraith. Ac nid ydwyt ì gymmeryd côd nac ysgrepan, na ffyn, na dwy gochl, canys yr eglwys a rodda i ti bob amser y byddot mewn angen am

ymborth, ac am ddillad, ac am esgidiau, ac am arian, ac am ysgrepan; canys ti a alwyd i drin fy ngwinllan gyda thriniaeth nerthol, ïe, am y tro diweddaf. Ië, a phawb hefyd a ordeiniaist ti; a hwy a gant wneuthur yn ol y cynllun hwn. Amen.

DOSRAN X.

Dadguddiad a roddwyd yn mhresennoldeb chwech o Henuriaid yn Fayette, Caerefrog Newydd, Medi, 1830.

1. Gwrandewch ar lais Iesu Grist, eich Pryniawdwr, yr YDWYF Mawr, yr hwn y mae braich ei drugaredd wedi gwneyd Iawn dros eich pechodau; yr hwn a gasgla ei bobl ynghyd megys y casgla yr iâr ei chywion dan ei hadenydd, sef cynnifer ag a wrandawant ar fy llais, ac a ymostyngant ger fy mron i, ac a alwant arnaf fi mewn gweddi nerthol. Wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, mai yn awr y maddeuwyd eich pechodau i chwi, gan hyny chwi a dderbyniwch y pethau hyn; ond cofiwch na phechoch mwyach, rhag i beryglon ddyfod arnoch.

2. Yn wir, meddaf i chwi, mai chwi a ddewiswyd allan o'r byd i gyhoeddi fy efengyl i gyda sain o lawenydd, megys â llais udgorn. Codwch i fyny eich çalonau, a byddwch lawen, canys yr wyf fi yn eich canol, a myfi yw eich eiriolwr gyda'r Tad; a'i ewyllys da ef yw rhoddi i chwi y deyrnas; ac fel y mae yn ysgrifenedig, Pa beth bynag a ofynoch mewn ffydd, gan fod yn unol mewn gweddi yn ol fy ngorchymyn, chwi a'i derbyniwch; a chwi a alwyd i ddwyn oddiamgylch gynnulliad fy etholedigion, canys fy etholedigion a glywant fy llais, ac ni chaledant eu calonau; gan hyny y mae y gorchymyn wedi myned allan oddiwrth y Tad, y cant hwy eu casglu ynghyd i'r un lle ar wyneb y tir hwn, i barotôi eu calonau, ac i fod yn barod yn mhob peth erbyn y dydd pan yr anfonir trallod ac anghyfannedd-dra ar y drygionus; canys yr awr sydd yn agos, a'r dydd yn fuan wrth law, pan fydd y ddaear yn addfed; a'r holl feilchion, a'r rhai a wnant yn ddrygionus, a fyddant fel sofl, a mi a'u llosgaf hwynt i fyny, medd Arglwydd y lluoedd, fel na fyddo drygioni ar y ddaear; canys y mae yr awr yn agos, a'r hyn a lefarwyd gan fy apostolion a raid ei gyflawni;

canys megys y dywedasant, felly daw i ben; canys myfi a ddadguddiaf fy hunan o'r nef gyda gallu a gogoniant mawr, ynghyd â'i holl luoedd hi, ac a breswyliaf mewn cyfiawnder gyda dynion ar y ddaear fil o flynyddoedd, ac ni chaiff y drygionus sefyll.

3. A thrachefn, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ac y mae wedi myned allan mewn gosodiad diysgog, trwy ewyllys y Tad, fod fy apostolion, y deuddeg ag oeddynt gyda mi yn fy ngweinidogaeth yn Jerusalem, i gael sefyll ar fy neheulaw ar ddydd fy nyfodiad mewn colofn o dân, wedi eu gwisgo â gwisgoedd cyfiawnder, â choronau ar eu penau, mewn gogoniant megys yr ydwyf fi, i farnu holl dŷ Israel, sef pawb a'm carasant i ac a gadwasant fy ngorchymynion, a neb ereill; canys udgorn a seinia yn hir ac uchel, ïe, megys ar fynydd Sinai, a'r holl ddaear a gryna, a hwy a ddeuant allan; ïe, hyd y nod y meirw a fu farw ynof fi, i dderbyn coron o gyfiawnder, ac i gael eu gwisgo megys myfi, i fod gyda mi, fel y byddwn un.

4. Ond wele, yr wyf yn dywedyd i chwi, cyn dyfodiad y dydd mawr hwn, yr haul a dywyllir, a'r lleuad a droir yn waed, a'r sêr a syrthiant o'r nef, a bydd arwyddion mwy yn y nef uchod, ac yn y ddaear isod; a bydd llefain a wylofain yn mhlith lluoedd dynion; a thymhestl fawr o genllusg a anfonir allan i ddinystrio cnydau y ddaear; a daw oddiamgylch, o herwydd drygioni y byd, y bydd i mi gymmeryd dialedd ar y drygionus, canys nid edifarhant; canys y mae cwpan fy nigofaint yn llawn; canys, wele, ni lanha fy ngwaed hwynt os na wrandawant arnaf.

5. Gan hyny, myfi yr Arglwydd Dduw a anfonaf allan gilion ar wyneb y ddaear, y rhai a gymmerant afael ar ei thrigolion, ac a fwytânt eu cnawd, a pharant i bryfed ddyfod arnynt; a'u tafodau a attelir fel na lefaront yn fy erbyn i; a'u cnawd a syrthia ymaith oddiwrth eu hesgyrn, a'u llygaid a ddeuant allan o'u pyllau; a daw oddiamgylch y bydd i fwystfilod y goedwig, ac adar yr awyr eu hysu hwynt i fyny; a'r eglwys fawr a ffiaidd hòno, yr hon yw putain yr holl ddaear, a deflir i lawr trwy dân ysol, megys y llefarwyd trwy enau Eseciel y prophwyd, yr hwn a lefarodd am y pethau hyn, y rhai ydynt heb ddyfod i ben, ond yn ddiau a raid iddynt ddyfod, fel yr wyf fi byw, canys ni chaiff ffieidd-dra deyrnasu.

6. A thrachefn, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, wedi y gorphener y mil blynyddoedd, ac y bydd dynion eilwaith yn dechreu gwadu eu Duw, yna nid arbedaf y ddaear ond dros dymmor byr; a'r diwedd a ddaw, a'r nef a'r ddaear a losgir ac a ânt heibio, a bydd nef newydd a daear newydd, canys yr holl hen bethau a ânt heibio, a bydd pob peth o newydd, hyd y nod y nef a'r ddaear, a'u holl gyflawnder hwynt, yn ddynion ac anifeiliaid, ehediaid yr awyr, a physgod y môr; ac ni chaiff un blewyn, na mymryn, ei golli, o herwydd gwaith fy llaw i ydyw.

7. Ond, wele, yn wir, meddaf i chwi, cyn yr elo y ddaear heibio, Michael, fy archangel, a seinia ei udgorn, ac yna y dihuna y meirw; canys eu beddau a agorir, a hwy a ddeuant allan; ïe, hyd y nod pawb. A'r cyfiawn a gesglir ar fy neheulaw i fywyd tragywyddol; a'r drygionus ar fy llaw aswy, a chywilyddiaf eu harddel gerbron y Tad; gan hyny mi a ddywedaf wrthynt, Ewch ymaith oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol a'i angylion.

8. Ac yn awr, wele, meddaf i chwi, nid wyf erioed, ar un amser, wedi hysbysu o'm genau fy hunan, y cant hwy ddychwelyd, canys lle yr wyf fi nis gallant hwy ddyfod, o herwydd nid oes ganddynt allu; ond cofiwch nad yw fy holl farnedigaethau yn cael eu rhoddi i ddynion: ac megys yr aeth y geiriau allan o'm genau i, felly hefyd y cant eu cyflawni, y cyntaf a fyddant olaf, a'r olaf a fyddant flaenaf, yn yr hol[1] bethau bynag a greais i â gair fy ngallu, yr hwn yw gallu fy Ysbryd; canys trwy allu fy Ysbryd y crëais i hwynt; ïe, pob pethau yn ysbrydol a thymmorol: yn gyntaf, ysbrydol—yn ail, tymmorol, yr hyn yw dechreuad fy ngwaith; ac etto, yn gyntaf, tymmorol—ac yn ail, ysbrydol, yr hyn yw y diweddaf o'm gwaith; a llefaru wrthych chwi fel y dealloch yn naturiol, ond i mi nid oes ddiwedd ar fy ngweithredoedd, na dechreuad chwaith; ond rhoddir ef i chwi fel y dealloch, o herwydd i chwi ei ofyn, a'ch bod yn gytun.

9. O herwydd paham, yn wir, meddaf i chwi, pob peth sydd ysbrydol i mi, ac nid wyf un amser wedi rhoddi i chwi gyfraith ag sydd yn dymmorol; nac ychwaith un dyn, na phlant dynion; nac ychwaith Adda, eich tad, yr hwn a greais. Wele, rhoddais iddo ef, fel y byddai yn oruchwyliwr iddo ei hun; a rhoddais iddo orchymyn, ond ni roddais iddo orchymyn tym-

morol, canys fy ngorchymynion i ydynt ysbrydol; nid ydynt yn naturiol nac yn dymmorol, nac ychwaith yn gnawdol nac anianol.

10. A dygwyddodd, i Adda, wedi ei demtio gan y diafol (canys, wele, y diafol oedd cyn Adda, o herwydd efe a wrthryfelodd yn fy erbyn i, gan ddywedyd, Dyro i mi dy anrhydedd, yr hwn yw fy ngallu); ac hefyd y drydedd ran o luoedd y nef a drôdd efe ymaith oddiwrthyf fi o herwydd eu hofferynoliaeth; a hwy a daflwyd i lawr, ac felly y daeth y diafol a'i angylion. Ac, wele, y mae lle wedi ei barotôi iddynt o'r dechreuad, yr hwn le yw uffern; ac anghenrhaid yw, fod i'r diafol demtio plant dynion, onite nis gallent fod yn oruchwylwyr iddynt eu hunain, canys pe na chawsent fyth y chwerw, nis gallasent adnabod y melys.

11. Gan hyny, dygwyddodd i'r diafol demtio Adda, ac efe a gymmerodd o'r ffrwyth gwaharddedig ac a droseddodd y gorchymyn, trwy yr hyn y daeth yn ddarostyngedig i ewyllys y diafol, o herwydd iddo ymollwng i brofedigaeth.—O herwydd paham, myfi yr Arglwydd Dduw a barais iddo gael ei yru allan o ardd Eden, o'm presennoldeb i, o achos ei drosedd, trwy yr hyn y daeth yn farw yn ysbrydol, yr hon yw y farwolaeth gyntaf, sef yr un farwolaeth â'r farwolaeth olaf, yr hon sydd ysbrydol, yr hon a gyhoeddir ar y drygionus pan ddywedwyf, Ewch ymaith, chwi rai melldigedig.

12. Ond, wele, yr wyf yn dywedyd i chwi, i mi yr Arglwydd Dduw roddi i Adda ac i'w hâd, na fyddent farw o'r farwolaeth dymmorol, hyd oni fyddai i mi yr Arglwydd Dduw, anfon allan angylion i gyhoeddi iddynt edifeirwch a phrynedigaeth, trwy ffydd yn enw fy unig-anedig Fab. Ac fel hyn, myfi yr Arglwydd Dduw a benodais i ddyn ddyddiau ei brawf; fel trwy farwolaeth naturiol y cyfodid ef mewn anfarwoldeb i fywyd tragywyddol, sef cynnifer ag a gredant; a'r rhai ni chredant, i ddamnedigaeth dragywyddol, canys nis gallant hwy gael eu gwaredu rhag eu cwymp ysbrydol, o herwydd nad edifarhant; canys hwy a garant y tywyllwch yn hytrach nâ'r goleuni, a'u gweithredoedd ydynt yn ddrwg, a derbyniant eu taledigaeth gan yr hwn yr ewyllysiant ei ufyddhau.

13. Ond, wele, meddaf i chwi, plant bychain ydynt wedi eu prynu oddiar sylfaeniad y byd, trwy fy unig-anedig; gan hyny,

nis gallant bechu, canys ni roddwyd gallu i Satan i demtio plant bychain, hyd oni ddechreuont ddyfod yn gyfrifol ger fy mron i; o herwydd rhoddwyd iddynt hwy fel yr wyf fi yn ewyllysio, yn ol fy mhleser fy hun, fel y byddo i bethau mawrion gael eu gofyn ar law eu tadau hwynt.

14. A, thrachefn, meddaf i chwi, pwy bynag sydd ganddo wybodaeth, oni orchymynais iddo edifarhau? a'r hwn nid oes ganddo ddeall, y mae yn aros i mi wneuthur yn ol yr hyn sydd ysgrifenedig. Ac yn awr, ni hysbysaf ddim yn rhagor i chwi yr amser hwn. Amen.

DOSRAN XI.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, Rhagfyr, 1830.

1. Gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw, sef Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, yr hwn y mae ei ystod yn un cylch tragywyddol, yr un heddyw â ddoe, ac yn dragywydd. Myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw, yr hwn a groeshoeliwyd am bechodau y byd, sef cynnifer a gredant yn fy enw i, fel y delont yn feibion i Dduw, ïe, yn un ynof fi, fel yr wyf fi yn y Tad, megys y mae y Tad yn un ynof fi, fel y byddom yn un.

2. Wele, yn wir, yn wir, yr wyf yn dywedyd wrth fy ngwasanaethwr Sidney, Edrychais arnat ti ac ar dy weithredoedd. Clywais dy weddiau, ac yr wyf wedi dy barotôi at waith mwy. Bendigedig ydwyt, canys ti a wnai bethau mawrion. Wele, tydi a anfonwyd allan, megys Ioan, i barotôi y ffordd o'm blaen i, ac o flaen Elias, yr hwn a ddeuai, ond nid oeddit yn ei wybod. Tydi a fedyddiaist â dwfr i edifeirwch, ond ni dderbyniasant yr Ysbryd Glân; ond yn awr yr wyf yn rhoddi i ti orchymyn, fod i ti fedyddio â dwfr, a hwy a dderbyniant yr Ysbryd Glân trwy osodiad dwylaw, megys yr apostolion gynt.

3. A daw oddiamgylch y bydd gwaith mawr yn y tir, sef yn mhlith y Cenedloedd, o herwydd eu ffolineb a'u ffieidd-dra a wneir yn amlwg yn llygaid yr holl bobl; canys myfi wyf Dduw, ac nid yw fy mraich wedi byrhau; a mi a ddangosaf wyrthiau, arwyddion, a rhyfeddodau i bawb a gredant yn fy enw. A phwy bynag a'i gofyno yn fy enw i trwy ffydd, a

daflant allan gythreuliaid; a iachânt y cleifion; a wnant i'r deillion dderbyn eu golwg, a'r byddariaid i glywed, a'r mudion i lefaru, a'r cloffion i rodio; a'r amser a ddaw yn fuan pan y bydd i bethau mawrion gael eu dangos allan i blant dynion; ond heb ffydd ni chaiff dim ei ddangos allan, oddieithr anghyfannedd-derau ar Babilon, yr un a wnaeth i bob cenedl yfed o win digofaint ei phuteindra. Ac nid oes neb a wna ddaioni, oddieithr y rhai ag ydynt barod i dderbyn cyflawnder fy efengyl, yr hon a anfonais allan i'r genedlaeth hon.

4. O herwydd paham, myfi a elwais ar weinion bethau y byd, y rhai annysgedig a dirmygedig, i ddyrnu y cenedloedd trwy allu fy Ysbryd; a'u braich hwynt a fydd fy mraich i, a mi a fyddaf eu tarian a'u bwccled; a mi a wregysaf eu lwynau, a hwy a ymladdant yn ddewr drosof fi; a'u gelynion a fyddant dan eu traed; a mi a adawaf i'r cleddyf syrthio ar eu rhan, a thrwy dân fy nigllondeb y cadwaf hwynt. A'r tlawd a'r llariaidd a gant bregethu yr efengyl iddynt, a hwy a edrychant allan am amser fy nyfodiad, canys y mae yn agos wrth law; a hwy a ddygant ddammeg y ffigysbren, o herwydd mae yr haf eisoes yn agos, ac yr wyf wedi anfon allan gyflawnder fy efengyl trwy law fy ngwasanaethwr Joseph; ac mewn gwendid y bendithiais i ef, a rhoddais iddo allweddau dirgelwch y pethau a seliwyd, sef pethau ag oeddynt oddiar sylfaeniad y byd, a'r pethau a ddeuant o'r amser hwn hyd amser fy nyfodiad, os arosa ynof fi, ac os na wna, myfi a blanaf arall yn ei le.

5. Gan hyny, gwyliwch trosto ef na fyddo i'w ffydd ddiffygio, ac fe a roddir gan y Dyddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn gwybod pob peth; a gorchymyn yr wyf yn ei roddi i ti, fod i ti ysgrifenu drosto ef; a'r ysgrythyrau a roddir, fel y maent yn fy mynwes i, er iachawdwriaeth i'm hetholedig; canys hwy a glywant fy llais, ac a gant fy ngweled i, ac ni chant gysgu, a chant ddysgwyl dydd fy nyfodiad, canys hwy a burir, fel yr wyf fi yn bur. Ac yn awr yr wyf yn dywedyd i chwi, aroswch gydag ef, ac efe a deithia gyda chwi; na adèwch ef, ac yn ddiau y pethau hyn a gyflawnir. Ac yn gymmaint ag nad ydych chwi yn ysgrifenu, fe a roddir iddo ef i brophwydo; a thi a bregethi fy efengyl i, ac a elwi ar y prophwydi santaidd i brofi ei eiriau, megys y rhoddir hwynt iddo.

6. Cedwch yr holl orchymynion a'r cyfammodau trwy y

rhai y'ch rhwymwyd, a mi a baraf i'r nefoedd ysgwyd er eich daioni, a Satan a gryna, a Seion a lawenha ar y bryniau ac a flodeua, ac Israel a achubir yn fy amser priodol fy hun. A thrwy yr allweddau a roddais i yr arweinir hwynt, ac ni ddyrysir hwynt mwyach. Dyrchefwch eich calonau a byddwch lawen, eich prynedigaeth sydd yn agoshau. Nac ofnwch, braidd bychan, y deyrnas sydd eiddoch chwi hyd fy nyfodiad. Wele, yr wyf yn dyfod ar frys. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XII.

Dadguddiad a roddwyd Ionawr, 1831.

1. Fel hyn y dywed yr Arglwydd eich Duw, sef Iesu Grist, yr YDWYF Mawr, yr Alpha a'r Omega, y dechreu a'r diwedd, yr hwn a edrychodd ar eangder llydan tragywyddoldeb, a holl luoedd seraphaidd y nef, cyn i'r byd gael ei wneuthur; yr hwn sydd yn gwybod pob peth, canys pob peth sydd yn bresennol gerbron fy llygaid: myfi yw yr hwn a leferais, a'r byd a wnaed, a thrwof fi y daeth pob peth: myfi yw yr hwn a gymmerais Seion Enoch i'm mynwes fy hun; ac yn wir, meddaf, cynnifer ag a gredasant yn fy enw i, canys Crist ydwyf fi, ac yn fy enw fy hun, trwy rinwedd y gwaed a dywelltais, yr eiriolais gerbron y Tad drostynt hwy: ond wele, y rhelyw o'r drygionus a gedwais i mewn cadwynau o dywyllwch hyd farn y dydd mawr, yr hwn a ddaw ar ddiwedd y ddaear; ac felly y gwnaf i'r drygionus gael eu cadw, y rhai na chlywant fy llais, ond a galedant eu calonau, a gwae, gwae, gwae yw eu tynged.

2. Eithr wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, fy llygaid ydynt arnoch chwi. Yr wyf yn eich canol, ac nis gellwch fy ngweled; ond y dydd yn fuan a ddaw pan gewch fy ngweled, a gwybod fy mod i; canys y llen o dywyllwch a rwygir yn fuan, a'r hwn sydd heb ei buro nis gall oddef y dydd; gan hyny gwregyswch eich lwynau a byddwch barod. Wele, y deyrnas sydd eiddoch chwi, ac ni chaiff y gelyn orchfygu.

3. Yn wir, meddaf i chwi, glân ydych chwi, ond nid pawb; ac nid oes neb ereill yn y rhai y'm llwyr foddlonir, canys pob cnawd sydd lygredig ger fy mron i; a galluoedd y tywyllwch sydd yn llwyddo ar y ddaear, yn mhlith plant dynion, yn

ngwydd holl luoedd y nef, yr hyn a wna i ddystawrwydd deyrnasu; a holl dragywyddoldeb a ofidir, a'r angylion ydynt yn dysgwyl y gorchymyn mawr i fedi i lawr y ddaear, i gasglu yr efrau fel y byddo iddynt gael eu llosgi; ac, wele, y gelyn sydd gydunol.

4. Ac yn awr yr wyf yn dangos i chwi ddirgelwch, y peth a geir mewn ystafelloedd dirgel, i ddwyn i ben hyd y nod eich dinystr yn ystod amser, ac nid oeddych chwi yn ei wybod; ond yn awr yr wyf yn ei hysbysu wrthych, a bendigedig ydych, nid o herwydd eich drygioni, nac ychwaith o herwydd eich calonau o anghrediniaeth; canys yn wir rhai o honoch ydych euog ger fy mron i, ond mi a fyddaf drugarog tuag at eich gwendid. Gan hyny, byddwch chwi gryfion o hyn allan; nac ofnwch, canys eiddoch chwi yw y deyrnas; ac er eich iachawdwriaeth yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, canys clywais eich gweddiau, a'r tlawd a achwynasant ger fy mron i, a'r cyfoethog a wnaethym, a phob cnawd sydd eiddof fi, ac nid wyf fi dderbyniwr wynebau. A gwnaethym y ddaear yn gyfoethog, ac wele hi yn lleithig fy nhraed, gan hyny myfi etto a safaf arni; ac yr wyf yn dàl allan ac yn caniatâu rhoddi i chwi gyfoeth mwy, sef tir yr addewid, tir yn llifeirio â llaeth a mêl, ar yr hwn ni fydd un felldith pan ddaw yr Arglwydd; a myfi a'i rhoddaf i chwi yn dir eich etifeddiaeth, os ceisiwch ef â'ch holl galonau; a hyn a fydd fy nghyfammod â chwi, chwi a'i cewch ef yn dir eich etifeddiaeth, ac yn etifeddiaeth i'ch plant dros byth, tra y saif y ddaear, a chwi a'i meddiennwch eilwaith yn nhragywyddoldeb, heb ei golli mwyach.

5. Ond, yn wir, meddaf i chwi, yn mhen amser ni fydd genych na brenin na llywodraethwr, o herwydd myfi fyddaf eich brenin, ac a wyliaf drosoch chwi. Gan hyny, clywch fy llais, a dilynwch fi, a chwi a fyddwch yn bobl ryddion, ac ni fydd genych gyfreithiau ond fy nghyfreithiau i pan ddeuaf, canys myfi yw eich deddfroddwr, a pha beth a all atal fy llaw? Eithr, yn wir, meddaf i chwi, dysgwch eich gilydd yn ol y swydd y penodais chwi iddi, a bydded i bob dyn barchu ei frawd fel efe ei hunan, ac ymarfer rhinwedd a santeiddrwydd ger fy mron i. A thrachefn meddaf i chwi, bydded i bob dyn barchu ei frawd fel efe ei hunan; canys pwy ddyn yn eich plith chwi sydd ganddo ddeuddeg o feibion, ac nid yw yn eu

parchu hwynt, a hwy a'i gwasanaethant yn ufydd, ac efe a ddyweda wrth un, Gwisger di mewn hardd-wisgoedd, ac eistedd yma; ac wrth y llall, Gwisger di mewn bratiau, ac eistedd di yma; ac efe a edrycha ar ei feibion, ac a ddyweda, Cyfiawn ydwyf fi.

6. Wele, hyn a roddais i chwi yn ddammeg, ac y mae megys yr ydwyf fi: yr wyf yn dywedyd wrthych, Byddwch un; ac os nad ydych un, nid ydych eiddof fi. A thrachefn yr wyf yn dywedyd i chwi, fod y gelyn yn yr ystafelloedd dirgel yn ceisio eich bywydau. Yr ydych yn clywed am ryfeloedd mewn gwledydd pellenig, a chwi a ddywedwch y bydd yn fuan ryfeloedd mawrion mewn gwledydd pellenig, ond ni wyddoch galonau y rhai sydd yn eich gwlad eich hunain. Yr wyf yn dywedyd wrthych y pethau hyn o herwydd eich gweddiau; gan hyny, trysorwch i fyny ddoethineb yn eich mynwesau, rhag i ddrygioni dynion ddadguddio y pethau hyn i chwi trwy eu drygioni, mewn modd a lefara yn eich clustiau gyda llais mwy uchel nâ'r hwn a ysgwyda y ddaear; ond os ydych barod, ni chewch ofni.

7. Ac fel y byddo i chwi ddianc rhag gallu y gelyn, a chael eich casglu ataf fi yn bobl gŷfiawn, heb frycheuyn ac yn ddifeius; o ba herwydd, y rhoddais i chwi orchymyn fod i chwi fyned i'r Ohio; ac yno y rhoddaf i chwi fy nghyfraith; ac yno y cynnysgaethir chwi â gallu oddiuchod; ac oddiyno, pwy bynag a ewyllysiwyf a ânt allan i blith yr holl genedloedd, a dywedir wrthynt yr hyn a wnant; canys y mae genyf waith mawr wedi ei drysori, canys Israel a achubir, a myfi a'u harweiniaf hwynt i ba le bynag a ewyllysiwyf, ac ni chaiff un gallu attal fy llaw.

8. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi gorchymyn i'r eglwys yn y parthau hyn, fod i ddynion neillduol yn eu plith hwy gael eu penodi, a hwy a benodir trwy lais yr eglwys; a hwy a gant edrych am y tlawd a'r anghenus, a gweinyddu i'w cyfreidiau, fel na ddyoddefont; ac anfoner hwynt allan i'r lle a orchymynais iddynt; a hyn a fydd eu gwaith, llywodraethu achosion meddiannau yr eglwys hon. A'r rhai sydd ganddynt ffermydd nas gellir eu gwerthu, bydded iddynt gael eu gadael neu eu rhentu, fel y gwelont yn dda. Edrycher fod pob peth yn cael ei ddiogelu; a phan y mae dynion yn cael eu cynnysgaethu â gallu oddiuchod, ac yn cael eu danfon allan, mae yr holl bethau hyn i gael eu casglu i fynwes yr eglwys.

9. Ac os ceisiwch y cyfoeth yr ewyllysia y Tad ei roddi i chwi, chwi a fyddwch y cyfoethocaf o bob pobl, canys chwi a gewch oludoedd tragywyddoldeb; ac anghenrhaid yw mai fy eiddo i yw goludoedd y ddaear i'w rhoddi; ond gwyliwch rhag balchder, rhag i chwi ddyfod fel y Nephiaid gynt. A thrachefn, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i bob dyn, pa un ai henuriad, offeiriad, dysgawdwr, ac hefyd aelod, fyned yn mlaen â'i holl allu, â llafurwaith ei ddwylaw, i barotôi a chyflawni y pethau a orchymynais. A bydded eich pregethu yn llais y rhybydd, pob dyn i'w gymmydog, mewn tiriondeb ac mewn llarieidd-dra. Ac ewch chwi allan o blith y drygionus. Achubwch eich hunain. Byddwch chwi lân, y rhai sydd yn dwyn llestri yr Arglwydd. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XIII.

Dadguddiad a roddwyd Chwefror, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, y rhai a ymgynnullasoch ynghyd yn fy enw i, sef Iesu Grist, Mab y Duw byw, Iachawdwr y byd; yn gymmaint â'u bod yn credu yn fy enw i, ac yn cadw fy ngorchymynion, etto, meddaf i chwi, gwrandewch, a chlywch ac ufyddhewch y gyfraith a roddaf i chwi; canys, yn wir, meddaf, megys yr ydych wedi ymgynnull ynghyd yn ol y gorchymyn â'r hwn y gorchymynais chwi, a'ch bod yn gydunol yn yr un peth hwn, ac i chwi ofyn gan y Tad yn fy enw i, felly hefyd y derbyniwch.

2. Wele, yn wir, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi y gorchymyn cyntaf hwn, fod i chwi fyned allan yn fy enw i, pob un o honoch, oddieithr fy ngweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon. Ac yr wyf yn rhoddi iddynt hwy orchymyn, fod iddynt fyned allan dros dymmor bychan, ac fe a hysbysir trwy allu fy Ysbryd pa bryd y dychwelant; a chwi a ewch allan yn ngallu fy Ysbryd, gan bregethu yr efengyl, ddau a dau, yn fy enw i, gan dderchafu eich lleisiau megys â llais udgorn, gan gyhoeddi fy ngair megys angylion Duw; a chwi a ewch allan yn bedyddio â dwfr, gan ddywedyd,—Edifarhewch, edifarhewch, canys y mae teyrnas nef yn agos.

3. Ac o'r lle hwn yr ewch chwi allan i'r ardaloedd gorllew-

inol; ac yn gymmaint ag y bydd i chwi gael allan y rhai a'ch derbyniant, chwi a adeiledwch i fyny fy eglwys i yn mhob ardal, hyd oni ddaw yr amser pan ddadguddir i chwi oddiuchod, pryd y bydd i ddinas y Jerusalem Newydd gael ei pharotôi, fel y byddo i chwi gael eich casglu yn un, fel y byddoch yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn Dduw i chwithau. A thrachefn, meddaf i chwi, fy ngwas Edward Partridge a saif yn y swydd y penodais i ef. A bydd, os trosedda ef, arall a benodir yn ei le. Felly y byddo. Amen.

4. Etto, meddaf i chwi, ni roddir i neb fyned allan i bregethu fy efengyl, neu i adeiladu i fyny fy eglwys, oddieithr iddo gael ei ordeinio gan ryw un sydd ag awdurdod, a'i fod yn wybodus i'r eglwys fod awdurdod ganddo, ac wedi cael ei ordeinio yn rheolaidd gan benaethiaid yr eglwys.

5. Ac etto, henuriaid, offeiriaid, a dysgawdwyr yr eglwys hon, a gant ddysgu egwyddorion fy efengyl, y rhai ydynt yn y Beibl a Llyfr Mormon, yn mha rai y mae cyflawnder yr efengyl; a hwy a gadwant y cyfammodau a'r erthyglau eglwysig i'w gwneuthur hwynt, a'r rhai hyn a fyddant eu dysgiadau, megys y cyfarwyddir hwynt gan yr Ysbryd; a'r Ysbryd a roddir i chwi trwy weddi ffydd, ac os na dderbyniwch yr Ysbryd, nid ydych i ddysgu. A hyn a gedwch i'w wneuthur megys y gorchymynais mewn perthynas i'ch dysgiad, hyd oni rodder cyflawnder fy ysgrythyrau. A chan y bydd i chwi dderchafu eich lleisiau trwy y Dyddanydd, chwi a lefarwch ac a brophwydwch megys y gwelwyf yn dda; canys, wele, y mae y Dyddanydd yn gwybod pob peth, a thystiolaetha am y Tad ac am y Mab.

6. Ac yn awr, wele, yr wyf yn llefaru wrth yr eglwys. Na ladd; canys yr hwn a laddo, ni chaiff faddeuant yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw.

7. Ac etto, yr wyf yn dywedyd, Na ladd; eithr yr hwn a laddo a gaiff farw. Na ledrata; canys yr hwn a ledrato, ac nid edifarha, a deflir allan. Na ddywed gelwydd; yr hwn a ddywedo gelwydd, ac nid edifarha, a deflir allan. Tydi a geri dy wraig â'th holl galon, ac a lyni wrthi hi a neb arall; a'r hwn a edrycho ar wraig i'w chwennych hi, a wada y ffydd, ac ni chaiff yr Ysbryd, ac onid edifarha, efe a deflir allan. Na wna odineb; a'r hwn a wna odineb, ac ni edifarha, a deflir

allan; ond yr hwn a wnaeth odineb, ac a edifarha â'i holl galon, ac a'i gadawa, ac ni wna felly mwyach, tydi a faddeui iddo; ond os gwna efe odineb drachefn, ni chaiff faddeuant, eithr a deflir allan. Na ddywed yn ddrwg am dy gymmydog, ac na wna iddo ddim niwed. Ti a wyddost fod fy nghyfreithiau i mewn perthynas i'r pethau hyn wedi cael eu rhoddi yn fy ysgrythyrau; yr hwn a becha, ac nid edifarha, a deflir allan.

8. Os ydwyt yn fy ngharu i, ti a'm gwasanaethi, ac a gedwi fy holl orchymynion. Ac wele, ti a gofi y tlodion, ac a gyssegri o'th feddiannau er eu cynnaliaeth yr hyn sydd genyt i'w roddi iddynt gyda chyfammod a gweithred y rhai nid ellir eu tori; ac yn gymmaint ag y cyfrenwch o'ch eiddo i'r tlawd, chwi a'i gwnewch i mi, a chant eu gosod gerbron esgob fy eglwys a'i gynghorwyr, dau o'r henuriaid, neu arch-offeiriaid, y cyfryw a benoda neu a benododd ef, ac a neilldnodd i'r dyben hwnw.

9. A bydd, wedi iddynt gael eu gosod gerbron esgob fy eglwys, ac wedi iddo ef dderbyn y tystiolaethau hyn mewn perthynas i gyssegriad meddiannau fy eglwys, nas gellir eu cymmeryd oddiwrth yr eglwys yn unol â'm gorchymynion i; pob dyn a wneir yn gyfrifol i mi, yn oruchwyliwr ar ei eiddo ei hun, neu yr hyn a dderbyniodd trwy gyssegriad, cymmaint ag sydd yn ddigon iddo ef ei hun a'i deulu.

10. Ac etto, os bydd meddiannau yn nwylaw yr eglwys, neu ryw unigolion yndi, yn ychwaneg nag sydd anghenrheidiol er eu cynnaliaeth, ar ol y cyssegriad cyntaf hwn, yr hwn sydd relyw i'w gyssegru i'r esgob, caiff ei gadw i'w weinyddu i'r rhai sydd heb ddim, o amser i amser, fel y byddo i anghen pob dyn gael ei ddiwallu yn gyflawn, ac y derbynio yn ol ei eisieu. Gan hyny, y gweddill a gedwir yn fy ystordy, i weinyddu i'r tlawd a'r anghenus, megys y penodir gan uchel gynghor yr eglwys, a'r esgob a'i gynghor, ac i'r dyben o brynu tiroedd er lles cyhoeddus fy eglwys, ac adeiladu tai addoliad, ac adeiladu i fyny y Jerusalem Newydd, sydd i gael ei dadguddio yn ol llaw, fel y byddo i bobl fy nghyfammod gael eu casglu yn un y dydd y bydd i mi ddyfod i'm teml. A hyn a wnaf er iachawdwriaeth fy mhobl.

11. A bydd, pwy bynag a becho ac nid edifarha, a gaiff ei daflu allan o'r eglwys, ac ni chaiff dderbyn yn ol drachefn yr hyn a gyssegrodd ef i'r tlawd a'r anghenus yn fy eglwys; neu,

mewn geiriau ereill, i mi; canys yn gymmaint ag y gwnewch i'r lleiaf o'r rhai hyn, chwi a'i gwnewch i mi; o herwydd daw i ben, y bydd i'r hyn a lefarais i trwy eneuau fy mhrophwydi, gael ei gyflawni; canys mi a gyssegraf gyfoeth y rhai a gofleidiant fy efengyl i yn mhlith y Cenedloedd, i dlodion fy mhobl y rhai ydynt o dŷ Israel.

12. A thrachefn, ni chai fod yn falch yn dy galon; bydded dy holl wisgoedd yn syml, a'u harddwch yn harddwch gwaith dy ddwylaw dy hunan; a gwneler pob peth mewn glanweithdra ger fy mron i. Na fydd yn segur; canys yr hwn sydd segur, ni chaiff fwyta bara na gwisgo dillad y gweithiwr. A phwy bynag yn eich plith chwi a fydd yn glaf, ac heb ffydd i'w iachâu, eithr yn eredu, a gaiff ei faethu gyda phob tynerwch, â llysiau ac ymborth tirion, a hyny nid trwy law gelyn. Ac henuriaid yr eglwys, dau neu ragor, a gant eu galw, a hwy a weddiant drosto, ac a osodant eu dwylaw arno yn fy enw i; ac os bydd y claf farw, efe a gaiff farw i mi, ac os bydd byw, caiff fyw i mi. Byddwch fyw ynghyd mewn cariad, ac wylwch am golli y rhai a fyddant farw, ac yn fwy neillduol am y rhai nad oes obaith ganddynt am adgyfodiad gogoneddus. A bydd i'r rhai a fyddant farw ynof fi, na chant brofi marwolaeth, canys melys fydd iddynt hwy; a'r rhai ni fyddant farw ynof fi, gwae fydd iddynt, canys eu marwolaeth sydd chwerw.

13. Ac etto, bydd i'r hwn sydd ganddo ffydd ynof fi i'w iachâu, ac sydd heb ei apwyntio i farwolaeth, efe a gaiff ei iachâu; yr hwn sydd ganddo ffydd i weled a gaiff weled; yr hwn sydd ganddo ffydd i glywed a gaiff glywed; y cloff ag sydd ganddo ffydd i làmu a làma; a'r rhai sydd heb ffydd i wneuthur y pethau hyn, ond yn credu ynof fi, ydynt â gallu i ddyfod yn feibion i mi; ac yn gymmaint ag na thoront fy nghyfreithiau i, ti a ddygi eu gwendidau hwy.

14. Rhaid i ti sefyll yn lle dy oruchwyliaeth; na chymmer wisg dy frawd; rhaid i ti dalu am yr hyn a dderbyni gan dy frawd; ac os bydd i ti gael mwy nag sydd yn ddigon er dy gynnaliaeth, gosod ef yn fy ystordy i, fel y byddo i bob peth gael ei wneyd yn ol yr hyn a lefarais i.

15. Tydi a ofyni, a'm hysgrythyrau i a roddir fel yr wyf wedi apwyntio, a hwy a gedwir mewn diogelwch; ac y mae yn addas i ti dewi a son mewn perthynas iddynt, a pheidio eu

dysgu hyd oni dderbyniot hwy yn gyflawn. Ac yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi wedi hyny eu dysgu i bob dyn; canys hwy a ddysgir i bob cenedl, llwyth, iaith, a phobl.

16. Tydi a gymmeri y pethau a dderbyniaist, y rhai a roddwyd i ti yn yr ysgrythyrau yn gyfraith, i fod fy nghyfraith i lywodraethu fy eglwys; a'r hwn a wna yn ol y pethau hyn a gedwir, a'r hwn nis gwna hwynt a ddemnir, os ef a barha.

17. Os gofyni, tydi a dderbyni ddadguddiad ar ddadguddiad, gwybodaeth ar wybodaeth, fel y byddo i ti wybod y dirgeledigaethau a'r pethau heddychol—yr hyn sydd yn dwyn llawenydd, yr hyn sydd yn dwyn bywyd tragywyddol. Tydi a ofyni, ac fe a ddadguddir i ti yn fy amser priodol fy hun, pa le yr adeiladir y Jerusalem Newydd.

18. Ac wele, daw oddiamgylch y bydd i'm gweision gael eu danfon allan i'r dwyrain ac i'r gorllewin, i'r gogledd ac i'r dëau; ac hyd y nod yn awr, bydded i'r hwn sydd yn myned allan i'r dwyrain, ddysgu y rhai a argyhoeddir i ffoi tua'r gorllewin, o herwydd yr hyn sydd i ddyfod ar y ddaear, ac o achos cydfwriadau dirgel. Wele, ti a sylwi ar yr holl bethau hyn, a'th wobr a fydd fawr; canys i chwi y rhoddwyd i wybod dirgelion y deyrnas, ond ni roddwyd i'r byd eu gwybod hwynt. Chwi a gedwch y cyfreithiau a dderbyniwch, a byddwch ffyddlawn. Ac yn ol hyn chwi a dderbyniwch gyfammodau eglwysig, y rhai a fyddant yn ddigonol i'ch sefydlu chwi, yma ac yn y Jerusalem Newydd. Gan hyny, yr hwn a fyddo mewn diffyg o ddoethineb, gofyned genyf fi, a mi a roddaf iddo yn haelionus, ac ni ddannodaf iddo. Dyrchefwch eich calonau a llawenhewch, canys i chwi y rhoddwyd y deyrnas, neu mewn geiriau ereill, allweddau yr eglwys. Felly y byddo. Amen.

19. Yr offeiriaid a'r dysgawdwyr a gant eu goruchwyliaethau, hyd y nod megys yr aelodau; a'r henuriaid, neu yr arch-offeiriaid, y rhai a benodir i gynnorthwyo yr esgob fel cynghorwyr yn mhob peth, ydynt i gael cynnal eu teuluoedd allan o'r meddiannau a gyssegrir i'r esgob, er lles y tlodion, a dybenion ereill, fel y crybwyllwyd yn flaenorol; neu y maent i dderbyn tâl cyfiawn am eu gwasanaeth, naill ai goruchwyliaeth neu rywbeth arall, fel y tybir yn oreu ac y penderfynir gan y cynghorwyr a'r esgob. A'r esgob hefyd a gaiff dderbyn ei gynnaliaeth, neu dâl cyfiawn am ei wasanaeth yn yr eglwys.

20. Wele, yn wir, meddaf i chwi, pwy bynag yn eich plith chwi a osodant ymaith eu cydymmeithion o herwydd godineb, neu mewn geiriau ereill, os tystiant ger eich bron chwi mewn pob gostyngeiddrwydd calon mai felly y mae yr achos, ni chewch eu taflu hwynt allan o'ch plith chwi; ond os cewch fod rhyw bersonau wedi gadael eu cydymmeithion o herwydd godineb, ac mai hwy eu hunain yw y troseddwyr, a bod eu cydymmeithion yn fyw, bydded iddynt gael eu taflu allan o'ch plith chwi. A thrachefn, meddaf i chwi, byddwch wyliadwrus a gofalus, gyda phob ymchwiliad, na fyddo i chwi dderbyn neb o'r cyfryw i'ch plith, os byddant wedi priodi; ac os na fyddant wedi priodi, rhaid iddynt edifarhau am eu holl bechodau, onite na dderbyniwch hwynt.

21. A thrachefn, pob person a berthyna i'r eglwys hon o eiddo Crist, a gaiff fod yn ofalus i gadw holl orchymynion a chyfammodau yr eglwys. A daw oddiamgylch, os bydd i ryw bersonau yn eich plith chwi ladd, hwy a gant eu traddodi i fyny, fel yr ymddyger atynt yn ol cyfreithiau y tir; canys cofier nad oes faddeuant i'r cyfryw, a rhaid ei brofi yn ol cyfreithiau y tir.

22. Ac os bydd i ryw ddyn neu wraig gyflawni godineb, efe neu hi a gaiff ei brofi gerbron dau neu ragor o henuriaid yr eglwys, a rhaid sefydlu pob gair yn ei erbyn ef neu hi trwy ddau o dystion o'r eglwys, ac nid o'r gelynion; a goreu oll, os bydd ychwaneg nâ dau o dystion. Ond efe neu hi a gondemnir trwy enau dau o dystion, a'r henuriaid a osodant yr achos gerbron yr eglwys, a'r eglwys a godant i fyny eu dwylaw yn ei erbyn ef neu hi, fel yr ymddyger atynt yn ol cyfraith Duw. Ac os dichonadwy, y mae yn anghenrheidiol fod yr esgob yn bresennol hefyd. Ac fel hyn y gwnewch yn mhob achosion a ddygir ger eich bron chwi. Ac os bydd i ddyn neu fenyw yspeilio, efe neu hi a draddodir i fyny i gyfraith y tir. Ac os bydd iddo ef neu hi ledrata, efe neu hi a draddodir i fyny i gyfraith y tir. Ac os bydd iddo ef neu hi ddywedyd celwydd, efe neu hi a draddodir i fyny i gyfaith y tir. Os bydd iddo ef neu hi wneuthur unrhyw ddrygioni, efe neu hi a draddodir i fyny i'r gyfraith, ïe, cyfaith Duw.

23. Ac os dy frawd neu dy chwaer a drosedda yn dy erbyn, rhaid i ti ei gymmeryd ef neu hi rhyngddo ef neu hi a thi dy

hun; ac os bydd iddo ef neu hi gyffesu, rhaid i ti fod yn gymmodlawn. Ac os na fydd iddo ef neu hi gyffesu, rhaid i ti ei draddodi ef neu hi i fyny i'r eglwys, nid i'r aelodau, eithr i'r henuriaid. A chaiff hyny ei wneuthur mewn cyfarfod, a hyny nid o flaen y byd. Ac os dy frawd neu dy chwaer a drosedda yn erbyn llawer, cerydder ef neu hi gerbron llawer. Ac os bydd i neb droseddu yn gyhoeddus, efe neu hi a geryddir yn gyhoeddus, fel y byddo cywilydd arno ef neu hi. Ac os na fydd iddo ef neu hi gyffesu, traddoder ef neu hi i fyny i gyfraith Duw. Os bydd i neb droseddu yn ddirgel, cerydder ef neu hi yn ddirgel, fel y byddo iddo ef neu hi gael cyfleusdra i gyffesu yn ddirgel wrtho ef neu hi y darfu iddo ef neu hi droseddu yn ei erbyn, ac wrth Dduw, fel na fyddo i'r eglwys lefaru yn waradwyddus am dano ef neu hi. Ac fel hyn yr ymddygwch yn mhob peth.

DOSRAN XIV.

Dadguddiad a roddwyd Chwefror, 1831.

1. O gwrandewch, chwi henuriaid fy eglwys, a rhoddwch glust i'r geiriau ag wyf yn lefaru wrthych; canys wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, chwi a dderbyniasoch orchymyn yn gyfraith i'm heglwys, trwyddo ef a benodais i chwi, i dderbyn gorchymynion a dadguddiadau o'm llaw i. A hyn a wybyddwch yn sicr, nad oes neb arall wedi ei benodi i chwi i dderbyn gorchymynion a dadguddiadau hyd oni chymmerer ef, os arosa efe ynof fi.

2. Eithr yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni fydd i neb arall gael ei benodi i'r ddawn hon oddieithr trwyddo ef, canys os cymmerir hi oddiwrtho ef, ni fydd ganddo awdurdod oddieithr i benodi arall yn ei le; a hyn a fydd yn gyfraith i chwi, nad oes i chwi dderbyn hyfforddiadau neb a ddelont ger eich bron chwi megys dadguddiadau neu orchymynion; a hyn yr wyf yn ei roddi i chwi fel na fyddo i chwi gael eich twyllo, fel y gwybyddoch nad ydynt o honof fi. Canys yn wir, meddaf i chwi, yr hwn a ordeinir o honof fi a ddaw i mewn trwy y porth ac a ordeinir fel y dywedais wrthych o'r blaen, i ddysgu y dadguddiadau hyny a dderbyniasoch ac a gewch eu derbyn trwyddo ef a benodais i.

3. Ac yn awr, wele, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod

i chwi pan wedi ymgynnull ynghyd, ddysgu ac adeiladu eich gilydd, fel y gwybyddoch pa fodd i ymddwyn a chyfarwyddo fy eglwys, pa fodd i weithredu ar bynciau fy nghyfraith a'm gorchymynion, y rhai a roddais; ac fel hyn y deuwch yn wybodus yn nghyfraith fy eglwys, ac y santeiddir chwi trwy yr hyn a dderbyniasoch, ac ymrwymwch i weithredu yn mhob santeiddrwydd ger fy mron i, megys yn gymmaint ag y gwneloch hyn, gogoniant a ychwanegir i'r deyrnas a dderbyniasoch. Yn gymmaint ag na wneloch hyn, hyd y nod yr hyn a dderbyniasoch a gymmerir ymaith. Certhwch allan y drygioni sydd yn eich plith; ymsanteiddiwch ger fy mron i, ac os ydych yn dymuno gogoniant y deyrnas, penodwch fy ngwas Joseph Smith, ieu., a deliwch ef i fyny ger fy mron i trwy weddi ffydd. A thrachefn, meddaf i chwi, os ydych yn dymuno dirgeledigaethau y deyrnas. darperwch iddo ymborth a gwisgoedd, a pha beth bynag a fyddo ei anghen arno i gyflawni y gwaith, yr hwn a orchymynais iddo; ac os na wnewch hyny, efe a arosa iddynt hwy a'i derbyniasant, fel y cadwyf i mi fy hun bobl bur ger fy mron i.

4. Etto, meddaf, gwrandewch chwi henuriaid fy eglwys, y rhai a benodais; ni anfonir chwi allan i gael eich dysgu, ond i ddysgu plant dynion y pethau a osodais i yn eich dwylaw trwy allu fy Ysbryd; ac yr ydych chwi i gael eich dysgu oddiuchod. Ymsanteiddiwch, a chwi a gynnysgaethir â gallu, fel y byddo i chwi roddi megys y lleferais i.

5. Gwrandewch chwi, canys, wele, dydd mawr yr Arglwydd sydd yn agos wrth law. Canys dyfod y mae y dydd pan y bydd i'r Arglwydd anfon ei lais allan o'r nef; y nefoedd a ysgydwant a'r ddaear a gryna, ac udgorn Duw a seinia yn hir ac yn uchel, a dyweda wrth y cenedlaethau cysgedig, Chwi, seintiau, cyfodwch, a byddwch fyw; chwi, bechaduriaid, aroswch a chysgwch hyd oni alwyf etto; gan hyny, gwregyswch eich lwynau, rhag eich cael chwi yn mhlith y drygionus. Dyrchefwch eich llais, ac nac arbedwch. Galwch ar y cenedloedd i edifarhau, yn hen ac ieuanc, yn gaeth a rhydd, gan ddywedyd, Ymbarotôwch erbyn dydd mawr yr Arglwydd; canys os myfi, yr hwn wyf ddyn, a ddyrchafaf fy llef, ac a alwaf arnoch chwi i edifarhau, a chwi a'm casêwch, pa beth a ddywedwch pan ddaw y dydd pan fydd i'r taranau anfon allan eu lleisiau o eithafoedd y ddaear, a llefaru yn nghlustiau pawb byw, gan ddywedyd, Edifarhewch, ac

ymbarotowch erbyn dydd mawr yr Arglwydd; ïe, a thrachefn, pan byḍd i'r mellt saethu o'r dwyrain i'r gorllewin, ac anfon allan eu lleisiau i bawb byw, a gwneyd i glustiau pawb a'u clywant ferwino, gan ddywedyd y geiriau hyn, Edifarhewch chwi, canys daeth dydd mawr yr Arglwydd.

6. A thrachefn, yr Arglwydd a enfyn ei lais allan o'r nef, gan ddywedyd, Gwrandewch, O, chwi genedloedd y ddaear, a chlywch eiriau y Duw hwnw a'ch gwnaeth chwi. O, chwi genedloedd y ddaear, pa sawl gwaith y mynaswn eich casglu yn nghyd megys y casgla y iâr ei chywion dan ei hadenydd, ond nis mynech? Pa sawl gwaith y gelwais arnoch chwi trwy enau fy ngweision, a thrwy weinidogaeth angylion, a thrwy fy llais fy hun, a thrwy lais taranau, a llais mellt, a thrwy lais tymhestloedd, a thrwy lais daeargryfäau, a thrwy lais cenllusg, a thrwy lais newyn ac heintiau o bob math, a thrwy uchel swn udgorn, a thrwy lais barn, a llais trugaredd trwy gydol y dydd, a thrwy lais gogoniant ac anrhydedd, a goludoedd bywyd tragywyddol, a buaswn yn eich achub chwi â iachawdwriaeth dragywyddol, ond nis mynech? Wele, y mae y dydd wedi dyfod, pan y mae cwpan digofaint fy llidiogrwydd yn llawn.

7. Wele, yn wir, meddaf i chwi, y rhai hyn ydynt eiriau yr Arglwydd eich Duw; gan hyny gweithiwch chwi, gweithiwch chwi yn fy ngwinllan i am y tro diweddaf—am y tro diweddaf galwch ar drigolion y ddaear, canys yn fy amser priodol fy hun myfi a ddeuaf ar y ddaear mewn barn, a'm pobl a brynir, ac a deyrnasant gyda mi ar y ddaear, o herwydd y Milflwyddiant mawr, am yr hwn y lleferais trwy enau fy ngweision, a ddaw; canys Satan a rwymir, a phan ryddheir ef drachefn, ni theyrnasa ond dros dymmor bychan, ac yna y daw diwedd y ddaear; a'r hwn sydd yn byw mewn cyfiawnder a newidir ar darawiad llygad, a'r ddaear a â heibio megys trwy dân; a'r drygionus a ânt ymaith i dân anniffoddadwy, a'u diwedd ni ŵyr un dyn ar y ddaear, ac ni chaiff byth wybod, hyd oni ddelont ger fy mron i mewn barn.

8. Gwrandewch chwi ar y geiriau hyn; wele, myfi wyf Iesu Grist, Iachawdwr y byd. Trysorwch y pethau hyn yn eich calonau, a bydded i ddiffiloldeb tragywyddoldeb orphwys ar eich meddyliau. Byddwch sobr. Cedwch fy holl orchymynion. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XV.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth 7, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi bobl fy eglwys, i ba rai y rhoddwyd y deyrnas,—gwrandewch chwi, a rhoddwch glust iddo ef yr hwn a osododd sylfaen y ddaear, yr hwn a wnaeth y nefoedd a'u holl lueodd hwynt, a thrwy yr hwn y gwnaed pob peth sydd yn byw, yn symud, ac yn bod. Ac etto, yr wyf yn dywedyd, gwrandewch ar fy llais, rhag i angeu eich gorddiwes chwi; ac mewn awr na thybioch y bydd yr haf wedi myned heibio, a'r cynauaf wedi darfod, a'ch eneidiau chwithau heb fod yn gadwedig. Gwrandewch arno ef yr hwn yw yr eiriolwr gyda'r Tad, yr hwn sydd yn dadleu eich achos chwi ger ei fron ef, gan ddywedyd, Dad, wele ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth ef yr hwn ni wnaeth bechod, ac yn yr hwn y'th lwyr foddlonwyd; wele waed dy Fab yr hwn a dywalltwyd,—ei waed ef yr hwn a roddaist fel y byddai i ti gael dy ogoneddu; gan hyny, Dad, arbed fy mrodyr hyn, y rhai a gredant yn fy enw i, fel y delont ataf fi, ac y caffont fywyd tragywyddol.

2. Gwrandewch, O chwi bobl fy eglwys, a chwi henuriaid, cyd-ymwrandewch, a chlywch fy llais tra y gelwir hi heddyw, ac na chaledwch eich calonau, canys, yn wir meddaf i chwi, myfi wyf Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, goleuni a bywyd y byd,—y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a'r tywyllwch nid yw yn ei amgyffred ef. Myfi a ddaethym at yr eiddo fy hunan, a'r eiddo fy hunan ni'm derbyniasant; ond i gymmaint ag a'm derbyniasant, y rhoddais allu i wneuthur gwyrthiau lawer, a dyfod yn feibion i Dduw, ac i'r rhai a gredasant yn fy enw i, y rhoddais i allu i gael bywyd tragywyddol. Ac felly yr anfonais fy nghyfammod tragywyddol i'r byd, i fod yn oleuni i'r byd, ac i fod yn faner i'm pobl ac i'r Cenedloedd i ymgeisio am dani, ac i fod yn genad o flaen fy wyneb i barotôi y ffordd o'm blaen; gan hyny, deuwch chwi ati hi, ac â'r hwn a ddelo myfi a ymresymaf megys â dynion yn y dyddiau gynt, a mi a egluraf i chwi fy rhesymau cedyrn, gan hyny, cyd-ymwrandewch a gadewch i mi ei ddangos i chwi, hyd y nod fy noethineb,—doethineb yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei fod yn Dduw Enoch, a'i frodyr, y rhai a wahanwyd oddiwrth y ddaear, ac a dderbyniwyd ataf fi fy hun,—dinas wedi ei

chadw hyd ddydd cyflawnder a ddaw,—dydd a geisiwyd gan yr holl ddynion santaidd, ond ni chawsant ef o herwydd drygioni a ffieidd-dra; ac addefasant mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear; ond derbyniasant addewid y byddai iddynt ei gael a'i weled yn eu cnawd. Gan hyny, gwrandewch, a mi a ymresymaf â chwi, ac a lefaraf wrthych ac a brophwydaf, megys wrth ddynion yn y dyddiau gynt; ac mi a'i dangosaf yn eglur, megys y dangosais i'm dyscyblion pan oeddwn yn sefyll o'u blaen hwynt yn y cnawd, ac y llefarais wrthynt, gan ddywedyd, Gan i chwi ofyn i mi mewn perthynas i arwyddion fy nyfodiad yn y dydd y deuaf yn fy ngogoniant ar gymylau y nef, i gyflawni yr addewidion a wnaethym i'ch tadau, canys gan eich bod chwi wedi edrych ar hir absennoldeb eich ysbrydion o'ch cyrff ei fod yn gaethiwed, mi a ddangosaf i chwi pa fodd y daw dydd prynedigaeth, ac hefyd adferiad Israel wasgaredig.

3. Ac yn awr chwi a welwch y deml hon sydd yn Jerusalem, yr hon a alwch chwi yn dŷ Dduw, a'ch gelynion a ddywedant na fydd i'r tŷ hwn fyth syrthio. Ond, yn wir, meddaf y chwi, yr anghyfannedd-dra hwnw a ddaw ar y genedlaeth hon megys lleidr yn y nos, a'r bobl hyn a ddinystrir ac a wasgerir yn mhlith yr holl genedloedd. A'r deml hon a welwch yn awr, a deflir i lawr, fel na adewir maen ar faen. A daw oddiamgylch, nad â y genedlaeth hon o Iuddewon heibio, hyd oni ddaw i ben yr holl anghyfannedd-dra a lefarais wrthych chwi am danynt hwy. Yr ydych yn dywedyd eich bod yn gwybod fod diwedd y byd yn dyfod; yr ydych yn dywedyd hefyd eich bod yn gwybod y bydd i'r nefoedd a'r ddaear fyned heibio; yn hyn yr ydych yn dywedyd yn gywir, canys felly y bydd; ond nid â heibio y pethau a ddywedais i wrthych hyd oni chyflawnir y cwbl oll. A hyn a ddywedais wrthych chwi am Jerusalem, a phan ddaw y dydd hwnw, bydd i weddill gael ei wasgaru yn mhlith yr holl genedloedd; eithr hwy a gesglir drachefn, ond hwy a arosant hyd oni chyflawnir amser y Cenedloedd.

4. Ac yn y dydd hwnw y clywir am ryfeloedd a son am ryfeloedd, a'r holl ddaear a fydd mewn terfysg, a chalonau dynion a fethant, a dywedant fod Crist yn oedi ei ddyfodiad hyd ddiwedd y ddaear. A chariad dynion a oera, a drygioni a

amlha; a phan ddaw amser y Cenedloedd i mewn, goleuni a dôra allan yn mhlith y rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch, a bydd yn gyflawnder fy efengyl i; ond ni dderbyniant ef, canys ni chanfyddant y goleuni, a hwy a droant eu calonau oddiwrthyf fi o herwydd gorchymynion dynion; ac yn y genedlaeth hòno y cyflawnir amseroedd y Cenedloedd; a bydd dynion yn aros yn y genedlaeth hòno, y rhai nid ânt ymaith, hyd oni welont ffiangell lifeiriol; canys clefyd anghyfanneddol a orchuddia y tir; ond fy nyscyblion i a safant mewn lleoedd santaidd, ac ni symudir hwynt; eithr yn mhlith y drygionus, dynion a dderchafant eu llefau, ac a felldithiant Dduw, a byddant farw. A bydd daeargrynfäau hefyd mewn amryw fanau, a llawer o anghyfannedd-derau; etto dynion a galedant eu calonau yn fy erbyn i, a chymmerant i fyny y cleddyf y naill yn erbyn y llall, a lladdant y naill y llall.

5. Ac yn awr, pan lefarais i yr Arglwydd y geiriau hyn wrth fy nyscyblion, hwy a gythryblwyd; a mi a ddywedais wrthynt, Na chythrybler chwi, canys pan ddaw i ben yr holl bethau hyn, chwi a ellwch wybod y bydd i'r addewidion a wnaed i chwi gael eu cyflawni; a phan ddechreuo y goleuni dòri allan, bydd iddynt hwy megys dammeg a ddangosaf i chwi: yr ydych yn edrych ac yn canfod y ffigys-brenau, ac yr ydych yn eu gweled hwynt â'ch llygaid, a dywedwch pan weloch hwynt yn dechreu blaguro, a'u dail etto yn dyner, fod yr haf yn agos wrth law; felly y bydd yn y dydd hwnw pan welont yr holl bethau hyn, yna y gwybyddant fod yr awr yn agos.

6. A bydd i'r hwn sydd yn fy ofni i, edrych allan am ddyfodiad dydd mawr yr Arglwydd, hyd y nod am arwyddion dyfodiad Mab y dyn; a hwy a welant arwyddion a rhyfeddodau, canys hwy a ddangosir allan yn y nefoedd uchod, ac yn y ddaear isod; a hwy a welant waed a thân, ac ager mwg; a chyn dyfodiad dydd yr Arglwydd, yr haul a dywyllir a'r lloer a droir yn waed, a'r sêr a syrthiant o'r nef; a'r gweddill a gesglir i'r lle hwn, ac yna yr edrychant am danaf fi, ac, wele, myfi a ddeuaf; a hwy a gant fy ngweled yn nghymylau y nef, wedi fy ngwisgo â gallu a gogoniant mawr, gyda'r holl angylion santaidd; a'r hwn nid yw yn gwylio am danaf fi a dòrir ymaith.

7. Ond cyn y syrthia braich yr Arglwydd, angel a gân ei

udgorn, a'r saint a hunasant a ddeuant allan i'm cyfarfod i yn y cwmwl; gan hyny os hunasoch mewn heddwch, gwyn eich byd, o herwydd gan eich bod yn awr yn fy ngweled ac yn gwybod fy mod i, felly hefyd y cewch ddyfod ataf fi, a'ch eneidiau a fyddant byw, a'ch prynedigaeth a berffeithir, a'r saint a ddeuant allan o bedwar cwr y byd.

8. Yna braich yr Arglwydd a syrthia ar y cenedlaethau, ac yna y gosoda yr Arglwydd ei droed ar y mynydd hwn, ac efe a holltir yn ddau, a'r ddaear a gryn, ac a delgynga yn ol ac yn mlaen, a'r nefoedd hefyd a ysgydwant, a'r Arglwydd a enfyn allan ei lais, a holl derfynau y ddaear a'i clywant, a chenedloedd y ddaear a alarant, a'r rhai a chwarddasant a welant eu ffolineb, ac adfyd a orchuddia y gwatwarwr, a'r gwawdiwr a ysir, a'r rhai a wyliasant am ddrygioni a dòrir i lawr ac a deflir i'r tân.

9. Ac yna yr Iuddewon a edrychant arnaf fi, ac a ddywedant, Beth yw yr archollion hyn sydd yn dy ddwylaw ac yn dy draed? Yna y gwybyddant mai myfi yw yr Arglwydd; canys mi a ddywedaf wrthynt, Yr archollion hyn yw yr archollion â pha rai y'm archollwyd yn nhŷ fy nghyfeillion. Myfi yw yr hwn a dderchafwyd i fyny. Myfi yw Iesu a groeshoeliwyd. Myfi ydwyf Fab Duw. Ac yna y wylant o herwydd eu drygioni; yna y galarant o herwydd iddynt erlid eu Brenin.

10. Ac yna y caiff y cenedloedd paganaidd eu prynu, a'r rhai na wyddent un gyfraith a gânt ran yn yr adgyfodiad cyntaf; a bydd yn oddefadwy arnynt hwy; a Satan a rwymir fel na chaiff le yn nghalonau plant dynion. Ac yn y dydd hwnw, pan ddeuaf yn fy ngogoniant, y caiff y ddammeg ei chyflawni yr hon a lefarais i am y deg morwyn; canys y rhai ydynt ddoeth, ac a dderbyniasant y gwirionedd, ac a gymmerasant yr Ysbryd Glân i'w cyfarwyddo, ac ni chawsant eu twyllo; yn wir, meddaf i chwi, ni thòrir hwynt i lawr, ac ni theflir yn tân, eithr arosant y dydd, a'r ddaear a roddir iddynt hwy yn etifeddiaeth; a hwy a liosogant ac a gryfhant, a'u plant a dyfant i fyny heb bechod, i iachawdwriaeth, canys yr Arglwydd a fydd yn eu canol hwynt, a'i ogoniant a fydd arnynt, ac efe a fydd eu brenin a'u deddfroddwr.

11. Ac yn awr, wele, meddaf i chwi, ni roddir i chwi wybod dim yn mhellach mewn perthynas i'r bennod hon, hyd oni chyflcithir y Testament Newydd, ac ynddo ef yr hysbysir yr

holl bethau hyn; gan hyny yr wyf yn rhoddi i chwi fel y galloch yn awr ei gyfleithu, fel y byddoch yn barod erbyn y pethau i ddyfod; canys, yn wir, meddaf i chwi, y mae pethau mawrion yn eich aros chwi; yr ydych yn clywed am ryfeloedd mewn tiroedd pell, ond, wele, meddaf i chwi, y maent yn agos, hyd y nod wrth eich drysau, a chyn pen llawer o flynyddoedd chwi a gewch glywed am ryfeloedd yn eich tiroedd eich hunain.

12. O ba herwydd, myfi, yr Arglwydd, a ddywedais, Ymgesglwch allan o'r tiroedd dwyreiniol, ymgynnullwch ynghyd, chwi henuriaid fy eglwys; ewch allan i'r gwledydd gorllewinol, galwch ar y trigolion i edifarhau, ac yn gymmaint ag yr edifarhant, adeiladwch eglwysi i mi; ac ag un galon ac un meddwl, cesglwch ynghyd eich cyfoeth, fel y galloch brynu etifeddiaeth a benodir i chwi yn ol llaw, a'r hon a elwir y Jerusalem Newydd, tir tangnefedd, dinas noddfa, lle o ddiogelwch i saint y Duw goruchaf; a gogoniant yr Arglwydd a fydd yno, a dychryn yr Arglwydd a fydd yno hefyd, fel na ddaw y drygionus iddi, a hi a elwir Seion.

13. A daw oddiamgylch, yn mysg y drygionus, pob dyn na chymmer ei gleddyf yn erbyn ei gymmydog, a ffoa i Seion am ddiogelwch. Ac ymgynnullir iddi o blith pob cenedl dan y nef; a hi a fydd yr unig bobl na ryfelant â'u gilydd. A dywedir yn mhlith y drygionus, Nid awn i fyny i ryfela yn erbyn Seion, canys preswylwyr Seion ydynt ofnadwy; gan hyny nis gallwn sefyll.

14. A daw oddiamgylch y bydd i'r cyfiawn gael eu casglu allan o blith yr holl genedloedd, a hwy a ddeuant i Seion, yn canu â chaniadau o lawenydd tragywyddol.

15. Ac yn awr, meddaf i chwi, cadwch y pethau hyn rhag myned ar led i'r byd, hyd oni welwyf yn addas i chwi gyflawni y gwaith hwn yn ngolwg y bobl, ac yn ngolwg eich gelynion, fel na wybyddont eich gweithredoedd hyd oni fyddoch wedi cyflawni y peth a orchymynais i chwi; fel pan wybyddont hwy hyny, y byddo iddynt ystyried y pethau hyn; o herwydd pan ymddangoso yr Arglwydd, efe a fydd yn ofnadwy iddynt hwy, fel y bydd i ofn eu cymmeryd hwy, a safant ymaith yn mhell a chrynant; a'r holl genedloedd a ofnant o herwydd dychryn yr Arglwydd, a nerth ei allu ef. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XVI.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi bobl fy eglwys, canys yn wir, meddaf i chwi, y pethau hyn a lefarwyd wrthych chwi er eich lles a'ch addysg; eithr er y pethau hyny a ysgrifenwyd, rhoddwyd ef bob amser i henuriaid fy eglwys o'r dechreuad, a bydd felly dros byth, i ddwyn yn mlaen bob cyfarfodydd megys y cyfarwyddir ac y tywysir hwynt gan yr Ysbryd Glân; er hyny gorchymynir i chwi na thafloch neb allan o'ch cyfarfodydd cyhoeddus, y rhai a gynnelir gerbron y byd; hefyd gorchymynir i chwi na thafloch neb allan, ag sydd yn perthyn i'r eglwys, o'ch cyfarfodydd cymun; etto, os bydd rhyw un wedi troseddu, na chyfranoged hyd oni fyddo wedi gwneyd cymmod.

2. A thrachefn, meddaf i chwi, na thaflwch neb allan o'ch cyfarfodydd cymun, ag sydd yn taer geisio y deyrnas: yr wyf yn llefaru hyn am y rhai nad ydynt o'r eglwys.

3. A thrachefn, meddaf i chwi, mewn perthynas i'ch cyfarfodydd cadarnhad, os bydd rhyw rai nad ydynt o'r eglwys, ag sydd yn taer geisio ar ol y deyrnas, na theflwch hwynt allan; eithr gorchymynir i chwi yn mhob peth ofyn gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi yn haelionus; a'r hyn a dystiolaetha yr ysbryd wrthych, hyny a fynaf i chwi ei wneuthur yn mhob santeiddrwydd calon, gan rodio yn uniawn ger fy mron i, ac ystyried diwedd eich iachawdwriaeth, gan wneuthur pob peth gyda gweddi a diolchgarwch, fel na thwyller chwi gan ddrwg ysbrydion, neu athrawiaethau cythreuliaid, neu orchymynion dynion, o herwydd rhai ydynt o ddynion, ac ereill o gythreuliaid.

4. Gan hyny, ymogelwch rhag i chwi gael eich twyllo; ac fel na thwyller chwi, taer geisiwch y doniau goreu, gan gofio bob amser at ba beth y maent yn cael eu rhoddi; canys yn wir meddaf i chwi, y maent yn cael eu rhoddi er lles y rhai a'm carant i, ac a gadwant fy holl orchymynion, a'r hwn sydd yn ymdrechu gwneuthur felly, fel y byddo i bawb gael eu lleshau ag sydd yn ceisio ac yn gofyn genyf fi, yr hwn nid yw yn gofyn am arwydd fel y gallo ei defnyddio at ei chwantau ei hun.

5. A thrachefn, yn wir meddaf y chwi, mynwn i chwi bob

amser gofio, a chadw yn wastad yn eich meddyliau, beth yw y doniau hyny a roddir i'r eglwys, canys ni roddir pob dawn i bawb; o herwydd y mae llawer o ddoniau, ac i bob dyn y rhoddir dawn gan ysbryd Duw; i rai y rhoddir y naill, ac i rai y rhoddir arall, fel y byddo i bawb gael eu lleshau trwy hyny; i rai y rhoddwyd gan yr Ysbryd Glân i wybod mai Iesu Grist yw Mab Duw, ac iddo gael ei groeshoelio dros bechodau y byd; i ereill rhoddwyd iddynt gredu ar eu geiriau hwynt, fel y caffont hwy hefyd fywyd tragywyddol, os parhant yn ffyddlawn.

6. A thrachefn, i rai y rhoddwyd gan yr Ysbryd Glân i wybod y gwahaniaethau mewn gweinyddiad, fel y gwelo yr un Arglwydd yn dda, yn ol ewyllys yr Arglwydd, gan gyfaddasu ei drugareddau yn unol â chyflyrau plant dynion. A thrachefn, rhoddir gan yr Ysbryd Glân i rai wybod amrywiaethau gweithrediadau, pa un a ydyw o Dduw, fel y byddo i egluriadau yr Ysbryd gael eu rhoddi i bob dyn er lleshad.

7. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, i rai y rhoddwyd gair doethineb gan ysbryd Duw; i arall y rhoddwyd gair gwybodaeth, fel y dysger pawb i fod yn ddoeth a chael gwybodaeth. A thrachefn, i rai y rhoddwyd ffydd i gael eu hiachâu, ac i ereill y rhoddwyd ffydd i iachâu. A thrachefn, i rai y rhoddwyd cyflawni gwyrthiau, ac i ereill rhoddwyd prophwydo, ac i ereill gwahaniaethu ysbrydion. A thrachefn, rhoddwyd i rai lefaru â thafodau, ac i arall y rhoddwyd dehongliad tafodau; a'r holl ddoniau hyn a ddeuant oddiwrth Dduw, er lles i blant Duw. Ac i esgob yr eglwys, ac i'r cyfryw a benodwyd ac a ordeiniwyd gan Dduw i wylio dros yr eglwys, ac i fod yn henuriaid i'r eglwys, y mae i gael ei roddi iddynt adnabod y doniau hyn, rhag fod yn eich plith chwi yn proffesu, ac etto heb fod o Dduw.

8. A bydd i'r hwn a ofyno mewn ysbryd, gael derbyn mewn ysbryd; fel y rhoddir i rai gael yr holl ddoniau hyn, fel y byddo pen, i'r dyben i'r holl aelodau gael lles trwy hyny; yr hwn a ofyna yn yr ysbryd, sydd yn gofyn yn ol ewyllys Duw, gan hyny gwneir fel y mae yn gofyn.

9. A thrachefn, meddaf i chwi, rhaid i bob peth gael ei wneuthur yn enw Crist, beth bynag a wneloch yn yr ysbryd; a rhaid i chwi roddi diolch i Dduw yn yr ysbryd am ba fendith bynag y'ch bendithir â hi; a rhaid i chwi ymarfer

rhinwedd a santeiddrwydd ger fy mron i yn wastadol. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XVII.

Dadguddiad a roddwyd Mai, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, a rhoddwch glust i lais y bywiol Dduw, a thelwch sylw i eiriau doethineb a roddir i chwi, yn ol fel y gofynasoch ac y cytunasoch ynghylch yr eglwys, a'r ysbrydion ag ydynt wedi myned ar led y ddaear. Wele, yn wir meddaf i chwi, y mae llawer o ysbrydion y rhai ydynt ysbrydion gau, y rhai ydynt wedi myned allan i'r ddaear, i dwyllo y byd; ac hefyd y mae Satan wedi ceisio eich twyllo chwi, fel y byddo iddo eich dymchwelyd.

2. Wele, myfi yr Arglwydd a edrychais arnoch chwi, ac a welais ffieidd-dra yn yr eglwys sydd yn proffesu fy enw; ond gwyn eu byd hwy sydd yn ffyddlawn ac a barhant, pa un ai mewn bywyd neu mewn angeu, canys hwy a etifeddant fywyd tragywyddol. Ond gwae i'r rhai hyny sydd yn dwyllwyr a rhagrithwyr, o herwydd, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Myfi a'u dygaf hwynt i farn.

3. Wele, yn wir meddaf i chwi, y mae rhagrithwyr yn eich plith, a thwyllasant rai, yr hyn a roddodd allu i'r gwrthwynebwr, ond wele y cyfryw a ddiwygir; eithr y rhagrithwyr a ddadguddir ac a dorir ymaith, naill ai mewn bywyd neu mewn angeu, megys yr wyf fi yn ewyllysio; a gwae i'r rhai hyny a dòrir ymaith o'm heglwys, canys y cyfryw a orchfygwyd gan y byd; gan nyn ymogeled pob dyn rhag iddo wneuthur rhyw beth nad yw mewn gwirionedd a chyfiawnder ger fy mron i.

4. Ac yn awr deuwch, medd yr Arglwydd, trwy yr Ysbryd, wrth henuriaid ei eglwys, ac ymresymwn ynghyd, fel y dealloch; ymresymwn megys y mae dyn yn ymresymu ag un arall wyneb yn wyneb: yn awr pan y mae dyn yn ymresymu, efe a ddeallir gan ddyn, o herwydd y mae yn ymresymu megys dyn, felly hefyd y bydd i mi, yr Arglwydd, ymresymu â chwi, fel y dealloch; o herwydd paham, myfi yr Arglwydd, a ofynaf i chwi y gofyniad hwn, I ba beth yr ordeiniwyd chwi? Ai i bregethu fy efengyl i trwy yr Ysbryd, sef y Dyddanydd a

anfonwyd allan i ddysgu y gwirionedd; ac yna y derbyniasoch chwi ysbrydion nas gallech eu deall, a derbyniasoch hwynt megys oddiwrth Dduw, ac yn hyn y'ch cyfiawnheir? Wele, chwi a gewch ateb y gofyniad hwn eich hunain; er hyny myfi a fyddaf drugarog wrthych,—yr hwn sydd wan yn eich plith a wneir yn gryf yn ol llaw.

5. Yn wir meddaf i chwi, yr hwn sydd wedi ei ordeinio genyf fi, a'i anfon allan i bregethu gair y gwirionedd gan y Dyddanydd, yn ysbryd y gwirionedd, a yw efe yn ei bregethu yn ysbryd y gwirionedd neu mewn rhyw ffordd arall? ac os yw mewn rhyw ffordd arall, nid yw o Dduw. A thrachefn, yr hwn sydd yn derbyn gair y gwirionedd, a yw efe yn ei dderbyn trwy ysbryd y gwirionedd, neu mewn rhyw ffordd arall? os yw mewn rhyw ffordd arall, nid yw o Dduw; gan hyny, paham nas gellwch ddeall a gwybod fod yr hwn sydd yn derbyn y gair trwy ysbryd y gwirionedd, yn ei dderbyn megys y mae yn cael ei bregethu gan ysbryd y gwirionedd?

6. O herwydd paham, yr hwn sydd yn pregethu a'r hwn sydd yn derbyn, ydynt yn deall eu gilydd, a'r ddau a adeiledir ac a gydlawenhant; a'r hwn nid yw yn adeiladu, nid yw o Dduw, a thywyllwch ydyw: yr hwn sydd o Dduw sydd oleuni, a'r hwn sydd yn derbyn goleuni ac yn parhau yn Nuw, a dderbynia fwy o oleuni, a'r goleuni hwnw a gynnydda yn ddyscleiriach dyscleiriach hyd y perffaith ddydd. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, ac yr wyf yn dywedyd fel yr adnabyddoch y goleuni, fel yr ymlidioch dywyllwch ymaith o'ch plith, canys yr hwn a ordeinir gan Dduw ac a anfonir allan, hwnw hefyd a benodir i fod y mwyaf, er ei fod y lleiaf, a gwas pawb oll; gan hyny y mae efe yn feddiannydd ar bob peth, canys pob peth sydd ddarostyngedig iddo ef, yn y nef ac ar y ddaear, y bywyd a'r goleuni, yr ysbryd a'r gallu, a anfonir allan yn ol ewyllys y Tad, trwy Iesu Grist, ei Fab; ond nid oes un dyn yn feddiannydd ar bob peth, oddieithr ei fod wedi ei buro a'i lanhau oddiwrth bob pechod, ac os ydych chwi wedi eich puro a'ch glanhau oddiwrth bob pechod, chwi a ofynwch beth bynag a ewyllysioch yn enw Iesu, ac efe a wneir; ond gwybyddwch hyn, fe a roddir i chwi yr hyn a ofynwch, a chan eich bod wedi eich penodi i fod yn ben, yr ysbrydion a fyddant ddarostyngedig i chwi.

7. Gan hyny daw i ben, os bydd i chwi weled ysbryd yn cael ei egluro yr hwn nis gellwch ei ddeall, ac os na dderbyniwch yr ysbryd hwnw, bydded i chwi ofyn i'r Tad yn enw yr Iesu, ac os na fydd iddo ef roddi i chwi yr ysbryd hwnw, fel y gwybyddoch nad yw o Dduw: a rhoddir i chwi allu dros yr ysbryd hwnw, a bydded i chwi gyhoeddi yn erbyn yr ysbryd hwnw â llef uchel, nad yw o Dduw; nid gyda chyhuddiadau enllibus, fel na orchfyger chwi, na chydag ymffrost na llawenydd, rhag i chwi gael eich meddiannu â'r unrhyw. Yr hwn sydd yn derbyn gan Dduw, bydded iddo ei gyfrif i Dduw, a bydded iddo lawenhau am fod Duw yn ei gyfrif yn deilwng i dderbyn, a thrwy fod yn ystyriol a gwneuthur y pethau hyn a dderbyniasoch chwi, a'r rhai a gewch eu derbyn rhagllaw: a'r deyrnas a roddwyd i chwi gan y Tad, a gallu i orchfygu pob peth na ordeiniwyd ganddo ef. Ac wele, yn wir meddaf i chwi, gwyn eich byd chwi y rhai ydych yn awr yn clywed fy ngeiriau hyn o enau fy ngwas, canys eich pechodau a faddeuwyd i chwi.

8. Bydded i'm gwas Joseph Wakefield, yn yr hwn y'm llwyr foddlonir, a'm gwas Parley P. Pratt, fyned allan i blith yr eglwysi, a'u cadarnhau trwy air y cynghor; ac hefyd fy ngwas John Corrill, neu gynnifer o'm gweision ag sydd wedi eu hordeinio i'r swydd hon, a bydded iddynt lafurio yn y winllan; ac na fydded i un dyn eu rhwystro i wneuthur yr hyn a benodais i iddynt: o herwydd paham yn y gwaith hwn nid yw fy ngwas Edward Partridge i'w gyfiawnhau, er hyny bydded iddo edifarhau, ac efe a gaiff faddeuant. Wele, plant bychain ydych chwi, ac nis gallwch ddwyn pob peth yn awr; rhaid i chwi gynnyddu mewn gras ac mewn gwybodaeth o'r gwirioneddd. Nac ofnwch, blant bychain, canys fy eiddo i ydych, a mi a orchfygais y byd, ac yr ydych chwi o'r rhai hyny a roddes y Tad i mi; ac ni chollir neb o'r rhai a roddes y Tad i mi: a'r Tad a mi, un ydym: myfi wyf yn y Tad, a'r Tad ynof fi; ac yn gymmaint ag i chwi fy nerbyn i, yr ydych chwi ynof fi, a minnau ynoch chwi; o herwydd paham yr wyf fi yn eich canol, a mi wyf y Bugail da (a maen Israel. Pwy bynag a adeilada ar y graig hon ni syrth fyth), a dyfod y mae'r dydd pan glywch fy llais ac y gweloch fi, ac y gwybyddwch fy mod i. Gwyliwch, gan hyny, fel y byddoch barod. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XVIII.

Dadguddiad a roddwyd yn Seion, Awst, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, a rhoddwch glust i'm gair, a dysgwch oddiwrthyf fi pa beth a ewyllysiaf mewn perthynas i chwi, ac hefyd mewn perthynas i'r tir hwn i ba un yr anfonais chwi; canys, yn wir meddaf i chwi, gwyn ei fyd ef sydd yn cadw fy ngorchymynion, pa un ai mewn bywyd ai mewn angeu; a'r hwn sydd ffyddlawn mewn trallod, sydd fwy ei wobr yn nheyrnas nef.

2. Nis gellwch chwi ganfod â'ch llygaid naturiol, am yr amser presennol, fwriad eich Duw mewn perthynas i'r pethau hyny a ddeuant rhagllaw, a'r gogoniant a ganlyna ar ol llawer o drallod. Canys ar ol trallod lawer y daw bendithion. O herwydd paham, y mae y dydd yn dyfod pan goronir chwi â llawer o ogoniant; nid yw yr awr etto, ond y mae yn agos wrth law.

3. Cofiwch hyn, yr hwn a ddywedaf wrthych yn mlaen llaw, fel y gosodoch ef yn eich calon, ac y derbynioch yr hyn sydd i ddyfod. Wele, yn wir meddaf i chwi, o achos hyn yr anfonais chwi, fel y byddech ufydd, ac fel y parotoid eich calonau i ddwyn tystiolaeth o'r pethau sydd i ddyfod; ac hefyd fel yr anrhydeddid chwi i osod y sylfaen, a dwyn tystiolaeth am y tir ar yr hwn y mae Seion Duw i sefyll; ac hefyd fel y byddai i wledd o bethau breision gael ei pharotôi i'r tlodion; ïe, gwledd o bethau breision, o win ar y gwaddod wedi ei buro yn dda, fel y gwybyddo y ddaear nad yw geneuau y prophwydi yn methi; ïe, swper tŷ yr Arglwydd, wedi ei pharotoi yn dda, i'r hon y gwahoddir yr holl genedloedd. Yn gyntaf, y cyfoethog a'r dysgedig, y doeth a'r boneddig; ac wedi hyny daw dydd fy ngallu; yna y daw y tlawd, y cloff, a'r dall, a'r byddar, i briodas yr Oen, ac a gyfranogant o swper yr Arglwydd, yr hon a barotoir erbyn y dydd mawr sydd i ddyfod. Wele, myfi, yr Arglwydd, a'i llefarais.

4. Ac fel y byddo i'r dystiolaeth fyned allan o Seion, ïe, o enau dinas etifeddiaeth Duw; ïe, o herwydd hyn yr anfonais chwi yma, ac y dewisais fy ngwas Edward Partridge, ac y penodais iddo ei genadwri yn y tir hwn; ond os nad edifarha

efe am ei bechodau, y rhai ydynt anghrediniaeth a dallineb calon, bydded iddo gymmeryd gofal rhag iddo syrthio. Wele ei genadwri a roddwyd iddo ef, ac ni roddir hi eilwaith. A phwy bynag a saif yn ei genadwri a benodir yn farnwr yn Israel, megys yr oedd yn y dyddiau gynt, i ranu tiroedd etifeddiaeth Duw i'w blant, a barnu ei bobl wrth dystiolaeth y cyfiawn, a thrwy gynnorthwy ei gynghorwyr, yn ol cyfreithiau y deyrnas a roddir trwy brophwydi Duw; canys, yn wir meddaf i chwi, fy nghyfraith i a gedwir ar y tir hwn.

5. Na thybied un dyn ei fod yn rheolwr, ond bydded i Dduw ei reoli ef sydd yn barnu, yn ol cynghor ei ewyllys ei hun; neu, mewn geiriau ereill, efe yr hwn sydd yn cynghori neu yn eistedd ar orsedd barn. Na fydded i un dòri cyfreithiau y tir, canys yr hwn sydd yn cadw cyfreithiau Duw, nid oes ganddo un achos i dòri cyfreithiau y tir; o herwydd paham, byddwch ddarostyngedig i'r awdurdodau y sydd, hyd oni theyrnaso Efe, yr hwn sydd ag hawl ganddo i deyrnasu, a darostwng pob gelynion dan ei draed. Wele, y cyfreithiau a dderbyniasoch chwi o'm llaw i ydynt gyfreithiau yr eglwys, ac yn y goleuni hwn y gosodweh hwynt allan. Wele, yma y mae doethineb.

6. Ac yn awr megys y llefarais i mewn perthynas i'm gwas Edward Partridge, y tir hwn yw tir ei breswylfod ef, a'r rhai a benododd ef i fod ei gynghorwyr. Ac hefyd tir ei breswylfod ef a benodais i yn geidwad fy ystor-dŷ; gan hyny bydded iddynt ddwyn eu teuluoedd i'r tir hwn, megys yr ymgynghorant rhyngddynt hwy eu hunain a mi; canys wele, nid yw yn weddus i mi orchymyn yn mhob peth, canys yr hwn a orfodir yn mhob peth, y mae y cyfryw yn was diog, ac nid yn un doeth; gan hyny ni dderbyn wobr. Yn wir meddaf, dylai dynion fod yn ddiwyd mewn achos da, a gwneyd llawer o bethau o'u hewyllys rhydd eu hunain, a dwyn oddiamgylch gyfiawnder lawer; canys y gallu sydd ynddynt hwy, yn yr hwn y maent yn oruchwylwyr iddynt eu hunain. Ac yn gymmaint â bod dynion yn gwneuthur daioni, ni chollant eu gwobr mewn un modd. Ond yr hwn nid yw yn gwneuthur dim hyd oni orchymynir iddo, a dderbynia orchymyn â chalon ammheüus, ac a'i cadwa gyda musgrellni, y cyfryw sydd yn ddamnedig. Pwy ydwyf fi a wnaeth ddyn, medd yr Arglwydd, ac a gyfrifaf yn ddieuog yr hwn nid

ufyddha i'm gorchymynion? Pwy ydwyf fi, medd yr Arglwydd, a addewais ac ni chyflawnais? Yr wyf yn gorchymyn, a dyn nid yw yn ufyddhau, yr wyf yn galw yn ol ac ni dderbyniant y fendith; yna y dywedant yn eu calonau, Nid gwaith yr Arglwydd yw hwn, canys ni chyflawnir ei addewidion. Ond gwae sydd i'r cyfryw, canys eu gwobr a lecha oddiisod, ac nid oddi-uchod.

7. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi i chwi gyfarwyddiadau pellach mewn perthynas i'r tir hwn. Doethineb ynof fi yw fod i'm gwas Martin Harris fod yn siampl i'r eglwys, trwy osod ei arian gerbron esgob yr eglwys. Ac hefyd, hyn yw y gyfraith i bob dyn a ddaw i'r tir hwn, i dderbyn etifeddiaeth; a rhaid iddo wneuthur â'i arian fel y mae y gyfraith yn cyfarwyddo. A doethineb hefyd yw, fod i diroedd gael eu prynu yn Independence, at le i'r ystor-dŷ, ac hefyd at dŷ i argraffu.

8. A chyfarwyddiadau ereill mewn perthynas i'm gwas Martin Harris a roddir iddo gan yr Ysbryd, fel y derbynio ei etifeddiaeth megys y gwelo oreu. A bydded iddo edifarhau am ei bechodau, o herwydd y mae ef yn ceisio clod y byd.

9. Ac hefyd bydded i'm gwas William W. Phelps aros yn y swydd a benodais i iddo, a derbyn ei etifeddiaeth yn y tir; ac hefyd y mae ganddo ef achos i edifarhau, canys nid wyf fi, yr Arglwydd, yn cael fy llwyr foddloni ynddo, o herwydd y mae yn ceisio ymddyrchafu, ac nid yw yn ddigon gostyngedig ger fy mron i. Wele, yr hwn sydd wedi edifarhau am ei bechodau, fe a faddeuir iddo, a myfi, yr Arglwydd, ni chofiaf hwynt mwyach. Trwy hyn y gwybyddwch os bydd dyn yn edifarhau am ei bechodau. Wele, efe a'u cyfaddefa ac a'u gadawa. Ac yn awr, yn wir, meddaf, mewn perthynas i'r gweddill o henuriaid fy eglwys, nid yw yr amser wedi dyfod etto, dros lawer o flynyddoedd, iddynt hwy dderbyn eu hetifeddiaeth yn y tir hwn, oddieithr iddynt ei ddymuno trwy weddi ffydd, yn unig fel y penodir iddynt gan yr Arglwydd. Canys, wele, hwy a wthiant y bobl ynghyd o derfynau y ddaear; gan hyny, ymgynnullwch ynghyd, a'r rhai nad ydynt wedi eu penodi i aros yn y tir hwn, bydded iddynt bregethu yr efengyl yn yr ardaloedd o amgylch ogylch, ac yna dychwelant i'w cartrefleoedd. Bydded iddynt bregethu ar hyd y ffordd, a dwyn tystiolaeth o'r gwirionedd yn mhob lle, a galw ar y cyfoethog, yr uchel

a'r isel, a'r tlawd, i edifarhau; a bydded iddynt adeiladu eglwysi, yn gymmaint ag y bydd i drigolion y ddaear edifarhau.

10. A bydded i oruchwyliwr gael ei benodi trwy lais yr eglwys, i'r eglwys yn Ohio, i dderbyn arian i brynu tiroedd yn Seion.

11. Ac yr wyf yn rhoddi i'm gwas, Sidney Rigdon, orchymyn, fod iddo ef ysgrifenu desgrifiad o dir Seion, ac hysbysiad o ewyllys Duw, megys yn adnabyddus iddo ef gan yr Ysbryd; ac epistol a thanysgrifiad, i'w gyflwyno i'r holl eglwysi i gasglu arian, i'w gosod yn nwylaw yr esgob i brynu tiroedd yn etifeddiaeth i blant Duw, ganddo ef neu oruchwyliwr, megys y gwelo ef yn dda neu y byddo iddo gyfarwyddo. Canys, wele, yn wir meddaf i chwi, yr Arglwydd a ewyllysia fod i'r dyscyblion, a phlant dynion agor eu calonau, i brynu yr holl ardal hon o'r wlad, mor fuan ag y caniatao amser. Wele, yma ddoethineb. Bydded iddynt wneuthur hyn rhag na dderbyniant un etifeddiaeth, oddieithr trwy dywallt gwaed.

12. A thrachefn, yn gymmaint â bod tir wedi ei gael, bydded i weithwyr o bob math gael eu hanfon allan i'r tir hwn, i lafurio dros saint Duw. Bydded i'r pethau hyn gael eu gwneyd mewn trefn; a bydded i ragorfreintiau y tiroedd gael eu gwneyd yn adnabyddus o amser i amser, gan yr esgob neu oruchwyliwr yr eglwys; ac na fydded i'r gwaith o gynnull gael ei wneyd mewn brys, na thrwy ffoedigaeth, ond bydded iddo gael ei wneuthur fel y cynghorir gan henuriaid yr eglwys yn y cynnadleddau, yn ol y wybodaeth a dderbyniant o amser i amser.

13. A bydded i'm gwas Sidney Rigdon gyssegru a chyflwyno y tir hwn, a lle y deml, i'r Arglwydd. A bydded i gyfarfod cynnadleddol gael ei alw, ac wedi hyny bydded i'm gweision Sidney Rigdon a Joseph Smith, ieu., ddychwelyd, a chyda hwynt Oliver Cowdery, i orphen y gweddill o'r gwaith a benodais i iddynt yn eu tir eu hunain, a'r gweddill yn ol fel y rheoleiddir gan y cynnadleddau.

14. Ac na fydded i un dyn ddychwelyd o'r tir hwn, oddieithr iddo ddwyn tystiolaeth ar hyd y ffordd o'r hyn y mae ef yn wybod ac yn gredu yn ddiysgog. Bydded i'r hyn a gyflwynwyd i Ziba Peterson gael ei gymmeryd oddiwrtho; a

bydded iddo aros fel aelod yn yr eglwys, llafurio â'i ddwylaw ei hun, gyda'r brodyr, hyd oni fyddo wedi ei geryddu yn ddigonol am ei holl bechodau, canys nid yw yn eu cyfaddef, a meddylia eu cuddio hwynt.

15. Bydded i'r gweddill o henuriaid yr eglwys hon, y rhai ydynt yn dyfod i'r tir hwn, o honynt y mae rhai yn dra bendigedig, hyd y nod uwchlaw mesur, gynnal cynnadledd hefyd ar y tir hwn. A bydded i'm gwas Edward Partridge gyfarwyddo y gynnadledd a gynnelir ganddynt hwy. A bydded iddynt hefyd ddychwelyd, gan bregethu yr efengyl ar hyd y ffordd, a dwyn tystiolaeth am y pethau a ddadguddiwyd iddynt hwy; canys, yn wir, rhaid i'r swn fyned allan o'r lle hwn i'r holl ddaear, ac i derfynau eithaf y ddaear,—rhaid i'r efengyl gael ei phregethu i bob creadur, gydag arwyddion yn canlyn y rhai a gredant. Ac wele, y mae Mab y dyn yn dyfod. Amen.

DOSRAN XIX.

Dadguddiad a roddwyd yn Seion, Awst, 1831.

1. Wele, bendigedig ydynt hwy, medd yr Arglwydd, a ddaethant i fyny i'r tir hwn, â'u golwg yn unig at fy ngogoniant i, yn unol â'm gorchymynion; canys y rhai ydynt yn byw a etifeddant y ddaear, a'r rhai ydynt yn marw a orphwysant oddiwrth eu llafur, a'u gweithredoedd a'u canlynant hwy, a hwy a dderbyniant goron yn nhrigfanau fy Nhad, y rhai a barotöais i iddynt; ïe, bendigedig ydynt hwy y rhai y mae eu traed yn sefyll ar dir Seion, y rhai a ufyddhasant fy efengyl, canys hwy a dderbyniant yn wobr bethau da y ddaear; a hi a ddwg allan yn ei nerth; a hwy hefyd a goronir â gogoniant oddiuchod, ïe, ac â gorchymynion nid ychydig; ac â dadguddiedigaethau yn eu hamser; y rhai ydynt ffyddlawn a diwyd ger fy mron i.

2. O herwydd paham mi a roddaf iddynt hwy orchymyn, gan ddywedyd fel hyn: Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl allu, a'th holl feddwl, ac â'th holl nerth; ac yn enw Iesu Grist y gwasanaethi ef. Câr dy gymmydog fel ti dy hun. Na ledrata; na wna odineb; na ladd; ac na wna unrhyw

beth tebyg i hyny. Tâl ddiolch i'r Arglwydd dy Dduw yn mhob peth. Offryma aberth i'r Arglwydd dy Dduw mewn cyfiawnder, sef calon ddrylliog ac ysbryd cystuddiedig. Ac fel y byddo i ti gadw dy hunan yn fwy dihalog oddiwrth y byd, dos i dŷ gweddi ac offryma i fyny dy sacramentau ar fy nydd santaidd; canys yn wir y mae hwn yn ddydd a benodwyd i chwi i orphwys oddiwrth eich llafur, a thalu eich addoliad i'r Goruchaf; er hyny, rhaid i'ch addunedau gael eu hoffrymu i fyny mewn cyfiawnder ar bob diwrnod, ac ar bob amser; ond cofia mai ar y dydd hwn o eiddo yr Arglwydd, yr offrymi dy roddion a'th sacramentau i'r Goruchaf, gan gyffesu dy bechodau i'th frodyr, a cherbron yr Arglwydd.

3. Ac ar y dydd hwn na wna ddim arall, yn unig parotöer dy ymborth gyda symledd calon, fel y byddo dy ympryd yn berffaith; neu, mewn geiriau ereill, fel y byddo dy lawenydd yn gyflawn. Yn wir, hyn yw ympryd a gweddi; neu, mewn geiriau ereill, llawenydd a gweddi.

4. Ac yn gymmaint ag y gwnewch y pethau hyn gyda diolchgarwch, gyda chalonau a gwynebpryd siriol; nid gyda chwerthin lawer, canys hyn sydd bechod, ond gyda chalon lawen a gwynebpryd siriol. Yn wir meddaf, yn gymmaint ag y gwnewch hyn, cyflawnder y ddaear sydd eiddoch; bwystfilod y maes ac ehediaid yr awyr, a'r hyn sydd yn dringo y coedydd ac yn cerdded ar y ddaear; ïe, a'r llysieuyn, a'r pethau da a ddeuant o'r ddaear, pa un ai at ymborth neu at wisgoedd, neu at dai, neu at ysguboriau, neu at berllanau, neu at erddi, neu at winllanoedd; ïe, yr holl bethau a ddeuant allan o'r ddaear, yn eu tymmor eu hunain, a wnaed er lles a gwasanaeth dyn, i foddhau y galon; ïe, at ymborth ac at wisgoedd, at archwaethu ac at arogli, i gryfhau y corff a bywiocâu yr enaid.

5. A gwelodd Duw fod yn dda roddi yr holl bethau hyn i ddyn; canys i'r dyben hwn y gwnaed hwynt, i'w defnyddio yn gymmedrol, ac nid i ormodedd, nac ychwaith trwy gribddeiliaeth; ac mewn dim nid yw dyn yn digio Duw, ac yn erbyn neb nid yw ei lid yn ennyn, oddieithr yn erbyn y rhai ni addefant ei law yn mhob peth, ac ni ufyddhant i'w orchymynion. Wele, hyn sydd unol â'r gyfraith a'r prophwydi; gan hyny, na flinwch fi yn mhellach mewn perthynas i'r mater hwn, ond dysgwch mai yr hwn sydd yn gwneuthur gweithredoedd

cyfiawnder a dderbynia ei wobr, sef tangnefedd yn y byd hwn, a bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw. Myfi, yr Arglwydd, a'i llefarais, a'r ysbryd sydd yn dwyn tystiolaeth. Amen.

DOSRAN XX.

Dadguddiad a roddwyd yn Kirtland, Awst, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi bobl, ac agorwch eich calonau a rhoddwch glust o bell; a gwrandewch, chwi sydd yn galw eich hunain yn bobl yr Arglwydd, a chlywch air yr Arglwydd a'i ewyllys mewn perthynas i chwi; ïe, yn wir, meddaf, clywch ei air ef yr hwn y mae ei lid wedi ennyn yn erbyn y drygionus a'r gwrthryfelgar; yr hwn a ewyllysia gymmeryd y rhai hyny a gymmera, ac a gadwa yn fyw y rhai a gadwa; yr hwn a adeilada i fyny yn ol ei ewyllys a'i bleser ei hun; ac a ddystrywia yr hwn a fŷna, ac sydd yn alluog i daflu yr enaid i lawr i uffern.

2. Wele, myfi, yr Arglwydd, a roddaf allan fy llais, ac ufyddheir iddo. O herwydd paham, yn wir meddaf, bydded i'r gwrthryfelgar ofni a chrynu; a bydded i'r anghredinwyr attal eu gwefusau, canys dydd digofaint a ddaw arnynt megys corwynt, a phob cnawd a gaiff wybod mai myfi wyf Dduw. A'r hwn sydd yn ceisio arwyddion a gaiff weled arwyddion, ond nid er iachawdwriaeth.

3. Yn wir, meddaf i chwi, y mae rhai yn eich plith chwi yn ceisio arwyddion, ac y mae y cyfryw wedi bod hyd y nod o'r dechreuad; ond, wele, nid yw ffydd yn dyfod trwy arwyddion, ond arwyddion a ganlynant y rhai a gredant. Ië, arwyddion ydynt yn dyfod trwy ffydd, nid trwy ewyllys dynion, nac megys y mynant hwy, ond trwy ewyllys Duw. Ië, arwyddion ydynt yn dyfod trwy ffydd, i weithredoedd nerthol, canys heb ffydd nid oes un dyn yn rhyngu bodd Duw; ac wrth yr hwn y mae Duw yn ddig, nid yw yn llwyr foddlawn; gan hyny, nid yw yn dangos arwyddion i'r cyfryw, ond yn unig mewn digofaint er eu condemniad.

4. O herwydd paham, myfi, yr Arglwydd, nid wyf foddlawn i'r rhai hyny yn eich plith ag ydynt wedi ymgeisio ar ol arwyddion a rhyfeddodau, er ffydd, ac nid er daioni dynion i'm

gogoniant i; er hyny, yr wyf yn rhoddi gorchymynion, a llawer a droisant ymaith oddiwrth fy ngorchymynion ac nis cadwasant hwynt. Yr oedd yn eich plith chwi odinebwyr a godinebwragedd; rhai o honynt a droisant ymaith oddiwrthych, ac ereill a arosant gyda chwi, y rhai a ddadguddir yn ol llaw. Bydded i'r cyfryw ochelyd ac edifarhau yn fuan, rhag i farnau ddyfod arnynt megys magl, ac i'w ffolineb gael ei wneyd yn eglur, a'u gweithredoedd a'u canlynant hwy yn ngolwg y bobl.

5. Ac yn wir, meddaf i chwi, megys y dywedais o'r blaen, yr hwn sydd yn edrych ar wraig i'w chwennychu hi, neu os bydd i neb gyflawni godineb yn eu calonau, ni chant yr Ysbryd, ond gwadant y ffydd a dychrynant; gan hyny, myfi, yr Arglwydd, a ddywedais y bydd i'r ofnog, a'r anghredinwyr, a'r holl gelwyddwyr, a phwy bynag a hoffant ac a wnant anwiredd, a'r puteiniwr, a'r hudolwr, gael eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, yr hyn yw yr ail farwolaeth. Yn wir meddaf, ni chant hwy ran yn yr adgyfodiad cyntaf.

6. Ac yn awr, wele, myfi, yr Arglwydd, wyf yn dywedyd wrthych, nid ydych i'ch cyfiawnhau am fod y pethau hyn yn eich plith chwi; er hyny, yr hwn sydd yn parhau mewn ffydd ac yn gwneuthur fy ewyllys i, hwnw a orchfyga, ac a dderbynia etifeddiaeth ar y ddaear pan ddaw dydd y gweddnewidiad; pan fydd i'r ddaear gael ei gweddnewidio yn ol y cynllun a ddangoswyd i'm hapostolion ar y mynydd; am y cyfryw hanes nid ydych wedi derbyn y cyflawnder hyd yn hyn.

7. Ac yn awr, yn wir, meddaf i chwi, megys y dywedais y byddai i mi hysbysu fy ewyllys i chwi, wele, mi a'i hysbysaf i chwi, nid mewn ffordd o orchymyn, o herwydd y mae llawer nad ydynt yn gofalu i gadw fy ngorchymynion; ond i'r hwn sydd yn cadw fy ngorchymynion, mi a roddaf ddirgeledigaethau fy nheyrnas, a'r cyfryw a fydd ynddo ef yn ffynnon o ddwfr bywiol, yn tarddu i fyny i fywyd tragywyddol.

8. Ac yn awr, wele hyn yw ewyllys yr Arglwydd eich Duw mewn perthynas i'w Saint, fod iddynt hwy ymgynnull ynghyd i dir Seion, nid mewn brys, rhag terfysg, yr hyn a ddwg haint. Wele, tir Seion, myfi, yr Arglwydd, a'i daliaf yn fy nwylaw fy hun; er hyny, myfi yr Arglwydd, wyf yn rhoddi i Cæsar y pethau sydd eiddo Cæsar; gan hyny, myfi, yr Arglwydd, a ewyllysiaf fod i chwi brynu y tiroedd, fel y caffoch fantais ar y

byd, fel y caffoch hawl ar y byd, fel na chyffröer eu digofaint; canys Satan a osoda yn eu calonau i lidio yn eich erbyn chwi, ac i dywallt gwaed; o herwydd paham, nid yw tir Seion i gael ei feddiannu ond trwy bryniad neu trwy waed, onite nid oes un etifeddiaeth i chwi. Ac os trwy bryniad, wele yr ydych yn fendigedig; ac os trwy waed, gan y gwaherddir chwi i dywallt gwaed, wele, eich gelynion ydynt arnoch chwi, a chwi a fflangellir o ddinas i ddinas, ac o synagog i synagog, ac ni fydd ond ychydig yn aros i dderbyn etifeddiaeth.

9. Myfi, yr Arglwydd, ydwyf ddig wrth y drygionus; yr wyf yn attal fy Ysbryd oddiwrth drigolion y ddaear. Yr wyf wedi tyngu yn fy llid, a gosod rhyfeloedd ar wyneb y ddaear, a'r drygionus a laddant y drygionus, ac ofn a ddaw ar bob dyn, a braidd hefyd y dianga y Saint; etto, myfi, yr Arglwydd, ydwyf gyda hwynt, a deuaf i waered yn y nef o bresennoldeb fy Nhad, ac ysaf y drygionus â thân anniffoddadwy. Ac wele, nid yw hyn etto, ond yn mhen ychydig; gan hyny, yn gweled fy mod i, yr Arglwydd, wedi ordeinio yr holl bethau hyn ar wyneb y ddaear, yr wyf yn ewyllysio i'm holl Saint fod yn ymgynnulliedig ar dir Seion; a bod i bob dyn gymmeryd cyfiawnder yn ei ddwylaw a ffyddlondeb ar ei lwynau, a chodi llef rhybydd i drigolion y ddaear; a chyhoeddi trwy air a thrwy fföedigaeth, fod anghyfannedd-dra yn dyfod ar y drygionus. Gan hyny bydded i'm dyscyblion yn Kirtland, y rhai ydynt yn preswylio ar y fferm hon, drefnu eu materion tymmorol.

10. Bydded i'm gwas Titus Billings, yr hwn sydd â gofal yr unrhyw arno, werthu y tir, fel y byddo yn barod yn y gwanwyn dyfodol, i gymmeryd ei daith i fyny i dir Seion, ynghyd â'r rhai a breswyliant arni, oddieithr y rhai hyny a gadwaf i mi fy hun, y rhai ni chant fyned hyd oni orchymynwyf iddynt. A bydded i bob arian y gellir eu hebgor, nid oes fater genyf pa un ai bychan ai mawr y byddo, gael eu danfon i fyny i dir Seion, i'r rhai a benodais i dderbyn.

11. Wele, myfi, yr Arglwydd, a roddaf i'm gwas Joseph Smith, ieu., allu i wybod trwy yr Ysbryd pwy sydd i fyned i fyny i dir Seion, a phwy o'm dyscyblion sydd i aros ar ol.

12. Bydded i'm gwas Newel K. Whitney gadw ei ystorfa, neu mewn geiriau ereill, yr ystorfa etto dros dymmor bychan,

Er hyny bydded iddo gyfranu pob arian a allo gyfranu, i'w hanfon i fyny i dir Seion. Wele, y pethau hyn ydynt yn ei ddwylaw ef ei hunan, bydded iddo wneuthur yn ol doethineb. Yn wir, meddaf, bydded iddo gael ei ordeinio yn oruchwyliwr i'm dyscyblion a arosant ar ol, a bydded iddo gael ei ordeinio i'r awdurdod hon; ac yn awr ymwelwch yn fuan â'r eglwysi, gan esponio y pethau hyn iddynt, gyda'm gwas Oliver Cowdery. Wele, hyn yw fy ewyllys, casglu arian megys y cyfarwyddais i.

13. Yr hwn sydd yn ffyddlawn ac a barha, a orchfyga y byd. Yr hwn sydd yn anfon i fyny drysorau i dir Seion, a dderbynia etifeddiaeth yn y byd hwn, a'i weithredoedd a'i canlynant ef, ac hefyd wobr yn y byd a ddaw; ïe, a gwynfyd y meirw y rhai ydynt yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, pan ddaw yr Arglwydd, ac y bydd yr hen bethau yn myned heibio, a phob peth yn dyfod o newydd, hwy a gyfodant oddiwrth y meirw, ac ni fyddant marw mwyach, ac a dderbyniant etifeddiaeth gerbron yr Arglwydd, yn y ddinas santaidd; a'r hwn fydd byw pan ddaw yr Arglwydd, ac a gadwa y ffydd, gwyn ei fyd ef; er hyny, penodwyd iddo ef farw yn oedran dyn; gan hyny plant a dyfant i fyny hyd oni fyddont yn hen, a'r hen ddynion a fyddant farw; ond ni chant huno yn y llwch, eithr newidir hwy ar darawiad amrant; gan hyny, o herwydd yr achos hwn y pregethodd yr apostolion i'r byd adgyfodiad y meirw; y pethau hyn yw y pethau y rhaid i chwi edrych am danynt, a llefaru yn ol dull yr Arglwydd, y maent yn awr yn agos wrth law; ac mewn amser i ddyfod, hyd y nod yn nydd dyfodiad Mab y dyn, ac hyd yr awr hono bydd morwynion ffol yn mhlith y call, ac ar yr awr hono y daw ymddeoliad hollol o'r cyfiawn oddiwrth y drygionus, ac yn y dydd hwnw yr anfonaf fy angylion i dynu allan y drygionus, a'u taflu hwynt i dân anniffoddadwy.

14. Ac yn awr, wele, yn wir meddaf i chwi, myfi, yr Arglwydd, nid wyf foddlawn i'm gwas Sidney Rigdon, y mae efe yn ymdderchafu yn ei galon, ac nid yw yn derbyn cynghor, ond yn tristâu yr Ysbryd; gan hyny nid yw ei ysgrif yn dderbyniol gan yr Arglwydd, a rhaid iddo wneuthur un arall, ac os na fydd i'r Arglwydd ei derbyn, wele nid arosa mwyach yn y swydd y penodais ef iddi.

15. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, y rhai a ddymunant

yn eu calonau, mewn mwyneidd-dra, i rybyddio pechaduriaid i edifeirwch, bydded iddynt gael eu hordeinio i'r awdurdod hon; canys dydd rhybydd yw hwn, ac nid dydd llawer o eiriau. Canys myfi, yr Arglwydd, nid wyf i gael fy ngwawdio yn y dyddiau diweddaf. Wele, myfi wyf oddiuchod, ac y mae fy ngallu yn cyrhaedd isod. Yr wyf fi dros bob peth, ac yn mhob peth, a thrwy bob peth, ac yn chwilio pob peth, ac y mae y dydd yn dyfod pan y darostyngir pob peth i mi. Wele, myfi wyf Alpha ac Omega, sef Iesu Grist. O herwydd paham bydded i bob dyn ofalu pa fodd y cymmerant fy enw i yn eu gwefusau; canys, wele, yn wir meddaf, y mae llawer dan y farnedigaeth hon, y rhai a arferant enw yr Arglwydd, ac a'i harferant yn ofer, gan eu bod heb awdurdod. Gan hyny, bydded i'r eglwys edifarhau am eu pechodau, a myfi, yr Arglwydd, a'u harddelaf hwynt, onite tòrir hwynt ymaith.

16. Cofiwch fod yr hyn sydd yn dyfod oddiuchod yn santaidd, a rhaid ei lefaru gyda gofal, a thrwy gymhelliad yr Ysbryd, ac yn hyn nid oes gondemniad, ac yr ydych yn derbyn yr Ysbryd trwy weddi; gan hyny, heb hyn y mae condemniad yn aros. Bydded i'm gweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, geisio gartref iddynt, megys y dysgir hwy trwy weddi gan yr Ysbryd. Y pethau hyn a arosant i orchfygu trwy amynedd, fel y byddo i'r cyfryw dderbyn mwy rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant, neu ynte ddamnedigaeth fwy. Amen.

DOSRAN XXI.

Dadguddiad a roddwyd yn Kirtland, Medi, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd eich Duw wrthych chwi, O chwi henuriaid fy eglwys, gwrandewch chwi a chlywch, a derbyniwch fy ewyllys mewn perthynas i chwi; canys, yn wir meddaf i chwi, yr wyf yn ewyllysio i chwi orchfygu y byd; gan hyny, myfi a gymmeraf drugaredd arnoch. Y mae yn eich plith chwi rai ag ydynt wedi pechu; ond yn wir, meddaf, am yr unwaith hon, er fy ngogoniant fy hun, ac er iachawdwriaeth eneidiau, meddeuais i chwi eich pechodau.

2. Myfi a fyddaf drugarog wrthych, canys mi a roddais i chwi y deyrnas; ac allweddau dirgeledigaethau y deyrnas ni

chymmerir oddiwrth fy ngwas Joseph Smith, ieu., trwy y moddion a ordeiniais i, tra y byddo efe byw, yn gymmaint â'i fod ef yn ufyddhau i'm hordinhadau. Y mae rhai ag ydynt wedi ceisio achlysur yn ei erbyn ef yn ddiachos; er hyny y mae ef wedi pechu, ond yn wir meddaf i chwi, myfi, yr Arglwydd, a faddeuaf bechodau i'r rhai a gyffesant eu pechodau ger fy mron i, ac a ofynant faddeuant, y rhai nid ydynt wedi pechu i farwolaeth. Fy nyscyblion, yn y dyddiau gynt, a geisient achlysur yn erbyn eu gilydd, ac ni faddeuent i'w gilydd yn eu calonau, ac am y drwg hwn y cystuddiwyd hwynt, ac y cawsant eu ceryddu yn llym; o herwydd paham yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, y dylech chwi faddeu i'ch gilydd, canys yr hwn nid yw yn maddeu i'w frawd ei droseddau, sydd yn euog o farn gerbron yr Arglwydd, canys ynddo ef yr erys y pechod mwyaf. Myfi, yr Arglwydd, a faddeuaf wrth yr hwn y maddeuwyf; ond chwi a ofynir i faddeu i bob dyn; a dylech ddywedyd yn eich calonau, Bydd i Dduw farnu rhyngof fi a thi, a'th wobrwyo di yn ol dy weithredoedd. A'r hwn nid yw yn edifarhau am ei bechodau, ac ni chyffesa hwynt, yna chwi a'i dygwch gerbron yr eglwys, ac a wnewch ag ef megys y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd wrthych, naill ai trwy orchymyn neu trwy ddadguddiad. A hyn a wnewch fel y byddo i Dduw gael ei ogoneddu, nid o herwydd nad ydych yn maddeu, ac nad oes genych dosturi, ond fel y cyflawnhaer chwi yn ngolwg y gyfraith, fel na fyddo i chwi ei ddigio ef yr hwn yw eich Deddfroddwr.

3. Yn wir meddaf, o herwydd yr achos hwn y gwnewch y pethau hyn. Wele, myfi, yr Arglwydd, wyf yn ddig wrtho ef yr hwn oedd fy ngwas, Ezra Booth, ac hefyd fy ngwas Isaac Morley, canys ni chadwasant y gyfraith, na'r gorchymyn; ceisiasant ddrygioni yn eu calonau, a myfi, yr Arglwydd, a atteliais fy Ysbryd. Barnasant yn ddrwg yr hyn nad oedd ddrwg; er hyny, mi a faddeuais i'm gwas Isaac Morley. Ac hefyd, fy ngwas Edward Partridge, wele, efe a bechodd, ac y mae Satan yn ceisio dinystrio ei enaid; ond pan wneler y pethau hyn yn wybyddus iddynt hwy, ac iddynt hwythau edifarhau am y drygioni, hwy a gant faddeuant.

4. Ac yn awr, yn wir meddaf, y mae yn addas i'm gwas Sidney Gilbert, ar ol ychydig o wythnosau, i ddychwelyd ar ei

fusnes, ac at ei oruchwyliaeth yn nhir Seion; ac i'r hyn a welodd ac a glywodd ef gael eu gwneyd yn hysbys i'm dyscyblion, fel na fethont. Ac i'r dyben hwn y llefarais i y pethau hyn. A thrachefn, yr wyf yn dywedyd i chwi, fel na fyddo i'm gwas Isaac Morley gael ei demtio uwchlaw yr hyn a ddichon oddef, a chynghori yn gyfeiliornus er niwed i chwi, yr wyf yn rhoddi gorchymyn i'w fferm ef gael ei gwerthu. Ni ewyllysiaf i'm gwas Frederick G. Williams werthu ei fferm, canys myfi, yr Arglwydd, a gadwaf afael gref yn nhir Kirtland, dros bum mlynedd o amser, yn yr hwn amser ni fydd i mi ddymchwelyd y drygionus, fel y byddo i mi achub rhai trwy hyny; ac ar ol y dydd hwnw, myfi, yr Arglwydd, ni ddaliaf yn euog yr hwn a elo i fyny gyda chalon agored i dir Seion; o herwydd myfi, yr Arglwydd, a ofynaf galonau plant dynion.

5. Wele, yn awr gelwir hi heddyw (hyd ddyfodiad Mab y dyn), ac yn wir dydd aberth ydyw, a dydd i ddegymu fy mhobl; canys yr hwn a ddegymir ni chaiff ei losgi (ar ei ddyfodiad); canys ar ol heddyw daw y llosgiad: llefaru yw hyn yn ol dull yr Arglwydd; canys yn wir meddaf, y fory yr holl feilchion a'r rhai a wnant yn ddrygionus a fyddant fel sofl; a mi a'u llosgaf hwynt i fyny, canys myfi wyf Arglwydd y lluoedd; ac ni arbedaf neb a arosa yn Babilon. O herwydd paham, os credwch fi, chwi a weithiwch tra y gelwir hi heddyw. Ac nid yw yn addas i'm gweision, Newel K. Whitney a Sidney Gilbert, werthu eu hystor a'u meddiannau yn y lle hwn, o herwydd nid doethineb yw hyn hyd oni fyddo i weddill yr eglwys, y rhai a arosant yn y lle hwn, fyned i fyny i dir Seion.

6. Wele, dywedir yn fy nghyfreithiau, neu gwaherddir, i fyned i ddyled i'th elynion; ond wele ni ddywedir un amser, na fydd i'r Arglwydd gymmeryd pan ewyllysia, a thalu megys y gwela yn dda; o herwydd paham, gan eich bod chwi yn oruchwylwyr, a'ch bod ar neges yr Arglwydd; a pha beth bynag a wneloch yn ol ewyllys yr Arglwydd, gwaith yr Arglwydd ydyw, ac y mae ef wedi eich gosod i ddarparu i'w Saint yn y dyddiau diweddaf hyn, fel y derbyniont hwy etifeddiaeth yn nhir Seion; ac wele, myfi yr Arglwydd a hysbysaf i chwi, a'm geiriau ydynt sicr ac ni fethant, y bydd

iddynt ei chael; ond rhaid i bob peth ddyfod i ben yn eu hamser; gan hyny na flinwch mewn gwneuthur yn dda, canys yr ydych yn gosod sylfaen gwaith mawr. Ac allan o bethau bychain y daw yr hyn sydd fawr.

7. Wele, yr Arglwydd a ofyna y galon a meddwl ewyllysgar; a'r ewyllysgar a'r ufydd a gant fwyta daioni tir Seion yn y dyddiau diweddaf hyn; a'r gwrthryfelgar a dòrir ymaith o dir Seion, a chant eu gyru ymaith, ac ni chant etifeddu y tir; canys, yn wir, meddaf, y gwrthryfelgar nid ydynt o waed Ephraim, gan hyny hwy a dỳnir allan. Wele, myfi, yr Arglwydd, a wnaethym fy eglwys yn y dyddiau diweddaf hyn, yn debyg i farnwr yn eistedd ar fryn, neu mewn lle uchel, i farnu y cenedloedd; canys daw oddiamgylch y bydd i breswylwyr Seion yr holl bethau a berthynant i Seion; a chelwyddwyr a rhagrithwyr a brofir ganddynt hwy, a'r rhai nid ydynt apostolion a phrophwydi a adwaenir.

8. Ac hyd y nod yr esgob, yr hwn sydd farnwr, a'i gynghorwyr, os nad ydynt yn ffyddlawn yn eu goruchwyliaethau, a gondemnir, ac ereill a blenir yn eu lle; canys, wele, meddaf i chwi, Seion a flodeua, a gogoniant yr Arglwydd a fydd arni hi, a hi a fydd yn arwydd i'r bobl, a deuir ati hi allan o bob cenedl dan y nef. A'r dydd a ddaw pan y bydd i genedloedd grynu o'i herwydd hi, ac ofnant obegid ei rhai ofnadwy. Yr Arglwydd a'i llefarodd. Amen.

DOSRAN XXII.

Dadguddiad, a roddwyd Tachwedd, 1831, *i Orson Hyde, Luke Johnson, Lyman Johnson, a William E. M'Lellin. Meddwl ac ewyllys yr Arglwydd, megys yr hysbyswyd trwy lais yr Ysbryd, i gynnadledd mewn perthynas i rai henuriaid, ac hefyd rhai pethau megys y gwnaed yn hysbys mewn ychwanegiad at y Cyfammodau a'r Gorchymynion.*

1. Fy ngwas, Orson Hyde, a alwyd trwy ei ordeiniad, i gyhoeddi yr efengyl dragywyddol, trwy Ysbryd y bywiol Dduw, o bobl i bobl, ac o dir i dir, yn nghynnulleidfaoedd y drygionus, yn eu synagogau, gan ymresymu â hwynt, ac esbonio yr holl Ysgrythyrau iddynt. Ac wele, a llyna, hyn

sydd yn esiampl i'r holl rai a ordeiniwyd i'r offeiriadaeth hon, y rhai y penodwyd eu cenadwri iddynt i fyned allan; a hyn yw yr esiampl iddynt hwy, fod iddynt lefaru megys y cynhyrfir hwynt gan yr Ysbryd Glân, a pha beth bynag a lefarant pan gynhyrfir hwynt gan yr Ysbryd Glân, a fydd yn ysgrythyr, a fydd yn ewyllys yr Arglwydd, a fydd yn feddwl yr Arglwydd, a fydd yn air yr Arglwydd, a fydd yn llais yr Arglwydd, a gallu Duw er iachawdwriaeth: wele, hyn yw addewid yr Arglwydd i chwi, O chwi fy ngweision; gan hyny byddwch lawen, ac nac ofnwch, canys myfi yr Arglwydd wyf gyda chwi, ac a fyddaf o'ch plaid; a chwi a ddygwch dystiolaeth am danaf fi, sef Iesu Grist, mai myfi yw Mab y bywiol Dduw, mai myfi yw 'yr hwn oedd, yr hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod. Hyn yw gair yr Arglwydd atoch chwi fy ngwas, Orson Hyde, ac hefyd at fy ngwas Luke Johnson, ac at fy ngwas Lyman Johnson, ac at fy ngwas William E. M'Lellin, ac at holl henuriaid ffyddlawn fy eglwys. Ewch chwi i'r holl fyd, pregethwch yr efengyl i bob creadur, gan weithredu yn yr awdurdod a roddais i chwi, gan fedyddio yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; a'r hwn a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig, a'r hwn ni chredo a ddemnir; a'r hwn a gredo a fendithir ag arwyddion a ganlynant, megys y mae yn ysgrifenedig; ac i chwi y rhoddir i wybod arwyddion yr amserau, ac arwyddion dyfodiad Mab y dyn; ac am gynnifer ag y bydd i'r Tad ddwyn tystiolaeth, i chwi y rhoddir awdurdod i'w selio hwynt i fyny i fywyd tragywyddol. Amen.

2. Ac yn awr mewn perthynas i'r pethau mewn ychwanegiad at y cyfammodau a'r gorchymynion, y rhai hyn ydynt.—Arosa yn ol llaw yn amser priodol yr Arglwydd, esgobion ereill i gael eu neillduo i'r eglwys, i weinyddu hyd y nod megys y blaenaf; gan hyny hwy a gant fod yn arch-offeiriaid y rhai ydynt deilwng, a chant eu penodi gan llywyddiaeth flaenaf offeiriadaeth Melchisedec, oddieithr eu bod yn ddisgynyddion llythyrenol o Aaron, ac os byddant yn ddisgynyddion llythyrenol o Aaron, mae ganddynt hawl gyfreithlawn i'r esgobaeth, os hwy ydynt y cyntaf-anedig yn mhlith meibion Aaron; canys mae y cyntaf-anedig yn dàl hawl y llywyddiaeth dros yr offeiriadaeth hon, ac allweddau neu awdurdod yr unrhyw. Nid oes gan un dyn hawl gyfreithlawn i'r swydd hon i ddàl allweddau yr

offeiriadaeth hon, oddieithr ei fod yn ddisgynydd llythyrenol ac yn gyntaf-anedig o Aaron; ond gan fod awdurdod gan archoffeiriad o offeiriadaeth Melchisedec i weinyddu yn yr holl swyddau lleiaf, gall weinyddu yn y swydd o esgob pan nas gellir cael disgynydd llythyrenol o Aaron, os bydd wedi ei alw, ei neillduo, a'i ordeinio i'r gallu hwn dan ddwylaw llywyddiaeth flaenaf offeiriadaeth Melchisedec. A disgynydd llythyrenol o Aaron, hefyd, a raid fod wedi ei benodi gan y llywyddiaeth hon, a'i gael yn deilwng, a'i eneinnio, a'i ordeinio dan ddwylaw y llywyddiaeth hon, onite ni fyddant wedi cael eu hawdurdodi yn gyfreithlawn i weinyddu yn eu hoffeiriadaeth; ond trwy rinwedd y gosodiad mewn perthynas i'w hawl o'r offeiriadaeth yn disgyn o dad i fab, gallant gleimio eu heneinniad, os unrhyw amser y gallant brofi eu llinach, neu gael sicrwydd o honi trwy ddadguddiad oddiwrth yr Arglwydd dan ddwylaw y llywyddiaeth rag-grybwylledig.

3. A thrachefn, nid oes i un esgob nac arch-offeiriad a osodir o'r neilldu i'r weinidogaeth hon, gael ei brofi neu ei gondemnio am unrhyw drosedd, oddieithr gerbron llywyddiaeth flaenaf yr eglwys; ac yn gymmaint â'i gael yn euog gerbron y llywyddiaeth hon, trwy dystiolaeth nas gellir ei hammau, efe a gaiff ei gondemnio; ac os efe a edifarha, fe a faddeuir iddo, yn unol â chyfammodau a gorchymynion yr eglwys.

4. A thrachefn, yn gymmaint â bod gan rieni blant yn Seion, neu yn rhai o'i hestynfeydd ag ydynt wedi eu sefydlu, y rhai nid ydynt yn eu dysgu i ddeall athrawiaeth edifeirwch, ffydd yn Nghrist, Mab y bywiol Duw, a bedydd a dawn yr Ysbryd Glân trwy osodiad dwylaw, pan yn wyth mlwydd oed, bydded y pechod ar benau y rhieni; canys hyn fydd yn gyfraith i breswylwyr Seion, neu yn ei hestynfeydd ag ydynt wedi eu sefydlu; a'u plant a fedyddir er maddeuant eu pechodau pan yn wyth mlwydd oed, ac a dderbyniant osodiad dwylaw, a hwy hefyd a ddysgant eu plant i weddio a rhodio yn uniawn gerbron yr Arglwydd. A phreswylwyr Seion a gant, hefyd, sylwi ar y dydd Sabboth i'w gadw yn santaidd. A phreswylwyr Seion, hefyd, a gant gofio eu llafurwaith, yn gymmaint â'u bod wedi eu happwyntio i lafurio, mewn pob ffyddlondeb; o herwydd y segur a geir mewn coffadwriaeth gerbron yr Arglwydd. Yn awr, myfi, yr Arglwydd, nid wyf yn llwyr foddlawn â phres-

wylwyr Seion, canys y mae segurwyr yn eu plith hwynt; a'u plant hefyd ydynt yn tyfu i fyny mewn drygioni; nid ydynt hefyd yn taer geisio cyfoeth tragywyddoldeb, ond eu llygaid ydynt yn llawn o drachwant. Ni ddylai y pethau hyn fod, a rhaid eu cael ymaith o'u plith hwynt; gan hyny bydded i'm gwas Oliver Cowdery gario yr ymadroddion hyn i dir Seion. A gorchymyn wyf yn roddi iddynt, yr hwn nid yw yn cadw ei weddiau gerbron yr Arglwydd yn yr amser priodol, caffer ef mewn coffadwriaeth gerbron barnwr fy mhobl. Yr ymadroddion hyn ydynt wir a ffyddlawn; gan hyny na throsedder hwynt, ac na thŷner oddiwrthynt. Wele, myfi wyf Alpha ac Omega, ac yr wyf yn dyfod ar frys. Amen.

DOSRAN XXIII.

Dadymddiad a roddwyd Mai, 1831.

1. Gwrandewch arnaf fi, medd yr Arglwydd eich Duw, a mi a lefaraf wrth fy ngwas Edward Partridge, ac a roddaf iddo ef gyfarwyddiadau, canys anghenrhaid yw iddo efe dderbyn cyfarwyddiadau pa fodd i gydgorffori y bobl hyn; canys anghenrhaid yw iddynt gael eu cydgorffori yn unol â'n cyfreithiau, —onide hwy a dorir ymaith; gan hyny bydded i'm gwas Edward Partridge, a'r rhai a ddewisodd ef, yn y rhai y'm llwyr foddlonir, benodi i'r bobl hyn eu cyfran, pob dyn yn gyfartal yn ol eu teuluoedd, yn ol eu hamgylchiadau, a'u heisieu, a'u hanghenion. A bydded i'm gwas Edward Partridge, pan fyddo ef yn penodi ei gyfran i ddyn, roddi iddo ysgrifen yr hon a ddiogela iddo ei gyfran, ei fod ef yn ei dàl hi, hyd y nod yr hawl hon a'r etifeddiaeth hon yn yr eglwys, hyd oni throseddo ac ni chyfrifir ef yn deilwng trwy lais yr eglwys, yn ol cyfreithiau a chyfammodau yr eglwys, i berthyn i'r eglwys; ac os bydd iddo droseddu a chael ei gyfrif yn annheilwng i berthyn i'r eglwys, ni fydd ganddo awdurdod i gleimio y gyfran hòno a gyssegrodd efe i'r esgob at y tlawd a'r anghenus yn fy eglwys; gan hyny, ni chaiff gadw y rhodd, eithr bydd ganddo hawl yn unig i'r gyfran hòno a sicrhawyd iddo trwy weithred. Ac felly gwneir pob peth yn sicr, yn unol â chyfreithiau y tir.

2. A bydded i'r hyn sydd yn perthyn i'r bobl hyn gael ei

benodi i'r bobl hyn; a'r arian a adewir i'r bobl hyn, bydded i oruchwyliwr gael ei benodi i'r bobl hyn, i gymmeryd yr arian i ddarparu ymborth a dillad, yn ol anghenion y bobl hyn. A bydded i bob dyn ymddwyn yn onest, a bod yn gyffelyb i'w gilydd, yn mhlith y bobl hyn, a derbyn yn gyffelyb, fel y byddoch un, megys y gorchymynais i chwi.

3. Ac na fydded i'r hyn sydd yn perthyn i'r bobl hyn gael ei gymmeryd a'i roddi i rai mewn eglwys arall; gan hyny, os bydd i eglwys arall dderbyn arian gan yr eglwys hon, bydded iddynt dalu i'r eglwys hon drachefn, megys y byddo iddynt gytuno; a hyn a gaiff ei wneyd trwy yr esgob neu y goruchwyliwr, yr hwn a benodir trwy lais yr eglwys.

4. A thrachefn, bydded i'r esgob benodi ystordy i'r eglwys hon, a bydded i bob peth yn arian ac yn ymborth, ag sydd fwy nag sydd anghenrheidiol at anghenion y bobl hyn, gael eu cadw yn nwylaw yr esgob. A bydded iddo hefyd gadw iddo ei hun at ei anghenion ei hun, ac at anghenion ei deulu, megys y byddo yn gwasanaethu i wneuthur y gwaith hwn. Ac felly yr wyf yr rhoddi i'r bobl hyn y ragorfraint o gydgorffori eu hunain yn unol â'm cyfreithiau; ac yr wyf yn cyssegru iddynt y tir hwn dros dymmor bychan, hyd oni fyddo i mi, yr Arglwydd, ddarparu iddynt mewn modd arall, a gorchymyn iddynt fyned oddiyma; a'r dydd a'r awr nid yw wedi ei roddi iddynt, gan hyny, bydded iddynt weithredu ar y tir hwn megys dros flynyddoedd, a bydd i hyn droi allan iddynt hwy er eu daioni.

5. Wele, hyn a fydd yn esiampl i'm gwas Edward Partridge, mewn lleoedd ereill, yn mhob eglwys: A phwy bynag a geir yn oruchwyliwr ffyddlawn, cyfiawn, a doeth, a gaiff fyned i mewn i lawenydd ei Arglwydd, ac etifeddu bywyd tragywyddol. Yn wir, meddaf i chwi, myfi yw Iesu Grist, yr hwn sydd yn dyfod ar frys, mewn awr na thybioch chwi. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XXIV.

Dadguddiad ar Weddi, a roddwyd Hydref, 1831.

1. Gwrandewch, ac wele, llais megys un a anfonwyd i lawr oddiuchod, yr hwn sydd gadarn a gallueg, yr hwn y mae ei

fynediad allan i derfynau y ddaear, ïe, yr hwn y mae ei lais at ddynion,—Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch ei lwybrau ef yn uniawn. Allweddau teyrnas Dduw a ymddiriedwyd i ddyn ar y ddaear, ac oddiyno y treigla yr efengyl allan i derfynau y ddaear, megys y treigla càreg a dorwyd o'r mynydd nid â dwylaw, hyd oni lanwo yr holl ddaear; ïe, llais yn llefain, —Parotowch ffordd yr Arglwydd, parotowch swper yr Oen, gwnewch yn barod i'r Priodfab; gweddiwch ar yr Arglwydd, g alwch ar ei enw santaidd ef, gwnewch yn hysbys ei weithredoedd rhyfeddol yn mhlith y bobl, galwch ar yr Arglwydd, fel yr elo ei deyrnas allan ar y ddaear, fel y byddo i drigolion y ddaear ei derbyn hi, a bod yn barod erbyn y dyddiau sydd yn dyfod, yn y rhai y bydd i Fab y dyn ddisgyn yn y nef, wedi ei wisgo yn nyscleirdeb ei ogoniant, i gyfarfod â theyrnas Dduw yr hon a osodwyd i fyny ar y ddaear; gan hyny, bydded i deyrnas Dduw fyned allan, fel y delo teyrnas nef, fel y byddo i ti, O Dduw, gael dy ogoneddu yn y nef, felly ar y ddaear, fel y byddo i'th elynion gael eu darostwng; canys eiddot ti yr anrhydedd, y gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

DOSRAN XXV.

Dadguddiad a roddwyd Tachwedd, 1831.

1. Wele a gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, y rhai ydych wedi ymgynnull ynghyd, gweddiau y rhai a glywais, a chalonau y rhai wyf yn adnabod, a dymuniadau y rhai a ddaethant i fyny ger fy mron i. Wele a llyna, fy llygaid ydynt arnoch chwi, a'r nefoedd a'r ddaear ydynt yn fy nwylaw i, a goludoedd tragywyddoldeb ydynt eiddof fi i'w rhoddi. Chwi a ymdrechasoch gredu y byddai i chwi dderbyn y fendith a gynnygiwyd i chwi; ond wele, yn wir meddaf i chwi, yr oedd ofnau yn eich calonau, ac yn wir hyn yw yr achos na dderbyniasoch.

2. Ac yn awr, myfi, yr Arglwydd, wyf yn rhoddi i chwi dystiolaeth o wirionedd y gorchymynion hyn ag ydynt yn gorwedd ger eich bron chwi; eich llygaid ydynt wedi bod ar fy ngwas Joseph Smith, ieu., a'i iaith ef a adnabuoch, a'i anmherffeithderau a adwaenoch; a cheisiasoch yn eich calonau

wybodaeth fel y gallech draddodi tu hwnt i'w iaith ef, hyn hefyd a wyddoch; yn awr, chwiliwch chwi allan o lyfr y gorchymynion, hyd y nod y lleiaf sydd yn eu plith hwynt, a phenodwch yr hwn sydd yn fwyaf doeth yn eich plith chwi; neu os oes neb yn eich plith chwi, a ddichon wneyd un cyffelyb iddo, yna y cyflawnheir chwi i ddywedyd na wyddoch eu bod yn wirionedd; ond os na ellwch wneyd un cyffelyb iddo, yr ydych dan gondemniad os na ddygwch dystiolaeth eu bod yn wirionedd; canys chwi a wyddoch nad oes anghyflawnder ynddynt, a'r hyn sydd gyflawn sydd yn dyfod i waered oddiuchod, oddiwrth Dad y goleuni.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, mai eich rhagorfraint ydyw, ac addewid wyf yn roddi i chwi a ordeiniwyd i'r weinidogaeth hon, yn gymmaint ag y dyosgwch eich hunain oddiwrth eiddigeddau ac ofnau, ac ymostwng ger fy mron i, canys nid ydych yn ddigon gostyngedig, y llen a rwygir, a chewch fy ngweled i, a gwybod mai MYFI YDWYF; nid â'r meddwl cnawdol, nac â'r naturiol ychwaith, ond â'r ysbrydol; canys nid oes neb wedi gweled Duw un amser yn y cnawd, oddieithr ei fywhau gan Ysbryd Duw; ac nis gall un dyn naturiol oddef presennoldeb Duw; nac ychwaith yn ol y meddwl cnawdol; nid ydych chwi yn alluog i oddef presennoldeb Duw yn awr, nac ychwaith weinidogaeth angylion; gan hyny, parhewch mewn amynedd hyd oni pherffeithier chwi.

4. Na thröed eich meddyliau yn ol, a phan fyddoch yn deilwng, yn fy amser priodol fy hun, chwi a gewch weled a gwybod yr hyn a gyfranwyd arnoch chwi trwy ddwylaw fy ngwas Joseph Smith, ieu. Amen.

DOSRAN XXVI.

Dadguddiad a roddwyd Tachwedd, 1831.

1. Wele, a gwrandewch, O chwi drigolion Seion, a chwi holl bobl fy eglwys, y rhai ydych yn mhell, a chlywch air yr Arglwydd yr hwn a roddaf i'm gwas Joseph Smith, ieu., ac hefyd i'm gwas Martin Harris, ac hefyd i'm gwas Oliver Cowdery, ac hefyd i'm gwas John Whitmer, ac hefyd i'm gwas Sidney Rigdon, ac hefyd i'm gwas William W. Phelps, mewn ffordd o

orchymyn iddynt hwy; canys yr wyf yn rhoddi iddynt hwy orchymyn; gan hyny gwrandewch a chlywch, canys fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthynt hwy,—Myfi, yr Arglwydd, a'u penodais hwynt, ac a'u hordeiniais hwynt i fod yn oruchwylwyr dros y dadguddiadau a'r gorchymynion a roddais iddynt hwy, a'r rhai a roddaf iddynt yn ol llaw: a chyfrif o'r oruchwyliaeth hon a ofynaf ganddynt yn nydd y farn; o herwydd paham, myfi a benodais iddynt hwy, a hyn yw eu gwaith yn eglwys Dduw, eu rheoleiddio hwynt, a'r pethau a berthynant iddynt; ïe, y lles oddiwrthynt.

2. Gan hyny yr wyf yn rhoddi gorchymyn iddynt, nad oes iddynt roddi y pethau hyn i'r eglwys, nac ychwaith i'r byd; er hyny, yn gymmaint ag y derbyniant fwy nag sydd yn ofynol at eu hanghenrheidiau a'u heisieu hwynt, caiff ei roddi i'm hystordy i, a'r lles oddiwrtho a fydd yn gyssegredig i breswylwyr Seion, at i'w cenedlaethau, yn gymmaint â'u bod hwy yn dyfod yn etifeddion yn ol cyfreithiau y deyrnas.

3. Wele, hyn a ofyna yr Arglwydd oddiwrth bob dyn yn ei oruchwyliaeth, hyd y nod megys yr wyf fi, yr Arglwydd, wedi benodi, neu a gaf benodi yn ol llaw i unrhyw ddyn. Ac, wele, nid oes neb yn rhydd oddiwrth y gyfraith hon ag sydd yn perthyn i eglwys y Duw byw; ïe, nid yw yr esgob, na'r goruchwyliwr sydd yn cadw ystordy yr Arglwydd, na'r hwn a benodir mewn goruchwyliaeth dros bethau tymmorol; efe yr hwn a benodir i weinyddu pethau ysbrydol, y cyfryw sydd deilwng o'i gyflog, hyd y nod megys y rhai a benodir i oruchwyliaeth, i weinyddu mewn pethau tymmorol; ïe, hyd y nod yn fwy helaeth, yr hwn helaethrwydd a liosogir iddynt hwy trwy egluriadau yr Ysbryd; er hyny, yn eich pethau tymmorol chwi a fyddwch yn ogyfuwch, a hyn yn ddirwgnach, onite yr helaethrwydd o eglurhad yr Ysbryd a attelir.

4. Yn awr, y gorchymyn hwn wyf yn roddi i'm gweision er eu lles tra yr arosont, yn eglurhad o'm bendithion ar eu penau, ac yn wobr o'u diwydrwydd ac er eu diogelwch; yn ymborth ac yn wisgoedd; yn etifeddiaeth; yn dai ac yn diroedd, yn mha amgylchiadau bynag y bydd i mi, yr Arglwydd, eu gosod hwynt, ac i ba le bynag y bydd i mi, yr Arglwydd, eu danfon hwynt; canys hwy a fuont ffyddlawn dros lawer o bethau, a gwnaethant yn dda yn

gymmaint ag na phechasant. Wele, myfi, yr Arglwydd, wyf drugarog, ac a'u bendithiaf hwynt, a hwy a ânt i mewn i lawenydd y pethau hyn. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XXVII.

Dadguddiad a roddwyd yn Seion, Gorphenaf, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, medd yr Arglwydd eich Duw, y rhai ydych wedi ymgynnull ynghyd, yn unol â'm gorchymynion, yn y tir hwn, yr hwn yw tir Missouri, yr hwn yw y tir a benodwyd ac a gyssegrwyd genyf i gynnull fy Saint; o herwydd paham, hwn yw tir yr addewid, a'r lle i ddinas Seion. Ac fel hyn y dywed yr Arglwydd eich Duw, os derbyniwch ddoethineb, yma y mae doethineb. Wele y lle a elwir yn awr Independence, sydd yn lle canol, a man i'r deml sydd yn gorwedd i'r gorllewin, ar gyfran sydd ddim yn mhell oddiwrth y llysdy; gan hyny doethineb yw i'r tir gael ei brynu gan y Saint; ac hefyd pob rhandir sydd yn gorwedd i'r gorllewin, hyd y nod i'r ffin a reda yn uniongyrchol rhwng yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn. Ac hefyd pob rhandir gyfagos at yr anialdiroedd, yn gymmaint â bod fy nyscyblion yn alluog i brynu tir. Wele, hyn sydd ddoethineb, fel y byddo iddynt ei gael yn etifeddiaeth dragywyddol.

2. A bydded i'm gwas Sidney Gilbert sefyll yn y swydd a benodais iddo, i dderbyn arian, i fod yn ddirprwywr i'r eglwys, i brynu tir yn yr holl barthau oddiamgylch, yn gymmaint ag y gellir mewn cyfiawnder, ac fel y byddo doethineb yn cyfarwyddo.

3. A bydded i'm gwas Edward Partridge sefyll yn y swydd a benodais iddo, i ranu i'r Saint eu hetifeddiaeth, hyd y nod megys y gorchymynais i; ac hefyd y rhai a benododd ef i'w gynnorthwyo.

4. A thrachefn, yn wir, meddaf i chwi, bydded i'm gwas Sidney Gilbert blanu ei hun yn y lle hwn, a sefydlu ystorfa, fel y gallo werthu nwyddau yn ddidwyll, fel y caffo arian i brynu tiroedd er lles y Saint, ac fel y gallo gael pa bethau bynag y byddo y dyscyblion mewn anghen o honynt yn eu hetifeddiaeth. Ac hefyd bydded i'm gwas, Sidney Gilbert, fynu trwydded—

(wele yma ddoethineb, a phwy bynag a ddarlleno, bydded iddo ddeall),—fel y gallo anfon nwyddau i'r bobl hefyd, hyd y nod gyda phwy bynag a ewyllysio efe, megys ysgrifenyddion yn gweithio yn ei wasanaeth, ac felly ddarparu i'm Saint, fel y byddo i'm hefengyl gael ei phregethu i'r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch, ac yn mro a chysgod angeu.

5. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas William W. Phelps gael ei blanu yn y lle hwn, a chael ei sefydlu fel argraffydd i'r eglwys; ac wele, os derbynia y byd ei ysgrifeniadau—(wele yma ddoethineb),—bydded iddo gymmeryd pa beth bynag a allo gael mewn cyfiawnder, er daioni y Saint. A bydded i'm gwas, Oliver Cowdery, ei gynnorthwyo ef, megys y gorchymynais i, yn mha le bynag y penodwyf iddo, i gopïo, a diwygio, a dewis, fel y byddo pob peth yn iawn ger fy mron i, megys y profir gan yr Ysbryd trwyddo ef. Ac felly bydded i'r rhai hyny ag y llefarais am danynt sydd i'w planu yn nhir Seion, mor fuan ag y byddo modd, ynghyd â'u teuluoedd, i wneuthur y pethau hyny megys y llefarais.

6. Ac yn awr mewn perthynas i'r ymgynnulliad. Bydded i'r esgob a'r dirprwywr wneyd parotöadau i'r teuluoedd hyny ag ydynt wedi cael eu gorchymyn i ddyfod i'r tir hwn, mor fuan ag sydd bosibl, a'u planu hwynt yn eu hetifeddiaeth. Ac i'r gweddill o'r henuriaid a'r aelodau, rhoddir cyfarwyddiadau pellach yn ol llaw. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XXVIII.

Dadguddiad a roddwyd Tachwedd, 1831.

1. Gwrandewch arnaf fi, medd yr Arglwydd eich Duw, er mwyn fy ngwas Oliver Cowdery. Nid yw ddoethineb ynof fi iddo ef gael ei ymddiried â'r gorchymynion a'r arian ag y mae efe yn ddwyn i dir Seion, oddieithr i un fyned gydag ef, yr hwn a fydd yn gywir a ffyddlawn; gan hyny, yr wyf fi yr Arglwydd yn ewyllysio i'm gwas, John Whitmer, fyned gyda'm gwas Oliver Cowdery; ac hefyd fod iddo ef barhau i ysgrifenu a gwneuthur hanes o'r holl bethau pwysfawr a ganfydda ac a ddaw i wybod am danynt mewn perthynas i'm heglwys; ac

hefyd fo'l iddo dderbyn cynghor a chynnorthwy gan fy ngwas Oliver Cowdery ac ereill.

2. Ac hefyd fy ngweision y rhai ydynt ar wasgar ar hyd y ddaear, a ddylent anfon gyfrifon o'u goruchwyliaethau i dir Seion; canys tir Seion a fydd yn eisteddfa ac yn lle i dderbyn a gwneuthur yr holl bethau hyn; er hyny, bydded i'm gwas John Whitmer, deithio yn aml o le i le, ac o eglwys i eglwys, fel y gallo yn fwy rhwydd gael gwybodaeth; gan bregethu, ac esbonio, ysgrifenu, copïo, dewis, a chasglu pob peth a fydd o les i'm heglwys, a'r genedl sydd yn codi, yr hon a dyfa i fyny yn nhir Seion, i'w meddiannu o genedlaeth i genedlaeth, yn oes oesoedd. Amen.

DOSRAN XXIX.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon. Ionawr, 1832. *Gair yr Arglwydd atynt hwy mewn perthynas i Henuriaid Eglwys y Duw byw, a sefydlwyd yn y dyddiau diweddaf, yn hysbysu ewyllys yr Arglwydd i'r Henuriaid, pa beth y maent i'w wneuthur hyd y Gynnadledd.*

1. Canys yn wir fel hyn y dywed yr Arglwydd, y mae yn anghenrhaid genyf fi, fod iddynt hwy barhau i bregethu yr efengyl, a chynghori yr eglwysi yn y parthau oddiamgylch, hyd y gynnadledd; ac yna, wele, caiff ei wneyd yn hysbys iddynt hwy, trwy lais y gynnadledd, eu hamrywiol genadiaethau.

2. Yn awr, yn wir, yr wyf yn dywedyd wrthych chwi fy ngweision, Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, medd yr Arglwydd, y mae yn anghenrhaid i gyfleithu etto, ac, yn gymmaint ag y byddo yn alluadwy, i bregethu yn y parthau oddiamgylch hyd y gynnadledd; ac wedi hyny y mae yn anghenrhaid i barhau y gwaith o gyfleithu hyd oni orphener ef. A bydded hyn yn gynllun i'r henuriaid hyd wybodaeth bellach, hyd y nod megys y mae yn ysgrifenedig. Yn awr nid wyf yn rhoddi ychwaneg i chwi yr amser hwn. Gwregyswch i fyny eich lwynau, a byddwch sobr. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XXX.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a roddwyd Gorphenaf, 1828, mewn perthynas i Law-ysgrifau penodol ar y Rhan Gyntaf o Lyfr Mormon, y rhai a gymmerasid o feddiant Martin Harris.

1. Gweithredoedd, a dybenion, a bwriadau Duw nis gellir eu rhwystro, ac nis gallant ychwaith ddyfod i ddim, canys nid yw Duw yn rhodio mewn llwybrau ceimion, ac nid yw ychwaith yn troi i'r llaw ddëau nac i'r aswy, ac nid yw yn gwahaniaethu oddiwrth yr hyn a ddywedodd, gan hyny ei lwybrau ydynt uniawn, a'i ystod yn un cylch tragywyddol.

2. Cofiwch, cofiwch mai nid gwaith Duw sydd yn cael ei rwystro, eithr gwaith dynion; canys er y dichon i ddyn gael llawer o ddadguddiadau, a chael gallu i wneuthur llawer o weithredoedd nerthol, etto os ymffrostia yn ei gryfder ei hun, ac a ddiystyra gynghorion Duw, ac a ddilyna ar ol tueddiadau ei ewyllys ei hun, a'i ddymuniadau cnawdol, rhaid iddo syrthio a thynu dialedd Duw cyflawn arno ei hun.

3. Wele, chwi a ymddiriedwyd â'r pethau hyn, ond mor gaeth oedd eich gorchymynion; a chofiwch hefyd yr addewidion a wnaed i chwi, os na fyddai i chwi eu troseddu hwynt; ac wele, mor fynych yr ydych wedi troseddu gorchymynion a chyfreithiau Duw, ac wedi myned yn mlaen yn ol cymhelliadau dynion; canys, wele, ni ddylasech chwi ofni dyn yn fwy nâ Duw, er fod dynion yn gosod yn ddiddim gynghorion Duw, ac yn diystyru ei eiriau; etto, dylasech chwi fod yn ffyddlawn, ac efe a estynasai ei fraich ac a'ch cynnaliasai chwi yn erbyn holl bicellau tanllyd y gwrthwynebwr; a buasai gyda chwi yn mhob amser o drallod.

4. Wele, tydi ydwyt Joseph, a thi a ddewiswyd i wneuthur gwaith yr Arglwydd, ond o herwydd trosedd, os na fydd i ti wylio ti a syrthi; eithr cofia, mae Duw yn drugarog; gan hyny, edifarha am yr hyn a wnaethost yn groes i'r gorchymyn a roddais i ti, ac etto yr ydwyt yn ddewisedig, a thrachefn y'th elwir at y gwaith; oddieithr i ti wneuthur hyn, ti a roddir i fyny, ac a fyddi megys dynion ereill, ac ni chei ddawn mwyach.

5. A phan draddodaist i fyny yr hyn y rhoddodd Duw i ti olwg a gallu i'w gyfleithu, ti a draddodaist i fyny yr hyn oedd

gyssegredig i ddwylaw dyn drygionus, yr hwn sydd wedi gosod yn ddiddim gynghorion Duw, ac wedi tòri yr addewidion mwyaf santaidd a wnaed gerbron Duw, ac y mae wedi ymddibynu ar ei farn ei hun, ac ymffrostio yn ei ddoethineb ei hun, a hyn yw y rheswm i ti golli dy fraint dros dymmor, canys ti a oddefaist i gynghor dy gyfarwyddwr gael ei sathru o'r dechreu.

6. Er hyny fy ngwaith a â allan, canys yn gymmaint â bod gwybodaeth o Iachawdwr wedi dyfod i'r byd, trwy dystiolaeth Iuddewon, felly hefyd y daw y wybodaeth o Iachawdwr at fy mhobl i, ac at y Nephiaid, a'r Jacobiaid, a'r Josephiaid, a'r Zoramiaid, trwy dystiolaeth eu tadau,—a'r dystiolaeth hon a ddaw i wybodaeth y Lamaniaid, a'r Lemeuliaid, a'r Ishmaeliaid, y rhai a fethasant mewn anghrediniaeth o herwydd anwiredd eu tadau, y rhai a oddefodd yr Arglwydd i ddystrywio eu brodyr y Nephiaid, o herwydd eu hanwireddau a'u ffieidd-derau; ac i'r dyben hwn y cadwyd y llafnau hyn, y rhai a gynnwysant y cofnodau hyn, fel y cyflawnid addewidion yr Arglwydd, y rhai a wnaeth efe i'w bobl; ac fel y byddai i'r Lamaniaid ddyfod i wybodaeth eu tadau, ac fel y byddai iddynt wybod addewidion yr Arglwydd, ac fel y byddo iddynt gredu yr efengyl, ac ymorphwys ar haeddiant Iesu Grist, a chael eu gogoneddu trwy ffydd yn ei enw ef, a thrwy eu hedifeirwch y byddai iddynt gael eu hachub. Amen.

DOSRAN XXXI.

Dadguddiad i Joseph Smith, hen., a roddwyd Chwefror, 1829.

1. Yn awr, wele, gwaith rhyfeddol sydd o gylch dyfod allan yn mhlith plant dynion; gan hyny, O chwi sydd wedi dechreu yn ngwasanaeth Duw, gwelwch eich bod yn ei wasanaethu â'ch holl galon, gallu, meddwl, a nerth, fel y byddo i chwi sefyll yn ddifeïus gerbron Duw yn y dydd olaf; gan hyny, os ydych yn dymuno gwasanaethu Duw, yr ydych yn cael eich galw at y gwaith, canys wele y maesydd ydynt eisoes yn wynion i'r cynauaf, ac wele, yr hwn a osoda i mewn ei gryman â'i holl allu, y mae yn trysori i fyny drysor na ddarfydda, ond a ddyga iachawdwriaeth i'w enaid; a ffydd, gobaith, haelionusrwydd, a

hariad, gyda golwg yn unig at ogoniant Duw, a'i cymhwysa ef at y gwaith.

2. Cofiwch ffydd, rhinwedd, gwybodaeth, cymmedroldeb, amynedd, caredigrwydd brawdol, duwioldeb, elusengarwch, gostyngeiddrwydd, diwydrwydd. Gofynwch a chwi a dderbyniwch, curwch ac fe a agorir i chwi. Amen.

DOSRAN XXXII.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1829.

1. Wele, meddaf i chwi, megys y mae fy ngwas Martin Harris wedi gofyn tyst ar fy llaw, eich bod chwi, fy ngwas Joseph Smith, ieu., mewn meddiant o'r llafnau am y rhai y tystiasoch ac y dygasoch goffadwriaeth i chwi eu derbyn oddiwrthyf fi; ac yn awr, wele, hyn a ddywedwch wrtho ef, Efe yr hwn a lefarodd wrthych chwi a ddywedodd wrthych, Myfi, yr Arglwydd, wyf Dduw, ac yr wyf wedi rhoddi y pethau hyn i chwi, fy ngwas Joseph Smith, ieu, a gorchymynais chwi fod i chwi sefyll yn dyst o'r pethau hyn, a pherais i chwi fod i chwi fyned i gyfammod â mi, na fyddai i chwi eu dangos oddieithr i'r personau hyny i ba rai y gorchymynais chwi; ac nid oes genych chwi awdurdod drostynt oddieithr i mi ei roddi i chwi. Ac y mae genych chwi ddawn i gyfieithu y llafnau, a hon yw y ddawn gyntaf a gyfrenais arnoch chwi, ac yr wyf wedi gorchymyn i chwi nad oes i chwi gymmeryd arnoch fod genych un ddawn arall hyd oni chyflawnir fy mwriad yn hyn; canys ni chyfranaf i chwi un ddawn arall hyd oni orphener ef.

2. Yn wir, meddaf i chwi, mai gwae a ddaw i drigolion y ddaear os na wrandawant ar fy ngeiriau; canys yn ol llaw chwi a ordeinir, ac a ewch allan, ac a draddodwch fy ngeiriau i blant dynion. Wele, os na chredant fy ngeiriau i, ni chredent chwithau, fy ngwas Joseph, pe buasai yn bosibl i chwi allu dangos iddynt yr holl bethau hyn a gyflwynais i chwi. O! y genedlaeth anghrediniol a gwargaled hon, fy llid a ennynodd yn eu herbyn hwynt.

3. Wele, yn wir meddaf i chwi, yr wyf wedi cadw y pethau hyny a ymddiriedais i chwi, fy ngwas Joseph, i ddyben doeth ynof fi, a chaiff ei wneyd yn wybodus i genedlaethau dyfodol;

ond y genedlaeth hon a gaiff fy ngair trwyddoch chwi; ac mewn ychwanegiad at eich tystiolaeth chwi, tystiolaeth tri o'm gweision, y rhai a alwaf ac a ordeiniaf, i ba rai y dangosaf y pethau hyn, a hwy a gânt fyned allan â'm geiriau a roddir trwyddoch chwi, ïe, cânt wybod gyda sicrwydd fod y pethau hyn yn wir, canys o'r nef y tystiaf hyny iddynt hwy. Rhoddaf iddynt allu fel y gwelont ac y canfyddont y pethau hyn megys ag y maent; ac ni roddaf y gallu hwn i neb arall, i dderbyn yr unrhyw dystiolaeth hon yn mhlith y genedlaeth hon, yn y dechreuad hwn o gyfodiad i fyny a dyfodiad allan fy eglwys o'r anialwch; yn glir fel y lleuad, yn deg fel yr haul, ac yn ofnadwy fel llu banerog. A thystiolaeth tri o dystion a anfonaf allan am fy ngair; ac wele, pwy bynag a gredont ar fy ngeiriau i, mi a ymwelaf â hwynt ag eglurhad fy Ysbryd, a chant eu geni o honof fi, sef o ddwfr ac o'r Ysbryd. A rhaid i chwi aros etto ychydig bach, canys nid ydych etto wedi eich ordeinio; a'u tystiolaeth hwynt a gaiff fyned allan hefyd er condemniad y genedlaeth hon, os caledant eu calonau yn eu herbyn hwynt; canys fflangell anrheithiol a gaiff fyned allan yn mhlith trigolion y ddaear, a pharheir i'w thywallt allan o amser i amser, os nad edifarhant, hyd oni fyddo y ddaear yn wâg, a'i thrigolion wedi eu hysu ymaith a'u dystrywio yn hollol gan ddyscleirdeb fy nyfodiad. Wele, yr wyf yn dywedyd wrthych y pethau hyn, megys hefyd y mynegais wrth y bobl am ddinystr Jerusalem, a chaiff fy ngair ei wirio y tro hwn megys y cafodd ei wirio hyd yn hyn.

4. Ac yn awr yr wyf yn eich gorchymyn chwi, fy ngwas Joseph, i edifarhau a rhodio yn fwy uniawn ger fy mron i, a pheidio ymroddi mwyach i gymhelliadau dynion; ac i chwi fod yn ddiysgog yn cadw fy ngorchymynion y rhai a orchymynais i chwi; ac os bydd i chwi wneuthur hyn, wele yr wyf yn rhoddi i chwi fywyd tragywyddol, hyd y nod pe byddai i chwi gael eich lladd.

5. Ac yn awr, etto, yr wyf yn llefaru wrthych chwi, fi ngwas Joseph, mewn perthynas i'r dyn sydd yn gofyn y tyst. Wele, yr wyf yn dywedyd wrtho ef, y mae yn ymddyrchafu, ac nid yw yn ymostwng yn ddigonol ger fy mron i; ond os bydd iddo ef blygu i lawr ger fy mron i, ac ymostwng mewn gweddi alluog a ffydd, yn niragrithrwydd ei galon, yna mi a ganiatâf

iddo olwg ar y pethau y dymuna eu gweled. Ac yna y dyweda efe wrth bobl y genedlaeth hon, Wele, myfi a welais y pethau a ddangosodd yr Arglwydd i Joseph Smith, ieu., ac yr wyf yn gwybod yn sicr eu bod yn wir, canys gwelais hwynt, canys hwy a ddangoswyd i mi trwy allu Duw ac nid dyn. A myfi, yr Arglwydd, wyf yn gorchymyn iddo ef, fy ngwas Martin Harris, na ddyweda ychwaneg wrthynt hwy am y pethau hyn, oddieithr iddo ddywedyd, Mi a'u gwelais hwynt, a hwy a ddangoswyd i mi trwy allu Duw, a'r rhai hyn yw y geiriau y mae i'w dywedyd; ond os gwada hyn, bydd iddo dòri y cyfammod a ammododd efe o'r blaen â mi, ac wele, y mae ef yn gondemnedig. Ac yn awr, oddieithr iddo ef ymostwng a chyfaddef wrthyf y pethau a wnaeth, y rhai ydynt gamweddus, a chyfammodi â mi y bydd iddo gadw fy ngorchymynion, ac ymarfer ffydd ynof fi, wele, yr wyf yn dywedyd wrtho, ni chaiff y fath weledìadau, canys ni chaniatâf iddo ef weledìadau o'r pethau am y rhai y llefarais. Ac os mai felly y bydd, yr wyf yn gorchymyn i chwi, fy ngwas Joseph, fod i chwi ddywedyd wrtho, nad oes iddo ef wneuthur ychwaneg, na'm blino i mwyach mewn perthynas i'r mater hwn.

6. Ac os mai hyn fydd yr achos, wele, yr wyf yn dywedyd wrthyt ti Joseph, wedi i ti gyfieithu ychydig yn rhagor o dudalenau, rhaid i ti aros dros dymmor, sef hyd oni orchymynwyf i ti etto; yna ti a elli gyfieithu drachefn. Ac oddieithr i ti wneuthur hyn, wele, ni chai ragor o ddawn, a mi a gymmeraf ymaith y pethau a ymddiriedais gyda thi. Ac yn awr, o herwydd fy mod yn rhagweled y cynllwyn sydd i'th ddystrywio di, ïe, yr wyf yn rhagweled os na fydd i'm gwas Martin Harris ymostwng, a derbyn tyst o'm llaw, y bydd iddo syrthio i drosedd, ac y mae llawer yn gorwedd mewn cynllwyn i'th ddystrywio di oddiar wyneb y ddaear, ac o achos hyn, fel y byddo i'th ddyddiau gael eu hestyn, y rhoddais i ti y gorchymynion hyn; ïe, o herwydd yr achos hwn y dywedais, Aros a saf yn llonydd hyd oni orchymynwyf i ti, a mi a ddarparaf foddion trwy ba rai y gelli gyflawni y peth a orchymynais i ti; ac os ydwyt ffyddlawn i gadw fy ngorchymynion, ti a ddyrchefir i fyny yn y dydd olaf. Amen.

DOSRAN XXXIII.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, yn Harmony, Pennsylvania, Ebrill, 1829, *pan ddymunasant wybod pa un a oedd Ioan, y dyscybl anwyl, yn aros ar y ddaear. A gyfieithwyd o femrwn, a ysgrifenwyd ac a guddiwyd ganddo ef ei hun.*

1. A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf fi, Ioan, fy anwylyd, pa beth a ddymuni di? Canys os gofyni, beth bynag a ewyllysiot, fe a'i rhoddir i ti. A mi a ddywedais wrtho ef, Arglwydd, dyro i mi awdurdod ar angeu, fel y byddwyf byw a dwyn eneidiau atat ti. A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, o herwydd dy fod yn dymuno hyn, ti a gai aros hyd oni ddelwyf yn fy ngogoniant, a thi a brophwydi gerbron cenedloedd, llwythau, ieithoedd, a phobloedd.

2. Ac o achos hyn y dywedodd yr Arglwydd wrth Pedr, Os ewyllysiaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hyny i ti? canys efe a ddymunodd arnaf fi fel y gellai ddwyn eneidiau ataf, ond ti a ddymunaist fel y gellit ddyfod ataf fi yn fuan yn fy nheyrnas. Yr wyf yn dywedyd i ti, Pedr, yr oedd hwn yn ddymuniad da, eithr fy anwylyd a ddymunodd gael gwneuthur ychwaneg, neu waith mwy etto yn mhlith dynion nâ'r hyn a wnaethai o'r blaen; ïe, y mae wedi cymmeryd arno waith mwy, gan hyny mi a'i gwnaf ef megys tân fflamllyd ac angel gweinyddol; caiff weinyddu i'r rhai fyddant etifeddion iachawdwriaeth, ag sydd yn preswylio ar y ddaear; ac mi a'th wnaf di i weinyddu drosto ef a thros dy frawd Iago; ac i chwi eich tri y rhoddaf yr awdurdod hwn, ac allweddau y weinidogaeth hon, hyd oni ddelwyf.

3. Yn wir, meddaf i chwi, chwi a gewch eich dau yn ol eich dymuniadau, canys yr ydych eich dau yn llawenhau yn yr hyn ydych wedi geisio.

DOSRAN XXXIV.

Dadguddiad a roddwyd Ebrill, 1829.

1. Oliver Cowdery, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, mor sicr â bod yr Arglwydd yn fyw, yr hwn yw eich Duw chwi a'ch Iachawdwr, mor sicr â hyny y bydd i chwi dderbyn gwybod-

aeth o ba bethau bynag a ofynoch mewn ffydd, gyda chalon onest, gan gredu y bydd i chwi dderbyn gwybodaeth mewn perthynas i'r cerfiadau o hen gofnodau, y rhai ydynt yn hen, y rhai a gynnwysant y rhanau hyny o'm hysgrythyr am ba rai y mynegwyd trwy eglurhad fy Ysbryd; ïe, wele, mi a ddywedaf wrthych yn eich meddwl ac yn eich calon, trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddaw arnoch chwi, a'r hwn a breswylia yn eich calon.

2. Yn awr, wele, hwn yw ysbryd dadguddiad; wele, hwn yw yr Ysbryd trwy yr hwn y dygodd Moses blant Israel trwy y Môr Coch ar dir sych; gan hyny, dy ddawn di yw hon; ymlyna wrthi, a bendigedig fyddi, canys hi a'th wared allan o ddwylaw dy elynion, pan, pe na byddai felly, hwy a'th laddent di, ac a ddygent dy enaid i ddystryw.

3. O! cofia y geiriau hyn, a cadw fy ngorchymynion. Cofia mai hyn yw dy ddawn di. Yn awr, nid hyn yw dy holl ddawn di; canys y mae genyt ddawn arall, yr hon yw dawn Aaron; wele, dywedodd wrthyt lawer o bethau; wele, nid oes un gallu arall, ond gallu Duw, a all beri i'r ddawn hon o eiddo Aaron fod gyda thi; gan hyny nac ammau, canys dawn Duw ydyw, a bydd i ti ei chadw yn dy ddwylaw, a gwneyd gweithredoedd rhyfeddol; ac ni fydd un gallu yn medru ei chymmeryd allan o'th ddwylaw, canys gwaith Duw ydyw. A chan hyny, pa beth bynag a ofynot i mi ei fynegi i ti, trwy y moddion hyny y bydd i mi ei roddi i ti, a chai wybodaeth mewn perthynas iddo; cofia nas gelli wneuthur dim heb ffydd, gan hyny gofyn mewn ffydd. Na fydd ddifater am y pethau hyn; na ofyn am yr hyn na ddylit; gofyn fel y byddo i ti wybod dirgeledigaethau Duw, ac fel y byddo i ti gyfieithu a derbyn gwybodaeth oddiwrth yr holl hen gof-ysgrifau hyny a guddiwyd i fyny, y rhai ydynt santaidd, ac yn ol dy ffydd fe a'i gwneir i ti. Wele, myfi a'i llefarais; a myfi wyf yr un ag a lefarodd wrthyt o'r dechreu. Amen.

DOSRAN XXXV.

Dadguddiad a roddwyd i Oliver Cowdery, Ebrill, 1829.

1. Wele, meddaf i ti, fy mab, o herwydd na ddarfu i ti gyfieithu yn ol yr hyn y dymunaist genyf fi, a'th fod wedi

dechreu drachefn i ysgrifenu dros fy ngwas Joseph Smith, ieu., felly hefyd yr ewyllysiaf i ti barhau hyd oni orphenot y gof-ysgrifen hon, a ymddiriedais i iddo ef; ac yna, wele, cof-ysgrifau ereill sydd genyf fi, y rhai y rhoddaf i ti allu i gynnorthwyo eu cyfieithu.

2. Bydd amyneddgar, fy mab, canys doethineb yw hyn ynof fi, ac nid yw yn fuddiol i ti gyfieithu ar yr amser presennol hwn. Wele, y gwaith i'th elwir di i'w wneuthur, yw ysgrifenu dros fy ngwas Joseph; ac wele, o herwydd na ddarfu i ti barhau megys y dechreuaist, pan ddechreuaist gyfieithu, y cymmerais i y fraint hon ymaith oddiwrthyt. Na rwgnach, fy mab, canys doethineb ynof fi yw ymddwyn atat yn y modd hwn.

3. Wele, nid ydwyt wedi deall; meddyliaist y byddai i mi ei roddi i ti, pan nad ystyriaist, oddieithr i ofyn genyf fi; ond, wele, meddaf i ti, rhaid i ti ei fyfyrio allan yn dy feddwl dy hun; yna rhaid i ti ofyn i mi os bydd yn uniawn, ac os bydd yn uniawn mi a baraf i'th fynwes losgi ynot; gan hyny, bydd i ti deimlo ei fod yn uniawn; ond os na fydd yn uniawn, ni chai y cyfryw deimladau, eithr cai hurtrwydd meddwl, yr hyn a wna i ti anghofio y peth sydd gamweddus; gan hyny, nis gelli ysgrifenu yr hyn sydd santaidd, oddieithr ei roddi i ti oddi wrthyf fi.

4. Yn awr, pe gwybuasit ti hyn, ti a allasit gyfieithu; er hyny, nid yw yn fuddiol i ti gyfieithu yn awr. Wele, yr oedd yn fuddiol pan ddechreuaist, ond ti a ofnaist, ac y mae yr amser wedi myned heibio, ac nid yw yn fuddiol yn awr; canys, oni weli di fy mod wedi rhoddi nerth digonol i'm gwas Joseph, trwy yr hyn y gwneir ef i fyny; ac nid wyf wedi condemnio yr un o honoch.

5. Gwna y peth hwn a orchymynais i ti, a thi a lwyddi. Bydd ffyddlawn, ac na rodda ffordd i un demtasiwn. Saf yn ddiysgog yn y gwaith i'r hwn i'th elwais, ac ni chaiff un o wallt dy ben ei golli, a thi a godir i fyny yn y dydd olaf. Amen.

DOSRAN XXXVI.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Smith, ieu., Mai, 1829, yn ei hysbysu am gyfnewidiad Llawysgrif y rhan gyntaf o Lyfr Mormon.

1. Yn awr, wele, meddaf i ti, o herwydd i ti draddodi i fyny

yr ysgrifau hyny y rhoddwyd gallu i ti i'w cyfieithu, trwy foddion yr Urim a Thummim, i ddwylaw dyn drygionus, yr ydwyt wedi eu colli; a thi a gollaist dy ddawn hefyd ar yr un amser, a'th feddwl a aeth yn dywyll; er hyny, y mae yn awr wedi ei adferu i ti drachefn, gan hyny, gwel dy fod yn ffyddlawn, a pharha yn mlaen hyd orpheniad y gweddill o waith y cyfieithiad megys y dechreuaist: na reda yn mlaen yn gynt, neu lafurio ychwaneg nag sydd genyt nerth a moddion wedi eu darparu i'th alluogi i gyfieithu; ond bydd ddiwyd hyd y diwedd: gweddia yn wastad, am i ti ddyfod ymaith yn orchfygwr; ïe, fod i ti orchfygu Satan, a bod i ti ddianc rhag dwylaw gweision Satan, y rhai ydynt yn dàl i fyny ei waith. Wele, maent wedi ceisio dy ddystrywio di; ïe, hyd y nod y dyn yn yr hwn yr ymddiriedaist, sydd wedi ceisio dy ddystrywio. Ac o achos hyn y dywedais mai dyn drygionus yw ef, canys y mae wedi ceisio cymmeryd ymaith y pethau a ymddiriedwyd i ti; ac y mae hefyd wedi ceisio dystrywio dy ddawn; ac o herwydd i ti draddodi yr ysgrifau i'w ddwylaw ef, wele dynion drygionus a'u cymmerasant hwy oddiwrthyt; gan hyny, ti a'u traddodaist i fyny; ïe, yr hyn oedd santaidd, i ddrygioni. Ac, wele, y mae Satan wedi ei osod yn eu calonau i gyfnewid y geiriau a beraist ti i'w hysgrifenu, neu a gyfieithaist ti, y rhai a aethant allan o'th ddwylaw; ac, wele, meddaf i ti, o herwydd iddynt hwy gyfnewid y geiriau, y maent yn darllen yn wahanol i'r hyn a gyfieithaist ti, ac a beraist eu hysgrifenu; ac, yn y ffordd hon, mae y diafol wedi ceisio gosod cynllun dichellgar, fel y dinystriai y gwaith hwn; canys efe a osododd yn eu calonau i wneuthur hyn, fel trwy fod yn gelwyddog y gallent ddywedyd eu bod wedi dy ddàl di yn y geiriau y cymmeraist arnat i'w cyfieithu.

2. Yn wir, meddaf i ti, ni oddefaf i Satan gyflawni ei fwriad drygionus yn y peth hwn, canys, wele, y mae wedi gosod yn eu calonau i'th gael di i demtio yr Arglwydd dy Dduw, trwy ofyn i'w gyfieithu drosodd drachefn; ac yna, wele, dywedant a meddyliant yn eu calonau, Bydd i ni weled os yw Duw wedi rhoddi iddo ef allu i gyfieithu; os felly, bydd iddo hefyd roddi iddo allu drachefn; ac os rhydd Duw iddo allu drachefn, neu os cyfieitha drachefn, neu mewn ymadroddion ereill, os dyga allan yr un geiriau, wele, y mae yr unrhyw gyda

ni, ac yr ydym wedi eu cyfnewid; gan hyny, ni fydd iddynt gytuno, a dywedwn ei fod ef yn gelwyddog yn ei eiriau, ac nad oes ganddo ddawn, ac nad oes ganddo allu; gan hyny, nyni a'i dinystriwn ef, ac hefyd ei waith; a gwnawn hyn fel na'n cywilyddier yn y diwedd, ac fel y caffom ogoniant gan y byd.

3. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, y mae gan Satan afael gref ar eu calonau; y mae yn eu cynhyrfu i fyny i ddrygioni yn erbyn yr hyn sydd dda, a'u calonau ydynt lygredig, a llawn o ddrygioni a ffieidd-dra, a charant dywyllwch yn hytrach nâ goleuni, o herwydd eu gweithredoedd ydynt ddrwg; gan hyny, ni ofynant genyf fi. Satan a'u cynhyrfa i fyny, fel yr arweinio eu heneidiau i ddystryw. Ac felly y mae wedi gosod cynllun dichellgar, gan feddwl dystrywio gwaith Duw, eithr mi a ofynaf hyn ar eu dwylaw, a bydd iddo droi er eu cywilydd a'u damnedigaeth yn nydd y farn; ïe, efe a gynhyrfa i fyny eu calonau i lid yn erbyn y gwaith hyn; ïe, efe a ddyweda wrthynt, Twyllwch a chynllwynwch i ddàl, fel y byddo i chwi ddystrywio: wele, nid yw hyn niwed; ac fel hyn y gwenieitha iddynt, ac y dyweda wrthynt nad yw yn bechod i ddweyd celwydd, fel y daliont ddyn mewn celwydd, fel y dystrywiont ef; ac fel hyn y gwenieitha iddynt, ac arweinia hwynt yn mlaen hyd oni lusga eu heneidia i waered i uffern; ac felly gwna iddynt ddala eu hunain yn eu magl eu hunain; ac felly yr â i fyny ac i waered, yma ac acw yn y ddaear, gan geisio dystrywio eneidiau dynion.

4. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, gwae fydd iddo ef sydd yn dywedyd celwydd i dwyllo, o herwydd y tybia fod arall yn dywedyd celwydd i dwyllo, canys nid yw y cyfryw yn rhydd oddiwrth gyfiawnder Duw.

5. Yn awr, wele, maent wedi cyfnewid y geiriau hyn, o herwydd Satan a ddyweda wrthynt, Efe a'ch twyllodd chwi; ac felly efe a'u gwenieithodd hwynt ymaith i wneuthur anwiredd, i'th gael di i demtio yr Arglwydd dy Dduw.

6. Wele, meddaf i ti, nid oes i ti gyfleithu y geiriau hyny drachefn, y rhai a aethant allan o'th ddwylaw; canys, wele, ni chant hwy gyflawni eu dybenion drygionus trwy ddywedyd celwydd yn erbyn y geiriau hyny. Canys, wele, pe byddai i ti etto ddwyn allan yr un geiriau, hwy a ddywedant dy fod yn

gelwyddog; dy fod wedi ffugio i gyfleithu, ond dy fod wedi gwrthddywedyd dy hun; ac, wele, hwy a gyhoeddant hyn, a Satan a galeda galonau y bobl i'w cynhyrfu i lid yn dy erbyn di, fel na chredant fy ngeiriau. Fel hyn y meddylia Satan orchfygu dy dystiolaeth yn y genedlaeth hon, fel na ddelo y gwaith allan yn y genedlaeth hon; eithr, wele, yma y mae doethineb, ac o herwydd fy mod yn dangos i ti ddoethineb, ac yn rhoddi i ti orchymynion mewn perthynas i'r pethau hyn, pa beth a wnai, na ddangos ef i'r byd hyd oni orphenot waith y cyfleithad.

7. Na ryfedda i mi ddywedyd wrthyt, yma y mae doethineb, na ddangos ef i'r byd, o herwydd dywedais na ddangos ef i'r byd, fel y byddo i ti gael dy gadw. Wele, nid wyf yn dywedyd nad oes i ti ei ddangos i'r cyfiawn; ond gan nas gelli yn wastad farnu y cyfiawn, neu nas gelli yn wastad adnabod y drygionus oddiwrth y cyfiawn, gan hyny, meddaf i ti, bydd yn ddystaw hyd oni welwyf fi yn addas i wneyd pob peth yn hysbys i'r byd mewn perthynas i'r mater.

8. Ac yn awr, yn wir meddaf i ti, mae hanes am y pethau hyny a ysgrifenaist, y rhai a aethant allan o'th ddwylaw, wedi ei gerfio ar lafnau Nephi; ïe, ac yr ydych yn cofio y dywedir yn yr ysgrifau hyny fod hanes mwy neillduol am y pethau hyn yn cael ei roddi ar lafnau Nephi.

9. Ac yn awr, o herwydd fod yr hanes sydd wedi ei gerfio ar lafnau Nephi yn fwy neillduol mewn perthynas i'r pethau yr ewyllysiwn, yn fy noethineb, eu dwyn i wybodaeth y bobl yn yr hanes hwn; gan hyny, chwi a gewch gyfleithu y cerfiadau sydd ar lafnau Nephi, i lawr hyd yr amser y deuwch at deyrnasiad y brenin Benjamin, neu hyd oni ddeuwch at yr hyn ydych wedi gyfleithu, yr hyn a gadwasoch; ac wele, chwi a'i cyhoeddwch efe megys cof-ysgrif Nephi, ac felly y dyrysaf y rhai a gyfnewidiasant fy ngeiriau. Ni oddefaf iddynt ddystrywio fy ngwaith; ïe, mi a ddangosaf iddynt fod fy noethineb yn fwy nâ chyfrwysdra y diafol.

10. Wele, nid oes ganddynt hwy ond rhan, neu dalfyriad o hanes Nephi. Wele, y mae llawer o bethau wedi eu cerfio ar lafnau Nephi, y rhai ydynt yn rhoddi ychwaneg o oleuni ar fy efengyl; gan hyny, doethineb yw ynof fi fod i chwi gyfleithu y rhan gyntaf hon o gerfiadau Nephi, a'u danfon allan yn y

gwaith hwn. Ac wele, mae holl weddill y gwaith hwn yn cynnwys yr holl ranau hyny o'm hefengyl, y rhai y darfu i'm prophwydi santaidd, ïe, ac hefyd fy nyscyblion, ddymuno yn eu gweddiau iddynt ddyfod allan i'r bobl hyn. A dywedais wrthynt, y byddai iddo gael ei ganiatâu iddynt yn ol eu ffydd yn eu gweddiau; ïe, a hyn oedd eu ffydd, fod i'm hefengyl a roddais iddynt, fel y pregethent yn eu dyddiau hwy, ddyfod at eu brodyr y Lamaniaid, ac hefyd pawb ag oeddynt wedi dyfod yn Lamaniaid, o herwydd eu hymraniadau.

11. Yn awr, nid hyn yw y cwbl—eu ffydd yn eu gweddiau oedd, fod i'r efengyl hon gael ei gwneyd yn hysbys hefyd, os oedd bosibl, fel y byddai i genedlaethau ereill gael meddiannu y tir hwn; ac fel hyn gadawsant fendith ar y tir hwn yn eu gweddiau, fod i bwy bynag a gredent yn yr efengyl hon yn y tir hwn, gael bywyd tragywyddol; ïe, fel y byddai yn rhydd i bawb o ba genedl, llwyth, iaith, a phobl bynag y byddont.

12. Ac yn awr, wele, yn ol eu ffydd yn eu gweddiau y dygaf y rhan hon o'm hefengyl i wybodaeth fy mhobl. Wele, nid wyf yn ei dwyn i ddystrywio yr hyn a dderbyniasant, eithr i'w adeiladu i fyny.

13. Ac o herwydd hyn y dywedais, Os na fydd i'r genedlaeth hon galedu eu calonau, myfi a sefydlaf fy eglwys yn eu plith hwynt. Yn awr, nid wyf yn dywedyd hyn i ddystrywio fy eglwys, ond yr wyf yn dywedyd hyn i adeiladu i fyny fy eglwys; gan hyny, pwy bynag sydd yn perthyn i'm heglwys, nid oes achos iddo ofni, canys y cyfryw a etifedda deyrnas nef; ond y rhai nid ydynt yn fy ofni i, nac yn cadw fy ngorchymynion, eithr yn adeiladu i fyny eglwysi iddynt eu hunain i gael elw, ïe, a'r holl rai hyny sydd yn gwneuthur yn ddrygionus, ac yn adeiladu i fyny deyrnas y diafol; ïe, yn wir, meddaf i chwi, y rhai hyny a aflonyddaf, ac a wnaf iddynt grynu ac ysgwyd hyd y canol.

14. Wele, myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw. Daethym at yr eiddo fy hun, a'r eiddo fy hun ni'm derbyniasant. Myfi yw y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a'r tywyllwch nid yw yn ei amgyffred ef. Myfi yw efe a ddywedodd wrth fy nyscyblion, Defaid ereill sydd genyf, y rhai nid ydynt o'r gorlan hon, ac yr oedd llawer na'm deallasant.

15. A mi a ddangosaf i'r bobl hyn fod genyf ddefaid ereill,

a'u bod yn gangen o dŷ Jacob; a mi a ddygaf i'r goleuni eu gweithredoedd rhyfeddol, y rhai a wnaethant yn fy enw i; ïe, a mi a ddygaf i'r goleuni hefyd fy efengyl, yr hon a weinyddwyd iddynt hwy, ac wele, ni wadant yr hyn a dderbyniasoch chwi, eithr adeiladant ef i fyny, a dygant i oleuni wir bynciau fy athrawiaeth, ïe, a'r unig athrawiaeth sydd ynof fi, a hyn a wnaf fel y sefydlwyf fy efengyl, fel na fyddo cymmaint o amryson; ïe, Satan a gynhyrfa galonau y bobl i ymrafaelio mewn perthynas i bynciau fy athrawiaeth; ac yn y pethau hyn y maent yn cyfeiliorni, canys y maent yn gŵyrdroi yr ysgrythyrau, ac nid ydynt yn eu deall hwynt; gan hyny, mi a ddadlenaf iddynt y dirgelwch mawr hwn, canys, wele, mi a'u casglaf hwynt megys y casgl y iâr ei chywion dan ei hadenydd, os na chaledant eu calonau, ïe, os deuant hwy a allant, a chyfranogi o ddwfr y bywyd yn rhad.

16. Wele, hyn yw fy athrawiaeth: pwy bynag a edifarhao ac a ddaw ataf fi, y cyfryw sydd o'm heglwys; pwy bynag sydd yn tystio llai neu mwy nâ hyn, nid yw y cyfryw o honof fi, eithr y mae yn fy erbyn i; gan hyny, nid yw efe o'm heglwys.

17. Ac yn awr, wele, pwy bynag sydd o'm heglwys, ac yn parhau o'm heglwys hyd y diwedd, efe a sefydlaf ar fy nghraig, a phyrth uffern nis gorchfygant hwy.

18. Ac yn awr, cofiwch eiriau yr hwn yw bywyd a goleuni y byd, eich Prynwr, eich Arglwydd a'ch Duw. Amen.

DOSRAN XXXVII.

Dadguddiad a roddwyd i Hyrum Smith, Mai, 1829.

1. Gwaith mawr a rhyfeddol sydd o gylch dyfod allan yn mhlith plant dynion. Wele, myfi wyf Dduw, a rhoddwch wrandawiad i'm gair, yr hwn sydd fywiol a nerthol, yn llymach nâ chleddyf dau-finiog, hyd wahaniad y cymmalau â'r mêr; gan hyny, rhoddwch wrandawiad i'm gair.

2. Wele, y maesydd ydynt eisoes yn wynion i'r cynauaf, gan hyny, pwy bynag sydd yn ewyllysio medi, bydded iddo osod ei gryman i mewn â'i holl allu, a medi tra y parhao y dydd, fel y byddo iddo drysori i fyny i'w enaid iachawdwriaeth dragywyddol yn nheyrnas Dduw; ïe, pwy bynag a osodo i mewn ei

gryman ac a feda, mae y cyfryw wedi ei alw gan Dduw ; gan hyny, os gofynwch genyf fi, chwi a dderbyniwch ; os curwch, fe a agorir i chwi.

3. Yn awr, gan eich bod wedi gofyn, wele, yr wyf yn dywedyd wrthych, cedwch fy ngorchymynion, a cheisiwch ddwyn allan a sefydlu achos Seion. Na cheisiwch am gyfoeth, eithr am ddoethineb, ac wele, dirgeledigaethau Duw a eglurir i chwi, ac yna y'ch gwneir yn gyfoethog ; wele, yr hwn sydd ganddo fywyd tragywyddol, y mae yn gyfoethog.

4. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, megys y dymunwch genyf fi, felly y gwneir i chwi ; ac os ewyllysiwch, byddwch yn foddion i wneyd llawer o ddaioni yn y genedlaeth hon. Na ddywedwch ddim ond edifeirwch wrth y genedlaeth hon. Cadwch fy ngorchymynion, a chynnorthwywch i ddwyn allan fy ngwaith yn ol fy ngorchymynion, a bendigedig fyddwch.

5. Wele, y mae genyt ti ddawn, neu ti a gai ddawn os gofyni genyf fi mewn ffydd, gyda chalon onest, gan gredu yn ngallu Iesu Grist, neu yn fy ngallu i sydd yn llefaru wrthyt ; canys, wele, myfi sydd yn llefaru, wele, myfi yw y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a thrwy fy ngallu yr wyf yn rhoddi y geiriau hyn i ti.

6. Ac yn awr, yn wir, yn wir, meddaf i ti, gosod dy ymddiried yn yr Ysbryd hwnw sydd yn arwain i wneuthur daioni ; ïe, i wneuthur yn gyfiawn, i rodio yn ostyngedig, i farnu yn uniawn, a hwn yw fy Ysbryd i.

7. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, mi a gyfranaf i chwi o'm Hysbryd i, yr hwn a oleua eich meddwl, yr hwn a lanwa eich enaid â llawenydd, ac yna y gwybyddwch, neu trwy hyn y cewch wybod pa bethau bynag a ddymunoch genyf fi, y rhai a berthynant i bethau cyfiawnder, mewn ffydd yn credu ynof fi, y bydd i chwi dderbyn.

8. Wele, yr wyf yn gorchymyn i chwi, nad oes achos i chwi dybied eich bod wedi eich galw i bregethu hyd oni fyddoch wedi eich galw ; dysgwyliwch ychydig yn rhagor, hyd oni chewch fy ngair i, fy nghraig, fy eglwys, a'm hefengyl, fel y gwybyddoch yn sicr fy athrawiaeth ; ac yna, wele, yn ol eich dymuniadau, ïe, yn ol eich ffydd y gwneir i chwi.

9. Cadwch fy ngorchymynion, byddwch ddystaw, apeliwch at fy Ysbryd i ; ïe, glynwch wrthyf fi â'ch holl galon, fel y

cynnorthwyoch i ddwyn i'r goleuni y pethau hyny a lefarwyd; ïe, cyfleithad fy ngwaith; byddwch amyneddgar hyd oni chyflawnoch ef.

10. Wele, hyn yw eich gwaith chwi, cadw fy ngorchymynion, ïe, â'ch holl allu, meddwl, a nerth; na cheisiwch gyhoeddi fy ngair, ond yn gyntaf i gael fy ngair, ac yna eich tafod a ryddheir; yna, os ewyllysiwch, chwi a gewch fy Ysbryd a'm gair, ïe, gallu Duw i argyhoeddi dynion; ond yn awr byddwch ddystaw, myfyriwch fy ngair a aeth allan yn mysg plant dynion, ac hefyd myfyriwch fy ngair a ddaw allan i blith plant dynion, neu hwnw sydd yn awr yn cael ei gyfleithu, ïe, hyd oni fyddwch wedi cael yr oll a ganiatâf i blant dynion yn y genedlaeth hon, ac yna pob peth a ychwanegir ato.

11. Wele, tydi ydwyt Hyrum, fy mab, ceisia deyrnas Dduw, a phob peth a ychwanegir yn ol yr hyn sydd gyfiawn. Adeilada ar fy nghraig i, yr hon yw fy efengyl; na wada Ysbryd dadguddiad, nac Ysbryd prophwydoliaeth, canys gwae fydd i'r hwn a wado y pethau hyn; gan hyny, trysorwch i fyny yn eich calonau hyd yr amser y bydd yn fy noethineb, i chwi fyned allan. Wele, yr wyf yn llefaru wrth bawb sydd yn meddu dymuniadau da, ac wedi gosod i mewn eu cryman i fedi.

12. Wele, myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw. Myfi yw bywyd a goleuni y byd. Myfi yw yr hwn a ddaeth at yr eiddo fy hun, a'r eiddo fy hun ni'm derbyniasant; ond yn wir, yn wir, meddaf i chwi, cynnifer ag a'm derbyniant i, rhoddaf iddynt allu i ddyfod yn feibion i Dduw, sef i'r rhai a gredant yn fy enw i. Amen.

DOSRAN XXXVIII.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Knight, hen., Mai, 1829.

1. Gwaith mawr a rhyfedd sydd o gylch dyfod allan yn mhlith plant dynion. Wele, Duw ydwyf fi, a rhoddwch wrandawiad i'm gair, yr hwn sydd fywiol a nerthol, llymach nâ chleddyf dau-finiog, hyd wanhaniad y cymmalau a'r mêr; gan hyny, rhoddwch wrandawiad i'm gair.

2. Wele, y maes sydd eisoes yn wŷn i'r cynauaf, gan hyny, yr hwn sydd yn ewyllysio medi, bydded iddo osod i mewn ei

gryman â'i holl allu, a medi tra y parhao y dydd, fel y trysoro i fyny i'w enaid iachawdwriaeth dragywyddol yn nheyrnas Dduw; ïe, pwy bynag a osodo i mewn ei gryman ac a feda, y cyfryw sydd wedi ei alw gan Dduw; gan hyny os ceisiwch genyf fi, chwi a dderbyniwch; os curwch, fe a agorir i chwi.

3. Yn awr, gan eich bod wedi gofyn, wele, yr wyf yn dywedyd wrthych, cadwch fy ngorchymynion, a cheisiwch ddwyn allan a sefydlu achos Seion.

4. Wele yr wyf yn llefaru wrthych chwi, ac hefyd wrth bawb sydd yn dymuno dwyn allan a sefydlu y gwaith hwn, ac nis dichon neb gynnorthwyo yn y gwaith hwn, oddieithr iddo fod yn ostyngedig a llawn o gariad, yn meddu ar ffydd, gobaith, a chariad, gan fod yn gymmedrol yn mhob peth, pa bethau bynag a ymddirieder i'w ofal.

5. Wele, myfi yw goleuni a bywyd y byd, yr hwn sydd yn llefaru y geiriau hyn; gan hyny, rhoddwch wrandawiad â'ch holl allu, ac yna byddwch wedi eich galw. Amen.

DOSRAN XXXIX.

Dadguddiad a roddwyd i David Whitmer, Mehefin, 1829.

1. Gwaith mawr a rhyfeddol sydd o gylch dyfod allan i blant dynion. Wele, Duw ydwyf fi, a rhoddwch wrandawiad i'm gair, yr hwn sydd fywiol a nerthol, yn llymach nâ chleddyf dau-finiog, hyd wahaniad y cymmalau a'r mêr; gan hyny, rhoddwch wrandawiad i'm gair.

2. Wele, y maes sydd eisoes yn wŷn i'r cynauaf, gan hyny, pwy bynag sydd yn dymuno medi bydded iddo osod ei gryman i mewn â'i holl allu, a medi tra y parhao y dydd, fel y trysoro i fyny i'w enaid iachawdwriaeth dragywyddol yn nheyrnas Dduw; ïe, pwy bynag a osodo i mewn ei gryman ac a feda, y mae y cyfryw wedi ei alw gan Dduw; gan hyny, os gofynwch genyf fi, chwi a dderbyniwch; os curwch, fe a agorir i chwi.

3. Ceisiwch ddwyn allan a sefydlu fy Seion. Cadwch fy ngorchymynion yn mhob peth; ac os bydd i chwi gadw fy ngorchymynion a pharhau hyd y diwedd, chwi a gewch fywyd tragywyddol, yr hon ddawn yw y fwyaf o holl ddoniau Duw.

4. A daw oddiamgylch, os gofynwch i'r Tad yn fy enw i, mewn ffydd gan gredu, chwi a dderbyniwch yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn rhoddi ymadrodd, fel y bydd i chwi sefyll megys tyst o'r pethau ydych yn glywed ac yn weled, ac hefyd fel y byddo i chwi gyhoeddi edifeirwch i'r genedlaeth hon.

5. Wele, myfi wyf Iesu Grist, Mab y Duw byw, yr hwn a greodd y nefoedd a'r ddaear; goleuni yr hwn nis gellir ei guddio mewn tywyllwch; o herwydd paham, rhaid i mi ddwyn allan gyflawnder fy efengyl oddiwrth y Cenedloedd at dŷ Israel. Ac wele, tydi yw David, a thi a elwir i gynnorthwyo; yr hyn os gwnai, a bod yn ffyddlawn, ti a gai dy fendithio yn ysbrydol a thymmorol, a'th wobr a fydd mawr. Amen.

DOSRAN XL.

Dadguddiad a roddwyd i John Whitmer, Mehefin, 1829.

1. Clyw, fy ngwas John, a gwrando ar eiriau Iesu Grist, eich Arglwydd a'ch Prynwr, canys wele, yr wyf yn llefaru wrthych chwi gyda llymder a chyda gallu, o herwydd fy mraich sydd dros yr holl ddaear, a mynegaf wrthyt yr hyn nad oes un dyn yn ei wybod ond mi a thi yn unig, canys llawer gwaith y dymunaist arnaf i gael gwybod yr hyn a fyddai o fwyaf gwerth i ti.

2. Wele, bendigedig ydych chwi am y peth hwn, ac am lefaru fy ngeiriau a roddais i chwi yn ol fy ngorchymynion.

3. Ac yn awr, wele, meddaf i chwi, y peth a fydd o fwyaf gwerth i chwi, fydd cyhoeddi edifeirwch i'r bobl hyn, fel y dygoch eneidiau ataf fi, fel y gorphwysoch gyda hwynt yn nheyrnas fy Nhad. Amen.

DOSRAN XLI.

Dadguddiad a roddwyd i Peter Whitmer, ieu., Mehefin, 1829.

1. Clyw, fy ngwas Peter, a gwrando ar eiriau Iesu Grist, eich Arglwydd a'ch Prynwr, canys wele, yr wyf yn llefaru wrthych chwi gyda llymder a chyda gallu, o herwydd fy mraich sydd dros yr holl ddaear, a mynegaf wrthyt yr hyn nad

oes un dyn yn ei wybod ond mi a thi yn unig, canys llawer gwaith y dymunaist arnaf gael gwybod yr hyn a fyddai o fwyaf gwerth i ti.

2. Wele, bendigedig ydwyt am y peth hwn, ac am lefaru fy ngeiriau y rhai a roddais i chwi yn ol fy ngorchymynion.

3. Ac yn awr, wele, meddaf i chwi, mai y peth a fydd o fwyaf gwerth i chwi, fydd cyhoeddi iachawdwriaeth i'r bobl hyn, fel y dygoch eneidiau ataf fi, fel y gorphwysoch gyda hwynt yn nheyrnas fy Nhad. Amen.

DOSRAN XLII.

Dadguddiad a roddwyd i Oliver Cowdery, David Whitmer, a Martin Harris, Mehefin, 1829, a roddwyd cyn iddynt weled y Llafnau yn cynnwys Llyfr Mormon.

1. Wele, meddaf i chwi, rhaid i chwi ymddiried ar fy ngair i, yr hyn os gwnewch, gyda llawn fwriad calon, chwi a gewch olwg ar y llafnau, ac hefyd ar y ddwyfroneg, cleddyf Laban, yr Urim a Thummin, y rhai a roddwyd i frawd Jared ar y mynydd, pan ymddyddanodd â'r Arglwydd wyneb yn wyneb, a'r cyfarwyddwyr gwyrthiol a roddwyd i Lehi tra yn yr anialwch, ar gyffiniau y Môr Coch; a thrwy eich ffydd y cewch olwg arnynt, sef trwy y ffydd hòno a gafwyd gan y prophwydi gynt.

2. Ac wedi i chwi gael ffydd, a chael eu gweled hwy â'ch llygaid, chwi a dystiwch am danynt, trwy allu Duw; a hyn a wnewch fel na fyddo i'm gwas Joseph Smith, ieu., gael ei ddystrywio, fel y dygwyf oddiamgylch fy nybenion cyfiawn tuag at blant dynion yn y gwaith hwn. A chwi a dystiwch eich bod wedi eu gweled, hyd y nod megys y mae fy ngwas Joseph Smith, ieu., wedi eu gweled, canys trwy fy ngallu i y darfu iddo ef eu gweled, ac o herwydd fod ganddo ffydd; ac y mae ef wedi cyfieithu y llyfr, sef y rhan a orchymynais i iddo, ac fel mai byw yr Arglwydd eich Duw y mae yn wir.

3. O herwydd paham, chwi a dderbyniasoch yr un gallu, a'r un ffydd, a'r un ddawn megys ef; ac os gwnewch chwi y gorchymyniou olaf hyn o'm heiddo, y rhai a roddais i chwi, pyrth uffern nis gallant lwyddo yn eich erbyn; canys digon i chwi fy ngras i, a chwi a godir i fyny yn y dydd diweddaf. A myfi,

Iesu Grist, eich Arglwydd a'ch Duw, a'i mynegais i chwi, fel y byddai i mi ddwyn oddiamgylch fy mwriadau cyfiawn tuag at blant dynion. Amen.

DOSRAN XLIII.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., Oliver Cowdery, a David Whitmer, yn hysbysu galwad Deuddeg Apostol yn y dyddiau diweddaf hyn; ac, hefyd, cyfarwyddiadau mewn perthynas i adeiladu i fyny Eglwys Crist, yn ol cyflawnder yr efengyl. A roddwyd yn Fayette, Caerefrog Newydd, Mehefin, 1829.

1. Yn awr, wele, o herwydd y peth y darfu i chwi, fy ngwas Oliver Cowdery, ddymuno ei wybod genyf fi, yr wyf yn rhoddi i chwi y geiriau hyn: Wele, yr wyf wedi egluro i chwi, trwy fy Ysbryd, mewn llawer o siamplau, fod y pethau a ysgrifenasoch chwi yn wir; o herwydd paham chwi a wyddoch eu bod yn wir; ac os ydych yn gwybod eu bod yn wir, wele, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fel yr ymddiriedoch yn y pethau a ysgrifenwyd; canys ynddynt hwy y mae pob peth wedi ei ysgrifenu mewn perthynas i sylfaeniad fy eglwys, fy efengyl, a'm craig; gan hyny, os adeiladwch i fyny fy eglwys ar sylfaen fy efengyl a'm craig, pyrth uffern ni lwyddant yn eich erbyn chwi.

2. Wele, mae y byd yn addfedu mewn drygioni, ac anghenrhaid yw fod plant dynion yn cael eu cynhyrfu i fyny i edifeirwch, y Cenedloedd ac hefyd tŷ Israel; o herwydd paham, gan dy fod di wedi cael dy fedyddio trwy ddwylaw fy ngwas Joseph Smith, ieu., yn ol yr hyn a orchymynais i iddo ef, efe a gyflawnodd y peth a orchymynais i iddo. Ac yn awr naryfedda fy mod i wedi ei alw ef at fy mwriad fy hun, yr hwn fwriad sydd yn hysbys ynof fi; gan hyny, os bydd ef ddiwyd i gadw fy ngorchymynion, efe a fendithir i fywyd tragywyddol, a'i enw yw Joseph.

3. Ac yn awr, Oliver Cowdery, yr wyf yn dywedyd wrthyt ti, ac hefyd wrth David Whitmer, mewn ffordd o orchymyn; canys, wele, yr wyf yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man i edifarhau, ac yr wyf yn llefaru wrthyt ti, yr un modd ag wrth Paul fy apostol, canys ti a alwyd â'r un alwedigaeth ag y

DOSRAN XLIV.

Gorchymyn Duw, ac nid Dyn, i Martin Harris, a roddwyd (Manchester, Caerefrog Newydd, Mawrth, 1830) ganddo Ef yn hwn sydd dragywyddol.

1. Myfi wyf Alpha ac Omega, Crist yr Arglwydd ; ïe, myfi yw Efe, y dechrau a'r diwedd, Iachawdwr y byd. Myfi, wedi cyflawni a gorphen ei ewyllys ef eiddo yr hwn ydwyf, sef y Tad, mewn perthynas i mi—gan wneuthur hyn fel y darostyngwn bob peth i mi fy hunan,—gan gadw pob gallu, hyd y nod i ddinystrio Satan a'i weithredoedd ar ddiwedd y byd, a dydd mawr olaf y farn, yr hon a gyhoeddaf ar ei thrigolion, gan farnu pob dyn yn ol ei waith a'r gweithredoedd a wnaeth. Ac yn ddiau rhaid i bob dyn edifarhau neu ddyoddef, canys myfi, Dduw, ydwyf ddiddiwedd ; gan hyny, nid wyf yn galw yn ol y barnau a gyhoeddaf, ond gwaeau a ânt allan, llefain, wylo, a rhincian dannedd, ïe, i'r rhai a geir ar fy llaw aswy ; er hyny, ni ysgrifenwyd na fydd diwedd i'r gospedigaeth hon, eithr ysgrifenwyd cospedigaeth ddiddiwedd.

2. Drachefn, ysgrifenwyd damnedigaeth dragywyddol ; gan hyny, y mae yn fwy penderfynol nag ysgrythyrau ereill, fel y byddai iddi weithiaw ar galonau plant dynion, yn hollol er gogoniant fy enw. O herwydd paham mi a egluraf i chwi y dirgelwch hyn, canys y mae yn addas i chwi ei wybod megys fy apostolion. Yr wyf yn llefaru wrthych chwi y rhai ydych wedi eich dewis yn y peth hwn, megys un, fel yr eloch i mewn i'm gorphwysfa ; canys, wele, dirgelwch Duwioldeb, mor fawr ydyw ! canys, wele, myfi ydwyf ddiddiwedd, a'r gospedigaeth a roddir o'm llaw i, sydd gospedigaeth ddiddiwedd, canys diddiwedd yw fy enw ; gan hyny—

Cospedigaeth dragywyddol yw cospedigaeth Duw.
Cospedigaeth ddiddiwedd yw cospedigaeth Duw.

Gan hyny, yr wyf yn gorchymyn i chwi edifarhau, a chadw y gorchymynion a dderbyniasoch trwy law fy ngwas Joseph Smith, ieu., yn fy enw i ; a thrwy fy ngallu hollalluog i y derbyniasoch hwynt ; gan hyny, yr wyf yn gorchymyn i chwi edifarhau —edifarhewch, rhag i mi eich taro chwi â gwialen fy ngenau, ac

yn fy llid, ac yn fy nigter, ac i'ch dyoddefiadau fod yn dost—pa mor dost ni wyddoch ! pa mor boenus ni wyddoch ! ïe, pa mor galed i'w dyoddef ni wyddoch ! Canys, wele, myfi, Duw, a ddyoddefais y pethau hyn dros bawb, fel na oddefent hwy os byddai iddynt edifarhau, ond os na fydd iddynt edifarhau, rhaid iddynt ddyoddef yr un modd â mi, a'r cyfryw ddyoddefiadau a barasant i mi, hyd y nod Duw, y mwyaf o bawb, grynu o herwydd poen, a gwaedu trwy fy holl chwys-dyllau, a dyoddef yn y corff a'r ysbryd ; a dymunaswn nad yfaswn o'r cwpan chwerw a thynu yn ol—er hyny, i'r Tad y byddo y gogoniant, a mi a gyfranogais ac a orphenais fy mharotoadau i blant dynion ; gan hyny, yr wyf etto yn gorchymyn i chwi edifarhau, rhag i mi eich darostwng â'm gallu hollalluog, a bod i chwi gyffesu eich pechodau, rhag i chwi ddyoddef y cospedigaethau am y rhai y llefarais, o ba rai yn y radd leiaf, neu fwyaf bychan, yr ydych wedi profi pan dynais yn ol fy ysbryd. Ac yr wyf yn gorchymyn i chwi nad oes i chwi bregethu dim ond edifeirwch, ac na ddangoswch y pethau hyn i'r byd hyd oni fyddo yn ddoethineb ynof fi, canys nis gallant ymborthi ar fwyd cryf yn awr, eithr llaeth raid iddynt dderbyn ; gan hyny, ni raid iddynt wybod y pethau hyn, rhag iddynt farw. Dysgwch genyf fi, a gwrandewch ar fy ngeiriau ; rhodiwch yn llarieiddra fy Ysbryd, a chewch dangnefedd ynof fi. Myfi wyf Iesu Grist ; myfi a ddaethym trwy ewyllys y Tad, ac yr wyf yn gwneuthur ei ewyllys.

3. A thrachefn, yr wyf yn gorchymyn i ti na thrachwanta yn ngwraig dy gymmydog ; ac na cheisia fywyd dy gymmydog. A thrachefn, yr wyf yn gorchymyn i ti na thrachwanta dy eiddo dy hun, ond cyfrana ef yn rhwydd tuag at argraffu Llyfr Mormon, yr hwn sydd yn cynnwys y gwirionedd a gair Duw, yr hwn yw fy ngair i i'r Cenedl-ddyn, fel y byddo iddo yn fuan fyned at yr Iuddew, o ba rai y Lamaniaid ydynt yn weddill, fel y credont hwy yr efengyl, ac nad edrychont am Fessiah ddyfod, yr hwn sydd eisoes wedi dyfod.

4. A thrachefn, yr wyf yn gorchymyn i ti fod i ti weddio yn llafar yn gystal ag yn dy galon ; ïe, yn ngŵydd y byd yn gystal ag yn ddirgel, yn gyhoedd yn gystal ag yn anghyhoedd. A thi a gyhoeddi newyddion da, ïe, cyhoedda ef ar y mynyddoedd, ac ar bob lle uchel, ac yn mhlith pob pobl y caniateir i ti

eu gweled. A thi a wnai hyny gyda phob gostyngeiddrwydd, gan ymddiried ynof fi, heb ddifenwi yn erbyn difenwyr. Ac am dybiau nid oes i ti ymddyddan, ond yr ydwyt i gyhoeddi edifeirwch a ffydd yn yr Iachawdwr, a maddeuant pechodau trwy fedydd a thrwy dân; ïe, hyd y nod yr Ysbryd Glân.

5. Wele, hwn sydd orchymyn mawr a'r olaf a roddaf i chwi mewn perthynas i'r mater hwn; o herwydd caiff hyn fod yn ddigon er dy rodiad beunyddiol, hyd y nod i derfyn dy fywyd. Ac adfyd a dderbyni os diystyri y cynghorion hyn, ïe, hyd y nod dy ddinystr dy hun a'th feddiannau. Cyfrana ran o'th feddiannau; ïe, hyd y nod rhan o'th diroedd, a phob peth oddieithr cynnaliaeth dy deulu. Tal y dyled yr aethost iddo gyda'r argraffydd. Rhyddha dy hun o gaethiwed. Bydded i ti adael dy dŷ a'th gartref, oddieithr pan fyddot yn chwennych gweled dy deulu; a llefara yn rhydd wrth bawb; ïe pregetha, cynghora, cyhoedda y gwirionedd, hyd y nod â llef uchel, gyda sain llawenydd, gan lefain, Hosanna, hosanna! bendigedig fyddo enw yr Arglwydd Dduw.

6. Gweddiwch yn wastadol, a mi a dywalltaf allan fy Ysbryd arnoch chwi, a'ch bendith a fydd mawr; ïe, hyd y nod mwy nâ phe byddai i chwi gael trysorau y ddaear a phethau llygredig i'r helaethrwydd hyny. Wele, a elli di ddarllen hyn heb lawenhau, a chodi i fyny dy galon mewn llawenydd; neu a elli di redeg oddiamgylch yn hwy megys arweinydd dall; neu a elli di fod yn ostyngedig a llariaidd, ac ymddwyn dy hunan yn ddoeth ger fy mron i? Ië, tyred ataf fi, dy Iachawdwr. Amen.

DOSRAN XLV.

Dadguddiad i Oliver Cowdery, Hyrum Smith, Samuel H. Smith, Joseph Smith, hen., a Joseph Knight, hen., a roddwyd Ebrill, 1830.

1. Wele, yr wyf yn llefaru wrthych chwi, Oliver, ychydig eiriau. Wele, bendigedig ydwyt, ac nid ydwyt dan gondemniad. Ond gochel falchder, rhag i ti fyned i brofedigaeth. Gwna dy alwedigaeth yn hysbys i'r eglwys, ac hefyd gerbron y byd, a'th galon a agorir i bregethu y gwirionedd o hyn allan ac yn dragywyddol. Amen.

2. Wele, yr wyf yn llefaru wrthych chwi, Hyrum, ychydig

eiriau; canys nid ydwyt tithau ychwaith dan gondemniad, a'th galon a agorwyd, a'th dafod a ryddhawyd; a'th alwedigaeth sydd i gynghori, a nerthu yr eglwys yn wastadol.—Gan hyny, dy ddyledswydd di sydd i'r eglwys yn dragywydd, a hyny o herwydd dy deulu. Amen.

3. Wele, yr wyf yn llefaru ychydig eiriau wrthych chwi, Samuel, canys nid ydwyt tithau ychwaith dan gondemniad, a'th alwedigaeth sydd i gynghori, a chryfhau yr eglwys, ac nid ydwyt ti etto wedi dy alw i bregethu gerbron y byd. Amen.

4. Wele, yr wyf yn llefaru ychydig eiriau wrthych chwi, Joseph, canys nid ydwyt tithau ychwaith dan gondemniad, a'th alwedigaeth sydd hefyd i gynghori, a chryfhau yr eglwys, a dyma dy ddyledswydd o hyn allan ac yn dragywyddol. Amen.

5. Wele, yr wyf yn egluro i chwi, Joseph Knight, trwy y geiriau hyn, fod yn rhaid i chwi gymmeryd i fyny eich croes, yn yr hyn y mae yn rhaid i chwi weddio yn llafar ger gwydd y byd yn gystal ag yn ddirgel, ac yn eich teulu, ac yn mhlith eich cyfeillion, ac yn mhob lle. Ac wele, eich dyledswydd yw uno â'r wir eglwys, a rhoddi eich ymadrodd i gynghori yn wastadol, fel y derbynioch wobr y gweithiwr. Amen.

DOSRAN XLVI.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a roddwyd Ebrill 6, 1830.

1. Wele, bydd i gof-lyfr gael ei gadw yn eich plith chwi, ac ynddo y'th elwir di yn weledydd, yn gyfieithydd, yn brophwyd, yn apostol Iesu Grist, yn henuriad o'r eglwys trwy ewyllys Duw Dad, a gras eich Arglwydd Iesu Grist, wedi eich ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân i osod sylfaen yr eglwys, a'i hadeiladu i fyny yn y santeiddiolaf ffydd, yr hon eglwys a gydgorfforwyd ac a sefydlwyd yn mlwyddyn eich Arglwydd deunaw cant a deg ar hugain, yn y pedwerydd mis, ac ar y chwechfed dydd o'r mis, yr hwn a elwir Ebrill.

2. O herwydd paham, gan feddwl yr eglwys, ti a wrandewi ar ei holl eiriau a'i orchymynion a rodda efe i ti megys y derbyniodd ef hwynt, gan rodio yn mhob santeiddrwydd ger fy mron i; o herwydd ei air ef a dderbyni, megys o'm genau fy hunan, mewn pob amynedd a ffydd; canys trwy wneuthur y

pethau hyn ni fydd i byrth uffern lwyddo yn eich erbyn; ïe, a'r Arglwydd Dduw a wasgara alluoedd y tywyllwch o'ch blaen chwi, ac a wna i'r nefoedd ysgwyd er eich daioni, a gogoniant ei enw. Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, efe a ysbrydolais i i symud achos Seion mewn gallu nerthol er daioni, a'i ddiwydrwydd wyf yn adnabod, a'i weddiau a glywais, ïe, ei wylofain am Seion a welais, a gwnaf na fydd iddo alaru am dani mwyach, canys dyddiau ei lawenydd a ddaethant er maddeuant ei bechodau, ac eglurhad fy mendithion ar ei weithredoedd.

3. Canys, wele, myfi â fendithiaf bawb a weithiant yn fy ngwinllan â bendith fawr, a hwy a gredant ar ei eiriau ef, y rhai a roddir iddo trwof fi gan y Dyddanydd, yr hwn a eglura i Iesu gael ei groeshoelio gan ddynion pechadurus dros bechodau y byd, ïe, er maddeuant pechodau i'r galon edifeiriol. Gan hyny, yr wyf yn ewyllysio fod iddo ef gael ei ordeinio genych chwi, Oliver Cowdery, fy apostol; hon sydd ordinhad i chwi, eich bod chwi yn henuriad dan ei law ef, gan mai efe yw y cyntaf i chwi, fel y byddoch chwi yn henuriad i'r eglwys hon o eiddo Crist, gan ddwyn fy enw i, a'r pregethwr cyntaf o'r eglwys hon i'r eglwys, a cherbron y byd, ïe, gerbron y Cenedloedd; ïe, ac fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele, wele! i'r Iuddewon hefyd. Amen.

DOSRAN XLVII.

Dadguddiad i Eglwys Crist, yr hon a sefydlwyd yn y dyddiau diweddaf hyn, yn mlwyddyn ein Harglwydd un fil wyth cant a deg ar hugain, a roddwyd Ebrill, 1830, *o herwydd fod rhai yn dymuno uno â'r Eglwys heb ad-fedydd, ag oeddynt wedi eu bedyddio yn flaenorol.*

1. Wele, meddaf i chwi, fy mod wedi peri i'r holl hen gyfammodau gael eu gwneyd ymaith yn y peth hwn, a hwn sydd gyfammod newydd a thragywyddol, sef yr hwn oedd o'r dechreuad. Gan hyny, er y dichon fod dyn wedi ei fedyddio gan waith, nid yw ddim iddo, canys nis gellwch fyned i mewn trwy y porth cyfyng yn ol cyfraith Moses, nac ychwaith trwy eich gweithredoedd meirwon; canys o herwydd eich gweithredoedd

meirwon y perais i'r cyfammod olaf hwn a'r eglwys hon gael ei hadeiladu i fyny i mi, megys yn y dyddiau gynt. Gan hyny, ewch chwi i mewn trwy y porth, megys y gorchymynais i, ac na cheisiwch gynghori eich Duw. Amen.

DOSRAN XLVIII.

Dadguddiad a roddwyd Gorphenaf, 1830.

1. Gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw, tra y llefarwyf wrthych chwi, Emma Smith, fy merch, canys yn wir meddaf i chwi, pawb a dderbyniant fy efengyl ydynt yn feibion ac yn ferched yn fy nheyrnas. Dadguddiad wyf yn ei roddi i chwi mewn perthynas i'm hewyllys, ac os ydwyt ffyddlawn a rhodio yn llwybrau rhinwedd ger fy mron i, mi a gadwaf dy fywyd, a thi a dderbyni etifeddiaeth yn Seion. Wele, dy bechodau a faddeuwyd i ti, ac yr ydwyt yn foneddiges etholedig, yr hon a elwais. Na fydded i ti rwgnach am y pethau nad ydwyt wedi eu gweled, canys hwy a attaliwyd oddiwrthyt ti ac oddiwrth y byd, yr hyn sydd ddoethineb ynof fi mewn amser i ddyfod.

2. A swydd dy alwedigaeth di fydd er dyddanwch i'm gwas Joseph Smith, ieu., dy wr, yn ei orthrymderau gyda geiriau dyddanus, mewn ysbryd llarieidd-dra. A bydd i ti fyned gydag ef ar amser ei fynediad, a bod iddo ef yn ysgrifenyddes, tra na fyddo ganddo neb i fod yn ysgrifenydd iddo, fel y gallaf anfon fy ngwas, Oliver Cowdery, i ba le bynag yr ewyllysiaf. A bydd i ti gael dy ordeinio dan ei law ef i esbonio yr ysgrythyrau, a chynghori yr eglwys, yn ol fel y rhoddir i ti gan fy Ysbryd; canys efe a esyd ei ddwylaw arnat ti, a thi a dderbyni yr Ysbryd Glân, a'th amser a roddir i ysgrifenu, ac i ddysgu llawer. Ac nid oes achos i ti ofni, canys dy wr a'th gynnorthwya yn yr eglwys; canys atynt hwy y mae ei alwedigaeth ef, fel y byddo i bob peth gael eu dadguddio iddynt hwy, beth bynag a ewyllsiwyf, yn ol eu ffydd.

3. Ac yn wir, meddaf i ti, fod i ti osod o'r neilldu bethau y byd hwn, a cheisio pethau un gwell. A rhoddir i ti hefyd, i wneyd casgliad o hymnau santaidd, megys y rhoddir i ti, yr hyn a fydd yn foddhaol genyf fi, i'w cael yn fy eglwys; canys fy enaid a ymhyfryda yn nghân y galon, ïe, cân y cyfiawn sydd

weddi ataf fi, a chaiff ei hateb gyda bendith ar eu penau. Gan hyny, derchafa dy galon a llawenha, ac ymlyna wrth y cyfammodau a wnaethost.

4. Parha yn ysbryd llarieidd-dra, a gochel falchder. Ymhyfryded dy enaid yn dy wr, a'r gogoniant a ddaw arno ef. Cadw fy ngorchymynion yn wastadol, a thi a dderbyni goron cyfiawnder. Ac oddieithr i ti wneuthur hyn, lle yr wyf fi nis gelli di ddyfod. Ac yn wir, yn wir, meddaf i ti, hyn yw fy llais at bawb. Amen.

DOSRAN XLIX.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., Oliver Cowdery, a John Whitmer, a roddwyd Gorphenaf, 1830.

1. Wele, meddaf i chwi, fod i chwi ddiofrydu eich amser at fyfyrio yr ysgrythyrau, a phregethu, a chadarnhau yr eglwys yn Colesville, ac i gyflawni eich gwaith ar y tir, y cyfryw ag sydd yn ofynol, hyd onid eloch i'r gorllewin i gynnal y gynnadledd nesaf; ac yna gwneir yn hysbys i chwi pa beth a wnewch. A phob peth a wneir trwy gydsyniad cyffredin yn yr eglwys, trwy weddiau lawer a ffydd, canys pob peth a dderbyniwch trwy ffydd. Amen.

DOSRAN L.

Dadguddiad, a roddwyd Medi, 1830.

1. Gwrandewch ar lais Iesu Grist, eich Arglwydd, eich Duw, a'ch Prynwr, gair yr hwn sydd fywiol a nerthol. Canys, wele, meddaf i chwi, nid oes fater pa beth a fwytaoch, neu pa beth a yfoch, pan gyfranogoch o'r sacrament, os byddwch yn gwneuthur hyny yn unig gyda golwg at fy ngogoniant i; gan goffâu i'r Tad fy nghorff yr hwn a osodwyd i lawr drosoch, a'm gwaed yr hwn a dywalltwyd er maddeuant o'ch pechodau; gan hyny, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, nad oes i chwi brynu gwin, na diod gref, gan eich gelynion; o ba herwydd, nid oes i chwi gyfranogi o'r cyfryw, oddieithr iddo gael ei wneuthur yn newydd yn eich plith chwi; ïe, yn y deyrnas hon o eiddo fy Nhad, yr hon adeiladir i fyny ar y ddaear.

2. Wele, hyn sydd ddoethineb ynof fi; gan hyny na ryfeddwch, canys dyfod y mae yr awr pan yfaf o ffrwyth y winwydden gyda chwi ar y ddaear, a chyda Moroni, yr hwn a anfonais atoch chwi i ddadguddio Llyfr Mormon, yr hwn sydd yn cynnwys cyflawnder fy efengyl dragywyddol, i'r hwn y cyflwynais allweddau cof-lyfr pren Ephraim; ac hefyd gydag Elias, i'r hwn y cyflwynais allweddau dygiad oddiamgylch adferiad pob peth, neu adferwr pob peth a lefarwyd trwy enau fy holl santaidd brophwydi er dechreuad y byd, mewn perthynas i'r dyddiau diweddaf; ac hefyd Ioan mab Zecharias, yr hwn Zecharias yr ymwelodd ef (Elias) ag ef, ac a roddodd addewid y byddai iddo gael mab, yr hwn a elwid Ioan, ac y byddai i hwnw gael ei lanw ag ysbryd Elias; a'r Ioan hwn a anfonais atoch chwi, fy ngweision, Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, i'ch ordeinio chwi i'r offeiriadaeth flaenaf hon a dderbyniasoch, fel y byddai i chwi gael eich galw a'ch ordeinio megys Aaron; ac hefyd Elias, i'r hwn y cyflwynais allweddau y gallu o droi calonau y tadau at y plant, a chalonau y plant at y tadau, fel na fyddo i'r holl ddaear gael ei tharo â melldith; ac hefyd gyda Joseph a Jacob, ac Isaac, ac Abraham, eich tadau, trwy y rhai y mae yr addewidion yn aros; ac hefyd gyda Michael, neu Adda, tad pawb oll, tywysog pawb oll, yr hen o ddyddiau.

3. Ac hefyd gyda Phedr, ac Iago, ac Ioan, y rhai a anfonais atoch chwi, trwy ba rai yr ordeiniais chwi ac y cadarnheais chwi i fod yn apostolion, a thystion neillduol o'm henw, ac i ddwyn allweddau eich gweinidogaeth, ac o'r un pethau ag a ddadguddiais iddynt hwy; i ba rai y cyflwynais allweddau fy nheyrnas, a gweinyddiad yr efengyl yn yr amseroedd diweddaf; ac am gyflawnder yr amseroedd, yn mha rai y casglaf ynghyd yn un yr holl bethau sydd yn y nef ac sydd ar y ddaear; ac hefyd gyda'r holl rai hyny ag y mae fy Nhad wedi roddi i mi allan o'r byd; gan hyny, dyrchefwch eich calonau a llawenhewch, a gwregyswch eich lwynau, a chymmerwch arnoch fy holl arfogaeth, fel y byddoch alluog i wrthsefyll y dydd drwg, ac wedi gwneyd pob peth y galloch sefyll. Sefwch, gan hyny, wedi gwregysu eich lwynau oddiamgylch â gwirionedd, gwisgo dwyfroneg cyfiawnder, ac am eich traed esgidiau parotoad efengyl tangnefedd, yr hon

yr anfonais fy angylion i'w chyflwyno i chwi, gan gymmeryd tarian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffodd holl bicellau tanllyd y fall; a chymmerwch helm iachawdwriaeth, a chleddyf fy Ysbryd, yr hwn a dywalltaf arnoch chwi, a'm gair yr hwn a ddadguddiaf i chwi, a byddwch unol am ba bethau bynag a ofynoch genyf, a byddwch ffyddlawn hyd oni ddelwyf, a chwi a gipir i fyny, fel lle yr wyf fi y byddoch chwithau hefyd. Amen.

DOSRAN LI.

Dadguddiad a roddwyd i Oliver Cowdery, Medi, 1830.

1. Wele, meddaf i ti, Oliver, fe a roddir i ti, fod i ti gael dy wrandaw gan yr eglwys yn mha bethau bynag a ddysgi iddynt hwy trwy y Dyddanydd, mewn perthynas i'r dadguddiadau a'r gorchymyn a roddais.

2. Ond, wele, yn wir, yn wir, meddaf i ti, ni chaiff neb ei benodi i dderbyn gorchymynion a dadguddiadau yn yr eglwys hon, oddieithr fy ngwas Joseph Smith, ieu., canys y mae efe yn eu derbyn megys Moses; a thi a fyddi yn ufydd i'r pethau a roddaf iddo ef, megys Aaron, i gyhoeddi yn ffyddlawn y gorchymynion a'r dadguddiadau, gyda gallu ac awdurdod i'r eglwys. Ac os arweinir di unrhyw amser gan y Dyddanydd, i lefaru neu ddysgu, neu bob amser mewn ffordd o orchymyn i'r eglwys, gelli wneyd hyny. Ond na fydded i ti ysgrifenu mewn ffordd o orchymyn, eithr trwy ddoethineb; ac na fydded i ti ei orchymyn ef sydd wrth dy ben, ac wrth ben yr eglwys, canys rhoddais iddo ef allweddau y dirgeledigaethau, a'r dadguddiadau a seliwyd, hyd oni phenodwyf iddynt arall yn ei le.

3. Ac yn awr, wele, meddaf i ti, fod i ti fyned at y Lamaniaid, a phregethu fy efengyl iddynt hwy; ac yn gymmaint ag y bydd iddynt hwy dderbyn dy ddysgeidiaeth, ti a beri i'm heglwys gael ei sefydlu yn eu plith hwy, a thi a gai ddadguddiadau, ond na ysgrifena hwynt mewn ffordd o orchymyn. Ac yn awr, wele, meddaf i ti, nid yw wedi ei ddadguddio, ac nid oes un dyn yn gwybod pa le yr adeiladir y ddinas, ond fe a roddir yn ol llaw. Wele, meddaf i ti, mai ar gyffiniau y Lamaniaid y bydd hyny.

4. Na fydded i ti ymadael â'r lle hwn hyd ar ol y gynnadledd, a'm gwas Joseph a gaiff ei benodi i lywyddu dros y gynnadledd trwy lais yr unrhyw, a'r hyn a ddywedo ef wrthyt, ti a'i mynegi. A thrachefn, ti a gymmeri dy frawd, Hiram Page, rhyngddo ef a thi yn unig, ac a ddywedi wrtho nad yw y pethau hyny a ysgrifenodd ef oddiar y maen, oddiwrthyf fi, a bod Satan yn ei dwyllo ef; canys, wele, nid yw y pethau hyn wedi eu penodi iddo ef, ac ni chaiff dim ei benodi i neb o'r eglwys hon yn groes i'r cyfammodau eglwysig, o herwydd rhaid i bob peth gael ei wneyd mewn trefn, a thrwy gydsyniad cyffredin yn yr eglwys, trwy weddi ffydd.

5. A thi a gynnorthwyi i benderfynu yr holl bethau hyn yn ol cyfammodau yr eglwys, cyn y byddo i ti gymmeryd dy daith i blith y Lamaniaid. A rhoddir i ti o'r amser y byddo i ti fyned, hyd yr amser y byddo i ti ddychwelyd, yr hyn sydd i ti ei wneuthur. A rhaid i ti agor dy enau bob amser, gan gyhoeddi fy efengyl gyda sain llawenydd. Amen.

DOSRAN LII.

Dadguddiad i David Whitmer, Peter Whitmer, ieu., a John Whitmer, a roddwyd Medi, 1830.

1. Wele, meddaf i ti, David, ti a ofnaist ddyn, ac nid ymddibynaist arnaf fi am nerth fel y dylesit; ond y mae dy feddwl wedi bod ar bethau y ddaear yn fwy nag ar fy mhethau i, dy Wneuthurwr, a'r weinidogaeth i'r hon y'th alwyd; ac nid ydwyt wedi rhoddi sylw i'm Hysbryd, ac i'r rhai a osodwyd arnat ti, eithr cymmeraist dy ddarbwyllo gan y rhai nis gorchymynais iddynt; gan hyny, ti a adewir i chwilio drosot dy hun, ar fy llaw i, ac i fyfyrio ar y pethau a dderbyniaist. A'th gartref a fydd yn nhŷ dy dad, hyd oni roddaf i ti orchymynion pellach. A thi a ofali am y weinidogaeth yn yr eglwys, a cherbron y byd, ac yn yr ardaloedd o amgylch ogylch. Amen.

2. Wele, meddaf i ti, Peter, fód i ti gymmeryd dy daith gyda'th frawd Oliver, canys daeth yr amser pan y mae yn fuddiol i mi fod i ti agor dy enau i gyhoeddi fy efengyl; gan hyny, nac ofna, ond dyro sylw i eiriau a chynghor dy frawd, yr hwn a rodda efe i ti. A bydd di yn gystuddiedig yn ei holl gystuddiau ef, gan dderchafu dy galon ataf fi yn wastad mewn

gweddi, a ffydd, am ei waredigaeth ef a thi; canys rhoddais iddo ef allu i adeiladu fy eglwys yn mhlith y Lamaniaid; ac nid wyf wedi penodi neb i fod yn gynghorwr drosto ef yn yr eglwys, mewn perthynas i faterion eglwysig, oddieithr mai ei frawd yw, Joseph Smith, ieu. Gan hyny, dyro sylw i'r pethau hyn, a bydd ddiwyd i gadw fy ngorchymynion, a thi a fendithir i fywyd tragywyddol. Amen.

3. Wele, meddaf i ti, fy ngwas John, fod i ti ddechreu o'r amser hwn allan i gyhoeddi fy efengyl, megys â llais udgorn. A'th lafur a fydd gyda'th frawd Philip Burrough, ac yn yr ardal hono o amgylch; ïe, pa le bynag y gellir dy glywed, hyd oni orchymynaf i ti fyned oddiyno. A'th holl waith a fydd yn Seion, â'th holl enaid, o hyn allan; ïe, ti a agori dy enau yn wastad yn fy achos i, heb ofni pa beth a ddichon dyn wneuthur, canys yr wyf fi gyda thi. Amen.

DOSRAN LIII.

Dadguddiad i Thomas B. Marsh, a roddwyd Medi, 1830.

1. Thomas, fy mab, bendigedig ydych chwi o herwydd eich ffydd yn fy ngwaith i. Wele, chwi a gawsoch lawer o orthrymderau o achos eich teulu; er hyny, myfi a'ch bendithiaf chwi a'ch teulu; ïe, eich rhai bychain, a dyfod y mae y dydd pan gredant hwy ac yr adnabyddant y gwirionedd, ac y byddant yn un gyda chwi yn fy eglwys.

2. Dyrchefwch eich calon, a llawenhewch, canys daeth awr eich cenadwri chwi; a'ch tafod a ryddheir; a chwi a gyhoeddwch newyddion da o lawenydd mawr i'r genedlaeth hon. Chwi a gyhoeddwch y pethau a ddadguddiwyd i'm gwas, Joseph Smith, ieu. Chwi a ddechreuwch bregethu o'r amser hwn allan; ïe, i fedi yn y maes sydd yn wyn eisoes i'w losgi; gan hyny, gosodwch i mewn eich cryman â'ch holl enaid, a'ch pechodau a faddeuwyd i chwi, a chwi a lwythir ag ysgubau ar eich cefn, canys y mae y gweithiwr yn deilwng o'i gyflog. Gan hyny, eich teulu a gant fyw.

3. Wele, yn wir, meddaf i chwi, ewch oddiwrthynt dros amser bychan yn unig, a chyhoeddwch fy ngair, a mi a barotoaf

le iddynt; ïe, mi a agoraf galonau y bobl, a hwy a'ch derbyniant chwi. A mi a sefydlaf eglwys trwy eich llaw chwi; a chwi a'u nerthwch hwynt ac a'u parotowch hwynt erbyn yr amser pan gynnullir hwynt. Byddwch amyneddgar mewn gorthrymderau, na ddifenwch y rhai sydd yn difenwi. Llywodraethwch eich tŷ mewn llarieidd-dra, a byddwch ddiysgog.

4. Wele, meddaf i chwi, chwi a fyddwch yn physygwr i'r eglwys, ond nid i'r byd, canys ni dderbyniant hwy chwi. Ewch i'ch ffordd lle bynag yr ewyllysiwyf fi, a rhoddir i chwi gan y Dyddanydd pa beth a wnewch, a pha le yr ewch. Gweddiwch yn wastadol, rhag i chwi fyned i brofedigaeth, a cholli eich gwobr. Byddwch ffyddlawn hyd y diwedd, ac wele, yr wyf fi gyda chwi. Y geiriau hyn nid ydynt o ddyn nac o ddynion, eithr o honof fi, sef Iesu Grist, eich Prynwr, trwy ewyllys y Tad. Amen.

DOSRAN LIV.

Dadguddiad i Parley P. Pratt, a Ziba Peterson, a roddwyd Hydref, 1830.

1. Ac yn awr mewn perthynas i'm gwas Parley P. Pratt, wele, yr wyf yn dywedyd wrtho ef, megys mai byw ydwyf fi, yr wyf yn ewyllysio iddo ef gyhoeddi fy efengyl a dysgu genyf, a bod yn llariaidd a gostyngedig o galon; a'r hyn a benodais iddo ef yw, fod iddo fyned gyda'm gweision Oliver Cowdery a Peter Whitmer, ieu., i'r anialwch i blith y Lamaniaid; a Ziba Peterson, hefyd, a gaiff fyned gyda hwynt, a myfi fy hunan a âf gyda hwynt, ac a fyddaf yn eu canol; a myfi yw eu heiriolwr gyda'r Tad, ac nid oes dim a'u gorchfyga. A hwy a roddant sylw i'r hyn sydd ysgrifenedig, ac ni honant hawl i unrhyw ddadguddiad arall, a hwy a weddiant yn wastadol ar i mi eu hegluro hwynt i'w dealltwriaeth; a hwy a roddant sylw i'r geiriau hyn, ac ni fyddant ddifater, a mi a'u bendithiaf hwynt. Amen.

DOSRAN LV.

Dadguddiad i Ezra Thayre a Northrop Sweet, a roddwyd Hydref, 1830.

1. Wele, meddaf i chwi, fy ngweision Ezra a Northrop, agorwch eich clustiau a gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw, yr hwn y mae ei air yn fywiol a nerthol, yn llymach nâ chleddyf dau-finiog, hyd wahaniad y cymmalau a'r mêr, yr enaid a'r ysbryd; ac sydd yn ganfyddwr meddyliau a bwriadau y galon. Canys yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr ydych chwi wedi eich galw i dderchafu eich lleisiau megys â sain udgorn, i gyhoeddi fy efengyl i genedlaeth ŵyrgam a gwrthnysig; canys, wele, y maes sydd yn wŷn eisoes i'r cynauaf; a'r unfed awr ar ddeg yw hi, ac am y tro olaf y bydd i mi alw gweithwyr i'm gwinllan. A'm gwinllan a aeth yn llygredig bob gronyn; ac nid oes neb yn gwneuthur daioni, oddieithr ychydig; a hwy a gyfeiliornant mewn llawer o bethau, o herwydd twyll-offeiriadaeth, a meddyliau llygredig gan bawb.

2. Ac yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr eglwys hon a sefydlais i, ac a'i gelwais allan o'r anialwch; ac felly hefyd y bydd i mi gasglu fy etholedigion o bedwar parth y ddaear, sef cynnifer ag a gredant ynof fi, ac a wrandawant ar fy llais; ïe, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y maes sydd eisoes yn wŷn i'r cynauaf; gan hyny gosodwch i mewn eich crymanau, a medwch â'ch holl nerth, meddwl, a gallu. Agorwch eich geneuau, a hwy a lenwir, a chwi a ddeuwch megys Nephi gynt, yr hwn a deithiodd o Jerusalem trwy yr anialwch; ïe, agorwch eich geneuau ac nac arbedwch, a chwi a lwythir ag ysgubau ar eich cefnau, canys wele, yr ydwyf fi gyda chwi; ïe, agorwch eich geneuau a hwy a lenwir, gan ddywedyd,—Edifarhewch, edifarhewch, a pharotowch ffordd yr Arglwydd, a gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef; canys teyrnas nefoedd a neshaodd; ïe, edifarhewch a bedyddier chwi, bob un o honoch, er maddeuant o'ch pechodau; ïe, bedyddier chwi trwy ddwfr, ac yna y mae yn dyfod y bedydd tân a'r Ysbryd Glân.

3. Wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, hon yw fy efengyl i, a chofiwch y bydd iddynt gael ffydd ynof fi, onite nis gallant mewn un modd gael eu hachub; ac ar y graig hon yr adeiladaf

fy eglwys; ïe, ar y graig hon yr adeiladwyd chwi, ac os parhewch, pyrth uffern ni lwyddant yn eich erbyn chwi; a chwi a gofiwch erthyglau yr eglwys a'r cyfammodau i'w cadw hwynt; a phwy bynag sydd ganddo ffydd, chwi a'i cadarnhewch yn fy eglwys, trwy osodiad dwylaw, a mi a gyfranaf ddawn yr Ysbryd Glân arnynt hwy. A Llyfr Mormon, a'r ysgrythyrau santaidd, a roddwyd genyf fi er eich addysg; a gallu fy Ysbryd a fywha bob peth; o ba herwydd byddwch ffyddlawn, gan weddio yn wastadol, a'ch lampau wedi eu parotôi ac yn cynneu, ac olew gyda chwi, fel y byddoch yn barod ar ddyfodiad y Priodfab; canys wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr wyf yn dyfod ar frys. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LVI.

Dadguddiad i Orson Pratt, a roddwyd Tachwedd, 1830.

1. Fy mab Orson, gwrando, a chlyw, a gwel yr hyn wyf fi, yr Arglwydd Dduw, yn ei ddywedyd wrthych, sef Iesu Grist eich Prynwr, goleuni a bywyd y byd; y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a'r tywyllwch nid yw yn ei amgyffred ef; yr hwn a garodd y byd felly, fel y rhoddodd ei fywyd ei hun, fel pwy bynag a gredent y byddai iddynt ddyfod yn feibion Duw; gan hyny, chwi ydych fy mab, a bendigedig ydych o herwydd eich bod wedi credu; a mwy bendigedig ydych o herwydd y gelwir chwi genyf fi i bregethu fy efengyl, i dderchafu eich llais megys â sain udgorn, yn hir ac yn uchel, a chyhoeddi edifeirwch i genedlaeth ŵyrgam a gwrthnysig, gan barotoi ffordd yr Arglwydd erbyn ei ail ddyfodiad; canys wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae yr amser yn agos wrth law, pan ddeuaf mewn cwmwl, gyda gallu a gogoniant mawr, a bydd yn ddiwrnod mawr ar amser fy nyfodiad i, canys yr holl genedloedd a grynant.

2. Ond cyn dyfod y dydd mawr hwnw, yr haul a dywyllir, a'r lloer a droir yn waed, a'r ser a wrthodant eu dyscleirdeb, a rhai a syrthiant, a dinystr mawr sydd yn aros y drygionus; gan hyny dyrchefwch eich llais ac nac arbedwch, canys yr Arglwydd a lefarodd. Gan hyny, prophwydwch, ac fe a roddir trwy allu yr Ysbryd Glân; ac os ydych ffyddlawn, wele, yr

wyf fi gyda chwi hyd oni ddeuaf; ac yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr wyf yn dyfod ar frys. Myfi wyf eich Arglwydd a'ch Prynwr. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LVII.

Dadguddiad i Edward Partridge, a roddwyd Rhagfyr, 1830.

1. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, un cadarn Israel, wele, meddaf i chwi, fy ngwas Edward, yr ydych chwi yn fendigedig, a'ch pechodau a faddeuwyd i chwi, a chwi a elwir i bregethu fy efengyl megys â llais udgorn; a mi a osodaf fy llaw arnoch chwi trwy law fy ngwas Sidney Rigdon, a chwi a dderbyniwch fy Ysbryd, yr Ysbryd Glân, sef y Dyddanydd, yr hwn a ddysg i chwi bethau heddychlawn y deyrnas; a chwi a'i cyhoeddwch â llef uchel, gan ddywedyd, Hosanna, bendigedig fyddo enw y Duw goruchaf.

2. Ac yn awr, y galwad a'r gorchymyn hwn wyf yn ei roddi i chwi mewn perthynas i bob dyn, fod i gynnifer ag a ddeuant gerbron fy ngweision Sidney Rigdon a Joseph Smith, ieu., gan gofleidio y galwad a'r gorchymyn hwn, gael eu hordeinio a'u danfon allan i bregethu yr efengyl dragywyddol yn mhlith y cenedloedd, gan gyhoeddi edifeirwch, a dywedyd, Achubwch eich hunain rhag y genedlaeth wrthnysig hon, a deuwch allan o'r tân, gan gasglu hyd y nod y gwisgoedd a halogwyd gan y cnawd.

3. A'r gorchymyn hwn a roddir i henuriaid fy eglwys, fod i bob dyn a'i cofleidia gyda symlrwydd calon, gael ei ordeinio a'i anfon allan, megys y llefarais i. Myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw; gan hyny gwregyswch eich lwynau, a mi a ddeuaf yn ddisymmwth i'm teml. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LVIII.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, a roddwyd Rhagfyr, 1830.

1. Wele, meddaf i chwi, nid yw yn fuddiol i mi fod i chwi gyfieithu dim yn rhagor hyd onid eloch i'r Ohio, a hyn o herwydd y gelyn ac er eich mwyn chwi. A thrachefn, meddaf

i chwi, nid oes i chwi fyned hyd oni phregethoch fy efengyl yn y parthau hyny, ac y cryfhaoch fy eglwys lle bynag y mae i'w chael, ac yn fwy neillduol yn Colesville; canys, wele, y maent yn gweddio arnaf fi mewn llawer o ffydd.

2. A thrachefn, yr wyf yn rhoddi gorchymyn i'r eglwys, ei bod yn fuddiol i mi fod iddynt ymgynnull ynghyd wrth yr Ohio, erbyn yr amser y bydd i'm gwas Oliver Cowdery ddychwelyd atynt hwy. Wele, yma y mae doethineb, a bydded i bob dyn ddewis drosto ei hun hyd oni ddelwyf. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LIX.

Dadguddiad i James Colvill, a roddwyd Ionawr, 1831.

1. Gwrandewch a rhoddwch glust i lais yr hwn sydd o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, yr Ydwyf mawr, sef Iesu Grist, goleuni a bywyd y byd; y goleuni sydd yn llewyrchu mewn tywyllwch, a'r tywyllwch nid yw yn ei amgyffred ef; yr un a ddaeth yn nghyflawnder yr amser at fy eiddo, a'r eiddo fy hun ni'm derbyniasant; ond i gynnifer ag a'm derbyniasant, y rhoddais allu i ddyfod yn feibion i mi, ac felly hefyd y rhoddaf i gynnifer ag a'm derbyniant, allu i ddyfod yn feibion i mi.

2. Ac yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr hwn sydd yn derbyn fy efengyl, sydd yn fy nerbyn i; a'r hwn nid yw yn derbyn fy efengyl, nid yw yn fy nerbyn i. Ac hyn yw fy efengyl; edifeirwch a bedydd trwy ddwfr, ac yna daw bedydd tân a'r Ysbryd Glân, sef y Dyddanydd, yr hwn sydd yn dangos pob peth, ac yn dysgu pethau heddychol y deyrnas.

3. Ac yn awr, wele, meddaf i chwi, fy ngwas James, yr wyf wedi edrych ar dy weithredoedd di, ac yn dy adnabod; ac yn wir meddaf i ti, dy galon sydd yn awr yn uniawn ger fy mron i yr amser hwn, ac wele, mi a gyflwynais fendithion mawr ar dy ben di; er hyny ti a welaist lawer o ofid, canys ti a'm gwrthodaist i lawer gwaith o herwydd balchder a gofalon y byd; ond, wele, dyddiau dy ymwared a ddaethant, os gwrandewi ar fy llais i, yr hwn a ddyweda wrthyt, Cyfod, a bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar fy enw i, a chwi a dderbyniwch fy Ysbryd, a bendith mor fawr ag nad adnabuasoch erioed,

Ac os gwnai hyn, myfi a'th barotoais i waith mwy. Ti a bregethi gyflawnder fy efengyl yr hon a anfonais allan yn y dyddiau diweddaf hyn; y cyfammod a anfonais allan i adferu fy mhobl, y rhai ydynt o dŷ Israel.

4. A daw oddiamgylch y bydd i allu orphwys arnat ti; bydd i ti gael ffydd fawr, a myfi a fyddaf gyda thi, ac a âf o flaen dy wyneb. Ti a elwir i weithio yn fy ngwinllan, ac i adeiladu fy eglwys, a dwyn allan Seion, fel y byddo iddi lawenhau ar y bryniau a blodeuo. Wele, yn wir, yn wir, meddaf i ti, nid ydwyt wedi dy alw i fyned i'r gwledydd dwyreiniol, ond yr ydwyf wedi dy alw i fyned i'r Ohio. Ac yn gymmaint ag y bydd i'm pobl ymgynnull ynghyd wrth yr Ohio, yr wyf wedi cadw yn weddill fendith na adwaenir mo'i bath yn mhlith plant dynion, a chaiff ei thywallt allan ar eu penau. Ac oddiyno yr â dynion allan i'r holl genedloedd.

5. Wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, pobl Ohio ydynt yn galw arnaf fi mewn llawer o ffydd, gan feddwl y bydd i mi attal fy llaw mewn barn ar y cenedloedd, ond nis gallaf wadu fy ngair; gan hyny ymdrechwch â'ch holl allu, a galwch weithwyr ffyddlawn i'm gwinllan, fel y celo ei thrin am y tro diweddaf. Ac yn gymmaint â'u bod yn edifarhau, ac yn derbyn cyflawnder fy efengyl, ac yn dyfod yn santeiddiedig, mi a attaliaf fy llaw mewn barn; gan hyny ewch allan, gan gyhoeddi â llef uchel, gan ddywedyd, Teyrnas nefoedd a neshaodd; gan gyhoeddi Hosana! bendigedig fyddo enw y Duw goruchaf. Ewch allan gan fedyddio â dwfr, gan barotoi y ffordd o flaen fy wyneb, erbyn amser fy nyfodiad; o herwydd y mae yr amser wrth law; nid oes un dyn yn gwybod yr awr na'r dydd; ond sicr yw y daw, a'r hwn sydd yn derbyn y pethau hyn sydd yn fy nerbyn i; a hwy a gant eu casglu ataf fi mewn amser ac yn nhragywyddoldeb.

6. A thrachefn, daw oddiamgylch, mai ar gynnifer ag a fedyddioch chwi â dwfr, y gosodwch eich dwylaw, a hwy a dderbyniant ddawn yr Ysbryd Glân, ac a edrychant allan am arwyddion fy nyfodiad, a hwy a'm hadnabyddant i. Wele, yr wyf yn dyfod ar frys. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LX.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, a roddwyd Ionawr, 1831, *yn egluro paham nad ufyddhaodd James Covill i'r dadguddiad a roddwyd iddo ef.*

1. Wele, yn wir, meddaf i chwi, fod calon fy ngwas James Covill yn uniawn ger fy mron i, canys efe a gyfammododd â mi y byddai iddo ufyddhau i'm gair. Ac efe a dderbyniodd y gair gyda llawenydd, ond yn uniongyrchol Satan a'i temtiodd ef; ac ofn erlidigaeth, a gofalon y byd, a wnaethant iddo wrthod y gair; o herwydd paham efe a dorodd fy nghyfammod, ac y mae yn aros gyda mi i wneuthur ag ef fel y byddo da yn fy ngolwg. Amen.

DOSRAN LXI.

Dadguddiad a roddwyd Chwefror, 1831.

1. Gwrandewch a chlywch, O chwi fy mhobl, medd yr Arglwydd a'ch Duw, chwi y rhai yr ymhyfrydaf eich bendithio â'r bendithion mwyaf, chwi sydd yn gwrandaw arnaf; a chwi nad ydych yn gwrandaw arnaf, ag sydd wedi proffesu fy enw, a felldithiaf â'r melldithion trymaf. Gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys y rhai a elwais; wele, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi ymgynnull ynghyd i gytuno ar fy ngair, a thrwy weddi eich ffydd y derbyniwch fy nghyfraith, fel y gwybyddoch pa fodd i lywodraethu fy eglwys, a chael pob peth yn uniawn ger fy mron i.

2. A myfi a fyddaf eich Rheolwr pan ddeuaf; ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys, a bydd i chwi weled fod fy nghyfraith yn cael ei chadw. Efe sydd yn derbyn fy nghyfraith ac yn ei gwneuthur hi, y cyfryw yw fy nyscybl; a'r hwn sydd yn dweyd ei fod yn ei derbyn, ac nid yw yn ei gwneuthur hi, nid yw y cyfryw yn ddyscybl i mi, ac efe a deflir allan o'ch plith chwi; canys nid yw yn weddus i'r pethau a berthynant i blant y deyrnas, gael eu rhoddi i'r rhai nid ydynt deilwng, neu i gŵn, neu i'r perlau gael eu taflu o flaen moch.

3. A thrachefn, gweddus yw i'm gwas Joseph Smith, ieu., gael tŷ wedi ei adeiladu, yn yr hwn y mae iddo fyw a chyfieithu.

A thrachefn, gweddus yw i'm gwas Sidney Rigdon gael byw megys y gwelo yn dda, yn gymmaint a'i fod yn cadw fy ngorchymynion. A thrachefn, yr wyf wedi galw fy ngwas Edward Partridge, ac yn rhoddi gorchymyn, fod iddo gael ei benodi trwy lais yr eglwys, a'i ordeinio yn esgob i'r eglwys, i adael ei fasgnach, a threulio ei holl amser yn ngwaith yr eglwys; i edrych ar ol pob peth megys y penodir iddo ef, yn fy nghyfreithiau yn y dydd y rhoddaf hwynt. A hyn o herwydd fod ei galon yn bur ger fy mron i, canys y mae ef megys Nathanael gynt, yn yr hwn nid oes dwyll. Y geiriau hyn a roddir i chwi, ac y maent yn bur ger fy mron i; gan hyny gwyliwch pa fodd y dalioch hwynt, canys y maent i'w hateb ar eich eneidiau yn nydd y farn. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXII.

Dadguddiad i Joseph Smith ieu., a Sidney Rigdon, a roddwyd Chwefror, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy ngweision, y mae yn fuddiol i mi fod i henuriaid fy eglwys gael eu galw ynghyd, o'r dwyrain ac o'r gorllewin, ac o'r gogledd ac o'r dëau, trwy lythyr neu ryw ffordd arall.

2. A daw oddiamgylch, yn gymmaint â'u bod yn ffyddlawn, ac yn ymarfer ffydd ynof fi, myfi a dywalltaf allan fy Ysbryd arnynt yn y dydd yr ymgynnullant ynghyd. A daw oddiamgylch y bydd iddynt fyned allan i'r ardaloedd o amgylch ogylch, a phregethu edifeirwch i'r bobl; a llawer a argyhoeddir, yn gymmaint ag y bydd i chwi gael gallu i gydgorffori eich hunain, yn unol â chyfreithiau dyn; fel na fyddo i'ch gelynion gael awdurdod arnoch chwi, fel y byddo i chwi gael eich cadw yn mhob peth; fel y galluoger chwi i gadw fy nghyfreithiau, fel y byddo i bob rhwymyn gael ei dori, â'r hwn y mae y gelyn yn ceisio dinystro fy mhobl.

3. Wele, meddaf i chwi, rhaid i chwi ymweled â'r tlawd a'r anghenus, a gweinyddu i'w cyfreidiau, fel y byddo iddynt hwy gael eu cadw hyd oni wneler pob peth yn ol fy nghyfraith yr hon a dderbyniasoch chwi. Amen.

DOSRAN LXIII.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a John Whitmer, a roddwyd Mawrth, 1831.

1. Wele, y mae yn fuddiol i mi, fod i'm gwas John ysgrifenu a chadw hanes rheolaidd, a'ch cynnorthwyo chwi, fy ngwas Joseph, i adysgrifenu yr holl bethau a roddir i chwi, hyd onid elwir ef at ddyledswyddau pellach. Etto, yn wir meddaf i chwi, gall ef hefyd dderchafu ei lais mewn cyfarfodydd, pryd bynag y byddo yn fuddiol.

2. A thrachefn, meddaf i chwi, penodir iddo ef gadw cofnodau ac hanes yr eglwys yn wastadol, canys yr wyf wedi penodi Oliver Cowdery at swydd arall. Gan hyny, rhoddir iddo ef, yn gymmaint â'i fod yn ffyddlawn, gan y Dyddanydd, i ysgrifenu y pethau hyn. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXIV.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1831.

1. Mae yn anghenrheidiol i chwi aros dros yr amser presennol yn eich lleoedd cartref, fel y byddo yn addas i'ch amgylchiadau; ac yn gymmaint â bod genych diroedd, rhaid i chwi gyfranu i'r brodyr dwyreiniol; ac yn gymmaint ag nad oes genych diroedd, bydded iddynt brynu dros yr amser presennol yn yr ardaloedd hyny o amgylch ogylch, megys y gwelant yn dda, canys y mae yn anghenrheidiol iddynt gael lleoedd i fyw dros yr amser presennol.

2. Ac anghenrheidiol yw, fod i chwi arbed yr holl arian a ellwch, a bod i chwi gadw yr oll a ellwch mewn cyfiawnder, fel y byddoch yn alluog mewn amser i brynu tiroedd yn etifeddiaeth, hyd y nod y ddinas. Y lle nid yw etto i gael ei ddadguddio, ond wedi i'ch brodyr ddyfod o'r dwyrain, y mae dynion neillduol i gael eu penodi, ac iddynt hwy y rhoddir i wybod y lle, neu iddynt hwy y caiff ei ddadguddio; a chant hwy eu penodi i brynu y tiroedd, a gwneyd dechreuad i osod sylfaen y ddinas; ac yna y dechreuir eich casglu gyda'ch teuluoedd, pob dyn yn ol ei deulu, yn ol ei amgylchiadau, megys y penodir iddo ef gan y llywyddiaeth ac esgob yr

eglwys, yn unol â'r cyfreithiau a'r gorchymynion a ddebyniasoch, ac a dderbyniwch yn ol llaw. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXV.

Dadguddiad i Sidney Rigdon, Parley P. Pratt, a Lemon Copley, a roddwyd Mawrth, 1831.

1. Gwrandewch ar fy ngair, fy ngweision Sidney, a Parley, a Lemon, canys wele, yn wir meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi fyned, a phregethu fy efengyl yr hon a dderbyniasoch, megys y derbyniasoch hi, i'r Crynwyr. Wele, meddaf i chwi, y maent hwy yn dymuno gwybod y gwirionedd mewn rhan, ond nid yn gwbl oll, canys nid ydynt hwy yn uniawn ger fy mron i, a rhaid iddynt edifarhau; gan hyny yr wyf yn eich anfon chwi, fy ngweision Sidney a Parley i bregethu yr efengyl iddynt hwy; a'm gwas Lemon a gaiff ei ordeinio i'r gwaith hwn, fel yr ymresymo â hwynt, nid yn ol yr hyn a dderbyniodd ef oddiwrthynt hwy, ond yn ol yr hyn a ddysgir iddo genych chwi fy ngweision, a thrwy wneuthur felly mi a'i bendithiaf ef, onite ni chaiff lwyddo. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, o herwydd myfi wyf Dduw, ac anfonais fy unig-anedig Fab i'r byd, er prynedigaeth y byd, ac yr wyf wedi cyhoeddi y bydd i bwy bynag a'i derbynia ef gael ei achub, a'r hwn nis derbynia ef a ddemnir.

2. A hwy a wnaethant i Fab y dyn megys yr oeddynt yn ewyllysio; ac y mae efe wedi cymmeryd ei allu ar ddeheulaw ei ogoniant, ac y mae yn teyrnasu yn awr yn y nefoedd, a theyrnasa hyd oni ddisgyno ar y ddaear i osod ei holl elynion dan ei draed, yr hwn amser sydd yn agos wrth law,—myfi, yr Arglwydd Dduw, a'i llefarais, ond yr awr a'r dydd nid oes un dyn yn eu gwybod, na'r angylion yn y nef, ac ni chant wybod ychwaith hyd oni ddelo; gan hyny yr wyf yn ewyllysio i bob dyn edifarhau, canys pawb ydynt dan bechod, oddieithr y rhai a gedwais i mi fy hunan, dynion santaidd na wyddoch chwi am danynt; gan hyny, meddaf i chwi, yr wyf wedi anfon i chwi fy nghyfammod tragywyddol, sef hwnw ag oedd o'r dechreuad, a'r hyn a addewais wyf felly wedi ei gyflawni, a chenedloedd y ddaear a ymgrymant iddo; ac os nad o honynt eu hunain, hwy

a gant eu darostwng, canys yr hyn sydd yn awr wedi ymdderchafu o hono ei hun, a osodir yn isel mewn gallu; gan hyny yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi fyned i blith y bobl hyn, a dywedyd wrthynt, megys fy apostol gynt, enw yr hwn oedd Pedr—Credwch yn enw yr Arglwydd Iesu, yr hwn a fu ar y ddaear, ac sydd i ddyfod, y dechreu a'r diwedd, edifarhewch a bedyddier chwi yn enw Iesu Grist, yn ol y gorchymyn santaidd er maddeuant pechodau; a phwy bynag a wnel hyn a gaiff dderbyn dawn yr Ysbryd Glân, trwy osodiad dwylaw henuriaid yr eglwys hon.

3. A thrachefn, meddaf i chwi, pwy bynag a wahardda i briodi, nid yw wedi ordeinio o Dduw, canys priodas a ordeiniwyd gan Dduw i ddyn; gan hyny, y mae yn gyfreithlawn iddo gael un wraig, a hwy ill dau a fyddant yn un cnawd, a hyn oll fel y byddai i'r ddaear ateb dyben ei chreadigaeth, ac fel y byddai iddi gael ei llanw â mesur dyn, yn ol ei greadigaeth cyn i'r byd gael ei wneuthur. A phwy bynag sydd yn gorchymyn ymgadw oddiwrth fwydydd, fel na fyddo i ddyn fwyta y cyfryw, nid yw wedi ei ordeinio o Dduw; canys, wele, bwystfilod y maes ac ehediaid yr awyr, a'r hyn sydd yn dyfod allan o'r ddaear, a ordeiniwyd er gwasanaeth dyn yn ymborth ac yn wisgoedd, ac fel y byddai iddo ef gael mewn digonedd; ond nid yw wedi ei roddi fod i un dyn feddiannu yr hyn sydd uwchlaw dyn arall, o herwydd paham y mae y byd yn gorwedd mewn pechod; a gwae fydd i'r dyn a dywallto waed neu a wastraffo gig yn afreidiol.

4. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, nid yw Mab y dyn yn dyfod yn ffurf benyw, nac megys dyn yn teithio ar y ddaear; gan hyny, na thwyller chwi, ond parhewch yn ddiysgog, gan edrych allan am i'r nefoedd gael eu hysgwyd, ac i'r ddaear grynu a siglo yn ol ac yn mlaen megys meddwyn, ac i'r dyffrynoedd gael eu codi, ac i'r mynyddoedd gael eu gostwng, ac i'r lleoedd geirwon gael eu gwneyd yn llyfn; a hyn oll pan seinia yr angel ei udgorn.

5. Ond cyn dyfod dydd mawr yr Arglwydd, Jacob a flodeua yn yr anialwch, a'r Lamaniaid a flodeuant fel y rhosyn. Seion a flodeua ar y bryniau ac a lawenha ar y mynyddoedd, a bydd iddi ymgynnull ynghyd i'r lle a benodais. Wele, meddaf i chwi, ewch allan megys y gorchymynais i chwi—edifarhewch am eich holl bechodau; gofynwch, a chwi a gewch; curwch,

ac fe agorir i chwi; wele, myfi a âf o'ch blaen chwi, ac a wyliaf o'ch tu ol; a myfi a fyddaf yn eich canol, ac ni chythryblir chwi; wele, myfi wyf Iesu Grist, ac yr wyf yn dyfod ar frys. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXVI.

Dadgyddiad a roddwyd Mehefin, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth yr henuriaid a alwodd ac a ddewisodd efe yn y dyddiau diweddaf hyn, trwy lais ei Ysbryd, gan ddywedyd, Myfi, yr Arglwydd, a wnaf yn hysbys i chwi pa beth a ewyllysiaf i chwi ei wneuthur o'r amser hwn hyd y gynnadledd nesaf, yr hon a gynnelir yn Missouri, ar y tir a gyssegraf fi i'm pobl, y rhai ydynt weddill o Jacob, a'r rhai ydynt etifeddion yn ol y cyfammod.

2. Gan hyny, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, gymmeryd eu taith mor fuan ag y gellir gwneyd parotoadau iddynt adael eu cartrefleoedd, a theithio i dir Missouri. Ac yn gymmaint â'u bod yn ffyddlawn i mi, gwneir yn hysbys iddynt hwy pa beth sydd iddynt i'w wneuthur; ac hefyd, yn gymmaint â'u bod yn ffyddlawn, gwneir yn hysbys iddynt dir eich etifeddiaeth. Ac yn gymmaint os na fyddant yn ffyddlawn, cânt eu tòri ymaith, megys yr ewyllsiwyf, ac megys y bydd da yn fy ngolwg.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas Lyman Wight, a'm gwas John Corril, gymmeryd eu taith ar frys; ac hefyd i'm gwas John Murdock, a'm gwas Hyrum Smith, gymmeryd eu taith i'r un lle, trwy ffordd Detroit. A bydded iddynt deithio oddiyno gan bregethu y gair ar y ffordd, heb ddywedyd un peth ond yr hyn a ysgrifenodd y prophwydi a'r apostolion, a'r hyn a ddysgir iddynt gan y Dyddanydd, trwy wedi ffydd. Bydded iddynt fyned ddau a dau, a bydded iddynt bregethu ar y ffordd yn mhob cynnulleidfa, gan fedyddio trwy ddwfr, a gosodiad dwylaw wrth ymyl y dwfr; canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, Myfi a gwttogaf fy ngwaith mewn cyfiawnder, canys dyfod y mae'r dyddiau pan arfonaf allan farn i fuddugoliaeth. A bydded i'm gwas Lyman Wight wylio, canys y mae Satan yn dymunio ei nithio ef megys ûs.

4. Ac wele, yr hwn sydd yn ffyddlawn a wneir yn rheolwr dros lawr o bethau. A thrachefn, yr wyf yn rhoddi i chwi gynllun yn mhob peth, fel na fyddo i chwi gael eich twyllo, canys y mae Satan ar led yn y tir, ac y mae yn myned allan gan dwyllo y cenedloedd; gan hyny, yr hwn sydd yn gweddio â'i ysbryd yn edifeiriol, y cyfryw sydd yn dderbyniol genyf fi os ufyddha i'm hordinhadau. Yr hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd o ysbryd edifeiriol, iaith yr hwn sydd yn llariaidd ac adeiladol, y mae y cyfryw o Dduw os ufyddha i'm hordinhadau. A thrachefn, yr hwn sydd yn crynu dan fy ngallu i a wneir yn gryf, a dyga allan ffrwythau o foliant a doethineb, yn unol â'r dadguddiadau a'r gwirioneddau a roddais i chwi.

5. A thrachefn, yr hwn sydd yn cael ei orchfygu, ac nid yw yn dwyn allan ffrwythau, hyd y nod yn ol y cynllun hwn, nid yw o honof fi; gan hyny, wrth y cynllun hwn yr adnabyddwch yr ysbrydoedd yn mhob achos dan yr holl nefoedd. Ac y mae y dyddiau wedi dyfod, yn ol ffydd dynion y gwneir iddynt hwy. Wele, y gorchymyn hwn a roddwyd i'r holl henuriaid a ddewisais i. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas Thomas B. Marsh, a'm gwas Ezra Thayre, gymmeryd eu taith hefyd, gan bregethu y gair ar y ffordd, i'r un tir hwn. A thrachefn, bydded i'm gwas Isaac Morley, a'm gwas Ezra Booth, gymmeryd eu taith, gan bregethu y gair hefyd ar y ffordd i'r un tir.

6. A thrachefn, bydded i'm gweision Edward Partridge a Martin Harris gymmeryd eu taith gyda'm gweision Sidney Rigdon a Joseph Smith, ieu. Bydded i'm gweision David Whitmer, a Harvey Whitlock hefyd gymmeryd eu taith, a phregethu ar y ffordd, i'r un tir hwn. Bydded i'm gweision Parley P. Pratt ac Orson Pratt gymmeryd eu taith, a pregethu ar y ffordd, hyd y nod i'r un tir hwn. A bydded i'm gweision Solomon Hancock a Simeon Carter hefyd gymmeryd eu taith i'r un tir hwn, a phregethu ar y ffordd. Bydded i'm gweision Edson Fuller a Jacob Scott hefyd gymmeryd eu taith. Bydded i'm gweision Levi Hancock a Zebedee Coltrin hefyd gymmeryd eu taith. Bydded i'm gweision Reynolds Cahoon a Samuel H. Smith hefyd gymmeryd eu taith. Bydded i'm gweision Wheeler Baldwin a William Carter hefyd gymmeryd eu taith.

7. A bydded i'm gweision Newel Knight a Selah J. Griffin

ill dau gael eu hordeinio, ac hefyd gymmeryd eu taith; ïe, yn wir, meddaf, bydded i'r rhai hyn oll gymmeryd eu taith i un lle, yn eu hamrywiol gylchoedd, ac nid oes i un dyn adeiladu ar sylfaen un arall, nac ychwaith deithio yn llwybr un arall. Yr hwn sydd ffyddlawn, y cyfryw a gedwir ac a fendithir â llawer o ffrwyth.

8. A thrachefn, meddaf i chwi, bydded i'm gweision Joseph Wakefield a Solomon Humphrey gymmeryed eu taith i'r tiroedd dwyreiniol; bydded iddynt lafurio gyda'u teuluoedd, heb gyhoeddi un peth amgen nâ'r prophwydi a'r apostolion, yr hyn a welsant ac a glywsant, ac a gredant yn sicr, fel y cyflawner y prophwydoliaethau. O herwydd troseddiad, bydded i'r hyn a roddwyd i Heman Basset gael ei gymmeryd oddiwrtho, a'i osod ar ben Simonds Rider.

9. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i Jared Carter gael ei ordeinio yn offeiriad, ac hefyd i George James gael ei ordeinio yn offeiriad. Bydded i'r gweddill o'r henuriaid wylio dros yr eglwysi, a chyhoeddi y gair yn yr ardaloedd o'u hamgylch; a bydded iddynt weithio â'u dwylaw eu hunain, fel na fyddo i eilun-addoliaeth na drygioni gael eu hymarfer. Ac yn mhob peth cofiwch y tlawd a'r anghenus, y claf a'r cystuddiedig, canys yr hwn nid yw yn gwneuthur y pethau hyn, nid yw y cyfryw yn ddyscybl i mi. A thrachefn, bydded i'm gweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, ac Edward Partridge gymmeryd gyda hwynt ganmoliaeth oddiwrth yr eglwys. A chaffer un i'm gwas Oliver Cowdery hefyd; ac felly, megys y dywedais i, os ydych yn ffyddlawn, chwi a ymgynnullwch ynghyd i lawenhau ar dir Missouri, yr hwn yw tir eich etifeddiaeth, yr hwn sydd yn awr yn dir eich gelynion. Ond, wele, myfi yr Arglwydd a frysiaf y ddinas yn ei hamser, ac a goronaf y ffyddlawn â llawenydd ac â gorfoledd. Wele, myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw, a mi a'u codaf hwynt i fyny yn y dydd olaf. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXVII.

Dadguddiad i Sidney Gilbert, a roddwyd Mehefin, 1831.

1. Wele, meddaf i chwi, fy ngwas Sidney Gilbert, mi a glywais eich gweddiau, ac yr ydych wedi galw arnaf fi am ei

wneyd yn hysbys i chwi oddiwrth yr Arglwydd eich Duw, mewn perthynas i'ch galwad a'ch etholiad yn yr eglwys hon, yr hon wyf fi, yr Arglwydd, wedi godi i fyny yn y dyddiau diweddaf hyn.

2. Wele, myfi, yr Arglwydd, yr hwn a groeshoeliwyd dros bechodau y byd, wyf yn roddi i chwi orchymyn fod i chwi ymwrthod â'r byd. Cymmerwch arnoch fy ordinhadau i, hyd y nod hòno o henuriad, i bregethu ffydd ac edifeirwch, a maddeuant pechodau, yn ol fy ngair a derbyniad yr Ysbryd Glân trwy osodiad dwylaw. Ac hefyd i fod yn oruchwyliwr i'r eglwys hon yn y lle a benodir gan yr esgob, yn ol y gorchymynion a roddir yn ol llaw.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, chwi a gymmerwch eich taith gyda'm gweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon. Wele, y rhai hyn ydynt yr ordinhadau cyntaf a dderbyniwch, a'r gweddill a hysbysir mewn amser i ddyfod, yn ol eich llafur yn fy ngwinllan. A thrachefn, da genyf pe dysgech mai efe yn unig a fydd cadwedig a barha hyd y diwedd. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXVIII.

Dadguddiad i Newel Knight, a roddwyd Mehefin, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd, sef Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, sef efe yr hwn a groeshoeliwyd dros bechodau y byd. Wele, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, fy ngwas Newel Knight, chwi a sefwch yn ddiysgog yn y swydd i'r hon y'ch penodais chwi; ac os yw eich brodyr yn dymuno dianc rhag eu gelynion, bydded iddynt edifarhau am eu holl bechodau, a dyfod yn wir ostyngedig ger fy mron i ac edifeiriol; a chan fod y cyfammod a wnaethant â mi wedi ei dòri, felly y mae wedi dyfod yn ddirym a dieffaith; a gwae iddo ef trwy yr hwn y daw y trosedd hwn, canys gwell fuasai iddo ef pe buasai wedi cael ei foddi yn eigion y môr; ond bendigedig ydynt hwy a gadwasant y cyfammod ac a ufyddhasant i'r gorchymyn, canys hwy a gant drugaredd.

2. Gan hyny, ewch yn awr, a ffowch o'r tir, rhag i'ch gelynion ddyfod arnoch chwi; a chymmerwch eich taith, a

phenodwch yr hwn a ewyllysioch i fod eich arweinydd a thalu arian drosoch. Ac felly chwi a gymmerwch eich taith i'r ardaloedd gorllewinol, i dir Missouri, ar gyffiniau y Lamaniaid. Ac wedi i chwi orphen teithio, wele, meddaf i chwi, ceisiwch fywioliaeth megys dynion, hyd oni pharotöaf le i chwi.

3. A thrachefn, byddwch amyneddgar mewn gorthrymder hyd oni ddelwyf; ac, wele, yr wyf yn dyfod ar frys, a'm gwobr sydd gyda mi, a'r rhai a'm ceisiasant yn foreu a gant orphwysdra i'w heneidiau. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXIX.

Dadguddiad i William W. Phelps, a roddwyd Mehefin, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, fy ngwas William, ïe, Arglwydd yr holl ddaear, tydi a alwyd ac a ddewiswyd, ac wedi i ti gael dy fedyddio trwy ddwfr, yr hyn os gwnai gyda golwg yn unig at fy ngogoniant i, ti a gai faddeuant o'th bechodau, ac a dderbyni yr Ysbryd Glân trwy osodiad dwylaw; ac yna ti a ordeinir trwy law fy ngwas Joseph Smith, ieu., i fod yn henuriad i'r eglwys hon, i bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau trwy ffordd o fedydd yn enw Iesu Grist, Mab y Duw byw; ac ar bwy bynag y gosodoch eich dwylaw, os byddant yn edifeiriol ger fy mron i, y cewch allu i roddi yr Ysbryd Glân.

2. A thrachefn, bydd i chwi gael eich ordeinio i gynnorthwyo fy ngwas Oliver Cowdery i wneyd y gwaith o argraffu, ac o ddethol, ac ysgrifenu llyfrau i ysgolion yn yr eglwys hon, fel y byddo i blant bychain hefyd dderbyn addysg ger fy mron i, gan ei fod yn hyfryd genyf fi. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, o herwydd yr achos hwn y bydd i chwi gymmeryd eich taith gyda'm gweision Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, fel y byddo i chwi gael eich plànu yn nhir eich etifeddiaeth i wneuthur y gwaith hwn.

3. A thrachefn, bydded i'm gwas Joseph Coe hefyd gymmeryd ei daith gyda hwynt. Y gweddill a wneir yn hysbys yn ol llaw, megys yr ewyllysiwyf fi. Amen.

DOSRAN LXX.

Dadguddiad, a roddwyd Mehefin, 1831.

1. Gwrandewch, O chwi bobl y rhai a broffeswch fy enw, medd yr Arglwydd eich Duw, canys, wele, fy llid a ennynodd yn erbyn y gwrthryfelgar, a hwy a gânt adnabod fy mraich a'm digllonedd yn nydd yr ymweliad a'r digofaint ar y cenedloedd. A'r hwn ni chymmero i fyny ei groes a'm canlyn i, a chadw fy ngorchymynion, y cyfryw ni chaiff ei achub.

2. Wele, myfi, yr Arglwydd, wyf yn gorchymyn, a'r hwn nid ufyddha a dòrir ymaith yn fy amser priodol fy hun, ac wedi i mi orchymyn, ac i'r gorchymyn gael ei dori; gan hyny, myfi, yr Arglwydd, wyf yn gorchymyn ac yn galw yn ol, megys y byddo da yn fy ngolwg; a hyn oll i gael ei ateb ar benau y gwrthryfelgar, medd yr Arglwydd; gan hyny, yr wyf yn galw yn ol y gorchymyn a roddwyd i'm gweision Thos. B. Marsh ac Ezra Thayre, ac yn rhoddi gorchymyn newydd i'm gwas Thomas, fod iddo ef gymmeryd i fyny ei daith yn fuan i dir Missouri, a'm gwas Selah J. Griffin a aiff hefyd gydag ef; canys wele, yr wyf yn galw yn ol y gorchymyn a roddwyd i'm gweision Selah J. Griffin a Newel Knight, o herwydd gwargaledrwydd fy mhobl y rhai ydynt yn Thompson, a'u gwrthryfeloedd; gan hyny, bydded i'm gwas Newel Knight aros gyda hwynt, a chynnifer a elo a allant fyned, ag ydynt yn edifeiriol ger fy mron i, a chael eu harwain gydag ef i'r tir a benodais i.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, fod yn rhaid i'm gwas Ezra Thayre edifarhau am ei falchder, ac am ei hunanoldeb, ac ufyddhau i'r gorchymyn blaenorol a roddais iddo mewn perthynas i'r lle ar yr hwn y mae yn byw; ac os bydd iddo wneuthur hyn, gan na fydd i raniadau gael eu gwneyd ar y tir, efe a gaiff ei benodi etto i fyned i dir Missouri; onite efe a gaiff dderbyn yr arian a dalodd, a chaiff adael y lle, a chaiff ei dòri allan o'm heglwys, medd Arglwydd Dduw y lluoedd; ac er i'r nef a'r ddaear basio heibio, ni fydd i'r geiriau hyn basio heibio, ond cant eu cyflawni.

4. Ac os bydd yn rhaid i'm gwas Joseph Smith, ieu., dalu yr arian; wele, myfi, yr Arglwydd, a'u talaf iddo ef drachefn yn nhir Missouri, fel y byddo i'r rhai y derbynio ef oddiwrth-

ynt gael eu gwobrwyo drachefn, yn ol yr hyn a wnelont; o herwydd yn ol yr hyn a wnant, y derbyniant hyd y nod mewn tiroedd o'u hetifeddiaeth. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth fy mhobl, y mae genych lawer o bethau i'w gwneuthur, ac i edifarhau am danynt; canys wele, eich pechodau a ddaethant i fyny ataf fi, ac ni faddeuwyd hwynt, o herwydd eich bod yn ceisio cynghori yn eich ffyrdd eich hunain. A'ch calonau nid ydynt foddlawn. Ac nid ydych yn ufyddhau i'r gwirionedd, ond yn ymhyfrydu mewn anghyfiawnder.

5. Gwae chwi gyfoethogion, y rhai nid ydych yn rhoddi eich meddiannau i'r tlodion, canys eich golud a ysa eich eneidiau; a hyn fydd eich galarnad yn nydd yr ymweliad, a barn, a soriant,—Y cynauaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid yw fy enaid yn gadwedig! Gwae chwi dlodion, y rhai nid yw eu calonau yn ddrylliog, y rhai nid yw eu hysbryd yn edfeiriol, a'r rhai nid yw eu boliau wedi eu digoni, a'r rhai nid attaliwyd eu dwylaw rhag cymmeryd gafael yn meddiannau dynion ereill, y rhai y mae eu llygaid yn llawn o drachwant, y rhai ni lafuriant â'u dwylaw eu hunain!

6. Ond bendigedig yw y tlodion, y rhai ydynt bur o galon, y rhai y mae eu calonau yn ddrylliog, a'r rhai y mae eu hysbryd yn edifeiriol, canys hwy a gant weled teyrnas Dduw yn dyfod mewn gallu a gogoniant mawr er eu gwaredigaeth; canys brasder y ddaear a fydd yn eiddo iddynt. Canys, wele, yr Arglwydd a ddaw, a'i wobr fydd gydag ef, ac efe a wobrwya bob dyn, a'r tlawd a lawenychant; a'u cenedlaethau a etifeddant y ddaear o genedlaeth i genedlaeth, byth ac yn dragywydd. Ac yn awr yr wyf yn gwneuthur diwedd ar lefaru wrthych chwi. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXI.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth henuriaid ei eglwys, y rhai ydynt i ddychwelyd yn fuan i'r tir o'r hwn y daethant. Wele, da genyf fi, i chwi ddyfod i fyny yma; ond â rhai nid wyf yn llwyr foddlawn, canys nid agorant eu geneuau, eithr cuddiant y dalent a roddais iddynt, o achos ofn dyn.

Gwae i'r cyfryw, canys y mae fy llid wedi ei ennyn yn eu herbyn hwynt.

2. A daw oddiamgylch, os na fyddant yn fwy ffyddlawn i mi, caiff ei gymmeryd ymaith, hyd y nod yr hyn sydd ganddynt, o herwydd myfi, yr Arglwydd, sydd yn rheoli yn y nefoedd uchod, ac yn mhlith lluoedd y ddaear; ac yn y dydd pan fydd i mi wneuthur i fyny fy nhlysau, pob dyn a gaiff wybod pa beth sydd yn rhaglefaru gallu Duw. Eithr, yn wir, myfi a lefaraf wrthych chwi mewn perthynas i'ch taith i'r tir o'r hwn y daethoch. Bydded i gludai gael ei wneuthur, neu ei brynu, megys y gweloch chwi yn dda, nid oes fater genyf fi, a chymmerwch eich taith yn fuan tua'r lle a elwir St. Louis. Ac oddiyno bydded i'm gweision Sidney Rigdon, a Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, gymmeryd eu taith tua Cincinnati; ac yn y lle hwn bydded iddynt dderchafu eu llais, a chyhoeddi fy ngair â llefau uchel, heb lid nac ammheuaeth, gan godi dwylaw santaidd arnynt hwy. Canys yr wyf fi yn alluog i'ch gwneyd chwi yn santaidd, a'ch pechodau a faddeuwyd i chwi.

3. A bydded i'r gweddill gymmeryd eu taith o St. Louis, yn ddau a dau, a phregethu y gair, nid mewn brys, yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus, hyd oni ddychwelant i'r eglwysi o ba rai y daethant. A hyn oll er daioni yr eglwysi; i'r dyben hwn yr anfonais i hwynt. A bydded i'm gwas Edward Partridge gyfranu o'r arian a roddais i iddo, ran i'm henuriaid, y rhai a orchymynir i ddychwelyd; a'r hwn sydd alluog, bydded iddo ei ddychwelyd trwy y goruchwyliwr, a'r hwn nid yw, ni ofynir ganddo ef. Ac yn awr yr wyf yn llefaru am y gweddill, y rhai ydynt i ddyfod i'r tir hwn. Wele, anfonwyd hwy i bregethu fy efengyl yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus; gan hyny yr wyf yn rhoddi iddynt hwy orchymyn fel hyn: Na fydded i ti segura ymaith dy amser, ac na fydded i ti ychwaith gladdu dy dalent fel na fyddo yn adnabyddus.

4. Ac wedi i ti ddyfod i fyny i dir Seion, a chyhoeddi fy ngair, ti a ddychweli yn fuan gan gyhoeddi fy ngair yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus, nid mewn brys, nac mewn llid na chyda chynhen; ac ysgwyd ymaith lwch dy draed yn erbyn y rhai a wrthodant dy dderbyn; nid yn eu presennoldeb, rhag i ti eu cyffrôi hwynt, eithr yn ddirgel, a golch dy draed fel tystiolaeth yn eu herbyn yn nydd y farn. Wele, hyn sydd

ddigon i chwi, a'i ewyllys ef a'ch anfonodd chwi. A thrwy enau fy ngwas Joseph Smith, ieu,, gwneir yn hysbys mewn perthynas i Sidney Rigdon ac Oliver Cowdery. Y gweddill yn ol llaw. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXII.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1831.

1. Wele, a gwrandewch ar lais yr hwn sydd â phob gallu ganddo, yr hwn sydd o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, sef Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. Wele, yn wir fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, O chwi henuriaid fy eglwys, y rhai ydych yn ymgynnulledig ar y lle hwn, y rhai y mae eich pechodau yn awr wedi eu maddeu i chwi, canys myfi, yr Arglwydd, a faddeuaf bechodau, ac wyf drugarog wrth y rhai a gyffesant eu pechodau gyda chalonau gostyngedig; ond yn wir meddaf i chwi, nid yw yn anghenrheidiol i'r holl gorff hwn o henuriaid i symud yn fuan ar y dyfroedd, tra y mae y trigolion ar y ddau du yn trengu mewn anghrediniaeth; er hyny, myfi a'i goddefais, fel y dygech chwi dystiolaeth; wele, y mae llawer o beryglon ar y dyfroedd, ac yn fwyaf neillduol yn ol llaw, canys myfi, yr Arglwydd, a osodais yn fy nigofaint, lawer o ddystrywiadau ar y dyfroedd; ïe, ac yn neillduol ar y dyfroedd hyn; er hyny, pob cnawd sydd yn fy llaw i, a'r hwn sydd ffyddlawn yn eich plith chwi ni chaiff farw trwy y dyfroedd.

2. Gan hyny y mae yn fuddiol i'm gwas Sidney Gilbert, a'm gwas William W. Phelps, fod mewn brys ar eu neges a'u cenadwriaeth; er hyny ni oddefaf i chwi ymadael hyd oni cherydder chwi am eich holl bechodau, fel y byddoch un, ac fel na fyddoch farw mewn drygioni; eithr yn awr, yn wir meddaf, y mae yn fuddiol i mi fod i chwi ymadael, gan hyny bydded i'm gweision Sidney Gilbert a William W. Phelps gymmeryd eu cymdeithion blaenorol, a bydded iddynt gymmeryd eu taith mewn brys, fel y byddo iddynt lanw eu cenadwriaeth, a thrwy ffydd hwy a orchfygant; ac yn gymmaint â'u bod yn ffyddlawn hwy a gedwir, a myfi, yr Arglwydd, a fyddaf gyda hwynt. A bydded i'r gweddill gymmeryd yr hyn sydd

anghenrheidiol at ddillad. Bydded i'm gwas Sidney Gilbert gymmeryd yr hyn sydd anghenrheidiol gydag ef, megys y byddo i chwi gytuno. Ac yn awr, wele, er eich daioni y rhoddais i chwi orchymyn mewn perthynas i'r pethau hyn; a myfi, yr Arglwydd, a ymresymaf â chwi megys â dynion yn yr hen ddyddiau gynt.

3. Wele, myfi, yr Arglwydd, yn y dechreuad a fendithiais y dyfroedd, eithr yn y dyddiau diweddaf, trwy enau fy ngwas Ioan, myfi a felldithiais y dyfroedd; gan hyny, daw y dyddiau pan na fydd un cnawd yn ddiogel ar y dyfroedd, a dywedir yn y dyddiau i ddyfod na fydd neb yn alluog i fyned i fyny i dir Seion ar y dyfroedd, ond yr hwn sydd yn uniawn o galon. Ac megys y darfu i mi, yr Arglwydd, yn y dechreuad felldithio y tir, felly yn y dyddiau diweddaf mi a'i bendigais ef, yn ei amser, er gwasanaeth fy saint, fel y byddo iddynt hwy gyfranogi o'i frasder. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, yr hyn wyf yn ddywedyd wrth un yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb, fod i chwi ragrybyddio eich brodyr mewn perthynas i'r dyfroedd hyn, nad oes iddynt ddyfod arnynt wrth deithio, rhag i'w ffydd fethu, ac iddynt gael eu dal yn ei maglau; myfi, yr Arglwydd, a osodais, a'r dinystrydd sydd yn marchogaeth ar ei wyneb, ac nid wyf yn galw y gosodiad hwnw yn ol; myfi, yr Arglwydd, oeddwn yn ddig wrthych ddoe, ond heddyw y mae fy nigofaint wedi ei droi ymaith. Gan hyny bydded iddynt hwy mewn perthynas i'r rhai yr wyf wedi llefaru, fod iddynt gymmeryd eu taith mewn brys; etto yr wyf yn dywedyd wrthych, bydded iddynt gymmeryd eu taith mewn brys; ac nid oes wahaniaeth genyf fi, yn mhen ychydig, os bydd iddynt lanw eu cenadiaeth, pa un a ânt dros y dwfr neu ar hyd y tir; bydded i hyn gael ei wneuthur yn ol fel y barnont hwy yn oreu yn ol llaw.

4. Ac yn awr mewn perthynas i'm gweision Sidney Rigdon, a Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, na fydded iddynt hwy ddyfod etto ar y dyfroedd, oddieithr iddo fod ar y camlas, tra yn teithio i'w cartref-leoedd; neu, mewn geiriau ereill, nid oes iddynt ddyfod i deithio ar y dyfroedd, oddieithr ar y camlas. Wele, myfi, yr Arglwydd, a benodais ffordd i'm Saint deithio, ac wele, hon yw y ffordd,—wedi iddynt adael y camlas, rhaid iddynt fyned ar hyd y tir, yn gymmaint â'u bod wedi cael

eu gorchymyn i deithio a myned i fyny i dir Seion, a rhaid iddynt wneuthur megys plant Israel, sef codi eu pebyll ar hyd y ffordd.

5. Ac, wele, y gorchymyn hwn a roddwch chwi i'ch holl frodyr ; er hyny, i'r hwn y rhoddwyd gallu i orchymyn y dwfr-oedd, iddo ef y rhoddwyd gan yr Ysbryd i wybod ei holl ffyrdd ; gan hyny, bydded iddo wneyd megys y mae Ysbryd y Duw byw yn gorchymyn iddo, pa un ai ar y tir neu ar y dyfroedd, megys yr erys gyda mi i wneuthur yn ol llaw ; ac i chwi y rhoddwyd llwybr y Saint, neu y ffordd i Saint gwersyll yr Arglwydd i deithio. A thrachefn, yn wir, meddaf i chwi, ni chaiff fy ngweision Sidney Rigdon, a Joseph Smith, ieu., ac Oliver Cowdery, agor eu geneuau yn nghynnulleidfaoedd y drygionus, hyd oni chyrhaeddont Cincinnati ; ac yn y lle hwnw cant dderchafu eu lleisiau at Dduw yn erbyn y bobl hyny ; ïe, ato ef yr hwn y mae ei lid wedi ennyn yn erbyn eu drygioni ; pobl ag sydd yn agos yn addfed i ddinystr ; ac oddiyno bydded iddynt deithio tua chynnulleidfaoedd eu brodyr, canys y mae eu llafur, hyd y nod yn awr, yn eisieu yn fwy helaeth yn eu plith hwynt, nag yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus.

6. Ac yn awr mewn perthynas i'r gweddill, bydded iddynt hwy deithio a chyhoeddi y gair yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus, yn gymmaint â'i fod wedi ei roddi ; ac yn gymmaint ag y gwnant hyn, hwy a gant ddiosg eu gwisgoedd, a byddant yn ddifrycheulyd ger fy mron i ; a bydded iddynt deithio gyda'u gilydd, neu yn ddau a dau, megys y byddo da yn eu golwg, ond yn unig na fydded i'm gwas Reynolds Cahoon, a'm gwas Samuel H. Smith, â'r rhai yr wyf yn llwyr foddlawn, gael eu gwahanu hyd oni ddychwelont i'w cartrefleoedd, a hyn er dyben doeth ynof fi. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, a'r hyn wyf yn ei ddywedyd wrthych chwi yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb, cymmerwch gysur, blant bychain, canys yr wyf fi yn eich canol, ac nid wyf wedi eich gadael chwi ; ac yn gymmaint â'ch bod wedi ymostwng ger fy mron i, benditbion y deyrnas ydynt eiddoch chwi. Gwregyswch eich lwynau a byddwch wyliadwrus, a byddwch sobr, gan edrych allan am ddyfodiad Mab y dyn, canys efe a ddaw mewn awr na thybioch chwi. Gweddiwch yn wastadol nad eloch i brofedigaeth, fel y galloch oddef dydd ei ddyfodiad, pa un ai mewn bywyd neu mewn angeu. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXIII.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1831.

1. Wele, a gwrandewch, O chwi henuriaid fy eglwys, medd yr Arglwydd eich Duw, sef Iesu Grist, eich eiriolwr, yr hwn sydd yn adwaen gwendid dyn, a pha fodd i gynnorthwyo y rhai a demtir; ac yn wir, fy llygaid ydynt ar y rhai hyny sydd heb fyned i fyny hyd yn hyn i dir Seion; gan hyny nid yw eich cenadwri wedi ei llanw etto; er hyny yr ydych yn fendigedig, canys y mae y dystiolaeth a ddygasoch wedi ei hysgrifenu yn y nef i'r angylion edrych arni, a hwy a lawenychant drosoch chwi, a'ch pechodau a faddeuwyd i chwi.

2. Ac yn awr parhewch eich taith. Ymgynnullwch ar dir Seion, a chynnaliwch gyfarfod a chydlawenhewch, ac offrymwch sacrament i'r Goruchaf; yna chwi a ellwch ddychwelyd a dwyn tystiolaeth, ïe, oll ynghyd, neu yn ddau a dau, megys y gweloch yn dda; nid oes wahaniaeth genyf fi, yn unig byddwch ffyddlawn, a chyhoeddwch newyddion da i drigolion y ddaear, neu yn mhlith cynnulleidfaoedd y drygionus. Wele, myfi, yr Arglwydd, a'ch dygais chwi ynghyd, fel y cyflawnid yr addewid, y byddai i'r ffyddlawn yn eich plith chwi gael eu cadw a chydlawenychu yn nhir Missouri. Myfi, yr Arglwydd, a addewais i'r ffyddlawn, ac nis gallaf fod yn gelwyddog.

3. Myfi, yr Arglwydd, wyf yn foddlawn, os oes neb yn eich plith chwi yn ewyllysio marchogaeth ar geffylau, neu ar fulod, neu mewn cerbydau, caiff' dderbyn y fendith hon, os derbynia hi o law yr Arglwydd, gyda chalon ddiolchgar yn mhob peth. Y pethau hyn a arosant gyda chwi i'w gwneuthur yn ol eich barn a chyfarwyddiadau yr Ysbryd. Wele, y deyrnas sydd eiddoch chwi. Ac wele, a llyna, yr wyf fi gyda'r ffyddlawn yn wastadol. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXIV.

Eglurhad ar yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, Penod 7, *adnod* 14.

1. Canys y gwr digred a santeiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a santeiddir trwy y gwr; pe amgen aflan fyddai eich plant, eithr yn awr santaidd ydynt.

2. Yn awr, yn nyddiau yr apostolion yr oedd cyfraith yr enwaediad i'w chael yn mhlith yr holl Iuddewon nad oeddynt yn credu efengyl Iesu Grist. A dygwyddodd i amryson mawr gyfodi yn mhlith y bobl mewn perthynas i gyfraith yr enwaediad, canys yr oedd y gwr digred yn ewyllysio i'w blant gael eu henwaedu, a dyfod yn ddarostyngedig i gyfraith Moses, yr hon gyfraith oedd wedi ei chyflawni.

3. A daeth oddiamgylch fod y plant a ddygid i fyny mewn darostyngiad i gyfraith Moses, yn cadw traddodiadau eu tadau, ac ni chredent efengyl Crist, trwy yr hyn y daethant yn ansantaidd; gan hyny, o herwydd yr achos hwn yr apostol a ysgrifenodd at yr eglwys, gan roddi iddynt orchymyn, nid o eiddo yr Arglwydd, ond o'i eiddo ei hun, nad oedd i gredadyn gael ei uno ag anghredadyn, oddieithr i gyfraith Moses gael ei diddymu yn eu plith hwynt, fel y byddai i'w plant aros heb enwaediad; ac felly diddymid y traddodiad, yr hwn sydd yn dywedyd fod plant bychain yn ansantaidd; canys yr oedd i'w gael yn mhlith yr Iuddewon; ond plant bychain ydynt santaidd, gan eu bod wedi eu santeiddio trwy Iawn Iesu Grist; a hyn a feddylia yr ysgrythyrau.

DOSRAN LXXV.

Dadguddiad a roddwyd Hydref, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth fy ngwas William E. M'Lellin, bendigedig ydych chwi, yn gymmaint â'ch bod wedi troi ymaith oddiwrth eich drygioni, ac wedi derbyn fy ngwirioneddau, medd yr Arglwydd eich Prynwr, Iachawdwr y byd, sef cynnifer ag a gredant yn fy enw i. Yn wir, meddaf i chwi, bendigedig ydych chwi am dderbyn fy nghyfammod tragywyddol, sef cyflawnder fy efengyl, a anfonwyd allan i blant dynion, fel y caffent fywyd, a chael eu gwneyd yn gyfranogion o'r gogoniannau sydd i gael eu dadguddio yn y dyddiau diweddaf, megys yr ysgrifenwyd gan y prophwydi a'r apostolion yn y dyddiau gynt.

2. Yn wir, meddaf i chwi, fy ngwas William, yr ydych chwi yn lân, ond nid oll; edifarhewch, gan hyny, am y pethau nad ydynt foddhaol yn fy ngolwg i, medd yr Arglwydd, canys yr Arglwydd a'u dengys hwynt i chwi. Ac yn awr, yn wir, myfi,

yr Arglwydd, a ddangosaf pa beth a ewyllysiaf mewn perthynas i chwi, neu pa beth yw fy ewyllys mewn perthynas i chwi; wele, yn wir, meddaf i chwi, fy ewyllys yw fod i chwi gyhoeddi yr efengyl o dir o dir, ac o ddinas i ddinas; ïe, yn yr ardaloedd hyny o amgylch y lleoedd nad yw wedi cael ei chyhoeddi.

3. Na thriga lawer o ddyddiau yn y lle hwn; na ddos i fyny i dir Seion etto; ond yn gymmaint ag y gellwch anfon, anfonwch; heblaw hyny, na feddylia am dy feddiannau. Dos i'r tiroedd dwyreiniol, dwg dystiolaeth yn mhob lle, i bob pobl, ac yn eu synagogau, gan ymresymu â'r bobl.

4. Bydded i'm gwas Samuel H. Smith fyned gyda chwi, ac nac ymadewch ag ef, a rhoddwch iddo addysgiadau; a'r hwn sydd ffyddlawn a wneir yn gryf yn mhob lle, a myfi yr Arglwydd, a âf gyda chwi.

5. Gosodwch eich dwylaw ar y claf, a hwy a iacheir. Na ddychwelwch hyd oni fyddo i mi yr Arglwydd, eich anfon. Byddwch amyneddgar mewn cystudd. Ceisiwch a chwi a gewch. Curwch ac agorir i chwi. Na cheisiwch gael eich llwytho. Ymwrthodwch â phob anghyfiawnder. Na wna odineb, yr hon sydd demtasiwn â pha un y cefaist dy flino. Cadw y dywediadau hyn, canys gwir a ffyddlawn ydynt, a thi a ogoneddi dy swydd, ac a yru lawer o bobl tua Seion gyda chaniadau o lawenydd tragywyddol ar eu penau. Parha yn y pethau hyn hyd y diwedd, a thi a gai goron bywyd tragywyddol ar ddeheulaw fy Nhad, yr hwn sydd yn llawn gras a gwirionedd. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd eich Duw, eich Prynwr, sef Iesu Grist. Amen.

DOSRAN LXXVI.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1832. *Yr urdd a roddwyd gan yr Arglwydd i Enoch, i'r dyben o sefydlu y tlawd.*

1. Yr Arglwydd a lefarodd wrth Enoch, gan ddywedyd, Gwrandewch arnaf fi, medd yr Arglwydd eich Duw, yr hwn ydych wedi eich ordeinio i arch-offeiriadaeth fy eglwys, y rhai ydych wedi ymgynnull ynghyd; a chlust-ymwrandewch ar gynghor yr hwn a'ch ordeiniodd oddiuchod, yr hwn a lefara yn eich clustiau eiriau doethineb, fel y byddo iachawdwriaeth i

chwi yn y peth hwnw a gyflwynasoch ger fy mron i, medd yr Arglwydd Dduw; canys yn wir, meddaf i chwi, y mae yr amser wedi dyfod, ac y mae yn awr wrth law; ac wele, a llyna y mae yn anghenrhaid fod cydgorfforiad o'm pobl, i reoleiddio a sefydlu achosion yr ystordy i dlodion fy mhobl, yn y lle hwn, yn gystal ag yn nhir Seion, neu mewn geiriau ereill, dinas Enoch, er sefydliad a threfn barhaus a thragywyddol i'm heglwys, er dwyn yn mlaen yr achos ag ydych wedi fabwysiadu er iachawdwriaeth dyn, ac er gogoniant eich Tad yr hwn sydd yn y nef, fel y byddoch gyfuwch yn rhwymau pethau nefol; ïe, a phethau daearol hefyd, er caffael pethau nefol; canys os mad ydych yn gyfartal mewn pethau daearol, nis gellwch fod yn gyfartal mewn cael pethau nefol; canys os ewyllysiwch fod i mi roddi i chwi le yn y byd nefol, rhaid i chwi barotoi eich hunain trwy wneuthur y pethau a orchymynais i chwi ac a ofynais genych.

2. Ac yn awr, yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, y mae yn addas i bob peth gael eu gwneuthur er fy ngogoniant i, genych chwi y rhai a unwyd ynghyd yn yr urdd hwn; neu mewn geiriau ereill, bydded i'm gwas Ahasdah, a'm gwas Gazelam, neu Enoch, a'm gwas Pelagoram, eistedd mewn cynghor gyda'r Saint sydd yn Seion; onite Satan a geisia droi eu calonau ymaith oddiwrth y gwirionedd, fel yr elont yn ddeillion ac na ddeallant y pethau a barotowyd iddynt; gan hyny gorchymyn yr wyf yn ei roddi i chwi, i barotoi a chydgorffori eich hunain, trwy rwymau neu gyfammod tragywyddol yr hwn nis gellir ei dori.

3. A'r hwn a'i toro a gaiff golli ei swydd a'i sefyllfa yn yr eglwys, ac a gaiff ei draddodi i gernodiau Satan hyd ddydd y prynedigaeth. Wele, hwn yw y parotoad â pha un y parotoaf chwi, a'r sylfaen, a'r esiampl a roddaf i chwi, trwy yr hyn y gellwch gyflawni y gorchymynion a roddwyd i chwi, fel trwy fy rhagluniaeth, er yr holl orthrymder a syrthia arnoch, y gallo yr eglwys sefyll yn anymddibynol uwchlaw pob creadur arall islaw y byd nefol, fel y deloch i fyny at y goron a barotowyd i chwi, ac y caffoch eich gwneyd yn llywodraethwyr ar lawer o deyrnasoedd, medd yr Arglwydd Dduw, Sanct Seion, yr hwn a sefydlodd sylfaeni Adam-ondi-Ahman; yr hwn a benododd Michael eich tywysog, ac a sefydlodd ei draed, ac a'i

gosododd ar yr uchelder, ac a roddodd iddo allweddau iachawdwriaeth dan gynghor a chyfarwyddyd yr Un Santaidd, yr hwn sydd heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes.

4. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, plant bychain ydych, ac ni ddeallasoch etto pa fendithion mawrion sydd gan y Tad yn ei ddwylaw ei hun ac wedi eu parotoi i chwi; ac nis gallwch oddef yr holl bethau yn awr, er hyny cymmerwch gysur, canys myfi a'ch arweiniaf yn mlaen; y deyrnas sydd eiddoch chwi, a'i bendithion sydd eiddoch chwi; a goludoedd tragywyddoldeb sydd eiddoch chwi; a'r hwn sydd yn derbyn pob peth gyda diolchgarwch a wneir yn ogoneddus; a phethau y byd hwn a ychwanegir iddo ef, hyd y nod ar eu canfed, ïe, ychwaneg; gan hyny gwnewch y pethau a orchymynais i chwi, medd eich Prynwr, sef y mab Ahmam, yr hwn sydd yn parotoi pob peth cyn eich cymmeryd chwi; canys chwi ydych eglwys y cyntaf-anedig, ac efe a'ch cymmer chwi i fyny mewn cwmwl, ac a benoda i bob dyn ei gyfran. A'r hwn sydd oruchwyliwr ffyddlawn a da a etifedda bob peth. Amen.

DOSRAN LXXVII.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1832.

1. Yn wir, meddaf i chwi, mai fy ewyllys i yw, fod i'm gwas Jared Carter fyned etto i'r gwledydd dwyreiniol, o le i le, ac o ddinas i ddinas, yn awdurdod yr ordeiniad â pha un yr ordeiniwyd ef, gan gyhoeddi newyddion da o lawenydd mawr, sef yr efengyl dragywyddol; a myfi a anfonaf arno ef y Dyddanydd, yr hwn a ddysga iddo y gwirionedd a'r ffordd y mae iddo fyned; ac yn gymmaint â'i fod yn ffyddlawn, myfi a'i coronaf ef etto ag ysgubau; gan hyny, bydded eich calon yn llawen, fy ngwas Jared Carter, ac nac ofnwch medd eich Arglwydd, sef Iesu Grist. Amen.

DOSRAN LXXVIII.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1832.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy ngwas Stephen Burnett, ewch chwi, ewch chwi i'r holl fyd, a

phregethwch yr efengyl i bob creadur a ddaw dan swn eich llais; ac yn gymmaint â'ch bod yn dymuno cydymmaith, mi a roddaf i chwi fy ngwas Eden Smith; gan hyny, ewch chwi a phregethwch fy efengyl, pa un ai i'r gogledd neu i'r dëau, i'r dwyrain neu i'r gorllewin, nid oes wahaniaeth, canys nis gellwch gyfeiliorni; gan hyny, cyhoeddwch y pethau a glywsoch ac a gredwch yn sicr, ac a wyddoch eu bod yn wir. Wele, hyn yw ei ewyllys ef a'ch galwobd chwi, eich Prynwr, sef Iesu Grist. Amen.

DOSRAN LXXIX.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1832.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth fy ngwas John Murdock, tydi a alwyd i fyned i'r gwledydd dwyreiniol o dŷ i dŷ, o bentref i bentref, ac o ddinas i ddinas, i gyhoeddi fy nhragywyddol efengyl i'r trigolion hyny yn nghanol erlidigaeth a drygioni; a phwy bynag a'ch derbynio chwi a'm derbynia i, a chwi a gewch awdurdod i gyhoeddi fy ngair mewn arddangosiad o'm Hysbryd Santaidd; a phwy bynag a'ch derbynio chwi megys plentyn bychan, a dderbynia fy nheyrnas, a bendigedig ydynt hwy, canys hwy a gant drugaredd; a phwy bynag a'ch gwrthodo chwi, a wrthodir gan fy Nhad, a'i dŷ; a chwi a lanhewch eich traed yn y lleoedd dirgel mewn ffordd o dystiolaeth yn eu herbyn hwynt.

2. Ac wele, a llyna, yr wyf yn dyfod ar frys i farn, i argyhoeddi pawb o'u gweithredoedd annuwiol y rhai a gyflawnasant yn fy erbyn i, megys y mae yn ysgrifenedig am danaf fi yn rhol y llyfr. Ac yn awr, yn wir, meddaf i chwi nid yw yn fuddiol i chwi fyned hyd oni fyddo eich plant wedi darparu iddynt, ac yn garedig wedi eu danfon i fyny at yr esgob yn Seion; ac yn mhen ychydig flynyddoedd, os gofyni genyf fi, ti a elli fyned i fyny hefyd i'r tir daionus, i feddiannu dy etifeddiaeth; onite ti a gai barhau i gyhoeddi fy efengyl hyd oni chymmerir di. Amen.

DOSRAN LXXX.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1832.

1. Yn wir, yn wir, yr wyf yn dywedyd wrth fy ngwas Fred-

erick G. Williams, gwrandewch ar ei lais ef sydd yn llefaru, ar air yr Arglwydd eich Duw, a gwrandewch ar yr alwad â pha un y galwyd chwi, hyd y nod i fod yn arch-offeiriad yn fy eglwys, a chynghorwr i'm gwas Joseph Smith, ieu., i'r hwn y rhoddais allweddau y deyrnas, y rhai a berthynant yn wastad i llywyddiaeth yr arch-offeiriadaeth; gan hyny, yn wir, yr wyf yn ei gydnabod ef, ac a'i bendithiaf ef, ac hefyd ti, gan dy fod yn ffyddlawn mewn cynghor, yn y swydd a benodais i chwi, mewn gweddi yn wastad yn llafar ac yn dy galon, yn gyhoeddus ac yn ddirgel, hefyd yn dy weinidogaeth mewn cyhoeddi yr efengyl yn nhir y rhai byw, ac yn mhlith dy frodyr; ac wrth wneuthur y pethau hyn ti a wnai y daioni mwyaf i'th gyddynion, ac a ychwanegi ei ogoniant ef yr hwn yw dy Arglwydd; gan hyny, bydd ffyddlawn, aros yn y swydd a benodais i ti, amgeledda y gwan, cyfoda i fyny y dwylaw sydd yn gostwng i lawr, a chryfha y gliniau llesg; ac os byddi yn ffyddlawn hyd y diwedd, ti a gai goron o anfarwoldeb a bywyd tragywyddol yn y trigfanau a barotoais i yn nhŷ fy Nhad. Wele, a llyna, y rhai hyn ydynt eiriau Alpha ac Omega, sef Iesu Grist. Amen.

DOSRAN LXXXI.

Gair o Ddoethineb, er lles Cynghor o Archoffeiriaid, ymgynnulledig yn Kirtland, a'r Eglwys; ac hefyd y Saint yn Seion. I'w anfon yn anerch—nid trwy orchymyn neu orfodiad, ond trwy ddadguddiad a gair o ddoethineb, yn dangos trefn ac ewyllys Duw yn iachawdwriaeth dymmorol pob Saint yn y dyddiau diweddaf. A roddwyd er egwyddor gydag addewid, wedi ei gyfaddasu at gyrhaeddiadau y gwan a'r gwanaf o'r holl Saint, y rhai a elwir neu a ellir eu galw yn Saint.

1. Wele, yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, mewn canlyniad i'r drygioni a'r bwriadau ag ydynt ac a fyddant yn bodoli yn nghalonau dynion bradwrus yn y dyddiau diweddaf, yr wyf wedi eich rhybyddio chwi, a'ch rhagrybyddio, trwy roddi i chwi y gair hwn o ddoethineb trwy ddadguddiad, yn gymmaint â bod un dyn yn yfed gwin neu ddiod gadarn yn eich plith chwi, wele nid yw dda, nac yn addas

yn ngolwg eich Tad, ond yn unig mewn ymgynnull ynghyd i offrymu i fyny eich sacramentau ger ei fron ef. Ac wele, hyn a ddylai fod yn win, ïe, gwin pur o rawn y winwydden, o'ch gwneuthuriad eich hunain. A thrachefn, diodydd cryfion nid ydynt i'r bola, eithr at olchi eich cyrff. A thrachefn, tybaco nid yw i'r corff, nac ychwaith i'r bola, ac nid yw dda i ddyn, eithr sydd lysieuyn at friwiadau a phob anifeiliaid cleifion, i'w ddefnyddio gyda synwyr a medr. A thrachefn, diodydd twymnion nid ydynt i'r corff na'r bola.

2. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, pob llysiau iachus a ordeiniodd Duw i gyfansoddiad, natur a gwasanaeth dyn. Pob llysieuyn yn ei dymmor, a phob ffrwyth yn ei dymmor; yr holl rai hyn i gael eu defnyddio gyda doethineb a diolchgarwch. Ië, cig anifeiliaid hefyd, ac ehediaid yr awyr, myfi, yr Arglwydd a'u hordeiniais er defnydd dyn gyda diolchgarwch; er hyny y maent i gael eu defnyddio mewn cymmedroldeb; a boddhaol genyf fi fyddai peidio eu defnyddio ond yn unig yn amser gauaf, neu oerfel, neu newyn. Pob grawn a ordeiniwyd at wasanaeth dyn a bwystfilod, i fod yn ffon bywyd, nid yn unig i ddyn eithr hefyd i fwystfilod y maes, ac ehediaid y nef, a'r holl anifeiliaid gwylltion sydd yn rhedeg neu yn ymlusgo ar y ddaear; a'r rhai hyn a wnaeth Duw er defnydd dyn yn unig mewn amserau o newyn a chwant ymborth mawr.

3. Pob grawn sydd yn dda yn ymborth i ddyn, megys hefyd ffrwyth y winwydden, yr hon sydd yn dwyn ffrwyth, pa un ai yn y ddaear neu uwchlaw y ddaear. Er hyny, gwenith i ddyn, ac yd i'r ŷch, a cheirch i'r ceffyl, a rhyg i'r ehediaid a moch, ac i holl fwystfilod y maes, ac haidd i bob anifeiliaid gwasanaethgar, ac at ddiodydd gweinion, megys hefyd pob grawn arall. A'r holl saint ag ydynt yn cofio i gadw a gwneuthur yr ymadroddion hyn, ac yn rhodio mewn ufydd-dod i'r gorchymynion, a dderbyniant iechyd yn eu bogail, a mêr i'w hesgyrn, ac a gant afael mewn doethineb a thrysorau mawrion o wybodaeth, sef trysorau cuddiedig; a chant redeg heb ddiffygio, a rhodio heb lewygu; a myfi, yr Arglwydd, wyf yn rhoddi iddynt addewid, y bydd i'r angel dinystriol fyned heibio iddynt, megys plant Israel, a pheidio eu lladd hwynt. Amen.

DOSRAN LXXXII.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1833.

1. Yn wir, meddaf i chwi, fy nghyfeillion, yr wyf yn llefaru wrthych â'm llais, sef llais fy Ysbryd, fel y byddo i mi ddangos i chwi fy ewyllys mewn perthynas i'ch brodyr yn nhir Seion, llawer o ba rai sydd yn wir ostyngedig, ac yn ceisio yn ddiwyd i ddysgu doethineb a chael allan y gwirionedd. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, bendigedig yw pawb o'r cyfryw, canys hwy a gant, canys myfi yr Arglwydd, a ddangosaf drugaredd i'r holl rai llariaidd, ac ar bawb a ewyllysiwyf, fel y'm cyfiawnheir pan dygaf hwynt i farn.

2. Wele, meddaf i chwi, mewn perthynas i'r ysgol yn Seion, myfi, yr Arglwydd, a'm llwyr foddlonir fod ysgol i fod yn Seion, ac hefyd â'm gwas Parley P. Pratt, canys efe a arosa ynof fi; ac yn gymmaint â'i fod ef yn parhau i aros ynof fi, caiff ef barhau i lywyddu dros yr ysgol yn nhir Seion, hyd oni roddwyf iddo orchymynion ereill; a myfi a'i bendithiaf ef â lliosogrwydd o fendithion, mewn esbonio pob ysgrythyrau a dirgeledigaethau er adeiladaeth yr ysgol, a'r eglwys yn Seion; ac i'r gweddill o'r ysgol, myfi, yr Arglwydd, wyf yn foddlawn dangos trugaredd, er hyny y mae rhai ag y bydd yn anghenrhaid eu ceryddu, a'u gweithredoedd a wneir yn adnabyddus. Y fwyell a osodwyd ar wreiddyn y preniau, a phob pren nad yw yn dwyn ffrwyth da a dòrir i lawr ac a deflir i'r tân; canys myfi, yr Arglwydd, a'i llefarais. Yn wir, meddaf i chwi, pawb yn eu plith hwynt ag a wyddant fod eu calonau yn uniawn, ac yn ddrylliog, a'u hysbryd yn edifeiriol, ac yn foddlawn i gadw eu cyfammodau trwy aberth, ïe, pob aberth a orchymynaf fi, yr Arglwydd, y maent oll yn dderbyniol genyf fi; canys myfi, yr Arglwydd, a wnaf iddynt ddwyn allan megys pren tra ffrwythlawn, yr hwn sydd wedi ei blanu mewn tir da, wrth afon bur, yr hwn sydd yn ddwyn ffrwyth gwerthfawr lawer.

3. Yn wir, meddaf i chwi, mai fy ewyllys yw fod i dŷ gael ei adeiladu i mi yn nhir Seion, megys y cynllun a roddais i chwi; ïe, bydded iddo gael ei adeiladu yn fuan, trwy ddegymiad fy mhobl; wele, hyn yw y degymiad a'r aberth a offrymaf fi, yr Arglwydd, ar eu dwylaw, fel y byddo i dŷ gael ei

adeiladu i mi er iachawdwriaeth Seion, yn lle i'r holl Saint dalu diolch, ac yn lle i addysgu pawb a elwir i waith y weinidogaeth yn eu holl wahanol alwedigaeth a swyddau, fel y byddo iddynt gael eu perffeithio i ddeall eu gweinidogaeth—mewn gwybodaeth, mewn egwyddor, ac mewn athrawiaeth—yn mhob peth a berthyna i deyrnas Dduw ar y ddaear, allweddau yr hon deyrnas a gyflwynwyd i chwi.

4. Ac yn gymmaint ag y bydd i'm pobl adeiladu tŷ i mi yn enw yr Arglwydd, ac na oddefant i un peth aflan ddyfod iddo fel yr haloger ef, fy ngogoniant a orphwys arno; ïe, a'm presennoldeb a fydd yno, canys mi a ddeuaf iddo, a'r holl rai pur eu calon a ddeuant iddo a gant weled Duw; ond os bydd iddo gael ei halogi, ni ddeuaf fi iddo, ac ni chaiff fy ngogoniant fod yno, canys ni ddeuaf fi i demlau ansantaidd.

5. Ac yn awr, wele, os bydd i Seion wneuthur y pethau hyn hi a lwydda, a ymwasgara, ac a ddaw yn ogoneddus iawn, yn fawr iawn, ac yn ofnadwy iawn, a chenedloedd y ddaear a'i hanrhydeddant hi, ac a ddywedant, Yn ddiau, Seion yw dinas ein Duw, ac yn ddiau nis dichon Seion syrthio, na chael ei symud allan o'i lle, canys Duw sydd yno, a llaw yr Arglwydd sydd yno, ac efe a dyngodd trwy nerth ei allu, i fod ei hiachawdwriaeth a'i thwr uchel; gan hyny, yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Bydded i Seion lawenychu, canys hon yw Seion—Y PUR O GALON; gan hyny, bydded i Seion lawenychu, tra fyddo yr holl rai drygionus yn galaru; canys wele, a llyna, dialedd a ddaw yn gyflym ar y drygionus megys y corwynt, a phwy a ddianc rhagddo; ffiangell yr Arglwydd a basia drosodd yn y nos ac yn y dydd, a'r mynegiad am hyny a flina yr holl bobl; etto, ni chaiff ei hattal hyd oni ddaw yr Arglwydd; o herwydd digofaint yr Arglwydd sydd wedi ei ennyn yn erbyn eu ffieidd-derau a'u holl weithredoedd drygionus; er hyny Seion a ddianga, os bydd iddi gadw yr holl bethau a orchymynais iddi; ond os na fydd iddi gadw yr hyn oll a orchymynais iddi, myfi a ymwelaf â hi yn ol ei holl weithredoedd, â gorthrymder caled, â haint, â phla, â chleddyf, â dialedd, â than ysol; er hyny, darllener ef yr unwaith hon yn eu clustiau, fy mod i, yr Arglwydd, wedi derbyn eu hoffrwm, ac os na phecha mwyach, ni ddaw neb o'r pethau hyn arni hi, a mi a'i bendithiaf hi â bendithion, ac a liosogaf liosogrwydd o

fendithion arni hi, ac ar ei chenedlaethau yn oes oesoedd, medd yr Arglwydd eich Duw. Amen.

DOSRAN LXXXIII.

Dadguddiad a roddwyd Mai, 1833.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, daw oddiamgylch y bydd i bob enaid a ymwrthoda â'i bechodau, ac a ddaw ataf fi, ac a alwa ar fy enw, ac a ufyddha i'm llais, ac a gadwa fy ngorchymynion, gael gweled fy wyneb, a gwybod fy mod i, ac mai myfi yw y gwir oleuni sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd; ac fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof fi, a'r Tad a mi un ydym; y Tad o herwydd iddo roddi i mi o'i gyflawnder, a'r Mab o herwydd i mi fod yn y byd a gwneuthur cnawd fy nhabernacl, a thrigo yn mhlith meibion dynion. Yr oeddwn i yn y byd, ac a dderbyniais gan fy Nhad, a'i weithredoedd ef oeddynt eglur; a Ioan a welodd ac a ddygodd dystiolaeth o gyflawnder fy ngogoniant, a chyflawnder tystiolaeth Ioan sydd i gael ei dadguddio yn ol llaw; ac efe a ddygodd dystiolaeth, gan ddywedyd, Myfi a welais ei ogoniant, ei fod ef yn y dechreu cyn bod y byd; gan hyny, yn y dechreuad yr oedd y Gair, canys efe oedd y Gair, sef cenadwr iachawdwriaeth, goleuni a Phrynwr y byd; ysbryd y gwirionedd, yr hwn a ddaeth i'r byd, o herwydd trwyddo ef y gwnaed y byd, ac ynddo ef yr oedd bywyd dynion a goleuni dynion. Y bydoedd a wnaed ganddo ef; dynion a wnaed ganddo ef; pob peth a wnaed ganddo ef, a thrwyddo ef, ac erddo ef. A myfi, Ioan, a ddygais dystiolaeth fy mod wedi gweled ei ogoniant, megys gogoniant unig-anedig y Tad, yn llawn gras a gwirionedd, sef ysbryd y gwirionedd, yr hwn a ddaeth ac a drigodd yn y cnawd, ac a breswyliodd yn ein plith ni.

2. A myfi, Ioan, a welais na dderbyniodd o'r cyflawnder ar y cyntaf, ond iddo dderbyn gras am ras; ac ni dderbyniodd o'r cyflawnder ar y cyntaf, eithr parhaodd o ras i ras, hyd oni dderbyniodd gyflawnder, ac fel hyn y galwyd ef yn Fab Duw, o herwydd na dderbyniodd o'r cyflawnder ar y cyntaf. A myfi, Ioan, a ddygais dystiolaeth, ac wele, y nefoedd a agorwyd, a'r Ysbryd Glân a ddisgynodd arno ef ar ffurf colomen, ac a eisteddodd

arno, a daeth llais allan o'r nef, gan ddywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab. A myfi, Ioan, a ddygais dystiolaeth iddo ef dderbyn cyflawnder gogoniant y Tad; ac efe a dderbyniodd bob gallu, yn y nef ac ar y ddaear, a gogoniant y Tad oedd gydag ef, canys efe a breswyliodd ynddo ef.

3. A daw oddiamgylch, os byddwch chwi yn ffyddlawn, chwi a dderbyniwch y cyflawnder o dystiolaeth Ioan. Yr wyf yn rhoddi i chwi yr ymadroddion hyn, fel y byddo i chwi ddeall a gwybod pa fodd i addoli, fel y deloch at y Tad yn fy enw i, ac mewn amser priodol y derbynioch o'i gyflawnder ef; canys os bydd i chwi gadw fy ngorchymynion, chwi a dderbyniwch o'i gyflawnder ef, a chewch eich gogoneddu ynof fi, megys yr wyf fi yn y Tad; gan hyny, meddaf i chwi, chwi a dderbyniwch ras am ras.

4. Ac yn awr, yn wir, meddaf i chwi, yr oeddwn i yn y dechreuad gyda'r Tad, a myfi yw y cyntaf-anedig; a'r holl rai a genedlir trwof fi ydynt gyfranogion o ogoniant yr unrhyw, a hwy ydynt eglwys y cyntaf-anedig. Yr oeddech chwi hefyd yn y dechreuad gyda'r Tad; yr hyn sydd Ysbryd, sef Ysbryd y gwirionedd, a gwirionedd yw gwybodaeth o bethau megys y maent, ac megys yr oeddynt, ac megys y maent i ddyfod; a pha beth bynag sydd fwy neu llai nâ hyn, sydd ysbryd yr un drwg hwnw, yr hwn sydd gelwyddwr o'r dechreuad. Ysbryd y gwirionedd sydd o Dduw. Myfi yw ysbryd y gwirionedd, a Ioan a ddygodd dystiolaeth am danaf fi, gan ddywedyd, Efe a dderbyniodd gyflawnder o wirionedd, ïe, hyd y nod o bob gwirionedd, ac nid oes un dyn yn derbyn cyflawnder oddieithr iddo gadw ei orchymynion ef. Yr hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef sydd yn derbyn gwirionedd a goleuni, hyd oni ogonedder ef mewn gwirionedd a'i fod yn gwybod pob peth.

5. Dyn oedd hefyd yn y dechreuad gyda Duw. Dealltwriaeth, neu oleuni gwirionedd, ni chrewyd ac ni wnaed, ac yn wir nis gall hyny fod ychwaith. Pob gwirionedd sydd anymddibynol yn y cylch hwnw yn mha un y gosododd Duw ef, i weithredu drosto ei hun, megys pob dealltwriaeth hefyd, onite nid oes dim bodoliaeth. Wele, yma y mae goruchwyliaeth dyn, ac yma y mae condemniad dyn, o herwydd yr hyn oedd o'r dechreuad sydd yn dra eglur iddynt hwy, ac ni dderbyniant hwy y goleuni. A phob dyn na dderbynia ei ysbryd y goleuni, sydd dan

gondemniad, canys dyn sydd ysbryd. Yr elfenau ydynt dragywyddol, ac ysbryd ac elfen, anwahanol gyssylltiedig, a dderbyniant gyflawnder o lawenydd; ac wedi eu gwahanu, nis gall dyn dderbyn cyflawnder o lawenydd. Yr elfenau ydynt dabernacl Duw; ïe, dyn sydd yn dabernacl Duw, sef temlau; a pha deml bynag a halogir, Duw a ddinystria y deml hòno.

6. Gogoniant Duw yw dealltwriaeth, neu, mewn geiriau ereill, goleuni a gwirionedd; goleuni a gwirionedd a ymwrthodant â'r un drwg hwnw. Pob ysbryd dyn oedd yn ddiniwed yn y dechreuad, ac wedi i Dduw waredu dyn rhag y cwymp, dynion a ddaethant drachefn i'w cyflwr mabanaidd, yn ddiniwed gerbron Duw. A'r un drwg hwnw sydd yn dyfod ac yn cymmeryd ymaith oleuni a gwirionedd, trwy anufydd-dod, oddiwrth blant dynion, ac o herwydd traddodiad eu tadau. Eithr yr ydwyf fi wedi gorchymyn i chwi ddwyn eich plant i fyny mewn goleuni a gwirionedd; ond, yn wir, meddaf i chwi, fy ngwas Frederick G. Williams, yr ydych chwi wedi aros dan y condemniad hwn; nid ydych wedi dysgu i'ch plant oleuni a gwirionedd, yn ol y gorchymynion, ac y mae gan yr un drwg hwnw allu, hyd etto, drosoch chwi, a hyn yw yr achos o'ch cystudd. Ac yn awr gorchymyn wyf yn roddi i chwi, os bydd i chwi cael eich gwaredu, rhaid i chwi osod eich tŷ eich hun mewn trefn, canys y mae llawer o bethau heb fod yn iawn yn eich tŷ chwi.

7. Yn wir, yr wyf yn dywedyd wrth fy ngwas Sidney Rigdon, na ddarfu iddo mewn rhai pethau gadw y gorchymynion mewn perthynas i'w blant; gan hyny, yn gyntaf gosod dy dŷ mewn trefn.

8. Yn wir, yr wyf yn dywedyd wrth fy ngwas Joseph Smith, ieu., neu mewn geiriau ereill, mi a'ch galwaf yn gyfeillion, canys chwi ydych fy nghyfeillion, a chwi a gewch etifeddiaeth gyda mi. Myfi a'ch gelwais yn weision er mwyn y byd, a'u gweision hwy ydych er fy mwyn i; ac yn awr, yn wir, meddaf wrth Joseph Smith, ieu., nid ydych chwi wedi cadw y gorchymynion, ac yr ydych yn sefyll mewn anghen am gerydd gerbron yr Arglwydd. Anghenrhaid yw i'ch teulu edifarhau, a gwrthod rhai pethau, a thalu sylw mwy difrifol i'ch ymadroddion chwi, neu gael eu symud allan o'u lle. Yr hyn wyf yn ddywedyd wrth un yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb;

gweddiwch yn wastadol, rhag i'r un drwg hwnw gael gallu ynoch chwi, a'ch symud allan o'ch lle.

9. Fy ngwas Newel K. Whitney, hefyd esgob o'm heglwys, sydd ag anghen i'w geryddu a gosod ei deulu mewn trefn, a gweled eu bod yn fwy diwyd a gofalus gartref, a gweddio yn wastadol, onite hwy a symudir allan o'u lle.

10. Yn awr, yr wyf yn dywedyd wrthych chwi fy nghyfeillion, bydded i'm gwas Sidney Rigdon fyned i'w daith, a gwneyd brys, ac hefyd gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd, ac efengyl iachawdwriaeth, megys y rhoddaf iddo ymadrodd, a thrwy eich gweddi ffydd gydag un cydsyniad, mi a'i cynnaliaf ef.

11. A bydded i'm gwas Joseph Smith, ieu., a Frederick G. Williams, wneyd brys hefyd, a chaiff ei roddi iddynt hwy yn ol gweddi ffydd; ac yn gymmaint ag y cedwch fy ymadroddion, ni fydd i chwi gael eich terfysgu yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw.

12. Ac yn wir, meddaf i chwi, mai fy ewyllys i yw i chwi frysio i gyflawni fy ysgrythyrau, a chael gwybodaeth o hanesyddiaeth, ac o wledydd, ac o deyrnasoedd, o gyfreithiau Duw a dyn, a hyn oll er iechydwriaeth Seion. Amen.

DOSRAN LXXXIV.

Dadguddiad a roddwyd yr un amser.

1. A thrachefn, yn wir, meddaf i chwi, fy nghyfeillion, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi ddechreu y gwaith o osod allan a pharotoi dechreuad a sylfaen i ddinas estynfa Seion, yma yn nhir Kirtland, gan ddechreu ar fy nhŷ i; ac wele y mae yn rhaid iddo gael ei wneuthur yn ol y cynllun a roddais i chwi. A bydded i'r rhandir gyntaf ar y dëau gael ei chyssegru i mi at adeiladu tŷ i'r llywyddiaeth, at waith y llywyddiaeth, mewn cael dadguddiadau; ac at waith gweinidogaeth y llywyddiaeth, yn mhob peth a berthyna i'r eglwys a'r deyrnas.

2. Yn wir, meddaf i chwi, fod iddo gael ei adeiladu yn bymtheg a deugain wrth drigain a phum troedfedd yn y lled o hono ac yn yr hyd o hono, yn y cyntedd tufewnol; a bydd

cyntedd isaf a chyntedd uchaf, yn ol y cynllun a roddir i chwi yn ol llaw; a chaiff ei gyssegru i'r Arglwydd o'r sylfaen o hono, yn ol urdd yr offeiriadaeth, yn ol y cynllun a roddir i chwi yn ol llaw; a chaiff ei gyssegru yn hollol i'r Arglwydd at waith y llywyddiaeth. Ac ni fydd i chwi oddef i un peth aflan ddyfod i mewn iddo; a'm gogoniant a fydd yno, a'm presennoldeb a fydd yno; ond os caiff un peth aflan ddyfod i mewn iddo, ni fydd fy ngogoniant yno, a'm presennoldeb ni chaiff ddyfod i mewn iddo.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, yr ail randir ar y dëau a gaiff ei chyssegru i mi at adeiladu tŷ i mi, at argraffwaith y cyfieithad o'm hysgrythyrau, a'r holl bethau bynag a orchymynaf i chwi, a chaiff fod yn bymtheg a deugain wrth bump a thrigain troedfedd yn y lled o hono ac yn yr hyd o hono, yn y cyntedd tufewnol; a bydd cyntedd isaf a chyntedd uchaf; a'r tŷ hwn a gaiff ei gyssegru yn hollol i'r Arglwydd o'r sylfaen o hono, at waith yr argraff, yn mha bethau bynag y gorchymynaf i chwi, i fod yn santaidd, dihalog, yn ol y cynllun yn mhob peth, yn ol fel ei rhoddir i chwi.

4. Ac ar y drydedd rhandir y bydd i'm gwas Hyrum Smith dderbyn ei etifeddiaeth. Ac ar y rhandiroedd cyntaf ac ail ar y gogledd y bydd i'm gweision Reynolds Cahoon a Jared Carter dderbyn eu hetifeddiaeth, fel y gwnelont y gwaith a benodais iddynt, i fod yn gyfeisteddfod i adeiladu fy nhai, yn ol y gorchymyn a roddais i, yr Arglwydd Dduw, i chwi. Nid yw y ddau dŷ hyn i gael eu hadeiladu hyd oni roddwyf fi orchymyn i chwi mewn perthynas iddynt.

5. Ac yn awr, nid wyf yn rhoddi i chwi ychwaneg ar yr amser hwn. Amen.

DOSRAN LXXXV.

Dadguddiad i Joseph Smith, ieu., a roddwyd Mawrth, 1833.

1. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, fy mab, dy bechodau a feddeuwyd i ti, yn ol dy erfyniad, canys dy weddiau a gweddiau dy frodyr a ddaethant i fyny i'm clustiau; gan hyny, bendigedig ydwyt o hyn allan, sydd yn dal allweddau y deyrnas a roddwyd i ti; yr hon deyrnas sydd yn dyfod allan am y tro olaf.

2. Yn wir, meddaf i ti, ni fydd i allweddau y deyrnas hon fyth gael eu cymmeryd oddiwrthyt ti, cyhyd ag y byddot yn y byd, nac ychwaith yn y byd a ddaw; er hyny, trwot ti y caiff oraclau eu rhoddi i arall; ïe, hyd y nod i'r eglwys. A'r holl rai a dderbyniant oraclau Duw, bydded iddynt wylio pa fodd y daliant hwy, rhag iddynt gael eu cyfrif megys peth ysgafn, ac iddynt gael eu dwyn dan gondemniad trwy hyny; a thramgwyddo a syrthio, pan ddisgyno y tymhestloedd, ac i'r gwyntoedd chwythu, ac i'r gwlawogydd ddisgyn a churo ar eu tŷ.

3. A thrachefn, yn wir meddaf wrth dy frodyr, Sidney Rigdon a Frederick G. Williams, eu pechodau a faddeuwyd iddynt hwy hefyd, a chyfrifir hwy yn gyfuwch â thi mewn dàl allweddau y deyrnas olaf hon; megys hefyd, trwy eich gweinyddiad chwi, allweddau ysgol y prophwydi, yr hon a orchymynais i'w chydgorffori, fel trwy hyny y caffont eu perffeithio yn eu gweinidogaeth er iachawdwriaeth Seion, a chenedlaethau Israel, a'r Cenedloedd, cynnifer ag a gredant, fel trwy eich gweinidogaeth chwi y derbyniont y gair, a thrwy eu gweinidogaeth hwy yr elo y gair allan hyd derfynau y ddaear, i'r Cenedloedd yn gyntaf, ac yna, wele, a llyna, hwy a droant at yr Iuddewon; ac yna daw y dydd pan y bydd i fraich yr Arglwydd gael ei dadguddio mewn gallu i argyhoeddi y cenedloedd, y cenedloedd paganaidd, tŷ Joseph, o efengyl eu hiachawdwriaeth.

4. Canys daw oddiamgylch yn y dydd hwnw, y caiff pob dyn glywed cyflawnder fy efengyl yn ei dafodiaith ei hun, ac yn ei iaith ei hun, trwy y rhai hyny a ordeiniwyd i'r gallu hwn, trwy weinyddiad y Dyddanydd, a dywalltwyd allan arnynt hwy, at ddadguddiad Iesu Grist.

5. Ac yn awr, yn wir, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi barhau yn y weinidogaeth a'r llywyddiaeth, ac wedi i chwi orphen cyfieithad y prophwydi, o hyny allan bydd i chwi lywyddu dros achosion yr eglwys a'r ysgol; ac o amser i amser, megys yr eglurir gan y Dyddanydd, derbyn dadguddiadau i ddadleni dirgeledigaethau y deyrnas, a gosod yr eglwysi mewn trefn, a myfyrio a dysgu, a dyfod yn adnabyddus â phob llyfrau da, ac â ieithoedd, tafodau, a phobloedd. A hyn a fydd eich gwaith a'ch cenadwri yn eich holl fywyd, i lywyddu mewn cynghor, a gosod mewn trefn holl

achosion yr eglwys hon a'r deyrnas. Na chywilyddier chwi, ac na chythrybler chwi ychwaith; eithr cymmerwch rybydd yn eich holl uchelfrydigrwydd a'ch balchder, canys y mae yn dwyn magl ar eich eneidiau. Gosodwch eich tai mewn trefn; cadwch fusgrellni ac aflendid yn mhell oddiwrthych.

6. Yn awr, yn wir, meddaf i chwi, bydded i le gael ei ddarparu mor fuan ag y byddo posibl, i deulu fy nghynghorwr a'm hysgrifenydd, sef Frederick G. Williams; a bydded i'm gwas oedranus Joseph Smith, hen., aros gyda'i deulu ar y lle y preswylia yn bresennol, ac na fydded iddo gael ei werthu hyd oni enwo genau yr Arglwydd. A bydded i'm cynghorwr, sef Sidney Rigdon, aros lle y mae yn awr yn preswylio, hyd oni enwo genau yr Arglwydd. A bydded i'r esgob chwilio yn ddiwyd i gael goruchwyliwr, a bydded iddo fod yn ddyn sydd â chyfoeth ganddo,—yn ddyn Duw, ac o ffydd gref; fel trwy hyny y gallo dalu pob dyled; fel na fyddo i ystordy yr Arglwydd gael ei ddwyn i anghlod gerbron llygaid y bobl. Chwiliwch yn ddyfal, gweddiwch yn wastadol, a byddwch grediniol, a phob peth a gydweithiant er eich daioni, os rhodiwch yn uniawn a chofio y cyfammod a ammodasoch â'ch gilydd. Bydded eich teuluoedd yn fychain, yn neillduol fy ngwas oedranus Joseph Smith, hen., megys yn perthyn i'r rhai nad ydynt o'ch teuluoedd chwi; fel na fyddo i'r pethau hyny a ddarperir i chwi, i ddwyn i ben fy ngwaith, gael eu cymmeryd oddiwrthych, a'u rhoddi i'r rhai nad ydynt deilwng, a thrwy hyny y bydd i chwi gael eich rhwystro i gyflawni y pethau hyny a orchymynais i chwi.

7. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, fy ewyllys yw fod i'm llawforwyn, Vienna Jaques, dderbyn arian i ddwyn ei thraul, a myned i fyny i dir Seion; a'r gweddill o'r arian a ellir eu cyssegru i mi, ac iddi hi gael ei gwobrwyo yn fy amser priodol fy hun. Yn wir, meddaf i chwi, y mae yn fuddiol yn fy ngolwg iddi hi fyned i fyny i dir Seion, a derbyn etifeddiaeth o law yr esgob, fel y byddo iddi ymsefydlu mewn heddwch, yn gymmaint â'i bod yn ffyddlawn, ac nid bod yn segur yn ei dyddiau o hyn allan.

8. Ac wele, yn wir meddaf i chwi, y mae i chwi ysgrifenu y gorchymyn hwn, a dywedyd wrth eich brodyr yn Seion, mewn cariad yn anerch, fy mod i wedi eich galw chwi hefyd i lyw-

yddu dros Seion yn fy amser priodol fy hun; gan hyny, bydded iddynt beidio fy mlino i mewn perthynas i'r peth hwn. Wele, meddaf i chwi, eich brodyr yn Seion ydynt yn dechreu edifarhau, a'r angylion a lawenychant drostynt hwy; er hyny, nid wyf fi yn llwyr foddlawn â llawer o bethau; ac nid wyf yn llwyr foddlawn â'm gwas William E. M'Lellin, nac â'm gwas Sidney Gilbert; a'r esgob hefyd, ac ereill, sydd ganddynt lawer o bethau i edifarhau o'u herwydd; ond yn wir, meddaf i chwi, myfi, yr Arglwydd, a ymrysonaf â Seion, ac a ddadleuaf â'i rhai cryfion, ac a'i ceryddaf hi hyd oni orchfyga ac y bydd yn lân ger fy mron i; canys ni symudir hi allan o'i lle. Myfi, yr Arglwydd, a'i llefarais. Amen.

DOSRAN LXXXVI.

Dadguddiad a roddwyd Awst, 1833.

1. Yn wir, meddaf i chwi, fy nghyfeillion, nac ofnwch, dyddaner eich calonau; ïe, llawenhewch yn wastadol, ac yn mhob peth rhoddwch ddiolch, gan ddysgwyl yn amyneddgar ar yr Arglwydd, canys eich gweddiau a aethant i mewn i i glustiau Arglwydd y Sabaoth, ac a gofnodwyd â'r sêl a'r testament hwn; yr Arglwydd a dyngodd ac a dystiolaethodd y bydd iddynt gael eu caniatau; gan hyny, y mae yn rhoddi yr addewid hon i chwi, gyda chyfammod anghyfnewidiol y cânt eu cyflawni, a'r holl bethau â pha rai y'ch gorthrymwyd, a gânt gydweithio er eich daioni, ac er gogoniant fy enw, medd yr Arglwydd.

2. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi mewn perthynas i gyfreithiau y tir, fy ewyllys yw fod i'm pobl gadw yr holl bethau bynag a orchymynwyf iddynt; a chyfraith y tir hono, yr hon sydd ffurf-lywodraethol, yn cefnogi yr egwyddor hono o ryddid yn amddiffyniad iawnderau a rhagorfreintiau, a berthyna i ddynolryw oll, ac sydd gyfiawnhadwy ger fy mron i; gan hyny, myfi, yr Arglwydd a'ch cyfiawnhaf chwi, a'ch brodyr o'm heglwys, yn amddiffyniad y gyfraith hono yr hon yw cyfraith ffurf-lywodraethol y tir; ac megys yn perthyn i gyfraith dyn, beth bynag sydd yn fwy neu yn llai nâ hyn, o'r drwg y daw. Myfi, yr Arglwydd Dduw, a'ch rhyddhaf chwi, gan hyny rhyddion ydych yn wir; a'r gyfraith hefyd a'ch

rhyddha chwi; er hyny, pan fyddo y drygionus yn rheoli, y bobl a alarant; gan hyny, dylid chwilio yn ddyfal am ddynion gonest a dynion doeth, a dynion da a dynion doeth a ddylech chwi fod yn ofalus i'w cynnal i fyny; onite, pa beth bynag sydd lai nâ hyn, o'r drwg y daw.

3. Ac yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn, fod i chwi ymwrthod â phob drwg a glynu wrth bob da, fod i chwi fyw wrth bob gair a ddaw allan o enau Duw; canys efe a rydd i'r ffyddlawn lin ar lin, gorchymyn ar orchymyn; a mi a'ch chwiliaf ac a'ch profaf chwi â hyn yma; a phwy bynag a osodo i lawr ei fywyd yn fy achos i, er mwyn fy enw, a'i eaiff ef drachefn, hyd y nod bywyd tragywyddol; gan hyny nac ofnwch eich gelynion, canys yr wyf wedi penderfynu yn fy nghalon, medd yr Arglwydd, y bydd i mi eich profi yn mhob peth, pa un a fydd i chwi aros yn fy nghyfammod, hyd y nod hyd angau, fel y'ch caffer yn deilwng; canys os na fydd i chwi aros yn fy nghyfammod, nid ydych deilwng o honof fi; gan hyny gwrthodwch ryfel a chyhoeddweh heddwch, a cheisiwch yn ddiwyd droi calonau y plant at eu tadau, a chalonau y tadau at y plant; ac hefyd, calonau yr Iuddewon at y prophwydi, a'r prophwydi at yr Iuddewon, rhag i mi ddyfod a tharo yr holl ddaear â melldith, ac i bob cnawd gael eu hysu o'm blaen i. Na chythrybler eich calonau, canys yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau, ac yr wyf wedi parotoi lle i chwi, megys lle y mae fy Nhad a mi, y byddoch chwithau hefyd.

4. Wele, myfi, yr Arglwydd, nid wyf lwyr foddlawn â llawer sydd yn yr eglwys yn Kirtland, canys nid ydynt yn ymwrthod â'u pechodau a'u ffyrdd drygionus, balchder eu calonau, a'u cybydd-dod, a'u holl bethau atgas, ac yn cadw geiriau doethineb a bywyd tragywyddol y rhai a roddais i iddynt hwy. Yn wir, meddaf i chwi, y bydd i mi yr Arglwydd, eu ceryddu hwynt, ac y gwnaf yr hyn a ewyllysiwyf, os na fydd iddynt edifarhau a chadw yr holl bethau a orchymynais iddynt. A thrachefn meddaf i chwi, os bydd i chwi gadw a gwneuthur yr hyn a orchymynaf i chwi, myfi, yr Arglwydd a droaf ymaith fy llid a'm digofaint oddiwrthych, a phyrth uffern ni lwyddant yn eich erbyn chwi.

5. Yn awr, yr wyf yn llefaru wrthych chwi mewn perthynas i'ch teuluoedd; os bydd i ddynion eich taro chwi neu eich teuluoedd

unwaith, ac os bydd i chwi ei oddef yn amyneddgar a pheidio difenwi yn eu herbyn hwynt, na cheisio ymddial, chwi a wobrwyir; ond os na fydd i chwi ei oddef yn amyneddgar, caiff ei gyfrif i chwi megys wedi ei roddi allan yn fesur cyfiawn i chwi. A thrachefn, os bydd i'ch gelyn eich taro chwi yr ail waith, ac os na fydd i chwi ddifenwi yn erbyn eich gelyn, a'i oddef yn amyneddgar, eich gwobr a fydd yn gan cymmaint. A thrachefn, os bydd iddo eich taro chwi y drydedd waith, ac i chwi ei oddef yn amyneddgar, eich gwobr a ddyblir i chwi yn bedwar plyg; a'r tair tystiolaeth hyn a gant aros yn erbyn eich gelyn os nad edifarha, ac ni chant eu dileu allan. Ac yn awr, yn wir, meddaf i chwi, os bydd i'r gelyn hwnw ddianc rhag fy nialedd, fel na ddyger ef i farn ger fy mron i, yna bydd i chwi ofalu ei rybyddio ef yn fy enw i, na fyddo iddo ddyfod mwyach arnoch, nac ar eich teulu, hyd y nod plant eich plant, hyd y drydedd a'r bedwerydd genedlaeth; ac yna os daw efe arnoch chwi, neu eich plant, neu blant eich plant hyd y drydedd a'r bedwarydd genedlaeth; myfi a draddodais dy elyn i'th law, ac yna os bydd i ti ei arbed ef, ti a gai dy wobrwyo am dy gyfiawnder; ac hefyd dy blant a phlant dy blant hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth; er hyny, dy elyn sydd yn dy law, ac os bydd i ti ei wobrwyo yn ol ei weithredoedd, yr ydwyt i'th gyfiawnhau; os ceisiodd dy fywyd, ac os peryglir dy fywyd ganddo, dy elyn sydd yn dy law, ac yr ydwyt ti i'th gyfiawnhau.

6. Wele, hon yw y gyfraith a roddais i'm gwas Nephi, a'th dadau Joseph a Jacob, ac Isaac ac Abraham, a'm holl hen brophwydi ac apostolion. A thrachefn, hon yw y gyfraith a roddais i'm henafiaid, na tyddai iddynt fyned i frwydr yn erbyn unrhyw genedl, llwyth, iaith, na phobl, oddieithr i mi, yr Arglwydd, orchymyn iddynt. Ac os byddai i unrhyw genedl, iaith, neu bobl gyhoeddi rhyfel yn eu herbyn hwynt, fod iddynt yn gyntaf gyfodi llumman heddwch i'r bobl, y genedl, neu iaith hyny; ac os na fyddai i'r bobl hyny dderbyn y cynnyg o heddwch naill ai yr ail neu y drydedd waith, fod iddynt ddwyn y tystiolaethau hyny gerbron yr Arglwydd; yna myfi, yr Arglwydd, a roddwn orchymyn iddynt, a'u cyfiawnhau hwynt i fyned allan i ryfela yn erbyn y genedl, iaith, neu bobl hyny, a myfi, yr Arglwydd, a ymladdwn eu brwydr-

au, a brwydrau eu plant, ac eiddo plant eu plant, hyd oni fyddent wedi dial eu hunain ar eu holl elynion, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth. Wele, hyn sydd esiampl i bob pobl, medd yr Arglwydd eich Duw, er cyfiawnhad ger fy mron i.

7. A thrachefn, yn wir, meddaf i chwi, os wedi i'th elyn ddyfod arnat ti y tro cyntaf, y bydd iddo edifarhau a dyfod atat ti gan ddeisyf dy faddeuant, ti a faddeui iddo, ac ni fydd i ti ei ddal mwyach megys tystiolaeth yn erbyn dy elyn, ac felly yn y blaen hyd yr ail a'r drydedd waith; ac mor fynych ag yr edifarhao dy elyn am y trosedd â pha un y troseddodd yn dy erbyn, y bydd i ti faddeu iddo, hyd saith waith deg a thrigain; eithr os bydd iddo droseddu yn dy erbyn a pheidio edifarhau y waith gyntaf, er hyny ti a faddeui iddo; ond os trosedda yn dy erbyn yr ail waith, a pheidio edifarhau, er hyny ti a faddeui iddo; ac os trosedda yn dy erbyn y drydedd waith, a pheidio edifarhau, ti a faddeui hefyd iddo; ond os trosedda efe yn dy erbyn y bedwaredd waith, ni fydd i ti faddeu iddo, eithr dygi y tystiolaethau hyn gerbron yr Arglwydd, ac ni fydd iddynt gael eu dileu allan hyd onid edifarhao ac y gwobrwyo di yn bedwarplyg yn yr holl bethau yn mha rai y troseddodd yn dy erbyn; ac os bydd iddo wneuthur hyn, ti a faddeui iddo â'th holl galon; ac os na wna hyn, myfi, yr Arglwydd, a'th ddialaf di ar dy elyn yn gan plyg, ac ar ei blant, ac ar blant ei blant o'r holl rai a'm cashant i, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth; eithr os bydd i'r plant edifarhau, neu blant y plant, a throi at yr Arglwydd eu Duw â'u holl galon, ac â'u holl allu, meddwl, a nerth, ac adferu yn bedwarplyg am eu holl droseddau yn y rhai y troseddasant, neu yn y rhai y troseddodd eu tadau, neu dadau eu tadau, yna dy ddigllondeb a dröir ymaith, a dialedd ni ddaw arnynt mwyach, medd yr Arglwydd dy Dduw, a'u troseddau ni ddygir fyth mwyach fel tystiolaeth gerbron yr Arglwydd yn eu herbyn hwynt. Amen.

DOSRAN LXXXVII.

Dadguddiad a roddwyd Ebrill, 1832, *yn dangos y drefn a roddwyd i Enoch, a'r Eglwys yn ei ddydd ef.*

1. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, fy ngweision, yn gymmaint â'ch bod chwi wedi maddeu i'ch gilydd eich troseddau,

felly hefyd y bydd i mi, yr Arglwydd, faddeu i chwi; er hyny, y mae rhai yn eich plith chwi wedi pechu yn fawr iawn: ïe, y mae hyd y nod pawb o honoch wedi pechu; ond, yn wir, meddaf i chwi, gwyliwch o hyn allan, ac ymogelwch rhag pechu, rhag i farnedigaethau tost syrthio ar eich penau chwi; canys i'r hwn y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir; a'r hwn sydd yn pechu yn erbyn y goleuni mwyaf a dderbynia y condemniad mwyaf. Yr ydych yn galw ar fy enw i am ddadgudd-iadau, ac yr wyf yn eu rhoddi i chwi; ac yn gymmaint ag nad ydych yn cadw fy ymadroddion y rhai wyf yn roddi i chwi, yr ydych yn dyfod yn droseddwyr, a chyf-iawnder a barn yw y daledigaeth sydd yn gyssylltiedig â'm cyfraith i; gan hyny, yr hyn wyf yn ddywedyd wrth un yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb, gwyliwch, canys y gwrth-wynebwr a daena ei lywodraeth, a thywyllwch a lywodraetha; a digofaint Duw a ennyna yn erbyn trigolion y ddaear; ac nid oes neb yn gwneuthur daioni, canys pawb a aethant allan o'r ffordd.

2. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, ni fydd i mi, yr Arglwydd, osod pechod yn eich erbyn; ewch i'ch ffordd, ac na phechwch mwyach; eithr i'r enaid a becho y dychwela y pech-odau blaenorol, medd yr Arglwydd eich Duw.

3. A thrachefn, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi orchymyn newydd, fel y byddo i chwi deall fy ewyllys mewn perthynas i chwi, neu, mewn geiriau ereill, yr wyf yn rhoddi i chwi gyfarwyddiadau pa fodd y mae i chwi ymddwyn ger fy mron i, fel y byddo iddo droi allan i chwi er eich iachawdwr-iaeth. Myfi, yr Arglwydd, ydwyf yn rhwym pan wneloch yr hyn a ddywedaf; eithr pan na wneloch yr hyn a ddywedaf, nid oes genych addewid.

4. Gan hyny, yn wir meddaf i chwi, y mae yn fuddiol i'm gwas Alam ac Ahashdah, Mahalaleel a Pelagoram, a'm gwas Gazelam, a Horah, ac Olihah, a Shalemanasseh, a Mehemson, i gael eu rhwymo ynghyd â chyfammod nas gellir ei dori gan drosedd, oddieithr i farn ddilyn yn uniongyrchol, yn eich am-rywiol oruchwyliaethau, i drin achosion y tlodion, a'r holl bethau a berthynant i'r esgobaeth yn nhir Seion a thir Shi-nehah, canys mi a gyssegrais dir Shinehah yn fy amser priodol fy hun er lles Saint y Goruchaf, ac er estynfa i Seion; canys

rhaid i Seion gynnyddu mewn harddwch ac mewn santeiddrwydd; rhaid i'w chyffiniau gael eu ëangu; rhaid i'w hestynfeydd gael eu cryfhau; ïe, yn wir meddaf i chwi, rhaid i Seion gyfodi a gosod am dani wisgoedd ei harddwch; gan hyny, yr wyf yn rhoddi i chwi y gorchymyn hwn, fod i chwi rwymo eich hunain wrth y cyfammod hwn, a chaiff ei wneuthur yn ol cyfreithiau yr Arglwydd. Wele, yma y mae doethineb hefyd ynof fi er eich daioni. Ac yr ydych chwi i fod yn gyfuwch, neu mewn geiriau ereill, yr ydych i gael hawliau cyfartal ar y meddiannau, er y lles o drefnu achosion eich goruchwyliaethau, pob dyn yn ol ei eisieu a'i anghenion, os bydd ei eisieu yn gyfiawn; a hyn oll er lles eglwys y Duw byw, fel y byddo i bob dyn ddiwygio ar ei dalent, fel y byddo i bob dyn ennill talentau ereill, ïe, hyd yn nod yn gan cymmaint, i gael eu taflu i ystordy yr Arglwydd, i fod yn feddiant cyffredin yr holl eglwys, pob dyn yn ceisio lles ei gymmydog, ac yn gwneuthur pob peth gyda golwg at ogoniant Duw yn unig.

5. Y drefn hon a benodais i fod yn drefn dragywyddol i chwi ac i'ch canlynwyr, os na fydd i chwi bechu; a'r enaid a becha yn erbyn y cyfammod hwn, ac a galeda ei galon yn ei erbyn, a gaiff ymddwyn tuag ato yn ol cyfreithiau fy eglwys, ac a gaiff ei draddodi i gernodiau Satan, hyd ddydd y prynedigaeth.

6. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, a hyn sydd ddoethineb, gwnewch gyfeillion o'r mammon anghyfiawn, ac ni fydd iddynt eich dystrywio chwi. Gadewch farn i mi, canys eiddof fi ydyw, a mi a dalaf. Tangnefedd fyddo gyda chwi; fy mendithion a arosant gyda chwi, canys etto y deyrnas sydd eiddoch chwi, a bydd felly yn dragywydd, os na fydd i chwi syrthio oddiwrth eich dianwadalwch. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXXVIII.

Dadguddiad a roddwyd Ionawr, 1832.

1. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, myfi yr hwn wyf yn llefaru hyd y nod trwy lais fy Ysbryd; sef Alpha ac Omega, eich Arglwydd a'ch Duw; gwrandewch, O chwi a roddasoch

eich enwau i fyned allan i gyhoeddi fy efengyl, ac i drin fy ngwinllan. Wele, meddaf i chwi, mai fy ewyllys yw i chwi fyned allan, a pheidio oedi, na bod yn segur, a gweithio â'ch holl alluoedd, gan ddyrchafu eich lleisiau megys â sain udgorn, gan gyhoeddi y gwirionedd yn ol y dadguddiadau a'r gorchymynion a roddais i chwi, ac felly os byddwch ffyddlawn chwi a lwythir â llawer o ysgubau, ac a goronir ag anrhydedd, a gogoniant, ac anfarwoldeb, a bywyd tragywyddol.

2. Gan hyny, yn wir meddaf wrth fy ngwas William E. M'Lellin, yr wyf yn galw yn ol y comissiwn a roddais iddo ef i fyned i'r gwledydd dwyreiniol, ac yr wyf yn rhoddi iddo ef gomissiwn newydd a gorchymyn newydd, yn yr hwn yr wyf fi, yr Arglwydd, yn ei geryddu ef am rwgnachrwydd ei galon; ac efe a bechodd, er hyny mi a faddeuaf iddo; ac yr wyf yn dywedyd wrtho etto, Ewch chwi i'r gwledydd deheuol, a bydded i'm gwas Luke Johnson fyned gydag ef, a chyhoeddi y pethau a orchymynais i iddynt, gan alw ar enw yr Arglwydd am y Dyddanydd, yr hwn a ddysga iddynt yr holl bethau sydd yn fuddiol iddynt, gan weddio yn wastadol na ddiffygiont, ac yn gymmaint ag y gwnant hyn, myfi a fyddaf gyda hwynt hyd y diwedd. Wele, hyn yw ewyllys yr Arglwydd eich Duw mewn perthynas i chwi. Felly y byddo. Amen.

3. A thrachefn, yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, bydded i'm gwas Orson Hyde a'm gwas Samuel H. Smith gymmeryd eu taith i'r gwledydd dwyreiniol, a chyhoeddi y pethau a orchymynais iddynt; ac yn gymmaint â'u bod yn ffyddlawn, wele, mi a fyddaf gyda hwynt, hyd y nod hyd y diwedd. A thrachefn, yn wir meddaf wrth fy ngwas Lyman Johnson, ac wrth fy ngwas Orson Pratt, fod iddynt hwy hefyd gymmeryd eu taith i'r gwledydd dwyreiniol; ac wele, a llyna, yr wyf fi gyda hwynt hefyd, hyd y nod hyd y diwedd. A thrachefn, meddaf wrth fy ngwas Asa Dodds ac wrth fy ngwas Calves Wilson, fod iddynt hwy hefyd gymmeryd eu taith i'r gwledydd gorllewinol, a chyhoeddi fy efengyl, megys y gorchymynais iddynt. A'r hwn sydd ffyddlawn a orchfyga bob peth, ac a godir i fyny yn y dydd olaf. A thrachefn, meddaf wrth fy ngwas Major N. Ashly a'm gwas Burr Riggs, bydded iddynt hwy hefyd gymmeryd eu taith i wlad y deheu; ïe, bydded i'r rhai hyn oll gymmeryd eu taith megys y gorch-

ymynais iddynt, gan fyned o dŷ i dŷ, ac o bentref i bentref, ac o ddinas i ddinas; ac i ba dŷ bynag yr eloch, ac y derbyniant chwi, gadewch eich bendith ar y tŷ hwnw; ac i ba dŷ bynag yr eloch, ac ni dderbyniant chwi, ewch ymaith gyda brys o'r tŷ hwnw, ac ysgwydwch ymaith lwch eich traed yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt; a chwi a lenwir â llawenydd a gorfoledd, a gwybyddwch hyn, y bydd i chwi yn nydd y farn fod yn farnwyr ar y tŷ hwnw, a'u condemnio hwynt; a bydd yn esmwythach ar y paganiaid yn nydd y farn, nag ar y tŷ hwnw; gan hyny gwregyswch eich lwynau a byddwch ffyddlawn, a chwi a orchfygwch bob peth, ac a godir i fyny yn y dydd olaf. Felly y byddo. Amen.

4. A thrachefn, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, O chwi henuriaid fy eglwys, y rhai ydych wedi rhoddi eich enwau fel y gwybyddoch ei ewyllys ef mewn perthynas i chwi; wele, meddaf i chwi, mai dyledswydd yr eglwys yw cynnorthwyo yn nghynnaliaeth teuluoedd y rhai hyny, ac hefyd i gynnorthwyo teuluoedd y rhai hyny a elwir, ac y sydd yn anghenrhaid eu danfon i'r byd i gyhoeddi yr efengyl i'r byd; gan hyny, myfi, yr Arglwydd, a roddaf i chwi y gorchymyn hwn, fod i chwi gael lleoedd i'ch teuluoedd, yn gymmaint â bod eich brodyr yn foddlawn agor eu calonau; ac na fydded i bawb a allant gael lleoedd i'w teuluoedd, a chynnaliaeth oddiwrth yr eglwys iddynt, fethu myned i'r byd, pa un ai i'r dwyrain neu i'r gorllewin, neu i'r gogledd neu i'r deheu; bydded iddynt ofyn, a hwy a dderbyniant; bydded iddynt guro, ac agorir iddynt; a gwneir yn adnabyddus iddynt oddiuchod, hyd y nod gan y Dyddanydd, pa le y maent i fyned.

5. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, pob dyn sydd yn gorfod darparu at ei deulu ei hun, bydded iddo ddarparu, ac ni chyll ei goron mewn un modd, a bydded iddo weithio yn yr eglwys. Bydded pob dyn yn ddiwyd yn mhob peth. A'r diog ni chaiff le yn yr eglwys, oddieithr iddo edifarhau a diwygio ei ffyrdd. Gan hyny, bydded i'm gwas Simeon Carter, a'm gwas Emer Harris, gael eu huno yn y weinidogaeth. Ac hefyd fy ngwas Ezra Thayre, a'm gwas Thomas B. Marsh. Hefyd fy ngwas Hyrum Smith, a'm gwas Reynolds Cahoon; ac hefyd fy ngwas Daniel Stanton, a'm gwas Seymour Brunson; ac hefyd fy ngwas Sylvester Smith, a'm gwas Gideon Carter; ac

hefyd fy ngwas Ruggles Eames, a'm gwas Stephen Burnett; ac hefyd fy ngwas Micah B. Welton, ac hefyd fy ngwas Eden Smith. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN LXXXIX.

Dadguddiad a roddwyd Ebrill, 1832.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, mewn ychwanegiad at gyfreithiau yr eglwys mewn perthynas i wragedd a phlant, y rhai a berthynant i'r eglwys, ac wedi colli eu gwŷr neu eu tadau. Mae gan wragedd hawl ar eu gwŷr am eu cynnaliaeth hyd oni chymmerir eu gwŷr, ac os na cheir hwynt yn troseddu hwy a gant gymdeithas yn yr eglwys; ac os na fyddant yn ffyddlawn, ni chant gymdeithas yn yr eglwys; er hyny hwy a allant aros ar eu hetifeddiaethau, yn ol cyfreithiau y tir.

2. Mae gan bob plant hawl ar eu rhieni am eu cynnaliaeth hyd oni fyddont mewn oedran; ac wedi hyny y mae ganddynt hawl ar yr eglwys; neu mewn geiriau ereill, ar ystordŷ yr Arglwydd, os na fydd gan eu rhieni fodd i roddi iddynt etifeddiaeth. A'r ystordŷ a gedwir trwy gyssegriadau yr eglwys, a darparir gyferbyn â'r gweddwon a'r amddifaid, megys hefyd y tlodion. Amen.

DOSRAN XC.

Dadguddiad a roddwyd Rhagfyr, 1831.

1. Gwrandewch a rhoddwch glust i lais yr Arglwydd, O chwi a ymgynnullasoch ynghyd, y rhai ydych arch-offeiriaid fy eglwys, i'r rhai y rhoddwyd y deyrnas a'r gallu. Canys yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, mae yn fuddiol ynof fi i esgob gael ei benodi i chwi, neu o honoch chwi i'r eglwys yn y rhan hon o winllan yr Arglwydd; ac yn wir, yn y peth hwn chwi a wnaethoch yn ddoeth, canys gofynir gan yr Arglwydd, ar law pob goruchwyliwr, i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth, mewn amser ac yn nhragywyddoldeb. Canys yr hwn sydd ffyddlawn a doeth mewn amser, a gyfrifir yn deilwng i etifeddu y trigfanau a barotowyd iddynt gan fy Nhad. Yn wir, meddaf i chwi,

henuriaid yr eglwys yn y rhan hon o'm gwinllan, a gant roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth i'r Esgob a benodir genyf fi, yn y rhan hon o'm gwinllan. Y pethau hyn a osodir mewn cofysgrif, i'w throsglwyddo drosodd i'r esgob yn Seion; a dyledswydd yr esgob a wneir yn hysbys trwy y gorchymynion a roddwyd, a llais y gynnadledd.

2. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, fy ngwas Newel K. Whitney yw y dyn sydd i gael ei benodi a'i ordeinio i'r awdurdod hwn. Hyn yw ewyllys yr Arglwydd eich Duw, eich Prynwr. Felly y byddo. Amen.

3. Gair yr Arglwydd, mewn ychwanegiad at y gyfraith sydd wedi cael ei rhoddi, yn gwneyd yn hysbys ddyledswydd yr esgob sydd wedi ei ordeinio i'r eglwys yn y rhan hon o'm gwinllan, yr hwn yn wir sydd fel hyn:—Cadw ystordŷ yr Arglwydd; derbyn trysorfeydd yr eglwys yn y rhan hon o'r winllan; cymmeryd cyfrif gan yr henuriaid megys y gorchymynwyd o'r blaen; a gweinyddu i anghenrheidiau y rhai a dalant am yr hyn a dderbyniant, yn gymmaint â bod ganddynt fodd i dalu; fel y byddo i hyn hefyd gael ei gyssegru er daioni yr eglwys, i'r tlawd a'r anghenus; a'r hwn nid oes ganddo fodd i dalu, cymmerir cyfrif o hono, a throsglwyddir ef drosodd i esgob Seion, yr hwn a dâl y ddyled allan o'r hyn a esyd yr Arglwydd yn ei ddwylaw; a llafur y ffyddlawn yr hwn sydd yn llafurio mewn pethau ysbrydol, yn ngweinyddiad yr efengyl a phethau y deyrnas i'r eglwys, ac i'r byd, a gaiff ateb y ddyled i'r esgob yn Seion; fel hyn daw allan o'r eglwys, canys yn ol y gyfraith, rhaid i bob dyn sydd yn dyfod i fyny i Seion, osod pob peth gerbron yr esgob yn Seion.

4. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, gan y rhaid i bob henuriad yn y rhan hon o'r winllan roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth i'r esgob yn y rhan hon o'r winllan, tyst-ysgrif oddiwrth y barnwr neu yr esgob yn y rhan hon o'r winllan, at yr esgob yn Seion, a wna bob dyn yn dderbyniol, ac a ateba bob peth, er etifeddiaeth, ac i'w dderbyn megys goruchwyliwr doeth, ac megys gweithiwr ffyddlawn, onite ni fydd yn dderbyniol gan yr esgob yn Seion. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, bydded i bob henuriaid yr hwn a rydd gyfrif i esgob yr eglwys, yn y rhan hon o'r winllan, gael ei gymmeradwyo gan yr eglwys, neu eglwysi, yn mha rai y llafuria, fel y byddo iddo wneyd ei

hunan a'i gyfrifon yn gymmeradwy yn mhob peth. A thrachefn, bydded i'm gweision y rhai a benodwyd yn oruchwylwyr dros achosion dysgeidiaethol fy eglwys, gael hawl am gynnorthwy ar yr esgob neu esgobion, yn mhob peth, fel y byddo i'r dadguddiadau gael eu cyhoeddi, a myned allan i derfynau y ddaear, fel y byddo iddynt hwythau hefyd gael trysorfeydd a fyddant o les i'r eglwys yn mhob peth; fel y byddo iddynt hwythau hefyd wneuthur eu hunain yn gymmeradwy yn mhob peth, a chael eu cyfrif yn oruchwylwyr doeth. Ac yn awr, wele, hyn sydd yn esiampl i holl gangenau helaeth fy eglwys, yn mha dir bynag y byddont yn sefydledig. Ac yn awr yr wyf yn gorphen fy ymadroddion. Amen.

5. Ychydig o eiriau mewn ychwanegiad at gyfreithiau y deyrnas, mewn perthynas i aelodau yr eglwys; y rhai a benodwyd gan yr Ysbryd Glân i fyned i fyny i Seion, a'r rhai ydynt wedi cael y ragorfaint i fyned i fyny i Seion, bydded iddynt ddwyn i fyny at yr esgob dyst-ysgrif oddiwrth dri o henuriaid yr eglwys, neu dyst-ysgrif oddiwrth yr esgob, onite yr hwn a elo i fyny i dir Seion, ni chaiff ei gyfrif yn oruchwyliwr doeth. Hyn hefyd sydd yn esiampl. Amen.

DOSRAN XCI.

Dadguddiad a roddwyd Rhagfyr, 1831.

1. Wele, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy ngweision, Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, y mae yr amser yn wir wedi dyfod, pan y mae yn anghenrheidiol ac yn fuddiol ynof fi fod i chwi agor eich geneuau i gyhoeddi fy efengyl, pethau y deyrnas, ac egluro ei dirgeledigaethau allan o'r ysgrythyrau, yn ol y gyfran hono o ysbryd a gallu a gaiff ei rhoddi i chwi, hyd y nod megys yr ewyllysiwyf fi.

2. Yn wir, meddaf i chwi, cyhoeddwch i'r byd yn yr ardaloedd o amgylch ogylch, ac yn yr eglwys hefyd, dros ystod tymmor, sef hyd oni chaiff ei hysbysu i chwi. Yn wir, hon sydd genadwri dros dymmor, yr hon wyf yn roddi i chwi, gan hyny llafuriwch yn fy ngwinllan. Galwch ar drigolion y ddaear, a dygwch dystiolaeth, a pharotowch y ffordd i'r gorchymynion a'r dadguddiadau sydd i ddyfod. Yn awr, wele, hyn sydd ddoethineb; yr hwn sydd yn darllen, bydded iddo ddeall a derbyn

hefyd; canys i'r hwn sydd yn derbyn y rhoddir yn fwy helaeth, hyd y nod gallu; gan hyny, cythruddwch eich gelynion; galwch arnynt i gyfarfod â chwi yn ddirgel a chyhoeddus; ac yn gymmaint â'ch bod chwi yn ffyddlawn, eu cywilydd hwy a wneir yn eglur. Gan hyny, bydded iddynt ddwyn allan eu rhesymau cedyrn yn erbyn yr Arglwydd. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, nid oes un arf a luniwyd yn eich erbyn chwi a lwydda; ac os coda un dyn ei lais yn eich erbyn chwi, efe a gythruddir yn fy amser priodol fy hun; gan hyny, cadwch y gorchymynion hyn, gwir ydynt a ffyddlawn. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XCII.

Gweledigaeth.

1. Clywch, O chwi nefoedd, a dyro glust, O ddaear, a llawenhewch, chwi drigolion y ddaear, canys yr Arglwydd sydd Dduw, ac hebddo ef nid oes un Iachawdwr; mawr yw ei ddoethineb, rhyfeddol yn ei ffyrdd, ac helaethrwydd ei weithrediadau nis dichon neb ei gael allan; ei ddybenion ni fethant, ac nid oes neb ychwaith a ddichon attal ei law; o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb yr un ydyw, a'i flynyddoedd ni ddarfyddant.

2. Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, Myfi, yr Arglwydd, ydwyf drugarog a graslawn i'r rhai a'm hofnant, ac ymhyfrydaf i anrhydeddu y rhai a'm gwasanaethant mewn cyfiawnder ac mewn gwirionedd hyd y diwedd; mawr fydd eu gwobr, a thragywyddol fydd eu gogoniant; ac iddynt hwy dadguddiaf bob dirgeledigaethau, ïe, holl guddiedig ddirgeledigaethau fy nheyrnas o'r dyddiau gynt, a thros oesoedd i ddyfod y gwnaf yn hysbys iddynt hwy ddymuniad da fy ewyllys ynghylch yr holl bethau a berthynant i'm teyrnas; ïe, hyd y nod rhyfeddodau tragywyddoldeb a gant eu gwybod, a phethau i ddyfod a ddangosaf iddynt, hyd y nod pethau llawer o genedlaethau; eu doethineb a fydd mawr, a'u deall a gyrhaedd i'r nef; ac o'u blaen hwynt doethineb y doeth a ddiflana, a deall-twriaeth y synwyrol a ddaw i'r dim; canys trwy fy Ysbryd y goleuaf hwynt, a thrwy fy ngallu y gwnaf yn hysbys iddynt ddirgelion fy ewyllys; ïe, hyd y nod y pethau hyny ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaethant etto i galon dyn.

3. Nyni, Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, yn bod yn yr Ysbryd ar yr unfed dydd ar bymtheg o Chwefror, yn mlwydd- yn ein Harglwydd un fil wyth cant a deuddeg ar hugain. Trwy allu yr Ysbryd ein llygaid a agorwyd a'n dealltwriaethau a oleuwyd, fel ag i ganfod a deall pethau Duw,—hyd y nod y pethau hyny ag oeddynt o'r dechreuad cyn bod y byd, y rhai a ordeiniwyd gan y Tad, trwy ei unig-anedig Fab, yr hwn oedd yn mynwes y Tad, hyd y nod o'r dechreuad, am yr hwn yr ydym ni yn dwyn tystiolaeth, a'r dystiolaeth ag ydym ni yn ddwyn yw cyflawnder efengyl Iesu Grist, yr hwn yw y Mab, yr hwn a welsom ni, ac â'r hwn yr ymddyddanasom yn y weledig- aeth nefol; canys tra yr oeddym yn gwneuthur gwaith y cyf- ieithad, yr hwn a benodasai yr Arglwydd i ni, daethom i'r nawfed adnod ar hugain o'r bummed bennod o Ioan, yr hon a roddwyd i ni fel y canlyn. Yn llefaru am adgyfodiad y meirw, mewn perthynas i'r rhai a gant glywed llef Mab y dyn, ac a ddeuant allan; y rhai a wnaethant dda yn adgyfodiad y cyf- iawn, a'r rhai a wnaethant ddrwg yn adgyfodiad yr anghyfiawn. Yn awr, hyn a barodd i ni synu, canys yr oedd wedi ei roddi i ni gan yr Ysbryd; a thra yr oeddym yn myfyrio ar y pethau hyn, yr Arglwydd a gyffyrddodd â llygaid ein dealltwriaethau a hwy a agorwyd, a gogoniant yr Arglwydd a ymddyscleiriodd o'n hamgylch; a gwelsom ogoniant y Mab ar ddeheulaw y Tad, a derbyniasom o'i gyflawnder; a gwelsom yr angylion santaidd, a'r rhai sydd wedi eu santeiddio, gerbron ei orsedd, yn addoli Duw a'r Oen, y rhai ydynt yn ei addoli ef yn oes oesoedd. Ac yn awr, wedi y tystiolaethau lawer a roddwyd am dano ef, hon yw y dystiolaeth, y ddiweddaf oll a roddwn ni am dano ef, ei fod ef yn fyw; canys ni a'i gwelsom ef, hyd y nod ar ddeheulaw Duw, a chlywsom y llais yn dwyn tystiolaeth mai ef yw unig- anedig y Tad,—mai ganddo ef, a thrwyddo ef, ac erddo ef y mae ac y cafodd y bydoedd eu creu, a bod eu trigolion yn feibion a merched cenedledig i Dduw. A hyn a welsom hefyd, ac yr ydym yn dwyn tystiolaeth, i un o angylion Duw, yr hwn oedd mewn awdurdod yn mhresennoldeb Duw, yr hwn a wrthryfel- odd yn erbyn yr unig-anedig Fab, yr hwn yr oedd y Tad yn ei garu, a'r hwn oedd yn mynwes y Tad,—gael ei daflu i lawr o bresennoldeb Duw a'r Mab, a galwyd ef Colledigaeth, canys y nefoedd a wylasant drosto ef,—efe oedd Lucifer, mab y wawr

ddydd. Ac ni a edrychasom, ac wele, efe a syrthiodd! a syrthiodd! hyd y nod mab y wawr ddydd. A thra yr oeddym etto yn yr Ysbryd, yr Arglwydd a orchymynodd i ni ysgrifenu y weledigaeth, canys ni a welsom Satan, yr hen sarff hòno—sef y diafol—yr hwn a wrthryfelodd yn erbyn Duw, ac a geisiodd gymmeryd teyrnas ein Duw ni a'i Grist ef, gan hyny y mae yn rhyfela â saint Duw, ac yn eu hamgylchynu o amgylch ogylch. Ac ni a welsom weledigaeth o ddyoddefiadau y rhai hyny y rhyfelodd ef â hwynt ac a'u gorchfygodd, canys fel hyn y daeth llais yr Arglwydd atom ni.

4. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, mewn perthynas i'r holl rai ag ydynt yn adnabod fy ngallu, ac a gawsant eu gwneyd yn gyfranogion o hono, ac a oddefasant eu hunain, trwy allu y diafol, i gael eu gorchfygu, ac i wadu y gwirionedd, a beiddio fy ngallu—hwynthwy yw y rhai hyny ag ydynt yn feibion colledigaeth, am y rhai yr wyf yn dywedyd y buasai yn well iddynt pe na chawsent erioed eu geni, canys llestri digofaint ydynt hwy, wedi eu dedfrydu i ddyoddef digofaint Duw gyda'r diafol a'i angylion yn nhragywyddoldeb; mewn perthynas i'r rhai y dywedais nad oes faddeuant yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw, gan eu bod wedi gwadu yr Ysbryd Glân ar ol ei dderbyn, ac wedi gwadu unig-anedig Fab y Tad—wedi ei groeshoelio iddynt eu hunain, a'i osod yn waradwydd. Y rhai hyn ydynt hwy a gant fyned ymaith i'r llyn o dân a brwmstan, gyda'r diafol a'i angylion, a'r unig rai y bydd gan yr ail farwolaeth awdurdod arnynt; ïe, yn wir, yr unig rai na chant eu gwaredu yn amser priodol yr Arglwydd, ar ol dyoddefiadau ei ddigofaint ef; canys yr holl rai ereill a gant eu dwyn allan trwy adgyfodiad y meirw, trwy fuddugoliaeth a gogoniant yr Oen a laddwyd, yr hwn oedd yn mynwes y Tad cyn gwneyd y bydoedd. A hon yw yr efengyl, y newyddion da ag y dygodd y llais allan o'r nefoedd dystiolaeth i ni, iddo ef ddyfod i'r byd, sef Iesu, i gael ei groeshoelio dros y byd, ac i ddwyn pechodau y byd, ac i santeiddio y byd, ac i'w lanhau oddiwrth bob anghyfiawnder; fel trwyddo ef yr achubid pawb a osododd y Tad yn ei allu ac a wnaed ganddo ef, y rhai a ogoneddant y Tad, ac a achuba holl weithredoedd ei ddwylaw, oddieithr meibion colledigaeth, y rhai a wadant y Mab ar ol i'r Tad ei ddadguddio ef; gan hyny efe a achuba bawb ond hwynt hwy; hwy a âut

ymaith i gospedigaeth ddiddarfod, yr hon sydd gospedigaeth ddiddiwedd, yr hon sydd gospedigaeth dragywyddol, i deyrnasu gyda'r diafol a'i angylion yn nhragywyddoldeb, lle nad yw eu pryf yn marw, na'r tân yn diffodd, yr hyn yw eu poenedigaeth; a'r diwedd o hono, na'r lle o hono, na'u poenedigaeth, nid oes un dyn yn gwybod, ac ni ddadguddiwyd hwynt, ac nid yw, ac ni chaiff ei ddadguddio i ddyn oddieithr i'r rhai a wneir yn gyfranogion o hono; er hyny,myfi, yr Arglwydd, wyf yn ei ddangos trwy weledigaeth i lawer, ond yn ddioed yn ei gau i fyny drachefn; gan hyny ei ddiwedd, ei led, ei uchder, ei ddyfnder, a'i drueni, ni ddeallasant hwynt, nac un dyn ond y rhai a ordeiniwyd i'r farnedigaeth hon. A ni a glywsom lais, yn dywedyd, Ysgrifenwch y weledigaeth, canys wele! hyn yw diwedd gweledigaeth dyoddefiadau yr annuwiol!

5. A thrachefn, yr ydym yn dwyn tystiolaeth, canys ni a welsom ac a glywsom, a hyn yw tystiolaeth efengyl Crist mewn perthynas i'r rhai hyny a ddeuant allan yn adgyfodiad y cyfiawn; hwynthwy yw y rhai a dderbyniasant dystiolaeth Iesu, ac a gredasant yn ei enw ef, ac a fedyddiwyd yn ol dull ei gladdedigaeth ef, gan gael ei gladdu yn y dwfr yn ei enw ef, a hyn yn ol y gorchymyn a roddodd ef, fel trwy gadw y gorchymynion y byddai iddynt gael eu golchi a'u glanhau oddiwrth eu holl bechodau, a derbyn yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw yr hwn a ordeiniwyd ac a seliwyd i'r awdurdod hwn, a'r rhai a orchfygant trwy ffydd, ac a seliwyd gan Lân Ysbryd yr addewid; yr hwn a dywallta y Tad ar yr holl rai cyfiawn a chywir. Y rhai hyn ydynt eglwys y cyntafanedig. Y rhai hyn yw y rhai y rhoddodd y Tad bob peth i'w dwylaw,—hwynthwy ydynt y rhai sydd yn offeiriaid a breninoedd, y rhai a dderbyniasant o'i gyflawnder a'i ogoniant ef, ac sydd yn offeiriaid i'r Goruchaf yn ol urdd Melchisedec, yr hon oedd yn ol urdd Enoch, yr hon oedd yn ol urdd yr unig-anedig Fab; gan hyny, megys y mae yn ysgrifenedig, Duwiau ydynt hwy, sef meibion Duw,—o ba herwydd, pob peth ydynt eiddo hwy, pa un ai bywyd ai angeu, neu bethau presennol neu bethau i ddyfod, pob peth sydd eiddo hwynt, a hwy ydynt eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw, a hwy a orchfygant bob peth; gan hyny na fydded i un dyn ymogoneddu mewn dyn, eithr yn hytrach bydded iddo ymogoneddu yn Nuw, yr hwn a ddar-

ostynga bob gelynion dan ei draed,—y rhai hyn a breswyliant yn mhresennoldeb Duw a'i Grist ef yn oes oesoedd. Hwynthwy yw y rhai a ddyga efe gydag ef, pan ddaw yn nghymylau y nef, i deyrnasu ar y ddaear dros ei bobl. Y rhai hyn yw y rhai a gant ran yn yr adgyfodiad cyntaf. Y rhai hyn yw y rhai a ddeuant allan yn adgyfodiad y cyfiawn. Y rhai hyn yw y rhai sydd i ddyfod i fynydd Seion, ac i ddinas y Duw byw, y lle nefol, y santeiddiaf o bob lle. Y rhai hyn yw y rhai sydd wedi dyfod i gwmpeini aneirif o angylion, i gymmanfa gyffredinol eglwys Enoch, a'r cyntaf-anedig. Y rhai hyn ydynt hwy ag y mae eu henwau yn ysgrifenedig yn y nef, lle y mae Duw a Christ yn farnwr pawb. Y rhai hyn ydynt hwy ag ydynt yn ddynion cyfiawn wedi eu gwneyd yn berffaith trwy Iesu cyfryngwr y cyfammod newydd, yr hwn a weithiodd allan y Iawn perffaith hwn trwy dywalltiad ei waed ei hun. Y rhai hyn ydynt hwy ag y mae eu cyrff yn nefol, gogoniant y rhai yw eiddo yr haul, sef gogoniant Duw, yr uchaf o bawb, gogoniant yr hwn yr ysgrifenir am haul y ffurfafen ei fod yn gysgod o hono.

6. A thrachefn, ni a welsom y byd daearol, ac wele a llyna, y rhai hyn ydynt hwy sydd o'r daearol, gogoniant y rhai a wahaniaetha oddiwrth eiddo eglwys y cyntaf-anedig, y rhai ydynt wedi derbyn cyflawnder y Tad, hyd y nod megys y mae eiddo y lleuad yn gwahaniaethu oddiwrth haul y ffurfafen. Wele, y rhai hyn ydynt hwy a fuont farw heb ddeddf, ac hefyd hwy y rhai ydynt ysbrydion dynion yn cael eu cadw yn ngharchar, y rhai yr ymwelodd y Mab â hwynt ac y pregethodd yr efengyl iddynt, fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd, y rhai ni dderbyniasant dystiolaeth Iesu yn y cnawd, ond a'i derbyniasant yn ol llaw. Y rhai hyn ydynt hwy ag sydd yn ddynion anrhydeddus y ddaear, y rhai a ddallwyd gan gyfrwysdra dynion. Y rhai hyn ydynt hwy a dderbyniant o'i ogoniant, eithr nid o'i gyflawnder. Y rhai hyn ydynt hwy a dderbyniant o bresennoldeb y Mab, eithr nid o gyflawnder y Tad; gan hyny, cyrff daearol ydynt, ac nid cyrff nefol, a gwahaniaethant mewn gogoniant megys y mae y lleuad yn gwahaniaethu oddiwrth yr haul. Y rhai hyn ydynt hwy nid ydynt ddewrion yn nhystiolaeth Iesu; gan hyny ni chawsant y goron dros deyrnas ein Duw. Ac yn awr, hyn yw diwedd y weledigaeth a welsom ni am y daearol, yr hon y gorchymynodd

yr Arglwydd i ni ei hysgrifenu tra yr oeddym eto yn yr Ysbryd.

7. A thrachefn, ni a welsom ogoniant y tan-ddaearol, gogoniant yr hwn yw y lleiaf, hyd y nod megys y mae gogoniant y ser yn gwahaniaethu oddiwrth ogoniant y lleuad yn y ffurfafen. Y rhai hyn ydynt hwy ni dderbyniasant efengyl Crist, nac ychwaith dystiolaeth Iesu. Y rhai hyn ydynt hwy nad ydynt yn gwadu yr Ysbryd Glân. Y rhai hyn ydynt hwy a deflir i lawr i uffern. Y rhai hyn ydynt hwy na waredir oddiwrth y diafol hyd yr adgyfodiad olaf, hyd oni fyddo i'r Arglwydd, sef Crist yr Oen, orphen ei waith. Y rhai hyn ydynt hyw na dderbyniant o'i gyflawnder ef yn y byd tragywyddol, eithr o'r Ysbryd Glân trwy weinidogaeth y daearol; a'r daearol trwy weinidogaeth y nefol; ac hefyd y tan-ddaearol a'i derbynia trwy weinidogaeth angylion, y rhai a benodwyd i weinyddu iddynt hwy, neu y rhai a benodwyd i fod yn ysbrydion gwasanaethgar iddynt hwy, canys hwy a fyddant yn etifeddion iachawdwriaeth. Ac felly y gwelsom yn y weledigaeth nefol, ogoniant y tan-ddaearol, yr hwn sydd yn rhagori ar bob dealltwriaeth, ac nid nid oes un dyn yn ei adnabod oddieithr yr hwn y mae Duw wedi ei ddadguddio iddo. Ac felly ni a welsom ogoniant y daearol, yr hwn sydd yn rhagori yn mhob peth ar ogoniant y tan-ddaearol, sef mewn gogoniant, ac mewn gallu, ac mewn nerth, ac mewn llywodraeth. Ac felly ni a welsom ogoniant y nefol, yr hwn sydd yn rhagori yn mhob peth,—lle y mae Duw, sef y Tad, yn teyrnasu ar ei orsedd yn oes oesoedd; o flaen gorsedd yr hwn y mae pob peth yn ymgrymu mewn gostyngedig barch, ac yn rhoddi iddo ef ogoniant yn oes oesoedd. Hwynthwy a arosant yn ei bresennoldeb ydynt eglwys y cyntaf-anedig, a hwy a welant megys eu gwelir, ac a adnabyddant megys yr adnabyddir hwynt, gan eu bod wedi derbyn o'i gyflawnder ac o'i ras ef; ac efe a'u gwna hwynt yn ogyfuwch mewn awdurdod, mewn gallu, ac mewn llywodraeth. Ac un yw gogoniant y nefol, megys ag y mae gogoniant yr haul yn un. Ac un yw gogoniant y daearol, megys ag y mae gogoniant y lleuad yn un. Ac un yw gogoniant y tan-ddaearol, megys ag y mae gogoniant y ser yn un; canys megys ag y mae un seren yn gwahaniaethu oddiwrth seren arall mewn gogoniant, felly y gwahaniaetha un oddiwrth

y llall mewn gogoniant yn y byd tan-ddaearol; canys y rhai hyn ydynt hwy y rhai ydynt eiddo Paul, ac eiddo Apolos, ac eiddo Cephas. Dyma y rhai sydd yn dywedyd fod rhai o honynt yn eiddo un ac ereill yn eiddo y llall,—rhai yn eiddo Crist, a rhai yn eiddo Ioan, a rhai yn eiddo Moses, a rhai yn eiddo Elias, a rhai yn eiddo Esaias, a rhai yn eiddo Isaiah, a rhai yn eiddo Enoch, eithr ni dderbyniasant yr efengyl, na thystiolaeth Iesu, na'r prophwydi, na'r cyfammod tragywyddol. Yn olaf oll, y rhai hyn ydynt hwy ni chesglir gyda'r saint, i gael eu cipio i fyny i eglwys y cyntaf-anedig, a'u derbyn i'r cwmwl. Y rhai hyn ydynt hwy sydd yn gelwyddwyr, yn hudolwyr, yn odinebwyr, yn buteinwyr, a phwy bynag sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd. Y rhai hyn ydynt hwy sydd yn dyoddef digofaint Duw ar y ddaear. Y rhai hyn ydynt hwy sydd yn dyoddef dialedd tân tragywyddol. Y rhai hyn ydynt hwy a daflir i lawr i uffern i ddyoddef digofaint Duw Hollalluog hyd gyflawnder yr amseroedd pan fydd Crist wedi darostwng ei holl elynion dan ei draed, ac wedi perffeithio ei waith, pan rodda i fyny y deyrnas, ac y cyflwyna hi i'r Tad yn ddifrycheulyd, gan ddywedyd,—Myfi a orchfygais ac a sethrais y gwin-wryf fy hunan, sef gwin-wryf llidogrwydd digofaint yr hollalluog Dduw. Yna y coronir ef â choron ei ogoniant, i eistedd ar orsedd ei allu i deyrnasu yn oes oesoedd. Eithr wele, a llyna, ni a welsom ogoniant a thrigolion y byd tan-ddaearol, eu bod mor aneirif â'r ser yn ffurfafen y nef, neu megys y tywod ar fin y môr, a chlywsom lais yr Arglwydd, yn dywedyd, Y rhai hyn oll a gant blygu y glin, a phob tafod a gaiff gyffesu iddo ef sydd yn eistedd ar yr orsedd yn oes oesoedd; canys hwy a fernir yn ol eu gweithredoedd, a phob dyn a dderbynia yn ol ei weithredoedd ei hun, ei lywodraeth ei hunan yn y trigfanau a barotwyd, a hwy a fyddant yn weision i'r Goruchaf, ond lle y mae Duw a Christ yn preswylio nis gallant hwy ddyfod, trwy fydoedd diddiwedd. Hyn yw diwedd y weledigaeth a welsom ni, yr hon y gorchymynwyd i ni ei hysgrifenu tra yr oeddym etto yn yr Ysbryd.

8. Ond mawr a rhyfeddol yw gweithredoedd yr Arglwydd, a dirgeledigaethau ei deyrnas y rhai a ddangosodd efe i ni, y rhai ydynt yn rhagori ar bob dealltwriaeth mewn gogoniant, ac mewn gallu, ac mewn llywodraeth, y rhai y gorchymynodd

ef i ni beidio eu hysgrifenu tra yr oeddym etto yn yr Ysbryd, ac nid ydynt gyfreithlawn i ddyn eu mynegi; ac nid yw dyn yn alluog ychwaith i'w gwneyd yn hysbys, canys nid ydynt i'w canfod na'u deall ond trwy allu yr Ysbryd Glân, yr hwn a rodda Duw i'r rhai hyny a'i carant ef, ac a burant eu hunain ger ei fron; i'r rhai y mae ef yn rhoddi y rhagorfraint hon o weled a gwybod drostynt eu hunain, fel trwy allu ac eglurhad yr Ysbryd, tra yn y cnawd, y byddont yn alluog i oddef ei bresennoldeb ef yn myd y gogoniant. Ac i Dduw a'r Oen y byddo gogoniant, ac anrhydedd, a llywodraeth yn oes oesoedd. Amen.

DOSRAN XCIII.

Dadguddiad a roddwyd Mawrth, 1833.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi mewn perthynas i'r Apocrypha, y mae llawer o bethau yn gynnwysedig ynddo ag sydd yn wir, ac y mae gan mwyaf wedi ei gyfieithu yn gywir; mae llawer o bethau yn gynnwysedig ynddo nad ydynt yn wir, y rhai ydynt ychwanegiadau gan ddwylaw dynion. Yn wir, meddaf i chwi, nid yw yn anghenrheidiol i'r Apocrypha gael ei gyfieithu. Gan hyny, yr hwn a'i darlleno, bydded iddo ddeall, canys yr Ysbryd a eglura y gwirionedd; a phwy bynag a oleuir gan yr Ysbryd, a dderbyn les oddiwrth hyny; a phwy bynag nad yw yn derbyn gan yr Ysbryd, nis gall gael ei leshau, gan hyny nid yw yn anghenrheidiol iddo gael ei gyfieithu. Amen.

DOSRAN XCIV.

Dadguddiad i Enoch, ar urdd yr Eglwys er lles y tlodion. A roddwyd i'r Saint yn Kirtland, Mawrth, 1833.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr wyf yn rhoddi i'r urdd unedig, a gydgorffolwyd yn unol â'r gorchymyn a roddwyd yn flaenorol, ddadguddiad a gorchymyn mewn perthynas i'm gwas Shederlaomach, fod i chwi ei dderbyn ef i'r urdd. Yr hyn wyf yn ddywedyd wrth un, yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb.

2. A thrachefn, yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, fy ngwas

Shederlaomach, y rhaid i chwi fod yn aelod bywiog yn yr urdd hwn, ac yn gymmaint â'ch bod yn ffyddlawn i gadw yr holl orchymynion blaenorol, chwi a fendithir yn dragywydd. Amen.

DOSRAN XCV.

Dadguddiad a roddwyd yn Perrysburgh, Caerefrog Newydd, i Joseph Smith, ieu., a Sidney Rigdon, Hydref, 1833.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, fy nghyfeillion Sidney a Joseph, eich teuluoedd ydynt yn iach; y maent yn fy nwylaw i, a mi a wnaf â hwynt megys y gwelwyf yn dda; canys ynof fi y mae pob gallu; gan hyny, dilynwch fi, a gwrandewch ar y cynghor a roddaf fi i chwi. Wele, a llyna, y mae genyf bobl lawer yn y lle hwn, yn yr ardaloedd o amgylch ogylch, a bydd i ddrws effeithiol gael ei agor yn yr ardaloedd o amgylch ogylch yn y tir dwyreiniol hwn. Gan hyny, myfi, yr Arglwydd, a'ch goddefais chwi i ddyfod i'r lle hwn, canys felly yr oedd yn fuddiol i mi er iachawdwriaeth eneidiau; gan hyny, yn wir, meddaf i chwi, dyrchefwch eich lleisiau at y bobl hyn, llefarwch y meddyliau a osodaf fi yn eich calonau, ac ni chythryblir chwi gerbron dynion, canys rhoddir i chwi yn yr awr hòno, ïe, yn y fynyd hono, yr hyn a lefarwch.

2. Eithr gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi, fod i chwi gyhoeddi pa bethau bynag a gyhoeddwch yn fy enw i, mewn difrifoldeb calon, yn ysbryd addfwynder, yn mhob peth. Ac yr wyf yn rhoddi i chwi yr addewid hon, yn gymmaint ag y gwneloch hyn, y bydd i'r Ysbryd Glân gael ei dywallt allan i ddwyn tystiolaeth i ba beth bynag a lefaroch.

3. Ac y mae yn fuddiol i mi, i chwi, fy ngwas Sidney, fod yn lefarwr i'r bobl hyn; ïe, yn wir, yr wyf yn eich ordeinio chwi i'r alwedigaeth hon, sef i fod yn lefarwr i'm gwas Joseph; a mi a roddaf iddo ef allu i fod yn nerthol mewn tystiolaeth; a mi a roddaf i ti allu i fod yn nerthol mewn esbonio yr ysgrythyrau, fel y byddot ti yn llefarwr iddo ef, ac yntau a fydd yn ddadguddiwr i tithau. fel y gwybyddot sicrwydd pob peth a berthyna i bethau fy nheyrnas ar y ddaear. Gan hyny,

dilynwch eich taith, a llawenhaed eich calonau, canys wele a llyna, yr wyf fi gyda chwi hyd y diwedd.

4. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi i chwi air mewn perthynas i Seion. Seion a waredir, er y bydd iddi gael ei cheryddu dros dymmor bychan. Dy frodyr, fy ngweision, Orson Hyde a John Gould, ydynt yn fy nwylaw i, ac yn gymmaint ag y cadwant fy ngorchymynion, hwy a achubir. Gan hyny dyddaner eich calonau chwi, canys pob peth a gydweithiant er daioni y rhai sydd yn rhodio yn uniawn, ac er santeiddhad yr eglwys; canys mi a godaf i fyny i mi fy hun bobl bur, y rhai a'm gwasanaethant mewn cyfiawnder; a phawb a alwant ar enw yr Arglwydd, ac a gadwant ei orchymynion, a achubir. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XCVI.

Dadguddiad a roddwyd Mehefin, 1833.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi y rhai a garaf, a'r rhai wyf yn garu yr wyf hefyd yn eu ceryddu, fel y meddeuer eu pechodau; canys gyda'r cerydd yr wyf yn parotoi ffordd er eu gwaredigaeth yn mhob peth allan o brofedigaeth, ac yr wyf wedi eich caru chwi. Gan hyny, anghenrhaid yw i chwi gael eich ceryddu, a sefyll yn argyhoeddedig gerbron fy wyneb i, canys yr ydych wedi pechu yn fy erbyn bechod mawr iawn, o herwydd nad ystyriasoch fy ngorchymyn mawr yn mhob peth, yr hwn a roddais i chwi mewn perthynas i adeiladu fy nhŷ, erbyn y parotoad â'r hwn yr wyf yn bwriadu parotoi fy apostolion i drin fy ngwinllan am y tro diweddaf, fel y dygwyf oddiamgylch fy ngweithred hynod, fel y tywallt-wyf fy Ysbryd ar bob cnawd. Ond wele, yn wir meddaf i chwi, y mae llawer wedi cael eu hordeinio yn eich plith chwi, y rhai a elwais i, ond ychydig o honynt sydd wedi eu dewis; y rhai nid ydynt wedi eu dewis a bechasant bechod mawr, trwy eu bod yn rhodio mewn tywyllwch ar ganol dydd; ac o herwydd yr achos hwn y rhoddais i chwi orchymyn fod i chwi alw eich cymmanfa santaidd, fel y delai eich ymprydiau a'ch galarnadau i fyny i glustiau Arglwydd y Sabaoth, yr hyn o'i gyfleithu yw Creawdwr y dydd cyntaf, y dechreu a'r diwedd.

2. Ië, yn wir meddaf i chwi, mi a roddais i chwi orchymyn, fod i chwi adeiladu tŷ yn yr hwn dŷ yr wyf fi yn bwriadu cynnysgaethu y rhai hyny a ddewisais â gallu o'r uchelder; canys hyn yw addewid y Tad i chwi; gan hyny gorchymynais i chwi aros, megys fy apostolion yn Jerusalem; er hyny fy ngweision a bechasant bechod mawr, ac amrysonau a godasant yn ysgol y prophwydi, yr hyn oedd yn ofidus iawn i mi, medd eich Arglwydd; gan hyny myfi a'u hanfonais hwynt allan i'w ceryddu.

3. Yn wir, meddaf i chwi, fy ewyllys yw fod i chwi adeiladu tŷ. Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a gewch allu i'w adeiladu; os na chedwch fy ngorchymynion, cariad y Tad nid erys gyda chwi, gan hyny chwi a rodiwch yn y tywyllwch. Yn awr yma y mae doethineb a meddwl yr Arglwydd; bydded i'r tŷ gael ei adeiladu, nid yn ol dull y byd, canys nid wyf yn rhoddi i chwi fel y byddoch byw yn ol dull y byd; gan hyny bydded iddo gael ei adeiladu yn ol y dull a ddangosaf fi i dri o honoch chwi, y rhai fydd i chwi benodi ac ordeinio i'r gallu hwnw. A'i faintioli a fydd bymtheg troedfedd a deugain mewn lled, a bydded yn bum troedfedd a thrigain mewn hŷd, yn y cyntedd tufewnol o hono, a bydded i barth isaf y cyntedd tufewnol gael ei gyssegru i mi at offrwm eich sacrament, ac at eich pregethu, a'ch ymprydio, a'ch gweddio, ac offrymu i fyny eich dymuniadau santeiddiolaf ataf fi, medd yr Arglwydd. A bydd i barth uchaf y cyntedd tufewnol gael ei gyssegru i mi at ysgol fy apostolion, medd y Mab Ahman; neu mewn geiriau ereill, Alphus; neu mewn geiriau ereill, Omegus; sef Iesu Grist eich Arglwydd. Amen.

DOSRAN XCVII.

Dadguddiad i Enoch, yn dangos urdd y ddinas neu estynfa Seion, Shinehah, wedi ei roddi yn gynllun i'r Saint yn Kirtland, Mehefin, 1833.

1. Wele, meddaf i chwi, dyma ddoethineb trwy yr hwn yr adnabyddwch pa fodd i weithredu mewn perthynas i'r mater hwn, canys y mae yn fuddiol i mi fod yr estynfa hon a osodais er cryfder i Seion gael ei gwneyd yn gadarn; gan hyny

bydded i'm gwas Ahashdah gymmeryd gofal y lle a enwir yn eich plith chwi, ar yr hwn y bwriadaf adeiladu fy nhŷ santaidd; ac etto, bydded iddo gael ei ranu yn rhandiroedd yn ol doethineb, er lles y rhai sydd yn ceisio etifeddiaethau, megys y penderfynir mewn cynghor yn eich plith chwi. Gan hyny cymmerwch ofal fod i chwi edrych am y mater hwn, a'r gyfran hono ag sydd yn anghenrheidiol i leshau fy urdd i'r dyben o ddwyn allan fy ngair i blant dynion; canys wele, yn wir meddaf i chwi, hyn yw y mwyaf buddiol i mi, fod i'm gair fyned allan at blant dynion, i'r dyben o ddarostwng calonau plant dynion er eich daioni chwi. Felly y byddo. Amen.

2. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, mae yn ddoethineb ac yn fuddiol ynof fi, fod fy ngwas Zombre, offrwm yr hwn a dderbyniais, a gweddiau yr hwn a wrandawais, i'r hwn yr wyf yn rhoddi addewid o fywyd tragywyddol os ceidw fy ngorchymynion o hyn allan, canys y mae ef yn un o hiliogaeth Seth, ac yn gyfranogwr o fendithion yr addewid a wnaed i'w dadau. Yn wir meddaf i chwi, y mae yn fuddiol ynof fi fod iddo ef ddyfod yn aelod o'r urdd, fel y byddo iddo gynnorthwyo i ddwyn allan fy ngair i blant dynion; gan hyny chwi a'i hordeiniwch ef i'r fendith hon, ac efe a ymdrecha yn ddyfal i symud ymaith y beichiau sydd ar y tŷ a enwir yn eich plith chwi, fel y preswylio ynddo. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XCVIII.

Dadguddiad a roddwyd Rhagfyr, 1833.

1. Yn wir, meddaf i chwi, mewn perthynas i'ch brodyr a gystuddiwyd, a erlidiwyd, ac a daflwyd allan o dir ei hetifeddiaeth, myfi, yr Arglwydd a oddefais i'r cystudd ddyfod arnynt, â'r hwn y cystuddiwyd hwy, o achos eu troseddau; etto myfi a'u harddelaf hwy, a chant fod yn eiddo i mi yn y dydd y deuaf i wneyd i fyny fy nhlysau.

2. Gan hyny anghenrhaid yw iddynt gael eu ceryddu a'u profi hyd y nod megys Abraham, yr hwn a orchymynwyd i offrymu i fyny ei unig fab; canys yr holl rai na oddefant gerydd, eithr a'm gwadant i, nis gellir eu santeiddio.

3. Wele, meddaf i chwi, yr oedd cynhenau, ac amrysonau, a

chenfigenau, ac ymrafaelion, a chwantau trythyll a thrachwantus yn eu mysg hwynt; gan hyny hwy a halogasant eu hetifeddiaethau â'r pethau hyn. Yr oeddynt yn hwyrdrwm i wrandaw ar lais yr Arglwydd eu Duw, gan hyny y mae yr Arglwydd eu Duw yn hwyrdrwm i wrandaw ar ei gweddiau hwythau, i'w hateb yn nydd eu trallod. Yn nydd eu heddwch cyfrifent yn ysgafn fy nghynghor; ond yn nydd eu trallod, y maent o anghenrheidrwydd yn chwilio am danaf fi.

4. Yn wir meddaf i chwi, er eu holl bechodau, fy amysgaroedd ydynt wedi eu llanw â thosturi tuag atynt; ni lwyr daflaf hwynt ymaith; ac yn nydd digofaint mi a gofiaf drugaredd. Myfi a dyngais, ac y mae y cyhoeddiad wedi myned allan trwy orchymyn blaenorol a roddais i chwi, y byddai i mi adael cleddyf fy nigllonder syrthio ar ran fy mhobl; ac megys y dywedais, felly y daw oddiamgylch. Fy nigofaint sydd yn fuan i gael ei dywallt allan heb fesur ar bob cenedl, a hyn a wnaf pan fydd cwpan eu drygioni yn llawn. Ac yn y dydd hwnw pawb a geir ar y gwŷl-dwr, neu mewn geiriau ereill, fy holl Israel a achubir. A'r rhai a wasgarwyd a gesglir ynghyd; a'r holl rai a alarant a gysurir; a'r holl rai a roddasant eu bywydau dros fy enw i a goronir. Gan hyny bydded i'ch calonau gael eu dyddanu mewn perthynas i Seion, canys pob cnawd sydd yn fy nwylaw i; byddwch lonydd, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw. Ni symudir Seion allan o'i lle, er fod ei phlant yn wasgaredig; y rhai sydd yn aros, ac sydd yn bur yn eu calon, a ddychwelant ac a ddeuant i'w hetifeddiaethau, hwynthwy a'u plant, gyda chaniadau o lawenydd tragywyddol, i adeiladu i fyny anial-leoedd Seion; a'r holl bethau hyn fel y byddo i'r prophwydi gael eu cyflawni. Ac wele, nid oes un lle arall wedi ei benodi ond yr hwn a benodais i, ac ni chaiff un lle arall ychwaith ei benodi ond yr hwn a benodais i at y gwaith o gynnull fy Saint, hyd oni ddaw y dydd pan na cheir rhagor o le iddynt; ac yna y mae genyf leoedd ereill y rhai a benodaf iddynt, a chant eu galw yn estynfeydd, i'r llèni, neu nerth Seion.

5. Wele, fy ewyllys yw fod i bawb sydd yn galw ar fy enw i, ac yn fy addoli yn ol fy efengyl dragywyddol, ymgynnull ynghyd a sefyll mewn lleoedd santaidd, a pharotoi erbyn y dadguddiad sydd i ddyfod, pan fydd i lèn gorchudd fy nheml, yn

fy nhabernacl, yr hon sydd yn cuddio y ddaear, gael ei chymmeryd ymaith, a phob cnawd ynghyd a'm gwelant i. A phob peth llygredig, o ddyn, neu o fwystfilod y maes, neu o ehediaid y nefoedd, neu o bysgod y môr, sydd yn trigo ar holl wyneb y ddaear, a ysir; ac hefyd yr elfenau a doddant gan wir wres, a phob peth a ddaw yn newydd, fel y byddo i'm gwybodaeth a'm gogoniant breswylio ar yr holl ddaear. Ac yn y dydd hwnw gelyniaeth dyn, a gelyniaeth bwystfilod, ïe, gelyniaeth pob cnawd a dderfydd oddi gerbron fy wyneb. Ac yn y dydd hwnw, pa beth bynag a ofyno un dyn a roddir iddo. Ac yn y dydd hwnw ni chaiff Satan allu i demtio un dyn. Ac ni fydd dim tristwch, o herwydd ni fydd marwolaeth. Ac yn y dydd hwnw ni fydd y baban farw hyd oni fydd yn hen, a'i fywyd fydd megys oes pren; a phan fydd farw, ni chaiff huno (hyny yw, yn y ddaear), eithr efe a newidir ar darawiad llygad, ac a gipir i fyny, a'i orphwysfa a fydd yn ogoneddus. Ië, yn wir meddaf i chwi, yn y dydd hwnw pan ddaw yr Arglwydd, efe a ddadguddia bob peth,—pethau a aethant heibio, a phethau cuddiedig y rhai ni wyddai un dyn,—pethau y ddaear trwy ba rai y gwnaed hi, a'r dybenion a'r amcan o honi,—pethau gwerthfawrocaf,—pethau sydd uchod, a phethau sydd isod,—pethau sydd yn y ddaear, ac ar y ddaear, ac yn y nef. A'r holl rai a oddefant erlidigaeth dros fy enw i, ac a barhant mewn ffydd, er y gallant gael eu galw i osod eu bywydau i lawr er fy mwyn i, etto hwy a gant gyfranogi o'r holl ogoniant hwn. Gan hyny, nac ofnwch hyd y nod hyd angeu; canys nid yw eich llawenydd yn gyflawn yn y byd hwn, eithr ynof fi y mae eich llawenydd yn gyflawn. Gan hyny, na ofalwch am y corff, nac ychwaith am fywyd y corff; eithr gofalwch am yr enaid, ac am fywyd yr enaid; a cheisiwch wyneb yr Arglwydd yn wastadol, fel mewn amynedd y meddiannoch eich eneidiau, a chwi a gewch fywyd tragywyddol. Pan fyddo dynion yn cael eu galw at fy efengyl dragywyddol a'm cyfammod, gyda chyfammod tragywyddol, hwy a gyfrifir megys halen y ddaear a pher-arogl dynion; gelwir hwynt i fod yn ber-arogl dynion. Gan hyny, os bydd i halen hwnw y ddaear golli ei flas, nid yw mwyach yn dda i ddim, ond i'w daflu allan a'i sathru dan draed dynion. Wele, yma y mae doethineb mewn perthynas i blant Seion, sef llawer, eithr nid pawb; cafwyd hwy yn droseddwyr, gan hyny

y mae yn anghenrhaid eu ceryddu. Yr hwn a dderchafo ei hun a ostyngir, a'r hwn a ostyngo ei hun a dderchefir.

6. Ac yn awr, mi a ddangosaf i chwi ddammeg, fel y gwybyddoch fy ewyllys mewn perthynas i brynedigaeth Seion. Yr oedd gan ryw bendefig ddernyn o dir, tra dewisol; ac efe a ddywedodd wrth ei weision, Ewch chwi i'm gwinllan, sef ar y dernyn tra dewisol hwn o dir, a phlenwch ddeuddeg o goed olew-wydd, a gosodwch wylwyr o amgylch ogylch iddynt, ac adeiladwch dwr, fel y gallo un edrych dros y tir o amgylch ogylch i fod yn wyliwr ar y twr, fel na fyddo i'm coed olew-wydd gael eu tòri i lawr, pan ddaw y gelynion i yspeilio a chymmeryd iddynt eu hunain ffrwythau fy ngwinllan. Yn awr, gweision y pendefig a aethant ac a wnaethant megys y gorchymynodd eu harglwydd iddynt; planasant y coed olew-wydd, a chodasant glawdd o amgylch, a gosodasant wylwyr, ac a ddechreuasant adeiladu y twr. A thra yr oeddynt etto yn gosod ei sylfaen, dechreuasant ddywedyd yn eu plith eu hunain, A pha anghen sydd ar fy arglwydd am y twr hwn? a chydymgynghorasant dros hir amser, gan ddywedyd yn eu plith eu hunain, Pa anghen sydd ar fy arglwydd am y twr hwn, gan y gwelir mae amser heddwch yw yn awr? Oni ellai yr arian hyn gael eu rhoddi i'r cyfnewidwyr? canys nid oes anghen am y pethau hyn! A thra yr oeddynt yn dadleu â'u gilydd, aethant yn dra musgrell, ac ni wradawsant ar orchymynion eu harglwydd, a'r gelynion a ddaethant o hyd nos, ac a dorasant i lawr y clawdd, a gweision y pendefig a gyfodasant ac a ddychrynwyd, a hwy a ffoisant; a'r gelynion a ddystrywiasant eu gwaith, ac a dorasant i lawr y coed olew-wydd.

7. Yn awr, wele, y pendefig, arglwydd y winllan, a alwodd ar ei weision, ac a ddywedodd wrthynt,—Paham! beth yw yr achos o'r drwg mawr hwn? oni ddylasech chwi wneuthur megys y gorchymynais i chwi? ac wedi i chwi blanu y winllan, ac adeiladu y clawdd oddiamgylch, a gosod gwylwyr ar ei muriau, adeiliadu y twr hefyd, a gosod gwyliwr ar y twr, a gwylio ar fy ngwinllan, a pheidio syrthio i gysgu, rhag i'r gelyn ddyfod arnoch chwi? ac wele, y gwyliwr ar y twr a fuasai yn canfod y gelyn tra yr oedd etto yn mhell, ac yna chwi a allasech ymbarotoi a chadw y gelyn rhag tori i lawr ei

chlawdd, ac achub fy ngwinllan o law y dinystrydd. Ac arglwydd y winllan a ddywedodd wrth un o'i weision,—Dos, a chynnull ynghyd y gweddill o'm gweision, a chymmer holl gryfder fy nhŷ, sef fy rhyfelwyr, fy ngwyr ieuainc, a'r rhai canol oed hefyd yn mhlith fy holl weision, y rhai ydynt gryfder fy nhŷ, oddieithr y rhai hyny a benodais i aros; ac ewch yn ddiattreg i dir fy ngwinllan, ac achubwch fy ngwinllan, canys fy eiddo i ydyw, myfi a'i prynais ag arian. Gan hyny, ewch yn ddiattreg i'm tir; torwch i lawr furiau fy ngelynion; tefiwch i lawr eu twr, a gwasgarwch eu gwylwyr; ac yn gymmaint ag y bydd iddynt hwy ymgynnull yn eich erbyn chwi, dialwch fi ar fy ngelynion, fel y delwyf yn mhen ychydig gyda gweddill fy nhŷ, ac y meddiannwyf y tir.

8. A'r gwas a ddywedodd wrth ei arglwydd,—Pa bryd y bydd y pethau hyn? Ac efe a ddywedodd wrth ei was, Pan ewyllysiwyf fi; ewch chwi yn ddiattreg, a gwnewch yr holl bethau a orchymynais i chwi; a hyn a fydd fy sêl a'm bendith arnoch chwi—goruchwyliwr ffyddlawn a doeth yn nghanol fy nhŷ, llywodraethwr yn fy nheyrnas. A'i was a aeth yn ddiattreg, ac a wnaeth yr holl bethau a orchymynasai ei arglwydd iddo, ac wedi llawer o ddyddiau yr holl bethau hyny a gyflawnwyd.

9. Etto, yn wir, meddaf i chwi, myfi a ddangosaf i chwi ddoethineb ynof fi mewn perthynas i'r holl eglwysi, yn gymmaint â'u bod yn foddlawn i gymmeryd eu cyfarwyddo mewn ffordd gywir a phriodol er eu hiachawdwriaeth, fel y byddo i'r gwaith o gynnull ynghyd fy Saint gael ei barhau, fel y byddo i mi eu hadeiladu i fyny i'm henw ar leoedd santaidd; canys daeth amser cynauaf, ac anghenrhaid yw i'm gair gael ei gyflawni. Gan hyny, rhaid i mi gynnull ynghyd fy mhobl, yn ol dammeg y gwenith a'r efrau, fel y byddo i'r gwenith gael ei ddiogelu yn yr ysguboriau i feddiannu bywyd tragywyddol, a chael eu coroni â gogoniant nefol, pan ddeuaf fi yn nheyrnas fy Nhad, i wobrwyo pob dyn yn ol fel y byddo ei waith, tra y bydd i'r efrau gael eu cylymu yn sypynau, a gwneir eu rhwymau yn gryfion, fel y byddo iddynt gael eu llosgi â thân anniffoddadwy. Gan hyny, gorchymyn wyf yn roddi i'r holl eglwysi, fod iddynt barhau i ymgynnull ynghyd i'r lleoedd a benodais i; er hyny, megys y dywedais wrthych mewn gor-

chymyn blaenorol, na fydded eich cynnulliad mewn brys, na thrwy ffoedigaeth; eithr bydded i bob peth gael ei barotoi o'ch blaen chwi; ac i'r dyben i bob peth gael ei barotoi o'ch blaen chwi, sylwch ar y gorchymynion a roddais i mewn perthynas i'r pethau hyn, y rhai a ddywedant, neu a ddysgant, i brynu yr holl diroedd ag arian, ag a ellir eu prynu am arian, yn yr ardal o amgylch ogylch y tir a benodais i fod yn dir Seion, at ddechreuad ymgynnulliad fy Saint; yr holl dir a ellir ei brynu yn swydd Jackson, a'r swyddi o amgylch ogylch, a gadael y gweddill yn fy llaw i.

10. Yn awr, yn wir, meddaf i chwi, bydded i'r holl eglwysi gasglu ynghyd eu holl arian; bydded i'r pethau hyn gael eu gwneuthur yn eu hamser, na fyddwch mewn brys, a gofalwch gael pob peth wedi ei barotoi o'ch blaen chwi. A bydded i ddynion anrhydeddus gael eu penodi, sef dynion doeth, ac anfonwch hwynt i brynu y tiroedd hyn; a phob eglwys yn y gwledydd dwyreiniol, wedi eu hadeiladu i fyny, os gwrandawant ar y cynghor hwn, a allant brynu tiroedd, ac ymgynnull ynghyd arnynt, ac yn y ffordd hon y bydd iddynt sefydlu Seion. Y mae hyd y nod yn awr ddigon eisoes mewn ystôr; ïe, hyd y nod digon i brynu Seion, a sefydlu ei lleoedd anial, i beidio cael eu taflu i lawr mwyach, pe byddai yr eglwys, y rhai ydynt yn galw eu hunain wrth fy enw i, yn ewyllysgar i wrandaw ar fy llais. A thrachefn, meddaf i chwi, y rhai hyny a wasgarwyd gan eu gelynion, fy nymuniad yw fod iddynt barhau i daer ddeisyf am iawn, ac ymwared, ar ddwylaw y rhai a osodwyd yn rheolwyr, ac sydd mewn awdurdod drosoch chwi, yn unol â chyfreithiau a ffurf-lywodraeth y bobl a oddefais i i'w sefydlu, ac a ddylent gael eu cadw er iawnderau a nodded pob cnawd, yn ol egwyddorion cyfiawn a santaidd, fel y byddo i bob dyn weithredu mewn athrawiaeth ac egwyddor perthynol i'r amser dyfodol, yn ol yr oruchwyliaeth foesol a roddais i iddynt hwy, fel y byddo pob dyn yn gyfrifol am ei bechodau ei hun yn nydd y farn. Gan hyny nid yw yn iawn i un dyn fod mewn caethiwed i un arall. Ac i'r dyben hwn y sefydlais i ffurf-lywodraeth y tir hwn, trwy ddwylaw dynion doeth a godais i fyny i'r dyben hwnw yn unig, ac y prynais y tir trwy dywalltiad gwaed.

11. Yn awr, i ba beth y cyffelybaf blant Seion? Cyffelybaf

hwynt i ddammeg y wraig a'r barnwr anghyfiawn (canys fe ddylai dynion yn wastad weddio a pheidio diffygio), yr hon sydd yn dywedyd,—Yr oedd mewn dinas farnwr yr hwn nad oedd yn ofni Duw, nac yn parchu dyn. Ac yr oedd gwraig weddw yn y ddinas hono, a hi a ddaeth ato ef, gan ddywedyd, Diala fi ar fy ngwrthwynebwr. Ac ni wnelai efe am ennyd, ond wedi hyny efe a ddywedodd ynddo ei hunan—Er nad wyf yn ofni Duw, nac yn parchu dyn, etto o herwydd fod y wraig weddw hon yn fy aflonyddu, mi a'i dialaf hi, rhag trwy ei mynych ddyfodiad, iddi fy mlino. Felly y cyffylaf blant Seion.

12. Bydded iddynt daer erfyn wrth draed y barnwr; ac os na wna efe sylw o honynt, bydded iddynt daer erfyn wrth draed y llywodraethwr; ac os na sylwa y llywodraethwr arnynt, bydded iddynt daer erfyn wrth draed y llywydd; ac os na sylwa y llywydd arnynt, yna yr Arglwydd a gyfoda ac a ddaw allan o'i ymgudd-le, ac yn ei lidiawgrwydd a flina y genedl, ac yn ei anfoddlonrwydd mawr, ac yn ei ddigter dirfawr, yn ei amser, a dora ymaith y goruchwylwyr drygionus, anffyddlawn, ac anghyfiawn hyny, ac a benoda iddynt eu cyfran yn mhlith rhagrithwyr ac anghredinwyr; sef mewn tywyllwch eithaf, lle y mae llefain, wylofain, a rhincian dannedd. Gweddiwch chwi, gan hyny, fel y byddo i'w clustiau gael eu hagor i'ch cri, fel y byddwyf fi drugarog wrthynt hwy, fel na ddelo y pethau hyn arnynt. Yr hyn a ddywedais wrthych chwi, y mae yn rhaid iddo fod, fel y byddo pob dyn yn cael ei adael yn ddiesgus; fel y caffo doethion a llywodraethwyr glywed a gwybod yr hyn nad ystyriasant erioed; fel yr elwyf rhagof i ddwyn oddiamgylch fy ngweithred, fy ngweithred ddyeithr, a chyflawni fy ngwaith, fy ngwaith dyeithr, fel y gallo dynion wahaniaethu rhwng y cyfiawn a'r drygionus, medd eich Duw.

13. A thrachefn, meddaf i chwi, y mae yn groes i'm gorchymyn a'm hewyllys, i'm gwas Sidney Gilbert werthu fy ystordy, yr hwn a benodais i fy mhobl, i ddwylaw fy ngelynion. Na fydded i'r hyn a benodais i gael ei halogi gan fy ngelynion, trwy gydsyniad y rhai hyny sydd yn galw eu hunain ar fy enw; canys y mae hyn yn bechod mawr a blin yn fy erbyn i, ac yn erbyn fy mhobl, o achos y pethau hyny a gyhoeddais ac

ydynt yn fuan i ddygwydd i'r cenedloedd. Gan hyny fy ewyllys i yw i'm pobl hawlio, a chadw hawl yn yr hyn ag wyf fi wedi benodi iddynt, er pe na chaent drigo arno; er hyny, nid wyf fi yn dywedyd na chant drigo arno; canys yn gymmaint ag y dygant allan ffrwyth a gweithredoedd teilwng o'm teyrnas, hwy a gant drigo arno; hwy a gant adeiladu, ac ni chaiff arall ei gyfanneddu; hwy a gant blanu gwinllanoedd, a chant fwyta o'u ffrwyth hwynt. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN XCIX.

Dadguddiad a roddwyd i Enoch, ynghylch urdd neu gyfundeb yr Eglwys er lles y Tlawd.

1. Yn wir, meddaf i chwi, fy nghyfeillion, yr wyf yn rhoddi i chwi gynghor a gorchymyn ynghylch yr holl feddiannau a berthynant i'r urdd yr hwn a orchymynais i ei reoleiddio a'i sefydlu, i fod yn urdd unol, ac yn urdd tragywyddol er lles fy eglwys, ac er iachawdwriaeth dynion hyd oni ddelwyf, gydag addewid gadarn ac anghyfnewidiol, yn gymmaint ag y byddai y rhai hyny a orchymynais yn ffyddlawn, y bendithid hwy â lliosogrwydd o fendithion; ond yn gymmaint ag na fuont ffyddlawn, buont yn agos â chael eu melldithio. Gan hyny, yn gymmaint ag na chadwodd rhai o'm gweision y gorchymyn, eithr a dorasant y cyfammod trwy gybyddra a geiriau twyllodrus, yr wyf wedi eu melldithio hwy â melldith drom a thost iawn, canys yr wyf fi, yr Arglwydd, wedi penderfynu yn fy nghalon, yn gymmaint ag y bydd unrhyw ddyn perthynol i'r urdd, i'w gael yn droseddwr, neu mewn geiriau ereill, a dòro y cyfammod â pha un yr ydych chwi wedi eich rhwymo, efe a felldithir yn ei fywyd, ac a sethrir dan draed gan y sawl a ewyllysiaf fi, canys nid wyf fi, yr Arglwydd, i'm gwatwar yn y pethau hyn, a hyn oll fel na chaffo y diniwed yn eich plith chwi ei gondemnio gyda'r anghyfiawn, ac fel na ddiango yr euog yn eich plith chwi, canys myfi, yr Arglwydd, wyf wedi addaw i chwi goron o ogoniant ar fy neheulaw. Gan hyny, yn gymmaint ag os ceir chwi yn droseddwyr, nis gallwch ddianc rhag fy nigofaint yn eich bywyd; yn gymmaint ag os torir chwi ymaith trwy droseddiad, nis

gellwch ddianc rhag cernodiau Satan hyd ddydd pryned-igaeth.

2. Ac yn awr yr wyf fi yn rhoddi i chwi awdurdod o'r awr hon allan, os bydd unrhyw ddyn yn eich plith chwi, o'r urdd, i'w gael yn droseddwr ac ddim yn edifarhau am y drwg, chwi a gewch ei draddodi ef drosodd i gael ei gernodio gan Satan, ac ni chaiff efe allu i'ch drygu chwi. Y mae yn ddoethineb ynof fi: gan hyny gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi, fod i chwi reoleiddio eich hunain, a phenodi i bob dyn ei oruchwyliaeth, fel y gallo pob dyn roddi cyfrif i mi o'i oruchwyliaeth yr hon a benodir iddo; canys y mae yn addas i mi, yr Arglwydd, i wneuthur pob dyn yn gyfrifol, megys goruchwylwyr dros fendithion daearol, y rhai a greais ac a barotoais i'm creaduriaid. Myfi, yr Arglwydd, a estynais allan y nefoedd, ac a adeiladais y ddaear megys gwaith tra chyflym, a phob peth ynddynt ydynt eiddof fi: a'm bwriad i yw darparu dros fy Saint, canys pob peth ydynt eiddof fi, ond rhaid i hyny gael ei wneyd yn fy ffordd fy hun; ac wele dyma y ffordd ag wyf fi, yr Arglwydd, wedi arfaethu er darparu dros fy Saint, fel y byddo i'r tlawd gael ei ddyrchafu, yn gymmaint â bod y cyfoethog yn cael ei ddarostwng, canys y mae y ddaear yn llawn, ac y mae digon ac yn ngweddill, ïe, mi a barotoais bob peth, ac a roddais i blant dynion i fod yn oruchwylwyr iddynt eu hunain. Gan hyny, os cymmera dyn o'r cyflawnder ag wyf fi wedi greu, ac ni rodda ei gyfran, yn ol cyfraith fy efengyl, i'r tlawd a'r anghenus, efe a gaiff godi ei olygon gyda'r drygionus yn uffern, gan fod mewn poenau.

3. Ac yn awr, yn wir, yr wyf yn dywedyd wrthych chwi ynghylch meddiannau yr urdd. Bydded i'm gwas Pelagoram gael y lle y preswylia ynddo yn awr wedi ei benodi iddo, a rhandir Tahanes yn oruchwyliaeth iddo, er ei gynnaliaeth tra y byddo yn llafurio yn fy ngwinllan, sef megys ag yr ewyllysiwyf pan orchymynaf iddo, a chaffed pob peth ei wneuthur yn unol â chynghor yr urdd, a chydsyniad unol neu lais yr urdd, y rhai sydd yn byw yn nhir Shinehah. A'r oruchwyliaeth a'r fendith hon, yr wyf fi, yr Arglwydd, yn eu rhoddi i'm gwas Pelagoram, i fod yn fendith iddo, ac i'w had ar ei ol, ac mi a liosogaf fendithion arno, yn gymmaint ag y bydd yn ostyngedig ger fy mron i.

4. A thrachefn, bydded i'm gwas Mahemson gael wedi ei

benodi iddo, yn oruchwyliaeth, y rhandir a gafodd fy ngwas Zombre yn gyfnewid am ei etifeddiaeth flaenorol, iddo ef ac i'w had ar ei ol: ac yn gymmaint ag y bydd yn ffyddlawn, mi a liosogaf fendithion arno, ac ar ei had ar ei ol. A bydded i'm gwas Mahemson roddi ei arian at gyhoeddi fy ngeiriau, yn ol fel ag y cyfarwyddo fy ngwas Gazelam.

5. A thrachefn, bydded i'm gwas Shederlaomach gael y lle y mae yn preswylio ynddo yn awr. A bydded i'm gwas Olihah gael y rhandir sydd yn cydio â'r tŷ yr hwn sydd i fod at y Laneshine-house, yr hwn yw rhandir rhifedi un, ac hefyd y rhandir yn yr hwn y mae ei dad yn byw. A bydded i'm gweision Shederloamach ac Olihah gael y Laneshine-house, a phob peth perthynol iddo; a dyma gaiff fod eu goruchwyliaeth yr hon a benodir iddynt hwy; ac yn gymmaint ag y byddant ffyddlawn, wele, mi a'u bendithiaf, ac a liosogaf fendithion arnynt hwy, a hyn yw dechreu yr oruchwyliaeth yr hon a benodais iddynt, iddynt hwy ac i'w had ar eu hol; ac yn gymmaint ag y byddant ffyddlawn, mi a liosogaf fendithion arnynt ac ar eu had ar eu hol, hyd y nod lliosogrwydd o fendithion.

6. A thrachefn, bydded i'm gwas Zombre gael y tŷ yn mha un y mae yn byw, a'r etifeddiaeth—yr oll, oddieithr y tir sydd wedi ei gadw at adeiladu fy nhai, yr hwn sydd berthynol i'r etifeddiaeth hono, a'r rhandiroedd hyny ag ydynt wedi eu henwi i'm gwas Olihah. Ac, yn gymmaint ag y bydd efe yn ffyddlawn, mi a liosogaf fendithion arno. A'm hewyllys i yw iddo ef werthu y rhandiroedd sydd wedi eu neillduo at adeiladu dinas fy Saint, yn gymmaint ag i hyny gael ei wneyd yn hysbys iddo ef trwy lais fy Ysbryd, ac yn unol â chynghor yr urdd, a thrwy lais yr urdd. A hyn yw dechreu yr oruchwyliaeth ag wyf fi wedi benodi iddo ef, i fod yn fendith iddo, ac i'w had ar ei ol; ac yn gymmaint ag y bydd ef yn ffyddlawn mi a ychwanegaf liosogrwydd o fendithion arno ef.

7. A thrachefn, bydded i'm gwas Ahasdah gael y tai a'r rhandir lle y mae yn awr yn byw wedi eu penodi iddo, a'r rhandir a'r adeilad ar ba y mae yr Ozondah, ac hefyd y rhandir sydd ar gongl ddeheuol yr Ozondah, a hefyd y rhandir ar yr hon y mae y Shule. A hyn oll a benodais i'm gwas Ahasdah, yn oruchwyliaeth iddo, i fod yn fendith arno ef ac ar ei had ar ei ol, er lles Ozondah fy urdd yr hwn a sefydlais i'm hestynfa yn nhir Shinehah; ie, yn

wir, hyn yw yr oruchwyliaeth a benodais i'm gwas Ahashdafr, sef yr holl sefydliad Ozondaidd hwn, efe a'i ddirprwywr a'i had ar ei ol; ac, yn gymmaint ag y bydd yn ffyddlawn i gadw fy ngorchymynion y rhai a roddais iddo, mi a liosogaf fendithion arno, ac ar ei had ar ei ol, hyd y nod liosogrwydd o fendithion.

8. A thrachefn, bydded i'm gwas Gazelam gael y rhandir a neillduwyd at adeiladu fy nhŷ wedi ei benodi iddo, yr hwn sydd ddeugain llath o hyd a deuddeg o led, ac hefyd yr etifeddiaeth ar ba un y mae ei dad yn byw yn awr; a hyn yw dechreu yr oruchwyliaeth a benodais iddo, i fod yn fendith arno ef ac ar ei dad; canys wele, mi a gedwais etifeddiaeth i'w dad at ei gynnaliaeth: gan hyny efe a gyfrifir yn nhŷ fy ngwas Gazelam, ac mi a liosogaf fendithion ar dŷ fy ngwas Gazelam, yn gymmaint ag y bydd yn ffyddlawn, hyd y nod liosogrwydd o fendithion.

9. Ac yn awr yr wyf yn rhoddi gorchymyn i chwi ynghylch Seion, na fydd i chwi mwyach fod yn rhwym megys urdd unol i'ch brodyr yn Seion, oddieithr yn y modd hyn. Ar ol i chwi ymreoleiddio, chwi a elwir Urdd Unedig estynfa Seion, dinas Shinehah. A'ch brodyr, ar ol iddynt hwythau ymreoleiddio, a elwir Urdd Unol Dinas Seion; a hwy a reoleiddir yn eu henwau eu hunain, ac yn eu henw eu hunain; a hwy a gant wneuthur eu gorchwylion yn eu henw eu hunain, ac yn eu henwau eu hunain; a chwi a gewch wneuthur eich gorchwylion chwithau yn eich enw eich hunain, ac yn eich enwau eich hunain. A hyn a orchymynais i ei wneuthur er eich iachawdwriaeth chwi, ac hefyd er eu hiachawdwriaeth hwythau, oblegid eu bod hwy wedi eu gyru allan, ynghyd â'r hyn sydd i ddyfod. Trwy fod y cyfammodau wedi eu tori trwy drosedd, trwy gybydd-dra a geiriau twyllodrus; gan hyny yr ydych chwi yn cael eich dadgyssylltu fel urdd unol gyda'ch brodyr, fel nad ydych yn rhwym wrthynt ond yn unig hyd yr awr hon, ond yn y modd hyn, megys ag y dywedais, trwy fenthyg megys ag y penderfynir gan yr urdd hwn mewn cynghor, megys y byddo eich amgylchiadau yn caniatâu a llais y cynghor yn cyfarwyddo.

10. A thrachefn, gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi ynghylch eich goruchwyliaeth yr hon a benodais i chwi. Wele, yr holl feddiannau hyn ydynt fy eiddo i, neu ynte y mae eich ffydd yn ofer, a chwithau wedi eich cael yn ragrithwyr, ac y mae y

cyfammodau a wnaethoch â mi wedi eu tôri; ac os yw y meddiannau yn eiddo i mi, chwi yw y goruchwylwyr, onide nid ydych yn oruchwylwyr. Ond, yn wir meddaf i chwi, mi a'ch penodais chwi yn oruchwylwyr ar fy nhŷ, sef goruchwylwyr mewn gwirionedd, ac i'r dyben hwn y gorchymynais chwi i reoleiddio eich hunain, hyd y nod i Shinehah fy ngeiriau, cyflawnder fy ysgrythyrau, y dadguddiadau a roddais i chwi, a'r rhai a roddaf i chwi ar ol hyn o amser i amser, i'r dyben o adeiladu i fyny fy eglwys a'm teyrnas ar y ddaear, a pharotoi fy mhobl erbyn yr amser y caf drigo gyda hwynt, yr hwn sydd yn agos wrth law.

11. A chwi a gewch barotoi i chwi eich hunain le at drysorfa, a'i gyssegru i fy enw i; a chwi a gewch benodi un yn eich plith i gadw y drysorfa, ac efe a gaiff ei ordeinio i'r fendith hon; a chaiff sêl fod ar y drysorfa, a'r holl bethau cyssegredig a roddir i mewn i'r drysorfa, ac ni chaiff un dyn yn eich plith chwi ei galw yn eiddo iddo ef, neu unrhyw gyfran o honi, eanys caiff berthyn i chwi oll trwy gydsyniad; ac yr wyf yn ei rhoddi i chwi o'r awr hon allan; ac yn awr, edrychwch eich bod chwi yn myned ac yn gwneuthur defnydd o'r oruchwyliaeth yr hon a benodais i chwi, oddieithr y pethau cyssegredig, i'r dyben o Shinelane y pethau cyssegredig hyn, megys ag y dywedais; a bydd ennill y pethau cyssegredig i'w cael yn y drysorfa, a sêl arno, ac ni chaiff ei ddefnyddio neu ei gymmeryd allan o'r drysorfa gan neb, ac ni chaiff y sêl ychwaith ei thori yr hon a osodir arno, ond yn unig trwy lais yr urdd, neu trwy orchymyn. Ac felly y cewch chwi gadw holl ennill y pethau cyssegredig yn y drysorfa, at ddyben cyssegredig a santaidd: a hon a elwir yn drysorfa gyssegredig yr Arglwydd; a chedwir sêl arni, fel y byddo yn santaidd a chyssegredig i'r Arglwydd.

12. A thrachefn, caiff trysorfa arall ei pharotoi, a chaiff trysorwr ei benodi i gadw y drysorfa, a chaiff sêl ei gosod arni; a phob arian a dderbyniwch chwi yn eich goruchwyliaethau, trwy elwa ar y meddiannau y rhai a benodais i chwi, mewn tai neu mewn tiroedd, neu mewn anifeiliaid, neu mewn pob peth, oddieithr yr ysgrifeniadau santaidd a chyssegredig, y rhai yr wyf fi wedi eu cadw i mi fy hun at ddybenion santaidd a chyssegredig, a gant eu taflu i'r drysorfa mor gyflym ag y

derbynioch arian, wrth y cannoedd, neu wrth y degau a deugain, neu wrth ugeiniau, neu wrth ddegau, neu wrth bumoedd; neu mewn geiriau ereill, os caiff unrhyw ddyn yn eich plith bum talent, bydded iddo eu taflu i'r drysorfa; neu os caiff ddeg, neu ugain, neu ddeg a deugain, neu gant, gwnaed yr un modd; ac na fydded i neb yn eich plith ddywedyd mai ei eiddo ef yw, canys nis gelwir yn eiddo iddo ef, nac unrhyw gyfran o hono; ac ni chaiff unrhyw gyfran o hono ei gymmeryd allan o'r drysorfa, ond yn unig trwy lais a chydsyniad cyffredin yr urdd. A hyn a fydd llais a chydsyniad cyffredin yr urdd; fod unrhyw ddyn yn eich plith, yn dywedyd wrth y trysorwr, Y mae anghen hyn arnaf i'm cynnorthwyo yn fy ngoruchwyliaeth; os bydd yn bum talent, neu os bydd yn ddeg talent, neu ugain, neu ddeg a deugain, neu gant, y trysorwr a gaiff roddi iddo y swm a ofyna i'w gynnorthwyo yn ei oruchwyliaeth, hyd nes y ceir ef yn droseddwr, ac y profir yn eglur gerbron cynghor yr urdd ei fod yn oruchwyliwr anffyddlawn ac annoeth; ond cyhyd ag y byddo efe mewn cyflawn gymdeithas ac yn ffyddlawn, ac yn ddoeth yn ei oruchwyliaeth, hyn a fydd ei arwydd-air i'r trysorwr, na chaiff y trysorwr attal rhoddi. Ond mewn achos o droseddiad, caiff y trysorwr fod yn ddarostyngedig i gynghor a llais yr urdd. Ac os ceir y trysorwr yn oruchwyliwr anffyddlawn ac annoeth, efe a gaiff fod yn ddarostyngedig i gynghor a llais yr urdd, a chaiff ei symud allan o'i le, ac arall a benodir yn ei le.

13. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, mewn perthynas i'ch dyledion, wele fy ewyllys i yw i chwi dalu eich holl ddyledion; a'm hewyllys i yw fod i chwi ymddarostwng eich hunain o'm blaen i, a meddu y fendith hon trwy eich diwydrwydd a'ch gostyngeiddrwydd, a gweddi ffydd; ac yn gymmaint ag y byddwch yn ddiwyd a gostyngedig, ac yn ymarfer gweddi ffydd; wele, mi a dyneraf galonau y rhai hyny yr ydych chwi yn eu dyled, hyd nes y danfonaf fodd i chwi er eich gwaredu. Gan hyny ysgrifenwch ar frys at Cainhannoch, ac ysgrifenwch yn ol yr hyn a gyfarwydda fy Ysbryd, ac mi a dyneraf galonau y rhai hyny yr ydych chwi yn eu dyled, fel ag y tynir allan o'u meddyliau i roddi blinder i chwi. Ac yn gymmaint ag y byddwch yn ostyngedig a ffyddlawn, a galw ar fy enw, wele, mi a roddaf y fuddugoliaeth i

chwi. Yr wyf yn rhoddi i chwi addewid, y bydd i chwi gael eich dwyn yr unwaith hon allan o'ch caethiwed; yn gymmaint ag y cewch gyfleusdra i fenthycia arian wrth y cannoedd, neu filoedd, hyd y nod nes y cewch ddigon o fenthyg i waredu eich hunain o gaethiwed, eich braint chwi fydd; a gwystlwch y meddiannau ag wyf fi wedi roddi yn eich dwylaw, yr unwaith hon, trwy roddi eich enwau trwy gydsyniad cyffredin neu fel arall, megys y gweloch yn dda. Yr wyf yn rhoddi i chwi y fraint hon, yr unwaith hon, ac wele, os bydd i chwi fyned yn mlaen i gyflawni y pethau a osodais o'ch blaen, yn ol fy ngorchymynion, yr holl bethau hyn ydynt fy eiddo i, a chwi yw fy ngoruchwylwyr, ac ni ddyoddefa y meistr i'r tŷ gael ei dòri i fyny. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN C.

Dadguddiad a roddwyd Tachwedd, 1834.

1. Fy ewyllys i yw fod i'm gwas Warren A. Cowdery gael ei benodi a'i ordeinio yn archoffeiriad llywyddol ar fy eglwys, yn nhir Rhyddid, a'r ardaloedd oddiamgylch; ac iddo bregethu fy efengyl dragywyddol, a dyrchafu ei lef a rhybyddio y bobl, nid yn unig yn ei le ei hun, ond yn y llefydd cyfagos, a chyssegru ei holl amser yn yr alwedigaeth uchel a santaidd hon ag wyf yn roddi iddo, gan geisio yn ddyfal deyrnas nefoedd a'i chyfiawnder, a phob peth anghenrheidiol a ychwanegir at hyny, canys y mae'r gweithiwr yn deilwng o'i gyflog.

2. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, y mae dyfodiad yr Arglwydd yn agoshau, ac y mae yn goddiweddid y byd megys lleidr yn y nos: gan hyny gwregyswch eich lwynau, fel y byddoch chwi yn blant y goleuni, ac na fyddo i'r dydd hwnw eich dal chwi megys lleidr.

3. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, yr oedd llawenydd yn y nef, pan y darfu i'm gwas Warren blygu i'm teyrnwialen a didoli ei hunan oddiwrth gynllwynion dynion: gan hyny, gwyn fyd fy ngwas Warren, canys mi a gymmeraf drugaredd arno; ac er oferedd ei galon, mi a'i dyrchafaf ef i fyny yn ol fel yr ymostynga o'm blaen i; ac mi a roddaf iddo râs a

sicrwydd fel y gallo sefyll, ac os parha i fod yn dyst ffyddlawn ac yn oleuni i'r eglwys, yr wyf wedi parotoi coron iddo yn nhrigfanau fy Nhad. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN CI.

Dadguddiad a roddwyd Chwefror, 1834.

1. Yn wir meddaf i chwi, fy nghyfeillion, wele mi a roddaf i chwi ddadguddiad a gorchymyn, fel y gwybyddoch pa fodd i weithredu yn nghyflawniad eich dyledswyddau mewn perthynas i iachawdwriaeth a phrynedigaeth eich brodyr sydd wedi eu gwasgaru yn nhir Seion; wedi eu gyru a'u taraw gan ddwylaw fy ngelynion, ar ba rai y tywalltaf allan fy llid heb fesur yn fy amser fy hun: canys yr wyf wedi dyoddef iddynt hyd yma, fel y llanwent i fyny fesur eu hanwiredd, fel y byddai eu cwpan yn llawn; ac fel y byddai i'r rhai hyny a alwant eu hunain ar fy enw i gael eu ceryddu am dymmor bychan â cherydd tost a blin, o herwydd na wrandawsant i gyd ar y gorchymynion a'r rheolau a roddais iddynt.

2. Ond yn wir meddaf i chwi, yr wyf fi wedi arfaethu i'm pobl yr hyn a gaiff ei wirio iddynt, yn gymmaint ag y gwrandawant o'r awr hon allan, ar y cynghor yr hwn a roddaf fi, yr Arglwydd eu Duw, iddynt. Wele, hwy a gant, canys yr wyf fi wedi ei arfaethu, ddechreu gorchfygu fy ngelynion o'r awr hon allan, a thrwy gofio cadw yr holl eiriau a fydd i mi, yr Arglwydd eu Duw, lefaru wrthynt, ni pheidiant a gorchfygu hyd nes y darostyngir teyrnasoedd y byd dan fy nhraed, ac y bydd i'r ddaear gael ei rhoddi i'r saint, i'w meddiannu yn oes oesoedd. Ond yn gymmaint ag na chadwant fy ngorchymynion, ac na chofiant i gadw fy holl eiriau, teyrnasoedd y byd a'u gorchfygant hwy, canys gosodwyd hwynt i fod yn oleuni i'r byd, ac i fod yn iachawdwyr dynion; ac yn gymmaint ag nad ydynt yn iachawdwyr dynion, y maent megys halen wedi colli ei flas, ac nad yw gan hyny dda i ddim ond i'w daflu allan a'i sathru dan draed dynion.

3. Ond yn wir meddaf i chwi, yr wyf fi wedi arfaethu fod i'ch brodyr y rhai ydynt wedi eu gwasgaru gael dychwelyd i dir eu hetifeddiaethau, ac i adeiladu i fyny leoedd anghyf-

annedd Seion; canys ar ol llawer o drallod, fel ag y dywedais mewn gorchymyn blaenorol, y mae y fendith yn dyfod. Wele, hyn yw y fendith yr hon a addawais ar ol eich trallodion, a thrallodion eich brodyr; eich gwaredigaeth, a gwaredigaeth eich brodyr, ïe, eu hadferiad i dir Seion, i gael eu sefydlu fel na theflir i lawr mwyach; er hyny, os halogant eu hetifeddiaethau, hwy a deflir i lawr, canys nid arbedaf hwynt os halogant eu hetifeddiaethau. Wele, meddaf i chwi, rhaid i waredigaeth Seion ddyfod trwy allu; gan hyny, mi a gyfodaf ddyn i fyny i'm pobl, yr hwn a'u harweinia megys yr arweiniodd Moses blant Israel, canys chwi ydych blant Israel, ac had Abraham, ac y mae yn rhaid i chwi gael eich arwain allan o gaethiwed trwy allu, ac â braich estynedig: ac megys yr arweiniwyd eich tadau ar y cyntaf, felly y bydd gwaredigaeth Seion. Gan hyny, na lewyged eich calonau, canys nid wyf yn dywedyd wrthych chwi megys ag y dywedais wrth eich tadau, fy angel a â o'ch blaen chwi, ond nid fy mhresennoldeb; eithr yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, fy angylion a ânt o'ch blaen chwi, ac hefyd fy mhresennoldeb, ac mewn amser chwi a etifeddwch y wlad dda.

4. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, fy ngwas Baurak Ale yw y dyn i'r hwn y cyffelybais y gwas wrth ba un y llefarodd Arglwydd y winllan yn y ddammeg a roddais i chwi.

5. Gan hyny bydded i'm gwas Baurak Ale ddywedyd wrth gryfdwr fy nhŷ, fy ngwyr ieuainc, a'm canol oed, Ymgasglwch ynghyd i dir Seion, i'r tir a brynais i ag arian ag sydd wedi eu cyssegru i mi; a bydded i'r holl eglwysi anfon i fyny ddynion doeth gyda'u harian, a phrynu tiroedd megys ag wyf fi wedi gorchymyn iddynt; ac yn gymmaint ag y daw fy ngelynion yn eich erbyn i'ch gyru o'm gwlad dda, yr hon a gyssegrais i fod yn dir Seion; ïe, o'ch tiroedd eich hunain, ar ol i'r tystiolaethau hyn gael eu dwyn ger fy mron i, yn eu herbyn hwy, mi a'u melldithiaf hwynt; a phwy bynag a felldithioch chwi, a felldithiaf finnau, a chwi a'm dialwch i ar fy ngelynion; a'm presennoldeb a fydd gyda chwi hyd y nod wrth ddial ar fy ngelynion, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth o'r rhai a'm casânt.

6. Nac ofned un dyn i roddi ei fywyd i lawr er fy mwyn i, canys yr hwn a rydd ei fywyd i lawr er fy mwyn i a'i caiff drachefn; a'r hwn nid yw yn foddlawn i roddi ei fywyd i

lawr er fy mwyn i, nid yw yn ddyscybl i mi. Fy ewyllys i yw fod i'm gwas Sidney Rigdon ddyrchafu ei lais yn y cynnulleidfaoedd yn y gwledydd dwyreiniol, wrth barotoi yr eglwysi i gadw y gorchymynion a roddais i iddynt, ynghylch adferiad a phrynedigaeth Seion. Fy ewyllys i yw, na fyddo i'm gwas Parley P. Pratt, a'm gwas Lyman Wight, ddychwelyd i wlad eu brodyr, hyd nes y caffont fynteioedd i fyned i fyny i dir Seion, wrth y degau, neu wrth yr ugeiniau, neu wrth y degau a deugain, neu wrth y cant, hyd nes y caffont hyd at y rhifedi o bum cant o gryfdwr fy nhŷ. Wele, hyn yw fy ewyllys; ceisiwch a chwi a gewch, ond nid yw dynion bob amser yn gwneuthur fy ewyllys; gan hyny, os na ellwch gael pum cant, ceisiwch yn ddiwyd fel y caffoch ysgatfydd dri chant, ac os na ellwch gael tri chant, ceisiwch yn ddiwyd fel y caffoch ysgatfydd gant. Ond yn wir meddaf i chwi, gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi, na chewch chwi fyned i fyny i dir Seion, hyd nes y caffoch gant o gryfdwr fy nhŷ, i fyned i fyny gyda chwi i dir Seion. Gan hyny, megys ag y dywedais wrthych, ceisiwch a chwi a gewch; taer weddiwch fel yr elo ysgatfydd fy ngwas Baurak Ale gyda chwi, a llywyddu yn nghanol fy mhobl, a rheoleiddio fy nheyrnas ar y tir cyssegredig, a sefydlu plant Seion yn y cyfreithiau a'r gorchymynion a roddwyd ac a roddir i chwi.

7. Pob buddugoliaeth a gogoniant a ddygir oddiamgylch i chwi trwy eich diwydrwydd, ffyddlondeb, a gweddiau ffydd. Bydded i'm gwas Parley P. Pratt deithio gyda fy ngwas Joseph Smith, ieu. Bydded i'm gwas Lyman Wight deithio gyda fy ngwas Sidney Rigdon. Bydded i'm gwas Hyrum Smith deithio gyda fy ngwas Frederick G. Williams. Bydded i'm gwas Orson Hyde deithio gyda fy ngwas Orson Pratt, pa le bynag y cynghoro fy ngwas Joseph Smith, ieu., hwynt i fyned, er cyflawni y gorchymynion hyn a roddais i chwi, a gadewch y gweddill yn fy llaw i. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN CII.

Dadguddiad a roddwyd ar Afon Bysgota, Missouri, Meh. 22, 1834.

1. Yn wir meddaf i chwi y rhai ydych wedi ymgynnull

ynghyd fel y galloch ddysgu fy ewyllys mewn perthynas i waredigaeth fy mhobl gorthrymedig.

2. Wele, meddaf i chwi, oni fuasai troseddiadau fy mhobl, gan lefaru ynghylch yr eglwys, ac nid personau, gallasent fod wedi eu gwaredu hyd y nod yn awr; ond wele, nid ydynt wedi dysgu bod yn ufydd i'r pethau a ofynais ar eu dwylaw hwynt, eithr y maent yn llawn o bob math o ddrygioni, ac nid ydynt yn cyfranu o'u heiddo, megys y gweddai i Saint, i'r tlawd a'r blinderog yn eu plith, ac nid ydynt wedi eu huno yn ol yr undeb a ofynir gan gyfraith y deyrnas nefol; ac nis gellir adeiladu Seion oddieithr trwy egwyddorion cyfraith y deyrnas nefol, pe amgen nid allaf ei derbyn ataf fy hun; a rhaid i'm pobl gael eu ceryddu hyd nes y dysgont ufydd-dod, os bydd anghen trwy y pethau a ddyoddefant.

3. Nid wyf yn llefaru ynghylch y rhai sydd wedi eu penodi i arwain fy mhobl, y rhai ydynt henuriaid cyntaf fy eglwys, canys nid ydynt hwy oll dan y condemniad hwn; eithr yr wyf yn llefaru ynghylch yr eglwysi sydd ar led—y mae llawer a ddywedant—Pa le mae eu Duw? Wele, efe a wared mewn amser cyfyng, onide ni awn ni i fyny i Seion, ac a gadwn ein harian. Gan hyny, o herwydd trosedd fy mhobl, y mae yn fuddiol i mi fod i'm henuriaid aros dros dymmor bychan am waredigaeth Seion, fel y byddont hwy eu hunain yn barod, ac fel y byddo i'm pobl gael eu dysgu yn fwy perffaith, a chael profiad, a gwybod yn berffeithiach ynghylch eu dyledswydd, a'r pethau ag wyf fi yn ofyn ar eu dwylaw; ac nis gellir dwyn hyn oddiamgylch hyd nes y cynnysgaethir fy henuriaid â nerth o'r uchelder; canys wele, mi a barotoais gynnysgaeth a bendith fawr i'w tywallt arnynt hwy, yn gymmaint ag y byddant yn ffyddlawn a pharhau mewn gostyngeiddrwydd ger fy mron i; canys y mae yn fuddiol i mi fod i'm henuriaid aros dros dymmor bychan am waredigaeth Seion; canys wele, nid wyf yn gofyn ar eu dwylaw i ymladd brwydrau Seion, canys megys ag y dywedais mewn gorchymyn blaenorol, felly y cyflawnaf; myfi a ymladdaf eu brwydrau hwynt.

4. Wele, mi a ddanfonais allan y dinystrydd i ddinystrio a dyfetha fy ngelynion: a chyn pen llawer o flynyddau etto, ni fyddant wedi eu gadael i halogi fy etifeddiaeth, ac i gablu fy enw ar y tiroedd a gyssegrais at ymgasglu fy Saint ynghyd.

5. Wele, mi a orchymynais i'm gwas Baurak Ale i ddywedyd wrth gryfdwr fy nhŷ, sef fy rhyfelwyr, fy ngwyr ieuainc a'm canol oed, i ymgasglu ynghyd er gwaredigaeth fy mhobl, a thaflu i lawr dyrau fy ngelynion, a gwasgaru eu gwylwyr; ond nid yw cryfdwr fy nhŷ wedi gwrandaw ar fy ngeiriau; ond yn gymmaint â bod rhai wedi gwrandaw ar fy ngeiriau, yr wyf wedi parotoi bendith a chynnysgaeth iddynt, os parhant yn ffyddlawn. Yr wyf wedi gwrandaw eu gweddiau, ac mi a dderbyniaf eu hoffrwm; ac y mae yn fuddiol i mi, eu bod wedi eu dwyn mor bell â hyn er cael profiad o'u ffydd.

6. Ac yn awr, yn wir meddaf i chwi, gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi, am i gynnifer ag sydd wedi dyfod i fyny yma, ac a allo aros yn yr ardal oddiamgylch, i aros; a'r rhai nad allo aros, ag sydd â theuluoedd yn y dwyrain, am iddynt aros am dymmor bychan, yn gymmaint ag y penodir iddynt gan fy ngwas Joseph; canys mi a'i cynghoraf ef ynghylch y mater hwn, a pha beth bynag a benodo efe iddynt a gaiff ei gyflawni.

7. A bydded i'm pobl sydd yn byw yn yr ardaloedd oddiamgylch fod yn ffyddlawn iawn, gan weddio a bod yn ostyngedig ger fy mron i, a pheidio amlygu y pethau ag wyf wedi ddadguddio iddynt, hyd nes y byddo yn ddoeth ynof fi i'w hamlygu. Na siaradwch am farn, ac na ymffrostiwch ynghylch ffydd, nac ychwaith am weithredoedd nerthol, ond ymgasglwch yn ofalus ynghyd, gymmaint mewn un ardal ag a fyddo yn gydweddol â theimladau y bobl; ac, wele, mi a roddaf i chwi ffafr yn eu golwg, fel y galloch orphwys mewn hedd a diogelwch, tra fyddwch chwi yn dywedyd wrth y bobl, gweithredwch farn a chyfiawnder i ni yn ol y gyfraith, a rhoddwch iawn i ni am ein camdriniaeth.

8. Yn awr, wele, meddaf i chwi, fy nghyfeillion, yn y ffordd hon y cewch chwi ffafr yn ngolwg y bobl, hyd nes y delo byddin Israel yn fawr iawn; ac mi a dyneraf galonau y bobl, fel y gwnaethym â chalon Pharaoh, o amser i amser, hyd nes y caffo fy ngweision Baurak Ale a Baneemy, yr hwn a benodais, amser i gasglu cryfdwr fy nhŷ, a danfon dynion doeth i gyflawni yr hyn a orchymynais ynghylch prynu yr holl diroedd yn swydd Jackson ag a ellir eu prynu, ac yn y swyddi cyfagos oddiamgylch; canys fy ewyllys yw fod i'r tiroedd hyn gael eu prynu, ac ar ol iddynt gael eu prynu fel y caffo fy Saint eu meddiannu yn unol â'r cyfreithiau cyssegriadol ag wyf fi wedi

roddi; ac ar ol i'r tiroedd hyn gael eu prynu, ystyriaf fyddinoedd Israel yn ddieuog pan yn cymmeryd meddiant o'u tiroedd eu hunain, y rhai y maent hwy wedi eu prynu yn flaenorol â'u harian, ac yn taflu i lawr dyrau fy ngelynion, a ddichon ddyfod arnynt, a gwasgaru eu gwylwyr, a'm dial i ar fy ngelynion hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth o'r rhai a'm cashant.

9. Ond yn gyntaf, bydded i'm byddin ddyfod yn fawr iawn, a bydded iddi gael ei santeiddio o fy mlaen, fel y delo yn deg fel yr haul, a dysclaer fel y lleuad, ac fel y byddo ei banerau yn ddychryn i'r holl genedloedd; fel y gorfoder teyrnasoedd y byd hwn i gyfaddef mai teyrnas Seion mewn gwirionedd yw teyrnas ein Duw ni a'i Grist ef; gan hyny, bydded i ni fod yn ddarostyngedig i'w chyfreithiau.

10. Yn wir meddaf i chwi, y mae yn fuddiol i mi fod i henuriaid cyntaf fy eglwys dderbyn eu cynnysgaeth oddi uchod yn fy nhŷ, yr hwn a orchymynais i gael ei adeiladu i fy enw yn nhir Kirtland; a bydded i'r gorchymynion hyny a roddais mewn perthynas i Seion a'i chyfraith, gael eu gweithredu a'u cyflawni ar ol ei gwaredigaeth. Y mae dydd o alw wedi bod, ond daeth yr amser i ddydd o ddewis, a bydded y rhai hyny a ddewisir yn deilwng; ac fe amlygir i'm gwas, trwy lais fy Ysbryd, y rhai sydd wedi eu dewis, a hwy a gant eu santeiddio; ac yn gymmaint ag y dilynant y cynghor a dderbyniant, hwy a gant ar ol llawer o ddyddiau allu i gyflawni pob peth perthynol i Seion.

11. A thrachefn, meddaf i chwi, deisyfwch heddwch, nid yn unig y bobl sydd wedi eich taraw chwi, ond hefyd pob pobl; a chyfodwch faniar heddwch, a chyhoeddwch heddwch hyd eithafoedd y ddaear; a gwnewch gynnygion am heddwch â'r rhai hyny a'ch trawsant, yn ol llais yr Ysbryd sydd ynoch, a phob peth a gydweithiant er eich daioni; gan hyny byddwch ffyddlawn, ac wele, a llyna, yr wyf fi gyda chwi hyd y diwedd. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN CIII.

Dadguddiad a roddwyd i Joseph Smith, Ionawr 19, 1841.

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy ngwas Joseph Smith, Yr wyf yn llwyr foddlawn ar eich offrwm

a'r cydnabyddiaeth ag ydych wedi wneyd, canys i'r perwyl hwn y cyfodais chwi i fyny, fel y gallwn ddangos allan fy noethineb trwy weinion bethau y ddaear. Mae eich gweddiau yn gymmeradwy ger fy mron i, ac mewn atebiad iddynt yr wyf yn dywedyd wrthych, eich bod chwi yn cael eich galw yn awr yn uniongyrchol i wneyd cyhoeddiad difrifol o'm hefengyl, ac o'r estynfa hon a blanais i fod yr gonglfaen Seion, yr hon a gaiff ei haddurno â'r gwychder hwnw sydd yn ol cyffelybiaeth palas. Y cyhoeddiad a wneir i holl freninoedd y byd—i'r pedwar cwr o hono—i'r anrhydeddus lywydd etholedig, a llywodraethwyr uchelfrydig y genedl yn mhlith pa un yr ydych yn byw, ac i holl genedloedd gwasgaredig y ddaear. Bydded iddo gael ei ysgrifenu mewn ysbryd llariaidd, a thrwy allu yr Ysbryd Glân yr hwn a fydd ynoch yn yr amser y byddwch yn ysgrifenu yr unrhyw ; canys fe a roddir i chwi gan yr Ysbryd Glân i wybod fy ewyllys ynghylch y breninoedd a'r awdurdodau hyny, sef yr hyn a ddygwydd iddynt mewn amser i ddyfod. Canys, wele, yr wyf fi ynghylch galw arnynt i sylwi ar oleuni a gogoniant Seion, canys y mae yr amser penodedig wedi dyfod iddi gael ei noddi.

2. Galwch chwi, gan hyny, arnynt â chyhoeddiad uchel, ac â'ch tystiolaeth, gan beidio eu hofni, canys y maent fel glaswelltyn, a'u holl ogoniant sydd megys ei flodeuyn yr hwn sydd yn syrthio yn fuan, fel y byddont yn cael eu gadael hefyd yn ddiesgus, ac fel y gallwyf ymweled â hwy yn nydd yr ymweliad, pan y bydd i mi ddadleni gwyneb fy ngorchudd, i benodi cyfran y gorthrymwr yn mhlith rhagrithwyr, lle y mae rhincian dannedd, os gwrthodant fy ngweision a'm tystiolaeth yr hon a ddadguddiais i iddynt. A thrachefn, mi a ymwelaf â hwynt ac a dyneraf eu calonau, llawer o honynt er eich lles chwi, fel y galloch gael ffafr yn eu golwg, fel y gallont ddyfod i oleuni y gwirionedd, a'r Cenedloedd i ddyrchafiad neu gyfodiad Seion. Canys y mae dydd fy ymweliad yn dyfod ar frys, mewn awr na thybioch, a pha le y bydd diogelfa fy mhobl, a lloches y rhai hyny a adewir o honynt ?

3. Dihunwch ! O, freninoedd y ddaear ! Deuwch chwi, O, deuwch chwi, gyda eich aur a'ch arian, i gynnorthwyo fy mhobl, i dŷ merched Seion.

4. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas

Robert B. Thompson eich cynnorthwyo i ysgrifenu y cyhoeddiad hwn, canys y mae yn fy llwyr foddloni, ac ewyllysiaf iddo fod gyda chwi; bydded iddo gan hyny wrandaw ar eich cynghor, ac mi a'i bendithiaf â lliosogrwydd o fendithion; bydded iddo fod yn ffyddlawn a chywir yn mhobpeth o hyn allan, ac efe a fydd yn fawr yn fy ngolwg, ond bydded iddo gofio y gofynaf fi ei oruchwyliaeth ar ei law.

5. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, gwyn fyd fy ngwas Hyrum Smith, canys yr wyf fi, yr Arglwydd, yn ei garu ef o herwydd uniondeb ei galon, ac o herwydd ei fod yn caru yr hyn sydd yn uniawn ger fy mron i, medd yr Arglwydd.

6. Drachefn, bydded i'm gwas John C. Bennett, eich cynnorthwyo yn eich gwaith o ddanfon fy ngair i freninoedd pobloedd y ddaear, a sefyll gyda chwi, sef fy ngwas Joseph Smith, mewn awr o gyfyngder, a'i wobr ni phalla os derbynia gynghor; ac o herwydd ei gariad efe a fydd yn fawr, canys fy eiddo i a fydd os gwna hyn, medd yr Arglwydd. Yr wyf fi wedi gweled y gwaith y mae ef wedi wneuthur, yr hwn a dderbyniaf, os gwna ef barhau, ac mi a'i coronaf ef â bendithion a gogoniant mawr.

7. A thrachefn, meddaf i chwi, fy ewyllys yw fod i'm gwas Lyman Wight barhau i bregethu dros Seion mewn ysbryd llariaidd, gan fy nghyffesu i gerbron y byd, ac mi a'i cynnaliaf i fyny megys ar adenydd eryr, ac efe a ennilla ogoniant ac anrhydedd iddo ei hun, ac i'm henw innau, fel pan ddarfyddo ei waith, y bydd i mi ei dderbyn ataf fy hun, ïe, megys ag y gwnaethum i David Patten, yr hwn sydd gyda mi yr amser hwn, ac hefyd fy ngwas Edward Partridge, ac hefyd fy ngwas oedranus Joseph Smith, hen., yr hwn sydd yn eistedd gydag Abraham ar ei ddeheulaw, a gwynfydedig a santaidd yw efe, canys fy eiddo i ydyw.

8. A thrachefn, yn wir, meddaf i chwi, mae fy ngwas George Miller yn ddiddichell; gellir ymddiried iddo ef o herwydd uniondeb ei galon; ac o herwydd y cariad sydd ganddo tuag at fy nhystiolaeth i, yr wyf fi, yr Arglwydd, yn ei garu; yr wyf fi, gan hyny, yn dywedyd wrthych chwi, fy mod yn selio ar ei ben ef swydd esgobaeth, megys fy ngwas Edward Partridge, fel y derbynio gyssegriadau fy nhŷ, fel y gweinyddo fendithion ar benau tlodion fy mhobl, medd yr Arglwydd.

Na ddiystyred neb fy ngwas George, canys efe a'm hanrhydedda i.

9. Bydded i'm gwas George, a'm gwas Lyman, a'm gwas John Snider, ac ereill, adeiladu tŷ i'm henw, megys y dangosa fy ngwas Joseph iddynt, ar y man y dangosa efe iddynt hefyd. A chaiff fod yn dŷ i fyrddio, tŷ y gallo dyeithriaid o bell i letya ynddo; gan hyny, bydded iddo fod yn dŷ da, yn deilwng o bob derbyniad, fel y gallo y teithiwr blinedig gael iechyd a diogelwch tra y byddo yn myfyrio gair yr Arglwydd; a'r gonglfaen a benodais i Seion. Y tŷ hwn a fydd yn drigfan iachus, os adeiladir ef i'm henw i, ac os na ddyoddef y llywodraethwr a osodir arno i ddim halogedig ddygwydd iddo. Rhaid iddo fod yn santaidd, onide ni thriga yr Arglwydd eich Duw ynddo.

10. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm holl saint ddyfod o bell; ac anfonwch chwithau genadon cyflym, ïe, cenadon dewisedig, a dywedwch wrthynt, Deuwch chwi, gyda'ch holl aur, a'ch arian, a'ch meini gwerthfawr, a'ch holl henafion, a chyda pawb sydd yn meddu gwybodaeth am henafion ag a ddel, a allant ddyfod, a dygwch y bocyswydd, y ffinidwydd, a'r pinwydd, ynghyd ag holl goed gwerthfawr y ddaear, a chydag haiarn, a chopr, a phres, a zinc, a chyda eich holl bethau gwerthfawr y ddaear, ac adeiladwch dŷ i fy enw, i'r Goruchaf i drigo ynddo; canys nid oes lle ar y ddaear y gallo ddyfod ac adferu drachefn yr hyn a gollwyd i chwi, neu yr hyn a gymmerodd efe ymaith, sef cyflawnder yr offeiriadaeth; canys bedyddfan nid oes ar y ddaear, fel y gallont hwy, fy saint, gael eu bedyddio dros y rhai ag ydynt wedi marw; canys y mae yr ordinhad hon yn perthyn i fy nhŷ, ac nis gall fod yn gymmeradwy genyf fi, ond yn unig yn nyddiau eich tlodi, pan nad ydych yn alluog i adeiladu tŷ i mi. Ond yr wyf fi yn gorchymyn i chwi oll, chwi fy saint, i adeiladu ty i mi; ac yr wyf fi yn rhoddi digon o amser i chwi adeiladu tŷ i mi, ac yn ystod yr amser hwn bydd eich bedyddiadau yn gymmeradwy genyf.

11. Ond wele, ar ddiwedd yr apwyntiad hwn, eich bedyddiadau dros y meirw ni fyddant yn gymmeradwy genyf fi; ac os gwnewch chwi y pethau hyn ar ddiwedd yr apwyntiad, chwi a wrthodir fel eglwys, ynghyd â'ch meirw, medd yr Arglwydd

eich Duw. Canys yn wir meddaf i chwi, ar ol i chwi gael digon o amser i adeiladu tŷ i mi, lle mae yr ordinhad o fedyddio dros y meirw yn perthyn, ac i ba un y mae yr unrhyw wedi ei sefydlu er cyn sylfaeniad y byd, nis gall eich bedyddiadau dros y meirw fod yn gymmeradwy genyf fi, canys yno y mae allweddau yr offeiriadaeth santaidd wedi eu hordeinio, fel y galloch chwi dderbyn anrhydedd a gogoniant. Ac ar ol yr amser hwn, eich bedyddiadau dros y meirw, gan y rhai ag ydynt yn wasgaredig, nid ydynt yn gymmeradwy genyf fi, medd yr Arglwydd; canys ordeiniwyd mai yn Seion, ac yn ei hestynfeydd, ac yn Jerusalem, y lleoedd hyny ag a benodais yn noddfeydd, y bydd lleoedd at eich bedyddio dros y meirw.

12. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, pa fodd y bydd eich golchiadau yn gymmeradwy genyf fi, oddieithr eich bod yn eu cyflawni mewn tŷ ag ydych wedi adeiladu i'm henw i? Canys i'r dyben hwn y gorchymynais i Moses adeiladu tabernacl, fel y gallent ei ddwyn ef gyda hwynt yn yr aniałwch, ac i adeiladu tŷ yn ngwlad yr addewid, fel y dadguddid yr ordinhadau hyny ag oedd yn nghudd er cyn bod y byd; gan hyny, yn wir meddaf i chwi, y mae eich eneinniadau, a'ch golchiadau, a'ch bedyddiadau dros y meirw, a'ch cymmanfaoedd santaidd, a'ch coffadwriaethau am eich aberthau, gan feibion Lefi, ac am eich oraclau yn eich lleoedd santeiddiolaf, yn mha le y cewch ymddyddanion, a'ch deddfau a'ch barnau, am ddechreu dadgudd-iadau a sylfaeniad Seion, ac am ogoniant, anrhydedd, a chyn-nysgaethiad ei holl ddinasyddion, wedi eu hordeinio gan gyfraith fy nhŷ santaidd yr hwn a orchymynir i'm pobl bob amser i'w adeiladu i'm henw santaidd.

13. Ac yn wir meddaf i chwi, bydded i'r tŷ hwn gael ei adeiladu i'm henw i, fel y gallwyf ddadguddio fy ordinhadau ynddo, i'm pobl; canys rhynga fy modd i ddadguddio i'm heglwys, bethau ag ydynt wedi eu cadw yn nghudd er cyn sylfaeniad y byd, pethau a berthynant i oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, ac mi a ddangosaf i'm gwas Joseph bob peth perthynol i'r tŷ hwn, a'i offeiriadaeth, a'r lle y caiff ei adeiladu; a chwi a gewch ei adeiladu yn y lle a fwriadasoch ei adeiladu, canys dyna y man ag wyf fi wedi ddewis i chwi ei adeiladu. Os bydd i chwi lafurio â'ch holl nerth, mi a gysegraf y man hwnw fel y caffo ei santeiddio; ac os gwrandawa

fy mhobl ar fy llais i, ac ar lais fy ngweision y rhai a benodais i arwain fy mhobl, wele, yn wir meddaf i chwi, ni symudir hwy allan o'u lle. Ond os na wrandawant ar fy llais i, nac ar lais y dynion hyn ag wyf wedi benodi, ni chant eu bendithio, o herwydd y maent yn halogi fy nhir santaidd, a'm hordinhadau a'm breintiau santaidd, a'm geiriau santaidd, y rhai yr wyf yn eu rhoddi iddynt.

14. A daw oddiamgylch, os chwi a adeiladwch dŷ i'm henw i, ac ni wnewch y pethau ag wyf yn eu llefaru, na chyflawnaf finnau y llw yr hwn wyf yn ei wneuthur i chwi, ac na chyflawnaf yr addewidion ag yr ydych yn ddysgwyl ar fy llaw i, medd yr Arglwydd; canys yn lle bendithion, yr ydych chwi, trwy eich gweithredoedd eich hunain, yn dwyn melldithion, digofaint, llidiawgrwydd, a barnedigaethau ar eich penau eich hunain, trwy eich ffolineb, a thrwy eich holl ffieidd-dra yr hwn ydych yn ei arferyd ger fy mron i, medd yr Arglwydd.

15. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, pan yr wyf fi yn rhoddi gorchymyn i ryw rai o feibion dynion, i wneuthur gwaith i'm henw, a bod y meibion dynion hyny yn myned â'u holl nerth, ac â r hyn oll sydd ganddynt, i gyflawni y gwaith hwnw, ac ddim yn llaesu eu diwydrwydd, a bod eu gelynion yn dyfod arnynt ac yn eu rhwystro hwynt i gyflawni y gwaith hwnw; wele, y mae yn gweddu i mi beidio gofyn y gwaith hwnw mwyach ar ddwylaw y meibion dynion hyny, eithr derbyn eu hoffrymau; a'r drygioni a'r troseddiad o'm cyfreithiau a'm gorchymynion santaidd, a ymwelaf ar benau y rhai hyny a rwystrasant fy ngwaith, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth, cyhyd ag y byddont yn ddiedifeiriol ac yn fy nghasâu i, medd yr Arglwydd Dduw. Gan hyny o herwydd hyn y derbyniais i offrymau y rhai hyny a orchymynais i adeiladu dinas a thŷ i'm henw i, yn swydd Jackson, Missouri, ac a rwystrwyd gan eu gelynion, medd yr Arglwydd eich Duw; ac mi a atebaf farnedigaeth, llid, a digofaint, wylofain, ac ing, a rhincian dannedd, ar eu penau, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth, cyhyd ag y byddont yn ddiedifeiriol ac yn fy nghasâu i, medd yr Arglwydd eich Duw.

16. A hyn wyf yn ei wneuthur yn enghraifft i chwi, er eich cysuro ynghylch yr holl rai hyny a orchymynwyd i wneuthur gwaith, ac a rwystrwyd gan ddwylaw eu gelynion, a chan or-

thrymder, medd yr Arglwydd eich Duw, canys myfi yw yr Arglwydd eich Duw, ac a achubaf yr holl rai hyny o'ch brodyr ag ydynt wedi bod yn bur o galon, ac a laddwyd yn nhir Missouri, medd yr Arglwydd.

17. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, yr wyf yn gorchymyn i chwi drachefn adeiladu tŷ i fy enw, ïe, yn y lle hwn, fel y profoch eich hunain i mi eich bod yn ffyddlawn yn yr holl bethau bynag a orchymynaf i chwi, fel y bydd i mi eich bendithio chwi, a'ch coroni ag anrhydedd, anfarwoldeb a bywyd tragywyddol.

18. Ac yn awr meddaf i chwi, mewn perthynas i'm tŷ byrddio yr hwn a orchymynais i chwi ei adeiladu er llettya dyeithriaid, bydded iddo gael ei adeiladu i'm henw i, a bydded fy enw arno, a bydded i'm gwas Joseph a'i deulu gael lle ynddo, o genedlaeth i genedlaeth; canys yr eneinniad hwn a osodais i ar ei ben, fod i'w fendith hefyd gael ei gosod ar benau ei hiliogaeth ar ei ol, ac megys ag y dywedais wrth Abraham ynghylch llwythau y ddaear, felly y dywedaf wrth fy ngwas Joseph, ynot ti ac yn dy had y bendithir llwythau y ddaear. Gan hyny, bydded i'm gwas Joseph a'i had ar ei ol, gael lle yn y tŷ hwnw o genedlaeth i genedlaeth, yn oes oesoedd, medd yr Arglwydd, a bydded i enw y tŷ hwnw gael ei alw yn Dŷ Nauvoo, a bydded ei fod yn breswyl hyfryd i ddyn, ac yn orphwysfa i'r teithiwr blinedig, fel y gallo fyfyrio ar ogoniant Seion, a gogoniant y gonglfaen hon o honi; fel y gallo hefyd dderbyn cynghor oddiwrth y rhai hyny o osodais i fod megys planigion enwog, ac megys gwylwyr ar ei muriau.

19. Wele, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas George Miller, a'm gwas Lyman Wight, a'm gwas John Snider, a'm gwas Peter Haws, reoleiddio eu hunain, a phenodi un o honynt i fod yn llywydd ar eu corwm i'r dyben o adeiladu y tŷ hwnw. A hwy a gant ffurfio cyfansoddiad trwy ba un y gallant dderbyn eiddo er adeiladu y tŷ hwnw. Ac ni chant dderbyn llai na deg a deugain o ddolars am ran o eiddo yn y tŷ hwnw; a chaniateir iddynt i dderbyn dros bymtheg mil o ddolars o eiddo oddiwrth ryw un dyn; ond ni chaniateir iddynt i dderbyn dros bymtheg mil o ddolars o eiddo oddiwrth ryw un dyn; ac ni chaniateir iddynt i dderbyn dan ddeg a deugain o ddolars o eiddo oddiwrth un dyn yn y tŷ hwnw; ac ni

chaniateir iddynt i dderbyn unrhyw ddyn yn ddaliwr eiddo yn y tŷ hwnw, oddieithr i'r unrhyw dalu ei eiddo i'w dwylaw hwy yn yr amser y derbynia eiddo; ac mewn cyfartalrwydd i'r swm o eiddo a dalo efe i'w dwylaw hwy, y derbynia efe eiddo yn y tŷ hwnw; ond os na thâl efe ddim i'w dwylaw hwynt, ni dderbynia ddim eiddo yn y tŷ hwnw. Ac os tâl rhywun eiddo i'w dwylaw hwy, caiff fod er eiddo yn y tŷ hwnw, iddo efe ei hun, ac i'w hiliogaeth ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth, cyhyd ag y byddo efe a'i etifeddion yn dal yr eiddo hwnw, ac yn peidio gwerthu neu gyflwyno yr eiddo ymaith o'u dwylaw trwy eu hewyllys rydd a'u gweithred eu hunain, os gwnewch chwi fy ewyllys, medd yr Arglwydd eich Duw.

20. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, os fy ngwas George Miller, a'm gwas Lyman Wight, a'm gwas John Snider, a'm gwas Peter Haws, a dderbyniant unrhyw eiddo i'w dwylaw, mewn arian neu feddiannau, yn yr hyn y derbyniant wir werth yr arian, ni chant ddefnyddio unrhyw gyfran o'r eiddo hwnw at unrhyw ddyben arall, ond yn unig at y tŷ hwnw; ac os defnyddiant unrhyw gyfran o'r eiddo at rywbeth arall, heblaw at y tŷ hwnw, heb gydsyniad daliwr yr eiddo, ac ni ad-dalant yn ol y pedwar cymmaint am yr eiddo a ddefnyddiasant at rywbeth arall, heblaw at y tŷ hwnw, hwy a felldithir, ac a symudir allan o'u lle, medd yr Arglwydd Dduw, canys myfi yr Arglwydd wyf Dduw, ac nis gellir fy ngwatwar yn un o'r pethau hyn.

21. Yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas Joseph dalu eiddo i'w dwylaw hwy er adeiladu y tŷ hwnw, megys y gwelo yn dda; ond nis gall fy ngwas Joseph dalu dros bymtheg mil o ddolars o eiddo at y tŷ hwnw, na thàn ddeg a deugain o ddolars; ac ni all un dyn arall ychwaith, medd yr Arglwydd.

22. Ac y mae ereill hefyd, y rhai a ewyllysiant wybod fy ewyllys mewn perthynas iddynt, canys y maent wedi ei ofyn ar fy nwylaw i. Gan hyny dywedaf wrthych chwi mewn perthynas i'm gwas Vinson Knight, os gwna efe fy ewyllys, bydded iddo osod eiddo yn y tŷ hwnw iddo ei hun ac i'w hiliogaeth ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth, a bydded iddo ddyrchafu ei lais, yn hir ac uchel, yn nghanol y bobl, i ddadleu achos y tlawd a'r anghenus, ac na fydded iddo ddiffygio na gadael ei galon i lesgâu, ac mi a dderbyniaf ei offrymau, canys ni

fyddant i mi megys offrymau Cain, canys fy eiddo i a fydd, medd yr Arglwydd. Bydded i'w deulu orfoleddu, a throi ymaith eu calonau oddiwrth drallod, canys yr wyf fi wedi ei ddewis a'i eneinnio ef, ac efe a anrhydeddir yn nghanol ei dŷ, canys mi a faddeuaf ei holl bechodau, medd yr Arglwydd. Amen.

23. Yn wir meddaf i chwi, gosoded fy ngwas Hyrum eiddo yn y tŷ hwnw, megys y gwelo yn dda, iddo ef ei hun a'i hiliogaeth ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth.

24. Gosoded fy ngwas Isaac Galland eiddo yn y tŷ hwnw, canys yr wyf fi, yr Arglwydd, yn ei garu ef am yr hyn a wnaeth, ac mi a faddeuaf ei holl bechodau; gan hyny, cofier am iddo gael lles yn y tŷ hwnw o genedlaeth i genedlaeth. Penoder fy ngwas Isaac Gallant yn eich plith chwi, ac ordeinier ef gan fy ngwas William Marks, a bendithier ef ganddo, i fyned gyda'm gwas Hyrum, i gyflawni y gwaith a benoda fy ngwas Joseph iddynt, a hwy a fendithir yn fawr.

25. Gosoded fy ngwas William Marks eiddo yn y tŷ hwnw, megys y gwelo yn dda, iddo ef ei hun, ac i'w hiliogaeth, o genedlaeth i genedlaeth.

26. Gosoded fy ngwas Henry G. Sherwood eiddo yn y tŷ hwnw, megys y gwelo yn dda, iddo ef ei hun, ac i'w had ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth.

27. Gosoded fy ngwas William Law eiddo yn y tŷ hwnw, iddo ef ei hun ac i'w had ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth. Os myn ef wneuthur fy ewyllys, na chymmered ei deulu i'r tiroedd dwyreiniol, sef i Kirtland; er hyny myfi, yr Arglwydd, a adeiladaf Kirtland, eithr y mae genyf fi, yr Arglwydd, ffrewyll wedi ei pharotoi i'w thrigolion. Ac yn fy ngwas Almon Babbitt y mae llawer o bethau nad wyf yn llwyr foddlawn o'u herwydd; wele, y mae efe yn ymddyrchafu i sefydlu ei gynghor yn lle y cynghor a ordeiniais i, sef llywyddiaeth fy eglwys, ac y mae yn gosod llo aur i fyny er ei addoli gan fy mhobl. Nac eled neb o'r lle hwn ag a ddaeth yma i dreio cadw fy ngorchymynion. Os byddant fyw yma, byddant fyw i mi; ac os byddant farw, gadewch iddynt farw i mi; canys hwy a gant orphwys yma oddiwrth eu holl lafur, ac a gant barhau eu gwaith. Gan hyny gosoded fy ngwas William ei ymddiried ynof fi, a darfydded ofni yn nghylch ei deulu, oblegid afiechyd

y tir. Os ydych yn fy ngharu i, cadwch fy ngorchymynion, ac afiechyd y tir a duedda er eich gogoniant.

28. Eled fy ngwas William a chyhoedded fy efengyl dragywyddol gyda llef uchel, a chyda llawenydd mawr, megys y cynhyrfir ef gan fy Ysbryd, i drigolion Warsaw, ac hefyd i drigolion Carthage, ac hefyd i drigolion Burlington, ac hefyd i drigolion Madison, a dysgwylied yn amyneddgar a diflino am gyfarwyddiadau ychwanegol yn fy nghynnadledd gyffredinol, medd yr Arglwydd. Os myn wneuthur fy ewyllys, gwrandawed o hyn allan ar gynghor fy ngwas Joseph, ac â'i ddylanwad cynnorthwyed achos y tlawd, a chyhoeddi cyfieithad newydd fy ngair santaidd i drigolion y ddaear; os gwnel ef hyn, mi a'i bendithiaf ef â lliosogrwydd o fendithion, fel na cheir ei had yn cardota bara.

29. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas William gael ei benodi, ei ordeinio, a'i eneinnio, yn gynghorwr i'm gwas Joseph yn lle fy ngwas Hyrum; fel y gallo fy ngwas Hyrum gymmeryd swydd offeiriadaeth a phatriarch, yr hon a benodwyd iddo ef gan ei dad, trwy fendith ac hefyd trwy hawlfraint, fel y caffo o hyn allan ddal allweddau y bendithion patriarchaidd ar benau fy holl fobl, fel pwy bynag a fendithio a fendithir, a phwy bynag a felldithio a felldithir; a pha beth bynag a rwymo ar y ddaear a rwymir yn y nef; a pha beth bynag a ryddhao ar y ddaear a ryddheir yn y nef; ac o'r amser hwn allan yr wyf yn ei benodi ef i fod yn brophwyd, a gweledydd, a dadguddiwr i'm heglwys, yn gystal â'm gwas Joseph, fel y cydweithredo hefyd â'm gwas Joseph, ac y derbynio gynghor oddiwrth fy ngwas Joseph, yr hwn a ddangosa iddo yr allweddau trwy y rhai y mae iddo ofyn a derbyn, ac fel y coroner ef â'r un fendith, a gogoniant, ac anrhydedd, ac offeiriadaeth, a doniau yr offeiriadaeth, ag a osodwyd unwaith arno ef yr hwn oedd fy ngwas Oliver Cowdery; fel y gallo fy ngwas Hyrum ddwyn tystiolaeth o'r pethau a ddangosaf iddo, fel y caffer ei enw mewn parchus goffadwriaeth o genedlaeth i genedlaeth, yn oes oesoedd.

30. Bydded i'm gwas William Law hefyd dderbyn yr allweddau trwy y rhai y gallo ofyn a derbyn bendithion; bydded yn ostyngedig ger fy mron i, ac yn ddiddichell, ac efe a gaiff dderbyn o'm Hysbryd, ïe, y Dyddanydd, yr hwn a

amlyga iddo wirionedd pob peth, ac a rydd iddo, ar y fynyd, pa beth a gaiff lefaru; a'r arwyddion hyn a'i canlynant; efe a iacha y cleifion, a fwrw allan gythreuliaid, ac a waredir oddiwrth y rhai a roddant wenwyn marwol iddo; ac efe a arweinir ar y hyd llwybrau lle nis gall seirff gwenwynig ymaflyd yn ei sawdl, a chaiff ymddyrchafu i fyny yn amgyffrediadau ei feddwl megys ar adenydd eryr; a pha beth os ewyllysiaf iddo gyfodi y marw, na attalied ef ei leferydd. Gan hyny, gwaedded fy ngwas William yn uchel ac nac arbeded, gyda llawenydd a gorfoledd, a chyda hosanna iddo ef yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd yn oes oesoedd, medd yr Arglwydd eich Duw.

31. Wele, meddaf i chwi, y mae genyf genadiaeth mewn golwg i'm gwas William, ac i'm gwas Hyrum, ac iddynt hwy yn unig; ac arosed fy ngwas Joseph gartref, canys y mae ei eisieu ef: y gweddill a ddangosaf i chwi ar ol hyn. Felly y byddo. Amen.

32. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, os fy ngwas Sidney a'm gwasanaetha i, a bod yn gynghorwr i'm gwas Joseph, cyfoded a deued i fyny, gan sefyll yn swydd ei alwedigaeth, ac ymostwng ei hun ger fy mron i; ac os offryma i mi offrwm a chydnabyddiaeth cymmeradwy, ac aros gyda'm pobl, wele, myfi, yr Arglwydd eich Duw, a'i hiachâf ef fel y byddo yn iach; ac efe a gaiff ddyrchafu ei lais drachefn ar y mynyddoedd, a bod yn llefarwr o flaen fy wyneb. Bydded iddo ddyfod a chyfleu ei deulu yn y gymmydogaeth lle y mae fy ngwas Joseph yn byw; ac yn ei holl deithiau bydded iddo ddyrchafu ei lais megys â sain udgorn, a rhybyddio trigolion y ddaear i ffoi rhag y llid sydd i ddyfod; bydded iddo gynnorthwyo fy ngwas Joseph, ac hefyd bydded i'm gwas William Law gynnorthwyo fy ngwas Joseph, i wneuthur cyhoeddiad difrifol i freninoedd y ddaear, sef megys ag y dywedais wrthych o'r blaen. Os myn y ngwas Sidney wneuthur fy ewyllys, na symuded ei deulu i'r tiroedd dwyreiniol, eithr newidied eu trigfan, megys ag y dywedais. Wele, nid fy ewyllys i yw iddo chwilio am ddiogelwch a noddfa allan o'r ddinas a benodais i chwi; sef dinas Nauvoo. Yn wir meddaf i chwi, hyd y nod yn awr, os gwrandawa ar fy llais, bydd yn dda arno. Felly y byddo. Amen.

33. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, taled fy ngwas Amos Davis eiddo i ddwylaw y rhai hyny a benodais i adeiladu tŷ at

fyrddio, sef Tŷ Nauvoo; bydded iddo wneuthur hyn os myn ias, a gwrandawed ar gynghor fy ngwas Joseph, a gweithied ar ddwylaw ei hun fel y gallo gael ymddiried dynion; a phan y profo ei hun yn ffyddlawn yn mhob peth a ymddiriedir i'w ofal, ie, hyd y nod ychydig o bethau, efe a wneir yn lywodraethwr ar lawer; bydded iddo gan hyny, iselhau ei hun fel y gallo gael ei ddyrchafu. Felly y byddo. Amen.

34. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, os myn fy ngwas Robert D. Foster ufyddhau i'm llais, adeiladed dŷ i'm gwas Joseph, yn ol y cytundeb a wnaeth ag ef, yn ol fel y byddo y drws yn agored iddo o amser i amser; a bydded iddo edifarhau am ei holl ffolineb, ac ymddiliadu ei hun mewn cariad, ac ymattal gwneuthur drwg, a gosod o'r neilldu ymadroddion celyd, a thalu eiddo hefyd i ddwylaw corwm Tŷ Nauvoo, iddo ei hun ac i'w hiliogaeth ar ei ol, o genedlaeth i genedlaeth, a gwrandaw ar gynghor fy ngwesion Joseph ac Hyrum a William Law, ac ar yr awdurdodau a elwais i osod sylfaen Seion, a bydd yn dda arno ef yn oes oesoedd. Felly y byddo. Amen.

35. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, na thaled neb eiddo i gorwm Tŷ Nauvoo, os na fydd yn credu yn Llyfr Mormon, a'r dadguddiadau a roddais i chwi, medd yr Arglwydd eich Duw; canys yr hyn sydd yn fwy neu llai na hyn o'r drwg y mae yn dyfod, a dilynir ef â melldithion ac nid bendithion, medd yr Arglwydd eich Duw. Felly y byddo. Amen.

36. A thrachefn, yn wir meddaf i chwi, bydded i gorwm Tŷ Nauvoo gael tâl cyflawn mewn huriau am eu holl waith yr hwn a wnant wrth adeiladu Tŷ Nauvoo, a bydded eu huriau yn ol yr hyn a gytunant yn mhlith eu hunain, mewn perthynas i'w bris; a bydded i bob dyn sydd yn talu eiddo ddwyn ei gyfran o'u huriau hwy, os bydd anghen, er eu cynnaliaeth, medd yr Arglwydd; os amgen eu gwaith hwy a gyfrifir iddynt yn eiddo yn y tŷ hwnw. Felly y byddo. Amen.

37. Yn wir meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi yn awr y swyddogion perthynol i'm hoffeiriadaeth, fel y galloch ddal ei hallweddau, sef yr offeiriadaeth sydd yn ol urdd Melchisedec, yr hon sydd yn ol urdd fy unig-anedig Fab.

38. Yn gyntaf, yr wyf yn rhoddi i chwi Hyrum Smith i fod yn batriarch i chwi, i ddal bendithion seliadol fy eglwys, sef Glân Ysbryd yr addewid, trwy yr hwn y selir chwi i fyny hyd

ddydd prynedigaeth, fel na syrthioch er dyfod awr o brofedigaeth i'ch cyfarfod.

39. Yr wyf yn rhoddi i chwi fy ngwas Joseph, i fod yn henuriad llywyddol ar fy holl eglwys, i fod yn gyfieithiwr, dadguddiwr, gweledydd, a phrophwyd. Yr wyf yn rhoddi iddo ef yn gynghorwyr fy ngwas Sidney Rigdon, a'm gwas William Law, fel y byddo y rhai hyn yn cyfansoddi corwm a phrif-lywyddiaeth, i dderbyn oraclau i'r holl eglwys.

40. Yr wyf yn rhoddi i chwi fy ngwas Brigham Young i fod yn llywydd ar gynghor y deuddeg teithiol, y rhai sydd yn dal yr allweddau i agor awdurdod fy nheyrnas yn mhedwar ban y byd, ac ar ol hyny i ddanfon fy ngair at bob creadur; y rhai hyn ydynt—Heber C. Kimball, Parley P. Pratt, Orson Pratt, Orson Hyde, William Smith, John Taylor, John E. Page, Wilford Woodruff, Willard Richards, George A. Smith; David Patten a gymmerais ataf fy hun; wele, ei offeiriadaeth ni chymmer un dyn oddiwrtho; ond yn wir meddaf, gellir penodi arall i'r un alwedigaeth.

41. A thrachefn, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi uchel gynghor, i fod yn gonglfaen i Seion; sef, Samuel Bent, H. G. Sherwood, George W. Harris, Charles C. Rich, Thomas Grover, Newel Knight, David Dort, Dunbar Wilson; Seymour Brunson a gymmerais ataf fy hun, nid oes neb yn cymmeryd ei offeiriadaeth, ond gellir penodi arall i'r un offeiriadaeth yn ei le (ac yn wir meddaf i chwi, bydded i'm gwas Aaron Johnson gael ei ordeinio i'r alwedigaeth hon yn ei le), David Fulmer, Alpheus Cutler, William Huntington.

42. A thrachefn, yr wyf yn rhoddi i chwi Don C. Smith i fod yn llywydd ar gorwm o archoffeiriaid; yr hwn osodiad a sefydlwyd i'r dyben o addasu y rhai hyny a gant eu penodi i fod yn llywyddion sefydlog neu weision ar wahanol estynfeydd gwasgaredig, a gallant deithio hefyd os dewisant, ond yn hytrach i'w hordeinio i fod yn llywyddion sefydlog; hyn yw swydd eu galwedigaeth, medd yr Arglwydd eich Duw. Yr wyf yn rhoddi iddo ef Amasa Lyman a Noah Packard yn gynghorwyr, fel y llywyddont ar y corwm o archoffeiriaid fy eglwys, medd yr Arglwydd.

43. A thrachefn, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi John A. Hicks, Samuel Williams, a Jesse Baker, yr hon off-

eiriadaeth sydd i lywyddu ar gorwm o henuriaid, yr hwn gorwm sydd wedi ei sefydlu er mwyn gweinidogion sefydlog, er hyny gallant deithio, etto cawsant eu hordeinio i fod yn weinidogion sefydlog i'm heglwys, medd yr Arglwydd.

44. A thrachefn, yr wyf yn rhoddi i chwi Joseph Young, Josiah Butterfield, Daniel Miles, Henry Herriman, Zera Pulsipher, Levi Hancock, James Foster, i lywyddu ar gorwm y deg a thrugain, yr hwn gorwm a sefydlwyd er mwyn henuriaid teithiol i ddwyn tystiolaeth o'm henw yn yr holl fyd, lle bynag yr anfonir hwynt gan yr uchel gynghor teithiol, fy apostolion, i barotoi ffordd o flaen fy ngwyneb. Y gwahaniaeth rhwng y corwm hwn a chorwm yr henuriaid yw, fod un i deithio yn barhaus, a'r llall i lywyddu ar yr eglwysi o amser i amser; ar un gorphwys y cyfrifoldeb o lywyddu o amser i amser, ac ar y llall ni orphwys y cyfrifoldeb o lywyddu, medd yr Arglwydd eich Duw.

45. A thrachefn, meddaf i chwi, yr wyf yn rhoddi i chwi Vinson Knight, Samuel H. Smith, a Shadrach Roundy, os derbynia, i lywyddu ar yr esgobaeth: y mae gwybodaeth am yr esgobaeth ddywededig yn cael ei rhoddi i chwi yn Llyfr Athrawiaeth a Chyfammodau.

46. A thrachefn, meddaf i chwi, Samuel Rolfe a'i gynghorwyr ar offeiriaid, a llywydd y dysgawdwyr a'i gynghorwyr, ac hefyd llywydd y diaconiaid a'i gynghorwyr, ac hefyd llywydd yr estynfa a'i gynghorwyr; y swyddau uchod wyf yn roddi i chwi, ynghyd â'u hallweddau, i fod yn gynnorthwyau a llywodraethau, i fod er gwaith y weinidogaeth, a pherffeithiad fy Saint; a gorchymyn wyf yn ei roddi i chwi fod i chwi lanw yr holl swyddau hyn, a chymmeradwyo yr enwau hyny a grybwyllais, neu ynte eu hanghymmeradwyo hwynt, yn fy nghynnadledd gyffredinol, a bod i chwi barotoi ystafelloedd at yr holl swyddau hyn yn fy nhŷ pan yr adeiladoch ef i'm henw i, medd yr Arglwydd eich Duw. Felly y byddo. Amen.

DOSRAN CIV.

Gair yr Arglwydd, a roddwyd i Thomas B. Marsh, yn Kirtland, Gorphenaf 23, 1837, *ynghylch Deuddeg Apostol yr Oen.*

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi fy

ngwas Thomas, Mi a glywais dy weddiau, a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth ger fy mron i, ar ran y rhai hyny o'th frodyr ag ydynt wedi eu dewis i ddwyn tystiolaeth o'm henw, ac i'w danfon allan ar led yn mhlith pob cenedl, llwyth, iaith, a phobl, ac wedi eu hordeinio trwy offeryngarwch fy ngweision.

2. Yn wir meddaf i chwi, y mae rhyw ychydig o bethau wedi bod yn dy galon, a chyda thi, â pha rai, nid wyf fi, yr Arglwydd, wedi fy llwyr foddloni; er hyny, yn gymmaint ag i ti iselhau dy hun, ti a ddyrchafir; gan hyny mae dy holl bechodau wedi eu maddeu i ti. Ymgysured dy galon o flaen fy wyneb, a thi a ddygi dystiolaeth o'm henw, nid yn unig i'r Cenedloedd, eithr hefyd i'r Iuddewon; a thi a gai ddanfon allan fy ngair hyd eithafoedd y ddaear.

3. Ymdrecha di, gan hyny, foreu ar ol boreu, a dydd ar ol dydd; eled dy lais rhybyddiol allan, a phan ddelo y nos, na adawa i drigolion y ddaear hepian o achos dy leferydd.

4. Bydded dy drigfan yn adnabyddus yn Seion, ac na symuda dy dŷ, canys y mae genyf fi, yr Arglwydd, waith mawr i ti ei wneuthur, mewn cyhoeddi fy enw yn mhlith plant dynion; gan hyny, gwregysa dy lwynau at y gwaith. Caffed dy draed eu pedoli hefyd, canys yr ydwyt wedi dy ddewis, a'th lwybr sydd yn gorwedd yn mhlith y mynyddoedd, ac yn mhlith cenedloedd lawer; a thrwy dy air llawer o rai dyrchafedig a ostyngir, a thrwy dy air llawer o rai isel a ddyrchefir. Dy lais a fydd yn gerydd i'r troseddwr, ac wrth dy gerydd tawed cildynrwydd tafod yr athrodwr.

5. Bydd di yn ostyngedig, a'r Arglwydd dy Dduw a'th arwain di gerfydd dy law, ac a rydd yr ateb i'th weddiau. Yr wyf yn adwaen dy galon, ac wedi gwrandaw dy weddiau ynghylch dy frodyr. Na fydd bartïol tuag atynt mewn cariad uwchlaw llawer ereill, ond bydded dy gariad tuag atynt hwy megys tuag at dy hunan: a bydded dy gariad yn helaeth tuag at bawb dynion, a thuag at bawb sydd yn caru fy enw i. A gweddia dros dy frodyr y deuddeg. Cerydda hwynt yn llym er mwyn fy enw i, a chaffent eu ceryddu am eu holl bechodau, a byddweh chwi ffyddlawn i'm henw ger fy mron. Ac ar ol eu temtasiynau a'u helbulon lawer, wele, myfi, yr Arglwydd, a dosturiaf wrthynt; ac os na chaledant eu calonau, a gwargal-

edu yn fy erbyn i, hwy a argyhoeddir, ac mi a'u hiachaf hwynt.

6. Yn awr, yr wyf yn dywedyd wrthych chwi, a'r hyn wyf yn ei ddywedyd wrthych chwi, yr wyf yn ei ddywedyd wrth yr holl ddeuddeg, Cyfodwch a gwregyswch eich lwynau, cymmerwch i fyny eich croes, dilynwch fi, a phorthwch fy nefaid. Na ddyrchefwch eich hunain; na wrthryfelwch yn erbyn fy ngwas Joseph, canys yn wir meddaf i chwi, yr wyf fi gydag ef, a'm llaw a fydd drosto; a'r allweddau ag wyf fi wedi eu rhoddi iddo ef, ac hefyd i chwithau, nis cymmerir oddiwrtho ef hyd nes y deuaf fi.

7. Yn wir meddaf i chwi, fy ngwas Thomas, Tydi yw y dyn ag wyf fi wedi ddewis i ddal allweddau fy nheyrnas (yn berthynol i'r deuddeg) ar wasgar yn mhlith yr holl genedloedd, fel y gallot fod yn was i mi i agor drws y deyrnas yn yr holl leoedd na allo fy ngwas Joseph, a'm gwas Sidney, a'm gwas Hyrum, fyned iddynt; canys arnynt hwy y gosodais faich yr holl eglwysi am dymmor bychan; gan hyny, pa le bynag y danfonont hwy chwi, ewch, ac mi a fyddaf gyda chwi; ac yn mha le bynag y bydd i chwi gyhoeddi fy enw, caiff drws effeithiol ei agor i chwi, fel y derbyniont fy ngair i; pwy bynag sydd yn derbyn fy ngair sydd yn fy nerbyn i, a phwy bynag sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn y rhai hyny (y brif lywyddiaeth) a ddanfonais, y rhai a wnaethym i yn gynghorwyr er mwyn fy enw i chwi.

8. A thrachefn, meddaf i chwi, pwy bynag a ddanfonwch chwi yn fy enw i, trwy lais eich brodyr, y deuddeg, wedi eu cymmeradwyo a'u hawdurdodi yn rheolaidd genych chwi, a gant allu i agor drws fy nheyrnas i unrhyw genedl y danfonwch chwi hwynt atynt, yn gymmaint ag yr ymostyngant ger fy mron i, ac aros yn fy ngair, a gwrandaw ar lais fy ysbryd.

9. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Tywyllwch a orchuddia y ddaear, a'r fagddu feddyliau y bobloedd, a phob cnawd sydd wedi ymlygru o flaen fy wyneb. Wele, dïal sydd yn dyfod ar frys ar drigolion y ddaear, dydd digofaint, dydd llosgi, dydd anghyfannedd-dra, ac wylofain, a galar, a chwynfan, ac megys corwynt y daw ar wyneb yr holl ddaear, medd yr Arglwydd.

10. Ac ar fy nhŷ y dechreua, ac oddiwrth fy nhŷ yr â allan, medd yr Arglwydd. Yn gyntaf i blith y rhai hyny yn eich

mysg chwi, medd yr Arglwydd, ag ydynt wedi proffesu adnabod fy enw, ac nid adwaenent fi, ac a gablent yn fy erbyn yn nghanol fy nhŷ, medd yr Arglwydd.

11. Gan hyny, edrychwch na thrafferthoch eich hunain yng-hylch achosion fy eglwys yn y lle hwn, medd yr Arglwydd; eithr purwch eich calonau ger fy mron i, ac yna ewch i'r holl fyd, a phregethwch fy efengyl i bob creadur, a'r neb a gredo, ac a fedyddier, a achubir, a'r hwn ni chredo, ac ni fedyddier, a ddemnir.

12. Canys i chwi (y deuddeg), a'r rhai hyny (y brif-lywydd-iaeth) a benodwyd gyda chwi, i fod yn gynghorwyr ac yn arweinyddion i chwi, y rhoddwyd gallu yr offeiriadaeth hon, er mwyn y dyddiau diweddaf a'r waith ddiweddaf, yn y rhai y mae goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, yr hwn allu yr ydych chwi yn ei ddàl mewn cyssylltiad â'r holl rai hyny a dderbyniasant oruchwyliaeth mewn unrhyw amser er dechreuad y creadigaeth; canys yn wir meddaf i chwi, mae allweddau yr oruchwyliaeth a dderbyniasoch chwi, wedi deillio i waered oddiwrth y tadau; ac yn ddiweddaf oll wedi eu dan-fon i lawr o'r nef i chwi.

13. Yn wir meddaf i chwi, Wele, pa mor fawr yw eich galwedigaeth. Glanhewch eich calonau a'ch gwisgoedd, rhag y gofynir gwaed y genedlaeth hon ar eich dwylaw. Byddwch ffyddlawn hyd nes y delwyf, canys yr wyf yn dyfod ar frys, a'm gwobr gyda mi i dalu i bawb yn ol ei waith. Myfi yw Alpha ac Omega. Amen.

DOSRAN CV.

Anerchiad y Saint yn Nauvoo, dyddiedig Nauvoo, Medi 1, 1842.

1. Yn gymmaint â bod yr Arglwydd wedi dadguddio i mi fod fy ngelynion, yn Missouri ac yn y Dalaeth hon, etto yn fy ymlid; ac yn gymmaint â'u bod yn fy ymlid heb achos, ac heb fod ganddynt y cysgod neu y rhith lleiaf o gyfiawnder neu gyfreithlondeb o'u hochr, yn yr erlidigaethau a gyfodasant i fyny yn fy erbyn; ac yn gymmaint â bod eu hesgusion oll wedi eu sylfaenu mewn celwydd o'r gradd duaf, meddyliais ei fod yn fuddiol ac yn ddoeth ynof i adael y lle hwn dros

dymmor byr, er mwyn diogelwch fy hun a diogelwch y bobl hyn. Ewyllysiwn ddweyd wrth y rhai hyny â pha rai y mae genyf drafodaeth, fy mod i wedi gadael fy achosion gyda dirprwywyr ac ysgrifenwyr, y rhai a drafodant bob achosion mewn dull parod ac addas, ac a edrychant fod fy holl ddyledion yn cael eu croesi allan yn brydlawn, trwy droi allan feddiant, neu fel arall, fel y byddo yr achos yn gofyn, neu fel y byddo yr amgylchiadau yn caniatâu. Pan y deuaf i wybod fod yr ystorm wedi llwyr fyned heibio, yna mi a ddychwelaf atoch chwi drachefn.

2. A chyda golwg ar y peryglon y'm gelwir i fyned trwyddynt, ymddangosant megys peth bychan i mi, gan fod cenfigen ac eiddigedd dyn wedi bod yn ran gyffredin i mi holl ddyddiau fy mywyd; ac am ba achos a ymddengys yn ddirgelwch, oddieithr fy mod wedi cael fy ordeinio er cyn sylfaeniad y byd, i ryw ddyben da, neu ddrwg, megys y byddoch chwi yn dewis ei alw. Bernwch chwi drosoch eich hunain. Y mae Duw yn gwybod yr holl bethau hyn, pa un a yw yn dda neu ddrwg. Ond er hyny, mewn dwfr dwfn yr wyf fi yn arferol o nofio. Mae yr oll wedi dyfod yn ail natur i mi, ac ymdeimlaf megys Paul, i orfoleddu mewn cyfyngderau, canys hyd y dydd hwn y mae Duw fy nhadau wedi fy ngwaredu o honynt oll, ac a'm gwareda o hyn allan; canys wele, a llyna, mi a fuddugoliaethaf ar fy holl elynion, canys yr Arglwydd Dduw a'i llefarodd.

3. Gorfoledded yr holl Saint, gan hyny, a byddent yn llawen iawn, canys Duw Israel yw ei Duw, ac efe a fesura allan gyfiawn daledigaeth y gwobrwy ar benau eich holl orthrymwyr chwi.

4. A thrachefn, yn wir fel hyn y dywed yr Arglwydd, Bydded i waith fy nheml, a'r holl weithiau a benodais i chwi, gael eu parhau yn y blaen, a pheidio eu hattal; a bydded eich diwydrwydd, a'ch ymlyniad, a'ch amynedd, a'ch gwaith, yn cael eu hail-ddyblu, ac ni chollwch eich gwobr mewn un modd, medd Arglwydd y lluoedd. Ac os erlidiant chwi, felly yr erlidiasant y prophwydi a'r cyfiawnion o'ch blaen chwi. Am hyn oll y mae gwobr yn y nef.

5. A thrachefn, yr wyf yn rhoddi gair i chwi mewn perthynas i'r bedydd dros eich meirw. Yn wir fel hyn y dywed

yr Arglwydd wrthych chwi ynghylch eich meirw. Pan fyddo rhyw rai o honoch yn cael eu bedyddio dros eich meirw, bydded fod yno gofiadur, a bydded ef yn llygad-dyst o'ch bedyddiadau; bydded iddo glywed â'i glustiau, fel y gallo dystiolaethu yn wirioneddol, medd yr Arglwydd; fel yn eich holl gofnodiadau y gallo fod wedi ei gofnodi yn y nef; fel pa beth bynag a rwymoch ar y ddaear, y byddo wedi ei rwymo yn y nef; a pha beth bynag a ryddhaoch ar y ddaear, y byddo wedi ei ryddhau yn y nef; canys yr wyf fi ynghylch adferu llawer o bethau i'r ddaear yn berthynol i'r offeiriadaeth, medd Arglwydd y lluoedd.

6. A thrachefn, bydded yr holl gof-lyfrau i'w cael mewn trefn, fel y gellir eu gosod yn nghofnodfeydd fy Nheml Santaidd, i'w cadw mewn coffadwriaeth o genedlaeth i genedlaeth, medd Arglwydd y lluoedd.

7. Mi a ddywedaf wrth yr holl Saint, i mi ddymuno â dymuniad mawr iawn, eu hanerch hwy oddiar yr esgynle, ar y pwnc o fedyddio dros y meirw, ar y Sabboth canlynol. Ond yn gymmaint â'i fod allan o'm gallu i wneuthur felly, mi a ysgrifenaf air yr Arglwydd o bryd i bryd, ar y pwnc hwnw, ac a'i danfonaf i chwi gyda'r llythyr-gludiad, yn gystal â llawer o bethau ereill.

8. Yn awr yr wyf yn terfynu fy llythyr yn bresennol, o eisieu rhagor o amser, canys y mae y gelyn ar ei wyliadwriaeth; ac megys ag y dywedodd yr Iachawdwr, y mae tywysog y byd hwn yn dyfod, ond nid oes iddo ddim ynof fi.

9. Wele, fy ngweddi at Dduw yw, ar fod i chwi oll gael eich achub. Ac yr wyf yn tanysgrifio fy hun, eich gwas yn yr Arglwydd, prophwyd a gweledydd Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf.

JOSEPH SMITH.

DOSRAN CVI.

Anerchiad at Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, dyddiedig Nauvoo, Medi 6, 1842.

1. Megys ag y dywedais wrthych yn fy llythyr blaenorol cyn i mi adael fy lle. yr ysgrifenwn atoch o bryd i bryd, a rhoddi gwybodaeth i chwi mewn perthynas i lawer o bynciau,

yr wyf yn awr yn ail-ymaflyd yn y pwnc o fedyddio dros y meirw, gan fod y pwnc hwnw yn ymddangos fel yn llanw fy meddwl, ac yn gwasgu ei hun fwyaf ar fy nheimladau, er pan wyf yn cael fy ymlid gan fy ngelynion.

2. Mi a ysgrifenais ychydig eiriau o ddadguddiad atoch mewn perthynas i gofiadur. Yr wyf wedi cael ychydig o olygiadau ychwanegol mewn perthynas i'r mater hwn, y rhai wyf yn awr yn eu hysbysu. Hyny yw, mi a fynegais yn fy llythyr blaenorol am fod cofiadur, yr hwn a ddylai fod yn llygad-dyst; ac hefyd i glywed â'i glustiau, fel y gallai wneuthur cofnodiad gwirioneddol gerbron yr Arglwydd.

3. Yn awr, mewn perthynas i'r mater hwn, byddai yn lled anhawdd i un cofiadur i fod yn bresennol bob amser, a gwneyd yr holl waith. Er gochelyd yr anhawsdra hwn, gellir penodi cofiadur yn mhob adran o'r ddinas, yr hwn a fyddo yn ddigon medrus i gymmeryd cofnodau cywir; a bydded iddo fod yn fanwl a chraffus wrth gymmeryd yr holl weithrediadau, gan dystio yn ei goflyfr ei fod wedi gweled â'i lygaid, a chlywed â'i glustiau, gan roddi y dyddiad a'r enwau, &c., a chyfrif o'r holl drafodaeth; gan enwi hefyd, rhyw dri o bersonau a fydd yn bresennol, os bydd rhai yn bresennol, y rhai a allont unrhyw amser y gelwir arnynt, i dystiolaethu yr unrhyw, fel yn ngenau dau neu dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy.

4. Yna bydded cofiadur cyffredinol, i'r hwn y gellir trosglwyddo y cofnodau ereill hyn, gydag ardystiadau dan eu henwau eu hunain, yn tystio fod y cofnodiad a wnaethant yn wirioneddol. Yna y cofiadur eglwysig cyffredinol a all gofrestru y cofnodiad ar y llyfr eglwysig cyffredinol, ynghyd â'r ardystiadau, a'r holl lygad-dystion cydfynedol, ynghyd â'i dystiolaeth ei hun ei fod yn credu yn ddiau fod yr ardystiad a'r cofnodau uchod yn wirioneddol, yn ol ei wybodaeth ef o gymmeriad cyffredinol ac apwyntiad y dynion hyny gan yr eglwys. Ac ar ol i hyn gael ei wneuthur ar y llyfr eglwysig cyffredinol, y cofnodiad a fydd yr un mor santaidd, ac a ateba yr ordinhad yr un fath, â phe buasai efe wedi gweled â'i lygaid, a chlywed â'i glustiau, ac wedi gwneuthur cofnodiad o'r unrhyw ar y llyfr eglwysig cyffredinol.

5. Gellwch chwi feddwl fod y drefn hyn ar bethau yn dra manwl, ond gadewch i mi eich hysbysu nad yw hyn ond yn

unig i ateb ewyllys Duw, trwy gydymffurfio â'r ordinhad a'r parotöad a ordeiniodd ac a barotodd yr Arglwydd er cyn sylfaeniad y byd er iachawdwriaeth y meirw a fyddant farw heb wybodaeth o'r efengyl.

6. Ac yn mhellach yr wyf am i chwi gofio fod Ioan y Dadguddiwr yn myfyrio ynghylch y pwnc hwn mewn perthynas i'r meirw, pan y mynegodd, megys y gwelwch yn ysgrifenedig yn y Dadguddiad, xx, 12—"Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll gerbron Duw; a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd: a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau yn ol eu gweithredoedd.

7. Chwi a ganfyddwch yn y dyfyniad hwn, fod y llyfrau wedi eu hagor; a llyfr arall a agorwyd, yr hwn oedd llyfr y bywyd; eithr y meirw a farnwyd wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd: o ganlyniad rhaid mai y llyfrau a sonir am danynt yw y llyfrau sydd yn cynnwys hanes eu gweithredoedd; a chyfeirir at y cof-lyfrau y rhai a gedwir ar y ddaear. A'r llyfr yr hwn oedd llyfr y bywyd, yw y cof-lyfr a gedwir yn y nef; mae yr egwyddor yn cyduno yn gywir â'r athrawiaeth yr hon a orchymynir i chwi yn y dadguddiad a gynnwysa y llythyr a ysgrifenais atoch yn flaenorol i mi adael fy lle—fel yn eich holl gyfnodiadau y gallo fod wedi ei gyfnodi yn y nef.

8. Yn awr y mae natur yr ordinhad yn gynnwysedig yn ngallu yr offeiriadaeth, trwy ddadguddiad Iesu Grist, yn mha un y caniateir fod yr hyn a rwymoch ar y ddaear, yn cael ei rwymo yn y nef, a'r hyn a ryddhaoch ar y ddaear, yn cael ei ryddhau yn y nef. Neu, mewn geiriau ereill, gan gymmeryd golwg arall ar y cyfleithad, pa beth bynag a gofnodwch ar y ddaear, a gofnodir yn y nef; a pha beth bynag ni chofnodwch ar y ddaear, ni chofnodir yn y nef; canys allan o'r llyfrau y bernir eich meirw yn ol eu gweithredoedd eu hunain, pa un a fuont hwy trwy yr ordinhadau yn eu personau eu hunain, neu trwy eu dirprwywyr eu hunain, yn ol yr ordinhad a barotodd Duw er eu hiachawdwriaeth er cyn sylfaeniad y byd, yn ol y cofnodiadau a gadwasant am eu meirw.

9. Geill ymddangos i rai fod yr hyn a siaradwn am dano yn athrawiaeth eofn iawn—gallu ag sydd yn cofnodi neu rwymo

ar y ddaear, ac yn rhwymo yn y nef. Er hyny, yn mhob oes o'r byd, pa bryd bynag y rhoddodd yr Arglwydd oruchwyliaeth yr offeiriadaeth i unrhyw ddyn trwy ddadguddiad hollol, neu unrhyw nifer o ddynion, y mae y gallu hwn wedi ei roddi bob amser. Gan hyny, beth bynag a wnaeth y dynion hyny mewn awdurdod, yn enw yr Arglwydd, gan ei wneyd yn wirioneddol a ffyddlawn, a chadw coffadwriaeth gywir a ffyddlawn o hono, yr oedd yn dyfod yn gyfraith ar y ddaear ac yn y nef, ac nis gellid ei diddymu, yn ol arfaethau y Jehofah mawr. Y mae hwn yn ddywediad ffyddlawn! Pwy a all ei wrandaw?

10. A thrachefn, er esiampl, Mathew xvi, 18, 19—"Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr; ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi: a rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd; a pha beth bynag a rwymech ar y ddaear, a fydd rhwymedig yn y nefoedd; a pha beth bynag a ryddhâech ar y ddaear a fydd wedi ei ryddhau yn y nefoedd."

11. Yn awr y mae dirgelwch mawr a godidog yr holl fater, a phrif ddaioni yr holl bwnc sydd ger ein bron, yn gynnwysedig yn ngalluoedd yr Offeiriadaeth Santaidd. I'r sawl y rhoddir yr allweddau hyn iddo, nid oes anhawsdra i gyrhaedd gwybodaeth o ffeithiau mewn perthynas i iachawdwriaeth plant dynion, am y meirw yn gystal ag am y byw.

12. Yma y mae gogoniant ac anrhydedd, ac anfarwoldeb a bywyd tragywyddol. Yr ordinhad o fedydd trwy ddwfr, bod yn drochedig ynddo i'r dyben o ateb i gyffelybiaeth y meirw, fel y gallo y naill egwyddor gyduno â'r llall. Y mae bod yn drochedig yn y dwfr a dyfod allan o'r dwfr, yn gyffelybiaeth o adgyfodiad y meirw wrth ddyfod allan o'u beddau; o herwydd hyn y sefydlwyd yr ordinhad hon i ffurfio perthynas â'r ordinhad o fedyddio dros y meirw, gan fod yn nghyffelybiaeth y meirw.

13. O ganlyniad cafodd y fedyddfan ei sefydlu yn gyffelybiaeth o'r bedd, ac a orchymynwyd iddo i fod mewn lle islaw lle y mae y byw yn arferol o ymgynnull i ddangos y byw a'r meirw; ac fel y gallo pob peth gael ei gyffelybiaeth, ac fel y cydunont y naill a'r llall; yr hyn sydd ddaearol yn cydymffurfio â'r hyn sydd yn nefol, fel y mynegodd Paul, 1 Corinthiaid xv, 46, 47, a 48.

14. "Eithr nid cyntaf yr ysbrydol, ond yr anianol; ac wedi hyny yr ysbrydol. Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; yr ail dyn yr Arglwydd o'r nef. Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd; fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd." Ac fel y mae cofnodiadau ar y ddaear mewn perthynas i'ch meirw, y rhai a wneler allan yn wirioneddol, felly y mae y cofnodiadau yn y nef hefyd. Hwn, o ganlyniad, yw y gallu seliadol a rhwymiadol, ac mewn un ystyr o'r gair allweddau y deyrnas yn y rhai y cynnwysir allwedd gwybodaeth.

15. Ac yn awr, fy anwyl a charuaidd frodyr a chwiorydd, gadewch i mi sicrhau i chwi fod y rhai hyn yn egwyddorion mewn perthynas i'r meirw a'r byw, nas gellir myned drostynt yn ddifater, gan eu bod yn dal cyssylltiad â'n hiachawdwriaeth ni. Canys y mae eu hiachawdwriaeth hwy yn anghenrheidiol ac anhebgorol er ein hiachawdwriaeth ninnau, megys y mae Paul yn dywedyd ynghylch y tadau—"fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau;" ac ni pherffeithir ninnau ychwaith heb ein meirw.

16. Ac yn awr mewn perthynas i fedyddio dros y meirw, rhoddaf ddyfyniad arall i chwi o eiddo Paul, 1 Corinthiaid xv, 29—"Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? paham ynte y bedyddir hwy dros y meirw"?

17. A thrachefn, mewn cyssylltiad â'r dyfyniad hwn, rhoddaf i chwi ddyfyniad o un o'r prophwydi, yr hwn oedd â'i olwg ar adferiad yr offeiriadaeth, y gogoniant ag oedd i'w ddadguddio yn y dyddiau diweddaf, ac mewn dull neillduol y pwnc mwyaf gogoneddus hwn o'r holl bynciau perthynol i'r efengyl dragywyddol, sef bedyddio dros y meirw; canys dywed Malachi, pennod ddiweddaf, adnodau 5med a'r 6fed—"Wele, mi a anfonaf i chwi Elias y prophwyd, cyn dyfod dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd: ac efe a dry galon y tadau at y plant, a chalon y plant at eu tadau; rhag i mi ddyfod a tharo y ddaear â melldith."

18. Gallwn fod wedi rhoddi cyfieithad eglurach i hwn, eithr y mae yn ddigon eglur i ateb fy nyben i megys ag y mae. Mae yn ddigon i wybod yn yr achos hwn fod y ddaear i gael ei tharo â melldith, oddieithr fod cadwyn asiedig o ryw fath neu

gilydd, rhwng y tadau a'r plant, ar ryw bwnc neu gilydd, ac wele pa beth yw y pwnc hwnw? Bedyddio dros y meirw yw. Canys ni pherffeithir ni hebddynt hwy; ac ni pherffeithir hwy hebom ninnau. Ac ni pherffeithir hwy na ninnau heb y rhai hyny sydd wedi marw yn yr efengyl hefyd; canys y mae yn anghenrheidiol yn nyfodiad i mewn oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, yr hon oruchwyliaeth sydd yn awr yn dechreu dyfod i mewn, fod undeb cyflawn a pherffaith, ac uniad goruchwyliaethau, ac allweddau, a galluoedd, a gogoniannau, i gymmeryd lle, ac i gael eu dadguddio o ddyddiau Adda hyd y nod i'r amser presennol; ac nid yn unig hyn, ond y pethau hyny na ddadguddiwyd erioed er sylfaeniad y byd, eithr a guddiwyd oddiwrth y doeth a'r synwyrol, a gant eu dadguddio i fabanod a phlant sugno yn yr oruchwyliaeth hon o gyflawnder yr amseroedd.

19. Yn awr pa beth ydym yn glywed yn yr efengyl a dderbyniasom?—"Llais gorfoledd! Llais trugaredd o'r nef; a llais gwirionedd allan o'r ddaear, newyddion da i'r meirw; llais gorfoledd i'r byw a'r meirw; newyddion da o lawenydd mawr; mor brydferth ar y mynyddoedd yw traed y rhai hyny sydd yn efengylu pethau daionus; ac sydd yn dywedyd wrth Seion, Wele! mae dy Dduw yn teyrnasu. Fel y gwlith ar Carmel, felly y dyhidla gwybodaeth Duw arnynt hwy."

20. A thrachefn, pa beth ydym yn glywed? Newyddion da o Cumorah! Moroni, angel o'r nef, yn cyhoeddi cyflawniad y prophwydi—y llyfr sydd i'w ddadguddio. Llais yr Arglwydd yn anialwch Fayette, Seneca, yn cyhoeddi y tri thyst i ddwyn tystiolaeth o'r llyfr. Llais Michael ar lànau y Susquehanna, yn adwaen y diafol pan yr ymddangosodd megys angel y goleuni. Llais Pedr, Iago, ac Ioan, yn yr anialwch rhwng Harmony, swydd Susquehanna, a Colesville, swydd Broome, ar yr afon Susquehanna, yn mynegi eu bod hwy yn feddiannol ar allweddau y deyrnas, a goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd.

21. A thrachefn, llais Duw yn ystafell yr hen dad Whitmer, yn Fayette, swydd Seneca, ac ar amrywiol amserau, ac mewn gwahanol leoedd, trwy holl deithiau ac helbulon Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. A llais Michael, yr archangel; llais Gabriel a Raphael, ac amryw angylion, o Michael neu Adda, i waered i'r amser presennol, pob un yn dadgan ei

oruchwyliaeth, ei hawlfraint, ei allweddau, ei anrhydedd, ei fawrhydi, a'i ogoniant, a gallu ei offeiriadaeth; gan roddi llinell ar linell, gorchymyn ar orchymyn; ychydig yma ac ychydig acw—yn rhoddi i ni ddyddanwch trwy ddal allan yr hyn sydd i ddyfod, gan gadarnhau ein gobaith ni.

22. Frodyr, a gawn ni ddim fyned rhagom gydag achos mor fawr? Ewch yn mlaen, ac nid yn ol. Gwroldeb, frodyr; ac yn mlaen, yn mlaen i'r fuddugoliaeth! Gorfoledded eich calonau, a byddwch lawen iawn. Tored y ddaear allan i ganu. Bydded i'r meirw ddadgan allan anthemau o fawl tragywyddol i'r Brenin Immanuel, yr hwn a ordeiniodd cyn bod y byd, yr hyn a'n galluogai ni i'w gwaredu hwy allan o'u carcharau; canys y carcharorion a gant fyned yn rhyddion.

23. Bloeddied y mynyddoedd o lawenydd, a chwi yr holl ddyffrynoedd, gwaeddwch yn groch; a chwi yr holl foroedd a thiroedd sychion, mynegwch ryfeddodau eich brenin tragywyddol. A chwi afonydd, a nentydd, a chornentydd, dylifwch i waered mewn llawenydd. Bydded i goed ac holl breniau y maes foli yr Arglwydd; a chwi greigiau cedyrn, wylwch o lawenydd. A bydded i'r haul, y lleuad, a sêr y boreu, gydganu, a bloeddied holl feibion Duw o lawenydd. A dadganed y creadigaethau tragywyddol ei enw yn oes oesoedd. A thrachefn meddaf, mor ogoneddus yw y llais ydym yn glywed o'r nef, yn dadgan yn ein clustiau, ogoniant, ac iachawdwriaeth, ac anrhydedd, ac anfarwoldeb, a bywyd tragywyddol; teyrnasoedd, tywysogaethau, ac awdurdodau.

24. Wele, y mae dydd mawr yr Arglwydd wrth law, a phwy a oddef dydd ei ddyfodiad? a phwy a saif pan ymddangoso efe? canys y mae efe fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion: ac efe a eistedd fel purwr a glanhawr arian, ac efe a bura feibion Lefi, ac a'u coetha hwynt fel aur ac fel arian, fel y byddont yn offrymu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder. Bydded i ni gan hyny fel eglwys a phobl, ac fel Saint y Dyddiau Diweddaf, offrymu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder, a chyflwyno yn ei deml santaidd, ar ol iddi gael ei gorphen, lyfr yn cynnwys cofnodiadau ein meirw, yr hwn a fyddo yn deilwng o bob derbyniad.

25. Frodyr, y mae genyf lawer o bethau i'w traethu i chwi ynghylch y pwnc; ond yn awr caf derfynu am yr amser presen-

nol, a pharhau y pwnc ryw amser etto. Ydwyf, megys erioed, eich gwas gostyngedig a'ch cyfaill diffuant,

JOSEPH SMITH.

DOSRAN CVII.

Dadguddiad a roddwyd yn Far West, Missouri, Gorphenaf 8, 1838, mewn atebiad i'r gofyniad, O Arglwydd, dangos i'th weision pa faint a ofyni o feddiannau dy bobl yn ddegwm?

1. Yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Yr wyf fi yn gofyn eu holl eiddo gormodol i osod yn nwylaw esgob fy eglwys yn Seion, tuag at adeiladu fy nhy, a thuag at osod sylfaen Seion, a thuag at yr offeiriadaeth, a thuag at ddyledion llywyddiaeth fy eglwys; a hyn a fydd yn ddechreu degymu fy mhobl; ac ar ol hyny, y rhai a fydd wedi eu degymu felly, a gant dalu y degfed o'u holl gynnyrch blynyddol, a chaiff hyn fod yn gyfraith sefydlog iddynt yn dragywydd, er mwyn fy offeiriadaeth santaidd, medd yr Arglwydd.

2. Yn wir meddaf i chwi, y daw oddiamgylch, y caiff yr holl rai hyny a ymgasglant ar dir Seion eu degymu o'u heidio gormodol, ac a gant gadw y gyfraith hon, onide ni cheir hwynt yn deilwng i aros yn eich plith. Ac yr wyf yn dywedyd wrthych, Os ni sylwa fy mhobl ar y gyfraith hon, i'w chadw yn santaidd, a thrwy y gyfraith hon santeiddio tir Seion i mi, fel y byddo i'm deddfau a'm barnedigaethau gael eu cadw ynddo, fel y byddo yn dra santaidd; wele, meddaf i chwi, ni fydd yn dir Seion i chwi; a hyn a fydd yn esiampl i holl estynfeydd Seion. Felly y byddo. Amen.

ATTODIAD.

DOSRAN CVIII.

1. Gwrandewch, O chwi bobl fy eglwys, medd yr Arglwydd eich Duw, a chlywch air yr Arglwydd mewn perthynas i chwi: yr Arglwydd yr hwn a ddaw yn ddisymmwth i'w deml: yr Arglwydd yr hwn a ddisgyna ar y byd gyda melldith i farn; ïe, ar yr holl genedloedd sydd yn anghofio Duw, ac ar yr holl rai annuwiol yn eich plith chwi. Canys efe a ddynoetha ei fraich santaidd yn ngolwg yr holl genedloedd, a holl gyrau y ddaear a gant weled iachawdwriaeth eu Duw.

2. Am hyny, parotowch chwi, parotowch chwi, O fy mhobl; santeiddiwch eich hunain; ymgasglwch ynghyd, O chwi bobl fy eglwys, ar dir Seion, chwi yr holl rai na orchymynwyd i aros. Ewch allan o Babilon. Byddwch chwi lân ag sydd yn dwyn llestri yr Arglwydd. Galwch eich cymmanfaoedd santaidd, a llefarwch yn fynych y naill wrth y llall. A galwed pob dyn ar enw yr Arglwydd; ïe, yn wir meddaf i chwi drachefn, mae yr amser wedi dyfod pan y mae lleferydd yr Arglwydd tuag atoch chwi, ewch allan o Babilon; ymgasglwch allan o blith y cenedloedd, o'r pedwar gwynt, o un cwr y nefoedd i'r llall.

3. Danfonwch Henuriaid fy eglwys at y cenedloedd sydd yn mhell; i ynysoedd y môr; danfonwch i wledydd tramor; galwch ar bob cenedl; yn gyntaf ar y Cenedloedd, ac yna ar yr Iuddewon. Ac wele a llyna, hyn a fydd eu llef, a llais yr Arglwydd tuag at yr holl bobloedd; Ewch allan i dir Seion, fel y byddo i gyffiniau fy mhobl gael eu helaethu, ac fel y byddo i'w hestynfeydd hi gael eu nerthu, ac fel yr elo Seion allan i'r ardaloedd oddiamgylch; ïe, eled y waedd allan yn mhlith yr holl bobloedd; dihunwch a chyfodwch, ac ewch allan i gyfarfod â'r priodfab: wele, a llyna, mae y priodfab yn dyfod, ewch allan i'w gyfarfod ef. Parotowch eich hunain erbyn dydd mawr yr Arglwydd.

4. Gwyliwch, gan hyny, canys ni wyddoch y dydd na'r awr. Bydded iddynt hwy, gan hyny, sydd yn mhlith y Cenedloedd, ffoi i Seion. A bydded iddynt hwy sydd o Juda ffoi i Jerusalem,

i fynyddoedd tŷ yr Arglwydd. Ewch allan o blith yr holl genedloedd, sef o Babilon, o ganol drygioni, yr hyn yw Babilon ysbrydol. Ond yn wir, fel hyn y dywed yr Arglwydd, na fydded eich ffoedigaeth mewn brys, eithr bydded i bob peth gael eu parotoi o'ch blaen chwi; a'r hwn a elo, nac edryched yn ol, rhag i ddinystr disymmwth ddyfod arno.

5. Erglywch a gwrandewch, O chwi drigolion y ddaear. Gwrandewch chwi henuriaid fy eglwys ynghyd, a chlywch lais yr Arglwydd, canys y mae efe yn galw ar bawb, ac yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man i edifarhau; canys wele, yr Arglwydd a anfonodd allan yr angel, yn bloeddio trwy ganol y nef, gan ddywedyd, Parotowch ffordd yr Arglwydd, a gwnewch ei lwybrau ef yn uniawn, canys y mae awr ei ddyfodiad ef yn agos, pan y bydd i'r Oen sefyll ar Fynydd Seion, a chydag ef gant a phedwar a deugain o filoedd o'r rhai fydd ag enw ei Dad wedi ei ysgrifenu ar eu talcenau; am hyny, parotowch erbyn dyfodiad y priodfab; ewch, ewch chwi allan i'w gyfarfod ef, canys wele, efe a saif ar fynydd yr Olewwydd, ac ar y cefnfor mawr, sef y dyfnder mawr, ac ar ynysoedd y môr, ac ar dir Seion; ac efe a rydd allan ei lais o Seion, ac a lefara o Jerusalem, a'i lais a glywir yn mhlith yr holl bobloedd, a bydd yn lais megys swn dyfroedd lawer, ac megys llais taran fawr yr hon a dŷr i lawr y mynyddoedd, a'r dyffrynoedd ni cheir; efe a orchymyna i'r dyfnder mawr, ac efe a yrir yn ol i'r gwledydd gogleddol, a'r ynysoedd a ddeuant yn un tir, a thir Jerusalem a thir Seion a droir yn ol i'w lle eu hunain, a'r ddaear a fydd yn debyg fel yr oedd yn y dyddiau cyn ei rhanu. A'r Arglwydd, ïe, yr Iachawdwr, a saif yn nghanol ei bobl, ac a deyrnasa ar bob cnawd.

6. A hwynt-hwy ag sydd yn y gwledydd gogleddol a ddeuant mewn coffadwriaeth gerbron yr Arglwydd, a'u prophwydi a glywant ei lais ef, ac ni attaliant eu hunain mwyach, a hwy a darawant greigiau, a'r ia a ddisgyna i lawr yn eu presennoldeb. A phrif-ffordd a wneir yn nghanol y dyfnder mawr. Eu gelynion a fyddant yn ysglyfaeth iddynt, ac yn yr anialdiroedd diffrwyth y daw pydewau o ddwfr bywiol; a'r crasdir ni fydd mwyach yn dir sychedig. A hwy a ddygant allan eu trysorau gwerthfawr i blant Ephraim fy ngweision. A chyffiniau y bryniau tragwyddol a grynant o herwydd eu presennoldeb. Ac

yna yr ymgrymant i lawr ac a goronir â gogoniant, ïe, yn Seion, gan ddwylaw gweision yr Arglwydd, sef plant Ephraim; a hwy a lenwir â chaniadau o lawenydd tragywyddol. Wele, dyma fendith y Duw tragywyddol ar lwythau Israel, a'r fendith benaf ar ben Ephraim a'i gymdeithion. A hwythau hefyd o lwyth Juda, ar ol eu poeni, a santeiddir mewn santeiddrwydd gerbron yr Arglwydd, i drigo yn ei bresennoldeb ddydd a nos yn oes oesoedd.

7. Ac yn awr, yn wir, medd yr Arglwydd, fel y byddai y pethau hyn yn adnabyddus yn eich plith chwi, O drigolion y ddaear, mi a ddanfonais allan fy angel, gan ehedeg yn nghanol y nef, â'r efengyl dragywyddol ganddo, yr hwn a ymddangosodd i rai, ac a'i cyflwynodd hi i ddyn, yr hwn a ymddangosa i lawer sydd yn trigo ar y ddaear; â'r efengyl hon a bregethir i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl; a gweision Duw a ânt allan, gan ddywedyd â llef uchel, Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant, oblegid daeth awr ei farn ef; ac addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynnonau dyfroedd, gan alw ar enw yr Arglwydd ddydd a nos, gan ddywedyd, O na rwyget y nefoedd, fel y deuet i waered, fel y syrthiai y mynyddoedd o'th flaen. A hyn a atebir ar eu penau, canys presennoldeb yr Arglwydd a fydd megys y tawdd-dân sydd yn llosgi, ac megys y tân sydd yn berwi y dyfroedd.

8. O Arglwydd, ti a ddisgyni i wneuthur dy enw yn hysbys i'th elynion, a'r holl genedloedd a grynant o'th flaen. Pan y gwnai di bethau ofnadwy, pethau na fyddant hwy yn ddysgwyl am danynt; ïe, pan y deui i waered ac y syrthia y mynyddoedd o'th flaen, ti a'i cyfarfyddi ef sydd yn gorfoleddu ac yn gweithredu cyfiawnder, yr hwn sydd yn dy gofio yn dy ffyrdd; canys oddiar ddechreuad y byd ni chlywodd dynion ac ni chlybuodd y glust, ac ni welodd un llygad, O Dduw, ond tydi, y pethau mawrion a barotoaist i'r hwn sydd yn dy ddysgwyl.

9. A chaiff ei ddywedyd, Pwy yw hwn sydd yn dyfod oddiwrth Dduw yn y nef yn lliwiedig ei ddillad; ïe, o'r ardaloedd anadnabyddus, wedi ymwisgo mewn gwisg ogoneddus, yn ymdaith yn amlder ei rym? Ac yntau a ddyweda, Myfi yw efe sydd yn llefaru mewn cyfiawnder, yn alluog i achub. A'r Arglwydd a fydd yn goch ei wisg, a'i ddillad megys yr hwn sydd yn sathru y gwin-wryf, ac mor fawr y bydd gogoniant ei

bresennoldeb, fel y cuddia yr haul ei wyneb mewn cywilydd; a'r lloer a attalia ei llewyrch; a'r sêr a deflir o'u lleoedd; a'i lais ef a glywir, Mi a sethrais y gwin-wryf fy hunan, ac a ddygais farn ar yr holl bobloedd; ac nid oedd neb gyda mi; ac mi a'u sethrais hwynt yn fy nig, ac a'u mathrais hwynt yn fy llidiogrwydd, a'u gwaed hwynt a daenellais ar fy nillad, a'm holl wisgoedd a lychwinais; canys dyma y dydd dïal ag oedd yn fy nghalon.

10. Ac yn awr blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth, a hwy a gofiant drugareddau eu Harglwydd, a'r hyn oll a roddodd efe iddynt, yn ol ei ddaioni, ac yn ol ei drugaredd, yn oes oesoedd. Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd. Ac angel ei gynnrychioldeb a'u hachubodd hwynt; ac yn ei gariad, ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt, ac y dygodd hwynt, ac yr arweiniodd hwynt yr holl ddyddiau gynt; ïe, ac Enoch hefyd, a'r rhai ag oedd gydag ef; y prophwydi ag oedd o'i flaen ef, a Noah hefyd, a'r rhai oedd o'i flaen ef, a Moses hefyd, a'r rhai oedd o'i flaen ef, ac o Moses i Elias, ac o Elias i Ioan, y rhai oedd gyda Christ yn ei adgyfodiad, a'i apostolion santaidd, gydag Abraham, Isaac, a Jacob, a fyddant yn mhresennoldeb yr Oen. A beddau y saint a agorir, a hwy a ddeuant allan ac a safant ar ddeheulaw yr Oen, pan y saif ar Fynydd Seion, ac yn y ddinas santaidd, y Jerusalem Newydd, a hwy a ganant gân yr Oen ddydd a nos yn oes oesoedd.

11. Ac i'r dyben hyn, fel y gallai dynion gael eu gwneyd yn gyfranogion o'r gogoniant ag oedd i gael ei ddadguddio, y danfonodd yr Arglwydd allan gyflawnder ei efengyl, ei gyfammod tragywyddol, gan ymresymu mewn eglurdeb a symlrwydd, i barotoi y gweiniaid erbyn y pethau hyny sydd yn dyfod ar y ddaear; ac er mwyn cenadwri yr Arglwydd yn y dydd y bydd i'r gweiniaid ddyrysu y doethion, ac y daw y fechan yn genedl gref, ac y gosoda dau eu degau o filoedd i ffoi; a thrwy wael bethau y ddaear y dyrna yr Arglwydd y cenedloedd trwy allu ei Ysbryd. Ac i'r dyben yma y rhoddwyd y gorchymynion hyn; gorchymynwyd eu cadw oddiwrth y byd yn y dydd y rhoddwyd hwynt, ond yn awr y maent yn myned allan at bob cnawd. A hyn yn unol â meddwl ac ewyllys yr Arglwydd yr hwn sydd yn teyrnasu ar bob cnawd; ac i'r hwn a edifarhao ac a santeiddio ei hun gerbron yr Ar-

glwydd, y rhoddir bywyd tragywyddol; ac arnynt hwy na wrandawant ar lais yr Arglwydd, y cyflawnir yr hyn a ysgrifenwyd gan y prophwyd Moses, y torid hwynt ymaith o blith y bobl.

12. Ac hefyd yr hyn a ysgrifenwyd gan y prophwyd Malachi; canys, wele, y dydd yn dyfod yn llosgi megys ffwrn; a'r holl feilchion, a holl weithredwyr anwiredd, a fyddant sofl: a'r dydd sydd yn dyfod a'u llysg hwynt, medd Arglwydd y lluoedd, fel nas gadawo iddynt na gwreiddyn na changen. Am hyny, hyn a fydd ateb yr Arglwydd iddynt: Yn y dydd hwnw pan ddaethym at fy eiddo fy hun, ni dderbyniwyd fi gan neb yn eich plith chwi, a gyrwyd chwi allan. Pan elwais drachefn, nid oedd neb o honoch i ateb, etto ni fyrhawyd fy mraich, fel nad allwn waredu, na'm gallu i achub. Wele, wrth fy ngherydd yr wyf yn sychu y môr. Yr wyf yn gwneyd yr afonydd yn anialwch; eu pysgod a ddrewant, ac a drengant o syched. Yr wyf yn gwisgo y nefoedd â thywyllwch du, ac yn eu gorchuddio â sachlian. A hyn a gewch o'm llaw i, chwi a orweddwch i lawr mewn tristwch.

13. Wele a llyna, nid oes neb i'ch gwaredu chwi, canys ni ufyddhasoch i'm llais pan alwais arnoch allan o'r nefoedd, ni chredasoch fy ngweision; a phan ddanfonwyd hwynt atoch ni dderbyniasoch hwynt; am hyny, hwy a seliasant y dystiolaeth ac a rwymasant y gyfraith, a chwi a draddodwyd i dywyllwch: y rhai hyn a ânt i dywyllwch eithaf, lle y mae wylofain, ochain, a rhincian dannedd. Wele, yr Arglwydd eich Duw a'i llefarodd. Amen.

DOSRAN CIX.

Priodas.

1. Yn unol ag arferiad pob cenedl wareiddiedig, rheoleiddir priodas gan gyfreithiau a seremoniau; o ganlyniad, credwn y dylai pob priodas yn eglwys Crist o Saint y Dyddiau Diweddaf, gael ei gweinyddu mewn cyfarfod cyhoeddus, neu wledd, wedi ei pharotoi i'r perwyl; ac y dylai y gweinyddiad gael ei gyflawni gan archoffeiriad llywyddol, archoffeiriad, esgob, henuriad, neu offeiriad, heb hyd y nod wahardd y per-

sonau a ddymunant ymbriodi, rhag ymbriodi trwy awdurdod arall. Ni chredwn fod yn iawn gwahardd aelodau o'r eglwys hon rhag priodi allan o'r eglwys, os mai eu penderfyniad yw gwneyd felly, eithr ystyrir personau o'r fath yn weiniaid yn ffydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist.

2. Dylai priodas gael ei gweinyddu gyda gweddi a diolchgarwch; ac yn y gweinyddiad, y personau sydd i gael eu priodi a safant yn ochrau eu gilydd, y dyn ar y llaw ddeheu, a'r fenyw ar yr aswy, ac a anerchir gan y gweinyddwr, megys ag y cyfarwyddir ef gan yr Ysbryd Santaidd; ac os na fydd gwrthwynebiadau cyfreithlawn, caiff ddweyd, gan alw pob un wrth ei enw, "Yr ydych chwi eich dau yn cytuno i fod yn gyfeillion i'ch gilydd, yn wr a gwraig, gan barchu iawnderau cyfreithlawn y cyflwr hwn; hyny yw, cadw eich hunain yn gwbl i'ch gilydd, ac oddiwrth bawb ereill, drwy eich bywyd." Ac ar ol iddynt hwy ateb, "Ydym," caiff eu cyhoeddi yn "wr a gwraig," yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, a thrwy bwer cyfreithiau y wlad a'r awdurdod a fydd yn ei feddiant: "Bydded i Dduw ychwanegu ei fendithion a'ch cadw chwi i gyflawni eich cyfammodau o hyn allan a thros byth. Amen."

3. Dylai ysgrifenydd pob eglwys gadw coffadwriaeth o bob priodas a weinyddir yn ei gangen.

4. Dylai pob cytundeb cyfreithlawn priodas a wnaed cyn i berson gael ei fedyddio i'r eglwys hon, gael ei ystyried yn gyssegredig a'i gyflawni. Yn gymmaint â bod eglwys Crist wedi ei gwarthruddo fel o fod yn euog o'r trosedd o odineb ac aml-wreigiaeth, cyhoeddwn ein bod yn credu y dylai un dyn gael un wraig, ac un fenyw ond un gwr, oddieithr mewn achos o farwolaeth, pan y mae y naill a'r llall at eu rhyddid i briodi eilwaith. Nid yw yn iawn i berswadio gwraig i gymmeryd ei bedyddio yn groes i ewyllys ei gwr; ac nid yw yn gyfreithlawn i ddylanwadu arni i adael ei gwr. Mae pob plant yn rhwym wrth gyfraith i ufyddhau eu rhieni; ac y mae dylanwadu arnynt i gofleidio unrhyw ffydd grefyddol, neu gymmeryd eu bedyddio, neu adael eu rhieni, heb eu cydsyniad, yn anghyfreithlawn ac anghyfiawn. Credwn y bydd gwyr, rhieni, a meistri, y rhai sydd yn llywodraethu ar eu gwragedd, plant, a'u gweision, ac yn eu rhwystro rhag cofleidio y gwirionedd, i fod yn atebol am y pechod hwnw.

DOSRAN. CX.

Am Lywodraethau a Chyfreithiau yn gyffredinol.—Fel na chaffo ein crediniaeth mewn perthynas i lywodraethau daearol a chyfreithiau yn gyffredinol eu cam-ddehongli neu eu cam-ddeall, tybiasom yn addas i roddi, ar ddiwedd y gyfrol hon, ein meddwl am danynt.

1. Credwn fod llywodraethau wedi eu sefydlu gan Dduw er lles dyn, a'i fod yn galw dynion yn gyfrifol am eu gweithredoedd mewn perthynas iddynt, naill ai yn ngwneuthuriad cyfreithiau neu eu gweinyddiad, er daioni a diogelwch cymdeithas.

2. Credwn nas gall un llywodraeth fodoli, mewn heddwch, oddieithr fod y fath gyfreithiau yn cael eu cyfansoddi a'u cadw yn ddilwgr, ag a sicrhant i bob person rydd-ymarferiad cydwybod, hawl a rheolaeth ar feddiant, ac amddiffyniad bywyd.

3. Credwn fod yr holl lywodraethau o anghenrhaid yn gofyn swyddogion gwladol ac ustusiaid i osod eu cyfreithiau mewn grym, a bod y sawl a weinyddo y gyfraith mewn cyfiawnder ac uniondeb i'w ddewis a'i gynnal i fyny gan lais y bobl (os gwerin-lywodraeth), neu trwy ewyllys y penadur.

4. Credwn fod crefydd wedi ei sefydlu gan Dduw, a bod dynion yn atebol iddo ef, ac iddo ef yn unig, am yr ymarferiad o honi, oddieithr fod eu hopiniynau crefyddol yn eu cymhell i droseddu ar iawnderau a rhyddid ereill; ond ni chredwn fod hawl gan gyfraith ddynol i ymyraeth mewn gwneuthur rheolau addoli er rhwymo cydwybodau dynion, na trefnu ffurfiau at addoliad cyhoeddus neu ddirgelaidd; y dylai ustus gwladol attal trosedd, ond peidio byth rheoli y gydwybod; cospi euogrwydd, ond peidio byth ag attal rhyddid yr enaid.

5. Credwn fod pawb yn rhwym i gynnorthwyo a dal i fyny y gwahanol lywodraethau lle y maent yn preswylio, tra yn cael eu hamddiffyn yn eu hiawnderau cynhenid a chyfreithlawn gan gyfreithiau y cyfryw lywodraethau, a bod terfysg neu wrthryfel yn annheilwng o bob deiliad a amddiffyner felly, ac y dylai gael ei gospi yn gyferbyniol; a bod pob llywodraeth â hawl i wneuthur y cyfryw gyfreithiau a ystyrir oreu yn ol eu barn hwy i sicrhau lles y cyhoedd, gan gadw yn gyssegredig, er hyny, ar yr un pryd, ryddid cydwybod.

6. Credwn y dylai pob dyn gael ei anrhydeddu yn ol ei sefyllfa; llywodraethwyr ac ustusiaid fel y cyfryw, gan fod wedi eu gosod er amddiffyn y diniwed ac er cospi yr euog; a bod dyledswydd ar bawb i barchu ac ymostwng i'r cyfreithiau, canys hebddynt annhrefn a dychryn a gymmerent le heddwch a chydgordiad: y mae cyfreithiau dynol wedi eu sefydlu i'r unig ddyben o reoleiddio ein hachosion fel personau a chenedloedd, rhwng dyn a dyn, a chyfreithiau dwyfol wedi eu rhoddi o'r nef, i fod yn reolau mewn achosion ysbrydol, ynghylch ffydd ac addoliad; ac y mae dyn yn gyfrifol i'w Grëwr am y naill a'r llall.

7. Credwn fod llywodraethwyr, taleithiau, a llywodraethau, â hawl ganddynt, a'u bod yn rhwym i wneuthur cyfreithiau i amddiffyn eu holl ddinasyddion yn y rhydd-ymarferiad o'u cred grefyddol; ond ni chredwn fod ganddynt hawl, mewn cyfiawnder, i amddifadu dinasyddion o'r fraint hon, neu eu cyfarwyddo hwynt yn eu hopiniynau, cyn belled ag y byddo ymostyngiad a pharch yn cael eu dangos tuag y cyfreithiau, a'r cyfryw opiniynau crefyddol ddim yn cyfiawnhau terfysg na chydfradwriaeth.

8. Credwn y dylai cyflawniad trosedd gael ei gospi yn ol natur y trosedd; y dylai llofruddiaeth, teyrn-fradwriaeth, lladrad, yspeiliad, a thoriad yr heddwch cyffredin, yn mhob golygiad, gael eu cospi yn ol eu troseddiadau a'u tuedd i ddrygioni yn mhlith dynion, gan gyfreithiau y llywodraeth hono yn mha un y mae y trosedd yn cael ei gyflawni; ac er cael heddwch a llonyddwch cyhoeddus, y dylai pob dyn ddyfod yn mlaen a defnyddio ei allu i ddwyn troseddwyr yn erbyn cyfreithiau da i gosp.

9. Ni chredwn ei fod yn iawn i gymmysgu dylanwad crefyddol a llywodraeth wladol, trwy yr hyn y mae un gymdeithas grefyddol yn cael ei noddi, ac un arall yn cael ei gormesu yn ei breintiau crefyddol, ac iawnderau personol ei haelodau, fel dinasyddion, yn cael eu nacâu.

10. Credwn fod gan bob cymdeithasau crefyddol hawl i ymdrin â'u haelodau am ymddygiad afreolaidd yn ol deddfau a rheolau y cyfryw gymdeithasau, os bydd y cyfryw ymdriniaeth yn tueddu at ddyscyblaeth dda; ond ni chredwn fod awdurdod gan unrhyw gymdeithas grefyddol i brofi dynion ynghylch eu hawl o feddiant neu fywyd, i gymmeryd oddiwrthynt bethau y byd hwn, neu eu gosod mewn perygl ynghylch bywyd neu aelod, na gosod unrhyw gosp dymmorol arnynt; nis gallant ond yn unig eu hesgymuno hwynt allan o'u cymdeithas, a pheidio ymgymdeithasu â hwynt.

11. Credwn y dylai pawb apelio at y gyfraith wladol am gyfiawnder ynghylch pob camwri a thrais, lle y mae camdriniaeth bersonol wedi ei gwneyd, neu hawlfraint meddiant neu gymmeriad wedi ei throseddu, lle y bodola y cyfryw gyfreithiau a wnelo amddiffyn yr unrhyw; ond credwn fod pawb dynion i'w cyfiawnhau wrth amddiffyn eu hunain, eu cyfeillion a'u meddiant, a'r llywodraeth, rhag ymosodiadau anghyfreithlawn a gormes pob personau, ar amseroedd cyfyng, pan na ellir apelio at y cyfreithiau yn uniongyrchol, a chael cymhorth.

12. Credwn ei fod yn iawn i bregethu yr efengyl i genedloedd y ddaear, a rhybyddio y cyfiawn i achub eu hunain rhag llygredigaeth y byd; ond ni chredwn ei fod yn iawn i ymyraeth â chaethweision, nac ychwaith i bregethu yr efengyl iddynt, na'u bedyddio, yn groes i ewyllys a dymuniad eu meistri, nac ymyraeth neu ddylanwadu arnynt yn y mesur lleiaf i beri iddynt fod yn anfoddlawn ar eu sefyllfaoedd yn y

bywyd hwn, a thrwy hyny beryglu bywydau dynion; credwn fod y fath ymyraeth yn anghyfreithlawn ac anghyfiawn, ac yn beryglus i heddwch pob llywodraeth yn caniatâu bodau dynol i fod mewn caeth-wasanaeth.

DOSRAN CXI.

Merthyrdod Joseph Smith a'i Frawd Hyrum.

1. Er selio tystiolaeth y llyfr hwn a Llyfr Mormon, terfynwn gyda merthyrdod Joseph Smith y prophwyd, ac Hyrum Smith y patriarch. Saethwyd hwynt yn ngharchar Carthage, ar y 27ain o Fehefin, 1844, oddeutu pump o'r gloch yn y prydnawn, gan derfysglu arfog, wedi ymdduo—o oddeutu 150 i 200 o bersonau. Hyrum a saethwyd gyntaf, ac a syrthiodd yn dawel, gan waeddi, "Yr wyf fi yn ddyn marw!" Neidiodd Joseph o'r ffenestr, ac a saethwyd yn farw yn yr ymgais, gan waeddi, "O Arglwydd fy Nuw!"—Saethwyd y ddau ar ol iddynt farw mewn modd creulawn, a derbyniodd pob un bedair pelen.

2. John Taylor a Willard Richards, dau o'r Deuddeg, oedd yr unig bersonau yn yr ystafell ar yr amser; clwyfwyd y blaenaf mewn dull ciaidd â phedair pelen, eithr ar ol hyny a wellhaodd; yr olaf, trwy addewidion Duw, a ddiangodd "heb hyd y nod dwll yn ei wisg."

3. Mae Joseph Smith, prophwyd a gweledydd yr Arglwydd, wedi gwneuthur mwy (oddieithr Iesu yn unig), er iachawdwriaeth dynion yn y byd hwn, nag unrhyw ddyn arall erioed a fu byw ynddo. Yn yr yspaid byr o ugain mlynedd, y mae efe wedi dwyn allan Lyfr Mormon, yr hwn a gyfieithodd trwy ddawn a gallu Duw, a bu yn foddion i'w gyhoeddi ar ddau gyfandir; danfonodd gyflawnder yr efengyl dragwyddol yr hon a gynnwysai i bedwar cwr y ddaear; dygodd allan y dadgudd-iadau a'r gorchymynion sydd yn cyfansoddi y llyfr Athrawiaeth a Chyfammodau hwn, a llawer o addysgiadau a chyfarwyddiadau doeth er lles dynion; casglodd lawer o filoedd o Saint y Dydd-iau Diweddaf; sylfaenodd ddinas fawr; a gadawodd enwog-rwydd ac enw nas gellir eu dyfetha. Bu fyw yn fawr, a bu farw yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd a'i bobl, ac megys y rhan fwyaf o rai eneinniedig yr Arglwydd yn yr amseroedd gynt, seliodd ei genadwri a'i weithredoedd â'i waed ei hun,—ac felly y gwnaeth ei frawd Hyrum. Yn eu bywyd buont un, ac yn angeu nis gwahanwyd hwynt!

4. Pan aeth Joseph Smith i Carthage i roddi ei hunan i fyny i ffug-ofynion y gyfraith, ddau neu dri diwrnod yn flaenorol i'w laddiad, dywedodd, "Yr wyf yn myned megys oen i'r lladdfa; ond yr wyf mor dawel â boreu haf; meddaf gydwybod ddirwystr tuag at Dduw a thuag at bob dyn. MI A FYDDAF FARW YN DDINIWED, A CHAIFF EI DDYWEDYD ETTO AM DANAF, EFE A LADDWYD MEWN GWAED OER." Ar yr un boreu, ar ol

i Hyrum wneyd ei hun yn barod i fyned—a gaiff ei ddywedyd i'r lladdfa? Caiff, canys felly y bu—efe a ddarllenodd y wahanran ganlynol, yn agos i ddiwedd y bummed bennod o Ether, yn Llyfr Mormon, ac a drodd y ddalen i lawr arni:—

5. "A bu i mi weddio ar yr Arglwydd ar iddo roddi grâs i'r Cenedloedd, fel y meddent gariad. A bu i'r Arglwydd ddywedyd wrthyf, os na feddant gariad, nid yw hyny ddim i ti, buost ti yn ffyddlawn; am hyny, dy wisgoedd ydynt lân. Ac oblegid i ti weled dy wendid, ti a wneir yn gryf, hyd y nod i eistedd i lawr yn y lle a barotoais yn nhrigfanau fy Nhad. Ac yn awr, yr wyf fi ——— yn rhoddi ffarwel i'r Cenedloedd; ïe, ac hefyd i'm brodyr y rhai wyf yn eu caru, hyd nes y cyfarfyddom o flaen brawdle Crist, lle y caiff pawb dynion wybod nad yw fy ngwisgoedd wedi eu llychwino â'ch gwaed chwi."—Mae y testamentwyr yn awr wedi marw, ac y mae eu testament mewn grym.

6. Yr oedd Hyrum Smith yn 44 mlwydd oed yn Chwefror diweddaf, a Joseph Smith yn 38 yn Rhagfyr diweddaf; ac o hyn allan cyfrifir eu henwau yn mhlith merthyron crefydd; ac adgoffir y darllenydd yn mhob cenedl fod "Llyfr Mormon," a'r llyfr hwn o Athrawiaeth a Chyfammodau yr eglwys, wedi costi gwaed goreu y bedwerydd ganrif ar bymtheg i'w dwyn allan er iachawdwriaeth byd colledig. Ac os gall y tân niweidio *pren ïr* er gogoniant Duw, pa mor rhwydd y llysg efe "goed crinion" er puro gwinllan llygredigaeth. Er gogoniant y buont fyw; er gogoniant y buont farw; a gogoniant yw eu gwobr dragywyddol. O oes i oes yr â eu henwau i lawr i genedlaethau dyfodol megys gemau i'r santeiddiedig.

7. Yr oeddynt yn ddieuog o unrhyw droseddiadau, gan iddynt gael eu profi lawer gwaith o'r blaen, ac yr oeddynt yn cael eu cadw yn ngharchar yn unig trwy gydfradwriaeth bradwyr a dynion drygionus; ac y mae eu *gwaed gwirion* ar lawr carchar Carthage, yn sel lydan ar Formoniaeth, nas gellir ei gwrthod gan unrhyw lys ar y ddaear; ac y mae eu *gwaed gwirion* ar arwyddlen Talaeth Illinois, ynghyd â ffydd ddrylliedig y Dalaeth fel ei gwystlwyd gan y Llywodraethwr, yn dystiolaeth o wirionedd yr efengyl dragywyddol, ag nas gall yr holl fyd ei gwarthruddo; ac y mae eu *gwaed gwirion* ar faniar rhyddid, ac ar freintlen fawr yr Unol Daleithiau, yn genadwr dros grefydd Iesu Grist ag a gyffwrdd â chalonau dynion gonest yn mhlith yr holl genedloedd: a bydd eu *gwaed gwirion* hwy, ynghyd â gwaed gwirion yr holl ferthyron a welodd Ioan o dan yr allor yn gwaeddi ar Arglwydd y lluoedd, hyd nes y dïalo efe y gwaed hwnw ar y ddaear. Amen.

J. DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.